Bodleian Libraries
UNIVERSITY OF OXFORD

This book is part of the collection held by the Bodleian Libraries and scanned by Google, Inc. for the Google Books Library Project.

For more information see:

http://www.bodleian.ox.ac.uk/dbooks

This work is licensed under a Creative Commons Attribution-NonCommercial-ShareAlike 2.0 UK: England & Wales (CC BY-NC-SA 2.0) licence.

Bt from R G Booth

4.7

1122 e. 109

COFIANT

Y PARCH. WILLIAM EVANS,

TONYREFAIL.

The Theological College,

BALA.


FROM THE LIBRARY OF

THE LATE PRINCIPAL,

THE

Rev. T. Charles Edwards, D.D.

MAY, 1900.



Yr eiddoch yn ddirodres

William Evans

W. Jones. Lith. Newport.

[illegible]

[illegible]

# [illegible] M EVANS,

## [illegible] FAIL.

[illegible]

[illegible] M.A.,

[illegible] PRIFYSG [illegible]

[illegible]

[illegible] ON.:

[illegible] YR AWDWR [illegible]

[illegible] COMMERCIAL

[illegible]



W. [illegible]es. Lith. Newport.

# COFIANT

Y PARCHEDIG

# WILLIAM EVANS,

# TONYREFAIL.

YN CYNWYS

EI GYNGHORION GWEINIDOGAETHOL,
AREITHIAU DIRWESTOL,
LLYTHYRAU, A NIFER O'I BREGETHAU.

GAN EI ŴYR,

Y PARCH. WILLIAM EVANS, M.A.,
O BRIFYSGOL GLASGOW.

GYDA DARLUNIAU GAN MR. W. MORGAN, PANT, DOWLAIS.

---

NEWPORT, MON.:
ARGRAFFWYD A CHYHOEDDWYD DROS YR AWDWR GAN W. JONES,
CAMBRIAN PRINTING WORKS, COMMERCIAL STREET.

1892.

BODLEIAN
P
13 OCT 1966
LIBRARY

# RHAGYMADRODD.

NID oes angen ond am ychydig eiriau yma. Y mae wedi cael ei ddyweyd fod mantais ac anfantais yn ngwaith perthynas agos yn ysgrifenu Cofiant. Gwnaethom y defnydd goreu y gallem o'r fantais, a gochelasom hyd y medrem yr anfantais. Yr ydym yn cydnabod yn ddiolchgar y cynorthwy gwerthfawr a gawsom gan amryw o gyfeillion yn yr adgofion a ddanfonasant neu a adroddasant i ni, ac hefyd yn y desgrifiadau o Wrthddrych yr hanes sydd yn dilyn a ymddangosasant trwy y Wasg o bryd i bryd. Yr ydym yn lled sicr fod nid ychydig o adgofion difyr ac addysgiadol ar gael nad ydynt wedi eu corphori yn y gwaith hwn. Er engraifft, hysbyswyd ni yn ddiweddar gan weinidog poblogaidd y cyngor a roddwyd iddo gan Mr. Evans, "Gofalwch bob amser fod genych bregeth;" ac wrth bregethwr ieuanc addawol, newydd adael yr Athrofa ac ar fyned i gymeryd gofal eglwys bwysig, ag yr oedd wedi cael boddlonrwydd mawr wrth ei wrandaw yn pregethu, efe a ddywedodd, "Gofala am dy ben ac am dy draed." Ond yr ydym yn hyderu y llwyddwyd yn y tudalenau sydd yn canlyn i gyfleu darlun cywir a chyflawn o un a lanwodd le amlwg yn y pwlpud Cymreig. Ac yr ydym yn ostyngedig yn cyflwyno y Cofiant i sylw ein cydwladwyr.

W. E.

*Pembroke Dock,*
*Chwefror 22ain,* 1892.

# CYNWYSIAD.


| | TUD. |
|---|---|
| Penod I.—Rhagarweiniol ... ... ... ... ... | 1 |
| Penod II.—1795—1814 ... ... ... ... | 20 |
| Penod III.—1814—1817 ... ... ... ... ... | 33 |
| Penod IV.—1818—1824 ... ... ... ... | 43 |
| Penod V.—1825 ... ... ... ... ... ... | 69 |
| Penod VI.—1826—1830 ... ... ... ... | 88 |
| Penod VII.—1831—1836 ... ... ... ... ... | 122 |
| Penod VIII.—1837—1842 ... ... ... ... | 155 |
| Penod IX.—1843—1855 ... ... ... ... ... | 192 |
| Penod X.—1856—1868 ... ... ... ... | 227 |
| Penod XI.—1868—1875 ... ... ... ... ... | 265 |
| Penod XII.—1875—1887 ... ... ... ... | 296 |
| Penod XIII.—Sylwadau, adgofion; nifer o Bregethau | 325 |
| Penod XIV.—1887—1891 ... ... ... ... | 363 |
| Mynegai ... ... ... ... ... ... ... | 397 |


Y DARLUNIAU.


| | | |
|---|---|---|
| Y Parch. William Evans ... | *yn gwynebu y Wyneb-ddalen.* | |
| Garthgraban ... ... ... | *yn gwynebu tudal.* | 16 |
| Caercurlas ... ... ... ... | ,, | 36 |
| Capel Tonyrefail ... ... ... ... | ,, | 242 |
| Tonyrefail ... ... ... ... | ,, | 323 |

## COFIANT Y PARCH.

# WILLIAM EVANS, TONYREFAIL.

---

## PENOD I.

### CYNWYSIAD.

Ei enedigaeth—Enwau ei rieni—Ei daid, Evan David o'r Rhagat—Tŷ Cwrdd y Cyfeillion—Teulu y Rhagat—Mrs. Taylor—Morgan David, Ty'nwaen—Ei dad, David Evan, Garthgraban—Ei ymuniad â chrefydd—Tonyrefail—Mrs. Prichard, Collena—Priodas David Evan ac Elisabeth Morgan—Melin Treferig—Garthgraban—Cymeriad Mrs. Evans—Hanes David Evans: ei lafur gyda'r achos yn Tonyrefail; ei gydflaenor Isaac James—Marwolaeth David Evans—Teulu y Garthgraban—Yr ŵyrion a'r orŵyrion—Crefydd yn glynu yn yr hiliogaeth.

GANWYD y Parchedig William Evans, Tonyrefail, ar un o ddyddiau olaf mis Ebrill, 1795, mewn amaethdy o'r enw Garthgraban Fach, yn mhlwyf Llantrisant, swydd Forganwg. Efe oedd fab ieuangaf, a'r ieuangaf ond un o blant David ac Elisabeth Evan o'r lle hwnw. Yr oedd ei dad, David Evan, yn fab i Evan David o'r Rhagat—tyddyn bychan sydd yn sefyll ar y chwith i'r ffordd sydd yn arwain o Bontypridd i bentref Tonyrefail, ac o fewn haner milldir i balasdy Treferig. Wedi gadael Pontypridd y tu cefn i ni, a chychwyn i gyfeiriad y gorllewin, yr ydym yn esgyn i ben Rhiw-coedcae; ac yna yn troi ychydig ar y dde, ac wedi cerdded heol wastad am ychydig bellder (tua milldir), yr ydym yn disgyn dros Rhiwcraigylan i lawr at yr afon Mychydd; ac ar ochr y ffordd, o fewn haner milldir i odre

y rhiw, yr ydym yn cael y Rhagat. Mae yr hen dŷ eto yn sefyll, ond nid oes neb yn byw ynddo; ac y mae'r tŷ a'r adeiladau ereill yn ei ymyl yn cael eu defnyddio at wasanaeth tyddyn arall cyfagos.

Yn y lle bychan dinod hwn yr oedd Evan David, tad David Evan, Garthgraban, a thaid y Parch. William Evans, yn byw yn nghylch cant a haner o flynyddoedd yn ol, ac yn dilyn y grefft o wniedydd. Yr oedd yn ddyn deallus a chrefyddol. Fe ddichon ei fod yn gymunwr yn eglwys Llantrisant, neu yn fwy tebyg yn y Capel Bach gerllaw Tonyrefail—pellder o tua milldir a haner o'r Rhagat. Wedi cyrhaedd godre Rhiwcraigylan, a chan adael Treferig ar y llaw dde, yr ydym yn croesi y Mychydd, ac yn myned heibio i ffermdy o'r enw Lawnd, ac yn esgyn i fyny at groesheol Ty-ar-heol, lle yr ydym yn dyfod i'r ffordd fawr sydd yn arwain o dref Llantrisant i gyfeiriad Cwm Rhondda ac Ystradyfodwg; ac wedi dilyn y ffordd hon heibio'r Pistyll-du, Pantybrâd, y Brynhyfryd, a'r Gellidawel, am lai na milldir, yr ydym yn dyfod at yr Eglwysdy sydd yn myned dan yr enw Capel Bach, yr hwn a godwyd at wasanaeth trigolion cŵr uchaf plwyf Llantrisant. Y mae llan y plwyf tua phedair milldir o'r Rhagat. Yr oedd moddion crefyddol yn cael eu dwyn yn mlaen yn yr adeg hono hefyd mewn capel bychan perthynol i'r Cyfeillion, o fewn ychydig gaeau i'r Rhagat. Yr oedd y capel yn sefyll ar lan y Mychydd, tua milldir yn nes i dref Llantrisant na Threferig. Er nad oes genym hysbysrwydd am hyny, y mae yn dra thebyg y byddai Evan David yn myned i'r cynulliadau yno yn achlysurol. Mae y cyrddau yno wedi darfod er ys ugeiniau o flynyddoedd, a'r capel wedi ei werthu, a'i droi yn dŷ byw. Nid oes ond un darn o'r meddiant wedi ei gadw gan y Cyfeillion, sef y fynwent; ac ar faen a osodwyd yn un o'i muriau y mae y dyddiad 1690, sef yn ddiameu y flwyddyn y codwyd y capel. Ond er fod y fynwent yn parhau yn eiddo i'r Cyfeillion, nid yw yn ymddangos fod claddedigaeth wedi

cymeryd lle ynddi er ys tri-ugain-a-deg o flynyddoedd. Mesuriad y capel ydoedd tua phymtheg-troedfedd-ar-ugain wrth ugain troedfedd; yr oedd oriel un ochr iddo, ac y mae gwaelod yr hen oriel yn awr yn rhan o lawr llofft y tŷ byw y trowyd y capel iddo, a'r hwn sydd yn aros dan yr enw Tŷ-cwrdd y Cwacers.

Pa un a fu Evan David o'r Rhagat yn mynychu y moddion yn nghapel y Cyfeillion ar lan y Mychydd, neu a oedd yn aelod yn y Llan neu y Capel Bach, sydd ansicr; ond y mae yn amlwg ei fod yn ŵr o dueddiadau ac yn dilyn arferion crefyddol. Yr oedd yn mhlith yr ychydig yn y cymydogaethau hyn y pryd hwnw ag oeddynt yn gallu darllen. Darllenodd lawer ar ei Feibl, ac y mae yn ymddangos ei fod yn dra hyddysg mewn hanesiaeth ysgrythyrol. Clywsom wyres iddo, sef y ddiweddar Mrs. Williams, Tydraw—merch a phlentyn ieuangaf ei fab David—yn dweyd iddo ddifyru llawer arni hi, pan yn blentyn, wrth adrodd iddi hanesion Beiblaidd. Yr oedd yr wyres yn cofio yn neillduol am dano yn myned dros yr hanes am Solomon a'i fawredd, ac am frenines y deau yn ymweled â Jerusalem, ac yn dychwelyd i'w gwlad ei hun, gan ddywedyd na fynegasid mo'r haner yr hyn a welodd. Y mae yr hanesyn canlynol yn egluro yn mhellach ei ddeall da a'i grefyddolder. Yr oedd ei fab David wedi cael ei wahodd i gynulliad o nodwedd ysgafn ac amheus. Hysbysodd y bachgen y peth i'w dad, gan amlygu tuedd i fyned. Agorodd y tad y Beibl, a darllenodd yn bwysleisiol y gair, "Gwna yn llawen, ŵr ieuanc, yn dy ieuenctyd, a llawenyched dy galon yn nyddiau dy ieuenctyd, a rhodia yn ffyrdd dy galon, ac yn ngolwg dy lygaid: ond gwybydd y geilw Duw di i'r farn am hyn oll." Ac wedi darllen, ychwanegodd, "Os galli di fyn'd yn awr, cerdda." Cafodd ei ddull difrifol yr argraff ddymunol ar y mab, yr hwn mewn canlyniad nid aeth i'r cynulliad y gwahoddasid ef iddo, ac fel y cawn weled, a amlygodd yn gynar yn ei fywyd yr un ysbryd crefyddol ag oedd yn meddiant y tad.

Yr oedd ei ŵyr, William Evans, yn coleddu meddwl uchel am dano. Un o'r troion diweddaf y gwelsom ef, dywedai, "Hen ŵr neis iawn oedd fy nhadcu." Yn mlynyddoedd olaf ei fywyd yr oedd yn cartrefu yn Nhŷ'rgraig, ar dir Garthgraban, lle y bu farw yn gyflawn o ddyddiau.

Yr oedd teulu y Rhagat yn gynwysedig o dri o feibion a dwy o ferched. Enwau y merched oeddynt Elisabeth (Bess) a Mary. Aeth y ddwy oddi cartref yn ieuanc i wasanaethu —un o honynt yn Llundain. Priododd y ddwy yn dda—y naill, sef Elisabeth, â swyddog milwrol o'r enw Taylor. Bu gyda'i gŵr am ddeuddeg mlynedd yn yr Iwerddon; ac o'r amser yr aeth gyntaf oddi cartref hyd ei dychweliad i breswylio yn ei hardal enedigol ar ol marwolaeth Mr. Taylor, yr oedd yn llawn ddeng mlynedd-ar-ugain; ond cadwodd ei Chymraeg, yn benaf (fel yr adroddwyd i ni) trwy ei gwaith yn arfer siarad yn yr iaith hono wrth ei châth. Ar ol dychwelyd adref yn weddw, bu fyw am beth amser yn ymyl ei brawd David, yn y Garthgraban Fawr, ac yna symudodd i drigianu yn nhref Llantrisant, lle y diweddodd ei hoes. Y chwaer arall a briodwyd â chadben llong, o'r enw Davies, a ganwyd iddi ddwy o ferched; a bu yn preswylio am flynyddau yn Abertawy, lle hefyd y bu farw. Yr oedd y ddwy chwaer yn wragedd o synwyr cryf, ac yn meddu graddau o foneddigeiddrwydd naturiol mwy na chyffredin; ac y mae yn sicr i addysg grefyddol eu cartref yn y Rhagat adael argraff a lynodd wrthynt dros eu holl fywyd, a therfynu, fel y mae pob lle i gredu oddiwrth yr hyn a glywsom am danynt, yn iachawdwriaeth iddynt.

Mewn perthynas i feibion Evan David, bu un o honynt farw yn ieuanc. Y nesaf ydoedd Evan, yr hwn a ymsefydlodd yn ei gymydogaeth enedigol, a chafodd deulu lluosog; bu farw yn y Castella Fach—lle i'r deau o'r Rhagat yn nghyfeiriad tref Llantrisant. Mab iddo ef ydoedd y diweddar Morgan David, Ty'nwaen, Llanilltyd Fardre, ac yr oedd yn aelod o'r eglwys Fethodistaidd yn Mryntirion. Dywedir

nad oedd ynddo fawr dawn, ond y mae un gair o'i eiddo a adroddwyd i ni ag sydd yn werth ei gadw mewn coffadwriaeth. Os dygwyddai y cyfarfod eglwysig fod yn drymaidd —yr olwynion yn troi yn afrwydd, ac feallai yn sefyll—dywedai Morgan David, "Frodyr, cer'wch i mewn i'r trysorau, mae yna ddigon o honynt." Mab arall i Evan David ydoedd Hopkin David, yr hwn a ymsefydlodd yn y Castella Fach, ar ol marwolaeth ei dad. Yr oedd mab arall o'r enw William, a merch o'r enw Jane. Y mae amryw yn perthyn i'r gangen hon o'r teulu mewn gwahanol fanau yn Sir Forganwg, a rhai wedi ymfudo i America ac Awstralia. Y mab arall o'r Rhagat ydoedd David, yr hwn, yn lle ymgyfenwi yn David David, a ddilynodd yr hen drefn Gymreig, trwy gymeryd enw cyntaf ei dad fel ei gyfenw, ac felly y daeth i gael ei alw yn DAVID EVAN.

Ganwyd David Evan yn y flwyddyn 1757. Pan yn fachgen, danfonwyd ef i un o Ysgolion Rhad Cylchynol y Parchedig Griffith Jones, Llanddowror, yr hon a gynelid ar y pryd yn y Castella, o fewn tua dwy filldir i'r Rhagat, lle y dysgodd ddarllen ac ysgrifenu yn dda, ac fe ddichon hefyd i rifyddu. Dygwyd ef i fyny i ddilyn galwedigaeth ei dad. Yr ydym eisioes wedi gweled fod Evan David yn ofalus am foesau da ei blant, a'i fod yn eu hyfforddi yn mhen eu ffordd, trwy eu maethu yn addysg ac athrawiaeth Gair Duw. Mae yn ddiameu iddo adrodd llawer o hanesion Beiblaidd yn nghlywedigaeth ei blant, fel y gwnaeth ar ol hyny i'w wyres fechan, Margaret Evan, o Garthgraban. Yr ydym hefyd wedi cael prawf fod y mab, David Evan, er yn ieuanc yn agored i ddylanwad da. Bu darlleniad adnod o'r Ysgrythyr, yn nghyda difrifwch ei dad, yn ddigon i'w rwystro i fyned i gyfeillach a allasai fod yn niweidiol iddo. Eithr yn fuan iawn fe gafwyd prawf helaethach fod mwy na pheth daioni yn y mab ieuanc o'r Rhagat. Elai yn achlysurol i gapel y Cyfeillion. Clywsom ei fab ieuangaf yn adrodd iddo un tro fyned yno i gyfarfod gweddi, ac i ddaeargryn gymeryd lle ar

y pryd yr oeddynt yn y tŷ-cwrdd. Dro arall, yr unig beth a ddygwyddodd yn y gwasanaeth ydoedd i wraig gael ei chynhyrfu i lefaru. Eithr yn yr adeg yr ydym yn awr yn cyfeirio ati, sef yn nghylch y flwyddyn 1770, dechreuodd y Methodistiaid bregethu ar Donyrefail; ac yr oedd David Evan yn un o'r rhai cyntaf a attynwyd i'w gwrandaw. Y mae Tonyrefail yn nghylch haner milldir i'r gorllewin o'r Capel Bach y cyfeiriwyd ato uchod, a thua dwy filldir i'r gogledd-orllewin o'r Rhagat. Ac fel y gallo y darllenydd sylweddoli safle y pentref ag y mae ei enw wedi bod yn gysylltiedig âg enw gwrthddrych y Cofiant hwn am ddeg-mlynedd-a-thriugain a throsodd, y mae i'w grybwyll ei fod yn sefyll ar y chwith i'r afon Lai, ac ar godiad tir yn gwynebu tua'r deau, ag sydd yn ei wneuthur yn lle serchog a dymunol: pum' milldir i'r gogledd o Lantrisant, a thair milldir i'r de-ddwyrain o'r Cymar a'r Porth yn Nghwm Rhondda. Tu cefn i'r pentref y mae palasdy bychan y Collena yn sefyll, ac yn y tŷ hwnw y dechreuodd y Methodistiaid gynal moddion crefyddol ar Donyrefail. Y boneddwr oedd yn byw yn y Collena, a pherchenog y lle, sef Evan Prichard, Yswain, a'i briod, fuont y prif offerynau i gychwyn yr achos Methodistaidd ar Donyrefail. Yr oeddynt wedi eu dwyn dan argyhoeddiad am eu hachos tragywyddol trwy weinidogaeth yr efengylydd enwog y Parch. David Jones, Llangan, yn fuan ar ol ei sefydliad ef yn 1768 yn y lle hwnw. Cawsant ganddo ef ac ereill o'r tadau Methodistaidd i fyned i bregethu yn y Collena; ac yn mhen ychydig iawn o amser fe ffurfiwyd yno eglwys. Yn y flwyddyn 1773, ymunodd David Evan â'r eglwys, pan nad oedd ond 16eg oed. Mae yn ymddangos iddo dynu sylw Mrs. Prichard yn fuan ar ol iddo ddechreu mynychu y cyfarfodydd, ac iddi ymholi pwy ydoedd y bachgen ieuanc parchus ei ymddangosiad a gwedd-aidd ei ymddygiad. Pan yr ymunodd efe â'r eglwys, nid oedd nifer yr aelodau ond ychydig, ac yr oeddynt yn mron oll yn wragedd. Yr oedd yr ychwanegiad atynt o ddyn

ieuanc, i bob ymddangosiad mor addawol, yn cael ei deimlo yn gaffaeliad nid bychan; a phrofodd felly mewn gwirionedd.

Ar y 6fed o Ebrill, 1777, priododd David Evan un o aelodau eglwys Tonyrefail, sef Elisabeth Morgan, merch i Richard Morgan, o'r Rhiw. Ar ol eu priodas buont yn byw am un-flynedd-ar-ddeg yn ymyl Melin Treferig, ar lan yr afon Mychydd, a thua milldir a haner islaw palasdy Treferig, ac yn nghylch haner y ffordd rhwng Tŷ-cwrdd y Cyfeillion a'r Castella. Yn nghylch y flwyddyn 1788, symudasant o Felin Treferig i'r Tygraig, gerllaw Garthgraban; ac yn fuan wedi iddynt fyned i fyw yno, cymhellwyd hwy gan y perchenog, Mr. Humphreys, i gymeryd fferm y Garthgraban Fach. Yr oedd David Evan, trwy ei gymeriad da a'i ddiwydrwydd, wedi enill ymddiried ei holl gymydogion. Er mai digon prin oedd ei fyd yn cychwyn, trwy hwsmoniaeth dda a phenderfyniad, gyda bendith Duw ar ei amgylchiadau, daeth yn alluog, yn mhen tua thair blynedd wedi symud i'r Tygraig, i gymeryd y Garthgraban Fach. Parhaodd Rhagluniaeth i wenu arnynt, ac yn fuan iawn daeth David Evan yn un o amaethwyr mwyaf cyfrifol a llwyddianus yr holl gylchoedd. Mae tir Garthgraban yn gorwedd ar y chwith i'r afon Lai, ac yn ymestyn i gyfeiriad y Mychydd, ac yn agos i haner y ffordd rhwng Tonyrefail a Llantrisant. Mae y tyddyn yn ffurfio copa a rhan o lethrau clogwyn sydd yn myned dan yr enw Twyn Garthgraban. Saif y tŷ yn agos i ben y Twyn, oddiar yr hwn y mae golygfa eang a phrydferth i'w gweled. I'r dwyrain fe welir dros y cwm y rheda y Mychydd drwyddo, a rhai o'r amaethdai sydd yn britho ochr Castella; i'r deau mae Twyn Llantrisant yn amlwg, a'r dref yn sefyll ar ei ben, ac o'r naill du iddo fe geir cip golwg o'r Fro; tua'r gorllewin, yr ochr arall i gwm Lai, y mae Garthmaelwg yn sefyll, ac fe welir y Rhiw ac amryw ffermydd ereill; ac i'r gogledd, y peth agosaf atom yw cefn Tylcha, yr hwn sydd rhyngom â Thonyrefail, ac yn ein rhwystro i'w weled, ond fe welir dros gefn Tylcha at y drum uchel sydd yn gorwedd

rhwng Tonyrefail a Chwm Rhondda, ac y mae Craig y Ddinas yn y golwg, a'r agoriad sydd yn arwain yn mlaen heibio Tre'william at Benygraig a Ffrwdamos; ac ar y llethrau sydd yn ymgodi i'r gogledd-orllewin yr ydym yn gweled amryw dyddynod, ac yn eu plith Caercurlas Uchaf, at yr hwn y gwneir cyfeiriadau pellach mewn penod ddilynol. Yn y lle hwn y treuliodd David Evan ac Elisabeth ei wraig y gweddill o'u hoes. Bu farw Mrs. Evans ar y 26ain o Ionawr, 1822, yn 66 oed, a Mr. Evans ar y 9fed o Chwefror, 1834, yn 77 mlwydd oed.

Dynes fechan fywiog, neu i ddefnyddio geiriau ei mab ieuangaf, "*sharp, smart*," oedd Mrs. Evans, Garthgraban. Yr oedd yn ddiarebol am ei thynerwch a'i charedigrwydd. Nid oedd neb tlawd yn cael eu troi ymaith oddiwrth y tŷ heb dderbyn rhywbeth ganddi. Yr oedd un diwrnod wedi dangos cymwynasgarwch tuag at gymydoges mewn cyfyngder—Gwyddeles oedd wedi priodi milwr o Gymro, yn awr allan o'r gwasanaeth, ac wedi dychwelyd i'w ardal enedigol —a hyny yn helaethach nag y meddyliai ei gŵr y dylasai; ac wedi iddo yntau ddywedyd rhywbeth i'r perwyl hyny, ei hateb ydoedd, "Taw son, hi fu'n ddigon aflwcus i gwrdd â Twm." Y mae un o'i hwyrion wedi ysgrifenu am dani fel hyn,—"Yr oedd gweled rhai mewn eisieu yn beth annyoddefol i'w theimladau tyner. Byddai bob amser yn teimlo yn anfoddog iawn tuag at segurwyr, a byddai yn arfer meddwl am helwriaeth a rhedeg ar ol cŵn hela fel arferiad segur. Un diwrnod yr oedd nifer o helwyr yn myned heibio'r tŷ wedi dal cadnaw, a'r olwg arnynt yn lluddedig, a gofynasant am fara a chaws; gyda'r gair, dygodd hithau dorth a chosyn allan, a thafellodd hwynt rhyngddynt. Er mai cymeriadau digon gwael oedd rhai o honynt, yr oedd eu gweled hwynt mewn eisieu bwyd yn myned ar unwaith at ei chalon. Hefyd, os dygwyddai fod un o'r gweithwyr—er na fyddai yn rhan o'i gyflog i gael ei fwyd—mewn prinder ymborth gyda'i waith, yr oedd hi yn sicr o gael hyny allan, a gofalai am

ddwyn tamaid i'r cloddiwr neu i'r dyrnwr caled yn yr ysgubor." Fel y dywedir am dani yn *Methodistiaeth Cymru*, "Yr oedd yn rhagori yn ei gras, ac yn rhinweddau ei rhyw." (Cyf. iii. 74.) Yr oedd gyda chrefydd o flaen ei gŵr; ac am beth amser bu yr eglwys ieuanc ar Donyrefail yn gynwysedig yn unig o wyth o wragedd, ac yr oedd hi yn un o honynt: eu henwau oeddynt Mrs. Prichard (nid yw yn ymddangos i Mr. Prichard ymaelodi, er ei fod yn mhob modd yn gefnogol iddynt), Mrs. Jenkins, Jane Morris, Mary James, Jane Powel, Margaret Morris, Elisabeth Morgans, ac Elisabeth Morgan o'r Rhiw. Jane Morris oedd yn rhagori mewn dawn canu, Mary James mewn dawn gweddi, "a'r ddwy Elisabeth yn rhagori yn eu gwres a'u ffyddlondeb;" yn naturiol yr oedd yr arweiniad yn disgyn ar yr arglwyddes etholedig o'r Collena. Bu yr Elisabeth a briodwyd â David Evan o'r Rhagat, ac a ddaeth wedi hyny yn adnabyddus fel Mrs. Evans, Garthgraban, "yn wresog yn yr ysbryd," ac yn ffyddlawn hyd angeu. Bu farw yn orfoleddus, gan ddywedyd, "Pob peth sydd dda."

Crybwyllwyd eisioes fod Mrs. Evans yn ferch i Richard Morgan o'r Rhiw—tyddyn ar yr ochr orllewinol i'r Lai, tua milldir a haner o Donyrefail. Aeth ei thad yn ol yn y byd, a bu rhaid iddo werthu y lle, a symudodd i'r Dyffryn Isaf, gerllaw Llantrisant. Yn y flwyddyn 1770, aeth ei ferch Elisabeth, pan yn bedair-ar-ddeg oed, at Mrs. Prichard i'r Collena, i gynorthwyo gyda magu y plant. Tra yno y cafodd grefydd, ac yr ymunodd âg eglwys Iesu Grist; ac oddi yno y priodwyd hi ar y dyddiad a nodwyd. Chwaer iddi ydoedd Mrs. Bevan (Jane), mam y diweddar Richard Bevan, Caerdydd, ac Evan Bevan, Ynysallan, Llantrisant, a blaenor yn yr eglwys Fethodistaidd yn y dref hono am nifer maith o flynyddoedd. Chwaer arall iddi ydoedd Mrs. Davies (Margaret), Pencoed, Llanilid, mam Mrs. Evan Bevan, Ynysallan. Chwaer arall iddi (Barbara) oedd mam y diweddar Richard Jones o'r Hendy, gerllaw Miskin, ac wedi hyny o

Benybont-ar-Ogwr. Yr oedd iddi dair ereill o chwiorydd—Anne (yr hon a fu yn byw yn y Felin-newydd), a Mary, ac Alice; ac hefyd dau frawd, sef Richard a David, am y rhai nid oes genym ddim crybwylliadau i'w cofnodi.

Fel y canlyn y dywed awdwr *Methodistiaeth Cymru* am Mr. Evans o Garthgraban:—"Bendithiwyd ef â mesur helaeth o synwyr cyffredin, yn gystal ag â gras mawr i fod yn ffyddlawn. Codwyd ef oddiwrth y nodwydd a'r astell i fod yn un o'r tyddynwyr mwyaf cyfrifol yn y fro, ac yn un llawn cymaint ei ddylanwad a neb arall o fewn y plwyf. Ni oddef ein gofod i ni ymhelaethu, ond y mae y desgrifiad a ddyry ein hysbysydd o'r gŵr defnyddiol hwn yn ei ddesgrifio fel gŵr tra dyddorol. Gŵr craff ei lygad, parod ei ddawn, helaeth ei wybodaeth, heddychlon ei ysbryd, tawel ei dymer; mewn gair, yn grynhoad o rinweddau, fel ag i'w wneuthur yn oracl ei fro, at yr hwn y cyrchent am gyngor yn mhob dyryswch, ac i'r hwn yr ymostyngent mewn llawn ymddiried yn ei ddoethineb a'i onestrwydd." (Cyf. iii. 74.) Yr "hysbysydd" y cyfeirir ato uchod ydoedd y diweddar Mr. Watkin Williams, Pencoed, yr hwn oedd ŵyr i Mr. Evans, Garthgraban, ac a glywsai gymaint am dano gan ei fam a pherthynasau ereill, ac hefyd ydoedd ei hunan yn ddigon hen i'w gofio. Buasai yn dra manteisiol pe buasai yr ysgrif a barotodd Mr. Watkin Williams ar gyfer *Methodistiaeth Cymru* wrth law. Y mae y crybwylliadau a wnaed eisioes mewn rhan yn egluro yr amlinelliad uchod o gymeriad tad gwrthddrych y Cofiant hwn.

Yn awr, ni a geisiwn yn mhellach i gyflenwi yr amlinelliad, ac i wneuthur y darluniad o'r hyn ydoedd David Evans, Garthgraban, yn fwy cyflawn. Mewn cysylltiad â'i amgylchiadau tymhorol yr oedd yn ofalus a diwyd, ac yn hynod drefnus, yn gweled yn mhell yn mlaen, ac yr oedd bob amser yn brydlawn. Pan y cymerodd fferm y Garthgraban, cafodd nid ychydig o gymhorth gan ei gymydog, Thomas Davies, Craigfathew, yr hwn, yn ol traddodiad yr ardal, oedd yn

berchen "pedwrau aur." Yr oedd gan Mr. Davies yr ymddiried llwyraf yn Mr. Evans. Yn y drafodaeth rhyngddynt gofalai yr olaf yn fanwl i gadw at ei air ; a gallai fyned pryd y mynai i Graigfathew am fenthyg tra y bu angen am hyny. Gyda golwg ar hyn yr oedd yn ddywediad gan David Evans —"Gofalwch am eich gair, a chwi ddewch i fyny wedi hyny." Fel yr oedd ei deulu yn lluosogi, a'i feibion yn tyfu i fyny i'w gynorthwyo, cymerodd diroedd ereill y naill ar ol y llall i'w hamaethu, yn ychwanegol at y Garthgraban—Craig-y-llan, Bragdy Llantrisant, Dyffryn Isaf, y Lâc, gerllaw Pontfaen, a rhan o dir Collena. Bu yn ffodus i gael rhai o'r lleoedd hyn ar brydles ac ar delerau manteisiol. Yr oedd yn amaethu yn dda, ac am hyny yr oedd y tiroedd yn gwella dan ei law; ac fe gafodd hefyd y fantais bwysig i brisiau pethau godi. Yr oedd yn dal Garthgraban ar brydles oddiwrth y perchenog, yr hwn oedd yn byw yn y Garthgraban Fawr. Un tro gwnaeth y tir-feddianydd gynyg beiddgar tuag at gael mwy o ardreth oddiwrth ei ddeiliad na swm y cytundeb. Yr oedd David Evans wedi myned i dŷ y meistr tir i dalu y rhent, a gosododd yr arian ar y bwrdd o'i flaen. Ysgrifenodd y perchenog ddangosiad am yr arian, eithr yn lle ei roddi yn llaw ei ddeiliad taflodd ef ar y tân, gan olygu hefyd i gymeryd yr arian, ac felly gwneud i'r deilad dalu ei rent eilwaith; ond ar darawiad amrant gwelodd David Evans y peth—tynodd yr arian oddiar y bwrdd i'w het, a brysiodd i gymeryd y papyr oddiar y tân, ac er ei fod mewn rhan wedi llosgi, cafodd ei fod yn dystiolaeth ddigon eglur a sicr ei fod wedi talu yr ardreth, ac aeth adref. Dilynwyd ef gan wraig y boneddwr, yr hon a ymbiliai arno am yr arian. Ei unig atebiad ar y pryd ydoedd, "Mi gymeraf amser i ystyried y peth." Eithr ni fu yn hir cyn dychwelyd yr arian. Mae yr engraifft hon yn dangos mai nid dyn i gellwair âg ef oedd David Evans, Garthgraban. A dyma esiampl arall sydd yn egluro nid yn unig ei gyflymder, ond hefyd ei annibyniaeth ysbryd. Un diwrnod, danfonodd

y meistr tir ei wâs ato i "ofyn am fenthyg ceffyl, ac onite —," pryd yr atebodd, "Dywed wrth dy feistr nad oes genyf geffyl i'w fenthyca, a phe tae —." Ond er y cyffyrddiadau achlysurol hyn, yr oedd y boneddwr o'r Garthgraban Fawr a'r gŵr o Garthgraban Fach yn byw ar y cyfan yn hollol gymydogol, â phob teimlad da yn ffynu rhwng y ddau deulu. Fe ddichon y dylid egluro ei fod yn ymddangos nad oedd amgylchiadau y tir-feddianydd yn helaeth iawn; ac ar ol i brisiau pethau godi yn nechreu y ganrif bresenol yr oedd y tiroedd yn dyfod o fwy o werth nag a fuasent, yr hyn a fu yn fantais fawr i David Evans, yn enwedig gan fod ganddo brydles, yn nygiad i fyny ei deulu lluosog.

Fel y gwelsom yn barod, cymerodd David Evans iau crefydd arno yn ieuanc, a daeth yn fuan iawn i wneuthur ei hun yn ddefnyddiol. Y waith gyntaf yr etholwyd blaenoriaid gan eglwys Fethodistaidd Tonyrefail, yr oedd efe yn un a ddewiswyd i wasanaethu yr achos yn y swydd hono. Efe hefyd benodwyd yn drysorydd yr eglwys; ac fel rheol yr oedd gweddill yn ddyledus iddo ar ddiwedd y flwyddyn, ond yn ddieithriad byddai efe yn gwastadhau y cyfrif ei hunan, fel na byddai yr achos yn cael dechreu blwyddyn newydd dan ddyled. Enw ei gyd-flaenor oedd Isaac James, yr hwn oedd yn cadw melin Tonyrefail, ac adwaenid ef yn gyffredin fel Isaac o'r Felin; gŵr o alluoedd naturiol da, ac o gymeriad crefyddol pur, ac yn meddu dylanwad mawr ar ei holl gymydogion. Un o adgofion ein mebyd ydyw y parchedigaeth dwfn a deimlid gan bawb yn ardal Tonyrefail at Isaac James, a'r sylw manwl a'r gwrandawiad astud a roddid i'w anerchiadau synwyrlawn ar ddiwedd yr ysgol yn mron bob Sabboth. Y mae ei goffadwriaeth yn parhau yn fendigedig. Fel hyn y dywedai ein taid am y ddau flaenor, fel arweinwyr y cyfarfod eglwysig,—"Yr oedd yn *treat* bod yn y *society* gyda 'nhad ac Isaac James. Yr oedd Isaac James feallai yn fwy o feddyliwr, ond fy nhad oedd yr areithiwr goreu;" ac adroddai ddywediad o eiddo un Jenkin Lewis am ei dad,—

"Y mae gan Dafydd Evan saethau, ond y mae nhw yn y cwmwl; 'does neb yn eu gweled nes y b'o nhw yn glynu ynoch." Yr oedd y gŵr hwn yn aelod o eglwys Tonyrefail, ac ar un achlysur bu annghydfod rhyngddo ac aelod arall o'r enw Jenkin Rhydderch, a bu geiriau câs rhyngddynt. Dygwyd yr achos ger bron yr eglwys; ac yn yr ymdriniaeth, ar ol i Jenkin Lewis ollwng allan luaws o ymadroddion cryfion mewn nwydau gwyllt o flaen y brodyr, gwnaeth Rhydderch y sylw, "fod gair fel hyn yn rhywle—'Gochelwch gŵn,' a bod yn rhaid iddo yntau ofalu rhag cael ei larpio," gan feddianu ei hun yn hollol, heb gael ei gynhyrfu i'r graddau lleiaf gan yr hyn a ddywedasid gan ei gyd-aelod. Ond atebwyd ef yn y fan gan y blaenor,—"Ie, ci yw y *spaniel*, a chi yw'r watci; pwy wahaniaeth sydd rhyngddynt? ci yw'r naill a chi yw'r llall, ac nid lle i gŵn yw tŷ Dduw." Bu y geiriau hyn yn derfyn ar y cweryl. Fe ddichon mai ar yr achlysur hwn, neu yr ydoedd yn flaenorol i gyfarfod eglwysig pan yr oedd rhyw fater arall o ddysgyblaeth i ddyfod ger bron, y dywedodd Mrs. Prichard, Collena, wrtho, "Dafydd, rhaid i ti dynu dy fenyg *velvet* oddiar dy ddwylaw heno." Hynaws ydoedd ei ddull cyffredin ef, yn gynyrch naturiaeth serchoglawn, ac yr oedd yn hynod o enillgar ei ffordd wrth ymwneud â dynion. "Dyn hawddgar iawn ydoedd," fel y dywedai ei fab ieuangaf am dano. Bu hyn yn ddiau o wasanaeth mawr iddo yn ei ymdrech gydag ereill i sefydlu Ysgol Sabbothol ar Donyrefail. Mae yn ymddangos mai efe fu y prif offeryn i ddwyn hyny oddi amgylch, ac arno ef yn benaf y disgynodd y gwaith o ddwyn yn mlaen yr Ysgol, yr hyn a wnaed gyda graddau helaeth o lwyddiant. Yr oedd wedi etifeddu archwaeth at wybodaeth Ysgrythyrol oddiwrth ei dad, ac y mae yn ddiameu iddo gael symbyliad yn yr un cyfeiriad yn yr ysgol gylchynol y bu ynddi yn Nghastella; ac ni bu efe na segur na diffrwyth mewn ymdrech i helaethu ei wybodaeth o Air Duw. Yr oedd yn dra hyddysg yn amseryddiaeth y Beibl. Darllenodd lawer hefyd

ar weithiau Gurnall, a Williams, Pantycelyn, a rhai awdwyr ereill. Meddai fwy o wybodaeth gyffredinol na'r rhan amlaf o'i gymydogion, ac yr oedd ganddo hoffder neillduol at sêryddiaeth. Y mae yn hawdd deall gan hyny ei fod "yn oracl ei fro;" neu fel y dywedai ei fab ieuangaf, "Y dyn pertaf yn yr holl wlad oedd fy nhad." Gellir cymhwyso ato y geiriau hyny, "Yr oedd yn ddoeth o ymadrodd hefyd," neu yn ol y cyfieithiad Saesneg, "yn gall mewn materion" *(prudent in matters)*. Yr ydoedd yn arbenig felly gyda golwg ar bob math o amgylchiadau mewn bywyd; a chydnabyddid ef gan ei holl gymydogion fel cynghorwr doeth a dyogel. Adroddir iddo unwaith gynghori pâr ieuanc newydd briodi fel hyn,—"Chwythed y gwynt fel y myno, ond peidiwch byth ei adael i chwythu rhyngoch." Clywsom wyres iddo yn adrodd hanes am dano yn cynghori pregethwr ieuanc gyda golwg ar lywodraethiad ei lais. Y pregethwr ydoedd y diweddar Mr. John Davies, Casnewydd-ar-Wysg. Dygwyddai fod yn pregethu ar noson waith yn Llantrisant, ac yr oedd y blaenor o Garthgraban yn bresenol yn yr oedfa. Ar ol y bregeth yn y llety, sef yn nhŷ ei ferch hynaf (Mrs. Morgan), cafodd gyfleusdra i ymddyddan â'r pregethwr ieuanc, a dywedodd wrtho, "Mae yn ddiameu eich bod yn ddifrifol iawn yn eich pregeth heno, ond yr oeddych yn dodi gormod ar eich llais; byddai eich pethau yn fwy effeithiol ond i chwi gadw eich llais dan fwy o gymedrolaeth; y mae eisieu doethineb mewn gwaeddi." Cymerwyd y cyngor yn garedig gan Mr. Davies—nid oedd ond newydd dechreu pregethu ar y pryd—ac ni bu y cyngor yn anfuddiol iddo dros ei oes.

O herwydd lluosowgrwydd ei ofalon amgylchiadol nid elai Mr. Evans, Garthgraban, ond yn anfynych i Gyfarfod Misol ei sir, ac ni welid ef nemawr byth mewn Cymdeithasfa Chwarterol. Mewn cyfeiriad at hyn gofynwyd unwaith i'w fab ieuangaf gan y Parchedig Ebenezer Morris, "Onid oes modd i ni gael gan eich tad i ddyfod i'r Cymdeithasfaoedd?" Ond yn ei gartref bu yn ffyddlawn hyd y diwedd. Yr oedd

yn cadw y ddyledswydd deuluaidd yn ddifwlch, foreu a hwyr, yn ei dŷ ei hun; ac arferai yr un manylrwydd, diwydrwydd, a deheurwydd gydag achos crefydd ar Donyrefail ag oeddynt mor amlwg ynddo gyda'i amgylchiadau tymhorol. Fel y gwelsom eisioes, collodd ei briod yn y flwyddyn 1822, ac yn mhen pedair blynedd wedi hyny collodd ei olwg, ac felly bu yn ddall am yr wyth mlynedd olaf o'i fywyd. Erbyn hyny yr oedd yr oll o'i blant wedi priodi, ac un o'i feibion a'i deulu yn cartrefu gydag ef yn y Garthgraban. Eithr os collodd ei olwg ni chollodd dim o'i graffder; nid oedd dim yn cael dianc heb ei fod ef yn mynu ei wybod. Parhaodd mewn meddiant llawn o'i gyneddfau hyd y diwedd. Bu farw mewn tangnefedd. Ei eiriau diweddaf oeddynt, "Mae yn dda i mi fy mod wedi gwneuthur cyfamod â'r Arglwydd cyn yn awr." Claddwyd ei weddillion yn yr un bedd a'i briod, yn mynwent y plwyf, lle hefyd y claddesid pedwar o'u plant.

Ganwyd i David ac Elisabeth Evans ddeuddeg o blant. Bu farw pedwar o honynt yn ieuanc, sef Richard, Mawrth 15fed, 1787, yn dair mlwydd oed; Richard, Gorphenaf 5ed, 1788, yn naw mis oed; Evan, Gorph. 2il, 1789, yn dair mlwydd oed; ac Alice, Medi 9fed, 1798, yn 13eg oed. Yr wyth ereill a dyfasant i fyny, ac a ddaethant yn benau teuluoedd, a chawsant (gydag un eithriad) fyw i oedran teg. Yr hynaf oedd Mary, yr hon a briodwyd â Richard Morgan, Llantrisant, ac un o flaenoriaid yr eglwys Fethodistaidd yn y dref hono, a chafodd ddeuddeg o blant. Bu farw Mawrth 14eg, 1848, yn 70 mlwydd oed. Un o'i geiriau diweddaf ydoedd, "Yr wyf wedi cael yn ol yr addewid." Yr ail ydoedd David, yr hwn a ymsefydlodd yn Bragty Llantrisant, un o'r lleoedd a ddaliasid gan ei dad. Bu ei gartref, fel eiddo ei chwaer, yn llety i'r pregethwyr a elent i Lantrisant am flynyddoedd lawer. Yr oedd ei deulu yn gynwysedig o bump o feibion, a mab i un o honynt ydyw yr Henadur David Evans, Llundain, a'r Arglwydd Faer am 1891—1892. Bu farw yn y flwyddyn 1826, yn 47ain oed. Y trydydd oedd Thomas, yr hwn ar ol

ei briodas a fu yn trigianu am beth amser yn y Dyffryn Isaf, ac yna am y gweddill o'i oes yn Cornel Parc—lle tua milldir a haner y tu deau i Lantrisant, ar ochr dde y ffordd fawr i Gaerdydd. Daeth yn un o brif dyddynwyr ac yn un o'r dynion mwyaf cyfrifol a dylanwadol yn yr holl gylch. Yr oedd yn ŵr o alluoedd naturiol annghyffredin. Yr oedd yn hynod o hyfforddus a medrus yn ei holl drafodaethau gyda phawb y deuai i gyffyrddiad â hwynt. Edrychid i fyny ato gan bob dosbarth o'i gydwladwyr, a bu am flynyddoedd yn cael ei ystyried yn brif ddyn ei blwyf. Y mae rhai o'i eiriau yn aros ar lafar y wlad hono. Er engraifft: yr oedd un dydd Sadwrn yn Nghaerdydd yn gwrandaw ymddyddan ar faterion amaethyddol, a gofynwyd am ei syniadau yntau, pryd yr atebodd, "Yn Cornel Parc yr wyf fi yn ffermu." Dro arall, ar ddydd marchnad, yn Mhontypridd, gofynwyd iddo i fyned gyda nifer o'i gyd-amaethwyr i giniawa yn un o brif dafarndai y lle; ei ateb oedd, "Na, yn nhre' yr wyf fi yn hoffi byw yn dda, gyda Barbara a'r plant." Cododd deulu yn gynwysedig o wyth o feibion a dwy ferch. Bu farw ar y 9fed o Fai, 1857, yn 75 mlwydd oed. Pan aeth ei frawd ieuangaf i ymweled âg ef yn ei gystudd olaf, dywedodd wrtho, "Ymdrechwr da wyt ti, Billi, dywed air drosto' i." Yr oedd wedi ei dderbyn yn aelod eglwysig yn Llantrisant rai blynyddoedd cyn ei farwolaeth. Y nesaf o blant Garthgraban a dyfodd i fyny oedd Richard, yr hwn a briododd ei gyfnither o'r Ynysallan, a ganwyd iddynt ddeg o blant. Aeth i fyw yn Maesyfelin yn 1822; ac efe fu y prif offeryn i gychwyn yr achos Methodistaidd yn Nghapel Seion, Brynsadler—lle tua dwy filldir a haner i'r de-orllewin o Lantrisant, ar y ffordd i Bontfaen. Agorwyd y capel cyntaf yno yn 1829, a dewiswyd Richard Evans yn un o flaenoriaid cyntaf yr eglwys. Gŵr o deimladau bywiog, penderfynol ei ffordd, cydwybodol a chyson ei rodiad ydoedd; cadwai y ddyledswydd deuluaidd yn ddifwlch, a byddai yn mhob cwrdd yn y capel; mynychai y Cyfarfodydd Misol hefyd, ac yr oedd




GARTHGRABAN.

yn dwyn mawr sêl dros drefniadau y Cyfundeb. Bu farw Ionawr 22ain, 1867, yn 77 mlwydd oed. Y nesaf ato ef oedd Susannah, yr hon a anesid Mehefin 28ain, 1792. Enw ei phriod oedd Morgan Morgan; ganwyd iddynt ddeuddeg o blant, y rhai oll a fagwyd i fyny ac a ddaethant yn benau teuluoedd, ac oeddynt hyd yn ddiweddar oll yn fyw. Bu Mrs. Morgan farw yn y flwyddyn 1867, yn 75 mlwydd oed. Y chwechfed o blant Garthgraban a dyfodd i fyny, a'r ddegfed o'r holl deulu, ydoedd Evan, yr hwn oedd y diweddaf o honynt i briodi, ac a arosodd gartref gyda'i dad, a bu efe a'i briod yn dyner iawn iddo ac yn dra gofalus am dano yn mlynyddoedd olaf ei fywyd, wedi iddo golli ei olygon. Mab, a phriod, a thad, a brawd hynod garuaidd ydoedd Evan Evans, yn llawn tynerwch fel ei fam, a bendithiwyd ef yn helaeth âg ysbryd crefydd. Gwasanaethodd yr achos yn Nhonyrefail fel blaenor am lawer o flynyddoedd. Nifer ei deulu ef oedd wyth o blant. Bu farw Mehefin, 1880, yn 86 mlwydd oed. Y nesaf o'r teulu oedd WILLIAM, gwrthddrych yr hanes sydd yn dilyn. A'r ieuangaf oedd Margaret; daeth yn briod i un Thomas Williams, brodor o sir Frycheiniog, ac ymsefydlasant mewn tyddyn yn ardal Tonyrefail, ond a fuont am dros haner can' mlynedd yn Tydraw, Gelliwyon. Ganwyd iddynt ddeg o blant. Cyrhaeddodd Mrs. Williams yr oedran mawr o 86 mlwydd. Bu farw Mehefin 17eg, 1884. Iddi hi yr ydym yn ddyledus am hyny o hanes sydd genym am ei thaid, Evan David o'r Rhagat. Yr oedd ganddi gôf rhagorol. Cawsom y mwynhad o dreulio ychydig oriau gyda hi yn y Tydraw yn haf 1883; ac mewn atebiad i luaws o gwestiynau a ofynem iddi, adroddodd lawer o bethau am ei thad a'i brawd ieuangaf gyda dealldwriaeth a bywiogrwydd oedd mewn gwirionedd yn synedig. Fel ei thad a dau o'i brodyr, sef Richard ac Evan, bu yn ddall am rai blynyddoedd cyn ei marwolaeth. Dyoddefwyd y brofedigaeth gan y tri yn ostyngedig a dirwgnach, ac ymadawsant am wlad y goleuni yn gyflawn o dangnefedd.

Yr ydym wedi gweled fod wyrion David Evans yn nifer mawr. Mae yr orwyrion yn genedlaeth luosog, ac erbyn hyn y mae eu plant a'u hwyrion hwythau yn amlhau yn fawr. Fe ddywedir fod deg-a-thriugain o'i ddisgynyddion yn bresenol yn ei gladdedigaeth. Yn mhen haner can' mlynedd ar ol ei farwolaeth, sef yn 1884, gwnaeth nifer o'i wyrion a'i orwyrion ymuno i osod careg newydd ar ei fedd, fel arwydd o barch i'w goffadwriaeth fel tad y teulu. Yr oeddid yn teimlo ei fod yn haeddu gwneuthur o honom hyn iddo. Yr oedd wedi gadael ar ei ol i'w had a'i epil y gynysgaeth oreu o "enw da." Yr oedd yn briod a thad serchog a charuaidd, ac eto yn ymgadw dan reolaeth barn dda; "yr oedd yn *sense* ac yn serch i gyd," chwedl ei fab ieuangaf. Yr oedd yn feddylgar ac ymadroddus, yn ddiwyd a darbodus, yn defnyddio i'r fantais oreu y cyfleusdra presenol, ac yn gallu gweled yn mhell i'r dyfodol; a dysgodd y wers bwysicach o wneuthur y goreu o'r ddau fyd, a meddai gymeriad crefyddol cryf a chyfan.

Y mae yn llawenydd genym i allu ychwanegu fod gair o eiddo'r enwocaf o'r teulu—"fod crefydd yn rhedeg gyda'r gwaed, er nad trwy'r gwaed,"—wedi ei wirio yn helaeth yn nghenedlaeth wyrion yr henuriad o Garthgraban, ac yn parhau i gael ei wirio yn nghenedlaethau eu plant a'u hwyrion hwythau. Cafodd efe ei hun y fraint o fagu un pregethwr a dau flaenor. Yn mysg ei wyrion yr ydym yn cael dau weinidog yr efengyl, sef y Parch. William Morgan, periglor Llandderfel, a'r diweddar Mr. Watkin Williams, Pencoed; ac amryw o flaenoriaid—David Evans, Caerdydd; William Evans, Pendeulwyn; David Evans, Tonyrefail; William Williams a David Williams, Bryntirion; Evan Morgan, Croesfân; John Morgan, Bryngoleu, Llantrisant; Thomas Morgan, Llanilltyd Fawr; heblaw amryw wyresau amlwg eu duwioldeb, ac mewn gwirionedd yn ddiaconesau yn yr eglwysi y buont neu y maent yn perthyn iddynt. Yn mhlith yr orwyrion hefyd y mae un gweinidog a blaenoriaid

i'w cael, a llawer ereill sydd yn ddefnyddiol mewn cylch llai cyhoeddus gyda gwaith yr Arglwydd. Y mae arwyddion gobeithiol am y genedlaeth nesaf o'r teulu. Bu farw yn ddiweddar weinidog ieuanc oedd yn ŵyr i'w wyres—Mrs. Thomas, Bryntirion—sef Mr. William Thomas, gweinidog y Bedyddwyr yn y Coed-duon. Yr oedd yn bregethwr rhagorol, a dysgwylid pethau da am dano; ond y blodeuyn ar ei waith yn ymagor a syrthiodd yn yr angeu, a theimlwyd ei symudiad mor fuan ar ol ei gychwyniad allan gyda gwaith y weinidogaeth yn siomedigaeth drom. Y mae amryw perthynol i'r un genedlaeth ag y mae genym bob lle i gredu pethau da am danynt, ac i obeithio y byddant o wasanaeth i achos yr Arglwydd Iesu yn eu gwahanol gylchoedd. Eithr pa faint bynag ydyw ein dyled, y naill genedlaeth ar ol y llall, i'n hen-daid o Garthgraban, yr ydym dan rwymau i gydnabod, ac yr ydym yn gwneud hyny gyda diolchgarwch diffuant, fod gweinidogaeth ei fab ieuangaf—William Evans, Tonyrefail—am oes mor faith, dan fendith Duw, wedi cyfranu yn helaeth tuag at barhad crefydd a duwioldeb yn yr hiliogaeth. Efe a fedyddiodd lawer o honom, ac a weddiodd drosom wrth wneud hyny; a bu ei enw yn ddylanwad er daioni yn yr holl deulu, megys ag y bu ei weinidogaeth yn fuddiol a bendithlawn i laweroedd. Bellach yr ydym yn myned yn mlaen i gyflwyno ei hanes i'r darllenydd.

# PENOD II.

## 1795—1814.

### CYNWYSIAD.

Dyddiad ei enedigaeth—Ei fedydd—Y Parch. R. Prichard a'i chwiorydd, "*Ladies* y Ton"—Ei febyd—Yn pregethu i'w chwaer ieuangaf a phlant ereill—Yn arwain yr ychain—Yn yr ysgol yn Mhontfaen—Ymladdau bechgyn y dref a bechgyn y wlad—Yn cymeryd gwersi gan Mr. Fred. Humphreys, Garthgraban Fawr—Gartref gyda'i dad yn gweithio ar y tir—Blynyddoedd ei ieuenctyd—Ei droedigaeth—Y Parch. Evan Jones.

NID oes sicrwydd hollol am y dydd o'r mis y ganwyd Mr. William Evans. Yr oedd efe ei hun yn ystyried ei fod yn cael pen ei flwydd ar yr 28ain o Ebrill. Ar y dyddiad hwn yn 1888, ysgrifenodd yn ei ddydd-lyfr ei fod yn 93 oed. Y mae pob sicrwydd am flwyddyn ei enedigaeth, canys y mae y cofnodiad o'i fedydd yn nghofrestriad y bedyddiadau perthynol i Eglwys Llantrisant, fel hyn :—" 1795, *June 30th, William, son of David Evans, Garthall, and Elizabeth ux*$^{r}$.——" (1795, Mehefin 30ain, William, mab David Evans, Garthgraban, ac Elisabeth ei wraig.) Nid yn y llan modd bynag, ac nid gan offeiriad y plwyf y bedyddiwyd ef, ond yn y Garthgraban, a chyflawnwyd y gwasanaeth gan y Parch. Richard Prichard, mab hynaf Mr. a Mrs. Prichard, Collena. Hwn ydoedd y bedydd cyntaf i Mr. Prichard weinyddu ynddo; yr oedd newydd dderbyn ei lawn urddau fel offeiriad Eglwys Loegr. Oedwyd bedyddio y mab bychan o Garthgraban nes y byddai i hyny gymeryd lle, fel ag i Mr. Prichard gael gweinyddu yr ordinhad. Yr oedd y rhieni yn awyddus am hyny; ac y mae yn ymddangos fod mam anrhydeddus yr offeiriad ieuanc yn dymuno yr un peth, canys yr oedd cyfeillgarwch cynhes yn ffynu rhwng y teulu parchus o'r Collena a'r teulu o Garthgraban. Fel y gwelsom, buasai Mrs. Evans,

cyn ei phriodas, am tua saith mlynedd yn ngwasanaeth Mr. a Mrs. Prichard yn y Collena. Aethasai yno yn nghylch yr amser y ganwyd eu merch Susannah, ac yr oedd wedi magu llawer arni. Cyflawnodd yr un gwasanaeth dros ereill o'r plant, ac yn enwedig Richard. Yr oedd nifer y teulu o'r Collena yn naw o blant—dau fab a saith merch. Y mab arall ydoedd y Parch. Evan Prichard, am beth amser offeiriad Ystradyfodwg, a'r Capel Bach, Tonyrefail, yr hwn a fu farw ar y 29ain o Dachwedd, 1827, yn 49 oed. Ganesid ef gan hyny yn 1776, sef blwyddyn cyn ymadawiad Elisabeth Morgan o'r Collena i'w phriodi gyda David Evan o'r Rhagat. Enw un o'r merched oedd Susannah, yr hon a fu farw ar yr 20fed o Ebrill, 1790, yn 19eg oed, wedi bod chwech wythnos yn glaf o glefyd trwm, ond a ymadawodd mewn heddwch a llawenydd annhraethadwy; ac i'r hon y canodd y bardd anfarwol o Bantycelyn farwnad ychydig o fisoedd cyn ei farwolaeth ei hun. Ceir y farwnad ar dudalen 572 o'r argraffiad newydd o Weithiau Williams, Pantycelyn, dan olygiad y Parch. N. Cynhafal Jones, D.D., Llanidloes. Fel arwydd o'u cydymdeimlad â Mr. a Mrs. Prichard yn eu galar, ac o'u parch i goffadwriaeth eu merch ymadawedig, gosodwyd ei henw ar y ferch gyntaf a anwyd yn y Garthgraban ar ol ei marwolaeth; ac y mae yr enw Susannah yn aros yn amryw o gangenau y teulu. Yr ydym yn cofio yn dda dair o'r chwiorydd ereill. Bendithiwyd hwy fel eu mam âg hir ddyddiau, ac fel hithau glynasant wrth y Methodistiaid hyd eu marwolaeth. Yr oedd un o honynt yn briod i Mr. Evan Thomas, blaenor yr eglwys ar Donyrefail; ac wedi i'r ddwy ereill golli eu gwŷr, symudasant at eu chwaer i Donyrefail, a bu y tair yn cyd-fyw yn yr un tŷ am flynyddoedd. Arferai y tair eistedd yn y sêt fawr yn y capel, ac yr oeddynt mewn gwirionedd yn addurn i'r lle ac yn golofnau gyda'r achos. Yr oeddynt wedi eu bedyddio yn helaeth âg ysbryd crefydd. Yr oedd un o honynt yn athrawes ffyddlawn yn yr Ysgol Sul. Eu tŷ hwynt oedd cartref y pregethwyr hyd symudiad

yr olaf o honynt. Yr oeddynt yn cael eu galw a'u hadnabod fel "*Ladies* y Ton;" ac yr oeddynt yn ystyr eangaf y gair yn foneddigesau Cristionogol. Collasant eu tad ar y 19eg o Fawrth, 1795; felly bu Mr. Prichard, Collena, farw ychydig wythnosau cyn genedigaeth gwrthddrych y Cofiant hwn. Ei oedran yn marw oedd saith-a-deugain, ond cafodd Mrs. Prichard fyw i weled ei seithfed mlwydd a phedwar ugain; bu hi farw ar y cyntaf o Ionawr, 1834, sef ychydig wythnosau o flaen David Evans o Garthgraban. Er i'r ddau fab o Collena gael eu dwyn i fyny i fod yn offeiriaid yn Eglwys Loegr, dangosent bob amser y teimladau goreu tuag at y Methodistiaid, a pharhaodd eu cyfeillgarwch yn gynes gyda'r teulu o Garthgraban, ac yn enwedig gyda'r mab ieuangaf. Cafodd y Parch. Richard Prichard oes faith; bu am bymtheg-ar-ugain o flynyddoedd yn ficer Llandaf, lle y bu farw Hydref y 6fed, 1856, pan o fewn i ychydig ddyddiau yn 84 mlwydd oed. Ganesid ef Hydref 13eg, 1772.

Wrth ystyried yr holl gysylltiadau rhwng y ddau deulu, yr ydoedd yn berffaith naturiol bod dymuniad am i fab ieuangaf Garthgraban gael ei fedyddio gan fab hynaf Collena. Ac felly y bu. Mae yn dywedyd yn dda am ryddfrydigrwydd Mr. Prichard iddo fyned i gyflawni y gwasanaeth yn nhŷ rhieni y plentyn: ac y mae yn awgrymu rhywbeth am syniadau y gŵr o Garthgraban, ei fod yn dewis i'w fab bychan gael ei fedyddio heb ei gymeryd i eglwys y plwyf. Yr ydym yn gweled yma hedyn y rhyddfrydiaeth gref sydd yn ffynu yn y nifer luosocaf o gangenau y teulu. Cafwyd cyfarfod dedwydd a hwylus ar yr achlysur. Byddai Mrs. Prichard yn taeru (yr oedd hi yn bresenol yn y gwasanaeth), fod y plentyn wedi ei ail-eni ar y pryd. Y mae amheuaeth am hyny. Ond y mae pob sicrwydd i'r gweddiau a offrymwyd drosto ar y pryd gael eu hateb. Nid yw mewn un modd yn anmhosibl, yn wir y mae yn ddigon tebygol, iddo gael bendith pan y bedyddiwyd ef yn blentyn deufis oed a lynodd wrtho dros ei holl ddyddiau ar y ddaear.

Tyfodd William Evans i fyny yn blentyn bywiog a chyflym, ac yn llawn chware. Nid oedd dim yn dianc ei sylw, ac yr oedd yn cofio pob peth. Daeth yn fuan yn amlwg ei fod yn sylwi yn fanwl ar bethau y capel, ac yn enwedig y pregethu. Gwelodd ei dad fod rhywbeth annghyffredin yn y bachgen, a dysgodd iddo, tra nad oedd eto ond plentyn, rai o emynau a darnau o "Ganiadau Duwiol" Williams, Pantycelyn. Yr oedd yn cofio yn dda yr hyn a ddysgai, ac yn gallu ei adrodd yn effeithiol. Ac mor fuan ag y gallodd ddysgu darllen, dechreuodd drysori y Beibl yn ei gôf. Pregethodd hefyd lawer iawn pan yn fachgen, ac yr oedd yn gwneud hyny gyda holl frwdaniaeth ei natur. Cynaliodd aml oedfa gyda'i chwaer ieuangaf a'i nithod hynaf o Lantrisant, ac weithiau byddai plant eu cymydog, Huw o'r Betw, yn gwrandaw. Un tro, wedi iddo roddi penill allan i'w ganu, yn lle canu torodd y gwrandawyr ieuainc allan i chwerthin, yr hyn a barodd i'r pregethwr bychan ddisgyn yn nwydwyllt o'i areithle i guro ei wrandawyr, fel (a defnyddio ei eiriau ei hun) ag i yru y cythraul allan o honynt. Pregethodd lawer hefyd wrtho ei hun mewn lleoedd unig. Clywsom ef ei hunan yn adrodd iddo bregethu llawer "yn grove Cae-derwen."

Yr oedd hefyd yn gantor rhagorol yn mron o'i febyd. Meddai ar lais o'r mwyaf peraidd; ac yr oedd yn hoff o ganu y darnau a ddysgid iddo gan ei dad. Un tro dygwyddodd fod ei gyfnither, merch ei fodryb (Mrs. Davies, Abertawy), ar ymweliad â'i pherthynasau yn y Garthgraban; a gwahoddwyd ef a'i chwaer ieuangaf i fyned gyda Miss Davies i dreulio prydnawn yn y Garthgraban Fawr. Ar ol tê yr oedd yn rhaid i William ganu. Gomeddai ar y cyntaf, a chafwyd peth trafferth i'w berswadio i wneud; ond o'r diwedd fe lwyddwyd, a chanodd ddarn o gân Williams ar "Dwyll y Byd," nes yr oedd yr holl gwmni yn wylo. Dyma y penill cyntaf o'r gân :—

"Megys llestr hen a drylliog
Ydyw'r byd ar fôr tymestlog;
Pleser braf yw edrych arno,
Ond peryglus iawn bod ynddo!
Os daw un i maes o'r tonau,
Ar ystyllen friwllyd, denau,
Fe glyw 'stwr ar y dw'r,
Dwndwr yr angau,
Draw yn mhell, gan ryw fyrddiynau,
Aeth yn iach i'r llestr gynau."

Cymerodd peth tebyg le ar achlysur arall mewn cynulliad o ieuenctyd. Yr oedd yn gyfarfod o natur ysgafn, a rhaid i bob un gyfranu rhywbeth mewn adrodd neu ganu tuag at y difyrwch; ac felly gosodwyd arno yntau i ganu, eithr nid oedd ganddo ef ddim i'w ganu o nodwedd ddigrifol y pethau oedd yn cael eu canu gan y lleill o'r cwmni, a dywedodd nas gallai efe ganu dim ond rhywbeth ag oedd ei dad wedi ei ddysgu iddo; ac fe ganodd ddarn o'r "Caniadau Duwiol," nes yr oedd pawb yn wylo yno hefyd ac yntau yn wylo gyda hwynt.

Yr oedd yn arferiad yr adeg hono, a pharhaodd am lawer o flynyddoedd wedi hyny, i aredig gydag ychain. Yr oedd yn rhaid cael arweinydd, a'i brif waith ydoedd canu i'r ychain. Gwnaeth William Evans lawer o'r gorchwyl hwn, ac yr oedd yn ei gyflawni yn ddoniol a difyrus iawn. Yr oedd yr anifeiliaid yn cael eu gwneuthur yn hollol foddus pan yn tynu yr aradr gan ei lais melodaidd a'i acenion melus. Fel rheol pethau o natur ysgafn, os nad o duedd isel, a genid i'r ychain wrth eu harwain o flaen yr aradr. Ond byddai ei ganiadau ef bob amser o nodwedd foesol, ac yn hollol bur o ran iaith. Yr unig engraifft sydd yn cael ei chofio o'r pethau a genid felly ganddo ef sydd fel hyn :—

"Mae heddyw yn dêg rhyfeddol
A'r haul fel seren siriol,
A phob peth sydd lân ei lun
Ond calon dyn annuwiol."

Ar ddiwedd pob penill byddai yr arweinydd yn cyfarch yr ychain, a phob un wrth ei enw, mewn geiriau fel hyn,—" Ho,

ho, y dâ bach; cadw dy gwys, *Gold*, fy ngwas i;" a'r cwbl ar fath o dôn gerddorol. Os byddent yn aredig gerllaw y tŷ, byddai ei lais hyfryd yn swyno ei fam, ac yn ei thynu i fyned yn llechwraidd am y berth i wrandaw arno. Un diwrnod yr oeddynt yn aredig yn un o gaeau Craig-y-llan, ac yntau fel arfer yn arwain yr ychain; dygwyddodd i Mr. Thomas, Ynys-y-plwm, ei glywed yn canu, ac wedi sefyll am beth amser yn gwrandaw arno, dywedodd,—"Crotyn rhyfedd yw Billi, Garthgraban; mae rhywbeth yn y bachgen yna." Ei fam hefyd, ar ol gwrandaw arno yn canu i'r ychain, neu ynte wedi ei glywed yn pregethu, ac wrth sylwi ar ei gyflymder, un tro a ddywedodd with ei phriod dan wylo, "Beth yn y byd a fydd y bachgen yma?" Dygid ef i fyny ar y fferm gyda'r meibion ereill, a dysgodd yntau holl gyfrinion amaethyddiaeth yn drwyadl. Ond penderfynodd ei dad i roddi mwy o ysgol iddo nag a gawsai ei frodyr hynach.

Yr ysgol gyntaf y bu ynddi oedd ar Donyrefail, gydag un Rollings o Lantrisant. Ei air am dano ydoedd, "Hen ŵr plaen, ond ysgolaig gweddol." Wedi hyny aeth i ysgol yn Lantrisant, a gedwid gan un Thomas Joseph,—"Un a ystyrid yn ysgolaig da." Nid ydym yn gwybod ei oedran yn myned i'r ysgolion hyn. Gallwn feddwl nad oedd yn llawn deg oed pan y gadawodd ysgol Llantrisant. Danfonwyd ef yn nesaf i ysgol yn Mhontfaen, yr hon oedd ar y pryd yn sefydliad o gryn fri, a adwaenid fel "Ysgol yr Eryr." Dyma'r ysgol y buasai y Parch. William Howells, Longacre, Llundain, ynddi y pryd hwnw, fel y dywed y Parch. William Williams, Abertawy, yn y *Traethodydd* am 1849 (tud. 157), "O dan ofal un Mr. Williams; gŵr tál, teneu, unllygeidiog, yn ysgrifenu â'i law chwith; un o'r ysgolfeistri goreu a ddarfu ysgwyd gwialen fedw." Yn yr ysgol hon hefyd y bu John Sterling ynddi am beth amser, pan yr oedd ei dad yn cartrefu yn Llanblethian, gerllaw Pontfaen. Y mae enw John Sterling wedi ei anfarwoli gan Thomas Carlyle. Yr athraw yn yr adeg ag yr oedd Sterling yn

un o'r ysgoleigion, ydoedd Mr. Rees, olynydd Mr. Williams. Ac yr oedd hyny rywbryd rhwng 1809 ac 1814. Gwnaeth Mr. Rees argraff ddwfn ar John Sterling. Yn mhlith adgofion a ysgrifenwyd ganddo pan yn un-ar-ugain oed yr ydym yn cael yr hyn a ganlyn:—"Nis gallaf yn awr alw i fy meddwl wynebpryd arweinydd da yr ysgol, nac eiddo neb o'i ysgoleigion; ond y mae o fy mlaen ddychymyg gyffredinol gref am agwedd dufewnol ei sefydliad. Yr wyf yn cofio y dwfn barchedigaeth gyda pha un yr arferwn gario at ei eisteddfa gyfrol ddeuddeg-plyg wedi ei bawdio yn dda, sef *History of Greece* Oliver Goldsmith. Yr wyf yn cofio yr ymdrechfeydd meddyliol poenus a ddyoddefais yn yr ymgais i feistroli y gelfyddyd a'r dirgelwch o ysgrifenu; celfyddyd yn yr hon yr arosais rhy fach o amser dan Mr. R—— i ragori, fel y gwnaethai efe i'w ysgoleigion ereill i wneud, a'r hon y mae fy lledchwithrwydd wedi fy rhwystro i gyraedd unrhyw raddau o berffeithrwydd ynddi dan fy amrywiol ysgolfeistri dilynol. Ond yr hyn sydd wedi gadael ar ei ol belydryn dysglaer o oleuni ydoedd yr arddangosiad o'r hyn a elwid 'Darnau y Nadolig;' pethau anadnabyddus i ysgolion uwchraddol, ond a arferid yn gyson yn yr ysgol gymhariaethol ostyngedig oedd yn cyflenwi y wybodaeth oreu mewn darllen, ysgrifenu, a rhifyddu, y gellid ei chael yn y gymydogaeth bellenig hono."—(*The Life of John Sterling by Thomas Carlyle*, tud. 17, 18.) Dan yr un athraw, sef Mr. Rees, y bu William Evans yn ysgol Pontfaen, a dysgodd efe i ysgrifenu yn dda, yn gystal a'r celfyddydau elfenol ereill o ddarllen a rhifyddu, ac hefyd rhyw gymaint o'r gramadeg Saesnig, ac elfenau hanesiaeth. Pa hyd y bu yno nid oes genym hysbysrwydd. Ac nid ydym yn sicr ychwaith beth oedd ei oedran yn myned i Bontfaen; gallwn feddwl ei fod rhwng deg a phymtheg mlwydd oed. Yr ydym yn dra sicr iddo adael Pontfaen cyn ei fod yn bymtheg, hyny yw cyn y flwyddyn 1810.

Yn y man hwn y mae yn rhaid i ni gyfeirio at yr arferiad

haner-farbaraidd oedd yn ffynu yn yr amser hwn yn Llantrisant a Phontfaen; sef y cydymdrechfeydd rhwng bechgyn y trefi a bechgyn y wlad yn y ffurf o ymladdau. Nid elai yr un llanc o'r wlad i Lantrisant neu Bontfaen heb fod yn agored i gael ei guro gan feibion y dref. Ac y mae yn debyg fod bechgyn y wlad yn ddigon parod i gymeryd mantais ar eu cyfleusderau hwythau i weithredu yn gyffelyb. Yr oedd mab ieuangaf Garthgraban wedi cael profiad o'r brwydrau hyn yn Llantrisant pan yno yn yr ysgol, a phan yn myned i'r dref, fel yn ddiameu y byddai yn aml, ar negeson. Nid oes amheuaeth ychwaith ei fod ef yn fwy agored i ymosodiadau o'r fath na'r rhan fwyaf o'i gyfoedion, oblegyd ei dymher boeth a'i ffraethder. Yr un modd wedi iddo fyned i Bontfaen, gwnaeth ei ran mewn ymladd gyda bechgyn y dref hono. Ac weithiau byddai yn gosod ei ddyrnau ar ei fwy a'i gryfach; ond yr oedd yn gwneud hyny gyda'r fath gyflymder a deheurwydd, fel y deuai allan o'r brwydrau hyn, yn mron yn ddieithriad, yn fuddugoliaethwr. Os byddai ei frodyr Richard neu Evan gerllaw, mynent hwy ymladd yn ei le, am eu bod yn hŷn ac yn gryfach nag ef, ac hefyd oblegyd ei fod mor anwyl ganddynt. Pan yn yr ysgol yn Mhontfaen, mae yn ymddangos iddo fwy nag unwaith ymladd "hyd at waed." Rhybuddiwyd ef gan ei chwaer Susannah—yr hon oedd yn gofalu yn y lle yr oedd eu tad yn ei ddal gerllaw y dref, sef y Lâc—yn erbyn ei waith yn cymeryd rhan yn y fath bethau, a bygythiodd hysbysu i'w dad. Bu y chwaer gystal a'i gair; a symudwyd William Evans o'r ysgol, yn ddiameu yn gynt nag oedd ei dad wedi amcanu.

Bu hefyd yn cael gwersi am beth amser gyda Mr. Fred. Humphreys, un o feibion Garthgraban Fawr, yr hwn oedd foneddwr ieuanc o gymeriad rhagorol a gwir grefyddol, ac ydoedd yn aelod o'r eglwys Fethodistaidd ar Donyrefail, a gweithredodd am dymhor fel ysgrifenydd i'r eglwys. Gall y darllenydd gael manylion pellach am Mr. Humphreys mewn erthygl o waith y diweddar Mr. Watkin Williams,

Pencoed, yn y gyfrol o'r *Traethodydd* am 1869. Nid ydym wedi llwyddo i gael gwybod am ba faint o amser y bu mab ieuangaf Garthgraban Fach dan addysg Mr. Humphreys; ac oddiwrth yr hyn a glywsom, tueddir ni i gasglu mai cyn iddo fyned i Bontfaen, ac nid wedi iddo ddychwelyd oddi yno, y cymerodd hyny le. Gan hyny, rhaid i ni edrych ar ei ymadawiad o Ysgol yr Eryr, Pontfaen, fel terfyniad ei gwrs addysgol. I un yn meddu y fath gyflymder naturiol, mae yn eglur y buasai addysg uwchraddol o'r fantais fwyaf. Feallai mai nid gormodiaeth yr hyn a ddywedwyd yn ddiweddar gan foneddwr cyfrifol oedd yn ei adnabod yn dda, ei hun yn ysgolhaig graddoledig: "Pe buasai William Evans, Tonyrefail, wedi cael addysg mewn prif-ysgol, buasai yn sicr o fod yn un o brif enwogion ei oes." Yr oedd yn golled fawr iddo na chafodd hyny. Ond pe buasai wedi aros lawer yn hwy yn yr ysgol, nid yw yn annhebyg y buasai wedi colli pob archwaeth at amaethu, ac yr arweiniasid ef i gyfeiriad arall, ac i gylch hollol wahanol i'r hwn y bu yn troi ynddo am oes mor faith, ac yn yr hwn y cyflawnodd wasanaeth mor bwysig ac anmhrisiadwy werthfawr. Y tebygolrwydd yw y buasai ei wlad ei hun wedi ei golli. Modd bynag, yn ngoleuni yr hanes sydd yn dilyn, yr ydym yn cael ein rhwymo i gredu i bob peth gydweithio er daioni, ac y bu yr hyn ydoedd yn golled iddo ef yn enill i laweroedd.

Yr olwg nesaf yr ydym yn gael arno wedi darfod â'i ysgol ydyw fel mab ffermwr, yn gweithio ar y tir gyda'i dad a'i frodyr, ac yn cyflawni amrywiol orchwylion yr alwedigaeth amaethyddol; ac arosodd felly am bedair neu bum' mlynedd. Yr oedd y plant hynaf yn awr yn ymadael â'u cartref trwy briodi, a'r plant ieuangaf yn dyfod i gymeryd eu lleoedd. Ac nid oedd yr un o honynt yn dilyn yn fwy egniol esiampl hynod eu tad mewn diwydrwydd na'r mab ieuangaf. Nid oedd asgwrn segur yn ei holl gorph. Pa beth bynag yr ymaflai ei law ynddo, yr oedd yn ei wneuthur â'i holl egni. Hefyd yr oedd y nwyfiant, y bywiogrwydd, pertrwydd, y

cyflymder ysgogiad ac ymadrodd a berthynent iddo fel plentyn, yn parhau i'w nodweddu. Yr oedd yn tyfu i fyny yn ŵr ieuanc hoenus, ymadroddus, gwisgi, fel ei fam, "yn *sharp* a *smart*," ac yn llawn direidi. Yr oedd llygad craff ei dad yn dilyn ei holl symudiadau, a'i ofal yn fawr am dano, ac yr ydoedd yn anwyl gan ei fam. Mae yn ddiau iddynt weddio llawer drosto. Er holl fywiogrwydd ei dymher naturiol, a'i ffraethineb, a'r profedigaethau yr oedd y pethau hyn yn ei osod yn agored iddynt, cafodd ei gadw heb syrthio i anfoes. Os ydoedd yn y wlad bell drwy y blynyddoedd hyn, diangodd rhag myned i eithafion ei phellder. Bu yn anystyriol, ac yn ol ei gyffesiad ei hunan, "yn anystyriol iawn ac annuwiol;" eithr ni "wasgarodd ei dda, gan fyw yn afradlon," ac nis gellid dyweyd am dano yr hyn a ddywedodd y mab hynaf am ei frawd yn nameg y mab afradlon. Er y direidi, yr ysgafnder, yr anystyriaeth, a'r hyn a fuasai efe ei hunan ar ol hyny yn ei alw yn annuwioldeb, ni thynodd efe yr un graith ar ei gymeriad moesol. Pan elai gyda phobl ieuainc i'w cynulliadau, neu i'r hyn a elwid yn "Gwrw Gwahodd," ac y byddai rhaid iddo ddifyru y cwmni trwy ganu, ni chanai efe ddim ond rhywbeth o Ganiadau Duwiol Williams Pantycelyn. Ni fu erioed yn euog o ganu maswedd. Yr oedd yr hyn a ddysgodd gan ei dad pan yn blentyn yn aros gydag ef, ac yr oedd yn ychwanegu at y trysor. Elai i'r Ysgol Sul gyda chysondeb, ac yr oedd yn dilyn y moddion cyhoeddus yn nghapel Tonyrefail. Os dygwyddai pregethwr dyeithr ddyfod ar daith trwy y wlad, byddai efe yn ei ganlyn i Bontypridd, a Llantrisant, a Phontfaen, a Phencoed, ac weithiau yn mhellach. Ar un tro felly gwnaeth y pregethwr yr oedd yn ei ddilyn sylwi arno, a gofynodd iddo, "Mab i bwy wyt ti?" ac ar ol cael ateb dywedodd wrtho, "Mae rhyw straen ynot ti." Glynodd y gair yn nghôf y llanc, ac ar hyd ei oes byddai yn hoff o ddyweyd wrth y sawl a welai yn benderfynol a bywiog yn ei symudiadau, "Mae rhyw straen ynot ti." Mae yn ymddangos ei fod wedi rhoddi

heibio ei bregethu bachgenaidd yn "grove Cae-derwen" a manau ereill o gwmpas Garthgraban. Eithr yr oedd swyn mawr mewn pregethu iddo ef yn mlynyddoedd ei ieuenctyd. Ac yr oedd yr anian at bregethu yn aros yn ei natur, er fe ddichon i raddau yn nghwsg, drwy y blynyddoedd yr ydym yn awr yn cyfeirio atynt. I'w deffroi yn llawn ac i'w dyfnhau i'r nwyd sanctaidd, a fu mor amlwg ynddo ef am oes hirfaith, yr oedd yn rhaid i William Evans gael ail fedydd, bedydd yr Ysbryd, bedydd argyhoeddiad. Fel y crybwyllwyd yn barod, yr oedd Mrs. Prichard, Collena, yn arfer dyweyd, a hyny yn benderfynol, iddo gael ei ail-eni pan y bedyddiwyd ef gan ei mab hi. Nid ydym yn meddwl fod yr hen foneddiges yn credu yr athrawiaeth o ail-enedigaeth trwy fedydd. Ei theimlad da a'i dymuniad, fe ddichon, oedd achos y meddwl. Eithr pa fendith bynag a gafodd efe yn ei fedydd â dwfr, nid oedd efe eto wedi myned trwy borth cyfyng yr argyhoeddiad o bechod, cyfiawnder, a barn. Y mae yn ymddangos iddo gael ei sobri drwyddo ar un achlysur rhywbryd yn y cyfnod o'i fywyd yr ydym yn awr wedi bod yn son am dano. Yr oedd wedi myned gyda'i frawd Richard i Bontypridd, i wrandaw y Parchedig John Elias. Dyma y tro cyntaf iddo glywed y pregethwr mawr hwnw. Yr oedd yr effeithiau dan y bregeth y fath, fel ar ddiwedd yr oedfa nid oedd yn gwybod b'le yr ydoedd na b'le yr oedd wedi bod. Fel hyn y clywsom ef ei hunan yn adrodd yr hanes. Ond gwisgodd ymaith yr argraff i raddau mawr, er yn ddiameu, nid yn hollol; eithr yn nechreu y flwyddyn 1814, pan nad oedd eto yn llawn 19eg oed, derbyniodd William Evans ei ail fedydd.

Un diwrnod aeth i Lantrisant i wrandaw y Parch. Evan Jones, Merthyr, wedi hyny o Gasnewydd-ar-Wysg, ac ar ol hyny o Lewes. Tro byth-gofiadwy iddo ef oedd hwnw. Aeth ei feddwl dan argyhoeddiad dwfn a dwys. Pan yn gweinyddu yr ordinhad o Swper yr Arglwydd un Sabboth yn Llantrisant, flynyddau lawer wedi hyny, gwnaeth gyfeir-

iad at yr oedfa mewn modd hynod effeithiol. Wedi cyfranu y bara, yr oedd yn myned oddi amgylch gyda'r cwpan, a phan y daeth at fan neillduol yn y capel, safodd, a dywedodd, "Yn y man hwn, eithr nid yn y capel presenol, eithr yn yr hen gapel, yr ydych yn deall; yn y man hwn, lle yr wyf fi yn awr yn sefyll, wedi dyfod yma yn ddigon anystyriol ac annuwiol—ac annuwiol iawn hefyd—i wrandaw un o'r gweision, daeth y gair hwnw yn rymus at fy meddwl,—'Symud trwodd o farwolaeth i fywyd:' gair am fy mywyd i oedd hwnw i mi." Ac yna aeth yn mlaen mewn hwyl ogoneddus, a'i holl enaid ar dân, i draethu ar y pethau sydd yn nglŷn wrth y symudiad trwodd o farwolaeth i fywyd; a pharhaodd felly am amryw fynydau i dywallt allan ffrydlif o hyawdledd nerthol, nes yr oedd yr holl gymunwyr mewn teimladau tra gorfoleddus. Yn y man gofynodd yn sydyn, "B'le yr oeddwn i?" Atebodd un o'r brodyr ef, "Yn y man hyn yn rhoi y cwpan, Mr. Evans." "Diolch i chwi;" ac aeth rhagddo yn hamddenol a dedwydd i orphen y gwasanaeth. Fel hyn yr adroddwyd yr hanes i ni gan Mr. John Morgan, Gwernymoel, yr hwn oedd yn bresenol, ac yn mawr fwynhau y wledd. Ni a'i clywsom ef ein hunain yn cyfeirio at yr un oedfa fel awr ei droedigaeth, a dywedai, "Bu'm farw i'r ddeddf ar unwaith, ac yr oedd yn galed iawn arnaf;" ac yna coffâodd sylw o eiddo Mr. Charles, Caerfyrddin,—"Mae rhai yn marw i'r ddeddf ar unwaith, ac ereill yn marw i'r ddeddf dros eu hoes." Yr oedd chwaer ieuangaf Mr. Evans yn cofio troedigaeth ei brawd, a'i ddychweliad at grefydd, yn dda; a'i gair am hyny wrthym ydoedd, "Fe gafodd ei drwytho yn dda." Ar ol y tro byth-gofiadwy hwnw yr oedd efe yn "greadur newydd."

Bydd yn dderbyniol gan y darllenydd i gael ychydig o hanes y gweinidog fu yn offeryn troedigaeth William Evans, Tonyrefail. Ganwyd Mr. Evan Jones mewn ffermdŷ o'r enw Ffrwd, yn sir Frycheiniog, ar y 7fed o Awst, 1790. Collodd ei dad pan yn naw mlwydd oed, yr hyn a barodd i'w wneuthur

yn fwy meddylgar na'r mwyafrif o'i gyfoedion. Ail briododd ei fam gyda gŵr a arferai wrandaw y Methodistiaid, ond nid yn aelod, yr hwn a wahoddodd ei lysfab i fyned gydag ef un prydnawn Sabboth i wrandaw pregeth. Glynodd y genadwri yn meddwl y llanc, ac aeth drachefn i'r moddion cyhoeddus. Y canlyniad fu iddo ymuno â'r eglwys yn Pontmorlais, Merthyr Tydfil, yn y flwyddyn 1807, pan nad oedd ond tua 17eg oed. Dechreuodd bregethu pan yn 21ain, ac o dan yr amgylchiadau canlynol:—Yr oedd wedi myned gydag amryw ereill i wrandaw pregeth mewn tŷ anedd. Gofynwyd iddo ddechreu y cwrdd, a phan yn troi o'r neilldu i roddi lle i'r pregethwr, dywedwyd wrtho y rhaid iddo lefaru ychydig eiriau, ac felly y gwnaeth. O hyny allan cydnabyddwyd ef fel pregethwr rheolaidd yn Nghyfundeb y Methodistiaid Calfinaidd; ac yn y flwyddyn 1819 ordeiniwyd ef i gyflawn waith y weinidogaeth. Yn 1814 symudodd i Gasnewydd-ar-Wysg; ac yn 1822 adeiladwyd iddo gapel Saesneg yn y dref hono, ac aeth yntau yn weinidog sefydlog i'r eglwys a ffurfiwyd ac a ymgynullai ynddo. Arweiniodd hyn i'w gysylltiad â'r Methodistiaid gael ei dori. Yn 1829 derbyniodd alwad i gymeryd gofal bugeiliol eglwys y Tabernacle, yn Lewes, yn swydd Sussex. Parhaodd i wasanaethu yr achos yn y lle hwnw gyda graddau helaeth o gymeradwyaeth a llwyddiant am yr ysbaid maith o dair-blynedd-ar-ddeg-ar-ugain, sef hyd y flwyddyn 1862, pryd, o herwydd ffaeledd ei iechyd, y gorfodwyd ef i ymddiswyddo. Ni phregethodd nemawr ar ol hyny. Gwaethygodd ei iechyd yn raddol, ac ar yr 20fed o Ionawr, 1864, symudwyd ef gan angeu i dragwyddol orphwysfa y saint. Ei brif nodweddiad fel Cristion ydoedd ymorphwysiad hollol ei feddwl ar Dduw, a hyny gyda golwg ar bob peth tymhorol ac ysbrydol, Cafodd rai profedigaethau tanllyd, ond yn mhob ystorom byddai efe yn dawel. A phan yn agosau at farw, dywedodd nad oedd y glyn mor dywyll a dychrynllyd ag yr ofnasai, a bod ei Gyfaill Da wedi ei wneuthur yn oleu iddo ef.

# PENOD III.

## 1814—1817.

CYNWYSIAD.

Ei briodas—Ymddyddan gyda'i nith, Mrs. Llewelyn—Rhieni a theulu Mrs. Evans—Cymeriad ei briod—Y lleoedd y bu yn trigianu ynddynt; Gelligron, Collena, Tylcha, Trân, Caercurlas—Ei blant—Marwolaeth ei briod a phump o'i blant—Ei hanes grefyddol o'i ymuniad â'r eglwys yn 1814 hyd 1818.

YR oedd y flwyddyn 1814 yn flwyddyn bwysig yn hanes Mr. Evans. Fel y dangoswyd yn y benod flaenorol dyma'r flwyddyn y cafodd grefydd; ac yn yr un flwyddyn priododd wraig. Yr ydym yn ei gael yn cyfeirio at hyn yn yr ymddyddan cynlynol a gymerodd le rhyngddo a'i nith, Mrs. Llewelyn, Pontyclown, gerllaw Llantrisant, pan yn galw yno ar ei ffordd adref o gyhoeddiad Sabboth. Yr oedd efe ar y pryd rai blwyddau dros bedwar ugain oed. Dyma'r ymddyddan:--

"Sut yr ydych yma heddyw?"

"Digon trafferthus."

"Beth yw'r mater?"

"Y bachgen ieuangaf yn myned i briodi."

"Beth all ë wneud sydd well?"

"Llawer o bethau na phriodi mor ieuanc."

"Beth yw ei oedran?"

"Un-ar-ugain."

"Yr oeddwn i wedi priodi flynyddoedd cyn fy mod yn un-ar-ugain; ac mi gefais grefydd yr un flwyddyn, ac ni chollais i hi byth."

Fel y clywsom ef fwy nag unwaith yn dywedyd, nid oedd ond 19eg oed pan y priododd, ac yn wir nid oedd yn llawn hyny; ond yr oedd yn ddigon agos i ben ei flwydd iddo allu

dywedyd ei fod yn 19eg oed. Oblegyd dyddiad ei briodas oedd Ebrill 9fed, 1814. Fel y canlyn y mae y cofrestriad yn llyfr y plwyf:—

"*William Evans, of the Parish of Llantrisant, in the County of Glamorgan, and Diocese of Llandaff, Farmer, and Margaret Cadwgan, of the same Parish of Llantrisant, in the County of Glamorgan, and Diocese of Llandaff (Spinster), were married in this church by Banns, with consent of parents, this ninth day of April, in the year one thousand eight hundred and fourteen.*

*Thomas Rodrick (Curate).*

*This marriage was solemnized between us in the presence of*
*William Evans.*
*Margaret Cadwgan.*
*William Jenkins.*
*Thomas Kimbron, Clerk.*"

Fe welir felly mai yn eglwys Llantrisant y priodwyd William Evans a Margaret Cadwgan, ac mai y person a weinyddodd ar yr achlysur ydoedd y Parch. Thomas Rodrick, yr hwn a fuasai yn gurad y plwyf er y flwyddyn 1789, ac hefyd gan yr hwn y cofnodasid bedydd William Evans yn llyfr cofrestriad y bedyddiadau perthynol i'r plwyf.

Yr oedd Margaret Cadwgan yn ferch i Howell a Margaret Cadwgan o'r Brynwyth, yn mhlwyf Llandyfodwg, yn nghylch tair milldir i'r gorllewin o Donyrefail. Annibynwr oedd ei thad, ac yn aelod yn y Cymar, lle hefyd y claddwyd ef a'i briod. Ychydig flynyddoedd yn ol gwnaeth nifer o'u holafiaid osod careg ar eu bedd; mae y darlleniad arni fel hyn,—"*In affectionate remembrance of Howell Cadogan, of Brynwyth, Parish of Llandyfodwg, Died July 1st,* 1803, *Aged* 36 *years; also his Beloved Wife, Margaret Cadogan, Died May 2nd,* 1843, *aged* 79 *years.*" Ganesid iddynt bedwar o blant, Margaret, Ffriswith. Edward, a Mary. Margaret oedd yr hynaf o'r plant, ac nid oedd ond yn nghylch pum' mlwydd oed pan fu farw ei thad. Bu yr amddiffyn Dwyfol yn amlwg dros y weddw a'i hamddifaid bychain. Ar ol marwolaeth ei

phriod symudodd Mrs. Cadwgan o'r Brynwyth i Gelligron—tyddyn bychan yn ymyl Tonyrefail,—a daeth yn naturiol i'r teulu fyned i'r moddion crefyddol yn nghapel y Methodistiaid. Daeth Ffriswith yn briod i Mr. David Thomas, Tynybryn, ac un o flaenoriaid eglwys Tonyrefail; a Mary yn briod i Mr. Morgan Evans, Pantybrad, blaenor arall yn yr un eglwys; yr oedd y ddwy yn wragedd rhagorol ac yn amlwg eu duwioldeb. Y mab, Edward Cadwgan, a ddaeth yn amaethwr cyfrifol yn yr ardal, ac ymunodd yntau â chrefydd cyn diwedd ei oes. Gair Mr. Evans am dano ydoedd, "Dystaw a sicr o'i siwrne;" ac yn ol ein côf yn gystal a'r hyn a glywsom am dano mae yn anmhosibl gwneuthur gwell desgrifiad. Gyda golwg ar yr hynaf o blant Mrs. Cadwgan o'r Gelligron, gallwn ddyweyd llawer: yr oedd fel merch ieuanc yn hynod o brydferth, ac yn llawn o foneddigeidd-rwydd naturiol; a chyn ei phriodas gyda'r mab ieuangaf o Garthgraban yr ydoedd dan argraffiadau crefyddol dwfn; ond nid oedd y naill na'r llall o honynt wedi ymaelodi yn flaenorol i'w priodas. Eithr ni buont yn hir ar ol hyny cyn gwneuthur proffes gyhoeddus o grefydd. Aeth y ddau i'r eglwys yr un pryd, ac y mae yn sicr y derbyniwyd hwy yn aelodau cyflawn gyda'u gilydd; ac fe gymerodd hyny le rywbryd yn y flwyddyn 1814. Am yr ysbaid maith o saith mlynedd a deugain bu Mrs. Evans yn bob cymhorth ac yn bob cysur i'w phriod. Yr oedd yn gynil a gofalus, yn drefnus a medrus gyda'r amgylchiadau teuluaidd. Yr oedd o dymer addfwyn, yn tueddu fel ei brawd Edward Cadwgan i fod yn ddystaw. Yr ydoedd hefyd yn dyner ac yn garuaidd iawn. Llanwodd ei lle yn dda fel gwraig a mam, ac yn enwedig fel gwraig i weinidog yr efengyl. Yr oedd bob amser yn rhoddi pob cefnogaeth i Mr. Evans i dderbyn y galwadau mynych a ddaethant ato i wasanaethu yr achos mawr, gan ddywedyd, "Cer'wch chwi, Billi; mi ofalaf fi am y fferm." Un diwrnod daeth rhywun ato i ofyn ganddo i fyned i bregethu mewn rhyw gyfarfod, pan yn nghanol

prysurdeb gyda gorchwylion y fferm, a dywedodd nad oedd ganddo amser i fyned. Aeth yr ymwelydd at Mrs. Evans, a brysiodd hithau i'r maes, lle yr oedd ei phriod, i'w anog i gydsynio â'r cais. Rhoddodd yr un ateb iddi hithau,—"Nid oes gen' i ddim amser i fyned." "A fydd genych chwi amser i farw?" meddai hi yn ol. Gyda'r gair dyna'r gweinidog yn taflu y gorchwyl oedd ganddo o'i law, ac yn brysio i fyned gyda'r gŵr dyeithr. Byddai efe weithiau yn pryderu ac yn brudd-glwyfus; ond yr oedd hi yn ei galonogi. Ac yn ben ar hyn oll, yr oedd Mrs. Evans nid yn unig yn llawn o rinweddau ei rhyw, ond hefyd yn dwyn yn amlwg nodweddau "y ddoethineb sydd oddi uchod."

Ar ol eu priodas aeth William Evans a'i wraig ieuanc i fyw gyda'i mam hi, yn y Gelligron, lle yr arosasant am un flwyddyn. Symudasant oddi yno i'r Collena, lle y buont yn preswylio am dair blynedd. Yr ydym eisioes wedi cyfeirio at y Collena, ac wedi crybwyll fod Mr. David Evans, Garthgraban, yn dal rhan o'r tir perthynol, dan Mrs. Prichard. Gwnaeth y tad yn awr roddi i fyny y daliad hwn i'w fab ieuangaf. Yn ystod yr amser y bu y mab yn dal y lle, yr oedd yn byw mewn rhan o balasdy y Collena, a Mrs. Prichard yn preswylio yn y rhan arall o'r tŷ; ac yr oedd y gyfathrach ddedwyddaf rhwng y ddau deulu. Tra yno y ganwyd ei gyntaf-anedig, David; a chyn symud oddi yno yr oedd wedi dechreu pregethu. Y lle nesaf yr aeth iddo ydoedd Tylcha Fach (ychydig i'r deau o Donyrefail), ac arosodd yno naw mlynedd. Wedi hyny bu yn dal fferm y Trân am saith mlynedd; ac oddi yno fe symudodd i Gaercurlas Uchaf. Mae y Trân o fewn milldir a haner i'r gorllewin o Donyrefail, a Chaercurlas haner milldir yn nes i'r pentref, ac yn sefyll mewn man serchog, yn gorchymyn golygfa eang. I'r dwyrain, yr ochr arall i'r Corlais, y mae Gelligron yn sefyll; ac yna, y tu arall i'r afon Lai, y saif Collena. Mae pentref Tonyrefail a'i holl amgylchoedd yn y golwg. I'r deau, gwelir i lawr trwy Gwm Lai, heibio Twyn Garthgraban, ac mor bell




CAERCURLAS.

a Gwlad yr Haf, tu arall i Gulfor Bristol. Yr oedd hwn yn fan dymunol i fyw, ac yn gyfleus i'r capel. Bu Mr. Evans yn byw yn y lle hwn dros haner can' mlynedd. Wrth gyfeirio at yr amrywiol leoedd hyn y bu yn eu dal, dywedai fel hyn:—"Symudais o Gelligron i Gollena, y lle pritaf; oddi yno i'r Tylcha, y lle mwyaf gofidus; ac oddi yno i'r Trân, y lle hyfrydaf; ac yna i Gaercurlas, y lle hapusaf. Yn y Tylcha mi dreuliais yr hyn oll oedd gen' i—cefais fy nhwyllo a'm hysbeilio; ond y mae yn rhaid i bob dyn gael ei drwytho. Pan symudais i'r Trân, nid oedd gen' i ddim ond fy ngharitor. Ac yn ystod y saith mlynedd y bu'm i yno, gellais lwyddo i wneuthur y stoc i gyd yn rhydd, a daethum i Gaercurlas â rhwng £20 a £40 dros ben." Am y gofidiau a gafodd yn y Tylcha, nid oes genym ddim manylion; ond y mae i'w sylwi ei fod ef yn edrych arnynt fel goruchwyliaeth ag yr oedd yn rhaid ac yn dda iddo ef i fyned drwyddi. Er ei fod yn teimlo y cam a gafodd, nid oedd yn grwgnach dim. Yr oedd fferm y Trân, fel y mae eto, yn perthyn i ystâd Llanharan. Enw yr is-oruchwyliwr yn yr adeg ag yr oedd Mr. Evans yn dal y lle, ydoedd Thomas Jones, yr hwn oedd yn byw yn Brynmenyn, gerllaw Penybont-ar-Ogwr; ac yno yr oedd y tenantiaid yn talu eu rhenti. Yr oedd Mr. Evans felly yn cael cyfle yn achlysurol i weled Thomas Jones. Yn y ciniaw dydd talu'r rhent efe oedd yn cael gofyn bendith a thalu diolch. Er mai rhyw fath o Annibynwr oedd Thomas Jones, yr oedd ganddo barch mawr i'r gweinidog Methodistaidd o Donyrefail. Eithr er yr holl gyfeillgarwch a broffesai, gwnaeth unwaith ei osod mewn profedigaeth a allasai beri niwed iddo. Yr oedd un o'r gweision wedi tori pren ar y tir at wneuthur iau. Gwelwyd hyny gan fab Thomas Jones, a hysbysodd y peth i'w dad. Y tro nesaf yr aeth Mr. Evans i dalu'r rhent, dywedodd Thomas Jones wrtho, yn nghlywedigaeth y prif-oruchwyliwr, "Ni ro'is i ganiatad i chwi i dori coed ar y tir, William Evan." "Ofynais i ddim i chwi, a thorais i ddim ond pren iau." "Ie, bid sicr, pob peth yn

dda; ble gallasech chwi gael coed at eich gwasanaeth ond ar y tir?" Diangodd y deiliad yn ddianaf, ac ni chlywyd gair am y peth mwyach. Ymwelodd Mr. Evans â Thomas Jones pan ar ei wely angeu. "William Evan," meddai, "os gallwch ddyweyd gair drosto i, gwnewch." Gweddiodd yntau yn ol y cais; ac ychwanegai wrth ddyweyd yr hanes, "Marw yn ddifrifol iawn a wnaeth."

Fel amaethwr, megys ag y bu mewn galwedigaeth uwch, yr oedd yn llawn bywyd a gwaith. Yr oedd yn godwr bore. Edrychai ar ol pob peth yn ofalus a manwl. Byddai yn rhaid i bawb o'i amgylch i fod yn ddiwyd gyda'u gorchwylion. Un diwrnod daeth rhywun i'r cae lle yr oedd y gwas yn aredig i ymofyn am y meistr; parodd y gwas i'r ceffylau sefyll, ac eisteddodd ar gorn yr aradr a dywedodd wrth y gŵr dyeithr, "Fe fydd yma yn union," gan arwyddo nad oedd neb gerllaw ei feistr ef yn cael hamdden i sefyll yn gwneuthur dim. Gyda'r gair, dyna floedd yn dyfod at yr aradwr oddiar ben clawdd cyfagos, yn ei orchymyn i fyned rhagddo gyda'i orchwyl; ac yn y man mae y gŵr dyeithr yn cael cyfle i ddyweyd ei neges wrth Mr. Evans. Nid oedd amser i'w golli, na dim i'w wastraffu. Os gwelai hoelen neu edefyn o wlân yn rhywle ar y tir, byddai yn sicr o'i godi a'i gadw yn ofalus. Yr oedd yn llygadgraff hefyd i weled y cyfnewidiadau a gymerent le mewn ffermwriaeth. Yr oedd gyda'r cyntaf i droi y tir llafur yn dir blith, ac yr oedd y cyntaf yn ei ardal i gael peiriant at ladd gwair yn lle pladuriau. Gofalai fod y tiroedd yn gwella dan ei ddwylaw, a mynai gadw y stoc oreu mewn anifeiliaid a defaid. Yr oedd trin tir yn orchwyl o hyfrydwch ganddo, ac yr oedd yn cael ei gyfrif gan ei holl gymydogion yn ffermwr rhagorol a llwyddianus. Yr oedd yn cael pleser wrth edrych ar ol y creaduriaid, ac yn cael mwynhad mawr pan welai bethau yn cael eu gwneud yn gryno a thaclus, a dywedai weithiau dan ganu, "Nid oes eisieu cael gwell, nac achos cael rhagor; mae'n gyflawn o ras, a llawn o drugaredd." Ond wedi'r cwbl, ail orchwyl ei

fywyd ydoedd amaethu. Yr alwedigaeth uwch a ymddiriedwyd iddo a gafodd ei fryd penaf, a goreuon ei feddwl a'i nerth. Ac yn lle bod yr amgylchiadau bydol yn ei rwystro, yr oedd efe yn eu defnyddio er mantais i'w weinidogaeth. Ni feddyliodd neb erioed am dano ef mai amaethwr yn pregethu ydoedd; ac nid digon yw dyweyd mai pregethwr yn amaethu ydoedd, ond yr oedd yn dilyn ei alwedigaeth fydol yn y cymeriad o weinidog yr Efengyl; ac ymgadwai oddiwrth bob peth na fyddai yn ymddangos yn gydweddol â'r pregethwr. Ni welid ef un amser mewn na ffair na marchnad. Yr oedd yn gwneud ei holl fusnes, hyd oedd yn bosibl, gartref; ac yr oedd yn fedrus gyda hyny; eithr ar yr un pryd yn arfer cydwybod dda, megys un yn cyflawni gweithred o grefydd. Y mae y gair canlynol o'i eiddo nid yn unig yn dangos y gwahaniaeth rhwng ei ddau frawd, Richard ac Evan, ond hefyd yn ddangosiad o'r hyn ydoedd efe ei hunan yn y peth hwn:—"Pan yn gwneuthur busnes gyda Richard fy mrawd, yr oedd yn gymaint a allaswn ei wneud i ofalu am danaf fy hun; ond pan yn gwneud busnes gydag Evan, yr oedd yn rhaid i mi ofalu am dano ef a'm hunan."

Ganwyd i William a Margaret Evans wyth o blant, yn y drefn ganlynol:—David, Ebrill 29ain, 1816; Margaret, Ionawr 6ed, 1820; William, Mehefin 9fed, 1822; Bess, Ebrill 30ain, 1824; Mary, Medi 25ain, 1826; Ffriswith, Mehefin 5ed, 1830; Howell, Mai 23ain, 1832; a Thomas, Medi 24ain, 1837. Bu farw Bess Ebrill 26ain, 1844; a Mary, Chwefror 2il, 1845. Wrth gyfeirio at ei ddwy ferch hyn, yr ydym yn cofio clywed Mr. Evans yn dyweyd, "Yr oedd Mary yn fwy o gastell, a Bess yn fwy o *shy*." Bu farw ei fab ieuangaf, Thomas, Rhagfyr 13eg, 1847; ac y mae genym gôf byw am ei alar mawr ef ar ei ol. Nid yn unig efe oedd Benjamin y teulu, ond yr oedd "Thomas bach," fel y gelwid ef, yn blentyn hynod o fywiog, a chyflym, a ffraethbert, ac yn dra serchoglawn ac enillgar. Nid oedd yn llawn flwydd yn hŷn

na ni, a buom gyda'n gilydd yn ysgol Howell Hopkin, ar Donyrefail, ac yr oedd yn amlwg ei fod yn ddysgwr cyflym. Ar y pryd y bu farw, yr oedd ei frawd Howell mewn ysgol yn Bath; ac y mae yn ddiameu pe cawsai yntau fyw y rhoddasid iddo addysg dda; ac yr oedd pob argoel y buasai yntau yn tyfu i fyny i fod yn ŵr o alluoedd dysglaer ac enwogrwydd. Yr oedd ei golli yn ddyrnod drom i'w rieni, a galarasant am dano ddyddiau lawer. Bu Mrs. Evans farw Hydref 30ain, 1861, yn 63 mlwydd oed, ar ol cystudd byr, wedi bod (fel y crybwyllwyd yn barod) yn bob cymorth a chysur i'w hanwyl briod yn holl gysylltiadau ei fywyd am yr ysbaid maith o saith mlynedd a deugain a haner. Cafodd Mr. Evans ei nerthu yn fawr i ymostwng i ewyllys yr Arglwydd yn y brofedigaeth chwerw hon. Yn yr unigedd ag yn awr y taflwyd ef iddo meddyliwyd y buasai yn rhoddi i fyny y fferm, ac anogwyd ef i wneud hyny; ond yr oedd yn glynu wrth ei "le hapusaf," ac ni fynai ei roddi i fyny y pryd hwnw. Y rhwyg nesaf yn ei deulu ydoedd symudiad ei ferch Ffriswith, trwy farwolaeth sydyn a gymerodd le Awst 1af, 1870; yr hon a adawodd amryw o blant amddifaid, yn awr heb dad na mam. Ar yr 2il o Hydref, 1872, bu farw ei fab Howell, yn 40 mlwydd oed. Ni a gawn gyfeirio at hyn mewn penod ddilynol.

Bellach yr ydym unwaith eto yn dychwelyd at y flwyddyn 1814. Dyma'r flwyddyn y cafodd grefydd, ac fe gafodd grefydd amlwg. Fel y dywedai ei chwaer ieuangaf,—"Efe a gafodd ei drwytho yn dda;" aeth "trwy y porth cyfyng." Wedi iddo roddi ei hun i'r Arglwydd ac hefyd i'w bobl, daeth yn fuan i gymeryd rhan flaenllaw yn nygiad yn mlaen yr achos crefyddol ar Donyrefail. Cafwyd ynddo aelod eglwysig ffyddlawn a gweithgar. Yr oedd yn mwynhau yn fawr y cyfarfodydd eglwysig dan arweiniad ei dad a'i gyd-flaenor, Mr. Isaac James o'r Felin. Ni fu yn hir cyn cymeryd ei ran yn y cyfarfodydd gweddi; ac ymdaflodd yn galonog i lafur gyda'r Ysgol Sabbothol. Yr oedd eisioes o'i febyd wedi

trysori llawer o'r Beibl yn ei gof, ac yr oedd yn hanesydd ysgrythyrol da. Mae yn ddiameu iddo wneuthur athraw defnyddiol. Y mae genym le i gasglu iddo weithredu fel ysgrifenydd yr ysgol ar y Ton. Yn y blynyddoedd hyn, sef o 1814 hyd 1818, y dechreuodd arfer ei ddawn i holi, yn yr hyn y dangosai mewn blynyddoedd diweddarach, yn y Cyfarfodydd Daufisol a'r Cymanfaoedd Ysgolion, lawer o fedrusrwydd dedwydd.

Eithr o ddechreuad ei yrfa grefyddol yr oedd yn argyhoeddiad yn meddyliau pawb mai pregethwr oedd William Evans i fod. Yr oedd "y prophwydoliaethau a gerddasant o'r blaen am dano" yn cyfeirio yn amlwg at hyny,—ei waith yn pregethu cymaint pan yn fachgen, ei gof cryf a chyflym, ei ddawn ymadrodd annghyffredin, ei fywiogrwydd a'i yni rhyfeddol, ei hoffder mawr at bregethwyr a gwrandaw pregethu, y gofal a gymerodd ei dad i'w addysgu pan yn blentyn mewn pethau crefyddol, a'r addysg a roddwyd iddo yn helaethach nag i'r un o'i frodyr a'i chwiorydd, a'r teimlad cyffredinol a ffynai fod rhywbeth hynod ynddo, a hyny o'i febyd. Ac yn awr y mae yr holl bethau hyn wedi eu grymuso gan yr argyhoeddiad dwfn a dwys yr oedd wedi myned trwyddo, ac yr oedd ei effeithiau yn aros mor amlwg arno gyda golwg ar ei gyflwr a'i achos tragywyddol. Ac yn mhellach, deallwyd yn fuan ar ol ei ddychweliad at grefydd a'i ymuniad â'r eglwys yn Nhonyrefail, ei fod yn ail ymaflyd yn y pregethu, ac yn ymarfer i'r gwaith ar hyd y caeau ac mewn lleoedd unig. Ni fuasem, gan hyny, yn rhyfeddu pe buasai wedi dechreu ar y gwaith mawr beth amser yn gynt nag y gwnaeth. Fe ddichon i dri o bethau achosi yr oediad a gymerodd le. Yn gyntaf oll, nid oedd ynddo ef ddim tuedd i ymwthio i'r weinidogaeth. Tueddai efe yn hytrach i ymgadw yn ol. Fel y cawn gyfle i sylwi eto, yr oedd cymaint o ledneisrwydd yn ei natur fel ag i'w rwystro i geisio dim iddo ei hun. Gofynwyd iddo gan Mr. David Williams, o Ferthyr, "Pa bryd yr wyt ti yn myned i ddechreu pregethu?"

"Peidiwch a son wrthyf am bregethu," oedd ei ateb; a meddai Mr. Williams yn ol, "O, y mae hi yna ei gwala, pa ryw bynag fydd hi." Ac yr ydoedd pregethu yn William Evans yn ddiameuol, ac o ran hyny yn amlwg iawn. Ond yr oedd yn rhaid i un o ddau beth gymeryd lle cyn y buasai efe yn cychwyn allan fel pregethwr: naill ai iddo gael ei gymhell i'r gwaith gan ei frodyr, neu i'r angenrhaid a osodwyd arno i fyned yn drech nag ef. Achos arall o'r oediad yn ddiau ydoedd gochelgarwch ei dad, a phwyll y cyd-flaenor Isaac James o'r Felin. Yr oedd cysylltiad naturiol agos y naill yn ei rwystro i wneuthur dim yn flaenllaw i osod ei fab yn y weinidogaeth; ac y mae yn lled sicr fod y ddau flaenor doeth a duwiol yn cydolygu mai da oedd cael prawf o'r gŵr ieuanc fel crefyddwr cyn ei ollwng i bregethu. Y mae rheswm amgylchiadol hefyd i'w ychwanegu, sydd i fesur yn cyfrif am yr oediad. Nid oedd neb yn mhlith y Methodistiaid y pryd hwnw yn meddwl am i bregethwr "fyw wrth yr efengyl." Yr oedd yn angenrheidiol i bob gweinidog yn y Cyfundeb i drefnu darpariaeth ar gyfer ei gynaliaeth ef a'i deulu yn annibynol ar y gydnabyddiaeth a roddid iddo am bregethu. Tra yr oedd y par ieuanc, William a Margaret Evans, yn cartrefu gyda'i mam hi yn y Gelligron, nis gellir edrych arnynt wedi ymsefydlu mewn bywyd; ac wedi iddynt fyned i'r Collena, fe gymerodd beth amser i gychwyn yn briodol yn y byd. Modd bynag y mae yn sicr y dechreuwyd ei gymhell ef gan y frawdoliaeth ar Donyrefail i ddechreu ar y gwaith mawr yn y flwyddyn 1817, os nad yn wir cyn hyny, ac y cymerwyd y musurau angenrheidiol tuag at hyny yn y flwyddyn hono. Traddododd Mr. Evans ei bregeth gyntaf ar ddiwedd yr ysgol un bore Sabboth, oddiar un o risiau isaf y pwlpud yn hen gapel Tonyrefail, os nad cyn diwedd y flwyddyn 1817, yn gynar yn y flwyddyn 1818.

# PENOD IV.

## 1818—1824.

### CYNWYSIAD.

William Evans yn dechreu pregethu—Sefyllfa Methodistiaeth yn Morganwg ar y pryd—Mr. Howell Howells, Mr. Hopkin Bevan, Mr. Richard James, Mr. David Williams, Merthyr, Mr. Richard Thomas—Ysgrif o eiddo Mr. D. Roberts, Pontfaen—Rhestr o gapelau Morganwg yn 1818—Teithiau Sabbothol y Sir—Testynau cyntaf Mr. Evans—Cylch y Cyfarfod Misol yn 1819—Ei daith bregethwrol gyntaf allan o'r Sir—Thomas Dafydd, Pencoed, a'i dad—Ei dderbyniad yn aelod o'r Gymdeithasfa—Ei ymweliad cyntaf â Llangeitho—Agoriad capel Glynogwr—Agoriad capel y Fforddlas, ac amryw gapelau ereill—Llafur blynyddoedd cyntaf gweinidogaeth William Evans—Ei daith gyntaf i'r Gogledd--Ei ymweliad cyntaf â Bristol.

MAE genym dystiolaeth bendant yr edrychid ar William Evans fel un yn dechreu pregethu yn mis Mawrth, 1818. Yn yr anerchiad a draddodwyd gan Mr. David Howell, Abertawy, yn y cyfarfod a gynaliwyd yn nghapel Tonyrefail, yn Medi, 1868 (adroddiad llawn o'r hwn a ddodir i mewn yn mhellach yn mlaen yn y gwaith hwn), i gyflwyno i Mr. Evans ei ddarlun, dywedodd y bu yn pregethu yn Glynogwr, Dinas, a Thonyrefail, ar Sabboth yn y mis hwnw; ac ar ddiwedd oedfa'r prydnawn yn y Ddinas gofynodd Jenkin Harry iddo, "A sylwasoch chwi ar y dyn ifanc pen-goch oedd yn y cwrdd?" "Do." "Dyna y gŵr ieuanc sydd yn dechreu pregethu yn Nhonyrefail; ac y mae pobl y Ton yn dyweyd ei fod yn ddyn dawnus." Aeth Mr. Howell yn mlaen i adrodd mai yr ail dro iddo weled Mr. Evans ydoedd yn Nghyfarfod Misol Salem, Pencoed, y Pasg dilynol. Yn y Cyfarfod Misol hwnw yr oedd Mr. David Howell yn myned dan arholiad, ac yn cael ei dderbyn yn aelod o'r Cyfarfod

Misol. Ac wrth adrodd yr hanes trodd at Mr. Evans i ofyn, "A o'ech chwi wedi dechreu pregethu y pryd hwnw?" a'r ateb ydoedd, "O'wn, yn ymyl." Yr esboniad naturiol i'w roddi ar yr atebiad hwn ydyw, ei fod wedi dechreu ar y gwaith mawr, ond nad oedd rhyw lawer o amser er hyny; ac y mae yr hyn a ddywedodd Jenkin Harry ar ddiwedd yr oedfa grybwylledig yn y Ddinas yn awgrymu fod William Evans wedi llefaru yn gyhoeddus, a hyny fwy nag unwaith, ar Donyrefail cyn y Sabboth yr ydym yn awr wedi cyfeirio ato yn mis Mawrth, 1818. Y mae rhywbeth yn arwyddocaol hefyd yn y ffaith i'r gŵr ieuanc pen-goch dynu sylw Mr. Howell; ac eto nid yw yn ymddangos i ddim ymddyddan gymeryd lle rhyngddynt y diwrnod hwnw. Y tebygrwydd yw i Mr. Evans frysio adref ar ol y gwasanaeth, i fod yn barod yn brydlawn at oedfa yr hwyr yn Nhonyrefail. Buasai yn naturiol iawn i Mr. Howell fyned gydag ef; eithr nid felly y bu, onite buasai Mr. Howell wedi crybwyll hyny. Gwnaeth enwi y sawl a'i harweiniodd o Glynogwr i'r Ddinas. Fe ddichon, modd bynag, fod rhywun arall wedi ei enwi i fyned o'r Ton i gyfarfod y pregethwr, neu ynte y mae yn bosibl fod Mr. Evans wedi addaw myned i Lanwyno neu Lantrisant y nos Sabboth hwnw.

Yn ychwanegol at yr adgofion uchod o eiddo Mr. David Howell, yr ydym yn cael i Mr. Evans ddechreu cadw cyfrif o'i deithiau a'i destynau yn Medi, 1818, ac hefyd ei fod o'r pryd hwnw at ei ryddid i bregethu trwy yr oll o sir Forganwg. Y mae felly yn ymddangos yn dra thebyg iddo gael ei dderbyn fel pregethwr, os nad hefyd yn aelod o'r Cyfarfod Misol, yn Awst neu Medi yn y flwyddyn hono. Nid ydym yn gwybod pwy fu dros y Cyfarfod Misol yn ymweled âg eglwys Tonyrefail i wneuthur ymholiad yn achos y gŵr ieuanc, ac i ymddyddan âg ef yn ngwydd yr eglwys; ni lwyddasom i gael dim o'r manylion hyn. Ond yr un rhai fu yn ei arholi yn y Cyfarfod Misol ag a fuasent yn arholi Mr. David Howell, o leiaf rhai o'r un personau; ac os oeddynt oll yn bresenol ar yr

achlysur, mae yn ddiameu iddynt gymeryd rhan yn yr arholiad.

Y mae hyn yn naturiol yn ein harwain i sefyll am ychydig i edrych ar Gyfarfod Misol a Methodistiaeth Morganwg fel ag yr ydoedd yn y cyfnod hwnw. Yn yr anerchiad yr ydym uchod wedi cyfeirio ato, a'r hwn a geir mewn penod ddilynol, dywedai Mr. David Howell "nad oedd ond pedwar o weinidogion ordeiniedig yn y sir, sef Howel Howells, Trehill, Hopkin Bevan, Richard James, a David Williams o Ferthyr," ar y pryd yr oedd efe a Mr. Evans yn dechreu pregethu. Gallasai ychwanegu un enw arall, sef eiddo Mr. Richard Thomas o Lysyfronydd, yr hwn a neillduwyd i gyflawn waith y weinidogaeth yn 1817. Nifer y capelau yn y sir yr amser hwnw, yn ol Mr. David Howell, ydoedd 28 neu 29; a nifer y cymunwyr ychydig dros bedwar-cant-ar-ddeg. Cyffelyb ydoedd tystiolaeth Mr. Evans yn y geiriau a ddywedodd yn Nghymdeithasfa Ystrad Rhondda, Mawrth, 1877. "Pan yr oedd efe yn dechreu pregethu," (yr ydym yn dyfynu o'r adroddiad yn y *Goleuad* am Mawrth 31ain, 1877,) "nid oedd ond 1400 o Fethodistiaid yn y sir, a dim ond 28 o gapelau, a'r rhai hyny yn fychain ac yn gulion, ac heb orielau. Nid oedd y capelau bychain hyn yn cael eu llenwi ond pan ddelai y Parch. Ebenezer Morris a'i gyffelyb, os oedd ei gyffelyb i'w gael."

Gyda golwg ar y gweinidogion, bydd yr ychydig grybwyllion dilynol yn ddiameu yn dderbyniol gan y darllenydd. Yr oedd Mr. Howel Howells, Trehill, yn un o'r hen offeiriaid Methodistaidd. Ganesid ef yn y flwyddyn 1749; urddwyd ef yn 1782; a thra yn cydweithredu â'r Methodistiaid, daliodd ei gysylltiad â'r Eglwys Sefydledig hyd y flwyddyn 1818, pryd yr ymadawodd o'r llan, ac yr ymroddodd yn hollol i wasanaethu eglwysi a chynulleidfaoedd y Cyfundeb. Bu farw Ionawr 19eg, 1842, yn 92 mlwydd oed. Nid yw yn ymddangos fod Mr. Howells, Trehill, yn meddu doniau gweinidogaethol dysglaer, ond yr oedd yn ŵr o gymeriad crefyddol

amlwg, a dywedai Mr. Evans am dano ei fod "yn weddiwr mawr." Yr oedd Mr. Hopkin Bevan, Llangyfelach, yn ŵr o alluoedd naturiol cryfion, yn meddu barn dda, a chraffder mawr, ac yn arweinydd doeth a medrus. Yr ydoedd hefyd yn bregethwr rhagorol a chymeradwy. Efe oedd y cyntaf o bregethwyr y Methodistiaid yn Morganwg a ddewiswyd i'w ordeinio; a neillduwyd ef yn yr ordeiniad cyntaf yn y flwyddyn 1811. Ganwyd ef Mai 4ydd, 1765, a bu farw Rhag. 29ain, 1839, wedi bod yn pregethu am 47 o flynyddoedd. Edrychai pawb i fyny ato yn y Cyfarfod Misol. Yr oedd ei ddylanwad yn fawr, a'r parch a goleddid tuag ato yn gyffredinol. Fel hyn y dywedai Mr. Evans am dano: "Un galluog ofnadwy oedd efe; yr oedd yn ddwfn. Yr oedd Dafydd Williams o Ferthyr yn fwy ffraeth, ond nid yn fwy meddylgar. Dyn *sound* oedd Hopkin Bevan, ond *slow;* nid oedd y Cyfarfod Misol yn gyflawn hebddo—yr oedd yn frenin yn y lle. Yr oedd llygad main ganddo fe." Y nesaf i ddyfod dan ein sylw yw Mr. Richard James, Pontrhydyfen. Ganwyd ef yn y flwyddyn 1759. Dechreuodd bregethu yn 1787; neillduwyd ef yn 1813, a bu farw Mawrth 27ain, 1841. Pregethwr hynod o doddedig ydoedd Mr. Richard James, ac yr oedd ei weinidogaeth yn dra effeithiol. Yr oedd yn cael rhai oedfeuon annghyffredin o hwylus. "Os na fyddai yn gwlitho calonau ei wrandawyr â'i ddoniau" (yr ydym yn adrodd geiriau Mr. Evans), "byddai yn gwlychu y ddalen o'i flaen â'i ddagrau. Yr oedd Richard James yn wastad yn flasus. Yr wyf yn cofio iddo gael dwy oedfa annghyffredin; un yn Nghastellnedd, pan yr oedd yn pregethu ar y siaced fraith wedi ei throchi mewn gwaed." Un arall o weinidogion Morganwg, pan y dechreuodd Mr. Evans bregethu, oedd Mr. David Williams, Merthyr Tydfil. Neillduwyd ef yn y flwyddyn 1813. Yr oedd yn bregethwr dawnus a galluog, ac yn rhagori fel duwinydd. Ei hoff awdwr oedd Dr. Owen, a chyfieithodd un neu ddau o'i weithiau i'r Gymraeg. Mewn canlyniad i annghydfod a gymerodd le yn Merthyr gadawodd Mr. David

Williams y Cyfundeb, ac ymunodd â'r Annibynwyr. Yn y *Dyddiadur Methodistaidd* am 1854 yr ydym yn cael y crybwylliad canlynol am Mr. Richard Thomas, Llysyfronydd :—" Bu yn pregethu am tua 50 mlynedd, ac ordeiniwyd ef yn y flwyddyn 1817. Yr oedd yn un o ddefnyddioldeb neillduol, ac yn flaenaf gyda'r achos mawr yn ei sir ei hun; ond ni ddarfu iddo trwy ei oes ymweled nemawr â siroedd ereill. Yr ydoedd o dymer hynaws a serchog fel dyn, yn dduwiol a phrofedig fel crefyddwr, ac yn berchen ar helaethrwydd mawr o ddoniau a medrusrwydd i gyflawni holl ranau ei swydd fel gweinidog yr efengyl. Bu farw Rhagfyr 23ain, 1852, yn 83 mlwydd oed." Yr oedd Mr. Richard Thomas yn un o foneddwyr natur—bob amser yn lân a thrwsiadus o ran ei berson allanol, ac yn enwedig yn ei flynyddoedd olaf, pan yn gwisgo y cap melfet du, yn barcbedig iawn yr olwg arno yn y pwlpud. Fel Mr. Hopkin Bevan, yr oedd yn ŵr o ddylanwad, ac a berchid gan bob dosbarth. Gallai bregethu yn y ddwy iaith; ac yr oedd yn bregethwr gwir sylweddol, buddiol, ac ymarferol. Ei ddull wrth lefaru ydoedd yr ymddyddanol. Ceir cyfeiriadau pellach, llawn o ddyddordeb, ato ef a'r lleill o'r tadau ag yr ydym yn awr wedi bod yn son am danynt, mewn ysgrif o waith y Parch. William Williams, Abertawy, a ymddangosodd yn y *Drysorfa* am mis Mai, 1861. Nid ydym yn cofio Mr. Evans yn son am Mr. David Williams a Mr. Richard Thomas fel y byddai am Mr. Hopkin Bevan a Mr. Richard James; ond yr ydym yn gwybod fod ganddo feddwl uchel, yn enwedig am Mr. Richard Thomas. Heblaw y gweinidogion a enwyd, yr oedd rhai pregethwyr yn perthyn i Gyfarfod Misol Morganwg ag y mae eu henwau yn deilwng o goffadwriaeth, megys Jenkin Harry, Dinaspowis; William Thomas, Aberddawen, wedi hyny o Gaerdydd; Edward Phillips, o'r Eglwysnewydd; ac ereill. Hefyd yr oedd Mr. Rees Jones yn llafurio fel cenadwr cartrefol yn Mhenclawdd, yr hwn a neillduwyd yn 1818; a thua'r amser yma, neu yn fuan wedi hyny, daeth Mr. William Griffiths o sir Benfro i

ymsefydlu yn Mrowyr; ond ni chafodd efe ei ordeinio hyd 1824, sef yr un pryd a Mr. David Howell a'r seraphaidd Mr. Morgan Howell. Dyma Gyfarfod Misol Morganwg, o ran ei brif bregethwyr, yn y flwyddyn 1818. Yr oedd yn perthyn i'r Cyfarfod Misol amryw o flaenoriaid galluog hefyd, megys Mr. Bassett, y Cyfreithiwr, Llanilltyd fawr; Thomas Dafydd, Pencoed; Mr. Smith, Aberafon, ac ereill. Fe geir cyfeiriadau at rai o honynt mewn penodau dilynol. Yr ydym yn cael cipolwg ar Gyfarfod Misol Morganwg yn y cyfnod hwnw, eithr ychydig yn mhellach yn mlaen na'r flwyddyn 1818, yn yr ysgrif ganlynol o eiddo y diweddar Mr. David Roberts, Pontfaen. Yr ydym yn ei gosod i mewn fel yr ysgrifenwyd hi—mewn rhan yn Saesneg, ac mewn rhan yn Gymraeg. Y mae hefyd yn rhoddi manylion am Mr. Hopkin Bevan sydd yn ychwanegiad nid bychan at ei gwerth, ac yn cadarnhau cywirdeb y meddwl uchel oedd gan Mr. Evans am y gweinidog rhagorol hwnw.

"The first Monthly Meeting that I ever attended in Glamorganshire was in the year 1824. Hopkin Bevan was there, David Williams, Rd. James, R. Thomas, J. Harry, and John David. David Howell was in Radnorshire. W. Evans, a young man full of life. John James not even a member then; he came to the society about two years after, a ripe Christian, and a preacher all at once. Hopkin Bevan we considered the greatest man. You could say of him as Whitfield said of G. Jones, Llanddowror. 'I called to see the Rector of Llanddowror to-day,' said he; 'and what is your opinion of him?' 'Well,' he said, 'I saw a man to-day.' And Hopkin Bevan was a man. You could not be long in his company without being wiser and better. Hynod *fond* o gwmpeini dynion ieuainc—pregethwyr ieuainc yn enwedig. Arosai gyda chwi hyd dri-ar-ddeg o'r gloch, yn dyweyd, ac yn gwrandaw fel dyn bach. Hwyr yn mhob man a gyda phob peth oedd Hopkin Bevan; hwyr i gysgu, a hwyr yn codi. Mor hamddenol y gwelais ef lawer gwaith yn dyfod i'r oedfa

dri-chwarter-awr ar ol yr amser. Mor araf y cerddai risiau y pwlpud; wedi cyrhaedd y fan, gweddïai gryn dipyn yn ei het. Yna tynai ei gôt fawr ymaith oddi am dano, yn araf, cofiwch. Yna ail glymai yr *handkerchief* India oedd am ei ben; a thynai un arall allan o'i boced i sychu yr hen spectol, a'r bobl hwythau yn edrych: oblegyd o'r diwedd mae yn darllen penod—faith bid sicr. Gair, wyth llinell fynychaf, allan i'w ganu. Y weddi wedi'n—pwysig fyddai hono bob amser, hynod weithiau; gwyddai y ffordd at Dduw—ai â chwi gydag ef, ac erbyn gorphen, teimlech eich hunan gyda Duw. Gair allan i ganu eilwaith—byr fyddai hwn. Gwelwch fod awydd dyweyd wedi ymaflyd ynddo. Agorai y Beibl, a'i ddwylaw ar ei ddau ymyl. Ei destyn, Ioan iv. 22. Araf y darllenai; dechreuai gyda dechreu y benod. Dywed am y wraig, y Samariaid, yr Iuddewon, y ddwy deml oedd ganddynt yn ymyl, yr hen ragfarn oedd rhyngddynt. Wrth ei wrandaw gallech feddwl iddo fod yn siarad gan'waith â'r gwrthddrychau rheiny, a'i fod wedi bod yn preswylio rywle yn agos i Jerusalem am flynyddau. Atebion yr Iesu i'r wraig: treuliai gryn fynydau y ffordd hon; ac o'r diwedd y testyn. Rhyw un *idea* fawr fyddai gan Hopkin Bevan, a throai o gylch hono. Fod dynion yn addoli y peth na wyddant, a'r angenrheidrwydd o adnabod Duw, rhag ein bod yn codi allor i'r Duw nid adwaenir. Weithiau byddai yn hynod o hapus, poethai yn raddol, troai y cadach Indianaidd tu cefn i'w glust, syrthiai hono yn ol ar ei wegil; ymddangosai yntau yn llawn bywyd—yn nerthol ei floedd—ac yn dibenu; a chwithau dan yr argraff fod dyn uwch eich pen, a dyn a Duw yn ei arddel.

"Mawr yr amser y bu e' a hwythau yn adeiladu capel Llangyfelach. Rhyw dro gofynais iddo, 'Pa bryd yr ydych yn meddwl gorphen y capel?' 'O,' ebe yntau, 'gellir yn y diwedd ddyweyd am y capel hwn fel y dywedwyd am y deml gynt, "Chwe' blynedd a deugain y buwyd yn adeiladu y tŷ hwn.'" Pa bryd y buoch chwi yno? canys y mae heb ei

orphen hyd heddyw ; ond nid yw y chwech-a-deugain ddim i fyny eto.

" Buom yn ei gladdedigaeth, ac yn cyflawni rhyw ran o'r gwasanaeth. Yr oedd y capel wedi ei orlenwi. Yr hen Dillwyn, yr Aelod Seneddol, yno, a'i fab o Benllergaer, ill dau yn teimlo—yr olaf a'r dagrau ar ei ruddiau. Ninau oll yn teimlo yn barod i lefaru, Fy nhad, fy nhad, cerbyd Israel a'i farchogion. Hopkin Bevan oedd ein Solomon ni. Gŵr o gynghor oedd e'. Llawenhaem dan ei gysgod e' fel tae gedrwydden gref. Ymadawsom â'i fedd dan ddyweyd yn ddystaw, Awn ninau hefyd, fel y byddom feirw gydag ef. *Take him all in all, we never saw his like.*

" Carwn pe gallwn ddangos Hopkin Bevan i chwi mewn *society* Cyfarfod Misol. David Williams yn dyweyd gydag awdurdod ; Richard James dipyn yn sûr a chrintachlyd ; R. Thomas yn gall, yn fwynaidd, yn hawdd ganddo dybied ereill yn well nag efe ei hun ; Hopkin Bevan yn codi i fyny, a'r cadach Indianaidd am ei ben, a phan y gwelwch ef yn troi hwnw y tu cefn i'w glust, gallwch benderfynu fod rhywbeth mwy na phowdwr yn y *battery*,—grân ar ei wyneb fod rhywbeth mwy yn bod na throad y wefus. Dechreuai ddyweyd ei feddwl a'i farn yn nghylch y peth dan sylw ; a dyna bawb yn plygu, o David Williams i Jenkin Harry."

Yn nesaf, ni a roddwn restr o gapelau Morganwg yn 1818, ac hyd y gallwn y flwyddyn yr adeiladwyd pob un o honynt.

| | | |
|---|---|---|
| Caerdydd, a adeiladwyd cyn 1805. | | |
| Eglwys Newydd | ,, | yn 1808. |
| Caerffili | ,, | 1791. |
| Ystradmynach | ,, | 1812. |
| Llanfabon | ,, | yn nghylch 1800. |
| Merthyr | ,, | rhwng 1792 a 1796. |
| Cefncoedcymer | ,, | 1807. |
| Aberdar | ,, | 1806. |
| Llanwyno | ,, | 1786. |
| Tonyrefail | ,, | cyn 1791. |

BIBLIOTHECA·BODLEIANA

Llantrisant, a adeiladwyd yn 1775.
Bryntirion ,, 1785.
Trehill ,,
Cadoxton ,, 1815.
Aberthyn ,, 1749.
Pencoed ,, 1775.
Penybont ,,
Pil ,, 1786.
Gyfylchi ,, 1776.
Castellnedd ,, 1810.
Graigfach, Llangynwyd, cyn 1800.
Creunant, a adeiladwyd yn
Ystradgynlais ,, 1804.
Llansamlet ,, 1782.
Abertawy ,, 1799.
Goppa ,, 1775.
Llangyfelach ,, 1808. (Agorwyd y capel hwn gan y Parch. D. Jones, Llangan.)
Dinas Powys, a adeiladwyd yn 1785.
Treforris ,, 1802.

Yr oedd pregethu mewn amryw o fanau ereill, lle wedi hyny y codwyd capelau ac y sefydlwyd eglwysi, megys Glynogwr, Dinas Rhondda, Ynysfach, Trelales, Llysyfronydd, St. Ffagan, Eweny, Aberddawen, Pendeulwyn, Pontypridd, a lleoedd ereill. Yn rhai o'r lleoedd pregethu hyn yr oedd eglwysi eisioes wedi eu ffurfio, ac ymgynullent i gadw y cyfarfodydd mewn ystafelloedd cyflogedig. Yr oedd ystafell felly yn Glynogwr, yn St. Ffagan, yn Aberddawen, ac yn Mhontypridd, ac yn ddiameu mewn rhai lleoedd ereill. Yn anffodus nid oedd Dyddiadur Methodistaidd yn cael ei gyhoeddi yr adeg hono, nac am flynyddoedd wedi hyny, yn dangos trefn y teithiau Sabbothol yn Morganwg ar y pryd; ond yn y cyfrif manwl a gadwodd Mr. Evans o'i lafur gweinidogaethol, yr ydym yn gweled pa fodd yr oedd efe yn teithio, ac yn ddiau yn cael yn agos yr hyn oedd trefn

gyffredin y teithiau. Dyma ei deithiau Sabbothol ef yn y flwyddyn 1818:—

Medi 27ain—Caerdydd, 10; Eglwys Newydd, 2; Caerffili, 6.

Hydref 4ydd—Pil, 10; Penybont, 2; Pencoed, 6.

Hydref 11eg—Aberthyn, 10; Llysyfronydd, 2; Llanilltyd Fawr, 6.

Hydref 18fed—Ynysfach, 10; Gyfylchi, 2; Llety-bron-gu (tŷ fferm gerllaw Maesteg), 6.

Hydref 25ain—Cymar 10; Llanwyno, 2; Tonyrefail, 6.

Tachwedd 1af—Cadoxton, 10; Trehill, 2; St. Ffagan, 6.

Tachwedd 8fed—Eglwys Newydd—Cymanfa Ysgolion; Pentyrch, 6.

Tachwedd 15fed—Pontypridd, 10; Llanwyno, 2; Aberdar, 6.

Tachwedd 22ain—Dinas Powys, 10; Caerdydd, 2; St. Ffagan, 6.

Tachwedd 29ain—Glynogwr, 2; Tonyrefail, 6.

Rhagfyr 6ed—Pil, 10; Eweny, 2; Penybont, 6.

Rhag. 13eg—Glynogwr, 10; Llanharri, 2; Tonyrefail, 6.

Rhag. 20fed—Llanfabon, 10; Ystradmynach, 2; Caerffili, 6.

Rhag. 27ain—Bryntirion, 10; Llantrisant, 2; Pentyrch, 6.

Oddiwrth yr uchod gellir penderfynu gyda sicrwydd am rai o'r teithiau Sabbothol, megys Glynogwr, Dinas, a Thonyrefail; Llantrisant a'r Bryntirion; Caerdydd a'r Eglwys Newydd; Cadoxton, Trehill, a St. Ffagan; Aberthyn, Llysyfronydd, a Llanilltyd; Penybont a Phencoed; Ynysfach a'r Gyfylchi; Llanfabon, Ystradmynach, a Chaerffili. Parhaodd rhai o'r teithiau hyn yr un fath am yn agos i haner can' mlynedd. Eithr erbyn hyn y mae y nifer luosocaf o'r lleoedd uchod wedi myned yn deithiau Sabbothol ar eu penau eu hunain, a'r hen gapelau "hirion, culion" wedi rhoi ffordd i adeiladau llawer eangach, harddach, a mwy cyfleus.

Tarawodd William Evans, Tonyrefail, allan ar unwaith yn bregethwr poblogaidd. Yr oedd yn tynu pob dosbarth

i'w wrandaw, a llenwid y capelau lle bynag yr elai. Mewn cyfeiriad at ei boblogrwydd, dywedodd ei dad wrtho yn fuan wedi iddo ddechreu pregethu,—"Edrych ati, Billi bach; mae genyt ti wrandawyr tost." Gair Isaac James, o'r Felin, ydoedd, "Fe fydd William Evans yn bregethwr annghyffredin, os na wnawn ni ei spwylo." Mae yn gyfiawn i goffadwriaeth y ddau flaenor duwiol a galluog i ddyweyd na ddarfu iddynt hwy, a'r cyfeillion ereill ar Donyrefail, spwylo eu pregethwr. Ni welwyd yr arwydd lleiaf o hyny arno dros ei holl fywyd. Pa mor ddyledus bynag ydoedd am hyny i ddoethineb ei dad, ac i dduwiolfrydedd a challineb Isaac James, y mae'r peth i'w gyfrif am dano yn fwy oblegyd y grefydd ddofn a gafodd yn ei argyhoeddiad a'i droedigaeth. O'r dechreuad gosododd yr argraff ar feddyliau pawb ei fod yn ddyn duwiol. Gwnaeth Mr. Ebenezer Richard y sylw wrth ei gymharu â gŵr oedd yn dechreu pregethu tua'r un amser,—"Fe ddichon mai ——— yw y mwyaf doniol, ond William Evan yw y mwyaf duwiol." Daeth yn fuan yn adnabyddus fel pregethwr drwy yr holl sir, ac yr oedd galwad parhaus am ei wasanaeth; ac fe wnaeth yntau, heb ymgynghori dim â chig a gwaed, ymdaflu yn llwyr ac yn egnïol i'r gwaith ag yr oedd mor amlwg wedi ei alw iddo. Yr ydym eisioes wedi gweled ei lafur Sabbothol am y chwarter olaf o'r flwyddyn 1818. Ni chadwodd ddim cyfrif am y misoedd neu'r flwyddyn y bu ar brawf. Heblaw ei deithiau ar y Sabbothau, yr ydym yn cael ei fod yn pregethu yn fynych ar nosweithiau yr wythnos. Pregethodd yn Mhentyrch nos Lun, yr 28ain o Fedi, ar ol bod yn Nghaerdydd y Sul blaenorol. Pregethodd yn Nhrelales nos Sadwrn, y 3ydd o Hydref, ar ei ffordd i'r Pil erbyn y Sul dilynol. Ar y 10fed o'r un mis yr oedd yn pregethu yn y Prysc, gerllaw Pontfaen. Yr oedd hyny chwe' diwrnod wedi geni—yn y Westgate House, Pontfaen—y diweddar Mr. William Howells, Trefecca, yr hwn a arferai ddyweyd, ei fod yr un oed mewn dyddiau ag ydoedd Mr. Evans fel pregethwr; ac felly yn

gyffelyb hyd ddiwedd y flwyddyn. Dydd Nadolig pregethodd gartref am 5 o'r gloch y bore; aeth i Bendeulwyn yn y Fro erbyn 2, ac oddiyno i St. Ffagan erbyn 6. Yr oedd yn pregethu ddwywaith dydd Sadwrn, y 26ain, sef yn Mhentyrch am 12, a'r Tynwaen (ty ei berthynas, Morgan David) am 7; a thair gwaith, fel y gwelwyd uchod, y Sul canlynol.

Sylwer hefyd ar ei destunau yn y flwyddyn gyntaf hon o'i weinidogaeth. Esai. xlix. 9: "Fel y dywedych wrth y carcharorion, Ewch allan; wrth y rhai sydd mewn tywyllwch, Ymddangoswch. Ar y ffyrdd y porant, ac yn yr holl uchel fanau y bydd eu porfa hwynt." Col. i. 22, 23: "Yn nghorph ei gnawd ef trwy farwolaeth, i'ch cyflwyno chwi yn sanctaidd, ac yn ddifeius, ac yn ddiargyhoedd ger ei fron ef: os ydych yn parhau yn y ffydd, wedi eich seilio a'ch sicrhau, ac heb eich symud oddiwrth obaith yr efengyl, yr hon a glywsoch, ac a bregethwyd yn mysg pob creadur a'r sydd dan y nef; i'r hon y'm gwnaethpwyd i Paul yn weinidog." Salm cxxxvi. 23: "Yr hwn yn ein hisel-radd a'n cofiodd ni; oherwydd ei drugaredd sydd yn dragywydd." Joel ii. 32: "A bydd, yr achubir pob un a alwo ar enw yr Arglwydd; canys bydd ymwared, fel y dywedodd yr Arglwydd, yn mynyddd Sïon, ac yn Jerusalem, ac yn y gweddillion a alwo yr Arglwydd." Salm cxix. 18: "Datguddia fy llygaid, fel y gwelwyf bethau rhyfedd allan o'th gyfraith di." Eph. i. 7: "Yn yr hwn y mae i ni brynedigaeth trwy ei waed ef, sef maddeuant pechodau, yn ol cyfoeth ei ras ef." Mal. iii. 2: "Ond pwy a oddef ddydd ei ddyfodiad ef? a phwy a saif pan ymddangoso efe? canys y mae fel tân y toddydd, ac fel sebon y golchyddion." Matt. xxiv. 14: "A'r efengyl hon am y deyrnas a bregethir trwy yr holl fyd, er tystiolaeth i'r holl genedloedd; ac yna y daw y diwedd." Salm xix. 14: "Bydded ymadroddion fy ngenau a myfyrdod fy nghalon yn gymeradwy ger dy fron, O Arglwydd, fy nghraig a'm prynwr." Luc v. 32: "Ni ddaethum i alw rhai cyfiawn, ond pechaduriaid i edifeirwch." Salm vii. 12: "Oni ddychwel yr

annuwiol, efe a hoga ei gleddyf; efe a anelodd ei fwa, ac a'i parotodd." Actau xiv. 15: "A dywedyd, Ha wyr, paham y gwnewch chwi y pethau hyn? dynion hefyd ydym ninau, yn gorfod goddef fel chwithau, ac yn pregethu i chwi ar i chwi droi oddiwrth y pethau gweigion yma at Dduw byw, yr hwn a wnaeth nef a daear, a'r môr, a'r holl bethau sydd ynddynt." Esaiah lxi. 1: "Ysbryd yr Arglwydd Dduw sydd arnaf; oblegyd yr Arglwydd a'm heneiniodd i efengylu i'r rhai llariaidd; efe a'm hanfonodd i rwymo y rhai ysig eu calon, i gyhoeddi rhyddid i'r caethion, ac agoriad carchar i'r rhai sydd yn rhwym." 1 Bren. xviii. 21: "Ac Elias a ddaeth at yr holl bobl, ac a ddywedodd, Pa hyd yr ydych chwi yn cloffi rhwng dau feddwl? Os yr Arglwydd sydd Dduw, ewch ar ei ol ef; ond os Baal, ewch ar ei ol yntau. A'r bobl nid atebasant iddo air." 1 Bren. viii. 17: "Ac yr oedd yn mryd Dafydd fy nhad adeiladu tŷ i enw Arglwydd Dduw Israel." Eph. iv. 10: "Yr hwn a ddisgynodd, yw yr hwn hefyd a esgynodd goruwch yr holl nefoedd, fel y cyflawnai bob peth." Dyma gyfres o destunau gogoneddus. Ac fe welir nad yw y pregethwr ieuanc yn ymfoddloni ar nifer fechan o bregethau; er nad oedd ond anfynych yn yr un manau, nac hyd yn nod yn ei gartref ei hun. Mae yn amlwg hefyd ei fod yn ymhoffi yn mrasder yr efengyl, a'i fod yn ymroddi i draethu cyflawnder ei darpariaeth ar gyfer byd o bechaduriaid colledig. Mae y pregethwr newydd o Donyrefail yn efengylwr. Eto canfyddir oddiwrth un neu ddau o'r testunau uchod fod rhyw gymaint o Sinai yn ei weinidogaeth. Ond fe ellir dyweyd am dano ef fel y dywedodd yntau am un o enwogion y pwlpud Cymreig, ei fod "yn taranu dan naws," hyny yw pan fyddai yn taranu. Yr ydym yn gweled, nid yn unig y wedd efengylaidd, ond hefyd yr elfen ymarferol a nodweddai ei bregethu, yn enwedig yn mlynyddoedd olaf ei weinidogaeth, yn ymddangos ar ei gychwyniad allan cyntaf. Ac y mae yn eglur hefyd ei fod yn amcanu yn ddifrifol, ac yn ymdrechu yn deg i enill ei wrandawyr i dderbyn yr efengyl,

ac i gredu yn yr Arglwydd Iesu fel eu hunig Waredwr. Yr oedd â'i holl galon yn y gwaith mawr; ac wrth ystyried bywiogrwydd ei feddwl, pertrwydd ei ymadrodd, gwres ei ysbryd, a phereidd-dra ei lais, nid yw yn rhyfedd iddo ar unwaith enill lle uchel yn meddyliau y cynulleidfaoedd.

Bellach yr ydym yn gadael y flwyddyn 1818, ac ni a awn yn mlaen dan arweiniad y dydd-lyfrau a adawyd gan Mr. Evans, i roddi hanes ei yrfa hirfaith yn y weinidogaeth. Dechreuodd y flwyddyn 1819 yn egniol. Wedi pregethu am 12 dydd Sadwrn, yr 2il o Ionawr, yn y Fynachlog, gerllaw Castellnedd, ac yn Mhenrees am 6 yr un dydd, yr oedd yn y Gyfylchi am 10 bore Sul, y 3ydd, Penhydd am 2, a Llety-bron-gu am 6. Nos Fawrth, y 5ed, yr oedd yn pregethu yn yr Argoed, gerllaw Penllin; a dranoeth, y 6fed, yn Aberthyn am 10, Llanharri am 2, a Llanharan am 6. Y nos Sadwrn dilynol yr oedd yn Merthyr, a'r Sabboth, sef y 10fed o Ionawr, Merthyr am 10, Cefn am 2, Aberdar am 6. Ar yr 17eg gwasanaethodd mewn Cymanfa Ysgolion yn Llantrisant, a phregethodd. Nos Sadwrn, y 23ain, cynaliodd oedfa yn Nhreoes, a'r Sul canlynol yr oedd yn Salem, Pencoed, am 10, yn Eweny am 2, ac yn yr Hen-gastell, Penybont, yn yr hwyr. Ar y 27ain yr oedd yn bresenol yn y "*society* fisol," yn Abertawy. Ar ei ffordd tuag yno, pregethodd yn Nyffryn Madog, ar y 26ain; ac wrth ddychwelyd, ar yr 28ain, pregethodd yn y Penhydd—lle ag y mae ei enw wedi ei anfarwoli mewn cysylltiad â choffadwriaeth y pregethwr a'r cymeriad hynod, Jenkin Thomas. Yn dra chyffelyb y bu llafur Mr. Evans dros yr oll o'r flwyddyn hono. Gwasanaethodd mewn naw o Gymanfaoedd Ysgolion, sef yn Llantrisant, ar yr 17eg o Ionawr; yn Mhontypridd, ar y 4ydd o Ebrill; yn Mhenybont, ar y 30ain o Fai; yn Nhonyrefail, ar y 6fed o Fehefin; yn Salem, Pencoed, ar y 25ain o Gorphenaf; yn Mryntirion, ar y 1af o Awst; yn Aberdar, ar y 29ain o'r un mis; yn Nghaerffili, Medi 5ed; ac yn Llantrisant, ar y 3ydd o Hydref. Yr oedd yn bresenol mewn deg Cyfarfod Misol,

sef yn Abertawy, ar y 27ain o Ionawr, fel y crybwyllwyd eisioes; yn Merthyr, ar yr 17eg o Chwefror; yn Aberthyn, Mawrth yr 17eg; yn Llanilltyd Fawr, ar y 13eg o Fai; yn Nghapel Gyfylchi, Mehefin yr 16eg; yn Ystradgynlais, Gorphenaf 14eg; yn y Creunant ar y 1af o Fedi; yn Mhontypridd, ar y 29ain o'r un mis; yn Llantrisant, ar y 27ain o Hydref; ac yn y Pil, ar y dydd olaf o'r flwyddyn. Mae y rhestr uchod yn ddiameu yn dangos agos yn gyflawn gylch Cyfarfod Misol Morganwg am y flwyddyn 1819. Cafodd Mr. Evans y fraint o bregethu mewn Cyfarfod Misol am y tro cyntaf yn y Creunant, ar y 1af o Fedi. Ei destyn ydoedd Heb. ii. 3: "Pa fodd y diangwn ni, os esgeuluswn iachawdwriaeth gymaint?" Dyma yr unig dro iddo gael yr uchel-fraint yn y flwyddyn hono. Bu hefyd mewn pedair o Gymdeithasfaoedd yn ystod yr un flwyddyn, sef yn Llanfairmuallt, Caerffili, Llangeitho, a'r Casnewydd-ar-Wysg. Ar ei ffordd i, ac yn ol o Lanfairmuallt y rhoddodd ei daith bregethwrol gyntaf allan o'i sir ei hun. Wedi pregethu ar Donyrefail am 10, Sul yr 21ain o Fawrth, Glynogwr am 2, a Llety-bron-gu am chwech, yr ydym yn ei gael dydd Llun, yr 22ain, yn Mhenrees am 12, ac yn Nghwm Nedd yn yr hwyr; dydd Mawrth, y 23ain, yn Ystradfellte ganol dydd, ac yn Aberhonddu yn yr hwyr. Oddiyno aeth i Lanfairmuallt, a dychwelodd i bregethu nos Iau, y 25ain, yn Nhalgarth. Dydd Gwener, y 26ain, yr oedd yn Llangors ganol dydd, ac yn Nghrughywel yn yr hwyr. Nos Sadwrn, y 27ain, yn Mlaenafon, a'r Sul dilynol yn Nghendl a Thredegar; a'r Llun wedi hyny Rhymni am 10, Dowlais am 2, a Merthyr yn yr hwyr. Pwy oedd ei gydymaith ar y daith hon nid ydym yn gwybod; feallai ei fod yn gyfaill i un o weinidogion y sir, neu yr hyn sydd yn fwy tebyg, yr oedd yn myned i'r Gymdeithasfa yn nghwmni un o flaenoriaid y sir. Fe ddichon mai hon ydoedd y daith yr aeth gyda'r henuriad adnabyddus, Thomas Dafydd, Pencoed, ac y dygwyddodd iddynt mewn rhyw fan gyfarfod Mr. John Morgan, Penybont, a'i gyfaill

David Evans, Tonyrefail, am yr hwn y gwnaethom grybwylliad helaeth mewn penod flaenorol. Mae yn ymddangos i William Evans gael oedfa hwylus ac effeithiol; ac ar ol y cwrdd, dywedodd Thomas Dafydd wrth ei gyd-flaenor,—"Deio, Deio, dyna fi wedi dy guro di o ddigon." Yr oedd y blaenor o Bencoed yn cymeryd dawn rhagorach a phregeth fwy lewyrchus y pregethwr ag yr oedd efe yn gyfaill iddo, yn fuddugoliaeth iddo ei hunan; ac y mae yn ddiameu fod ei gyd-flaenor yn ddigon boddlawn i gael ei orchfygu yn y fath fodd. Nid oblegyd fod David Evans mewn un modd yn ffoli ar ei fab; ni bu tad erioed yn ddoethach nag yr oedd efe yn yr ystyr yma; ac eto yr oedd yn ddigon synwyrol a chraffus i werthfawrogi yn ddiolchgar y rhagoriaethau yn ei fab ag oeddynt yn ei wneuthur, dan fendith Duw, yn weinidog cymhwys y Testament Newydd; ac ar un achlysur, naill ai wedi ei wrandaw yn pregethu, neu ar ddiwedd cyfarfod eglwysig dedwydd dan ei arweiniad bywiog, clywyd ef yn dyweyd, "Ni feddyliais y cawswn y fraint o fagu y fath fachgen." Eithr i ddychwelyd at yr hanes: tra nad ydym yn sicr mai ar y daith gyntaf hon o eiddo Mr. Evans y dygwyddodd y cyfarfyddiad a grybwyllwyd, tueddir ni yn gryf i feddwl y rhaid i'r peth gymeryd lle ddim yn mhell o'r amser yr ydym yn awr yn cyfeirio ato. Ac nis gallwn fyned heibio heb sylwi fod yr hanes yn dangos pa mor naturiol a dyddan yr oedd yr hen bobl gyda'u gilydd.

Cynaliwyd Cymdeithasfa Caerffili ar y 25ain a'r 26ain o Fai, ac yno y derbyniwyd William Evans yn aelod o'r Gymdeithasfa. I ddefnyddio ei eiriau ef ei hun, "Gosododd Hopkin Bevan yr achos i lawr yn hyfryd." Wrth adrodd yr hanes, dywedai ei fod yn teimlo yn hynod wylaidd ac ofnus pan y galwyd ef yn mlaen i gael ei holi, ond calonogwyd ef gan eiriau caredig a chefnogol Mr. Ebenezer Morris.

Gyda golwg ar y ddwy Gymdeithasfa arall a enwyd ag y bu Mr. Evans ynddynt yn y flwyddyn 1819, ni wnaeth ond rhoddi dwy oedfa ar ei ffordd i Langeitho. Dyma'r cofnod-

iad: "Awst 16, Neath, 6—Rhuf. iii. 14; 17, Pencoed (mae Pencoed yn ymyl Llandeilo, ar y ffordd i Lanfynydd, tua milldir o Landeilo, a theulu Methodistaidd oedd yn byw yno gynt) Carmarthenshire, 7 — Heb. ii. 3; 18, Llangeitho *Association.*" Yn y Gymdeithasfa hono y neillduwyd Mr. Evan Jones, Casnewydd-ar-Wysg—tad ysbrydol William Evans, Tonyrefail. Rhoddwyd y Cynghor ar yr achlysur gan Mr. David Charles, Caerfyrddin. Mae yn debyg fod amryw o bethau yn ei dueddu i fyned yr holl ffordd o Donyrefail i Langeitho yn un-swydd i fod yn bresenol yn y Gymdeithasfa. Nid oedd erioed wedi gweled Llangeitho. Fe ddichon ei fod yn cael ei gymhell i fyned yn gydymaith i ryw weinidog neu flaenor perthynol i'w Gyfarfod Misol. Yr oedd hefyd yn ddigon naturiol iddo ddymuno gweled neillduad ei dad yn yr efengyl, Mr. Evan Jones. Ac yn arbenig yr oedd attyniad yn y Gymdeithasfa iddo fel cyfleusdra i wrandaw yr enwogion ag oeddynt yn pregethu ynddi. Am yr un rheswm, yn benaf, yr ydym yn ei gael drachefn yn Nghymdeithasfa Casnewydd, ar y 18fed a'r 19eg o Hydref. Yr oedd swyn annesgrifiadwy mewn pregethu da iddo ef, ac yr oedd yntau yn graffus i sylwi ac yn gyflym ei feddwl i gymeryd i fyny nodweddion dull yr hen weinidogion, ag oeddynt yr adeg hono ar y maes, o bregethu. Y Gymdeithasfa i raddau mawr, os nad yn unig, fu ei athrofa ef. Nis gellid dyweyd fod Cyfarfod Misol Morganwg hyd hyny yn meddu yr un o bregethwyr blaenaf y Cyfundeb. Eithr yn y Gymdeithasfa, fel rheol, byddai Mr. Ebenezer Morris, y ddau Mr. Richard, Mr. Charles, Caerfyrddin, ac ereill o'r un dosbarth, yn bresenol; ac yr oedd eu gwrandaw yn wers i bregethwr ieuanc mewn gwirionedd yn y gelfyddyd sanctaidd o gyhoeddi efengyl Crist.

Y Sul a'r Llun ar ol Cymdeithasfa Casnewydd, sef y 24ain a'r 25ain o Hydref, 1819, yr oedd yn bresenol ac yn cymeryd rhan yn agoriad "tŷ cwrdd Glynogwr." Pregethodd am 2 y Sabboth oddiar Actau xxvi. 18. Yr oedd yr achos yn y lle hwn hyd yma yn cael ei gynal mewn ystafell uwchben yr

efail gôf, yn ymyl yr eglwysdŷ. Codwyd y capel, neu "y tŷ cwrdd," fel y gelwid ef ac y parhawyd i'w alw, tua chwarter milldir i'r dwyrain, yr ochr chwith i'r ffordd sydd yn arwain tua Thonyrefail; ac yno y cyrchai ymron yr oll o'r amaethwyr yn y cylch. Y mae yn demtasiwn gref i ni aros ychydig yn y fan yma i ymddifyru mewn adgofion am yr hen gyfeillion oedd yn gofalu am yr achos crefyddol, ac yn enwedig teuluoedd y Cryglas a Hendreforgan, Penllwyngwynt a Chaerosser,—perthynasau ein hanwyl fam; eithr ymattaliwn. Yr ydym modd bynag yn galw sylw at y crybwylliad am agoriad capel Glynogwr fel y cyntaf o'r fath yn hanes Mr. Evans, ac ar ryw olwg fel dechreuad ei gysylltiad â chynydd Methodistiaeth yn Morganwg. Bu efe, fel y cawn weled, yn bresenol yn agoriad llawer o gapelau yn y sir hono. Ni a glywsom y Parch. Edward Matthews, fwy nag unwaith mewn Cymdeithasfa, yn datgan fod gweinidogaeth Mr. Evans wedi bod yn foddion ac yn un o'r prif foddion i hyrwyddo llwyddiant y Cyfundeb yn Morganwg. I'r rhai sydd yn ei gofio yn ei nerth, ac yn wir am flynyddoedd wedi pasio cyflawnder ei nerth—y mae nifer y cyfryw ysywaeth yn myned yn fychan—yr ydym yn sicr nad yw y dystiolaeth hon yn ymddangos i'r graddau lleiaf yn ormodol.

Wrth ddilyn y coflyfrau sydd yn cynwys y cyfrif o lafur gweinidogaethol Mr. Evans, y mae yn ddyddorol i sylwi ar enwau lleoedd pregethu newyddion sydd yn dyfod i'r golwg y naill flwyddyn ar ol y llall; ac weithiau yr ydym yn ei gael ef yn pregethu mewn amaethdai ag oeddynt, yn amser blynyddoedd cyntaf ei oes fel pregethwr, yn unig ac anghysbell, lle yn awr y mae ardaloedd poblog, a chapelau eang, ac eglwysi lluosog a chryfion. Yr ydym eisioes wedi cyfarfod â'r enw Llety-bron-gu, tyddyn yn nghwm Llyfni, ychydig i'r deau o Maesteg. Gŵr o'r enw Madog oedd yn byw yno, a chyfaill mawr i Mr. Evans. Yr oedd y lle yn gorwedd yn gyfleus ar y ffordd o Donyrefail i gyfeiriad y teithiau Sabbothol yn ngorllewin Morganwg. Pregethodd Mr. Evans

lawer iawn o droion yn Llety-bron-gu. Yn 1819 yr ydym yn ei gael yn cadw oedfa yn y Brynmelyn, amaethdŷ yn sefyll tua haner y ffordd rhwng Pentyrch a St. Ffagan, ac amryw droion wedi hyny. Ar y 3ydd o Awst, 1821, agorwyd tŷ cwrdd yn yr ardal ar ochr y Fforddlâs, ac yr oedd Mr. Evans yn pregethu am 2 o'r gloch oddiar Gen. xlix. 10. Yn mhen tuag ugain mlynedd symudwyd yr achos o'r Fforddlâs i Dreforgan, lle y codwyd capel helaethach, yr hwn a adnewyddwyd yn ddiweddar, ac sydd yn awr yn adeilad prydferth a chyfleus, gyda mynwent helaeth o'i flaen, yn yr hon y gorwedda gweddillion yr hen bregethwr twymgalon Edward Phillips, a'r henadur duwiolfrydig William Hugh o'r Goetre. Yn 1820, sef ar y 19eg o Fai, yr oedd Mr. Evans yn pregethu yn Gelli Ystradyfodwg, ac yn ddiweddarach yn y flwyddyn bu yn Nghwm Rhondda; ac ar Sabboth y 7fed o Ionawr, 1821, wedi pregethu yn Llanwyno am 10, yr oedd yn Gelli Ystrad am 2, ac yn "Cwmseibra" (Cwmsaerbren?) am 6. Yr oedd y lle olaf hwn yn ymyl y man y mae gorsaf y rheilffordd Treherbert yn sefyll. Yr oedd hyn tua dengmlynedd-ar-ugain cyn bod nac achos na chapel Methodistaidd yn Nghwm Rhondda, gyda'r unig eithriad o'r Ddinas. Yn yr un flwyddyn, sef 1821, mae enw Maesyfelin yn ymddangos am y tro cyntaf, lle y cynaliwyd pregethu ac Ysgol Sabbothol yn flaenorol i sefydliad yr achos yn Mrynsadler, ac y codwyd yno gapel yn 1829. Yn 1822 yr ydym yn cyfarfod am y tro cyntaf â'r enwau Tregolwyn, Llandaf — lle y pregethodd Mr. Evans yn nhŷ un William Llewelyn,— Brychtwn, Llancadle, geillaw Penmarc, a Canton, Caerdydd; manau ag y mae capelau ynddynt bellach er ys llawer o flynyddoedd. Yr enwau lleoedd newydd yn y coflyfr am 1823 ydynt Hirwaen, Waenfo, a Thresimwn; ac ar y 3ydd a'r 4ydd o Ionawr, 1825, fe agorwyd tŷ cwrdd Hirwaen. Am 10, yr ail ddydd, pregethodd Mr. Richard Thomas a Mr. David Williams; am 2, Mr. William Evans oddiar Mat. v. 4, a Mr. John Bowen. Heblaw yr engreifftiau o gapelau

newyddion a grybwyllwyd, ag y bu Mr. Evans yn bresenol yn eu hagoriad, yr ydym yn ei gael yn cymeryd rhan yn agoriad un o'r hen gapelau wedi ei helaethu, sef yn Merthyr ar y 15fed a'r 16eg o Dachwedd, 1821. Pregethodd yno am 2 yr ail ddiwrnod gyda Mr. Charles; yr oedd Mr. Charles a H. Jones wedi llefaru y nos gyntaf, ac Ed. Jones a Wm. Morgans am 10. Crybwylla Mr. Evans hefyd am agoriad "tŷ cwrdd Ystradgynlais" ar y 7fed a'r 8fed o Ebrill, 1824. Nid yw yn ymddangos ei fod ef yn bresenol ar yr achlysur hwnw; eithr os ydoedd, ni chymerodd ddim rhan yn y pregethu. Yr ydym yn cael ein tueddu i osod i mewn yn y man hwn hanes agoriad capel cyntaf Llanilltyd Fawr, yr hwn a ddanfonwyd i ni gan un o flaenoriaid y lle hwnw. Cyn agoriad y capel yr oedd y cyfarfodydd yn cael eu cynal yn yr adeilad sydd yn awr yn cael ei ddefnyddio fel Ysgol y Bwrdd: pa un a ystyrid yr adeilad hwnw yn gapel nid ydym yn hollol sicr; gallwn feddwl yn amgen, yn enwedig gan y cedwid y moddion wythnosol yn aml yn Ivy House, preswylfod Mr. Bassett, y cyfreithiwr, ac am flynyddoedd Ysgrifenydd Cyfarfod Misol Morganwg; modd bynag yr ydym wedi gadael allan Llanilltyd Fawr o restr y lleoedd ag yr oedd capelau ynddynt yn 1818, sef y flwyddyn y dechreuodd Mr. William Evans bregethu. Agorwyd capel Llanilltyd Fawr ar y 1af a'r 2il o Ionawr, 1823. Y nos gyntaf pregethodd Mr. D. Williams, Merthyr, oddiar Rhuf. i. 16, a Mr. Thomas Jones, Llanpumsaint, oddiar Act. xxvi. 18; yr ail ddydd am 10, Mr. D. Charles, Caerfyrddin, Ioan viii. 12, a Mr. T. Jones, Matt. xvii. 12; am 2, Mr. Morris Davies a Mr. D. Charles, 1 Petr v. 10; ac am 6, Mr. Benjamin Williams, Salm xciii. 5, a Mr. John Williams, Abertawy, 2 Cor. viii. 9. Yr ydym wedi cael ein hysbysu hefyd yr agorwyd capel St. Brid yn nghylch y flwyddyn 1820, a'r Ynysfach yn 1821. Eithr heb ymhelaethu yn mhellach yn y dull hwn, mae y crybwylliadau yr ydym yn awr wedi eu gwneuthur yn dangos yn eglur fod yr hanes sydd genym am

lafur gweinidogaethol Mr. Evans yn gymhorth nid bychan i olrhain cynydd eglwysi y Methodistiaid Calfinaidd yn Sir Forganwg.

Yn y flwyddyn 1820 teithiodd Mr. Evans 1829 o filldiroedd, a phregethodd 203 o weithiau; yn 1821, teithiodd 1956 o filldiroedd, a thraddododd 257 o bregethau; yn 1822, pregethodd 336 o weithiau—nid yw yn rhoddi nifer y milldiroedd a deithiodd y flwyddyn hon; nid yw ychwaith yn gosod i lawr ar ol hyny y niferi hyn ar ddiwedd pob blwyddyn. Ond gallwn ychwanegu iddo bregethu yn gyffelyb yr un nifer o weithiau yn 1823 a 1824 ag a wnaethai ar gyfartaledd y ddwy flynedd flaenorol; ond yn 1825 yr oedd y nifer yn ddim llai na phedwar cant ac un. I egluro yn mhellach ei ymroddiad mawr i'r gwaith, sylwer ar ychydig o'i deithiau Sabbothol yn y blynyddoedd yn awr dan ein sylw. Ar yr 16eg o Ionawr, 1820, yr oedd yn Glynogwr am 10, Tonyrefail am 2, Pontypridd am 6; ar y 26ain o Chwefror, Penybont am 10, Pencoed am 2, Tonyrefail am 6; ar yr 28ain o Fai, Llantrisant am 10, Llanharri am 2, Tonyrefail am 6; Hydref y 29ain, Ystradmynach am 9, Llanfabon am 2, Llanwyno am 6; Tachwedd y 19eg, Gyfylchi am 10, Dyffryn am 2, Llety-bron-gu am 6; Ionawr 14eg, 1821, St. Ffagan am 10, Dinas Powys am 2, Trehill am 6; Mai y 13eg, Aberdar am 9, Llanwyno am 2, Pontypridd am 6; Hydref 7fed, Penllin am 10, Llanharri am 2, Pencoed am 6; Ionawr 6fed, 1822, St. Brid am 10, Pencoed am 2, Tonyrefail am 6; Mehefin 9fed, Brychtwn am 9, St. Brid am 2, Pencoed am 6; Chwefror 29ain, 1824, Penclawdd am 10, Goppa am 3, Llangyfelach am 6; Mai 16eg, Pontypridd am 9, Ystradmynach am 2, Caerffili am 6. Afreidiol yw ychwanegu esiamplau. Fel y cydnabyddir gan y rhai sydd yn gwybod daearyddiaeth Morganwg, yr oedd cyflenwi y teithiau uchod, gyda phregethu dair gwaith, yn galed-waith, os nad yn orchest-waith, mewn gwirionedd.

Gyda chyflawni ei ymrwymiadau ar y Sabbothau, a

chynal oedfeuon yn aml ar ddyddiau yr wythnos, a gwasanaethu mewn angladdau, yr ydym yn cael Mr. Evans yn dilyn y Cyfarfod Misol yn mron yn ddifwlch. Pregethodd yn Nghyfarfod Misol Dyffryn, Medi yr 20fed, 1820; a thrachefn yn Llansamlet, ar yr 11eg o Hydref. Bu hefyd yn Nghymdeithasfa Talgarth, y 25ain a'r 26ain o Fai; ac yn Nghymdeithasfa Llandeilo ar y 5ed a'r 6fed o Gorphenaf, gan roddi ychydig oedfeuon wrth fyned a dychwelyd. Yr oedd yn pregethu y nos gyntaf yn Nghyfarfod Misol Abertawy, Chwefror yr 21ain, 1821; a'r ail foreu yn Nghyfarfod Misol Ynysfach, y 14eg o Fehefin; a thrachefn y nos gyntaf yn Nghyfarfod Misol Llansamlet, y 10fed o Hydref; ac wedi hyny yr ail foreu yn y Dyffryn, ar y 7fed o Dachwedd. Yr unig Gymdeithasfa y bu ynddi yn 1821 ydoedd yr hon a gynelid yn Nghaerfyrddin ar yr 11eg a'r 12fed o Gorphenaf. Yn mis Rhagfyr o'r flwyddyn hon rhoddodd bythefnos o daith trwy sir Frycheiniog.

Ar y 26ain o Ionawr, 1822, y bu farw ei fam; a dyma y cofnodiad a ysgrifenwyd ganddo ef:—"E. E. yn marw haner awr wedi chwech o'r gloch. Richard Thomas a bregethodd yn yr angladd oddiwrth 13 adnod o'r 3ydd benod 1 Petr, a darllenodd y 14eg o Job. Y gair cyntaf a ganwyd oedd, 'Gwyn fyd y rhai dileaist eu bai.' Yr ail air ar ol y bregeth oedd, 'Dyma babell y cyfarfod, dyma gymod yn y gwaed,' &c. Y 3ydd gair wrth godi pen yr elor, 'Ffarwel i chwi gynt a gerais,' &c. Ac yn y llan, y gair diweddaf, 'Y mae fy mrodyr wedi blaenu, draw yn lluoedd o fy mlaen,' &c." Yn ystod y flwyddyn hon bu Mr. Evans yn pregethu mewn dau Gyfarfod Misol perthynol i siroedd ereill, sef yn Mhencae, sir Fynwy, ar y 10fed o Gorphenaf, ac yn y Bettws, sir Gaerfyrddin, ar y 18fed o Hydref. Yr oedd yn bresenol yn Nghymdeithasfa Llangadog, ar y 26ain a'r 27ain o Fehefin; a thrachefn yn Llangeitho y 7fed a'r 8fed o Awst, a gwnaeth daith fechan mewn cysylltiad â'r naill a'r llall. Yn mis Tachwedd gwnaeth Mr. Evans daith fanwl trwy sir Aberteifi, a thrwy ranau o sir Gaerfyrddin.

Yr ydym yn ei gael yn pregethu yn Nghyfarfod Misol Llanilltyd Fawr ar y 25ain o Chwefror, 1823, ac yn yr Eglwys Newydd ar y 7fed o Fai, ac yn Ystradgynlais ar y 31ain o Gorphenaf, ac yn Nhreforris yr 28ain o Awst, ac yn y Dyffryn ar y 13eg o Dachwedd. Rhoddodd daith trwy sir Frycheiniog yn Mai, a bu yn Nghymdeithasfa Llambedr-Pont-Stephan ar y 6fed a'r 7fed o Awst, gan roddi cyhoeddiad byr wrth fyned a dychwelyd. Dyma y Gymdeithasfa yr ordeiniwyd Mr. Thomas Harries, Hwlffordd, yr hwn wedi hyny a fu yn gwasanaethu y Tabernacl, Wotton-under-Edge, swydd Gaerloyw, ond yn ddiweddarach a ymadawodd yn llwyr o'r Cyfundeb, ac a aeth i'r Eglwys Sefydledig. Pan y gofynwyd i Mr. Evans, ychydig flynyddoedd cyn ei farwolaeth, sef pan yr oeddym yn parotoi ein hysgrif ar Mr. Thomas Harries, a ymddangosodd yn y *Drysorfa* am 1887, ei farn am dano, atebodd, "Pan yr aeth Mr. Thomas Harries i'r Eglwys, fe gollodd ei wrandawyr ac fe gollodd ei ddawn." Dyma y Gymdeithasfa ag yr oedd Mr. John Jones, Talsarn, yn bresenol ynddi, wedi myned yno gyda Mr. John Jones, Beddgelert, ac heb neb yn gwybod dim am dano, ac oblegyd hyny ni wnaed sylw o hono. Mae yn sicr fod yn Llambedr rai yn gwybod rhywbeth am William Evans, Tonyrefail; ond ei holl fraint yntau, fel eiddo Mr. John Jones, Talsarn, ydoedd gwrandaw; ac wrth ystyried y fath ddefnyddiau ag oedd yno at gadw Cymanfa (gwel yr hanes yn Nghofiant Mr. John Jones, Talsarn, gan Dr. Owen Thomas), yr oedd hyny yn fraint annhraethol. Nid oedd awr y naill na'r llall eto wedi dyfod, eithr yr ydoedd yn agosau. Cyn diwedd y flwyddyn 1823 yr oedd Mr. Evans wedi gwneuthur ei daith gyntaf i'r Gogledd. Sul, y 23ain o Dachwedd, yr oedd yn Llanidloes am 10, Llandinam am 2, a'r Drefnewydd am 6; ac yna aeth rhag ei flaen yn fanwl trwy sir Drefaldwyn, gan orphen drachefn yn Llanidloes, nos Sabboth, y 7ed o Ragfyr. Ar hyd yr wythnos ddilynol yr oedd yn myned trwy ranau o sir Frycheiniog, gan orphen yn Mhontnedd

fychan, nos Sul, y 14eg. Dydd Llun, y 15fed, yr oedd yn yr Ynysfach am 10, a Chastellnedd yr hwyr; a dydd Mawrth, yr 16eg, yn y Dyffryn am 10, Pil am 2, a Phenybont y nos, ac yna adref.

Yr ydym yn awr yn dyfod at y flwyddyn 1824. Ar y 14eg a'r 15fed o Ionawr, yr oedd Cymdeithasfa yn cael ei chynal yn Mhenybont. Trefn y pregethu ydoedd: am 3, y diwrnod cyntaf, Daniel Evans a Thomas Jones; am 6, yr ail ddydd, Ffoulk Evans; am 10, Mr. John Evans ac Ebenezer Richard; am 2, Edward Jones a Thomas Richards; ac am 6, Morgan Howells a William Havard. Pregethodd Mr. William Evans yn Nghyfarfod Misol Aberthyn ar y 26ain o Chwefror, ac yn Nghwrdd misol Llantrisant ar y 18fed o Fawrth. Ar ol gwasanaethu Caerdydd a St. Ffagan, Sul yr 28ain, aeth i Laneurwg bore Llun, y 29ain, a Risca yr hwyr; a dranoeth dychwelodd i'r Casbach i Gyfarfod Misol Mynwy, lle y pregethodd yr ail ddydd am 11eg; ac aeth oddiyno erbyn yr hwyr i'r Casnewydd; ac yna aeth i ychydig o leoedd ereill ar ei ffordd i Dredegar erbyn bore Sul, y 4ydd o Ebrill, Coed-duon am 2, a Gelligroes y nos. Nos Lun y Pasg, sef y 19eg o'r un mis, pregethodd am y tro cyntaf yn Nghwrdd Misol Salem, Pencoed. Bu yn Nghymdeithasfa Trecastell ar y 25ain a'r 26ain o Fai. Ac yr oedd hefyd yn bresenol yn Nghymdeithasfa Llangeitho, ar y 10fed a'r 11eg o Awst, pryd y neillduwyd ei hoff gyfeillion, Mr. Morgan Howells, Mr. William Griffiths, a Mr. David Howell. Ar yr 8fed a'r 9fed o Fedi yr ydym yn ei gael yn Nghyfarfod Misol Penybont, ac yn pregethu am 2 yr ail ddiwrnod. Hyd yma yr oedd y pregethu yn unig y nos gyntaf a'r ail foreu. Fel y clywsom ni ef ei hun yn dyweyd, mai "trefn arferol y Cwrdd Misol y pryd hwnw oedd, William Evans a Richard James y nos gyntaf, David Williams a Richard Thomas am 10, yna pawb tua thre'." Eithr y tro hwn, yn Mhenybont, dyma oedfa ychwanegol am 2 yr ail ddydd, ac fe ddichon yr estynwyd yr oedfeuon hyd ddiwedd y dydd. Yr un modd yn

Nghyfarfod Misol Fforddlas, ar y 3ydd a'r 4ydd o Dachwedd, yr ydym yn cael oedfa am 2 yr ail ddiwrnod, a Mr. Evans yn pregethu ynddi. Aeth Mr. Evans o'r Fforddlas erbyn yr hwyr i Gaerdydd, a dranoeth i Laneurwg a'r Casnewydd, a'r dydd canlynol yn groes i'r culfor i fyned i Bristol, lle yr arosodd dros bedwar Sabboth i wasanaethu yr achos Cymraeg yn Broadmead. Gwnaeth y cyfeillion yno ddefnydd da o hono, canys fe gafodd bregethu dair gwaith bob Sabboth, a dwy waith heblaw hyny bob wythnos; yn wir un wythnos pregethodd dair gwaith; ac felly yn ystod yr amser y bu yno traddododd ddim llai na phedair-ar-bymtheg o bregethau. Dychwelodd o Bristol y tro hwn dydd Llun, y 29ain o Dachwedd, a phregethodd yn Nghaerdydd y noswaith hono, ac aeth adref ar ei union y dydd canlynol.

Ar y 1af a'r 2il o Ragfyr yr oedd Cyfarfod Misol Morganwg yn cael ei gynal yn y Dyffryn (Taibach), ac yr oedd Mr. Evans yno ac yn pregethu yr ail fore. Ar y Sabboth dilynol, y 5ed, yr oedd yn Llantrisant am 2, a'r Ton am 6; ar y 12fed, yn Llanfabon am 10, Bedlinog 2, a Gelligaer 6; ar y 19eg, ar ol cadw oedfa yn y Prysc, nos Sadwrn, y 18fed, yn yr Aberthyn am 10, Llysyfronydd 2, a Llanilltyd Fawr 6. Pregethodd yn y Ty-fry nos Wener, y 24ain, a dydd Nadolig yn y Clawddcoch (Pendeulwyn) am 5 y boreu, Llantrisant 10, Salem, Pencoed, 2, a St. Brid 7; yna ar y Sul dilynol yr oedd yn Mhenybont am 10, Trelales 2, a'r Pil y nos. Dydd Llun, y 27ain, aeth i Lansamlet erbyn yr hwyr, yr oedd yn Nhreforris, nos Fawrth yr 28ain; ac wedi cael cyfran o'r Gymdeithasfa a gynelid yn Abertawy ar yr 28ain ar 29ain, dychwelodd i Benrees nos Fercher y 29ain. Dydd Iau, y 30ain, pregethodd yn Llangynwyd am 2, ac yn y Lletybron-gu am 7. Oddiyno aeth i Gyfarfod Misol y Pil dydd Gwener yr 31ain; pryd yr oedd yn bresenol, D. Bowen, Wm. Havard, D. Griffiths, a Mr. Charles. Fel yma y mae Mr. Evans yn gosod i lawr yr enwau, a gallwn ychwanegu hefyd iddo roddi i lawr y testynau. Sylwer mai o flaen yr

olaf yn unig y dodir y llythyrenau "Mr."; nid oddiar y graddau lleiaf o anmharch at y lleill, ond y mae yn ddangosiad o'r parchedigaeth dwfn a deimlai Mr. Evans tuag at y gweinidog enwog a galluog o Gaerfyrddin. Yr un modd yn y cofnodiad a wnaeth o'r rhai fu yn pregethu yn Nghymdeithasfa Penybont yn nechreu y flwyddyn, dim ond o flaen enw John Evans, Llwynffortun, y ceir "Mr.," er fod y ddau frawd Richard ac ereill o enwogion y Cyfundeb yn bresenol. Ni a gawn yr un gwahaniaethiad yn nghofnodau yr Hen Gymdeithasfaoedd gan Mr. Ebenezer Richard. Yr oedd i Mr. D. Charles a Mr. John Evans le neillduol yn mharch eu holl gydoeswyr, eithr nid oedd neb yn teimlo yn fwy parchus tuag atynt nac yn synied yn uwch am danynt na William Evans, Tonyrefail.

# PENOD V.

## 1825.

### CYNWYSIAD.

Teithiau Sabbothol Mr. Evans yn mis Ionawr—Agoriad capel Hirwaen—Cymdeithasfa Aberystwyth—Taith trwy sir Aberteifi—Agoriad capel presenol Llantrisant—Cymdeithasfa Pontypool; y penderfyniad i neillduo Mr. Evans—Ei deithiau Sabbothol yn Ebrill—Ei daith trwy Ogledd Cymru—Cymdeithasfa flynyddol Bangor: adgofion am dani—Cymdeithasfa y Bala—Braslun o bregeth Mr. Evans—Cymdeithasfa Caerfyrddin—Agoriad capel Pontfaen—Taith trwy sir Benfro—Ei neillduad yn Nghymdeithasfa Aberteifi—Ei fedydd cyntaf—Taith trwy sir Frycheiniog—Llafur cartrefol.

YR oedd y flwyddyn hon yn un bwysig yn hanes Mr. William Evans. Yr ydym eisioes wedi crybwyll iddo bregethu dim llai na phedwar cant ac un o weithiau yn 1825. Teithiodd lawer yn y flwyddyn hono. Dyma y flwyddyn y gwnaeth ei daith fawr trwy Ogledd Cymru, pan y bu oddicartref am yn agos i ddau fis o amser. Yn y flwyddyn hon yr ymddangosodd am y tro cyntaf yn gyhoeddus fel pregethwr ar faes y Gymdeithasfa. A dyma hefyd flwyddyn ei neillduad i gyflawn waith y weinidogaeth.

Dechreuodd waith y flwyddyn gartref: Sul, yr 2il o Ionawr, yr oedd yn pregethu yn Glynogwr am 10, Dinas am 2, a Thonyrefail am 6. Ar y 4ydd a'r 5ed yr oedd yn bresenol ac yn cymeryd rhan yn agoriad capel Hirwaen. Y nos Sadwrn dilynol pregethodd yn Waenfo; a'r Sabboth, y 9fed, Dinas Powys am 10, Cadoxton am 2, a Threhill am 6. Wedi pregethu ar ddwy noswaith yn yr wythnos ganlynol, sef ar y 12fed a'r 15fed, Sul yr 16eg, aeth i Glynogwr erbyn 9, ac oddiyno i Lantrisant erbyn 2, ac adref i'r Ton erbyn yr hwyr. Dydd Llun, yr 17eg, "y plant yn myned i'r ysgol at

Mrs. Davies;" sef y ddau hynaf, David a Margaret—y naill yn 8 a'r llall yn 5 mlwydd oed. Yr oedd Mrs. Davies yn ferch i Mr. a Mrs. Prichard, Collena, ac yn cadw ysgol yn mhentref Tonyrefail. Nos Sadwrn, yr 22ain, yr oedd Mr. Evans yn pregethu yn Margam; a'r Sabboth, y 23ain, yn y Dyffryn y bore, Aberafon y prydnawn, ac yn Mhenrees yr hwyr. Nos Fawrth, y 25ain, yr oedd yn cadw oedfa yn y Croffta—cartref ei chwaer Susannah, Mrs. Morgan. Y ddau ddiwrnod canlynol yr oedd Cyfarfod Misol y sir yn cael ei gynal yn Merthyr, ac yr oedd efe yn pregethu y nos gyntaf gyda Mr. Rees Jones. Nos Sadwrn, y 29ain, yr oedd yn y Prysc, gerllaw Pontfaen; a'r Sul, y 30ain, yn nhaith Aberthyn, Llysyfronydd, a Llanilltyd Fawr; a dydd Llun, yr 31ain, yn Aberddawen am 12, ac yn Nolton yn yr hwyr. Yn lled gyffelyb oedd ei lafur yn mis Chwefror. Ar y 6ed o Fawrth, ar ol bod yn y Cefn y nos o'r blaen, yr oedd yn Merthyr y bore a'r hwyr, ac yn Nowlais y prydnawn. Yna aeth rhagblaen i Defynog a Threcastell dydd Llun, y 7fed; i Lanymddyfri a Llambedr-Pont-Stephan dydd Mawrth, yr 8fed; ac yna, dydd Mercher y 9fed, yr oedd yn Llangeitho am 10, Pennal am ddau, a Lledrod y nos. Y dyddiau dilynol, sef y 10fed a'r 11eg, yr oedd Cymdeithasfa yn Aberystwyth. Yn "Hen Gofnodau Cymdeithasfaoedd y Deheudir," a gyhoeddwyd yn y *Drysorfa* am 1869, yr ydym yn cael fod trefn y moddion cyhoeddus yn y Gymdeithasfa hono fel y canlyn:—"Am 3, y 10fed, gweddiodd Robert Davies, a phregethodd Morgan Howells a H. Gwalchmai. Am 7, yr 11eg, pregethodd Moses Jones a Thomas Jones. Am 10, gweddiodd Ishmael Jones, a phregethodd Robert Griffiths a T. Richard. Am 2, gweddiodd D. Howell, a phregethodd J. Hughes a Mr. J. Evans. Am 6, gweddiodd Richard Williams. a phregethodd W. Evans a R. Davies." A dyma y tro cyntaf i Mr. William Evans bregethu mewn Cymdeithasfa. Ei destyn ydoedd 1 Pedr iv. 18: "Ac os braidd y mae y cyfiawn yn gadwedig, pa le yr ymddengys yr annuwiol a'r pechadur?"

Yr oedd yn fyw hyd yn ddiweddar rai yn Aberystwyth ag oeddynt yn cofio y Gymdeithasfa hono, a dywedent i Mr. Evans gael oedfa rymus. Yr oedd wedi pregethu amryw droion ar y testyn cyn y Gymdeithasfa, a phregethodd arno lawer o weithiau ar ol hyny; ond nis gellir dyweyd ei fod yn un o'i hoff destynau, megys er esiampl, Job xxxiii. 24: "Yna efe a drugarha, ac a ddywed, Gollwng ef, rhag disgyn o hono i'r clawdd; myfi a gefais iawn." Ac i brofi hyny yn mhellach, nid yw yn mhlith y testynau y dychwelodd atynt yn mlynyddoedd diweddaraf ei weinidogaeth. Ond y mae yn sicr iddo wneuthur defnydd effeithiol o'r testyn tuag at droi yr annuwiol a'r pechadur o gyfeiliorni ei ffordd at Fab Duw.

Ar ol Cymdeithasfa Aberystwyth dychwelodd Mr. Evans ar hyd glanau sir Aberteifi, trwy Lanon, Pennant, Aberaeron, Ffosyffin, Ceinewydd, Llanarth, Twrgwyn, Blaenanerch, i lawr hyd at dref Aberteifi. Yr oedd yn Nhwrgwyn ar y 15fed o Fawrth, a buasai yn dda ganddo gael ychydig o gymdeithas ei arwr mawr a'i hoff bregethwr, ond yr oedd Mr. Ebenezer Morris ar y pryd yn gwasanaethu yr achos Cymraeg yn Llundain. Aeth Mr. Evans yn mlaen gan bregethu am ychydig ddyddiau yn sir Gaerfyrddin. Gorphenodd y daith hon dydd Mawrth, yr 22ain, yn Nhreforris am 10, Llansamlet am 2, ac yn Nghastellnedd yn yr hwyr. Y dyddiau dilynol yr oeddid yn "agor tŷ cwrdd Llantrisant," sef y capel presenol yn y dref hono. Nid oedd Mr. Evans yn cymeryd rhan yn y pregethu ar yr achlysur, ond y mae yn ddiameu ei fod yn bresenol yn rhai o'r oedfeuon.

Ar y dyddiau olaf o fis Mawrth yr oedd Cymdeithasfa drachefn yn cael ei chynal yn Mhontypool, swydd Fynwy. Hon ydoedd Cymdeithasfa Chwarterol gyntaf y flwyddyn; un achlysurol ydoedd y Gymdeithasfa flaenorol yn Aberystwyth. Mae yn ymddangos fod y cynrychiolwyr yn cyfarfod yn y bore y dydd cyntaf, yn Mhontypool. Am 2 o'r gloch, yn nghyfarfod cyffredinol y Gymdeithasfa, dan lywyddiaeth

Mr. David Charles, Caerfyrddin, "Adroddwyd penderfyniad y cynrychiolwyr, sef fod W. Evans, Tonyrefail, i gael ei neillduo Awst nesaf." Nid ydym yn gwbl sicr a oedd efe ei hun yn y Gymdeithasfa hono. Gellid meddwl ei fod wedi golygu myned yno, a phregethu yn y Gelligroes wrth fyned, ac yn Nantyglo wrth ddychwelyd; eithr ni fu yn y naill le na'r llall. Y tebygrwydd yw nad aeth i'r Gymdeithasfa, gan ei fod newydd ddychwelyd o'r daith uchod, a'i fod yn parotoi i fyned i daith arall yn mhen ychydig wythnosau ar ol hyny.

Ei deithiau Sabbothol yn Ebrill oeddynt,—ar y 3ydd, Pendeulwyn, Trehill, a St. Ffagan; ar y 10fed, Pontypridd am 10, Llanwyno am 2, a Glynogwr am 6; ar yr 17eg, Ffordd-las yn y bore, ac yn Nghaerdydd yr hwyr; ar y 24ain, Tredegar am 10, Rhymni am 2, a Llanfabon am 6. Y mae rhai o'r teithiau hyn—ac efe a wnaeth luaws o rai cyffelyb, megys ag yr ydym eisioes mewn rhan wedi gweled—yn dangos ei fod mewn gwirionedd "yn ehedeg, a'r efengyl dragywyddol ganddo."

Ac yn awr yr ydym yn dyfod at ei daith fawr trwy Ogledd Cymru. Dechreuodd y daith ar y 5ed o Fai, a gorphenodd ar y 26ain o Fehefin. Yr ydym yn dodi i fewn y daith ar ei hyd, ac yn y ffurf y cofnodwyd hi gan Mr. Evans, yn un peth fel engraifft o'i daclusrwydd a'i fanylder; a thybiwn na fydd yn annerbyniol gan lawer yn yr oes bresenol i weled esiampl gyflawn o ddull yr hen bregethwyr yn teithio i efengylu i'w cydwladwyr anchwiliadwy olud Crist. Ac od oes rhai (nis gall y nifer fod yn fawr) yn cofio mor bell yn ol a'r flwyddyn yr ydym yn awr arni, fe ddichon y bydd golwg ar y daith a'r testynau yn dwyn adgofion melus iddynt. Dylem ychwanegu hefyd fod y daith fawr hon yn ddangosiad teg o lwyrymroddiad gwrthddrych y Cofiant hwn i'r gwaith mawr o bregethu yr efengyl.

| | Mai, 1825. | Salm 89. 14. |
|---|---|---|
| 5 | ... ... ... ... .. ... ... | Llety-bron-gu, 6. |

Diar. 23. 26. Salm 89. 14.

6 Penrees, 12 ... ... ... ... ... ... Castellnedd, 6.

Job 33. 24.

7 Pentre—tŷ Mr. Lewis ... ... ... ... ... ... 6.

Ioan 3. 18. Salm 89. 14. Job 33. 24.

8 Sul—Goppa, 10 ... Hendre, 2 ... Llandeilo, 6.

Salm 89. 14. Ioan 3. 18.

9 Llansawel, 12 ... ... ... ... ... Llambedr, 7.

Salm 89, 14. Job 33. 24.

10 Llanrhystyd, 12 ... ... ... ... Aberystwyth, 7.

Ioan 3. 18. Rhuf. 3. 24. Job 33. 24.

11 Penygarn, 10 ... Graig, 2 ... Machynlleth, 7.

Mat. 5. 4. Rhuf. 3. 24.

12 Corris, 12 ... ... ... ... ... ... Dolgellau, 7.

Mat. 5. 4. Job 33. 24. Ioan 3. 18.

13 Llanelltyd, 10 ... Eto, 2 ... Trawsfynydd, 7.

Rhuf. 3. 24. Mat. 5. 4. Job 33. 24.

14 Maentwrog, 10 .. Wern, 2 ... Beddgelert, 7.

Rhuf. 3. 24. Ioan 3. 18. 1 Petr 4. 18.

15 Sul—Bethania, 10 ... Pentre, 2 ... Tremadog, 7.

Job 33. 24. Heb. 2. 3. Rhuf. 3. 24.

16 Cricieth, 10 ... Brynengan, 2. ... Ysgoldy, 7.

1 Petr. 4. 18. Job (?) Mat. 5. 4.

17 Fourcrosses, 10 ... Pentre, 2 ... ... Pwllheli, 7.

Rhuf. 3. 24. Ioan 3. 18. 1 Petr 4. 18.

18 Rhydyclafdy, 10 ... Llanengan ... ... Nant, 7.

Job 33. 24. Mat. 5. 4. Heb. 2. 3.

19 Rhydbach, 10 ... Tymawr, 2 ... Pencaerau, 7.

1 Petr 4. 18. Rhuf. 3. 24. Ioan 3. 18.

20 Rhydlios, 10 ... Tydweiliog, 2 ... ... Dinas, 7.

Mat. 5. 4. Salm 89. 14. Job 33. 24.

21 Nefyn, 10 ... ... Llithfaen, 2 ... ... Clynog, 7.

1 Petr 4. 18. Heb. 2. 3. Ioan 3. 18.

22 Sul—Llanllyfni, 10 Brynyrodyn, 2 ... Waenfawr, 7.

Mat. 5. 4. Rhuf. 3. 24. Job 33. 24.

23 Llanberis, 10 ... Llanrug, 2 ... Caernarfon, 7.

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Rhuf. 3. 24. | Mat. 5. 4. | 1 Petr 4. 18. |
| 24 | Gaerwen, 10 ... | ... Eto, 2 ... | ... Niwbwrch, 7. |
| | Ioan 3. 36. | Heb. 2. 3. | Job 33. 24. |
| 25 | Bethel, 10 ... | .. Aberffraw, 2 | ... Gwalchmai, 7. |
| | 1 Petr 4. 18. ... | Salm 89. 14. | ... ... Job 33. 24. |
| 26 | Bodedern, 10 ... | Caergeiliog, 2 | ... Caergybi, 7. |
| | Mat. 5. 4. | Ioan 3. 18. | 1 Petr 4. 18. |
| 27 | Llanfwrog, 10 ... | Elim, 2 .. | Llanrhuddlad, 7. |
| | Job 33. 24. | Salm 89. 14. | Heb. 2. 3. |
| 28 | Bethlehem, 10 ... | Bethesda, 2 | ... ... Nebo, 7. |
| | Mat. 5. 4. | 1 Petr. 4. 18. | Job 33. 24. |
| 29 | Sul—Amlwch, 10 ... | Gorslwyd, 2 | Llanerchymedd, 7. |
| | Heb. 2. 3. | Salm 89, 14. | Ioan 3. 18. |
| 30 | Tymawr, 10 .. | Gwyllog (?), 2 | ... Llanddona, 7. |
| | Job 33. 24. | 1 Petr 4. 18. | Mat. 5. 4. |
| 31 | Glasinfryn, 10 ... | Penygarnedd, 2 | ... Beumaris, 7. |

*Mehefin.*

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Salm 89. 14. | | 1 Petr 4. 18. |
| 1 | Llanfair, 10 ... ... ... | | Bangor "*Association*," 2. |
| | Job 33. 24. | | Mat. 5. 4. |
| 2 | Bangor, 10 ... ... ... ... ... ... ... | | Conwy, 7. |
| | Rhuf. 3. 24. | Ioan 3. 18. | 1 Petr 4. 18. |
| 3 | Roewen, 10 ... | Talybont, 2 | ... Llanrwst, 7. |
| | Salm 89. 14. | Job 33. 24. | Rhuf. 3. 24. |
| 4 | Pandy Tudur, 10 | Gwytherin, 2 | ... Llansannan, 7. |
| | Mat. 5. 4. | 1 Petr 4. 18. | Job 33. 24. |
| 5 | Sul—Groes, 10 ... | Henllan, 2 | ... ... Dinbych, 6. |
| | Salm 89. 14. | | Mat. 5. 4. |
| 6 | Bryn, 10 ... ... ... ... ... ... ... | | Bontuchel, 7. |
| | Rhuf. 3. 24. | Ioan 3. 18. | 1 Petr 4. 18. |
| 7 | Pentre, 10 ... | Cyfarfod Misol, 2 | ... Rhuthyn, 7. |
| | Heb. 2. 3. | Mat. 5. 4. | Rhuf. 3. 24. |
| 8 | Gellifor, 10 ... | Dyffryn, 2 | ... ... Caerwys, 7. |
| | Salm 89. 14. | Job 33. 24. | Mat. 5. 4. |
| 9 | Berthen, 10 ... | Babell, 2 | ... ... Treffynon, 7. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | 1 Petr 4. 18. | Rhuf. 3. 24. | Job 33. 24. |
| 10 | Helygain, 10 ... | Fflint, 2 ... | Llaneurgain, 7. |
| | | Heb. 2. 3. | Job 33. 24. |
| 11 | ... ... ... ... | Rhos, 2 ... ... | Wyddgrug, 7. |
| | Mat. 5. 4. | 1 Petr 4. 18. | Job 33. 24. |
| 12 | Sul—Wyddgrug, 10 | Pandy, 2 ... ... | Cilcain, 7. |
| | Salm 89. 14. | | 1 Petr 4. 18. |
| 13 | Llanarmon, 11 ... ... ... ... | | Broncyssyllte, 7. |
| | | Job 33. 24. | |
| 14 | | Llawr-y-Bettws, 12. | |
| 15, 16 | "*Bala Association—at* 10 | Mat. 5. 4." | |
| | Rhuf. 3. 24. | | 1 Petr 4. 18. |
| 17 | Llangynog, 11 ... ... ... ... ... ... | | Meifod, 7. |
| | Ioan 3. 18. | Salm 89. 14. | Job 33. 24. |
| 18 | Llanfair, 10 . | Tregynon, 2 ... | Drefnewydd, 7. |
| | Ioan 3. 18. | Salm 89. 14. | Job 33. 24. |
| 19 | Sul—Drefnewydd, 10 | Llandinam, 2 .. | Llanidloes, 6. |
| | Mat. 5. 4. | | 1 Petr 4. 18. |
| 20 | Pantydwr, 11 ... ... ... . . .. ... | | Rhaiadr, 7. |
| | Job 33. 24. | | Ioan 3. 18. |
| 21 | Builth, 2 ... ... ... .. ... | | Llangammarch, 7. |
| | Mat. 5. 4. | Salm 89. 14. | Job 33. 24. |
| 22 | Llanwrtyd, 10 ... | Gorwydd, 2 | Merthyr Cynog, 7. |
| | Ioan 3. 18. | Diar. 23. 26. | Salm 89. 14. |
| 23 | Llanfihangel, 10 ... | Llandeilo, 2 ... | Trecastell, 7. |
| | Job 33. 24. | | Salm 89. 14. |
| 24 | Crai, 10 ... ... ... ... ... ... | | Ystradfellte, 7. |
| | | | 1 Petr 4. 18. |
| 25 | ... ... ... ... ... .. .. ... | | Merthyr Tydfil, 7. |
| | Salm 89. 14. | Ysgolion. | Job 33. 24. |
| 26 | Sul—Cefn, 10 .. | Eto, 2 ... ... | Aberdar, 6. |

Yr oedd hon mewn gwirionedd yn daith fawr. Yr oedd yn ymestyn trwy yr holl o siroedd y Gogledd. Ac ar ei ffordd wrth fyned a dychwelyd fe aeth Mr. Evans hefyd trwy ranau o bump o siroedd y Deheudir; ac yn ystod y daith efe a bregethodd dros gant a deg-ar-ugain o weithiau. Nid oedd

nifer ei bregethau ond bychan. Yr ydym yn ei gael yn pregethu amlaf ar Job xxxiii. 24; hwn ydoedd ei hoff destyn, ac yn ol y traddodiadau sydd wedi dyfod i lawr atom ni, mae yn ymddangos iddo gael llawer o oedfeuon nerthol pan yn pregethu ar y testyn hwn. Y pregethau nesaf mewn ffafr ganddo ar y daith oeddynt ar y testynau—Salm lxxxix. 14, Mat. v. 4, a 1 Pedr iv. 18; os nad ydym wedi camrifo, traddododd hwynt yr un nifer o weithiau. Yna daw y ddwy bregeth ar Ioan iii. 18 a Rhuf. iii. 24; a phregethodd hefyd ychydig o droion ar Heb. ii. 3, ac unwaith neu ddwy ar ddau neu dri o destynau ereill.

Mewn perthynas i'r daith uchod, dywed y Parch. Robert Hughes, Gaerwen: "Yr wyf yn cofio eich taid yn myned trwy Sir Fôn y tro cyntaf. Yr oedd ei weinidogaeth y pryd hyny 'yn defnynu fel gwlaw, fel gwlith-wlaw ar îr-wellt, ac fel cawodydd ar laswellt.'" Ysgrifenodd y diweddar Barch. Hugh Roberts, Bangor, atom am bregeth Mr. Evans yr ail fore yn y cyfarfod blynyddol yno Mehefin yr 2il: "Yr oedd hon yn bregeth lewyrchus iawn ac effeithiol ar yr Iawn yn ei berthynas â meddwl Duw, ac â sefyllfa foesol dyn, ac yn ei berthynas â Pherson Crist y Duw-ddyn." Hefyd mewn llythyr a ymddangosodd yn y *Drysorfa* am 1887, tud. 442, ysgrifenai Mr. Richard Jones *(Protestant Cymreig)* ei fod yn cofio yr oedfa y cyfeiria Mr. Hugh Roberts ati uchod, gan ei fod "yn fachgen yn dygwydd bod yn y ddinas ar y pryd, ac yn y capel (y Tabernacl) yn gwrandaw ar y Parch. W. Evans yn pregethu o flaen yr hybarch Lewis Morris, Meirionydd, am 10 o'r gloch diwrnod y Gymdeithasfa. Yr wyf yn cofio byth yr helynt dirfawr a fu ar Lewis Morris yn y pulpud trwy adael i W. Evans bregethu o'i flaen."

Fel y gwelsom, yr oedd efe yn pregethu am 10 yn Nghymdeithasfa y Bala Mehefin yr 16eg, 1825. Trefn y moddion ydoedd: Prydnawn y 15fed pregethodd "Wm. Roberts a R. David; am 6, bore yr 16eg, Richard Lloyd; am 10, Wm. Evans a John Elias; am 2, Theophilus Jones ac Ebenezer

Richard; ac am 6, Henry Rees a Michael Roberts." Dyna fel yr ysgrifenodd Mr. Evans i lawr enwau y rhai fu yn y gwaith yn y Gymdeithasfa hono.

Yn mysg y rhai oedd yn gwrandaw yn y Bala y pryd hwnw yr oedd "bachgen pedair-ar-ddeg oed," yr hwn oedd yn ysgrifenydd buan, ac a gymerodd i lawr yn lled gyflawn bregeth Mr. William Evans. Enw y bachgen oedd Roger Edwards, wedi hyny y Parch. Roger Edwards, Wyddgrug. Nid yw efe yn dadguddio ei enw, ond yn hytrach yn ei guddio, yn gyffelyb fel y gwnaeth Ioan yn ei Efengyl; ond y mae yn eglur mai ato ei hun yr oedd diweddar Olygydd y *Drysorfa* yn cyfeirio pan y dywedai ar tud. 4 o'r rhifyn am Ionawr, 1878, —"Ond caiff hyn o ysgrif derfynu gyda chrynhodeb o'r bregeth a draddododd yn y Gymdeithasfa grybwylledig yn y Bala, yn yr oedfa 10 o'r gloch dydd Iau, yr 16eg o Fehefin, 1825, o flaen y Parch John Elias, fel ei hysgrifenwyd gan fachgen pedair-ar-ddeg oed y pryd hwnw."

Fel y canlyn y mae yr adroddiad o'r bregeth:—

"Matthew v. 4.—'Gwyn eu byd y rhai sydd yn galaru; canys hwy a ddyddenir.'

"Yn y benod o'r blaen yr ydym yn cael yr Iesu yn dechreu ar ei weinidogaeth gyhoeddus, wedi ei fedyddio gan Ioan, ac wedi ei demtio yn yr anialwch ddeugain niwrnod. Dyma Efe yn myned 'oddiamgylch holl Galilea, gan ddysgu yn eu synagogau, a phregethu efengyl y deyrnas;' ac yr oedd Efe yn llefaru fel un âg awdurdod ganddo, a chyda hyny, 'yn iachau pob clefyd a phob afiechyd yn mhlith y bobl.' Yr oedd y son am dano yn myned trwy yr holl wlad, ac wele dorfeydd lawer yn dyfod ar ei ol o holl barthau'r wlad, nid yn unig o Galilea, ond o 'Decapolis, a Jerusalem, a Judea, ac o'r tu hwnt i'r Iorddonen.' Ac felly medd dechreu'r benod, 'A phan welodd yr Iesu y tyrfaoedd, Efe a esgynodd i'r mynydd;' ac oddiyno y mae yn pregethu y bregeth ryfedd a geir yn y benod hon a'r ddwy ganlynol. Yn y rhan flaenaf o honi, mae yn cyhoeddi wyth Gwynfyd yn

olynol, ond nid yw yn cyhoeddi gymaint ag un o'r gwynfydau heb ddangos i bwy y mae yn perthyn. Ac nid yw yn aros ar ddywedyd fod y rhai hyny yn wynfydedig heb roddi rheswm dros hyny. 'Gwyn eu byd y tlodion yn yr ysbryd,' neu, Gwyn eu byd y cardotwyr ysbrydol. Ie, er truaned eu golwg, mae y rhai hyny gan Dduw a Christ, yn dywysogion a breninoedd; 'canys eiddynt yw teyrnas nefoedd.' Ac yna daw y testyn, lle y cawn yr hysbysiad 'Gwyn eu byd y rhai sydd yn galaru,' ac yn reswm am hyny, 'canys hwy a ddyddenir.'

"Sylwn i ddechreu, am y nodiad hwn am bobl dduwiol: 'y rhai sydd yn galaru.'

"Peth hanfodol i wir grefydd yw'r galar hwn, y tristwch duwiol sydd yn perthyn i edifeirwch efengylaidd, y galar y mae'r gwir ddyddanwch yn ei ganlyn. Nid pob math o alarwyr sydd â theitl ganddynt i'r dyddanwch. Y mae galar bydol, galar deddfol, galar cnawdol, galar pechadurus. Yr oedd Ammon yn galaru mor fawr nes iddo glafychu, a'i fod yn curio beunydd; ond er iddo ef, trwy gyfrwysdra Jonadab, gael gafael ar yr hyn a ddymunai, ni chafodd efe afael ar y gwynfyd a'r dyddanwch. Yr oedd Ahab yn galaru am winllan Naboth nes yr aeth i orwedd i'w wely, ac ni fwytai fara. Efe a gafodd y winllan; ond y gwae, ac nid y gwynfyd, a gafodd o'r herwydd.

"Beth yw achos neu wrthddrych y galar a nodir yma? Yr ateb ydyw, Pechod: pechod fel y mae yn taraw yn erbyn Duw—y daioni penaf, ac fel y mae yn dinystrio yr enaid—ein trysor gwerthfawrocaf. Dyma ddrwg y drygau. Beth a drodd dyn a wnaed ar ddelw Duw i fod yn felldigedig? Pechod. Beth oedd yr achos o foddi'r byd? Pechod. Beth a ddyg y llosgiad ar Sodom a Gommorah? Pechod. Beth sydd yn cynyrchu yr holl aflwydd a'r helbul ar y ddaear? Pechod. Beth sy'n peri'r sŵn a'r dyfnder tanllyd yr ochr draw, 'Fe'm poenir yn y fflam hon'? Pechod. Paham y clwyfwyd ac y drylliwyd y Sanct a'r Cyfiawn oedd heb ddim

pechod ynddo? Am fod pechod yn gyfrifedig arno. Mae pechod y fath wrthddrych ag y rhaid galaru am dano, naill ai mewn amser neu yn nhragywyddoldeb—yn y byd hwn neu ynte yn yr hwn a ddaw. Y rhai a argyhoeddwyd o bechod, ac ydynt yn adwaen pla eu calonau eu hunain, nis gallant yn yr olwg ond galaru ac ymofidio.

"Beth yw natur neu ansawdd y galar hwn?

"Y mae yn alar gwirfoddol. Ac yn hyn y mae neillduolrwydd. Nid oes alar yn y nefoedd; maent yno wedi goddiweddyd llawenydd a hyfrydwch, a chystudd a galar wedi ffoi ymaith. Y mae galar yn uffern; ac yno y bydd wylofain byth; ond y boen a'r felldith sydd yn eu gorfodi i alaru. Ond galar yn dyfod yn rhwydd ac o wirfodd yw yr eiddo galarwyr Seion. Nid fel tân yn dyfod o'r gareg gallestr wrth ei tharo, ond fel y dwfr yn rhedeg o'r ffynon, neu fel y myrr yn defnynu yn naturiol. Wrth gael y drwg yn trigo ynddynt—y pechod sydd yn erbyn Duw a Thad mor dda, nis gall duwiolion beidio galaru.

"Mae yn alar ysprydol; galar am bechod fel pechod, ac nid yn gymaint am y gosb sydd yn dilyn pechod; galaru oherwydd yr uffern sydd mewn pechod yn fwy nag am yr uffern sydd yn canlyn ar ol pechod. Yr oedd Pharaoh yn galaru am y plaau, ond nid am bechod, pla'i galon. Nid felly yr oedd Dafydd: 'Fy mhechod sydd yn wastad ger fy mron.'

"Galar ydyw sydd yn gweithio yr enaid at Dduw. Aeth galar Cain dan ei anwiredd ag ef oddiwrth yr Arglwydd i dir Nod; a galar Judas am fradychu y gwaed gwerthfawrocaf erioed a'i gyrodd yntau i'r crogbren. Ond Pedr, wedi wylo yn chwerw-dost am y gwadu, a gafwyd yn fuan yn nghwmni yr Iesu byw, ac yn cadarnhau ei frodyr. Pan ddaeth y mab afradlon ato ei hun, ei iaith ydoedd,—'Mi a godaf, ac a âf at fy nhad, ac a ddywedaf wrtho, Fy nhad, pechais.' Ac fe drowyd ei alar yn llawenydd, gan i'w dad redeg i'w gyfarfod, a'i dderbyn gyda'r croesaw mwyaf. Mae ein Duw ni yn

llawn parodrwydd eto i dderbyn pechaduriaid fyddo yn troi yn edifeiriol ato. Mae y galarwr ysbrydol yn myned at Dduw am ei gymod a'i heddwch; oherwydd mae yn gweled mai yn hyny y mae mawr bwys; cael ei achos yn glir rhyngddo a'i Farnwr. A chan fod Duw yn deisyf trwy ei weinidogion, a hwythau yn erfyn dros Grist, 'Cymoder chwi â Duw,' a'r galarwr, yntau, yn dymuno derbyn y cymod, mae yn sicr y bydd y cymod bellach wedi ei wneuthur, a Duw a'r enaid yn un.

"Y mae hwn yn alar parhaus, gan mai nid yn ngwlad y pechod a'r cystudd y sychir y dagrau. Nid rhywbeth ffitiog, oriog ydyw; nid galaru yn yr oedfa, a bod yn anystyriol wedi myned adref, ond yn debyg i'r *pulse* yn y corph yn curo bob amser, er mai weithiau yn wanach ac weithiau yn gryfach. Dyma'r genadwri sydd i'w rhoddi heddyw i ferch Seion—nid merch Moab neu Babilon, ond 'merch Seion,' y bendefiges uchelaf oll, yr hon nad ydwyf deilwng i wneuthur y gwasanaeth lleiaf iddi: 'Merch Seion, tywallt ddagrau ddydd a nos fel afon; na orphwys, ac na pheidied canwyll dy lygad.' Tra y mae'r afiechyd yn y cyfansoddiad, y pla yn aros,—pechod mor rwysgfawr yn y byd, ac yn gwneud aml hafog yn yr eglwys, ac yn enwedig yn ymwreiddio ac yn ymledu yn y y galon, tylwyth ein tŷ ein hun mor elynol,—nis gall yr edifeiriol a'r crediniol beidio galaru. Ond y mae genym ochr arall i droi ati.

"Dyma sydd i'w gyhoeddi heddyw uwchben galarwyr Seion, er mor gystuddiedig eu calonau, ac er iseled eu profiadau: 'Gwyn eu byd y rhai sydd yn galaru, canys hwy a ddyddenir.'

"Ni cheir y gwir wynfyd ond yn ffordd Duw. Hwn yw y nôd sydd gan bawb, o'r brenin i'r cardotyn,—cyrhaedd gwynfyd; ond ychydig yw y rhai sydd yn lefelu yn gywir at y nôd. Cofier mai trwy'r groes y ceir y gwynfyd, ac mai ar ol y galar y mwynheir y dyddanwch. Mae Satan yn groes i Dduw yn y pwnc hwn, fel yn mhob peth arall. Gyda'r un

drwg ceir y goreu yn gyntaf, a'r gwaethaf yn ddiweddaf. Priodol yw y rhybudd, 'Nac edrych ar y gwin pan fyddo coch, pan ddangoso ei liw yn y cwpan, pan ymgynhyrfo yn iawn. Yn y diwedd efe a frath fel sarph, ac a biga fel neidr.' Yr oedd yn hyfryd ar Belsassar tua dechre a chanol y wledd fawr; ond yn y diwedd dyna ei wedd yn ymnewid, a'i liniau yn curo yn nghyd gan fraw a chryndod. O, am weled y diwedd yn y dechre! a thuag at hyny awn i gysegr Duw—syllwn trwy ysbienddrych yr Ysgrythyr, ac ni a welwn felly am yr annuwiolion, mai 'diwedd y rhai yw dystryw;' ond am y duwiol, 'diwedd y gŵr hwnw fydd tangnefedd.' Gyda gwir grefydd y mae fel yn y briodas yn Cana Galilea: y gwin goreu yn cael ei gadw hyd yn olaf.

"Galarwn fwy am ein beiau ein hunain—am yr hyn sydd yn atal oddi wrthym lewyrch wyneb ein Duw. Ymofidiwn am ddryllio Joseph—am iselder achos yr Arglwydd. Galarwn am annuwioldeb y wlad. Beth a wnaeth ein Gwaredwr uwchben Jerusalem oedd yn addfed i ddinystr? 'Pan welodd Efe y ddinas, Efe a wylodd drosti.' Fy mrodyr, parhewch i hau, a hau yn dew, o'r galar sanctaidd hwn; oherwydd 'y rhai sydd yn hau mewn dagrau a fedant mewn gorfoledd. Yr hwn sydd yn myned rhagddo ac yn wylo, gan ddwyn had gwerthfawr, gan ddyfod a ddaw mewn gorfoledd, dan gludo ei ysgubau.' Ond wrth annuwiolion rhaid i mi ddywedyd, Hauwch yn deneu; ïe, gwyliwch hau yn dew; bydd y grwn yn ddigon maith i fedi crop digofaint yn ddiddiwedd ar ol hau ychydig. Ond y mae genyf gyngor gwell i'w roddi i chwi heddyw: Newidiwch yr hâd. Digon yw yr amser a aeth heibio i fyw yn ol y cnawd. 'Ymofidiwch, a galerwch, ac wylwch; troer eich chwerthin yn alar, a'ch llawenydd yn dristwch. Ymddarostyngwch gerbron yr Arglwydd, ac Efe a'ch dyrchafa chwi.'

"Seion, paid a grwgnach dan ochr dywyll y cwmwl; mae'r cysur eto yn ol; ceir yr ochr oleu i wawrio ar fyrder. 'Hwy a ddyddenir.' Dyma ddyddanwch Duw—dyddanwch yr

Ysgrythyrau, dyddanwch Crist, dyddanwch yr Ysbryd Glân, dyddanwch a leinw enaid dyn. Gobeithio, fy ngwrandawyr, mai nid bychan genych chwi ddyddanwch Duw. Nid am i ni alaru y ceir ef, er fod y galar duwiol yn ei ragflaenu yn nhrefn yr efengyl. Gwerth y gwaed yw'r dyddanwch; trwy angeu'r groes y mae yn dyfod. Mae Mab Duw wedi ei gymhwyso i'w gyfranu, canys medd efe, 'Ysbryd yr Arglwydd Dduw sydd arnaf; oblegyd yr Arglwydd a'm heneiniodd: Efe a'm hanfonodd . . . i gysuro pob galarus, i osod i alarwyr Seion, ac i roddi iddynt ogoniant yn lle lludw, olew llawenydd yn lle galar, gwisg moliant yn lle ysbryd cystuddiedig, fel y gelwid hwy yn brenau cyfiawnder, ac yn blanigyn yr Arglwydd, fel y gogonedder Ef.' A ydych chwi yn foddlawn i'w drefn? Na freuddwydiwch am fwynhau'r dyddanwch heb hawl iddo. Edifarhewch, a chredwch yr efengyl, a daw i'ch rhan gyfiawnder, a thangnefedd, a llawenydd yn yr Ysbryd Glân."

Yr ydym wedi cymharu yr adroddiad hwn o'r bregeth â'r law-ysgrif wreiddiol, ac yr ydym yn cael ei fod yn adroddiad rhagorol, ïe, yn rhagorol iawn. Ac yn gymaint ag i'r "bachgen pedair-ar-ddeg oed" ysgrifenu mor gywir ac mor gyflawn, nid yw yn rhyfedd genym fod y diweddar Mr. Roger Edwards, o'r Wyddgrug, yn ysgrifenydd a chofnodydd mor fedrus. Ni fu erioed well engraifft i egluro y ddiareb, "Y plentyn yw tad y dyn." Y mae genym brawf pellach o ragoriaeth yr adroddiad uchod yn y law-ysgrif o bregeth ar yr un testyn, a ysgrifenwyd gan Mr. Evans yn Ionawr, 1860. Yr un ydyw a'r bregeth a draddodwyd ganddo yn y Bala yn 1825, eithr wedi ei thalfyru. Mae yn y law-ysgrif, o leiaf, un ychwanegiad prydferth, sef y dyfyniad o Chrysostom,—"Nid yw dagrau galar duwiol yn disgyn i golli—maent yn hâd dyddanwch. Fe droir dagrau galar yn win gorfoledd, fel yn Cana Galilea."

Ni ddywedwn ddim yn mhellach am y bregeth. Er nad yw llais, na thân, nac agweddiad y pregethwr, na'r dylanwad

oedd yn cyd-fyned â'r traddodiad i'w gweled yn yr adroddiad, eto y mae yn ddangosiad teg o nodwedd, mater, ac ysbryd gweinidogaeth William Evans, Tonyrefail, ar y pryd y daeth i'r golwg fel un i gymeryd ei le yn mysg pregethwyr enwocaf y Cyfundeb Methodistaidd. Yr ydym yn awr yn dychwelyd at yr hanes.

Cyraeddodd Mr. Evans adref o'i daith fawr trwy'r Gogledd dydd Llun, y 27ain o Fehefin. Y Sabboth dilynol, sef y 3ydd o Gorphenaf, yr oedd yn pregethu ar Donyrefail yn y bore, yn Salem, Pencoed, am 2, ac yn yr Hen Gastell, Penybont-ar-Ogwr, am 6. Yna bore Llun, y 4ydd, efe a aeth rhag blaen tua Chymdeithasfa Caerfyrddin, yr hon oedd i'w chynal ar y 6ed a'r 7fed. Yn nghofnodau y Gymdeithasfa hono yr ydym yn darllen fel y canlyn:—"Am 2, ymddyddanwyd â William Evans gyda golwg ar ei neillduad, yr hyn a fwriedid i gymeryd lle yn y Gymdeithasfa nesaf; a phenodwyd E. Richard i lefaru am natur eglwys, a'r Parch. Mr. Charles i roddi'r *siars* ar yr achos." Y mae yn ymddangos i ryw swyddog o sir Benfro amlygu nad oeddynt hwy yn y sir hono wedi clywed William Evans yn pregethu. Nid ydym yn gwybod a ddarfu i'r blaenor fyned yn mhellach, fel ag ar y cyfrif hyny i wrthwynebu y bwriad i neillduo Mr. Evans. Mor bell ag yr oedd hyny yn myned, yr ydoedd yn wrthwynebiad. Ond fe atebwyd ar unwaith gan Mr. Charles,—"Chwi gewch ei glywed yn pregethu am ddeg bore yfory o flaen Mr. Ebenezer Richard." Ac felly y bu. Yr oedd trefn y moddion cyhoeddus fel hyn:—Am 5, Wm. Griffiths a David Evans; am 6, bore y 7fed, John Thomas, Aberteifi; am 10, Wm. Evans, Mr. Parsons (yn y Saesonaeg), a E. Richard; am 2, W. Morris a D. Griffiths; ac am 6, D. Howell a Thos. Harries. Testyn Mr. Evans y tro hwn ydoedd Rhuf. iii. 24: "A hwy wedi eu cyfiawnhau yn rhad trwy ei ras Ef, trwy y prynedigaeth sydd yn Nghrist Iesu." Yr oedd yn hoff, yn enwedig yn ei flynyddoedd diweddaf, o gyfeirio at y Gymdeithasfa hono yn Nghaerfyrddin. Yr

ydym yn ei gofio yn gofyn yn sydyn, "Wyddoch chwi beth wnaeth Mr. Charles, Caerfyrddin, â fi?" "Beth oedd hyny?" Yna adroddai yr hanes. Gofynasom iddo, "Beth oedd eich testyn chwi?" Adroddodd yr adnod, ac ail ddechreuai y testyn—"'A hwy.' Pwy oeddynt? Yr un rhai ag a ddesgrifir yn yr adnodau blaenorol, sef y rhai 'a bechasant, ac ydynt yn ol am ogoniant Duw;' ac y maent yr un nifer hefyd. Ddywedais i ddim o hyny y pryd hwnw; ond mi fuaswn yn ei ddyweyd yn awr; oblegyd fel yr aeth pawb i lawr yn yr Adda cyntaf, fe godwyd pawb i'r lan yn yr ail Adda, fel ag i fod ar dir ag y mae yn bosibl iddynt gael eu cadw." Gadawodd caredigrwydd Mr. Charles, a'i ymyriad ar ei ran, argraff annileadwy ar ei feddwl, ac arosodd yn fyw yn ei gôf ac yn ddwfn yn ei galon. Rhywbryd yn y flwyddyn 1890 aeth Mr. a Mrs. Davies, Cwrtmawr, Llangeitho, i ymweled âg ef yn nghwmni ei fab hynaf. Y ffordd a gymerwyd i gyflwyno Mr. Davies iddo oedd fel hyn:—"Pan yr oeddid yn trefnu i'ch ordeinio chwi, fe wnaeth rhywrai wrthwynebu, oni do fe?" "Do, ond fe gymerodd Mr. Charles fy mhlaid i." "Wel, dyma ŵyr Mr. Charles." Gyda hyny yr oedd mewn hwyl fawr yn croesawu Mr. Davies. Yna trodd at Mrs. Davies, a gofynodd, "Pwy yw hon?" "Dyma Mrs. Davies, merch y Parch. D. Humphreys; a ydych yn ei gofio ef?" "Ydwyf, yn ddigon da; nid i sir Aberteifi yr oedd e' yn perthyn, ond i sir Gaerfyrddin." Yr oedd cyffwrdd âg enw Mr. Charles, a chofio am y gymwynas yn Nghymdeithasfa Caerfyrddin, Gorphenaf, 1825, bob amser yn adfywiad i'w ysbryd ac yn llonder i'w deimlad.

Yr unig grybwylliad o ddyddordeb sydd yn ei ddydd-lyfr am y gweddill o fis Gorphenaf yw agoriad capel Pontfaen, yr hyn a gymerodd le ar y 13eg a'r 14eg. Nid oedd Mr. Evans yn cymeryd rhan yn y pregethu, ond yr oedd yn bresenol yn rhai o'r oedfeuon, os nad yn yr oll o honynt, a dododd i lawr drefn y moddion. Y nos gyntaf pregethodd Mr. William Griffiths a Mr. Rowland Hill; am ddeg, yr ail

ddiwrnod, Mr. Charles a Mr. Rowland Hill; am ddau, Mr. Thomas Harries a Mr. Charles; ac am chwech, Mr. Rees Jones a Mr. Thomas Harries. Yn ystod y mis hwn hefyd yr oedd yn ymbarotoi yn ofalus ar gyfer ei neillduad. Byddai yn dodi Mrs. Evans i ofyn y cwestiynau, a byddai yntau yn eu hateb iddi hi yr un fath ag y bwriadai roddi yr atebion o flaen y Gymdeithasfa.

Cymerodd y neillduad le yn Nghymdeithasfa Aberteifi, yr hon a gynelid ar y 10fed a'r 11eg o Awst, am wyth o'r gloch bore yr 11eg. Y llywydd oedd Mr. Charles, Caerfyrddin. Fel y canlyn y mae y cofnodiad o'r cyfarfod ordeinio fel yr ysgrifenwyd ef gan Mr. Ebenezer Richard:—"Am 8, yr 11eg, neillduwyd William Evans yn y drefn ganlynol: gweddiodd David Elias am fendith ar y cwbl. Gofynodd T. Richard a oedd dewisiad y brawd William Evans wedi bod yn rheolaidd. Atebodd un o'r cynrychiolwyr yn gadarnhaol. Darllenodd J. Jones, Treffynon, 1 Tim. iii. a Titus i., a gweddiodd. Yna llefarodd E. Richard ychydig ar Natur Eglwys. Gofynodd Mr. J. Roberts y gofyniadau, a chafwyd atebion byr, synwyr-ol, a goleu iddynt. Yna gofynodd Mr. Gwalchmai a oedd y Corph yn ei ddewis, yr hyn a arwyddwyd trwy i bawb sefyll yn unfryd ar eu traed, gan ddyrchafu y llaw ddeheu. Rhodd-odd Mr. Charles y *siars* oddiwrth 2 Cor. xi. 3, a gweddiodd Richard Jones o'r Wern." Fe sylwa y darllenydd mai William Evans yn unig a ordeiniwyd y flwyddyn hono yn y Deheudir.

Ar ei ffordd i'r Gymdeithasfa yn Aberteifi, wedi pregethu am ddeg yn Nghyfarfod Misol Aberdar, ar y 3ydd o Awst, aeth erbyn yr hwyr i; Gastellnedd. Dranoeth, y 4ydd, yr oedd yn yr Hendre, sir Gaerfyrddin, ganol dydd, ac yn nhref Caerfyrddin y nos; yna aeth i Meidrim erbyn deg y 5ed, ac oddiyno ar draws y wlad erbyn y nos i Woodstock, yn swydd Benfro. Yr oedd Mr. Evans wedi bod yn teithio ac yn pregethu yn holl siroedd ereill Cymru; dyma fe yn awr yn sir Benfro. Fe ddichon mai difyr gan y cyfeillion yn y sir

hono fydd gweled trefn y cyhoeddiad a'r testynau. "Awst 5ed, 7, Woodstock, Mat. 5. 4. 6fed, 12, Hall, 1 Petr 4. 18; 7, Solfach, Salm 89. 14. 7fed, Sul, 10, Tyddewi, Job 33. 24; 2, Caerfarchell, Mat. 5. 4; 6, Trefin, Rhuf. 3. 24. 8fed, 12, Felindre, Salm 89. 14; 7, Abergwaen, 1 Petr 4. 18. 9fed, 10, Trefdraeth, Rhuf. 3. 24; 2, Glanrhyd, Mat. 5. 4; 7, Cilgeran, Job 33. 24." Ni chafodd ei enwi i bregethu yn y Gymdeithasfa. Yr oedd trefn y moddion cyhoeddus yn Aberteifi fel hyn:—"Y prydnawn cyntaf, Daniel Jones a William Jones. Am 6, John Jones, Treffynon, a Richard Jones, Wern. Am 10, Mr. Charles, Theo. Jones (yn Saesneg), a J. Roberts. Am 2, H. Gwalchmai a Mr. Evans. Cafwyd hin gysurus, y dyrfa yn fawr, a'r cymorth yn amlwg iawn." Gallwn feddwl i Mr. Evans ymadael yn union ar ol yr oedfa ddeg, gan ei fod yn pregethu yn Nghastellnewydd-Emlyn yn yr hwyr; ac y mae yn sicr genym iddo alw heibio y Twrgwyn i weled Mr. Ebenezer Morris, yr hwn a fu farw y dydd Llun canlynol.

Ar ol Cymdeithasfa Aberteifi a'i neillduad i gyflawn waith y weinidogaeth, yr ydym yn cael Mr. Evans am y gweddill o'r flwyddyn yn ymgadw yn gwbl o fewn terfynau ei sir ei hun. Ac yn awr yr ydym yn cyfarfod â nodwedd newydd yn ei gof-lyfr, sef y bedyddiadau a weinyddid ganddo. Y tro cyntaf iddo weinyddu yr ordinhad o fedydd ydoedd ar yr 28ain o Awst. "Bedyddiais Mary, merch David Arthur a Gwenllian ei wraig, *August* 28, 1825." Y Sabboth oedd y diwrnod hwnw, ac yr oedd efe yn Salem, Pencoed, y bore, Eweny y prydnawn, a'r Hen Gastell (Penybont) yr hwyr; eithr nid hysbysir ni yn mha un o'r lleoedd hyn y cymerodd y bedydd le. Cyflawnodd yr un gwasanaeth bedair-ar-ddeg o weithiau cyn diwedd y flwyddyn. Y Sabboth cyntaf ar ol ei neillduad yr oedd yn Nghastellnedd y bore, yn Aberafon am ddau, ac yn y Pil yr hwyr. Y mae yn dra thebyg ei fod yn gweinyddu yr ordinhad o Swper yr Arglwydd yn y bore a'r hwyr. Ac yn gymaint nad oedd nifer y gweinidogion yn

Morganwg ar y pryd ond bychan, a bod yr eglwysi yn amlhau, y mae yn lled sicr ei fod yn gweinyddu yr ordinhad hon yn mron bob Sabboth o hyny allan. Y mae yn amlwg ei fod yn sylweddoli yn llawn ystyr ei neillduad; canys yr oedd mewn llafur diorphwys gyda'r weinidogaeth. Heblaw cyflawni y cyhoeddiadau Sabbothol a dilyn y Cyfarfodydd Misol, yr oedd yn aml yn pregethu ar ddyddiau yr wythnos, ac yn myned i'r cyfarfodydd eglwysig yn Glynogwr, a'r Ddinas, a'r Llan, a manau ereill, yn gystal ag yn ei gartref ei hun. Bu hefyd yn Nghymdeithasfa Talgarth ar y 18fed a'r 19eg o Hydref, lle y pregethodd am 6 y bore oddiar Heb. ii. 3; a gwnaeth daith fer trwy sir Frycheiniog mewn cysylltiad â'r Gymdeithasfa. Yr oedd y Sabboth olaf o'r flwyddyn yn disgyn ar ddydd Nadolig; pregethodd am 5 yn y blygain ar Donyrefail, aeth i Glynogwr erbyn deg, i Bencoed erbyn dau, ac oddiyno erbyn yr hwyr i'r Hen Gastell. Ac y mae y diweddiad hwn o waith y flwyddyn yn engraifft deg o'i lwyr ymgysegriad i weinidogaeth yr efengyl.

# PENOD VI.

## 1826—1830.

### CYNWYSIAD.

Cymdeithasfa Penybont—Ymweliad cyntaf Mr. Evans â Llundain—Y llyfrau a brynodd—Cyfarfodydd Misol a Chymdeithasfaoedd 1827—Ymweliad â Bristol—Cymdeithasfa Abergwaen, 1828: adgofion y Parch. Dl. Symmons—Agoriad capel Croesfân—Mr. Evans yn ysgrifenydd y Cyfarfod Misol—Y cofnodion am 1829—Codi capel yn y Ddinas, Cwm Rhondda—Cymdeithasfaoedd Pontypool a Chaerfarchell, 1829—Taith i'r Gogledd—Cymdeithasfa y Bala: adgofion y Parch. John Jones, Ceinewydd—Agoriad capeli Brynsadler a Cityiscoed, Penllin—Agoriad capel Dinas Rhondda, 1830—Cymdeithasfa Pontfaen; y cofnodau yn nghylch cadw *society*—Yr ymweliad âg eglwysi Morganwg yn 1830—Cymdeithasfa Aberteifi—Achos Merthyr—Mr. Edward Williams, Mr. Benjamin Williams, a Mr. Jenkin Harry.

AR ol gwrandaw Mr. Evans yn pregethu yn y Bala Mehefin, 1825, gwnaeth Mr. Elias y sylw, "Dyna ddyn ieuanc i fyned i Lundain." Yr oedd gofal mawr gan Mr. Elias am yr achos yn y brif-ddinas; ac ar y pryd nid oedd efe ond newydd ddychwelyd oddiyno. Yn Nghofiant Mr. Ebenezer Morris yr ydym yn darllen fod Mr. Elias i olynu y gweinidog hynod hwnw "yn y brif-ddinas am rai wythnosau" (tud. 72), sef ar ol Cymanfa y Pasc, 1825. Os arosodd Mr. Elias ddeufis yn Llundain yn ol y drefn arferol yr amser hwnw, nid oedd efe gartref pan yr oedd Mr. Evans ar ei daith trwy Sir Fôn. Nid yw yn annhebyg gan hyny mai y tro crybwylledig yn y Bala oedd y cyntaf i Mr. Elias ei glywed. Ac y mae yn ymddangos iddo yn fuan hysbysu am enw y gweinidog o Donyrefail i'r frawdoliaeth yn Llundain; oblegyd daeth cais ato i fyned i wasanaethu yr achos yno am y misoedd Chwefror a Mawrth, 1826. Cyflwynwyd y cais o'r

brif-ddinas i'r Gymdeithasfa a gynaliwyd yn Mhenybont-ar-Ogwr, Ionawr 4ydd a'r 5ed, 1826. "Penderfynwyd bod y brawd William Evans yn myned i Lundain dros y Corph." Ac yn unol â'r penderfyniad hwn yr ydym yn ei gael yn y brif-ddinas o ddechreu y mis Chwefror dilynol hyd ddiwedd Mawrth. Pregethodd yn Bristol ar y 1af o Chwefror, a chyraeddodd Llundain am 9 o'r gloch nos Wener, y 3ydd. Bu yn y brif-ddinas dros wyth Sabboth, a'r olaf ydoedd Sul y Pasc, yn disgyn ar y 26ain o Fawrth. Nid yw y cof-lyfr yn cynwys dim o hanes ei lafur yn Llundain y tro hwn. Yr unig grybwylliad a gawn yw y canlynol: "(*No.* 17) *Margaret, the daughter of Edward Edward by Jane his wife, was baptized at Green Street, Blackfriars Road, London, March the 6th,* 1826, *by me, William Evans.*" Eithr a barnu oddiwrth y cyfrif o'i waith yn y tymorau diweddarach y bu yn Llundain, nid oes ameuaeth y bu ei lafur yn fawr yn ysbaid ei ymweliad cyntaf hwn, a'i fod yn pregethu, nid yn unig ddwywaith a theirgwaith ar y Sabbothau, ond hefyd yn aml ar nosweithiau yr wythnos. Yr oedd hefyd yn defnyddio yr hamdden yr oedd yn ei gael oddiwrth ei ofalon cartrefol i ddarllen a myfyrio yn galed; a byddai gwraig y tŷ yr oedd yn aros ynddo yn gorfod ei gymhell i fyned allan i rodio, fel na byddai iddo achosi gormod "blinder i'r cnawd."

Pan yn Llundain y tro hwn yr ydym yn cael iddo brynu rai llyfrau. Nid oedd ei stoc o lyfrau yn flaenorol ond bychan, ac yn mron yn gwbl os nad yn hollol felly yn yr iaith Gymraeg. Yr oedd wedi cael Mynegeir Ysgrythyrol Mr. Peter Williams mor bell yn ol a mis Gorphenaf, 1814, sef yn mhen ychydig wythnosau ar ol ei briodas. Y mae hyn yn eglur awgrymu beth oedd gogwydd ei feddwl ar y pryd hwnw. Yn mis Mai, 1816, prynodd gopi o Eiriadur Ysgrythyrol Mr. Charles. Dyma brawf amlycach o dueddiad ei feddwl. Yn 1819 efe a gafodd gopi o Esboniad Thomas Jones ar Lyfr Job, ac yn yr un flwyddyn Gwaith Gurnal ar Gyflawn Arfogaeth Duw, wedi ei gyfieithu gan Thomas

Jones; yn 1820 Corph o Dduwinyddiaeth Dr. George Lewis; ac yn 1821 Amseryddiaeth Ysgrythyrol Simon Lloyd. Ac yn awr yn Llundain prynodd *Annotations* Pool ac Esboniad Matthew Henry, yn nghyda Phregethau Robert Traill, 4 cyfrol; Gweithiau John Newton, 6 cyfrol; a Witsius ar y Cyfamodau, 2 gyfrol; ac yn Bristol ar ei ffordd adref, *Body of Practical Divinity* Gill. Yr ydym yn cofio ei glywed yn dyweyd iddo ofyn i Mr. Elias pa esboniadau yr anogai efe iddo eu cael, ac iddo yntau ateb, "Henry a Pool yn nghyd, ond Scott wrtho ei hunan." Mwy na hyny, bu Mr. Elias mor garedig a phrynu copi o Pool iddo, a gwnaeth ei hunan ei gario i'r llety. Y pris oedd £2; a £5 oedd y swm a dalodd Mr. Evans am y copi o Matthew Henry. Rhwng y cwbl yr oedd ganddo sypyn da o lyfrau i'w dwyn adref, lle y cyraeddodd yn gynar yn yr wythnos gyntaf yn Ebrill, ar ol treulio Sul, yr 2il, a phregethu dair gwaith yn Bristol.

Ar ol ei ddychweliad o Lundain, yr ydym yn ei gael yn dilyn ei gyhoeddiadau Sabbothol yn Morganwg gyda'i ymroddiad arferol. Yr oedd yn Nghyfarfod Misol Aberddawen, yn ngwaelod y Fro, ar y 19eg a'r 20fed o Ebrill, ac yn pregethu am 6 y nos gyntaf. Cynaliwyd y Cyfarfod Misol dilynol yn Merthyr, ar y 10fed a'r 11eg o Fai; ond os oedd efe yno, ni chymerodd ran yn y pregethu. Ar y 24ain a'r 25ain o'r un mis cynelid Cymdeithasfa yn Nhredegar, pryd yr oedd Mr. John Elias yn bresenol ac yn pregethu ddwywaith, sef am 5 y diwrnod cyntaf, ac am 10 yr ail ddydd. Ar y 6ed a'r 7fed o Fehefin, yr oedd Mr. Evans yn bresenol yn Nghyfarfod Misol Mynwy a gynelid yn Llaneurwg, a phregethodd yr ail fore. Oddiyno aeth erbyn yr hwyr i Gasnewydd. Dranoeth yr oedd yn Abergwyddon am 12, ac yn y Gelligroes am 7; a'r dydd canlynol yn Mynyddislwyn am 12, ac yn Rock am 7. Nos Sadwrn, y 10fed, yr oedd yn pregethu yn Aberdar, ac am 9 bore Sabboth, yr 11eg; yn Hirwaen am 1, ac yn Llanwyno am 6. Ar y 14eg o'r un mis yr oedd yn pregethu yn Mhenybont nos gyntaf y Cyfarfod

Misol yno. A thrachefn ar y 27ain am 6 yn Nghymdeithasfa Llandeilo, a rhoddodd ychydig oedfeuon wrth fyned a dychwelyd. Ar y 14eg o Gorphenaf, pregethodd am 6 nos gyntaf Cyfarfod Misol Llanilltyd Fawr. Y Sul dilynol yr oedd yn Mhenycae, Mynwy, y bore, yn Nantyglo am ddau, ac yn Nghendl yn yr hwyr. Bellach hefyd yr ydym yn cael cofnodiadau mynych o'r bedyddiadau a weinyddid ganddo; a chrybwylliadau nid anaml am angladdau y gelwid arno i bregethu ynddynt. Dyma engraifft bruddaidd o'r diweddaf yn agos i ddiwedd Gorphenaf, 1826:—" Am 10, angladd tri o blant Wm. Matthew ar yr un pryd—1 Samuel iii. 18; dyma yr adnod: " A Samuel a fynegodd iddo yr holl eiriau, ac nis celodd ddim rhagddo. Dywedodd yntau, yr Arglwydd yw Efe; gwnaed a fyddo da yn ei olwg." Y mae o leiaf un bedydd a weinyddwyd ganddo yn y flwyddyn hon yn deilwng i gael ei groniclo yma. Fel hyn y mae y cofnodiad: "(16) *Watkin, the son of Thomas Williams and Margaret his wife, was baptized at Caercyrlas-uchaf, the 24th day of January,* 1826." Nai iddo ydoedd y mab bychan hwn, mab ei chwaer ieuangaf, yr hwn a dyfodd i fyny i fod yn weinidog defnyddiol a chymeradwy, a chyfaill ei ewythr ar ei daith olaf trwy Ogledd Cymru. Ni a gawn gyfeirio ato eto. Eithr i fyned yn mlaen. Yr oedd Mr. Evans yn pregethu am 10 yn Nghyfarfod Misol y Creunant ar yr 17eg o Awst, ac ar yr un awr yn Nghyfarfod Misol Dyffryn Margam y 5ed o Hydref. Aeth i Gymdeithasfa Trefdraeth, swydd Benfro, yr hon a gynelid ar y dydd olaf o'r mis a'r cyntaf o Dachwedd, ac yr oedd yn pregethu yno am 3 y prydnawn cyntaf. Gwnaeth ychydig o daith wrth fyned a dychwelyd. Sabboth, y 5ed o Dachwedd, yr oedd yn y Goppa am 9, Castellnedd am 2, a'r Dyffryn am 6. Ni a'i cawn ef yn Nghyfarfod Misol Abertawy ar y 6ed a'r 7ed o Ragfyr, ac yn pregethu am 6 y nos gyntaf; ac aeth oddiyno at ei gyhoeddiad y Sabboth dilynol yn Merthyr a Dowlais, gan roddi oedfeuon ar ei ffordd yn Llansamlet, y Fynachlog, Ynysfach, a Hirwaen. Terfynodd ei lafur am

1826 fel hyn: Sul, y 24ain o Rhagfyr—Llanwyno am 10, Pontypridd am 2, Bryntirion am 6; dydd Nadolig—Tonyrefail am 5 y bore, Trehill am 10 a 2, Pendeulwyn am 6; Sul, yr 31ain—Ponfaen am 10, Aberthyn am 2, a'r Ton y nos.

Y mae hanes Mr. Evans am 1827 yn dra chyffelyb i'r hyn a adroddwyd am y flwyddyn flaenorol. Yr oedd yn pregethu mewn chwech o Gyfarfodydd Misol ei sir am y flwyddyn, sef yn Trehill, Chwefror; Ystradmynach, Mawrth; Pencoed, Ebrill; Castellnedd, Mehefin; Ystradgynlais, Medi; a Llansamlet, Hydref. Mae yn sicr ei fod yn Llantrisant yn Mai, ac yn fwy na thebyg ei fod yn y Pil ar y 1af a'r 2il o Ionawr, ac yn Nghyfarfod Misol Penybont yn Gorphenaf, ac feallai yn y Dyffryn yn mis Tachwedd. Nid oedd yn bresenol yn Mhontypridd yn Rhagfyr, am ei fod ar y pryd yn Bristol. Cynaliwyd y Cyfarfod Misol am Awst yn Nghaerdydd, sef ar yr 22ain a'r 23ain; yr oedd efe yno. Dyma drefn y pregethu: am 6, y nos gyntaf, "Wm. Morris, Mr. Charles; am 10, Wm. Griffiths, Mr. Charles; am 2, David Howell,* Wm. Morris;" ac y mae'r testynau hefyd i lawr yn y cof-lyfr. Bu dwy Gymdeithasfa yn Morganwg yn 1827--y naill yn Mhontfaen, ar y 3ydd a'r 4ydd o Ionawr, a'r llall yn Mhenybont, ar y ddau ddiwrnod olaf yn Mai. Mae yn ddiameu fod Mr. Evans yn bresenol yn y ddwy. Y mae Mr. Thomas Nicholas, Pontfaen, yn cofio ei fod yn bresenol yn y Gymdeithasfa yno, ac iddo ddechreu un o'r oedfeuon. Yr oedd y Parchedigion David Charles, Caerfyrddin, a Rowland Hill, yn pregethu yn y Gymdeithasfa hono. Bu hefyd mewn tair Cymdeithasfa allan o'r sir—yn Aberhonddu ar yr 28ain a'r 29ain o Fawrth, yn Nghaerfyrddin ar y 27ain a'r 28ain o Fehefin, ac yn Mlaenafon (sir Fynwy) ar yr 17eg a'r 18fed o Hydref; pregethodd yn mhob un o honynt. Treuliodd yr oll o fis Rhagfyr yn Bristol; a phregethodd yno dair gwaith bob Sabboth, a dwy waith yn yr wythnos, sef yn gyfangwbl—tair-ar-ugain o weithiau, heblaw presenoli ei hunan yn y

* Yr oedd efe newydd ddychwelyd o sir Faesyfed i gartrefu yn Abertawy.

cyfarfodydd gweddi a'r cyfeillachau eglwysig. Yr oedd rhywbeth yn mron bob nos yn y capel, ac yr oedd yntau bob amser yn ei le, yr hyn sydd yn profi y gallasai wneud gweinidog sefydlog yn llawn cystal ag ydoedd o bregethwr teithiol. Ar gyfer y 6ed o Ragfyr yr ydym yn cael hyn,—"Gwrandaw Mr. Robert Hall."

Gan fod ei Sabboth olaf yn Bristol y tro hwn ar y 30ain o Ragfyr, mae yn amlwg nas gallodd fyned i'r Pil i'r Cyfarfod Misol oedd i'w gynal yno y dydd olaf o'r hen flwyddyn, a'r dydd cyntaf o'r flwyddyn newydd (1829); ond y mae yn bossibl, ac nid yn annhebyg, iddo fyned i Gymdeithasfa Pontfaen, ar yr 2il a'r 3ydd o Ionawr. Cymdeithasfa achlysurol ydoedd hon, megys yr un a fuasai yn yr un lle yn nechre y flwyddyn o'r blaen, ac yn gyffelyb i'r Gymdeithasfa yn Mhenybont y flwyddyn cyn hyny. Y mae hanes am luaws o'r cyfryw Gymdeithasfaoedd achlysurol yn y cyfnod hwnw, yn ychwanegol at y Cymdeithasfaoedd Chwarterol. Y peth cyntaf yn hanes Mr. Evans am y flwyddyn 1828 sydd yn tynu ein sylw ato, ydyw taith o'i eiddo ar hyd terfyn dwyreiniol Morganwg. Buasai yn Nghyfarfod Misol y Rock, Mynwy, ar y 4ydd a'r 5ed o Fawrth. Y Sul dilynol, y 9fed, yr oedd yn Llangynwyd y bore, Pontrhydyfen y prydnawn, a'r Dyffryn y nos. Yna dydd Llun, y 10fed, ar ei ffordd adref, pregethodd yn Nglynogwr ganol dydd, ac ar y Ton yn yr hwyr. Dranoeth aeth i Lanwyno, Aberdar, a Hirwaen. Y dydd dilynol i'r Cefn a Merthyr. Y diwrnod ar ol hyny pregethodd yn Llanfabon, Ystradmynach, a Chaerffili. Dydd Gwener, y 14eg, yr oedd yn yr Eglwys Newydd, Bethel, a Chaerdydd; a dydd Sadwrn yn Mhentyrch, Bryntirion, a Llantrisant. Oddiyno aeth at ei gyhoeddiad Sabboth yr 16eg, yn Llanilltyd Fawr a Llysyfronydd. Cyn pen yr wythnos y mae yn cychwyn i fyned i'r Gymdeithasfa oedd i'w chynal yn Abergwaen ar y 25ain a'r 26ain, lle y pregethodd am 3 oddiar Heb. iii. 19; a therfynodd ei daith wrth ddychwelyd yn Nhreforris ar yr 31ain. Y mae y Parch.

Daniel Symmons yn cofio am y Gymdeithasfa hono, ac wedi ysgrifenu atom fel y canlyn:—"Yr wyf yn cofio y Parch. W. Evans, Tonyrefail, yn dda, ar y 25ain a'r 26ain o Fawrth, 1828, er nad oeddwn ond 13eg oed. Yr oedd son mawr am dano, ei fod yn bregethwr digyffelyb. Nid wyf yn cofio un gair o'i bregeth. Yr oedd ei wallt melyn, ei agwedd fywiog, a'i lais soniarus, peraidd, a seingar, yn tynu fy sylw neillduol; a phan ddarllenodd ei destyn—Heb. iii. 19, 'Ac yr ydym ni yn gweled na allent hwy fyned i mewn oherwydd annghred-iniaeth,' deallais fod a fynai y geiriau â mi; er ieuenged oeddwn, teimlais fy mod yn greadur cyfrifol. Nid annghofiaf yr oedfa hono byth. Yr wyf wedi annghofio llawer oedfa wedi hyny, ond y mae yr oedfa hono, y geiriau hyny, a'r llais seraphaidd hwnw, a'r agwedd fywiog hono oedd ar y pre-gethwr, yn aros. Cefais ychydig o ymddyddan âg ef yn ei gartref flynyddau yn ol am fy helynt boreuol. Ymddangosai yr hen batriarch yn teimlo yn ddwys. Daeth i'm hebrwng i gyfeiriad fy nghyhoeddiad encyd o ffordd; a dyna y tro diweddaf y cefais y fraint o ysgwyd llaw âg ef."

Ar ol ei ddychweliad o'r Gymdeithasfa uchod yn Aber-gwaen, yr ydym yn ei gael, gyda dilyn ei gyhoeddiadau Sabbothol ar hyd a lled Morganwg, ar y 7fed a'r 8fed o Ebrill, yn Nghyfarfod Misol Pencoed, ar y Sul cyntaf yn Mai yn Nhredegar, Rhymni, a'r Ysgwydd-gwyn; ar yr 11eg o Fehefin yn pregethu yn Nghwrdd Misol Llantrisant, ac ar yr 16eg o'r un mis yn Nhŷ Cwrdd y Cyfeillion y cyfeiriasom ato, ar lan y Mychydd, tua milldir i'r chwith o'r ffordd fawr sydd yn arwain o Donyrefail i Lantrisant. Ar y 15fed a'r 16eg o'r un mis yr oeddid yn "agor capel Brofiskin" neu Croesfân, lle y pregethodd am 10 oddiar Seph. ii. 3, o flaen Mr. David Howell. Ar y 3ydd o Gorphenaf yr oedd yn pre-gethu am 6 o'r gloch y bore yn Nghwrdd Misol Penybont. Y Sabboth dilynol yr oedd yn y Pil y bore, Aberafon am 2, ac yn nghapel yr Annibynwyr, Castellnedd, yn yr hwyr. Yr oedd capel y Methodistiaid yn Nghastellnedd y pryd hwnw

ar lawr, ac yn cael ei ail-adeiladu, a'i wneuthur yn helaethach na'r un blaenorol. Oddiyno aeth i Abertawy erbyn nos Lun, a dranoeth i Gymdeithasfa Llanelli, sir Gaerfyrddin, a phregethodd am 4 y prydnawn cyntaf. Yr oedd yn Nghyfarfod Misol Aberdar y ddau ddiwrnod olaf o'r mis, ac yn cymeryd rhan yn y pregethu. Gwasanaethodd ei daith gartrefol y Sul cyntaf o fis Awst, gan ddechreu ar y Ton, a diweddu yn Nglynogwr; ac oddiyno aeth, bore dydd Llun y 4ydd, tua Llambedr-Pont-Stephan i'r Gymdeithasfa oedd i'w chynal yno ar y 6fed a'r 7fed. Cyrhaeddodd a phregethodd yn Nhrecastell nos Lun, ac yn Llanymddyfri ganol dydd Mawrth, ac yn Nghaio yr hwyr. Yr oedd yn pregethu am 6, bore dydd Iau, y 7fed, yn Llambedr. Y mae Mr. David Davies, Llanilar, yn cofio am yr oedfa. Y testyn oedd Iago i. 25; a thra yr oedd yn pregethu daliodd Mr. William Havard wlawlen uwch ei ben. Y mae yn cofio i'r pregethwr ddyweyd,—"Y mae perffaith gyfraith rhyddid a'r Tywysog oddiar yr orsedd yn rhyddhau y gwir Gristion. Y mae y gwir Gristion yn debyg i ganwyll y llygad—ni raid wrth bechod mawr i'w dywyllu, ond y tywodyn bach, os na olchir ef ymaith â dagrau edifeirwch, sydd yn sicr o gymylu rhyngddo a'i Dduw." Dychwelodd o Lambedr i Lanymddyfri nos Iau, a chynaliodd oedfeuon yn Ystradfellte a Phontneddfechan dydd Gwener. Eithr er meithder y daith, a byrder yr amser y gwnaed hi ynddo, yr oedd Mr. Evans, bore Sul, i fyned i Glynogwr, ac oddiyno i Lantrisant erbyn dau, ac yn ol i'r Ton yr hwyr. Ar y 27ain o Awst aeth bob cam i Gyfarfod Misol Ystradgynlais, lle y pregethodd am 5 oddiar Heb. ix. 14. Ar ol cadw oedfa yn Abergwyddon, Mynwy, nos Sadwrn, y 6fed o Fedi, yr oedd yn cymeryd rhan mewn cyfarfod ysgolion yn y Gelligroes bore Sabboth, y 7fed, ac yn pregethu y prydnawn a'r hwyr. Oddiyno aeth nos Lun i Cadoxton, ac erbyn nos Fawrth i Fryntirion. Y Sul dilynol yr oedd yn gorphwys: y Sabboth cyntaf iddo fod gartref heb bregethu er dechreuad ei yrfa weinidogaethol. Ond y

Sabboth canlynol, yr 21ain, yr oedd yn Mhontnedd-fechan y bore, Ynys-fach y prydnawn, a Chastellnedd am chwech. Yr wythnos ar ol hyny yr oedd yn cymeryd rhan yn y pregethu yn Nghwrdd Misol Caerffili; a'r Sul olaf yn y mis yr oedd ar y Ton yn y bore, Bryntirion am ddau, a Phentyrch y nos. Fel yma yr ydoedd yn y gwaith mawr yn mron yn ddibaid. Nid yw yn ymddangos ei fod yn blino dim yn y gorchwyl ag yr oedd ei holl enaid yn llwyr gysegredig iddo. Yr oedd yn awr yn nghyflawnder ei nerth, ac y mae yn amlwg ei fod wedi penderfynu llanw ei wlad ei hun â'r efengyl, ac i gymeryd pob cyfleusdra a roddid iddo i efengylu i'w gydgenedl mewn parthau ereill o Gymru. Yr ydym yn cael prawf arall, ac amlwg iawn, o hyn yn y llafur yr aeth drwyddo yn mis Tachwedd, 1828. Wedi gwasanaethu y daith gartrefol Sul yr 2il, pregethodd ddwy waith y dydd yn yr wythnos ddilynol yn ngwahanol gapelau pen dwyreiniol Morganwg, yn gyffelyb fel y gwnaethai yn y mis Mawrth blaenorol.

Ar y 12fed y mae yn cychwyn ar daith fanwl trwy sir Frycheiniog, ac yn rhoddi ychydig oedfeuon ar ymylon dwyreiniol sir Gaerfyrddin, ac yn dibenu y daith yn y Llwyni, nos Iau, y 27ain. Gorphenodd waith y mis ar Sul, y 30ain, yn Aberdar y bore, Llanwyno am ddau, a Phontypridd yr hwyr. Hefyd pregethodd bedair gwaith dydd Nadolig; ac ar y Sul olaf o'r flwyddyn yr oedd yn pregethu yn yr Eglwys Newydd y bore, Bethel y prydnawn, a Chaerdydd yn yr hwyr.

Yr ydym yn awr yn dyfod at y flwyddyn 1829. Yn y dyddiad hwn y mae Mr. Evans yn dyfod ger ein bron mewn cymeriad newydd, sef fel ysgrifenydd cynorthwyol Cyfarfod Misol Morganwg. Gadawodd lyfr yn cynwys cofnodau o weithrediadau naw o Gyfarfodydd Misol y flwyddyn 1829, ac yn gyffelyb am y blynyddoedd 1830 a 1831. Ysgrifenydd y Cyfarfod Misol ydoedd Mr. Basset, cyfreithiwr, Llanilltyd Fawr, yr hwn oedd yn analluog i fod yn bresenol yn y cyfar-

fodydd o fis i fis; a phenodwyd Mr. Evans i gymeryd ei swydd yn ei absenoldeb, a gwnaeth yntau groniclo yn ofalus y gweithrediadau. Ac fel y gallesid dysgwyl, y mae'r cofnodion hyn yn taflu llawer o oleuni ar sefyllfa yr achos crefyddol yn Morganwg yn y blynyddoedd hyny. Yr ydym yn gosod i fewn yn llawn yr engraifft gyntaf o'r cofnodion.

"1829. Cyfarfod Misol Glynogwr, 28ain a 29ain.—1. Cydolygwyd yn Nghyfarfod Misol Glynogwr fod yr holl eglwysi yn y sir ag sydd wedi myned dan draul eu hunain yn achos helaethiad eu capelau, i gasglu yn eu plith eu hunain un swllt yn flynyddol gyferbyn â phob aelod at leihau y ddyled sydd ar gorph y sir, ac i ddyfod â'r casgliad hwn i mewn i Gyfarfod Blynyddol y Pil, ac i'w coffhau yn y ddau Gyfarfod Misol canlynol.

"2. Caniatawyd i bobl Cefncoedycymmer i helaethu eu capel, fel yr oedd angen yn galw am hyny, ond nad oedd iddynt ddysgwyl dim cynorthwy oddiwrth y sir, ond yn unig Merthyr a Dowlais; ac i ddyfod âg *estimate* o draul yr helaethiad, yn nghyda swm yr addewidion at yr helaethiad, i'r Cyfarfod Misol cyn dechreu adeiladu."

Mae yr ail o'r penderfyniadau uchod yn ddigon eglur, ac yn dangos y mawr ofal oedd gan y rhai a ffurfient y Cyfarfod Misol y pryd hwnw yn nghylch y draul o godi neu helaethu capelau. Y mae y penderfyniad cyntaf hefyd yn dwyn cysylltiad â'r un mater; ond fe ddichon fod ychydig eiriau o eglurhad yn ofynol gyda golwg arno. Yr oedd y pryd hwnw, fel y mae eto, ddyled yn gorphwys ar y Cyfarfod Misol, neu "gorph y sir," fel y cyfryw, yn gystal a'r dyledion oedd yn gorphwys ar leoedd neu eglwysi unigol. Achosid dyled y Cyfarfod Misol trwy ei waith yn ymgymeryd i dalu symiau dros leoedd gweiniaid. Mae yn ymddangos ei fod yn hen arferiad i ofyn cynorthwy y Cyfarfod Misol, a'i fod yr un modd yn hen arferiad gan y Cyfarfod Misol i roddi cymorth, a thrwy hyny yn myned i ddyled. I gyfarfod â'r cyfryw ddyled sirol y trefnwyd y cynllun a dynwyd allan yn y pen-

derfyniad uchod, ac yn ddiameu a weithiwyd allan gyda graddau mwy neu lai o lwyddiant. Nid oedd pobl dda y Cefn i ddysgwyl cynorthwy ond o Ferthyr a Dowlais ; eto yr oeddynt hwythau i gyfranu swllt y flwyddyn ar gyfer pob aelod eglwysig i symud ymaith ddyled y Cyfarfod Misol, ac felly pob eglwys arall yn yr un amgylchiad. Mae yr egwyddor o gydweithrediad yn amlwg yn y cynllun ; ac fe ddangosir fod yr eglwysi cryfach wedi cael eu dysgu gynt gan y tadau i gynorthwyo y rhai gweiniaid.

Yn y Cyfarfod Misol dilynol yn Nhrehill, ar y 18fed a'r 19eg o Chwefror, cafwyd ymdriniaeth ar fater pwysig arall, a "phenderfynwyd sefydlu cylch-daith Sabbothol y gweinidogion trwy y sir, fel y byddai yr ordinhadau i gael eu gweinyddu, os byddai yn bosibl, unwaith bob mis yn mhob capel." Dyma ddechreuad y drafodaeth a arweiniodd yn mhen blynyddoedd ar ol hyny i ffurfiad y cynllun gweinidogaethol—y "*plan*," fel y gelwid ef—yn Morganwg, ac a fu o wasanaeth mawr, yn enwedig i'r eglwysi lleiaf. Yr oedd yr eglwysi wedi amlhau yn ysbaid y deng mlynedd a basiodd, ond yr oedd nifer y gweinidogion yn aros yn agos yr un, ac yr oedd y nifer hwnw yn fychan. Yr oedd gweinidogaeth Mr. Rees Jones a Mr. William Griffiths yn gyfyngedig yn mron yn llwyr i Browyr. Bu Mr. David Howell am dair blynedd ar ol ei neillduad yn sir Faesyfed. Ac yn awr yn nechre 1829, yr oll o'r pregethwyr mewn cyflawn urddau i wasanaethu holl nifer eglwysi cynyddol Morganwg, gyda'r eithriad o eglwysi Browyr, oeddynt Mr. Howel Howells, Mr. Hopkin Bevan, Mr. Richard James, Mr. David Williams, Mr. David Howell, a Mr. William Evans. Eithr yn y Cyfarfod Misol yr ydym yn awr yn cyfeirio ato fe benderfynwyd cyflwyno enw Mr. Benjamin Evans i'r Gymdeithasfa i gael ei neillduo; yr hyn a gymerodd le yn y mis Awst canlynol. Ar ol hyny nid oedd nifer y gweinidogion yn y sir ond saith, neu yn hytrach naw, a chymeryd i mewn y ddau frawd parchus yn Mrowyr. Yn yr un Cyfarfod Misol hefyd cyd-olygwyd "fod

angen rhanu y sir yn ddosbarthiadau." Dyma hedyn symudiad arall sydd bellach yn hen, nid yn unig yn Morganwg, ond yn yr holl siroedd ereill, er hyrwyddo dygiad yn mlaen yr achos yn ein plith, ac sydd erbyn hyn wedi cyrhaedd mesur uchel o bwysigrwydd, ac yn ddiameu o effeithiolrwydd, trwy ffurfiad y Cyfarfod Dosbarth, yr hwn sydd yn gyfrwng gwasanaethgar rhwng y Cyfarfod Misol a'r eglwysi. Yn ychwanegol at y pethau a nodwyd "ymdriniwyd ychydig ar achos yr Ysgolion Sabbothol" yn Nhrehill, a phenderfynwyd ei fod i gael ystyriaeth pellach yn y Cyfarfod Misol nesaf, yr hwn a gynaliwyd yn Abertawy ar yr 2il a'r 3ydd o Ebrill. Yno penodwyd William Evans a Benjamin Williams i dynu allan restr o gylch-deithiau y gweinidogion yn ol penderfyniad y Cyfarfod Misol blaenorol, i'w darllen yn yr un dilynol, yn Salem, Pencoed. Caniatawyd i'r eglwys yn Llangyfelach i ddodi oriel yn y capel yno. Penderfynwyd fod y cyfarfod eglwysig i'w gynal ar yn ail wythnos yn y ddau gapel yn Abertawy, set y Cruglas a'r Trinity, a "bod dim ond un achos i'w ystyried yn y ddau gapel." Yn y cyfarfod neillduol am 8 o'r gloch yr ail fore, "Ymddyddanwyd â Mr. Francis ac â Mr. Cadwallader,"—y ddau flaenor (yr olaf oedd tad-yn-nghyfraith Mr. David Howell), "1. Am eu sefyllfa bersonol rhyngddynt â Duw. Yn 2. Am eu profiad a'u tywydd gyda'r gwaith, fel golygwyr ar braidd Duw." Yn y Cyfarfod Misol dilynol, yn Salem, ar yr 20fed a'r 21ain o Ebrill, darllenwyd a chymeradwywyd cynllun cylch-daith y gweinidoglon; gosodwyd Mr. Basset a William Powell i nodi ymddiriedolwyr ar gapel Penybont; penderfynwyd na byddai i gapel newydd gael ei godi yn Aberdar nes y ceid gwell sylfaen nag oedd i'r hen; enwyd Thomas David a Richard Thomas o'r Prysc i fyned i Gymdeithasfa Caerfarchell, yn achos neillduad Benjamin Evans; ymddyddanwyd â dau frawd ieuanc o Aberdar am eu cymhelliadau i waith y weinidogaeth, a rhoddwyd caniatâd iddynt i ddechreu llefaru yn y cyfarfod eglwysig yn unig am ychydig; sylwyd ar yr

angenrheidrwydd i gryfhau trysorfa y sir, fel y gellid estyn ychydig gynorthwy i'r hen lefarwyr ag oeddynt wedi myned yn analluog i deithio; cymeradwywyd trefn newydd gyda'r Ysgolion Sabbothol, ac addawyd cyd-weithredu â'r cynllun yn ddioedi. Bu y pwnc o fedydd dan sylw yn y Cyfarfod Misol hwn, a chytunwyd nad oedd neb mewn oed i'w bedyddio ond aelodau eglwysig, na neb babanod i'w bedyddio ond plant crefyddwyr; ac mewn perthynas i genadwri a ddaethai oddiwrth frawd yn un o'r eglwysi gyda golwg ar fedyddio ei blant, penderfynwyd nas gellid bedyddio yr hynaf o honynt, yr hwn oedd yn 17eg oed, heb ei ganiatad ei hunan. Y Cyfarfod Misol nesaf yn 1829 ag y mae genym ei gofnodion o dan law Mr. Evans, a gynaliwyd yn Mhenybont, ar y 15fed a'r 16eg o Gorphenaf. Yno penderfynwyd i Gastellnedd a Llansawel i fod yn daith Sabbothol, a'r Ynysfach a'r Creunant, ac Ystradgynlais "a'i hardaloedd" yr un modd. Cyfarfod eglwysig i'w gynal yn Llansawel bob pythefnos; brodyr o Gastellnedd i'w cynorthwyo. Penderfynwyd rhanu y sir yn chwech o ddosbarthiadau, a bod un llefarwr yn cael ei benodi yn mhob dosbarth i ofalu fod y casgliadau cyffredinol yn cael eu gwneuthur gan bob eglwys, ac yn cael eu dwyn i mewn i'r Cyfarfod Misol yn brydlawn. Y mae y cofnodiad nesaf yn un dyddorol iawn: "Enwyd Mr. Richard Thomas, William Evans, a Thomas David i ymddyddan â John James am ei gymhelliad i waith y weinidogaeth." Ac yn y Cyfarfod Misol dilynol, a gynaliwyd yn yr Eglwys Newydd ar y 12fed a'r 13eg o Awst, cyflwynasant eu hadroddiad, a phenderfynwyd "Fod rhyddid i John James i lefaru yn gartrefol yn unig, ac i lefaru o flaen rhyw frawd, ac nid wrtho ei hun, am ychydig amser eto." Dyma y gŵr a ddaeth wedi hyny yn adnabyddus trwy Gymru fel y Parchedig John James, Penybont. Ni a gawn achlysur i wneuthur crybwylliad helaethach am dano mewn penod ddilynol. Hefyd rhoddwyd caniatad i John Samuel, Fforddlas, i gyngori ychydig yn yr Ysgol Sabbothol yn unig. Caniata-

wyd i'r eglwys yn Abertawy i brynu sylfaen y capel, os byddai yr ymddiriedolwyr yn feichnïon am yr arian. Gosodwyd ar y blaenoriaid i ofalu bod addoliad teuluaidd yn cael ei gadw gan bob penteulu perthynol i'r eglwysi. Darllenir y cofnodiad a ganlyn gyda dyddordeb: "Penderfynwyd i bob taith Sabboth i ddigolledu y brodyr yn eu llafur Sabbothol am waith y weinidogaeth, ac na roddo neb yn llaw llefarwr dan ddau swllt am oedfa ar y Sabboth." Cynaliwyd y Cyfarfod Misol nesaf yn Ystradgynlais, Medi 9fed a'r 10fed. Dyma yr unig gofnodiad, ac y mae yn werth ei groniclo ar ei hyd, gan ei fod yn dwyn perthynas â'r capel cyntaf a godwyd gan y Methodistiaid Calfinaidd yn Nghwm Rhondda. "Caniatawyd i bobl y Ddinas i adeiladu capel i'r Corph er cadw ysgol a phregethu yr efengyl, ond ni addawyd iddynt un swm penodol oddiwrth y sir, ond yn unig y byddai iddynt gael rhywfaint o gymorth gan yr eglwysi amgylchol—un bunt oddiwrth bob un, os gwelent hwy yn dda, ond nad oes rhwymau ar neb ond sydd wedi addaw. Enwau'r cymdeithasau sydd wedi addaw eu cynorthwyo—

| | £ | s. | d. |
|---|---|---|---|
| 1 Tonyrefail ... ... ... | 1 | 0 | 0 |
| 2 Glynogwr .. ... | 1 | 0 | 0 |
| 3 Salem ... ... ... | 1 | 0 | 0." |

Yr ydym eisioes wedi gweled y buasai moddion crefyddol yn cael eu cadw yn rheolaidd yn y lle hwnw er ys mwy na deg mlynedd. Dyma'r fan lle yr agorwyd gweithiau glo gyntaf yn Nghwm Rhondda; ac nid hir cyn yr ymgasglodd yno boblogaeth luosog, ac yr oedd pob argoel am achos crefyddol cryf. Mae yn ddiau mai da pe buasid wedi codi capel yn gynt nag y gwnaed, ond nid oedd yr ysbryd anturiaethus sydd yn awr yn meddianu ein cyfeillion yn Morganwg wedi disgyn ar y tadau gofalus a thra gochelgar yn yr amser yr ydym yn awr yn cyfeirio ato. Ni a gawn achos capel y Ddinas gerbron y Cyfarfod Misol drachefn yn Nghaerdydd, ar yr 8fed o Hydref, pryd y "penderfynwyd galw yr holl

eglwysi wrth eu henwau yn Nghyfarfod Misol Pontypridd, i edrych beth a wnaiff pob cymdeithas er cynorthwyo pobl y Ddinas i adeiladu capel." Hefyd, "Fod ymdrin i fod yn Mhontypridd y dydd cyntaf yn achos dyled y Tai Cyrddau, am rhyw lwybr er symud peth o'r ddyled tua'r Nadolig." Yn unol â'r penderfyniad olaf, cytunwyd yn Mhontypridd ar y 5ed o Dachwedd, "trwy arwydd, y byddai i bawb trwy y sir i gydweithredu yn ffyddlon erbyn Cyfarfod Misol y Pil, i dalu cymaint a allom o'r hen ddyled sydd yn aros ar y capeli." O ganlyniad fe oedwyd gwneuthur un addewid bellach tuag at gapel y Ddinas hyd ar ol y Calan. Penodwyd Mr. D. Roberts i fyned i Bristol dros fis Rhagfyr. Caniatawyd i Ebenezer Pugh i lefaru yn Aberdar dros un mis. Danfonwyd gyda Evan Jones, Cwmnedd, at Titus Jones, ar iddo ddyfod i'r Cyfarfod Misol nesaf yn Aberafon, yr hwn a gynaliwyd ar y 25ain a'r 26ain o Dachwedd. Yno "penderfynwyd i Wm. Evans a Mr. Thomas Morris i fyned i Lanfabon i fwrw golwg ar y lle maent wedi gymeryd i adeiladu capel, ac i ddyfod â'u golygiadau i Gyfarfod Misol y Pil." Bu'r pwnc o fagu'r plant yn yr eglwysi dan sylw, a rhoddwyd anogaethau at hyny. Derbyniwyd llythyr oddiwrth Mr. Smith, a phenderfynwyd anfon cyfarchiad ato mewn atebiad.

Fe wasanaetha y cofnodion uchod i roddi golwg deg ar yr hyn ydoedd Cyfarfod Misol Morganwg dri-ugain mlynedd yn ol, ac i ddangos "ysbryd rhagorol," manylder, ffyddlondeb, a chydwybodolrwydd y tadau, eu gofal mawr am yr achos yn ei holl ranau, a'r ymroddiad llwyr gyda pha un yr ymgysegrent i waith yr Arglwydd. Y mae yn amlwg hefyd fod Mr. William Evans wedi enill lle pwysig yn mhlith ei frodyr, a bod ei ddefnyddioldeb yn cael ei fawr werthfawrogi. Yr oedd yn bresenol mewn naw o Gyfarfodydd Misol yn y flwyddyn 1829, ac yn pregethu ynddynt oll, gydag un eithriad,—weithiau y nos gyntaf, brydiau ereill yr ail fore, un tro am chwech y bore, ac unwaith neu ddwy am ddau; yr hyn

sydd yn dangos fod yr oedfeuon cyhoeddus yn raddol yn cael eu hestyn hyd ddiwedd ail ddiwrnod y Cyfarfod Misol. Bu Mr. Evans hefyd mewn tair o Gymdeithasfaoedd Chwarterol yn y flwyddyn hon, sef yn Mhontypool, ar y 25ain a'r 26ain o Fawrth, lle y pregethodd am 3 y prydnawn cyntaf, oddiar Mica ii. 13; yn Nghaerfarchell, ar y 19eg a'r 20fed o Fai, pryd y pregethodd ar yr un awr ag a wnaethasai yn Mhontypool, oddiar Rhuf. xiii. 11; ac yn Nghrughowel ar yr 20fed a'r 21ain o Hydref, ac yr oedd yn pregethu yno am ddau o'r gloch oddiar Ioan i. 17. Yr ydym yn cofio ei glywed yn dyweyd iddo weithredu fel ysgrifenydd mewn un Gymdeithasfa, ac mai yn Mhontypool y bu hyny; ac fe ddichon mai y tro uchod y gwnaeth felly. Y mae cofnodau y Gymdeithasfa hono wedi eu hysgrifenu ganddo ef yn awr o'n blaen, ac yr ydym yn teimlo eu bod mor addysgiadol fel nas gallwn yn amgen na'u gosod i mewn yma.

"1829. *Association* Pontypool, Mawrth 25 & 26. *Society* 10 o'r gloch. Ymddyddanwyd â Mr. Morgan Evans, William Howells, a William Rowlands,—

1. Am eu sefyllfa bersonol rhyngddynt â'r Arglwydd.

2. Am eu profiad gyda gwaith y weinidogaeth.

3. Rhoddwyd gair o gyngor i'r pregethwyr ieuainc, na byddont i siarad gormod mewn ffordd o achwyn oherwydd blino a lludded yn y gwaith, fel pe tae neb erioed wedi gwneud y fath orchest a hwy, pan y mae hen bobl wedi gwneud eu gwaith hwy ddwywaith, trwy anhawsderau fwy o ddwywaith; eithr heb nac achwyn na chwyno, yn ei weled yn wir fraint.

4. Dylem fod yn fwy ystyriol o'n brodyr sydd yn ffaelu dyfod atom i'n cyfarfodydd oherwydd afiechyd.

5. Fod yn ddyledswydd arnom ymweled â'r achos yn ein gweinidogaeth, &c., yn y lleoedd gwanaf yn gystal a'r rhai sydd fel arall, ïe, bod yn ofalus yn hyn.

*Society* un o'r gloch.

1. Trefnu yr *Association:* Aberystwyth, *May* 6 & 7; Caerfarchell, *Pembrokeshire*, *May* 18, 19th.

2. Caniatawyd i Mr. David Williams, Merthyr, a William Morris, Cefn, i ddanfon *copy* o'r rhan gyntaf o'u llyfr, sef yr Athraw, i Gyfarfod Misol pob sir yn y Deheubarth, fel y caffont olwg ar y gwaith cyn yr *Association* nesaf, er barn ac amlygu eu golygiadau arno yno.

3. Fod pob sir i ofalu anfon un llefarwr i Bristol y Sulgwyn, i'r *Association.*

4. Caniatawyd i bobl Caerfyrddin argraffu rheolau perthynol i'r Corph, ond gofalu eu bod yn ol y rheolau sydd yn Nghyffes Ffydd y Corph.

5. Coffawyd llythyr a argraffwyd yn Madagascar, wedi ei anfon at y Corph, gan ddymuno rhyw ychydig o gymorth at helaethu yr ysgolion yn eu plith. Mae yn nghylch 2000 o blant yn awr dan addysg; ac o blith y rhai hyn y mae'r brenin eisioes yn cael rhai i fod mewn swyddau yn y wladwriaeth. Penderfynwyd fod eu hachos i fod dan sylw yn yr *Association* nesaf.

6. Rhoddwyd gair o gyngor mewn perthynas i'r holl ymddyddan sydd yn y wlad mewn perthynas i'r Pabyddion. Mae yr agwedd sydd wedi myned ar y wlad yn herwydd hyn yn ynfyd ac yn wâg iawn: y gwragedd, a phlant, a dynion nad ydynt yn deall dim, yn llawn berw ynfyd i gyd; ond mai ein dyledswydd ni fel proffeswyr yw dilyn byw yn llonydd ac yn ddiymryson, ac yn ostyngedig wrth draed yr Arglwydd, gan gofio mai yr Arglwydd sydd yn teyrnasu, a hyn yw ein bywyd ni. Am hyny na fyddwn rhy brysur yn ein geiriau am bethau na wyddom nemawr neu ddim am danynt.

7. Cynygiwyd y brodyr canlynol gan yr amrywiol siroedd i'r Corph, er cael eu neillduo yn gyflawn i waith y weinidogaeth :—

(1.) Edward Jones a David Jenkins, o sir Aberteifi.

(2.) William Llewellyn, o sir Benfro.

(3.) Benjamin Evans, o sir Forganwg.

8. Na byddo neb i ganiatau nac i oddef *sticko bills* ar ddrysau y capeli am werthu coed, neu i amlygu ffeiriau, neu

gyhoeddi ychwaith o fewn y capeli ddim o'r fath bethau. 'Ac efe a yrodd allan y prynwyr a'r gwerthwyr.'

Society 8 o'r gloch.

1. Penderfynwyd i'r siroedd anfon gweinidogion bob dau fis am un Sabboth i'r Gelli a Phenybont, er gweini yr ordinhadau i'r eglwysi Seisonig sydd yno. Sir Forganwg i anfon gweinidog am un Sabboth i'r Gelli (Hay) yn mis Medi.

2. Cydunwyd i anfon gair o gyfarchiad oddiwrth yr *Association* at y brodyr sydd yn glaf ac yn anabl i drafaelu gyda'r achos gan eiddilwch a gwendid :—

(1.) Mr. Williams, Lledrod, a Theophilus Jones, sir Aberteifi.

(2.) Mr. Charles a Thomas Evans, Caerfyrddin.

(3.) Watkin Edward, sir Frycheiniog.

(4.) Mr. Howells, Richard James, sir Forganwg.

3. Coffawyd yr hyn fu dan sylw yn *Association* Merthyr mewn perthynas i'r Ysgolion Sabbothol. Na bo dim ond un ysgol i gael ei holi ar y Sabboth, a phawb i ymadael ar ol y cyfarfod hwn; ac na fyddo i bedair neu bump o ysgolion i gyfarfod â'u gilydd y bore a'r prydnawn ar y Sabboth, ond ei gynal fel rhyw gyfarfod arall, a phawb i fyned tua'u cartref, fel na byddo traul a chost yn cael ei wneud ar y Sabboth gyda'r cyfarfod hwn yn wahanol i rhyw gyfarfod arall.

4. Fod achos yr Ysgolion Sabbothol i fod dan sylw yn Nghyfarfod Misol Abertawy, gan fod amryw o frodyr dyeithr yn dyfod yno."

Dyna'r cofnodau; ac y maent yn ddarlun da o'r Gymdeithasfa fel ag yr oedd yn cael ei dwyn yn mlaen gan y tadau. Gellid ymhelaethu gyda golwg ar rhai o'r penderfyniadau uchod, fel ag i daflu goleuni pellach arnynt; ond byddai hyny yn arwain i ormod meithder. Gan hyny ni wnawn ychwanegu dim at yr adroddiad, eithr ei adael fel y mae, i ddangos mawr a manwl ofal yr hen bobl o fendigedig goffadwriaeth am yr achos a ymddiriedwyd iddynt gan Ben yr eglwys. Y mae y cofnodion uchod yn ddangosiad am yr hwn a'u hys-

grifenodd hwynt, ei fod yn meddu cymhwysder i gyflawni gwaith ysgrifenydd, yr un mor amlwg ag oedd ganddo i gymeryd rhan yn ngwaith cyhoeddus y Gymdeithasfa.

Nid yw y cofnodion a ysgrifenodd Mr. Evans o weithrediadau Cymdeithasfa Caerfarchell ond byr. Fel y crybwyllwyd, ei destyn yno ydoedd Rhuf. xiii. 11. Dywed Mr. Henry Evans o'r lle hwnw mewn llythyr atom : "Clywais fy mam yn son lawer gwaith am bregeth Mr. Evans. Yr oedd ei lais treiddgar yn adsain tua'r capel 'iachawdwriaeth yn nes,' nes y bu yn dychmygu ei glywed laweroedd o weithiau ar ol hyny. Clywais fy nhad a fy mam yn son llawer am y Gymdeithasfa yma. Bu yn orfoledd mawr pan oedd Morgan Howell yn pregethu—aeth yn waeddi dros y lle."

Y mae Mr. David Evans, Tyddewi, yn cadarnhau yr hyn a ddywed ei frawd, ac yn ysgrifenu fel hyn: "Clywais fy rhieni yn son llawer am Gymdeithasfa Caerfarchell. Yr oedd rhywbeth yn hynod ynddi. Er fod yno wŷr fel Michael Roberts a Morgan Howells, a gorfoleddu mawr rhai troion, eto yr oedd cymaint os nad mwy o son am bregeth William Evans na'r un o honynt. Lawer gwaith y clywais fy mam yn dyweyd ei bod wedi llwyr annghofio pa le yr oedd yn sefyll pan yr oedd efe yn pregethu; ac am amser maith ar ol hyny yr oedd yn teimlo, fel pe bae ar ddaear sanctaidd ac yn clywed ei adlais yn gwaeddi, 'Iachawdwriaeth yn nes, mae yn nes,' bob tro y byddai yn pasio trwy yr heol."

Ar ol y Gymdeithasfa hon yn Nghaerfarchell, aeth Mr. William Evans am daith i'r Gogledd. Wedi pregethu mewn amryw o fanau yn sir Benfro, yr oedd yn Nghilgeran am 10 bore Sul, y 24ain o Fai, ac yn Aberteifi am 2 a 6. Yna aeth rhagddo yn frysiog ar hyd glanau sir Aberteifi, ac erbyn y nos Sabboth dilynol, cyraeddodd Abermaw. Y rhan fwyaf o'r wythnos ddilynol yr oedd yn Lleyn ac Eifionydd, ac ar Sul, y 7fed o Fehefin, yr oedd yn Llithfaen y bore, Clynog y prydnawn, a Llanllyfni am chwech; nos Lun, yr 8fed, yn Nghaernarfon. Dranoeth croesodd i sir Fôn, a

phregethodd dair gwaith bob dydd yn y wlad hono hyd y Sabboth canlynol, y 14eg, pryd yr oedd yn Beaumaris bore, Llanfair y prydnawn, a Bangor yr hwyr. Dydd Llun, y 15fed, yr oedd yn Llanllechid am 10, ac yna, fel y mae ar lawr yn y cof-lyfr, "14 *miles to Bettws*" erbyn 7 o'r gloch. Bore dydd Mawrth, yr 16eg, yr oedd yn Ysbytty, ac yn y Tymawr yr hwyr. Ar y ddau ddiwrnod dilynol, yr 17eg a'r 18fed, cynelid y Gymdeithasfa yn y Bala, a phregethodd yntau am 2 yr ail ddydd oddiar Esaia xxv. 6: "Ac Arglwydd y lluoedd a wna i'r holl bobloedd yn y mynydd hwn wledd o basgedigion, gwledd o loyw win; o basgedigion breision, a gloyw win puredig." Y mae mater y testyn hwn yn un ag yr oedd meddwl Mr. Evans yn berffaith gydnaws âg ef, ac yn hollol wrth fodd ei galon. Yr oedd wedi traddodi y bregeth droion ar y daith, ac felly yr oedd yn gwbl gartrefol ynddi; ac y mae yn ymddangos iddo gael oedfa lewyrchus yn y Bala, ac oedfa hefyd a fu yn fendithiol. Yr oedd y Parch. John Jones, Ceinewydd, yn bresenol yn y Gymdeithasfa hono, ac y mae yn garedig wedi danfon ychydig o'i adgofion am dani i ni. "Aeth tri o ddynion ieuanc o gymydogaeth Aberystwyth, y rhai oll oeddynt wedi cael blas mawr ar wrando pregethau, dau o honynt oedd yn byw ar y pryd yn Aberystwyth, a minau o gymydogaeth Capel Dewi, i Sassiwn y Bala, yr hon a gynelid yn Mehefin, 1829. Cytunwyd i gyfarfod â'u gilydd yn y Bow Street am 10 o'r gloch y diwrnod o flaen y Sassiwn. Gwnawd hyn, a cherddwyd tua'r Bala y diwrnod hwnw, a chyraeddwyd Dinas Mawddwy yn yr hwyr, lle y lletywyd dros y nos. Dranoeth cychwynwyd dros fynydd Bwlchygroes, a chyraeddwyd y Bala tua'r haner dydd. Yr oedd yr oedfa gyhoeddus gyntaf ar y Green yn dechreu am 3 ar y gloch fel arferol, a phregethodd yn yr oedfa hono y Parch. Henry Rees, ac ar ei ol y Parch. Richard Davies, o Lansadwrn. Dranoeth, am 6 y bore, y Parch. John Parry o Gaer, a'r Parch. Richard Lloyd, Beaumaris. Am 10, y Parch. Michael Roberts a'r Parch. Thomas Richard.

Am 2 y Parch. William Evans, Tonyrefail—y testyn, Esai. 25. 6; ac ar ei ol y Parch. John Elias—testyn, Rhuf. 8. 37. Am 6, y Parch. John Jones, Talsarn, ac ar ei ol y Parch. John Hughes, Wrexham. Dyma un o'r Sassiynau goreu y bum i ynddi erioed. Ie, i mi yr oreu ar gyfrif llawer o bethau. Yr oedd yn hynod ar gyfrif cydgyfarfyddiad y fath ddoniau pregethwrol ag oedd ynddi, a'r effeithiau annileadwy a gynyrchodd ar lawer o'r gwrandawyr. Arosodd ei heffeithiau ar fy meddwl i am flynyddoedd—ïe, yn wir hyd heddyw; ac yr oedd Mr. William Evans yn un o'r lluaws offerynau a fu yn foddion i gynyrchu yr effeithiau hyn. Yr oedd fel udgorn arian yn galw ar bechaduriaid i gyfranogi o wleddoedd yr efengyl. Gallwn ddyweyd llawer am y Gymdeithasfa hono, ond rhaid ymatal." Dyma y Gymdeithasfa yn mha un yr ordeiniwyd Mr. John Jones, Talsarn, a Mr. John Hughes, Wrexham, wedi hyny Liverpool, ac ereill. Ar ei ffordd adref o'r Bala, pregethodd Mr. Evans mewn amryw o fanau yn sir Drefaldwyn; hefyd yn y Rhaiadr a'r Bontnewydd—yn y lle olaf yn nhŷ un Mrs. Jones,—yn sir Faesyfed, yn y Capel-isaf, ac Aberhonddu yn Mrycheiniog; a gorphenodd y daith nos Iau, y 25ain o Fehefin, yn Merthyr Tydfil.

Mewn perthynas i'w lafur cartrefol yn Morganwg am y flwyddyn yr ydym yn awr arni, yn ychwanegol at ei waith mewn cysylltiad â'r Cyfarfod Misol, yr oedd yn dilyn ei gyhoeddiadau Sabbothol gyda chysondeb difwlch, a phregethai yn aml ar ddyddiau yr wythnos. Heblaw hyny, byddai nid yn anfynych yn myned i amrywiol leoedd i gynal cyfarfod eglwysig, neu fel yr arferid dyweyd, "cadw *society*," at yr hyn orchwyl yr oedd ganddo ddawn arbenig ac anghyffedin. Er engraifft: "Chwefror 11eg, Aberdar *society;* y 27ain, *Cardiff society;* Gorph. 22ain, Babell (Croesfân) *society;* Tachwedd 7fed, Seion (Brynsadler) *society;* y 18fed, Dowlais *society*." Ar y 29ain a'r 30ain o Ebrill, agorwyd Capel Seion, Brynsadler, ac yr oedd efe yn pregethu yno am 10 oddiar Esai. lvii. 19: "Myfi sydd yn creu ffrwyth y

gwefusau; Heddwch, heddwch, i bell ac i agos, medd yr Arglwydd; a mi a'i iachaf ef." Hefyd ar y 9fed a'r 10fed o Ragfyr, yr oeddid yn agor "tŷ cwrdd City-is-coed," sef y tŷ y cynaliwyd pregethu a moddion ereill ynddo cyn codi capel Penllin, a thua milldir i'r dwyrain o'r pentref hwnw; ac yr oedd Mr. Evans yn pregethu am 2 o'r gloch. Ar y dydd olaf o'r flwyddyn, yr oedd yn y Pil yn y Cyfarfod Misol oedd i fod yno y diwrnod hwnw a'r dydd cyntaf o'r flwyddyn newydd, 1830. Y mae gweithrediadau y Cyfarfod Misol hwnw yn awr o'n blaen. Yn mhlith pethau ereill, penderfynwyd roddi caniatad i "bobl Llysyfronydd adeiladu capel yn Nhregolwyn tua gwerth 40 neu 50 o bunau, ac y byddai i ychydig gymorth gael ei roddi iddynt er ei adeiladu gan y Corph, trwy gasglu yn yr eglwysi agosaf atynt, ac nid ei gyfrif at ddyled y sir." Dyma y tro cyntaf i Mr. Evans gael y fraint o bregethu yn Nghyfarfod Misol y Pil. Wrth ystyried ei boblogrwydd, a'r lle a roddid iddo nid yn unig yn ei Gyfarfod Misol ei hun, ond hefyd yn y Gymdeithasfa, a hyny yn y Gogledd fel yn y Deau, nis gallwn lai na rhyfeddu rhyw gymaint yn herwydd hyny. Ond y mae cyfrif i'w roddi am y peth. Yn yr adeg hono yr oedd Cymdeithasfa achlysurol wedi bod yn cael ei chynal tua'r Nadolig yn flynyddol yn Morganwg, ac fel rheol byddai y dyeithriaid a elent i'r Cymdeithasfaoedd hyny yn myned hefyd i'r Pil, ac o angenrheidrwydd gelwid arnynt i gymeryd y rhan gyhoeddus o'r gwaith. Gan fod Cymdeithasfa achlysurol i'w chynal yn Llantrisant ar y 5ed a'r 6ed o Ionawr, mae yn ddigon tebyg fod o leiaf un gweinidog dyeithr yn y Pil y tro hwn hefyd; eithr fe osodwyd Mr. Evans i bregethu am 11 yr ail ddydd. Yn y Gymdeithasfa grybwylledig yn Llantrisant yr oedd efe yn un o'r rhai yr ymddyddanwyd â hwynt yn nghyfarfod y pregethwyr—y lleill oeddynt Mri. Richard Thomas, B. Evans, a B. Williams—am eu profiadau crefyddol ac am eu profiad gyda'r gwaith; a phryd hefyd y rhoddwyd gair o gynghor yn gyffredinol mewn perthynas i'r dull o bregethu.

Nid yw yn ymddangos fod llawer o bethau amgylchiadol dan sylw yn y Gymdeithasfa hono; a digon priodol fyddai ei galw, fel y gwnaed y Gymdeithasfa yn Nghasgwys, sir Benfro, yn 1881, yn Gymanfa Ysbrydol. Gwnaeth Mr. Evans gofnodiad lled gyflawn o'r pethau buddiol fu dan sylw. Fe ddichon ei fod yn gweithredu fel ysgrifenydd, gan nad oedd Mr. Ebenezer Richard yn bresenol. Modd bynag, parhaodd i gyflawni gwaith ysgrifenydd Cyfarfod Misol Morganwg am y flwyddyn hon, fel y gwnaethasai y flwyddyn flaenorol.

Yn St. Ffagan, ar y 27ain a'r 28ain o Ionawr, enwyd ef a Mr. David Howell i fyned i Gaerdydd i ymddyddan â William Thomas am ei gymelliadau at waith y weinidogaeth; ac hefyd i fyned i Glynogwr gyda Mr. Richard Thomas i ymddyddan â Mr. William Watson i'r un amcan. Ar y Sul, y 14eg o Chwefror, yr oedd yn Salem, Pencoed, am 10, St. Brid am 2, a'r Hen Gastell, Penybont, am 6; y tri diwrnod dilynol pregethodd mewn amrywiol fanau yn Ngorllewin Morganwg. Yna efe a roddodd daith o saith diwrnod trwy ranau o sir Gaerfyrddin. Ar ol rhoddi ychydig o oedfeuon ychwanegol yn mhen Gorllewinol Morganwg, cyraeddodd Ddyffryn Margam erbyn nos Sadwrn, y 27ain, lle y pregethodd, ac hefyd y bore Sabboth dilynol; yn y Graig-fach am 2, ac yn y Llwyni yn yr hwyr. Ar y 3ydd a'r 4ydd o Fawrth yr oedd yn Nghyfarfod Misol Merthyr, ac aeth oddiyno i Lanfabon erbyn 7 nos Iau y 4ydd, a phregethodd drachefn am 10 bore dranoeth yn Ystradmynach. Yr oedd yn bresenol yn y cyfarfod i "agor tŷ cwrdd y Dinas," ar y 25ain o'r un mis; pregethodd yno am 6 oddiar Esai. lv. 7, ar ol bod yn gweinyddu mewn angladd yn y Castella Fach am 2 y prydnawn. Dyma, fel y dywedwyd yn barod, y capel cyntaf perthynol i'r Methodistiaid yn Nghwm Rhondda. Cyn diwedd yr un mis, sef ar y 27ain a'r 28ain, yr oedd Cymdeithasfa Chwarterol yn cael ei chynal yn Mhontfaen. Fel y gallesid dysgwyl, yr oedd Mr. Evans yno, ac ysgrifenodd grynodeb cyflawn o'r

gweithrediadau. Mri. D. Roberts, John Morgan, a Jenkin Harries oedd y brodyr yr ymddyddanwyd â hwynt yn y dull arferol yn nghyfarfod y pregethwyr. Cyngorwyd y llefarwyr i arfer termau Ysgrythyrol wrth bregethu, ac i beidio cynal dadl er dim; i ymagweddu yn addas, ac ymarfer i sobrwydd, nid yn unig yn y pwlpud, ond yn mhob man; ac na byddo neb yn perthyn i'r Corph yn tueddu at ddadleuaeth, eithr pawb, yn enwedig llefarwyr, yn arfer termau Ysgrythyrol, a gochel arfer geiriau yn tueddu at bynciau dadleugar. Ymdriniwyd ar y dull mwyaf buddiol i gadw cyfarfod eglwysig neu *society* profiad: "(1.) Darllen, canu mawl, a gweddio; (2.) Dywedyd gair yn gyffredinol, ond nid yn faith, neu i'r pregethwr neu i'r blaenor ddyweyd gair o'i brofiad ei hunan, yn hytrach na holi, holi, fel *judge* ar y fainc; (3.) Gofyn ychydig yn dirion i'r plant fyddo yn bresenol; (4.) Bod yn gydnabyddus o glwyfau a doluriau pawb sydd yn angenrheidiol i gadw *society* yn fuddiol." Mae yr anogaethau a'r awgrymiadau hyn yn sicr mor addas yn awr ag oeddynt y pryd hwnw. Bu William Evans yn drwyadl ffyddlawn i'r cyfarwyddiadau: ni bu neb erioed yn fwy felly. Yr oedd y sobrwydd sydd yn gweddu i bregethwr yr efengyl bob amser yn amlwg yn ei agweddiad. Nid oedd a fynai â dim dadleugar, ac yr oedd ei ymadroddion yn hollol Ysgrythyrol. Yr ydym eisioes wedi cael cyfle i grybwyll fod ganddo ddawn neillduol at arwain "*society* profiad." Yr oedd bywiogrwydd ei ysbryd, cyflymder ei feddwl, a pharodrwydd ei ymadrodd yn dra manteisiol iddo i hyny; eithr yr oedd yn meddu y cymwysderau pwysicach a mwy hanfodol, sef adnabyddiaeth o glwyfau a doluriau y saint; ac yn ychwanegol at hyn oll, yr oedd ganddo ddigon o synwyr a thynerwch i drin y clwyfau fel ag i'w gwella. Nid annghofiwn byth y cyfarfod eglwysig y buom ynddo ar Donyrefail dan ei arweiniad ef. Yr oedd hyny tua'r flwyddyn 1860—yr unig gyfleusdra o'r fath erioed a gawsom. Wedi dechreu y cyfarfod trwy ddarllen a gweddio ei hunan, ac yna rhoddi cyfarchiad byr mewn

ysbryd cynhes ag oedd yn creu tynerwch yn mhawb oedd yn bresenol, efe a droes ar ei law ddehau at y brodyr yn y sedd fawr, ac yna aeth allan o amgylch y capel, nes y dychwelodd yn ol erbyn amser terfynu'r cwrdd, i'r man lle yr oedd yn sefyll ar y dechre, gan ofyn cwestiwn i, a thyny atebiad oddiwrth, amryw o'r brodyr a'r chwiorydd, a chan roddi cyngor i un, gocheliad i'r ail, gair o gysur i'r trydydd, ergyd dyner i'r nesaf, anogaeth i arall—gair yn ei bryd wrth bob un, a chymwyso'r cwbl at bawb. Nid oedd dim amser yn cael ei golli, na dim trai ar ei ddawn yntau yn trin pob math o brofiad a adroddid yn y modd mwyaf dedwydd a buddiol. Buom yn ddiweddar yn ymddyddan âg un a fagwyd yn eglwys Tonyrefail, a chyfeiriai at y cyrddau eglwysig a'r modd y byddai Mr. Evans yn eu cadw, fel adgofion melusaf ei mebyd a'i hieuenctyd. Y mae y diweddar Mr. Watkin Williams yn cyfeirio at yr un peth yn ei erthygl dan y penawd "Tonyrefail," a ymddangosodd yn y *Traethodydd* am 1869, pan y dywed,—"Yr oedd purdeb duwiol chwaeth ein hanwyl a'n henwog weinidog, gwreiddiolder ei feddwl, cyflawnder ei adnoddau, newydd-deb ei ysbryd, a'i dymer fagwriaethol, yn ei wneuthur yn fraint o'r radd uchaf cael aros dan ei gysgod, ac ymborthi ar gynyrchion toreithiog ei gymdeithas." (tud. 459.) Ac felly y mae yn eglur na bu y sylwadau ar y dull goreu o gadw *society* profiad a wnaed yn y Gymdeithasfa uchod yn Mhontfaen yn ofer a diffrwyth i'r gweinidog o Donyrefail.

Yr oedd Cyfarfod Misol nesaf Morganwg yn cael ei gynal yn Salem, Pencoed, ar y 12fed a'r 13eg o Ebrill. Yno "John James a anogwyd i roddi ei gyhoeddiadau trwy y sir yn Sabbothol." Ac yn mhen deufis wedi hyny, sef yn Nghyfarfod Misol Aberddawen, Mehefin 16eg a'r 17eg, "Ymddyddanwyd â Mr. John James am ei brofiad a'i dywydd gyda'r gwaith o bregethu, a dangosodd yr holl Gyfarfod Misol eu boddlonrwydd ynddo er rhoddi galwad iddo i lefaru trwy yr holl sir." Dyma y pryd, gan hyny, y derbyniwyd Mr. John

James, Penybont, yn aelod o'r Cyfarfod Misol; ac fe welir oddiwrth y cofnodion ei fod eisioes wedi enill lle uchel yn meddyliau yr holl frawdoliaeth. Yn yr un Cyfarfod Misol penodwyd Pwyllgor Adeiladu, "er cynorthwy i'r eglwysi hyny ag a fyddo yn adeiladu neu yn helaethu eu capeli." Nifer y pwyllgor hwn oedd deuddeg, ac yr oedd Mr. Evans yn un o honynt. Ac yn y Cyfarfod Misol dilynol a gynelid yn Mhenybont ar y 14eg a'r 15fed o fis Gorphenaf, enwyd ef a Mr. Richard Thomas a Mr. David Howell i ymweled â holl eglwysi y sir, ac yr oedd pob un o honynt i gymeryd blaenor gydag ef. Yn ol penderfyniad blaenorol, yr oedd y sir wedi ei rhanu yn chwech o ddosbarthiadau, sef Abertawy, Castellnedd, Penybont, Llantrisant, Caerdydd, a Merthyr. Yr oedd y brodyr parchedig Mr. H. Howells, Mr. Hopkin Bevan, a Mr. Rd. James, wedi llesgau, ac i raddau yn gystuddiol, fel na phenodwyd hwynt i gymeryd rhan o waith yr ymweliad; ond fe ychwanegwyd enw Mr. Benjamin Evans at y gorchwyl. Nid ydym yn gwybod ai dyma yr "ymweliad" cyntaf, yr hyn sydd bellach yn arferiad blynyddol, ac yn cael ei gario allan gyda gofal mawr yn Morganwg. Fe ddichon na fyddai yn anfuddiol, ac yr ydym yn sicr y bydd yn hyfrydwch gan lawer o gyfeillion y sir hono, i weled y Papyr Ymweliad am y flwyddyn 1830.

"Y pethau a nodwyd gan y Cyfarfod Misol i'w coffau yn yr eglwysi gan yr ymwelwyr:—

1. A oes heddwch a thangnefedd yn eu plith? oblegyd lle mae annghariad ac ymrysonau, onid oes aflwydd yno?

2. Ymofyn yn fanwl a ydyw y blaenoriaid yn ddynion ymdrechgar i lanw eu lle yn yr eglwysi, ac heb fod yn faich i'r rhai sydd dan eu gofal.

3. A ydyw yr eglwysi yn ofalus, trwy gyfrwng y blaenoriaid, i gael a chadw gweinidogaeth Sabbothol?

4. A ydyw yr ordinhadau yn cael eu gweinyddu yn gyson yn yr eglwysi?

5. Ydyw pawb o berchen teuluoedd yn cadw addoliad ddwywaith yn y dydd o leiaf?

6. A oes gofal am ein teuluoedd i ddyfod â hwy i foddion gras hyd y mae ynom?

7. A oes ffyddlondeb i gadw pob moddion heb esgeuluso ein cydgynulliad ein hunain?

8. A ydyw ein plant yn cael eu magu yn yr eglwys?

9. A ydyw ein cyfarfodydd prifat yn cael eu cynal yn y modd goreu, trwy ymdrin â chyflyrau y bobl yn y modd mwyaf ysbrydol.

10. Cyngor i bob eglwys i gadw undeb y Cyfarfod Misol, a bod yn wir ofalus i gadw pob peth yn ngosodiad y Cyfarfod Misol, a gwneud pob casgliad yn ol eu gallu, a hyny yn ei dymor priodol.

11. Gofalu dechreu pob moddion at yr amser enwedig.

12. Gofalu dibenu y cyfarfodydd prifat mewn amser addas.

13. A ydyw yr ysgol yn cael ei chynal yn mhob capel ar y Sabboth.

14. Gofyn rhif yr eglwys, a dodi hyny i lawr yn ysgrifenedig."

Gwnaeth Mr. Evans ei ran o waith yr ymweliad yn y drydedd wythnos o Tachwedd; a bu mewn deuddeg o fanau, sef holl ddosbarth Merthyr a rhan o ddosbarth Llantrisant. Erbyn diwedd y flwyddyn yr oedd yr ymweliad wedi ei gwblhau trwy yr holl sir; a gwnaed i fynu ystadegau yr eglwysi mewn rhan, a chyflwynwyd hwynt yn nghyfarfod blynyddol y Pil. Yr oedd holl ddyled Morganwg ar derfyn y flwyddyn 1830 "mor agos ag y gellid deall" yn £8000, a "rhif yr aelodau yn y sir, mor agos ag ydym yn gwybod, 4000." Yr oedd cynydd mawr wedi cymeryd lle er y flwyddyn 1818, pryd nad oedd nifer yr aelodau ond yn nghylch 1400. Yn ol yr adroddiad a gyflwynasid i'r Gymdeithasfa yn Mhontfaen yn niwedd y mis Mawrth blaenorol am sefyllfa yr achos yn y sir, ac fel y mae y ffigyrau hyn yn profi, yr oedd y gwaith da yn myned rhagddo yn llwyddianus yn yr amser

hwnw. Y mae un cofnodiad arall perthynol i Gyfarfod Misol Morganwg am y flwyddyn yr ydym yn awr arni, ag sydd yn meddu dyddordeb; ac yn gymaint a bod enw Mr. Evans ynddo, y mae yn rhan o'r hanes sydd genym i'w adrodd. Yn Nghyfarfod Misol Abertawy, Rhag. 1af a'r 2il, "enwyd Mr. Richard Thomas, Thomas David, a William Evan (cofier mai efe ei hun oedd yn ysgrifenu) i fyned i Hirwaen ac i Ddowlais i ymddyddan â brodyr ieuainc am eu cymhelliad i waith y weinidogaeth." Ac yn y Cyfarfod Misol dilynol yn y Pil, "penderfynwyd yn achos y dyn ieuanc sydd yn Hirwaen a rhywbeth ar ei feddyliau am lefaru, iddo ddywedyd ychydig ar ddiwedd yr ysgol bob Sabboth mewn ffordd o gyngori am y mis hwn, i edrych a ddaw pethau yn fwy i'r goleu; ac felly y tri dyn ieuainc yn Nowlais yr un modd." Fe adnebydd ein cyfeillion yn Morganwg pwy oedd y "dyn ieuanc" hwnw yn Hirwaen. Ni a gawn gyfleusdra eto i ddyfod at ei enw. Ac yn mhellach, mewn cysylltiad â helaethiad yr achos yn y sir yr ydym yn gweled y tri chrybwylliad canlynol yn nghof-lyfr Mr. Evans: (1.) Mehefin yr 2il, "agor tŷ cwrdd Tregolwyn;" (2.) Hydref 27ain a'r 28ain, "Cefn—agor tŷ cwrdd;" (3.) Rhagfyr 27ain, "agor tŷ cwrdd Salem, am 10: Rhuf. xiii. 11." Nid yw yn ymddangos ei fod yn bresenol yn y ddau le blaenaf. Yn ystod y flwyddyn hon gwasanaethodd yr holl deithiau Sabbothol yn ei sir, gyda dwy neu dair o eithriadau; ac ni bu ond dau neu dri o Sabbothau allan o'r sir. Bu yn y gwaith bob Sul o ddechreu'r flwyddyn i'w diwedd. Ni chollodd ond un Cyfarfod Misol, yr hwn a gynaliwyd yn Aberdar yn mis Mai; a phregethodd yn mhob un o'r lleill. Mae y cof-lyfr yn ei ddangos fel un ag oedd yn dwyn gofal mawr a llafurus dros achos yr Arglwydd yn ei wlad. Hefyd yr oedd yn bresenol yn Nghymdeithasfa Aberteifi ar y 4ydd a'r 5ed o Awst, a phregethodd yno am 4 y prydnawn cyntaf, oddiar Heb. x. 23, o flaen Mr. John Elias. Yr oedd Mr. Elias yn pregethu drachefn am 10 dranoeth, pryd y cafodd un o oed-

feuon hynotaf ei oes. Fe geir crybwylliadau helaeth am y Gymdeithasfa hono, ac yn enwedig am yr oedfa ddeg o'r gloch, gan y diweddar Barch. Dr. Phillips, Henffordd, yn y gyfrol o'r *Drysorfa* am 1870. Eithr y prydnawn cyntaf nid oedd Mr. Elias wedi pregethu gyda'r nerth a'r llewyrch ag oedd yn arferol iddo ef. Y mae yn ymddangos modd bynag i Mr. William Evans gael cymorth annghyffredin, a'i fod y tro hwnw yn ei hwyliau goreu. Yr oedd mewn trallod meddwl mawr ar ei ffordd i'r Gymdeithasfa hono, fel yn wir y byddai yn gyffredin ar achlysuron o'r fath. Gofynwyd iddo unwaith gan frawd o weinidog, sef Mr. Ebenezer Jones, Castellnedd, pan ddygwyddasant gwrdd ar brydnawn Sadwrn, tua'r flwyddyn 1867, ar eu ffordd i'w cyhoeddiadau y Sabboth dilynol, "A gaf fi ofyn i chwi pa fodd yr oeddych pan yn myned i'r Cymanfaoedd mawrion?" "Bron marw, bron marw." "Ië, a oeddych felly mewn difrif?" "O'wn yn wir, o'wn yn wir. Mi ddywedaf i chwi yn awr: yr wyf yn cofio myned i Gymanfa yn Aberteifi; yr oeddwn yn llwfr iawn; ac yn y *society*, pan yr oeddynt yn cyhoeddi yr oedfeuon, clywais fy mod i bregethu am dri ar y maes gydag Elias; os oeddwn yn ddrwg o'r blaen, gwaeth wedi hyny; ond yr oedd yn rhaid ymdrechu. Cefais oedfa dda; a dyna oedd yn od, welwch chwi, yr oedd y dyrfa wrth fyned o'r cae yn dywedyd wrth eu gilydd, a minau yn y *crowd* yn eu clywed, 'Yr un bach aeth â'r cwrdd;' ond beth dâl? Yr oedd Elias yn pregethu am ddeg dranoeth gyda'r fath nerth, nes oedd llawer yn cwympo mewn llewygfeydd. Yr oedd yr un bach o'r golwg yn awr." Yr ydym ein hunain yn cofio ei glywed yn dyweyd mewn cyfeiriad at yr un oedfa yn Aberteifi, "Yr oedd ei waethaf ef (Elias) yn well na'm goreu i."

Bu drachefn yn Nghymdeithasfa Woodstock, sir Benfro, ar y 19eg a'r 20fed o Hydref; ac yr oedd yn pregethu yno am 3 y prydnawn cyntaf, oddiar Act. xiii. 26. Yr oedd yn Nghaerfyrddin drwy'r dydd ar Sul yr 17eg, a chyraeddodd Woodstock erbyn 2 o'r gloch prydnawn dydd Llun i fod yn

y Cyfeisteddfod; a phregethodd yn yr hwyr, sef nos yn mlaen y Gymdeithasfa, oddiar 1 Tim. vi. 19. Dros y gweddill o'r wythnos rhoddodd dair oedfa yn y dydd yn sir Gaerfyrddin, a dychwelodd erbyn y Sabboth, y 24ain, i Gaellwchwr am 10, Llangyfelach am 2, a Chastellnedd yr hwyr. Gwnaeth Mr. Evans ysgrifenu penderfyniadau Cymdeithasfa Woodstock yn yr un llyfr ag yr oedd yn cadw cofnodau Cyfarfod Misol Morganwg ynddo. Yn y Gymdeithasfa hono y cyflwynodd y Cyfarfod Misol achos y ddadleuaeth ag oedd wedi bod yn cael ei dwyn yn mlaen am tua blwyddyn o amser yn Merthyr, ag oedd yn peri annghydfod poenus yn yr eglwys yno. Yr oedd y mater wedi bod dan sylw y frawdoliaeth yn Morganwg mor bell yn ol a Chyfarfod Misol Merthyr, yr hwn a gynelid ar y 3ydd a'r 4ydd o Fawrth, pryd y "cydolygwyd am y ddadl, nad oedd y ddadl ddim ond mewn termau, ac nid mewn athrawiaeth, sef am y prynedigaeth; a chydunwyd yn unllais, trwy arwydd, mai yn ol llyfr y Corph mae addasaf geirio ar y prynedigaeth: a phwy bynag ymgynygia godi y ddadl drachefn i fod dan gerydd." A bu yr achos eilwaith dan sylw y Cyfarfod Misol yn ystod y flwyddyn, a chafwyd y rhaid ei gyflwyno i ystyriaeth y Gymdeithasfa. Ac yn Woodstock fe "gytunwyd ar y brodyr canlynol i fyned dros yr *Association* i Ferthyr Tydfil fel cenadwyr ar yr achos sydd yn galw sylw:—

| | |
|---|---|
| Parch. Wm. Morris. | Mr. Elias Basset. |
| ,, Evan Harries. | ,, Wm. Watkins. |
| ,, Wm. Havard. | ,, —. Powell, |
| ,, Arthur Evans. | ,, Owen Lewis. |
| ,, Richard Thomas. | ,, Thomas David. |
| ,, Wm. Evans. | ,, Wm. Jenkins." |

Yr oedd y cenadon hyn mewn llawn awdurdod i weithredu fel y barnent yn oreu er lles yr achos yn y lle. Aeth y ddirprwyaeth bwysig uchod i Ferthyr dydd Mercher, yr 22ain o Ragfyr. Nid ydym yn gwybod a oedd yr holl genadon yn bresenol, ond y mae genym sicrwydd fod Mr. William Evans

yno, ac hefyd Mr. William Morris, ac y mae yn dra thebyg fod y mwyafrif, os nad yr oll, o'r lleill yn bresenol. Cynal-iwyd dau gyfarfod—un yn y prydnawn a'r llall yn yr hwyr. Y penderfyniad y daethpwyd iddo ydoedd, nad oedd dim i'w wneuthur ond dadgorphori yr eglwys, a diarddel yr holl aelodau, a chymeryd meddiant o'r capel gan y cenadon. Wedi myned allan o'r capel gofynwyd i Mr. Evans gan Evan Jones (neu Ifan Shon fel yr adnabyddid ef), yr hwn a fu farw tuag ugain mlynedd yn ol, wedi cyraedd yr oedran mawr o gant a thair blwydd,—"Pa bryd yr ydych yn dyfod yma i bregethu eto, Mr. Evans?" pryd yr atebwyd ef mewn mynyd gan y gweinidog o Donyrefail, "Pwy hawl sydd genyt ti i ofyn cyhoeddiad? nid wyt ti ddim yn aelod eglwysig." Cyf-lwynodd y cenadon eu hadroddiad i'r Gymdeithasfa achlys-urol a gynaliwyd yn mhen ychydig ddyddiau ar ol hyny, sef ar y 29ain a'r 30ain o Ragfyr, yn Aberafon, yr hon a lywydd-id gan Mr. John Evans. Fel hyn y mae y cofnodiad sydd o'n blaen: "Ymdriniwyd ar achos Merthyr. Nodwyd personau i fyned i Ferthyr i ddechreu *society* Sadwrn, sef y dydd cyntaf o'r flwyddyn (1831), am chwech o'r gloch; a rhoddwyd gorchymyn na dderbynid neb yn ol i'r *society* gyntaf na'r ail o'r bobl oedd yn nechre yr ymddadleuaeth. Enwau y personau i fyned i Ferthyr:—William Havard, William Evans, Mr. Morris, a Thomas Pugh." Oddiwrth y pender-fyniad hwn y mae yn deg i ni gasglu y gellid derbyn yr oll o'r aelodau ar ol yr ail gyfarfod eglwysig, eithr yn ddiameu ar y telerau eu bod o hyny allan "yn ddyfal i gadw undeb yr Ysbryd yn nghwlwm tangnefedd," ac yn llwyr roddi heibio pob dadl ac ymryson. Yn awr, un o'r rhai, ac yn ddiau y penaf un, yn nechre y ddadleuaeth ydoedd Mr. David Williams, y gweinidog, at yr hwn yr ydym wedi cyfeirio yn barod, am yr hwn y dywedir yn y "Cofnodiad Bywgraffydd-ol" am dano ar tudalen 292 o'r ail gyfrol o *Hanes Eglwysi Annibynol Cymru*, ei fod "yn ddyn o ewyllys gref, ac yn dra phenderfynol am ei ffordd." Ei olygiad ef am yr Iawn

ydoedd ei fod yn ddirprwyol ac nid yn fasnachol. Dyma'r "termau" ag y bu y ddadleuaeth yn eu cylch; ac megys yn mhob dadleuaeth, daeth pethau ereill i fewn ag oedd yn gwneud y rhwyg yn fwy rhwng y ddwy blaid. Y canlyniad fu, i Mr. Williams ymneillduo, a'r rhai a lynent wrtho, a ffurfiasant achos newydd, a chodasant, yn mhen ychydig amser, gapel a alwyd Adulam, ac ymwasgasant at yr Annibynwyr; a derbyniwyd hwynt i gylch yr enwad hwnw. Ac felly fe lwyr dorwyd y cysylltiad rhwng Mr. David Williams â Chyfundeb y Methodistiaid. Yr oedd gan Mr. David Williams fab o'r enw Edward Williams, yr hwn a fuasai yn bregethwr yn y Corph. Yr oedd wedi ei dderbyn yn aelod o'r Gymdeithasfa. Bu efe yn gyfaill i Mr. Evans ar un o'i deithiau yn y Gogledd, sef ei daith gyntaf yn y flwyddyn 1823. Yn y flwyddyn 1826, ar ol ei symudiad o Ferthyr i drigianu yn Nghaerffili, "ymadawodd â'r Methodistiaid, a derbyniwyd ef yn aelod yn y Groeswen gan Mr. Hughes. Yn nechre y flwyddyn 1829 derbyniodd alwad oddiwrth eglwys Bethesda'r fro, ac urddwyd ef yno Mawrth 19eg yn yr un flwyddyn yn gynorthwywr i'r Hybarch Thomas Williams, yr emynwr enwog." (*Hanes Eglwysi Annibynol Cymru*, cyf. i., tud. 89.) Wedi gwasanaethu amryw o eglwysi—Meifod, Moelfre (sir Ddinbych), Llanfairmuallt, Cwmbrân, a Brynbiga, terfynodd ei oes yn Llansantffraid, Maldwyn, a bu farw Medi yr 16eg, 1863. Hysbysir ni yn y gwaith yr ydym uchod wedi dyfynu o hono fod Mr. Edward Williams yn ŵr hynod o serchus a chyfeillgar, ac y meddai synwyr cyffredin cryf, a'i fod yn bregethwr cryno, chwaethus, a melus. Nid ydym yn cofio clywed Mr. Evans yn son am dano; ond mae yr hyn a ddywedwyd yn dangos y rhaid yr edrychid arno fel gŵr ieuanc gobeithiol, pan yr aeth gydag ef ar daith i bregethu yr efengyl trwy siroedd Brycheiniog a Threfaldwyn yn 1823. Ni fu yn llwyddianus iawn yn ei yrfa weinidogaethol gyda'r Annibynwyr. Fe ddichon pe buasai wedi aros yn ei wlad ei hun, ac ymfoddloni i drigo yn mhlith

ei bobl ei hun, y buasai ei gymwysderau wedi ymddadblygu i fwy o amlygrwydd nag a wnaethant, ac y buasai ei enw wedi dyfod i lawr atom yn beraroglaidd fel enwau ereill yn y Cyfundeb a gychwynasant gyda'r gwaith mawr agos yr un pryd ag y dechreuodd efe bregethu; oblegyd er nad oedd bywioliaeth i'w chael yn nglŷn â'r weinidogaeth, yr oedd y fath syched am yr efengyl yn y dyddiau hyny, a'r fath gyfleusderau i'w chyhoeddi trwy deithio ac yn y Cymdeithasfaoedd, fel ag i dynu allan ddoniau gweinidogaethol, ac i wneud y defnydd helaethaf o honynt.

Gan ein bod yn awr wedi gwneud crybwylliad am Mr. Edward Williams fel cyfaill Mr. Evans ar ei daith gyntaf i'r Gogledd, gwnawn nodiad byr am y brodyr a fuont gydag ef ar ei deithiau yn 1825 a 1829. Ei gyfaill yn 1825, mor bell ag y gallwn gasglu, ydoedd Mr. Williams, Pontypridd. Yr oedd Mr. Williams ar y pryd, ac am flynyddoedd wedi hyny, yn llanw y swydd o Oruchwyliwr y Cyhoeddiadau yn sir Forganwg. Ei waith ef ydoedd ysgrifenu dros y Cyfarfod Misol i wahodd pregethwyr dyeithr, a threfnu eu teithiau. Cyn myned i'r Gogledd gyda Mr. Evans, gorchymynwyd ef gan y Cyfarfod Misol i ofyn gan Mr. William Jones, Rhuddlan, i ddyfod ar daith i bregethu yr efengyl yn Morganwg. Yn Nghymdeithasfa y Bala, yn y flwyddyn grybwylledig, ceisiodd Benjamin Williams gan Mr. Evans i fyned gydag ef at Mr. Jones. Ond pan ddangoswyd ef iddynt, dywedodd Mr. Williams, "Ni ofynaf fi ddim iddo; nid wyf fi yn ei liko." "Paham hyny?" gofynai Mr. Evans. "Oblegyd mae e' yn gwisgo ei het ar ochr ei ben." Ac ni ofynwyd iddo y tro hwnw. Felly yr adroddai Mr. Evans yr hanes i ni. Bu Mr. Benjamin Williams farw yn 1844 yn 71 mlwydd oed.

Y cyfaill yn 1829 ydoedd y cymeriad hynod, Jenkin Harry. Pan ar ei ffordd i'r Gogledd y tro hwn cyfarfyddodd Mr. Evans â Mr. Michael Roberts, yr hwn oedd yn dychwelyd adref o Gymdeithasfa Caerfarchell, mewn deg o fanau, a chyd-bregethent; y ddau gyfaill yn dechreu yr oedfeuon ar

yn ail. Adroddai Mr. Evans iddo gael oedfa hynod hwylus yn Machynlleth, ac ar ei diwedd dywedodd Jenkin Harry wrtho, "O 'machgen anwyl i, mae yn dda gen' i, ti a'i curaist ef heno o ddigon." Un diwrnod yn nghwrs y daith, safodd Jenkin i roddi ychydig elusen i ddynes druenus yr olwg arni, a gwnaeth y sylw, "Creadur Duw oedd hona." "Ie, ond yn eich gwlad eich hun, ac nid mewn gwlad estronol fel hon, y dylech wneud peth fel yna, Siencyn," meddai Mr. Evans wrtho. Eithr yr unig ateb a roddai y cyfaill oedd, "Creadur Duw oedd hona," gan ail adrodd y geiriau mewn tôn haner cwynfanus. Yn un lle cafodd Jenkin Harry hwyl annghyffredin wrth bregethu. Ar eu ffordd i'r lle nesaf, safodd ychydig ar ol Mr. Evans, gan sibrwd yn duchanllyd, a dywedodd, "Cwrdd puwr, a dim ond chwe' cheiniog." "Beth sydd y mater 'nawr, Siencyn?" "Cwrdd puwr." "Ie, ond beth am hyny?" "Cwrdd puwr, a dim ond chwe' cheiniog." Gŵr o dymerau bywiog oedd Jenkin Harry; buasai yn ddyn gwyllt ac yn dilyn oferedd cyn ei droedigaeth: gwnaeth gras lawer o drefn arno, ond parhaodd yn gymeriad hynod. Ceir cyfeiriadau pellach ato yn ysgrif y Parch. W. Williams, Abertawy, dan y penawd "Bro Morganwg," yn y *Drysorfa* am 1860.

# PENOD VII.

## 1831—1836.

### CYNWYSIAD.

Mr. William Evans am ddau fis yn Llundain—Llythyr y Parch. R. Hughes, Uwchlaw'rffynon—Cymdeithasfa Tredegar, 1831—Cofnodau Cyfarfod Misol Morganwg—Ymweliad â Bristol, Rhagfyr 1831—Agoriad capeli Penllin a'r Eweni a Llysyfronydd—Cymdeithasfaoedd a Chyfarfodydd Misol 1832—Taith i'r Gogledd yn 1833 gyda Mr. John James, Penybont—Cymeriad ac ychydig o hanes Mr. James—Cymdeithasfa Casgwŷs—Agoriad capeli Pontypridd a Bryntirion—Cystudd yn Rhagfyr 1833—Dau fis yn Llundain, 1834—Cymdeithasfa Tyddewi—Mis yn Bristol—Pumed taith i'r Gogledd—Cymdeithasfa'r Bala, 1835—Mr. Evan Morgan, Caerdydd—Taith trwy siroedd Penfro ac Aberteifi—Cymdeithasfa Nantyglo—Agoriad capeli Merthyr a Soar—Llwyddiant yr achos yn Morganwg—Cymdeithasfaoedd Pontypridd a Crughowel, 1836—Mis yn Bristol.

YR ydym wedi gweled mai y gorchwyl cyntaf y galwyd Mr. Evans ato yn y flwyddyn 1831 ydoedd i fyned i Ferthyr gyda thri o frodyr ereill, i ail gorffori yr eglwys yn Mhontmorlais. Aeth yno i gadw cyfarfod eglwysig nos Sadwrn y 1af o Ionawr. Dranoeth, ar Sul yr 2il, yr oedd yn nhaith Llanfabon, Ystradmynach, a Chaerffili; a bore dydd Llun am 10 yr oedd yn angladd Mr. Evan Morgan, Caerdydd, tad y gweinidog o'r un enw a'i frawd doniol Mr. Thomas Morgan. Nid oes dim neillduol i'w grybwyll yn mhellach am fis Ionawr. Ar yr 2il a'r 3ydd o Chwefror cynelid y Cyfarfod Misol yn yr Aberthyn a'r Bontfaen, lle y "cydunwyd i ddanfon Wm. Evans i *London* am ddau fis." Yn unol a'r penderfyniad hwn yr ydym yn cael Mr. Evans yn myned i fyny i'r brif-ddinas trwy Gasnewydd a Bristol, ac yn cyraedd yno am 11 o'r gloch bore dydd Gwener yr 11eg, ac arosodd hyd ar ol y Sabboth cyntaf yn Ebrill. Yr oedd Mr.

Jeffrey Davies gydag ef am ran o'r amser. Pregethai dair gwaith ar y Sabbothau; ac yr oedd yn Jewin, neu y Cambrian, neu Denmark Street, yn mron bob nos o'r wythnos, naill ai yn pregethu, neu mewn cyfarfodydd gweddi, neu yn cadw *society*. Eithr mynodd un noswaith rydd, sef y 9fed o Fawrth, i fyned i wrandaw Mr. Howells, Longacre. Y mae yn hyfryd iawn genym i allu gosod i mewn yma lythyr oddiwrth un ag oedd yn byw yn Llundain y pryd hwnw, ac sydd yn cofio yn dda am weinidogaeth Mr. Evans yn yspaid ei ail ymweliad hwn â'r brif-ddinas, ac yn ŵr ieuanc yr adeg hono, eithr bellach er ys llawer o flynyddoedd yn adnabyddus fel y Parch. Robert Hughes, Uwchlaw'rffynon, swydd Gaernarfon; ac yr ydym yn wir yn dra diolchgar iddo am y llythyr sydd yn canlyn :—

"Uwchlaw'rffynon, Chwilog, R.S.O.,
Chwefror 10fed, 1891.

"Anwyl Frawd,—Yr wyf yn un o'r miloedd a deimlant hiraeth a chwithdod mawr trwy Dde a Gogledd Cymru pan yn clywed am farwolaeth yr hybarch hen batriarch William Evans, Tonyrefail, er fod hyn i'w ddysgwyl yn ol trefn natur. * * * Nid wyf yn cofio dim am dano hyd y flwyddyn 1831, pan oedd yn gwasanaethu am y tymhor arferol yn Llundain, a minau yno yn ddyn ieuanc ar y pryd; a dyna yr adeg mwyaf pwysig ar fy mywyd, oblegyd dyna y pryd yr ymunais gyntaf â chrefydd. Yr wyf yn cofio yn dda y seiat gyntaf i mi erioed fod ynddi oedd yn Jewin Crescent, a'ch tad yn un o bump o bregethwyr oedd yn fy holi ar y pryd, a phob un o honynt yn treio ei law arnaf a hyny yn bur gignoeth, yn ol arfer y dyddiau hyny; ac yr wyf yn meddwl mai eich tad oedd y tyneraf o honynt oll. Mae yr amgylchiad yna yn fyw iawn yn fy meddwl hyd yma. Yr oeddwn yn cael y fath flâs ar ei bregethu, fel yr wyf yn meddwl na chollais yr un oedfa tra y bu yno. Ond un tro neillduol teimlais i mi gael bendith, os cefais fendith mewn pregeth erioed. Y pryd hwnw yr oedd yr anffyddiaid yn gwneud

cynhwrf mawr yn Llundain, yn dadleu gyda'r hen Dr. Bennet, yn gwasgaru traethodau, ac yn defnyddio pob moddion yn eu gallu i ddileu dylanwad Cristionogaeth, a llithio eneidiau anwadal; ac yr oeddynt yn llwyddo i hudo a dyrysu lluaws, yn benaf ieuenctyd, a minau yn yr adeg mwyaf peryglus rhwng 18 ac 20 oed. Yr oedd annghrediniaeth bron fy llethu. Yr oeddwn mewn ymdrechfa er ys wythnosau, ac weithiau bron ildio, gan feddwl pe buaswn wedi cael crefydd iawn, na fuaswn yn cael fy nirdynu mor ofnadwy. Ac yn nghanol yr ymladdfa galed aethum i Jewin nos Sabboth i wrandaw ar Mr. Evans yn pregethu. Ei destyn oedd yn yr Epistol at yr Hebreaid,—'Ac yr ydym ni yn gweled na allent hwy fyned i mewn o herwydd annghrediniaeth?' Sylwodd yn gyntaf yn nacaol, nad ydyw teimlad byw o annghrediniaeth yn brawf o hono, ond yn hytrach yn y gwrthwyneb mai y credadyn sydd yn cael ei boeni fwyaf o'r herwydd. Bu y fath fendith i mi ar y bregeth hon, fel na phoenodd y gelyn creulawn hwn ryw lawer arnaf wedi hyny.

"Yr wyf yn cofio yn dda am dano yn dyfod ar daith trwy y wlad yn 1833. Yr oedd ei weinidogaeth yn bur effeithiol. Yr oedd y diwygiad grymus yn ei wres y pryd hwnw. Cafodd oedfa rymus iawn yn Ysgoldy Pen-cae-newydd, oddiar y gair 'cadw enaid rhag angau.' Mae son am dani gan yr hen bobl hyd heddyw. Am ei daith yn 1855, yr oedd ei ddyfodiad a'i bregethau yn gymeradwy iawn, llawer yn cael adeiladaeth a mwynhad mawr. Mae ei weinidogaeth yn perarogli yn y wlad hyd heddyw. * * * Gan gofio yn garedig atoch,

"ROBERT HUGHES.

"Mr. D. EVANS."

Er fod y rhanau diweddaf o'r llythyr dyddorol hwn yn rhagflaenu yr hyn ag y bydd genym gyfeiriadau pellach atynt yn mhellach yn mlaen yn y Cofiant, eto barnasom mai gwell dodi i fewn y llythyr yn gyfan fel y mae uchod. Y nos Sab-

both y cyfeirir ato yn y llythyr, pryd y cafodd Mr. Hughes y fath fendith a gwaredigaeth i'w enaid, ydoedd y 27ain o Fawrth. Nid ydym eto wedi llwyddo i gael gafael yn y bregeth; ond y mae yn sicr genym, ar sail yr hyn oedd yn amlwg yn nodweddiadol o'i weinidogaeth yn gyffredin, fod y bregeth hono yn meddu cymwysder neillduol i gynorthwyo ac esmwythau y cyfryw ag oeddynt mewn ymdrech âg annghrediniaeth. Ymadawodd Mr. Evans o Lundain y tro hwn am 7 o'r gloch bore dydd Mercher, y 6ed o Ebrill, yn y *Plume and Feather Coach*, a chyraeddodd Bristol am haner awr wedi 9 yn yr hwyr; taliad, "16/-, a 4/- am y *luggage*." Pregethodd yn Bristol nos Iau, y 7fed, a thair gwaith y Sul canlynol, ac hefyd nos Lun, yr 11eg. Gallwn feddwl iddo gyraedd gartref nos Fawrth, y 12fed, neu yn weddol fore dranoeth; canys yr oedd yn pregethu ar y Ton nos Fercher, y 13eg. Ac felly yr ydym yn ei gael yn union ar ol ei ddychweliad adref yn ymaflyd yn ei ddyledswyddau gweinidogaethol arferol, ac yn ymroddi yn egniol i'r gwaith ag yr oedd bryd ei galon mor fawr arno, gan ddilyn ei gyhoeddiadau Sabbothol yn mhob parth o sir Forganwg yn ddifwlch, a'r Cyfarfod Misol yr un modd. Ni bu ond mewn un Gymdeithasfa tu allan i'r sir yn y flwyddyn hon, sef yn Nhredegar ar y 19eg a'r 20fed o Hydref. Yr unig ran o'r gwaith cyhoeddus a wnaeth ef yno ydoedd, "am 10, gweddio." Yr oedd yn bresenol amryw o weinidogion o'r Gogledd, a "rhoddwyd diolchgarwch cyhoedd i frodyr y Gogledd am ddyfod i'r *Association* mor ffyddlawn, o bob sir yn y Gogledd, trwy arwydd, sef codi dwylaw." Mae y cofnodiad hwn yn engraifft darawiadol i egluro yr "ysbryd rhagorol" oedd yn nodweddu y tadau. Nis gallwn fyned heibio heb grybwyll cofnodiad arall o weithrediadau y Gymdeithasfa hono. Yn y flwyddyn yr ydym yn awr arni y sefydlwyd Trysorfa'r Gweinidogion perthynol i'r Cyfundeb yn Neheudir Cymru. Ar tudalen y 7fed o'r hanes a ysgrifenasom am y Drysorfa yn yr Adroddiad am y blynyddau 1881 a 1882, sef yn mhen

haner can' mlynedd ar ol ei sefydliad, yr ydym yn cael yr hyn a ganlyn :—"Yn y flwyddyn hon (1831) y darfu i Mr. Davies (gynt o Castle Green, Aberteifi) gyfansoddi, ar gais y Cyfundeb, Lythyr cylchynol priodol, yr hwn a argraffwyd yn Gymraeg ac yn Saesoneg, ac a daenwyd trwy Gymru er mwyn galw sylw y wlad yn gyffredinol, a'r eglwysi yn neillduol, at y Drysorfa." Mewn cyfeiriad at y Llythyr cylchynol uchod y gwnaed y penderfyniadau canlynol yn Nghymdeithasfa Tredegar :—"Coffawyd am y Drysorfa tuag at gynorthwyo llefarwyr angenus a'u gweddwon. Darllenwyd y Llythyr a ddanfonodd Mr. Davies at y Corph, fel pen llwybr er bod yn gynaliaethol i'r Drysorfa. Penderfynwyd i Mr. Richard ei gyfieithu i'r Gymraeg, ac anfon copi o hono i bob sir, ac i'r siroedd argraffu cymaint ag a welent hwy yn angenrheidiol yn ol barn y Cyfarfod Misol yn mhob sir."

Yn awr ni a ddychwelwn unwaith eto at gofnodau Cyfarfod Misol Morganwg a ysgrifenwyd gan Mr. Evans yn y flwyddyn sydd yn awr dan ein sylw. Mae yn ymddangos iddo ef weithredu fel ysgrifenydd y flwyddyn hon, ac am ran o'r un ddilynol, fel y gwnaethasai y ddwy flynedd flaenorol. Yn Nghyfarfod Misol Glynogwr, Mehefin 29ain a'r 30ain, y rhoddwyd caniatad i Mr. John Davies i fyned i Gaerfyrddin i'r ysgol am ychydig amser, yr hyn a arweiniodd i'w ymsefydliad yn mhen ychydig flynyddoedd wedi hyny yn hen dref Penfro, lle y bu mor llwyddianus am gynifer o flynyddoedd. Yno hefyd y rhoddwyd caniatad i bobl Eweni i adeiladu capel. Bu yno ymdriniaeth ar y mater o gael cynllun i'r gweinidogion i fyned trwy yr holl eglwysi yn rheolaidd i weinyddu y sacramentau. Yr oedd hyn yn ail gynyg i gario allan yr amcan. Penodwyd Mr. Richard Thomas a Mr. David Howell gyda Mr. Evans i dynu allan y cyfryw gynllun. Yn y Cyfarfod Misol dilynol yn Mhenybont, penodwyd Mr. Evans yn ysgrifenydd sirol Trysorfa'r Gweinidogion, a Mr. Elias Basset yn drysorydd sirol. Yn Nghadoxton, Medi yr 21ain a'r 22ain, caniatawyd i bobl Waenfo i adeiladu

capel; hefyd enwyd Mr. Evans a Mr. Thomas Morris, Ponypridd, i fyned i Lanfabon yn nghylch y capel yr oeddynt wedi dechreu ei adeiladu; ac yn yr un Cwrdd Misol "helaethwyd terfynau Evan Morgan (Caerdydd) a William Watson, i gael roddi eu cyhoeddiadau o fewn eu dosbarthiadau yn unig." Ac yn Nhreforris, ar yr 11eg a'r 12fed o Hydref, "helaethwyd terfynau Edward Matthews, o Hirwaen, fel pregethwr i fyned ar y Sabbothau i lefaru yn ei ddosbarth yn unig." Yr un pryd caniatawyd i eglwys y Goppa i helaethu eu capel. Mater ag oedd yn destyn llawer o sylw a thrafodaeth ydoedd dyled y capelau; ac yn Nghwrdd Misol Tonyrefail, Tachwedd yr 2il a'r 3ydd, penodwyd Mri. Richard Thomas, D. Howell, a W. Evans, gyda nifer o flaenoriaid, i ymweled â'r eglwysi a'r cymydogaethau i gasglu at ddyled y sir. Cyflawnodd Mr. Evans ei ran o'r gorchwyl hwn yn yr ail a'r drydedd wythnos o'r un mis. Mae yr ychydig grybwyllion hyn o gofnodau y Cyfarfod Misol, a gallwn ychwanegu agoriad capel Penllin ar y 6ed a'r 7fed o Hydref, yn dangos fod Methodistiaeth yn parhau i ymledu a gwreiddio yn sir Forganwg yn 1831, fel yn y blynyddoedd oeddynt wedi myned heibio. Ac yr oedd yr achos mawr yn enill nerth nid yn unig trwy fod capelau newyddion yn cael eu codi a hen gapelau yn cael eu helaethu, ond hefyd trwy fod cynifer yn ymgeisio am y weinidogaeth, ac yn eu plith rai a godasant i fod yn ddynion enwog yn eu dydd.

Am y pum' Sul olaf o'r flwyddyn 1831, bu Mr. Evans yn gwasanaethu yr achos yn Bristol, a phregethodd dair gwaith bob Sabboth a dwywaith ar yr wythnos—yn oll, tair-ar-ugain o weithiau yn ystod ei arosiad i'r un gynulleidfa. Yr oedd yn bresenol yn agoriad tŷ cwrdd Eweni, ar y 15fed a'r 16eg o Fawrth, 1832, lle y pregethodd ddwywaith. Ar y 27ain a'r 28ain o'r un mis yr oedd yn Nghymdeithasfa Abergwaen, ac yn pregethu yno am 3 y prydnawn cyntaf; ac wrth ddychwelyd rhoddodd gyhoeddiad byr trwy ranau o sir

Aberteifi. Yr oedd wedi arfaethu myned i Gymdeithasfa Talgarth, Mai 22ain a'r 23ain, ac yr oedd cyhoeddiad wedi ei drefnu iddo mewn cysylltiad â'r Gymdeithasfa. Buasai yn pregethu yn Hirwaen, Pontneddfychan, ac Ystradfellte y Sabboth blaenorol; eithr yn lle myned yn mlaen i Defynog ac Aberhonddu, ac oddiyno i Dalgarth, dychwelodd adref bore dydd Llun, os nad o leiaf ran o'r ffordd nos Sul. Dydd Mercher, y 23ain, y ganwyd ei fab Howell. Nos Sadwrn, y 26ain, a'r bore Sul dilynol, yr oedd yn yr Eglwysnewydd, ac am ddau a chwech yn Nghaerdydd. Yr ydym yn ei gael yn Nghymdeithasfa Cydweli ar yr 17eg a'r 18fed o Gorphenaf, ac yn pregethu yno am 4 y prydnawn cyntaf oddiar 2 Cor. iv. 17. Y Sul olaf o'r mis yr oedd yn Risca, Mynwy, am 10, Babell am 2, a Gelligroes yr hwyr. Y Sul cyntaf yn Awst yr oedd yn Nantyglo y bore, Penycae y prydnawn, a Thredegar y nos. Oddiyno aeth i Defynog erbyn canol dydd Llun, ac yn mlaen i Lanymddyfri erbyn saith o'r gloch. Dranoeth aeth i Gaio a Llambedr. Yr oedd yn y Gymdeithasfa yn Llangeitho ar yr 8fed a'r 9fed, a phregethodd am 6 oddiar Salm lxxxiv. 4. Treuliodd y Sabboth canlynol yn Nghaerfyrddin, gan bregethu dair gwaith. Gorphenodd y daith hon yn y Goppa, nos Fawrth y 14eg, a chyraeddodd adref dranoeth. Ar y 26ain a'r 27ain o Fedi yr oedd yn cymeryd rhan yn agoriad "tŷ cwrdd Llysyfronydd;" a rhoddodd oedfeuon y dyddiau dilynol yn Llanilltyd Fawr, St. Brid, Bryncethin, Nurston, a'r Hafod-talog, ar ei ffordd i'r Pil erbyn y Sabboth. Yr oedd Cymdeithasfa yn Nghaerffili Hydref y 18fed a'r 19eg, ac y mae yn ddiameu ei fod yn bresenol ynddi. Bu hefyd yn ol ei arfer agos yn yr oll o Gyfarfodydd Misol y flwyddyn. Yn Nhrehill, Chwefror 15fed a'r 16eg, "caniatawyd i bobl Aberddawen adeiladu capel yn Mhenmarc." Agorwyd capel Penmarc y 23ain a'r 24ain o Hydref. Yn Salem, Ebrill 23ain a'r 24ain, penderfynwyd i ranu dyled y sir rhwng y gwahanol eglwysi. Yr oedd y swm ag y cafwyd cyfrif am dano yn cyraedd £3127;

a phenodwyd cyfeisteddfod i wneuthur y rhaniad. Cyfarfu y pwyllgor yn Mhenybont Mai yr 17eg, a rhanwyd y ddyled rhwng y capelau canlynol, "pob *society* yn myned dan y swm a enwyd, yn nghyda'r llôg priodol; a dysgwylir, os yn bosibl, eu talu o fewn ysbaid pedair blynedd. Enwyd Elias Basset, Esq., i fod yn drysorwr." Dyma y rhestr o'r eglwysi ag y rhanwyd y ddyled rhyngddynt:—

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pontfaen ... | £400 | Bryntirion ... | £30 | Merthyr ... | £50 |
| Pontrhydyfen | 120 | Creunant ... | 30 | Pontypridd ... | 80 |
| Caerdydd ... | 600 | Cadoxton ... | 30 | Pentyrch ... | 20 |
| Aberdar ... | 540 | Caerffili ... | 30 | Pendeulwyn | 30 |
| Cefncoedcymar | 294 | Dinas Powis | 30 | St. Ffagan's | 40 |
| Dinas ... | 80 | Bethel ... | 20 | Trehill ... | 50 |
| Llwyni ... | 60 | Dyffryn ac Aberafon | 90 | Tonyrefail ... | 45 |
| Ystradgynlais | 230 | | | Eglwys Newydd | 45 |
| | | Hirwaen ... | 50 | Ystradmynach | 20 |
| | | Glynogwr ... | 40 | | |
| | | Llangyfelach | 40 | | |
| | | Llanwyno ... | 40 | | |

BIBLIOTHECA BODLEIANA

Yr ydym yn sylwi fod enwau rhai lleoedd allan o'r rhestr uchod. Y tebygolrwydd yw i'r lleoedd hyny wneud eu rhan at ddyled y sir yn ol cynllun blaenorol a gytunasid arno; ac felly yr oeddynt yn awr yn rhydd. Nid oes genym ddim cyfrif yn y coflyfr o'n blaen am lwyddiant y cynllun diweddaf uchod. Yn wir nid oes i'w gael ddim o gofnodiadau y Cyfarfod Misol gan Mr. Evans, o Ebrill 1832 hyd Ionawr 1841. Mae yn ymddangos fod Mr. Elias Basset yn awr yn gallu dilyn y Cyfarfodydd Misol a llanw ei swydd fel ysgrifenydd.

Cyn ymadael â'r flwyddyn 1832 y mae yn rhaid i ni gael troi yn ol at gofnodion Cymdeithasfa Cydweli. Yno y ffurfiwyd Trysorfa y Gymdeithasfa. Wele y penderfyniad: "Penderfynu gwneud Trysorfa perthynol i'r *Association*, fel y byddai gan y Corph yn yr *Association* ryw ychydig o arian mewn llaw at ryw bethau fyddai yn galw yn y Corph am

danynt, heb achos danfon at y gwledydd i'w casglu mewn modd afrwydd ac anhwylus iawn. Diben y drysorfa hon yw achos yr *Association* yn unig, megys argraffu rhyw bethau perthynol i'r Corph. Enwyd Mr. Griffith Harries yn drysorwr, a Mr. Ebenezer Richard yn ysgrifenydd." Cyfran pob sir yn flynyddol at y drysorfa hon i fod fel y canlyn:— Aberteifi £3, Caerfyrddin £3, Morganwg £3, Penfro £2, Brycheiniog £2, a Mynwy £1. Dyma gan hyny ddechreuad Trysorfa y Gymdeithasfa. Ac fel yma yr ydym yn gweled y modd y gwnaeth y tadau gychwyn y naill sefydliad ar ol y llall perthynol i'r Cyfundeb, a thrwy hyny dwyn y "Corph" i'r ffurf lluniaidd sydd arno yn ein dyddiau ni. Fe ddichon mai yn araf y buont yn symud tuag at wneuthur y peiriant cyfundebol yn orphenedig ac effeithiol. Eto yn mlaen yr oeddynt yn myned, a hyny gyda graddau nid bychan o lwyddiant.

Dechreuodd Mr. William Evans ei waith yn y flwyddyn 1833 trwy bregethu am 11eg y dydd cyntaf o Ionawr yn Nghyfarfod Misol y Pil, ac aeth oddiyno i gadw oedfa yn yr hwyr i'r Llwyni, a nos dranoeth i'r Tŷ Newydd. Yr oedd yn bresenol hefyd yn Nghwrdd Misol Trehill, ar ddyddiau olaf Ionawr. Bore dydd Iau, y 7fed o Chwefror, yr oedd yn y Pil, yn dechreu ar daith i'r Gogledd, a ymestynodd hyd at y 25ain o Fawrth, a Mr. John James, Penybont, yn gyfaill iddo. Yr oeddynt ar nos Fercher, y 13eg o Chwefror, yn Nhregaron, ac yn lletya yn nhŷ Mr. Ebenezer Richard. Yr oedd cymaint o ofn Mr. Richard ar Mr. John James, fel yr ydym dan yr argraff na phregethodd yn Nhregaron. Modd bynag, gofynodd i Mr. Evans, "Pwy yw hwn sydd gyda chwi? A ydyw ë yn pregethu?" "Ydyw, pan liciff ë," oedd ateb Mr. Evans. "O," meddai Mr. Richard, "dyna garwn inau wneud,—pregethu neu beidio pan wy'n licio." Os cyn yr oedfa y bu'r ymddyddan hwn, feallai i Mr. James bregethu; ond os wedi'r cwrdd, mae yn amlwg na phregethodd. Eithr os y gwnaeth bregethu, mae yn sicr y cafwyd trafferth i'w

berswadio i wneud, gan mor fawr oedd ofn Mr. Richard arno. Yn y tŷ gofynodd Mr. Richard am gael gweled y cyhoeddiad, a dangoswyd ef iddo. Yr oedd wedi ei ysgrifenu yn daclus ar bapyr hir, ac yn chwarëus cymerodd y gŵr enwog linyn i fesur ei hyd, a meddai, "Nid yw ond hyn a hyn o fodfeddi." Ac wrth weled Mr. Evans yn bryderus ac i raddau yn ofnus yn ngwyneb y daith, dywedodd Mr. Richard: "Mae llawer porth cyfyng ar y daith hon; ond y ffordd i fyned trwyddynt yw bod yn ddigon main." Erbyn y Sul canlynol, yr 17eg, yr oeddynt wedi cyraedd Dolgellau a'r Abermaw; yna aethant rhag blaen trwy sir Feirionydd, ac yn lled fanwl trwy sir Gaernarfon a Mon, a thrwy ranau o sir Ddinbych. Ar y 14eg a'r 15fed o Fawrth yr oedd Cymdeithasfa'r Gogledd yn cyfarfod yn nhref Dinbych; a phregethodd Mr. Evans am 2, o flaen Mr. Elias, oddiar Gal. vi. 7, 8. Yr oedd y Parch. Edward Williams, Cynwyd, yn bresenol, a dywed mewn llythyr atom i Mr. Evans "gael oedfa nerthol iawn, ei lais yn soniarus ac yn effeithiol. Yr ail waith y clywais ef ydoedd yn y Capel Mawr, yn Ninbych, yr wyf yn meddwl mai nos Sabboth ydoedd, a thyrfa fawr yn gwrandaw ac wedi eu gwefru. Y testyn—Rhuf. iii. 25. O fel yr oedd yn gwaeddi mor effeithiol,—'Iawn, Iawn, Iawn; digon i Dduw, digon i ddyn, digon i'r nefoedd ac i'r ddaear, digon am amser ac i dragywyddoldeb.'" Y mae yn bleser mawr genym i ddodi i mewn yma y llythyr canlynol a dderbyniasom oddiwrth y Parch. Robert Hughes, Gaerwen, yn cynwys adgofion am y daith hon:—

"Yr wyf yn cofio eich taid yn myned trwy sir Fon y tro cyntaf. Yr oedd ei weinidogaeth y pryd hyny yn defnynu fel gwlaw, fel gwlith-law ar irwellt, ac fel cawodydd ar laswellt. Ond y tro diweddaf ond un y bu efe drosodd, y tynodd efe fwyaf o sylw. Yr oedd efe a'r diweddar Barch. John James gyda'u gilydd. Yr oeddwn i y pryd hyny wedi dyfod o Amlwch, fy lle genedigol, i Gaerwen i breswylio. Ac yr oedd y ddau frawd parchedig yn pregethu yn y Gaer-

wen 2 o'r gloch ddydd Llun. Testyn eich taid ydoedd, Iago v. 20. Pregeth rhyfedd, un o'r pregethau rhyfeddaf a wrandewais erioed. Diau iddi fod yn foddion i droi lluaws o bechaduriaid oddiwrth gyfeiliorni eu ffyrdd, ac i'w gwaredu rhag angau. Y desgrifiad a roddes efe o *angau enaid* oedd yn ofnadwy. Yr oedd yr holl gynulleidfa, megys eneidiau noethion heb gyrph, yn llefain am eu cadw. * * *

"Ydwyf, anwyl frawd, yr eiddoch yn ffyddlawn,

"R. HUGHES."

Yr oedd Mr. Hugh Roberts, Bangor, hefyd yn cofio Mr. Evans, a'i gyfaill Mr. John James, ar yr un daith, ac yr oedd yn eu gwrandaw nos Sul, y 10fed o Fawrth, yn y Tabernacl, Bangor. Y testyn ydoedd 2 Cor. iv. 17. "Yr oedd hon," meddai Mr. Roberts, "yn bregeth ragorol — cyferbynu cystudd a gogoniant, byrdra cystudd a thragywyddol ogoniant, ysgafndra cystudd a phwys gogoniant, cystudd yn ei berthynas â'r byd hwn a gogoniant yn ei berthynas â'r byd a ddaw. Yr oedd yn bur effeithiol i gynulleidfa luosog." Dyma yr oedfa y cyfeiriodd Dr. Owen Thomas mor effeithiol ati yn Nghymdeithasfa y Porth, Rhondda, yn 1887, y tro diweddaf y bu Mr. Evans mewn Cymdeithasfa. Yr oedd Mr. Hugh Roberts yn cofio hefyd am ei bregeth yn y Bala yn 1829, pryd yr oedd yn llefaru am 2 o flaen Mr. Elias, fel y crybwyllwyd eisioes; ac y mae yn cadarnhau adgof Mr. John Jones, Ceinewydd, am dani, a dywedodd mewn llythyr atom ychydig fisoedd cyn ei farwolaeth, "Oedfeuon nerthol," (gan gyfeirio at y ddwy bregeth) "ac yn cario dylanwad mawr ar y gynulleidfa." Ar ol yr oedfa yn y Gaerwen, ag y mae Mr. Robert Hughes yn ei nodi, yr oedd Mr. Evans a'i gyfaill yn myned i Gyfarfod Misol Mon, yn Niwbwrch, lle y pregethasant nos Lun, y 4ydd o Fawrth, a Mr. Evans drachefn bore dranoeth, o flaen Mr. Elias. Os oedd ofn Mr. Ebenezer Richard yn fawr ar John James yn Nhregaron, yr oedd ofn Mr. Elias yn awr yn fwy arno. Mae yn ymddangos fel pe byddai Mr. Elias yn gwybod am ei wendid, ac ymgadwodd

o'r golwg, fel na welodd Mr. John James y gŵr mawr ac enwog hyd ar ol yr oedfa y nos gyntaf yn Niwbwrch. Pe buasai wedi ei weled cyn yr oedfa y mae yn sicr y buasai wedi gwrthod pregethu; fel yn wir y gwnaeth droion yn ystod y daith. Eithr er y gwendid hwn oedd yn perthyn iddo, yr oedd Mr. John James yn gyfaill o'r mwyaf dymunol. Meddai y ddynoliaeth oreu, yr oedd yn foneddwr wrth natur, yn ŵr disyml, a'i gyfeillach yn bur a serchog. Yr oedd hefyd yn ŵr o bersonoliaeth hardd, ac yr oedd ganddo lais o'r mwyaf hyfryd, a meddai lywodraeth hollol arno; nid ydym yn cofio neb a allai wneud disgyniadau yn well nag ef, megys o'r pumawd neu'r wythawd i lawr at y cyweirnod. Ac yr oedd yn medru esgyn gyda'r un rhwyddineb a naturioldeb; a pha un bynag ai i lawr yn isel, neu ynte ar dop ei lais y byddai yn llefaru, yr oedd yr un mor hyfryd i'w wrandaw. Ar ol iddo dwymo gyda'i bwnc, ac yr oedd efe yn naturiol yn "wresog yn yr ysbryd," eithr nid yn danllyd ei ardymheredd fel yr hwn ag yr oedd yn awr yn gyfaill iddo, byddai ei feddyliau hefyd yn ddyrchafedig, ac wedi eu gwisgo mewn iaith gyfaddas a phrydferth. Ac yr oedd ei ystum yn hynod weddus, er ein bod yn sicr na wnaeth efe erioed astudio areithyddiaeth; ond yr oedd ei agweddiad addas yn y pwlpud a'i leisio swynol yn gwbl naturiol iddo. Pe buasai wedi cael manteision addysg uchel yn more ei fywyd, mae yn sicr genym y buasai yn un o ddynion blaenaf ei oes yn y Cyfundeb y perthynai iddo. Eithr er yr anfantais o ddiffyg gorteithiad boreol ei feddwl, efe a lanwodd le mawr yn nghylch Methodistiaeth Morganwg, yr oedd yn hoff-ddyn yr holl gynulleidfaoedd, a gwasanaethodd yr holl eglwysi yn ei sir ei hun gyda ffyddlondeb mawr. Ychydig flynyddoedd cyn ei farwolaeth buom yn ymddyddan âg ef am ei daith gyda Mr. Evans trwy Ogledd Cymru, a dywedai am yr hwn ag yr oedd yn gyfaill iddo ei fod "yn ddoeth, ymroddedig, a chyfeillgar; a'i fod yn gefnogol iawn i'w gyfaill." Bu y ddau yn gyfeillion mawr hyd y diwedd. Ychydig cyn marwolaeth

Mr. James buont yn cydwasanaethu am Sabboth yn Mhenygraig, Rhondda. Yr oedd y cyfeillion yno wedi bwriadu llawer ar y Sabboth, ac yn pryderu yn fawr na byddai i ddim ddygwydd i rwystro y naill na'r llall i ddyfod i'r cyhoeddiad. Cyraeddodd Mr. James nos Sadwrn, ac yr oedd Mr. Evans yno yn gynar bore dydd Sul. Pregethodd Mr. Evans yn y bore; a Mr. James yn yr hwyr, a'r holl amser yr oedd yn pregethu, yr oedd Mr. Evans yn sefyll wrth ei ochr yn cynal ei freichiau, neu fel y dywedir mewn rhai parthau o Gymru yn porthi'r gwasanaeth. Ni bu dau erioed yn fwy dedwydd gyda'u gilydd, ac yr oedd yn Sabboth i'w gofio byth; yr oedd yr holl gynulleidfa, fel y ddau weinidog, yn hollol wrth eu bodd; yr oedd capel Pisgah y Sul hwnw yn ddiamheuol yn un o'r "nefolion leoedd yn Nghrist Iesu." Yr oedd Mr. John James, Penybont, yn ŵr o gymaint ragoriaeth fel dyn, Cristion, a phregethwr, a bu y fath gyfeillgarwch rhyngddo ef a Mr. Evans, fel y mae crybwylliad helaethach am dano yn hollol weddus yn y gwaith hwn. Yr ydym gan hyny gyda hyfrydwch yn gosod i mewn yma yr ysgrif ganlynol a dderbyniasom oddiwrth ei fab-yn-nghyfraith, y Parch Hugh Harries, Pencoed, yr hon ar ein cais ag y bu efe mor garedig a'i pharotoi, ac yr ydym yn dra diolchgar iddo am dani, ac y mae yn sicr genym y teimla ein holl ddarllenwyr yr un modd:

"*Ychydig o adgofion am y diweddar Barch. John James, Penybont-ar-Ogwr.*—Yr oedd yn hanu o deulu parchus oedd yn byw mewn ffermdy yn yr Hengastell, Penybont. Ganed ef yn y flwyddyn 1806. Cafodd ei ddwyn i fyny o'i febyd mewn awyrgylch grefyddol; ac y mae yn debyg fod yr addysg a'r esiampl dda a gafodd wedi gadael argraff ddofn ar ei galon; a phriodolai yr argraffiadau crefyddol cyntaf a gafodd i'r cyngorion difrifol a gafodd gan ei fam dduwiol. Bu am rai blynyddau ar ol hyn heb wneud proffes gyhoeddus o grefydd. Ond un Sabboth yn yr Hengastell, o dan weinidogaeth y diweddar Barch Hopkin Bevan, Llangyfelach, dyfnhawyd yr argraffiadau; dadguddiodd Ysbryd Duw ei gyflwr colledig

yn y fath oleuni iddo fel y methodd a chael llonyddwch nes dyfod o hyd i Geidwad; cyflwynodd ei hunan iddo ac i'w wasanaeth, a pharhaodd yn ffyddlon yn ei wasanaeth hyd ei fedd. Yr oedd mynwes wresog i'w dderbyn yn eglwys yr Hengastell; ac fel y dywed y Parch. E. Matthews yn ei adgofion am dano, 'Aeth i mewn i'r eglwys y pryd hyny megys i wely twym. Nid yn aml y gwelwyd eglwys mor wresog, mor egwyddorol, mor gadarn yn yr Ysgrythyrau, mor ddoniol yn eu gweddiau, ac mor addfed yn eu profiadau, ag oedd eglwys yr Hengastell yr amser hwnw.' Felly gwelir iddo fyned i le manteisiol i gael magwraeth ysbrydol ac iachus. Nid hir y bu cyn cael ei gymell i gymeryd rhan gyhoeddus yn y gwasanaeth, ond cafwyd gryn waith i'w gael i wneud hyn, er cael pob cymelliad a chefnogaeth gan yr holl swyddogion. Yr oedd o duedd *nervous* yn naturiol, ac hefyd yn coleddu meddwl isel iawn am ei alluoedd, fel nad oedd ganddo ddim ymddiried ynddo ei hun; a bu hyn yn brofedigaeth iddo lawer gwaith. Pa fodd bynag, trwy fod yn daer, a pharhau i'w gymell, llwyddwyd i'w gael i ddibenu y cyfarfod eglwysig un noswaith; ac wedi dechreu gweddio, nid hir y bu cyn myned i'r nefoedd, a thynu y nefoedd i lawr i'r cyfarfod, nes yr oedd pawb yn foddfa o ddagrau, a'r hen flaenoriaid llygadgraff yn medru canfod ynddo y noson hono un o sêr dysgleiriaf y pwlpud Cymreig.

"O hyn allan tynodd ei weddiau sylw mawr yn y dref a'r wlad; ac nid rhyfedd, canys yr oedd ynddo y fath gydgyfarfyddiad o ddoniau naturiol ac ysbrydol na welir ond yn anaml yn yr un dyn.

"Yn fuan iawn cymellwyd ef i'r pwlpud. Yr oedd pawb yn meddwl mai yno y dylai fod; ond yr oedd efe ei hun yn meddwl yn wahanol, a chiliai yn ol mewn dychryn wrth feddwl am y cyfrifoldeb ofnadwy cysylltiedig â'r swydd. Yr oedd ynddo duedd at bregethu yn foreu iawn. Pan yn blant gartref gyda'u mam weddw byddent yn fynych yn cynal cyfarfodydd yn y tŷ, wedi iddi hi fyned allan i'r capel; a

John oedd y pregethwr bob amser. Ond er fod y duedd a'r awydd am bregethu yn parhau ynddo, eto yr oedd yn teimlo cymaint o'i annghymwysder at y gwaith fel y ciliai yn ol rhag ymgymeryd âg ef, er cael ei gymell yn daer at hyny. Ond trwy hir gymell, a thynu, a denu, a gwthio gan swyddogion yr eglwys, boddlonodd wneud yr hyn a allai, a chychwynodd ar waith y weinidogaeth; ac ni fu yn edifar gan neb o'r swyddogion am yr hyn a wnaethant. Daeth galw mawr am ei wasanaeth yn fuan—blaenoriaid yn ymdyru o'i amgylch gan grefu am gyhoeddiadau; a daeth yn boblogaidd iawn yn fuan. 'Am ei bregethu,' meddai Mr. Matthews, 'nid oes genym ond ychydig i'w ddweyd, ond fod hyny yn ddirgelwch fel y rhan fwyaf o'i bethau ef: yr oedd yn meddu ar ddoniau pregethu anarferol. Yr oedd yn fwy peraiddleisiol na'r diweddar Barch. John Jones, Talsarn, ac fe wyr pawb a'i clywsant ef fod ganddo lais hynod o swynol, eto nid oedd yn cyraedd Mr. James o ran melusder, na nemawr yn gryfach ychwaith; a byddai Mr. James lawn mor effeithiol ag yntau ar ei amserau mwyaf dedwydd.' Byddai ei bregethu yn cynyrchu effeithiau rhyfedd yn fynych ar ei wrandawyr. Yr oedd ei floedd dyner a pheraidd o dan ddylanwad teimlad gwresog a chynyrfiad ysbrydol yn effeithio i'r fath raddau arnynt fel ag yr annghofient y byd—ei helbulon a'i obeithion—a phethau mawrion trefn gras wedi llyncu eu meddyliau yn llwyr. Sylwedd ei bregethau oedd, Crist Iesu a'r iachawdwriaeth fawr sydd ynddo, a'i chymwysder ar gyfer angen pechadur colledig. Os nad oedd yn synu ei wrandawyr â drychfeddyliau newydd, medrai eu swyno âg efengyl bur mewn ysbryd efengylaidd; ac fel y dywedodd y Parch. D. M. Davies, Penclawdd, yn ei adgofion am dano,—'Beth bynag oedd yn ddiffygiol yn ei bregethau, yr oedd ynddynt rywbeth na wna y drychfeddyliau godidocaf a'r ymresymiadau cadarnaf y tro hebddo; gwyddai pa fodd i arwain y praidd i'r borfa frâs, i ddychwel y darfedig, i rwymo y friwedig, ac i gryfhau y llesg.' Byddai tymer ei wrandawyr yn dylan-

wadu i raddau helaeth arno. Byddai ganddo ei hoff leoedd i fyned i bregethu, ac nid oes rhaid dweyd mai y lleoedd mwyaf gwresog oedd y rhai hyny; ac anfynych y byddai yn cael oedfa *flat* yn y cyfryw fanau. Ond mewn cynulleidfa sych a stoicaidd, hwylio yn erbyn y gwynt a'r *tide* y byddai yn gyffredin, ac er ymdrechu ei oreu yn methu myned yn y blaen.

"Byddai bob amser yn gwneud ei oreu i gael pregethu o flaen pawb, er feallai mai pregethwr ieuanc iawn fyddai i bregethu gydag ef. Yr oedd ei hunanymwadiad mor fawr fel mae'n debyg na welodd efe erioed un pregethwr yn llai nag ef ei hun. Os dygwyddai i'r brawd fyddai wedi mynu cael pregethu o'i flaen gael oedfa hwylus, gwaith anhawdd fyddai cael ganddo fyned i bregethu ar ei ol. Rhyw dro, mewn cyfarfod pregethu yn Crug-glas, Abertawy, yr oedd brawd arall ac yntau i bregethu nos Lun: mynodd y brawd arall fyned o'i flaen, a chafodd oedfa hwylus iawn. Yr oedd yntau yn anfoddlawn pregethu ar ei ôl, a cheisiai gael gan weinidog arall oedd yn bresenol gymeryd ei le. Gwrthodai hwnw, gan ddweyd fod yn rhaid iddo bregethu. Trwy hir gymell a pherswadio aeth i fyny grisiau y pwlpud yn araf, a phan yr oedd ar ben y grisiau, dyna'r hen frawd gwresog a duwiol—William Rees, o Glandwr—yn gwaeddi allan, ''Nawr, Arglwydd mawr, rho dy help i fy mrawd anwyl i bregethu.' Effeithiodd gweddi yr hen frawd arno, newidiodd ei wedd, llonodd ei ysbryd, ac ymgymerodd â'r gwaith yn galonog; a chyn pen chwarter awr wedi iddo ddechreu pregethu, yr oedd yn feistr y gynulleidfa, yn cyhoeddi yr efengyl dragywyddol yn ei hwyliau goreu, a'r gynulleidfa yn foddfa o ddagrau o'i flaen, a'r hen William Rees yn canmawl y Gŵr fu farw cyfuwch ag yntau. Nid oedd yr oedfa hono ond un o lawer o rai cyffelyb a fyddai yn eu cael. Yr oedd yn hynod boblogaidd; a phob dosbarth ac oedran yn mwynhau ei weinidogaeth; a pharhaodd felly hyd y diwedd.

"Yr oedd hefyd yn ddarllenwr mawr ar y Beibl a'r hen

Buritaniaid, ac yn feddyliwr cyson. Ysgrifenodd lawer—do, gyfrolau o sylwadau; ond gan mai â *blacklead* y byddai yn eu hysgrifenu yn gyffredin, mae yn anmhosibl eu darllen. Meddyliai am adnod, darllenai bob peth arni a fyddai o fewn ei gyraedd er cymorth i'w deall, meddyliai lawer ar yr hyn a ddarllenai; a phan y byddai meddwl newydd yn ymgyflwyno iddo ysgrifenai ef i lawr ar glawr llythyr neu ryw ddernyn o bapyr a fyddai o fewn ei gyraedd ar y pryd. Ond nid oedd ar ol hyny yn trefnu ei feddyliau, eithr yn gadael i'r meddyliau hyny dreiglo allan pan y byddai yn pregethu fel y byddent yn dygwydd dyfod; ac fel y dywedodd Mr. Matthews am dano, 'Os byddai y teimladau yn poethi a chynhyrfu, byddent yn treiglo allan fel swn dyfroedd lawer a chedyrn donau y môr, ac weithiau fel telynorion yn canu ar eu telynau, nes y byddent yn dawnsio ar hyd yr holl le.' O'r cwbl a ysgrifenodd, nid oes ond pedair neu bump o bregethau wedi eu hysgrifenu yn drefnus ganddo.

"Yr oedd yn hynod mewn gweddi pan y cychwynodd gyda chrefydd; parhaodd felly hefyd. Yr oedd ei glywed ef yn gweddio yn ddigon o dal am ddyfod i'r cyfarfod, pe na buasai dim arall wedi bod yno: eiriolai dros achubiaeth pechaduriaid, gan ddadleu hen addewidion cyfoethog yr efengyl, gyda'r fath wres a thaerineb nes argyhoeddi pawb ei fod wedi bod yn y cysegr sancteiddiolaf yn ymwneud â Duw trostynt. Pan ar daith gyda y diweddar Barch. David Roberts, Pontfaen, drwy sir Aberteifi, daethant rhyw noswaith i Dregaron, a'r noson hono gwrthodai bregethu, fel y gwnai yn fynych ar y daith; ni wnai ond dechreu yr oedfa. Cafodd afael a hwyl neillduol mewn gweddi—yr oedd effeithiau y dylanwad rhyfedd oedd yn cydfyned â'i lais peraidd a'i erfyniadau taer yn gorchfygu y gynulleidfa, nes bron a thori allan i orfoleddu. Yr oedd y diweddar Barch. Ebenezer Richard wedi bod oddicartref, ac wedi methu dychwelyd mewn pryd i fyned i'r oedfa. Yr oedd Mrs. Richard yno, ac yr oedd hithau fel ereill wedi ei chodi i hwyl

neillduol gan y weddi, a dywedai wrth Mr. Richard wedi myned gartref, 'Dyna golled gawsoch drwy fethu d'od i'r capel. O ryfedd, dyna weddi!' 'Beth,' ebe Mr. Richard, 'a oedd dim pregethu yno heno?' 'O, y weddi ryfedd, dyna weddi!' A phan yr oedd Mr. Roberts yn adrodd hanes yr oedfa wrth gyfaill, dywedai 'fod ei bregeth ef wedi myned o'r golwg, ac nad oedd siarad am ddim ond am *y weddi ryfedd.*'

"Un hynod mewn gweddi ydoedd yn y dirgel, wrth yr allor deuluaidd, yn gystal ag yn y cyhoedd; ac yr oedd ei Dad yr Hwn oedd yn gweled yn y dirgel, yn talu iddo yn yr amlwg. Hefyd yr oedd yn gymeriad pur iawn, yr oedd yn un perffaith, yn ofni Duw, ac yn cilio oddiwrth ddrygioni. Mor belled ag y medrai llygad dynol ganfod, yr oedd yn anhawdd rhoddi bys ar un ysmotyn du arno, er ei fod ef ei hun yn teimlo ei fod yn llawn o anmherffeithrwydd. Yr oedd yn un perffaith yn ngolwg pawb a'i hadwaenai, a pha oreu yr adwaenid ef, perffeithiaf fyddai yn eu meddyliau. Israeliad yn wir ydoedd, yn yr hwn nid oedd twyll. Yr oedd ei dduwioldeb mor fawr fel yr oedd wedi enill tystiolaeth yn nghydwybodau pawb mai gŵr Duw ydoedd. Yr oedd ei bresenoldeb mewn cyfarfod yn cario dylanwad mawr, er mae yn bosibl na ddywedai lawer. Yr oedd yn cael ei barchu gan fyd ac eglwys fel dyn Duw, ac yr oedd colli un o'r fath yn golled dirfawr yn mhob cylch crefyddol; ac felly yr oedd y wlad yn teimlo pan y cymerwyd ef i ffwrdd. Yr oedd gwagder ar ei ol yn y Cyfarfod Misol, yn y pwlpud, yn yr eglwys, ac yn ei deulu.

"Ni chafodd ei gystuddio yn hir. Yn mis Mawrth cafodd anwyd trwm, yr hwn a effeithiodd yn fawr arno. Trwy ofal a thruniaeth feddygol, daeth ychydig yn well, ac yn mis Ebrill aeth at ei gyhoeddiad am Sabboth i Canton, Caerdydd. Nos Sabboth, ar ol gorphen gwaith y dydd, cymerwyd ef yn glaf iawn; dychwelodd adref dydd Llun mewn poen dirfawr, a pharhaodd felly am rai dyddiau. Llwyddodd y

meddyg i esmwythau ei boen, ond parhaodd yn wael, ac yr oedd yn amlwg fod yr hen babell yn dadfeilio. Gwellhaodd ychydig ar ol hyn, ac yr oedd yn rhaid iddo fyned at ei gyhoeddiad i'r Pil am Sabboth yn mis Mai. Gwnaeth y teulu eu goreu i'w berswadio i beidio myned rhag iddo gael ail anwyd; ond mynai fyned—nid oedd modd ei rwystro, a hwnw oedd y Sabboth diweddaf y pregethodd. Dychwelodd adref dydd Llun yn llawer gwaeth, ac er holl ymdrech y meddygon, gwaelu yr oedd. Cymerwyd ef i lawr am newid i Kenffig (lle y byddent fel teulu yn arfer treulio rhai misoedd bob haf), gan obeithio y byddai y newid yn lles iddo; ond gwelwyd yn fuan nad felly yr oedd. Wrth ganfod hyn, yr oedd ei anwyl briod yn awyddus am ei gael adref i Benybont; ond dywedai yntau wrthi, 'Y mae arnaf ofn y daith i Benybont, ond nid oes arnaf ofn y daith i dragywyddoldeb.' Yr oedd wedi bod yn ofni angeu—ofn y boen gysylltiedig â'r ymddatodiad—drwy ei oes; ond am ganlyniadau marw yr oedd yn berffaith dawel. 'Peth brawychus yw marw,' meddai, 'yr wyf yn teimlo peth arswyd arnaf rhag pangfeydd marw.' Byddai bron bob amser yn y ddyledswydd deuluaidd yn cyfeirio at ofn yr ymddatodiad. Ond pan ddaeth yr awr, cafodd ei waredu yn llwyr oddiwrth yr hyn a fawr ofnai, a dywedai hen wraig dduwiol o Benybont, 'fod ei Dad nefol yn gwybod fod ar Mr. James ofn angeu, ac a ddywedodd wrtho am ddyfod mewn mynyd fel na byddai iddo gael golwg ar angeu'; ac felly y bu. Cafodd fyned megys heb brofi marwolaeth, heb wybod dim am loesion a phangfeydd yr ymddatodiad. Cauodd ei lygaid a hunodd yn dawel boreu dydd Mercher, Mehefin y 12fed, 1878. Y dydd Llun canlynol ymgasglodd tyrfa luosog nas gwelir ond anaml ei bath, o bell ac agos, i dalu y gymwynas olaf i'w weddillion marwol. Claddwyd ef yn mynwent capel y Pil, a gwasanaethwyd ar yr amgylchiad gan amryw weinidogion parchus.

"Gadawodd ar ol weddw ac unig ferch i alaru eu colled ar ol priod a thad mor dyner a charedig. Erbyn hyn y mae

ei weddw wedi ei ddilyn i'r orphwysfa nefol, lle nad oes ymadael mwy."

Yr oedd cymdeithas y fath un a Mr. John James yn gymorth nid bychan i wneuthur y daith ag y rhoddasom ei hanes uchod yn un ddedwydd. Ac yr oedd Mr. Evans ei hun ar y pryd yn man goreu ei fywyd, yn iach ac yn gryf, ac erbyn hyny hefyd wedi cyraedd ei boblogrwydd uchaf. Ac yn ben ar hyn oll, yn ol y tystiolaethau yr ydym eisioes wedi eu cyflwyno, bu ei weinidogaeth ar y daith ddedwydd hono yn Ngogledd Cymru, yn y flwyddyn 1833, yn foddion i fawr gysuro y saint, ac i waredu llawer o eneidiau rhag angau.

Cyraeddodd gartref dydd Mawrth y 26ain o Fawrth. Ar y 3ydd a'r 4ydd o Ebrill yr oedd yn bresenol yn Nghyfarfod Misol Salem, Pencoed, ac yn pregethu am 10 yr ail ddydd. Yr wythnos ganlynol aeth i Gymdeithasfa Pontypool, yr hon a gynelid ar y 10fed a'r 11eg; a phregethodd yno am 2 o'r gloch oddiar 1 Sam. xxx. 6. Nid aeth i Gyfarfod Misol Merthyr ar ddyddiau cyntaf Mai, ond yr oedd yn bresenol yn Aberafon ar yr 22ain a'r 23ain; ar yr 28ain a'r 29ain yn Nghymdeithasfa Casgwys, sir Benfro, ac yr oedd yn pregethu yno am 3 oddiar Iago v. 20. Cafodd oedfa rymus; yr oedd ei lais mor nerthol a chlir, fel y clywid ei floedd mor belled a Bullhook, pellder yn agos i dair milldir. Y mae Casgwys yn sefyll ar y terfyn rhwng y rhan Gymreig a'r rhan Saesneg o sir Benfro. I'r deau mae y trigolion oll yn Saeson; ac erbyn hyn hefyd y mae y Saesneg yn mron wedi cymeryd meddiant llwyr o'r wlad i'r gogledd o Gasgwys, o leiaf haner y ffordd i Woodstock a'r Gwastad, ac y mae'r moddion crefyddol yn cael eu dwyn yn mlaen yn gwbl yn yr iaith hono. Hyd tuag ugain mlynedd yn ol yr oedd Cyfarfod Misol y sir yn cael ei gynal yn Nhasgwys yn flynyddol, sef fel rheol yn mis Mawrth, a threfnid pregeth Gymraeg a phregeth Saesneg yn mhob oedfa. Yn yr amser gynt y bregeth Gymraeg fyddai yn olaf, ac felly yr edrychid ar yr iaith Gymraeg yn cael y flaenoriaeth. Fel hyny ydoedd dri-ugain mlynedd yn

ol; megys er engraifft yn yr adeg ag yr oedd Mr. Richard Lumley yn weinidog yn Lacharn, sef o 1833 hyd 1839, ac yr elai efe i lawr yn mron bob blwyddyn i Gyfarfod Misol Casgwys i bregethu yn yr oedfa ddeg o'r gloch o flaen Mr. Thomas Richard, Abergwaun. Ar yr achlysuron hyn byddai y ddau bregethwr enwog yn llefaru gyda nerth mawr; ac y mae son am yr oedfeuon hyd y dydd hwn. Yr un modd yn y Gymdeithasfa grybwylledig, y bregeth Saesneg oedd gyntaf yn mhob oedfa, a'r un Gymraeg yn olaf. Am dri y prydnawn cyntaf pregethodd Mr. John Evans, New Inn, yn y Saesneg, ac yna, fel y dywedwyd eisioes, Mr. William Evans yn Gymraeg. Mae yr hen flaenor Mr. James Hughes, Froghall, yn cofio yn dda am y Gymdeithasfa, ac yn hoff iawn o siarad am dani. Mae yn gôf genym glywed Mr. Evans yn son am y Gymdeithasfa hono, ac iddo sylwi fod yr olwg ar y gynulleidfa, yn cynwys nifer lluosog o wragedd yn gwisgo yr hen hetiau Cymreig, yn hynod o brydferth. I ddangos y cyfnewidiad sydd wedi cymeryd lle yn ardal Casgwys o ran iaith arferedig y trigolion, yn y Gymdeithasfa a gynaliwyd yno yn 1881, y bregeth Gymraeg oedd yn gyntaf, a'r un Saesneg yn olaf; ac wrth bob tebyg pan y cynelir yno Gymdeithasfa nesaf ni bydd angen am bregeth Gymraeg o gwbl.

Ar ei ffordd adref o Gymdeithasfa Casgwys teithiodd Mr. Evans bob cam i Abertawy erbyn nos Iau, y 30ain o Fai, a phregethodd yno, ac yn Llansamlet am 10 bore dydd Gwener, yr 31ain. Ar ol bod gartref nos Wener, cychwynodd yn brydlawn dydd Sadwrn i fyned i gadw oedfa yn Llanbyddery, yn Mro Morganwg; a'r Sul dilynol, yr 2il o Fehefin, yr oedd yn Mhenmarc y bore, Llantryddyd y prydnawn, ac yn Nhrehill yr hwyr; ac yna yn ddiau adref. Nos Fawrth, y 4ydd, yr oedd yn pregethu yn ffermdy y Rhiwgarn, gerllaw Tonyrefail; a nos dranoeth yn Mhenllwyngwent, gerllaw Glynogwr, pryd y bedyddiodd David, mab Thomas a Sarah Williams, a brawd i'r Parch. Evan Williams, Glynogwr.

Ar y dyddiau Llun a Mawrth, y 10fed a'r 11eg, yr oedd "agoriad capel newydd Llansawel" yn cymeryd lle. Mae yn dra thebyg y gofynasid iddo ef i fyned yno; ac nid yw yn annhebyg iddo yntau addaw bod yn bresenol; modd bynag nid yw yn ymddangos y gallodd fyned yno. Ond nos Fawrth, yr 11eg, pregethodd yn Garthgraban, sef yn nhŷ ei dad, a'i gartref genedigol ei hun. Yr oedd ei dad bellach yn heneiddio ac wedi llesgau, ac yn analluog i ddilyn y moddion yn y capel ar y Ton, fel yr arferasai gynt. Fel y gwelsom yn barod, bu farw yn mhen ychydig gyda haner blwyddyn ar ol hyny. Ar yr 20fed o'r un mis yr oedd Mr. Evans yn pregethu am 2 yn Nghyfarfod Misol Penybont. Nid oes dim yn neillduol i'w grybwyll am y tri mis canlynol heblaw ei fod yn dilyn ei gyhoeddiadau Sabbothol a'r Cyfarfod Misol gyda'i ymroddiad arferol. Wrth sylwi ar ei lafur Sabbothol y mae yn ymddangos y byddai weithiau, yn wir nid yn anfynych, mewn rhan yn cyflenwi dwy daith ar yr un Sul. Dyma engraifft: Medi yr 22ain, Glynogwr am 9, cyfarfod ysgolion; Llanwyno am 2, Pontypridd am 6. Y tebygrwydd yw fod taith Glynogwr, Dinas, a Thonyrefail heb bregethwr y Sabboth hwnw; ac y mae y dybiaeth yn cael ei chadarnhau gan y ffaith i Mr. Evans bregethu ar y Ton nos Fawrth, y 24ain, yr hyn oedd yn gwneud i fyny am ddiffyg pregeth y nos Sul blaenorol. Yr oedd dwy os nad tair o ysgolion yn cael eu holi yn Glynogwr y bore Sabboth hwnw, ac y mae yn sicr i'r cyfarfod barhau lawn ddwy awr. O Glynogwr i Lanwyno y mae pellder o wyth i ddeg milldir, ar hyd ffordd anwastad—i fyny ac i lawr rhiwiau serth; ac y mae yn sicr i'r pregethwr, ar ol gorphen gwaith y dydd yn Mhontypridd, fyned i'w gartref cyn gorphwys. Nid yw hyn ond un o luaws o esiamplau cyffelyb o'r modd yr oedd efe yn treulio ac yn ymdreulio yn ngwasanaeth ei Arglwydd. Ar Sul yr 20fed o Hydref yr oedd yn Rhymni y bore, Tredegar am 2, a Phenycae am 6; yna dydd Llun, yr 21ain, i Nantyglo erbyn 10, Llanelli am 2, a Chrughowel yr hwyr.

Dranoeth pregethodd yn y Bwlch, Llangors, a Thalgarth. Yr oedd hyn ar ei ffordd i Gymdeithasfa Aberhonddu, yr hon oedd i'w chynal ar y 23ain a'r 24ain; ac yr oedd yn pregethu yno am 2 oddiar Job xxxiii. 24. Aeth i Defynog erbyn yr hwyr, a'r dydd canlynol i Ystradfellte a Phontneddfychan. Nos Sadwrn, a bore Sul y 27ain, yr oedd yn Hirwaen, Cefn-coedcymer am 2, a Merthyr y nos. Dyma wythnos o deithio a gweithio caled, ond y peth cyntaf oedd yn ei aros ar ol dychwelyd adref ydoedd oedfa i bregethu ar Donyrefail, nos Lun, yr 28ain. Y dydd olaf o'r mis, a'r cyntaf o Dachwedd, yr oedd "agoriad tŷ cwrdd Pontypridd" yn cymeryd lle; ac yr oedd Mr. Evans yno yn pregethu am 2 a 6 yr ail ddiwrnod. Ar yr 22ain o Dachwedd yr oedd yn pregethu am 2 a 6 yn "agoriad capel Bryntirion." Yn y cyfrif o'i lafur yr ydym yn cael bwlch yn mis Rhagfyr. Ni bu yn pregethu o gwbl am y tair wythnos cyntaf o'r mis hwnw. Yn ystod yr wythnosau hyn bu yn gorwedd mewn twymyn beryglus, ond cafodd adferiad mwy buan nag yr ofnid, a gallodd fyned i'w gyhoeddiad yn y Penhydd nos Sadwrn yr 21ain, a'r Sul dilynol yn nhaith Pontrhydyfen, Llangynwyd, a'r Llwyni; a phregethodd hefyd bedair gwaith dydd Nadolig, sef ar y Ton am 5 y bore, Glynogwr am 10, Dinas am 2, a Phontypridd am 6. Terfynodd lafur y flwyddyn 1833 trwy bregethu am 5 dydd Mawrth, yr 31ain o Ragfyr, yn Nghyfarfod Misol y Pil.

Rhoddi pregeth mewn angladd yn Mhenllwyngwent oedd ei orchwyl cyntaf yn 1834, sef ar yr 2il o Ionawr. Rhwng yr ail a'r trydydd Sabboth o'r mis hwnw yr ydym yn ei gael yn rhoddi taith i bregethu mewn amrywiol leoedd ar derfyn dwyreiniol Morganwg, gan ddechreu yn Llanwyno bore Llun, y 13eg, ac yn diweddu yn yr Eglwys-newydd nos Sadwrn, y 18fed. Fe ddichon ei fod yn ymweled â'r eglwysi dros y Cyfarfod Misol yr un pryd. Ar y 29ain a'r 30ain yr oedd y Cyfarfod Misol yn cwrdd yn Merthyr, ac yr oedd Mr. Evans yn pregethu am 6 y nos gyntaf. Bore dydd

Gwener, yr 31ain, yr oedd yn gadael Caerdydd am 6 y bore i fyned i Bristol, ac oddiyno i Lundain, lle y cyraeddodd am 7 o'r gloch bore dydd Sadwrn, y 1af o Chwefror. Arosodd yn Llundain y tro hwn dros naw Sabboth, sef hyd ar ol Cymanfa flynyddol y Pasg. Gwnaeth y cyfeillion yn y brif-ddinas y defnydd goreu o hono yn ysbaid y tymor hwn. Traddododd saith-ar-hugain o bregethau yn Jewin Crescent yn unig. Yr oedd mewn rhyw gyfarfod neu arall bob nos o'r wythnos gyda'r eithriad o nos Sadwrn. A byddai yn pregethu dair gwaith yn mron bob Sabboth; ond ar gyfer prydnawn Sul, y 9fed o Chwefror, yr ydym yn cael yn y coflyfr "gwrando W. Williams, 2," a phrydnawn Sul, y 23ain o Fawrth, "James Hughes, 2." Yr oedd Mr. Henry Rees i fod gydag ef yn nghyfarfod y Pasg. Yr oedd yn pryderu llawer wrth edrych yn mlaen at y Gymanfa, ac yn teimlo i raddau yn ddigalon. Dywedodd un diwrnod wrth Mr. James Hughes, "Yr wyf fi yn myned adref. Mae Mr. Rees yn pregethu mor ragorol, fel y mae yn fy llethu. Nid wyf yn gweled fy mod o un defnydd gyda'i fath ef." "Ie," ebe Mr. Hughes, "eich teimlad chwi yw hyna, Mr. Evans; ond i ni mae eich gweinidogaeth chwi mor ddefnyddiol a'r eiddo ef. Na, na, aroswch chwi i gwblhau y tymor." Ac wedi adrodd yr hanes ychwanegodd Mr. Evans, "Fe rows *help* mawr i mi." Fe welir oddiwrth hyn fod ganddo ef syniad uchel iawn am ragoriaeth Mr. Henry Rees fel pregethwr. Gofynasom iddo flwyddyn neu ddwy cyn ei symudiad ei farn am y gweinidog enwog hwnw, a'i ateb ydoedd, "Pregethwr mwyaf ei oes o ddigon o ran manylder, ond nid am routo." Yn y Gymanfa flynyddol, y Pasg, pan yr oedd y ddau weinidog yn cyd-bregethu, cafodd Mr. Evans oedfa hynod lewyrchus: yr oedd yn "routo," a rhoddwyd iddo fuddugoliaeth lwyr ar y gynulleidfa. Yr ydym yn cofio ei glywed yn adrodd i un brawd ddodi rhywbeth yn ei law, gydag amlygiad cynes o'i foddlonrwydd oblegyd yr oruwchafiaeth a gawsai.

Ymadawodd Mr. Evans o Lundain am 5 o'r gloch bore

dydd Mercher, yr 2il o Ebrill, a phregethodd yn Bristol nos Iau y 3ydd. Ni bu allan o Forganwg ar ol hyny hyd Gymdeithasfa Tyddewi, yr hon a gynelid ar y 14eg a'r 15fed o Hydref, pryd y pregethodd am 3 y prydnawn cyntaf oddiar Actau xxvii. 27. Cafodd oedfa lewyrchus, a hir-gofiwyd y bregeth; y mae un gair o'i eiddo ynddi wedi glynu ac aros yn nghof pobl hynaf y lle hyd y dydd hwn: "Tybied oedd y morwyr eu bod yn nesau i ryw wlad, ond yr ydym ni yn gwybod ein bod yn nesau i ryw wlad." Ar ei ffordd adref o Dyddewi yr oedd yn y Goppa bore Sul y 19eg, yn Nghasllwchwr am 2, ac Abertawy yr hwyr, ac yn Llansawel am 11 bore dydd Llun. Y dyddiau Mercher a Iau dilynol yr oedd yn Nghyfarfod Misol Penmarc, ac yn pregethu yr ail fore. Ar ol taith mor bell gallesid meddwl y buasai yn dda ganddo gael gorphwys gartref am ychydig ddyddiau, o leiaf hyd y Sabboth canlynol. Ond ni fynai efe arbed ei hun. Ar ol dychwelyd o Gymdeithasfa Tyddewi nos Lun, yr oedd yn rhaid myned i'r Cwrdd Misol yn Penmarc dydd Mercher; ac yn gyffelyb yn mis Rhagfyr, er ei fod yn myned i Bristol am bedwar Sabboth, yr oedd yn rhaid myned i'r Cwrdd Misol yn Llanilltyd Fawr ar ei ffordd, lle y pregethodd ddwy waith. Dydd Gwener y 5ed yr oedd yn Llaneurwg am 10, Casbach 2, a'r Casnewydd y nos. Dranoeth croesodd i Bristol. Megys y troion o'r blaen y buasai yn y ddinas hono, yr oedd yn pregethu dair gwaith bob Sabboth, ac i ddefnyddio ei air ei hunan yn y coflyfr, yn "llefaru" ar ddwy noswaith yn yr wythnos. Ar ol Sul yr 28ain dychwelodd adref yn union, gan gyraedd os nad nos Lun yn gynar dydd Mawrth. Ac felly y terfyna ei hanes am 1834.

Y mae cyfrif ei lafur am y flwyddyn nesaf, 1835, mewn perthynas i'w deithiau Sabbothol a'r Cyfarfod Misol, a'i ofal am yr achos yn Morganwg yn ei holl ranau, yn hollol yr un fath ag a welsom am y blynyddoedd blaenorol. Prif ddygwyddiadau y flwyddyn yr ydym yn awr wedi dyfod ati, modd bynag, oeddynt ei bumed taith i'r Gogledd, a thaith trwy

siroedd Penfro ac Aberteifi. Cymerodd y gyntaf le yn mis Mehefin. Cychwynodd dydd Sadwrn, y 6ed, a rhoddodd oedfa y noswaith hono yn nhŷ yr hen weinidog, Mr. Richard James. Dranoeth, sef Sul y 7fed, yr oedd yn yr Ynysfach am 10, Creunant am 2, ac Ystradgynlais am 6. Erbyn Sul, y 14eg, yr oedd wedi cyraedd Penal am 10, Aberdyfi am 2, a Towyn am 6. Yna aeth rhagblaen trwy Bryncrug, Dolgellau, Llanfachreth, a Llanuwchllyn; ac yr oedd yn bresenol yn Nghymdeithasfa y Bala, yr hon a gynelid ar yr 17eg a'r 18fed, a phregethodd yno am 2 oddiar Rhuf. iii. 25, o flaen Mr. Ebenezer Richard. Y mae Dr. Owen Thomas yn rhoddi hanes y Gymdeithasfa hono yn gyflawn yn y gyfrol gyntaf o Gofiant Mr. John Jones, Talsarn, ac y mae yn un o'r darnau mwyaf cynhyrfus yn y gwaith digymhar hwnw. Ar ol y tro cyntaf i ni ddarllen yr hanes, cawsom gyfleusdra yn fuan i fyned dros yr adroddiad am gyfarfod y pregethwyr a'r blaenoriaid am wyth o'r gloch yr ail fore yn nghlywedigaeth Mr. Evans, a dywedodd yn gynhyrfus, "Yr oeddwn i yn y fan a'r lle." Yr oedd efe yn eistedd yn ymyl Mr. Ebenezer Richard yn y cyfarfod hwnw, ac wrth wrandaw y brodyr yn traethu ar y mater dan sylw, sef Gwaith Achubol yr Ysbryd Glân ar galonau pechaduriaid, ac yn amcanu egluro y modd y mae yr Ysbryd yn gweithredu ar y meddwl, dywedodd wrth Mr. Richard, "Nid wyf fi ddim yn deall y pwnc;" ac atebodd Mr. Richard ef yn ddystaw, "Nid ydynt hwythau ychwaith yn ei ddeall." Yr ydym yn barnu mai dyma y tro y gofynwyd iddo i siarad, ac ar ol iddo roddi anerchiad byr yn llawn bywyd ac yn codi yr holl gynulleidfa i hwyl hyfryd, ac wedi eistedd i lawr yn sydyn, i rywun o ben draw y capel waeddi allan, "Ewch yn mlaen, ŵr da, dywedwch dipyn yn rhagor wrthym." Ond nid oedd gair yn mhellach i'w gael oddiwrtho ef. Ar ddiwedd y cyfarfod dywedodd Mr. Elias wrtho, "Mr. Evans, gan na fynech chwi ddyweyd ond mor ychydig wrthym ni, y mae yn rhaid i chwi ddyweyd gair wrth Dduw drosom ni." Ac

felly y bu; terfynodd Mr. Evans y cyfarfod trwy weddi. Ar ol adrodd sylw Mr. Elias dywedai wrthym, "Dyna bert!" Dranoeth i'r Gymdeithasfa yr oedd yn Llangynog a Meifod, a'r dydd dilynol yn Llanfair-caereinion, Tregynon, a'r Drefnewydd. Sul yr 20fed, ar ol pregethu drachefn yn y Drefnewydd, aeth i Landinam a Llanidloes. Yna brysiodd adref trwy Langurig, Rhaiadr, Llanfairmuallt, a Llangors, gan orphen y daith yn Merthyr, nos Iau, y 25ain. Ei gyfaill y tro hwn ydoedd Mr. Evan Morgan, Caerdydd. Fel hyn y dywedodd Mr. Evans wrthym am dano ef,—"Yr oedd efe yn cario siop gydag ef," sef y gwahanol angenrheidiau at deithio, megys crib, ellyn, siswrn, a phethau o'r fath; "yr oedd efe yn daclus a boneddigaidd iawn. Yr oedd yn gwneud ei hun gartref yn mhob man; ac yn difyru'r teuluoedd trwy ganu tonau ar eiriau newydd. Gofynodd Mrs. Davies, Bala, i mi beth oedd heblaw pregethwr; dywedais inau, *Stone-cutter*. Dywedai hithau ei fod yn ddyn ieuanc *fine* iawn. Byddai Mr. Morgan, pan gaffai gyfleusdra, yn edrych trwy'r mynwentydd i weled ceryg beddau. Yr oedd yn gyfaill nad oedd eisieu cael ei well." Bu cyfathrach gynes rhyngddynt tra bu Mr. Morgan fyw; a phan y symudwyd ef yn ŵr cymharol ieuanc yn mis Awst, 1853, Mr. Evans a alwyd i draddodi y bregeth Gymraeg ar achlysur ei gladdedigaeth. Yr oedd wedi cyflawni yr un gwasanaeth yn angladd ei dad a'i chwaer; ac yn mhen ychydig flynyddoedd ar ol hyny cymerodd ran gyffefyb yn nghladdedigaeth ei frawd adnabyddus, Mr. Thomas Morgan. Er bod yn agos i ddeugain mlynedd er marwolaeth Mr. Evan Morgan, yr ydym yn ei gofio yn dda. Pan yr oedd ein rhieni yn byw yn y Tydraw, Llanharri, yr ydym yn ei gofio yn dyfod ar nos Sabboth i gapel Seion, Brynsadler, a'r agweddiad urddasol oedd arno wrth agosau at risiau y pwlpud. Mae genym gôf byw am dano yn pregethu yn Mhontypridd, tua'r flwyddyn 1848, ar y geiriau, "Ydwyf yr hwn ydwyf," ac yr oeddym yn teimlo fod rhywbeth mawr a phwysig yn y bregeth. Fel hyn y mae y

cofnodiad am dano yn y Dyddiadur am 1854:—"Awst 10, 1853, bu farw y Parch. Evan Morgan, Caerdydd, yn 44 mlwydd oed. Bu yn pregethu am tua 24 o flynyddoedd, ac yn gyflawn weinidog er ys 12 mlynedd. Yr oedd sancteiddrwydd ei fywyd, ei lafur yn y gair a'r athrawiaeth, a difrifoldeb ei weinidogaeth, yn ei brofi yn ŵr Duw. Yr oedd gweddusrwydd mater, iaith, a dull traddodiad ei bregethau, yn nghyda'i drefnusrwydd hynod gyda holl orchwylion ei swydd, yn ei wneuthur yn barchus yn mysg ei frodyr, ac yn gymeradwy iawn yn y wlad. Dyoddefodd gystuddiau trymion yn y blynyddoedd diweddaf o'i oes, ond gorphenodd ei yrfa mewn gorfoledd." Heblaw amrywiol ysgrifau a ddanfonodd i'r cyfnodolion, Mr. Evan Morgan ydyw awdwr cofiant Mr. Morgan Howells, yr hwn a ysgrifenwyd ganddo yn y flwyddyn 1852, pan yr oedd wedi colli ei lais, ac oblegyd hyny yn analluog i bregethu.

Y daith arall a wnaed gan Mr. Evans yn 1835, sef trwy siroedd Aberteifi a Phenfro, a gymerodd le yn misoedd Hydref a Tachwedd. Dechreuodd y daith hon yn Nhrelales, nos Fawrth, y 27ain o Hydref; ac ar ol rhoddi ychydig oedfeuon yn ngorllewin Morganwg ac yn sir Gaerfyrddin, aeth yn lled fanwl trwy y rhan Gymreig o sir Benfro, ac yr oedd yn bresenol mewn Cyfarfod Misol a gynelid yn Nghasmâl, ar yr 2il a'r 3ydd o Dachwedd. Yn sir Aberteifi y tro hwn nid aeth i fyny yn uwch na Thabor, Llangwyryfon. Sul y 15fed, yr oedd yn Nghastellnewydd-Emlyn am 9, Cynwil am 2, a Chaerfyrddin yr hwyr. Gorphenodd y daith yn Mhontrhydyfen, lle y cynelid Cyfarfod Misol ar y 19eg a'r 20fed; ac wedi pregethu yno am 10, aeth i'r Llwyni i roddi oedfa yn yr hwyr, a bore dranoeth adref. Y Sul canlynol yr oedd "yn yr ysgol gartref," ac yn pregethu am chwech.

Yr unig Gymdeithasfa yn y Deheudir ag y bu Mr. Evans ynddi yn y flwyddyn yr ydym yn awr arni, ydoedd yn Nantyglo ar y 14eg a'r 15fed o Hydref. Enwyd ef i bregethu am 2 o'r gloch. Cododd Mr. Evans i fyned i bregethu yn

mlaenaf, ond cydiodd Mr. Thomas Richard ynddo fel ag i'w rwystro, gan adael i'r pregethwr arall i fod yn gyntaf. Ac felly y bu. Mater y bregeth flaenaf ydoedd ail-enedigaeth, a desgrifiai Mr. Evans y bregeth i ni fel "pregeth yn unig i ychydig o Drefnyddion Calfinaidd," ac am hyny yn ei farn ef nid oedd yn gweddu ar y fath achlysur; ac ychwanegai, "Yr hyn sydd yn eisieu mewn pregeth cymanfa yw rhywbeth i bawb ac i bob un." Yna gofynasom iddo, "Beth oedd eich testyn chwi?" Cododd ar ei draed, estynodd ei fraich, crymodd ychydig ar ei fys blaen, a dywedodd yn bwysleisiol, "Ni thycia cyfoeth yn nydd digofaint: ond cyfiawnder a wared rhag angeu." Yna efe a adroddodd y frawddeg gyntaf o'r bregeth. "Y mae cyfoeth yn dda i brynu ychain, i gario yn mlaen farsiandiaeth, i godi palasau, i yru mewn cerbydau, i adeiladu llongau; eithr ni thycia yn nydd digofaint: ond cyfiawnder a wared rhag angeu." "Sut gwrdd a gawsoch chwi"? "O, yr oedd yno le rhyfedd; y bobl yn wylo ac yn gwenu ar yn ail." Y Sabboth canlynol i'r Gymdeithasfa hon, yr oedd Mr. Thomas Richard yn pregethu am 10 yn Mhontypridd, ac am 6 yn Llantrisant; ac yr oedd Mr. Evans yn ei wrandaw y ddau pen i'r dydd.

Y mae dau beth arall yn y cof-lyfr perthynol i'r flwyddyn 1835 ag y dylem eu crybwyll, sef "agor tŷ cwrdd Merthyr" ar y ddau ddiwrnod olaf yn Ebrill, ac "agor tŷ cwrdd newydd Llantryddyd," sef Capel Soar, Tresimwn, ar yr 2il a'r 3ydd o Ragfyr: yr oedd Mr. Evans yn bresenol ac yn cymeryd rhan yn y pregethu ar y ddau achlysur. Yr oedd yn pregethu am 2 yn Nghyfarfod Misol y Pil ar y dydd cyntaf o'r flwyddyn newydd, 1836. Y mae y cof-lyfr yn parhau i ddangos y ffyddlondeb mawr gyda pha un yr oedd yn gwasanaethu eglwysi a Chyfarfod Misol Morganwg, a'i fod yn llanw y lle amlwg a chyfrifol yr oedd wedi ei enill iddo ei hun gyda chymeradwyaeth cyffredinol. Yr ydym yn cael prawfion pellach y flwyddyn hon eto fod ei lafur ef a'i frodyr yn cael ei fendithio; yr oedd y gwaith mawr ag yr oedd efe mor

ymroddedig iddo yn parhau i lwyddo. Ar yr 2il a'r 3ydd o Fehefin agorwyd capel Penclawdd. Cynelid y Cyfarfod Misol yn Llangyfelach ar y 1af a'r 2il; yr oedd Mr. Evans yn pregethu yno am 10 yr ail ddydd. Oddiyno yr aeth i Benclawdd, a phregethodd y nos gyntaf a'r ail fore. O Benclawdd aeth i Lansamlet erbyn yr hwyr; a dranoeth, dydd Sadwrn, i St. Brid, lle y pregethodd y nos a bore y Sul dilynol, ac yn y Brychtwn am 2, a Llanilltyd Fawr am 6. Ar yr 2il a'r 3ydd o fis Tachwedd, "Agor capel newydd Aberafon." Trefn y moddion ydoedd: am 6 y nos gyntaf, Mr. William Griffiths a Mr. Ebenezer Richard; am 10, Mr. Lewis Edwards a Mr. E. Richard; ac am 2, Mr. Richard Thomas a Mr. William Evans. Nid yw y cof-lyfr yn ein hysbysu pwy bregethodd y nos olaf. Drachefn, nos Iau a dydd Gwener yn yr wythnos ganlynol, y 10fed a'r 11eg, agorwyd capel Tonyrefail, sef yr ail gapel yn y lle hwnw. Yr oedd yn awr yn agos i haner can' mlynedd er y codwyd y capel cyntaf, yr hwn oedd yn adeilad hirfain, yn ol cynllun cyffredin capelau y cyfnod hwnw, ac yn dwyn delw yr hen eglwysi plwyfol. Eithr erbyn yr adeg yr ydym yn awr yn cyfeirio ati yr oedd y dull wedi newid, a'r capelau ysgwâr, gyda dau ddrws yn y wyneb a dwy ffenestr rhyngddynt, a'r pwlpud yn sefyll rhwng y ddwy ffenestr, yn cael eu codi yn lle yr hen gapelau "meinion hirion" cyntefig, ac yn eu plith ail gapel Tonyrefail, yr hwn a agorwyd ar y dyddiau crybwylledig. Ac fel y canlyn y bu trefn y pregethu ar yr achlysur: am 6 y nos gyntaf, Mr. R. Thomas a Mr. Wm. Griffiths; am 10 yr ail ddiwrnod, Mr. D. Howell a Mr. T. Elias; am 2, Mr. J. James a Mr. Wm. Griffiths; ac am 6, Mr. E. Matthews a Mr. T. Elias. Y flwyddyn hon ydoedd y gyntaf i sir Forganwg gael Cymdeithasfa Awst a'r gwasanaeth ordeinio cysylltiedig â hi. Hyd yma yr oedd y fraint hon wedi ei chyfyngu i siroedd Aberteifi a Chaerfyrddin, ac ni chafodd yr olaf ond y ddau neillduad cyntaf, sef yn 1811 a 1813; ac fel rheol cynelid Cymdeithasfa Awst yn

Llangeitho. Eithr yn awr fe ddechreuwyd y cynllun o drefnu y Cymdeithasfaoedd Chwarterol yn y Deheudir, yr hwn a ddilynwyd am bum' mlynedd-a-deugain, sef hyd y cyfnewidiad a wnaed yn 1880 i adael yr holl Gymdeithasfaoedd yn ddiwahaniaeth i fyned yn eu tro i gylch pob Cyfarfod Misol yn y dalaeth. Am yr ysbaid a nodwyd, sef o 1836 hyd 1880, cynelid Cymdeithasfa Awst yn olynol yn siroedd Aberteifi, Caerfyrddin, a Morganwg yn unig. Mae yn ddiameu y bu llawer o siarad ar y mater, ac y teimlid graddau o ledneisrwydd, os nad peth petrusder, gyda golwg ar symud yr hen derfyn. Yr oedd yn berffaith naturiol fod swyn mawr yn Llangeitho; ac nid yw y swyn wedi darfod, ac y mae yn hyderus genym na dderfydd 'chwaith. Ond yr oedd y Cyfundeb yn Morganwg wedi lledu ei wreiddiau i'r fath raddau, ac wedi casglu cymaint o gryfder,—ac yr oedd yr un peth yn wir am sir Gaerfyrddin,—fel yr oedd ar bob cyfrif yn gweddu i brif Gymdeithasfa y flwyddyn gael ei chynal yn ei thro yn y naill a'r llall, fel yn sir Aberteifi. Ac felly y cytunwyd; ac fe gynaliwyd Cymdeithasfa Awst am y tro cyntaf yn sir Forganwg ar y 4ydd a'r 5ed o Awst, 1836, yn Mhontypridd, ac yno yn mhlith ereill y neillduwyd Mr. John James, Penybont, a Mr. David Roberts, Pontfaen, i gyflawn waith y weinidogaeth. Yr ydym eisioes wedi cyfeirio yn helaeth at Mr. John James. Gellid dyweyd llawer hefyd am Mr. David Roberts. Yr oedd efe yn ŵr o gyneddfau naturiol cryf, a diwylliodd ei feddwl yn dda trwy ddarllen pob math o lyfrau. Efe ydoedd un o'r rhai cyntaf yn mysg ei frodyr i ddarllen yr Adolygiadau, a daeth yn feddianol ar wybodaeth gyffredinol eang. Yr oedd yn parotoi ei bregethau yn ofalus, a gadawodd ar ei ol bentwr o lawysgrifau, yn y rhai y ceir, a defnyddio ymadrodd o'i eiddo ei hun, "ffrwyth meddwl." Yr oedd yn hoff iawn o bobl ieuainc, ac yn enwedig o bregethwyr ieuainc gobeithiol. Yr oedd yn naturiol yn hynaws ac yn foneddigaidd, ac yn hynod ddyddan yn ei gyfeillach. Yn y blynyddoedd yr ydym

ni yn ei gofio yr oedd y parlys, yr hwn a'i cymerodd ymaith ar yr 17eg o Dachwedd, 1858, yn yr oedran cymharol ieuanc o 57ain mlwydd, wedi taflu ei gysgod o'i flaen; ac yr oedd graddau o lesgedd i'w ganfod arno. Ond y mae yn gôf byw genym am oedfa effeithiol a gafodd yn Nghaerdydd tua'r flwyddyn 1853, pryd yr oedd yn pregethu gyda rhwyddineb a bywiogrwydd mawr ar y testyn, "Duw cariad yw." Yn y cofnodiad am dano yn y Dyddiadur am 1860, dywedir, "Yr oedd ei bregethau bob amser yn sylweddol a melus. * * * Traddodai yr efengyl yn y symledd priodol iddi, a hyny yn aml gyda nerth a dylanwad mawr." Yr oedd ychwanegiad Mr. John James a Mr. David Roberts at nifer y gweinidogion, gan hyny, yn adgyfnerthiad pwysig i'r pwlpud Methodistaidd yn Morganwg.

Heblaw y Gymdeithasfa yn Mhontypridd yr ydym yn awr wedi bod yn cyfeirio ati, bu Mr. Evans yn bresenol ac yn cymeryd rhan yn y pregethu mewn dwy Gymdeithasfa y tu allan i'w sir ei hun, sef yn Nghaerfyrddin ar yr 16eg a'r 17eg o Fawrth, ac yn Nghrughowel ar y 25ain a'r 26ain o Hydref. Yn yr oedfa ddau o'r gloch yr oedd efe yn pregethu yn y naill a'r llall. Ei destyn yn Nghaerfyrddin ydoedd 1 Pedr iv. 7, ac yn Nghrughowel, Heb. vii. 25. Yr oedd yn y Gymdeithasfa ddiweddaf gydgrynhoad o ddoniau gweinidogaethol annghyffredin. Gallwn feddwl fod Mr. Evans ei hun yn teimlo hyny, oblegyd yr ydym yn cael yr hyn na roddwyd i lawr ganddo ond yn dra achlysurol yn ei gof-lyfr, sef trefn y moddion a thestynau y pregethau. Y mae Dr. Owen Thomas wedi croniclo trefn y moddion cyhoeddus yn y Gymdeithasfa hon yn Nghrughowel ar tudalenau 215 a 216 o'r gyfrol gyntaf o Gofiant Mr. Henry Rees; ond ni a ddodwn i mewn yma hefyd drefn yr oedfeuon, eithr yn y ffurf y cofnodwyd hwynt gan Mr. Evans:—

"*October* 25 *and* 26, 1836, *Association Crickhowell.*

| | | |
|---|---|---|
| 3. | Lewis Edwards ... | 2 Cron. 6. 18. |
| | Thomas Richards ... | Eph. 4. 30. |

| | | |
|---|---|---|
| 6. | Ebenezer Davies ... | Esia 62, 6, 7. |
| 10. | Ebenezer Richards... | Actau 24. 25. |
| | Henry Rees ... ... | Heb. 12. 14. |
| 2. | Wm. Evan ... ... | Heb. 7. 25. |
| | John Jones ... ... | Heb. 2. 6." |

Nid arosodd i oedfa yr hwyr, ond aeth erbyn 7 o'r gloch i Benycae, Mynwy. Treuliodd y mis olaf o'r flwyddyn yn Bristol, yn gwasanaethu yr achos Cymraeg yno. I ddangos fod croesi y culfor yn llawer mwy o beth y pryd hwnw nag ydyw yn awr, sylwer ar y cofnodiad canlynol:—"Rhag. 3, gadael Caerdydd ½ awr wedi dau o'r gloch, ac yn Bristol cyn 8 o'r gloch gyda'r *mail; fare*, 12/-." Megys yn y tymorau blaenorol y buasai yn y ddinas hono, galwyd arno i bregethu dair gwaith ar y Sabboth, eithr ymfoddlonasant y tro hwn ar un bregeth yn yr wythnos; ond yr ydym yn gweled y cynelid dau "gyfarfod gweddio" heblaw "cyfarfod yr eglwys" bob wythnos. Dychwelodd adref ar y 27ain o Ragfyr.

# PENOD VIII.

## 1837—1842.

### CYNWYSIAD.

Dechreuad Dirwest—Mr. Evans yn cymeryd yr ardystiad—Ei araeth Ddirwestol gyntaf—Ei ail araeth—Y Cymdeithasfaoedd y bu ynddynt yn 1837—Ei lafur mawr yn misoedd cyntaf 1838—Ei ymdrech o blaid Dirwest—Cyflwyniad Tlws Arian iddo gan Ddirwestwyr Caerdydd—Yn bresenol yn agoriad capeli Pentyrch a Glanybad, Ebrill, 1839—Tymor arall yn Llundain—Dau fis o gystudd—Cynygiad i olynu Mr. Hughes yn y Groeswen—Marwolaeth sydyn Mr. Smith, Aberafon—Cymdeithasfa Llaneurwg, 1840—Taith i sir Benfro, a Chymdeithasfa Abergwaen—Adgofion y Parch. William Williams—Agoriad capeli Abercynffig a'r Llwyni—Mis Rhagfyr, 1840, yn Bristol—Cyfarfod Misol Morganwg yn 1841—Cymdeithasfa Aberhonddu; adgofion y Parch. Thomas Rees—Sefydlu Athrofa Trevecca—Taith yn sir Fynwy, 1842—Bristol, Rhagfyr, 1842—Adgofion y Parch. Dl. Symmons a'r Parch. J. Herbert, Drefnewydd.

Y MAE y flwyddyn yr ydym yn awr yn dyfod ati, sef 1837, i'w hystyried yn un bwysig, ac yn flwyddyn y gellir edrych arni fel yn dechreu cyfnod newydd. Dyma yr amser y dechreuwyd yr ymdrech o blaid dirwest yn ngwahanol barthau Deheudir Cymru. Yn "Hanes y Diwygiad Dirwestol yn Nghymru" gan Dr. John Thomas, Liverpool, yr ydym yn cael y ffurfiwyd y Gymdeithas Ddirwestol Gymreig gyntaf, yn nghapel Rose Place, Liverpool, Mawrth yr 8fed, 1835. Cyn diwedd y flwyddyn hono, ac yn ystod y flwyddyn ganlynol, sefydlwyd ugeiniau o'r cyfryw gymdeithasau, ac ardystiodd miloedd o bersonau yn amrywiol siroedd Gogledd Cymru. Eithr "ychydig o gymdeithasau a sefydlwyd yn y De cyn diwedd 1836;" ac yr oedd yr ychydig gymdeithasau hyny yn mron oll yn mhen Gogleddol sir Aberteifi. Yr oedd

nifer o Gymdeithasau Cymedroldeb yn y Deheudir yn 1836, a chyn hyny; er engraifft, yn nhref Caerfyrddin er 1834, ac yr oedd cymdeithas o'r fath yn Merthyr Tydfil. Nos Lun, y 23ain o Ionawr, 1837, bu Mr. William Evans yn Merthyr mewn cysylltiad â'r gymdeithas hono. Fel hyn y mae y cofnodiad yn ei lyfr:—"23 (Ionawr), Merthyr, Cymdeithas Cymedroldeb * * * 7." Wrth areithio ar gymedroldeb y tro hwn perswadiodd ei hun i lwyr-ymataliaeth, er na wnaeth gymeryd yr ardystiad dirwestol am rai misoedd wedi hyny. Yn Nghymdeithasfa Ystradgynlais, yr hon a gynelid ar y 5ed a'r 6ed o Gorphenaf yn yr un flwyddyn, bu yr ymddyddan canlynol rhwng Mr. Evans a Mr. Richard Humphreys o'r Dyffryn:—

"A ydych chwi efo'r Ddirwest yma, Mr. Evans?"

"Na, nid wyf fi ddim yn perthyn i'r sect newydd, ond yr wyf yn gymedrolwr i'r pen."

"O, chwi ddowch, mae pob un o'ch bath chwi yn gwneud."

Ac felly bu. Fel hyn y mae Dr. John Thomas yn adrodd yr hanes yn y gwaith yr ydym wedi cyfeirio ato, tud. 138:—"Dechreuwyd yn Nhonyrefail bron yr un pryd ag yn Llantrisant; ac yr oedd y Parch. W. Evans a'i feibion, a Mr. Thomas Morgan, yn mysg y rhai cyntaf i gymeryd yr ardystiad, y rhai ydynt eto yn aros, ac wedi bod trwy eu hoes yn ffyddlon i'r Gymdeithas. Ni chafodd yr egwyddor amddiffynydd mwy teg a boneddigaidd na Mr. Evans, Tonyrefail. Areithiodd lawer yn ei oes, ac o'r braidd y cyfrifid un wyl yn gyflawn yn Morganwg oni byddai efe ynddi. Tynodd ei gwys yn union, a thra y gwelwyd tymorau ar lawer, yr oedd ef yn wastad i'w gael yn yr un man; ac y mae yn awr, pan ar fin ei 90 oed, a'i galon yn gynes at yr achos a bleidlodd am yn agos i haner canrif." Yn mhellach yn mlaen yn yr un gyfrol, tud. 205, dywed yr awdwr parchedig, "Yn y Deheubarth nid oes neb am oes hir wedi bod yn fwy amlwg na'r Hybarch William Evans, Tonyrefail, yr hwn sydd eto yn aros, yn hen ac yn gyflawn o ddyddiau. Dadleuai bob

amser o blaid yr achos yn deg a boneddigaidd, ac yn wastad cymhellai *soft words and strong arguments.*" Dyddiad sefydlu y Gymdeithas Ddirwestol gyntaf yn Nhonyrefail ydoedd Medi 1af, 1837. Ein hanwyl dad aeth o'r cwrdd i'r siop i brynu copi chwe'cheiniog i ysgrifenu yr ardystiad, ac i osod ynddo enwau y rhai a ymunent â'r Gymdeithas; ac efe benodwyd yn ysgrifenydd. Yr oedd ef yn ddirwestwr flwyddyn cyn hyny. Yn y cyfarfod hwnw, neu yn yr un dilynol a gynaliwyd nos Lun, yr 11eg, yr arwyddodd Mr. William Evans yr ardystiad dirwestol. Yr oedd yn bresenol yn y cyfarfod cyntaf, ac yr oedd yn nghanol y dirwestwyr pan yr aethant dan erlidigaeth wedi myned allan o'r cwrdd. Y mae hyn yn ei wneuthur yn dra thebygol iddo gymeryd yr ymrwymiad y noswaith hono. Ond os na wnaeth arwyddo yr ardystiad y noswaith hono, mae yn amlwg fod gogwydd ei feddwl yn y cyfeiriad hyny, gan iddo daflu ei hun i blith y llwyr-ymatalwyr pan yn cael eu herlid ar ol myned allan o'r cyfarfod. Modd bynag y mae sicrwydd hollol nad oedodd gymeryd y cam yn mhellach na'r "cyfarfod dirwestol" a grybwyllir yn ei gof-lyfr a gynaliwyd ar yr 11eg o Fedi.

Yr ydym yn cofio ei glywed yn adrodd hanes yr achlysur uniongyrchol iddo arwyddo yr ardystiad. Yr oedd yn bresenol yn y cyfarfod, pa un bynag ai ar y 1af ai yr 11eg o Fedi nid ydym yn hollol sicr ac nid yw o bwys penderfynu, un o gymeriadau mwyaf amlwg yr ardal, ac un a fuasai yn hoff o ddiod, yr hwn ar y diwedd a ddywedodd wrth Mr. Evans, "Mr. Evans, os *signwch* chwi, mi *signiaf* finau." "Gad a dy gelwydd." "Gwnaf yn wir, Mr. Evans." "At y ford, ynte." Ac at y bwrdd yr aeth y ddau ac fe gymerwyd yr ymrwymiad gan y naill a'r llall, ac ysgrifenwyd eu henwau yn mysg aelodau y Gymdeithas Ddirwestol. Gan ei fod o'r blaen yn "gymedrolwr i'r pen," nid ydym yn meddwl ei fod yn ei ystyried yn ddim aberth i fod yn llwyrymwrthodwr; ond pe buasai yn aberth, yr oedd ysbryd yr efengyl wedi ei feddianu mor llwyr fel yr oedd yn barod mewn moment i ym-

aberthu i wneuthur daioni i'w gymydog. Adroddai am Enoch Goronwy, blaenor yn Mhenybont-ar-Ogwr, a arferai ddyweyd wrth aelodau eglwysig a yfent yn ormodol, "Cer'wch i maes a *signwch* ddirwest." "*Signwch* eich hunan," oedd atebiad rhywun iddo. "Does dim eisieu *signo* arnaf fi; llyfr i'ch bath chwi yw'r llyfr *signo*." Eithr nid oedd efe yn cymeradwyo ymddygiad yr hen frawd Goronwy. Yr egwyddor ag oedd yn llywodraethu ei feddwl ydoedd, y dylai fod yn esiampl i ereill, ac os angen hyd yn nod i wneuthur aberth er mwyn lles ei gyd-ddynion. Dyma'r syniad oedd wrth wraidd ei ddirwestiaeth, ac yr oedd ar dir gan hyny i allu dadleu "yn deg a boneddigaidd," ac yn gryf ac effeithiol, fel yn wir y gwnaeth, dros yr achos. Yn yr un mis ag yr ardystiodd Mr. Evans, sef Medi, 1837, yr oedd y Parchedigion R. P. Griffiths, Llanberis, ac Owen Thomas, Bangor (y diweddar Dr. Owen Thomas, Liverpool) ar daith yn y Deheudir fel cenadon dros Gymanfa Ddirwestol Gwynedd, a bu eu hymweliad o ddirfawr ddaioni; ac mewn canlyniad ffurfiwyd lluaws o Gymdeithasau Dirwestol, ac fe wnaed ymdrechion egniol a llwyddianus o blaid sobrwydd dros yr holl wlad. Yr oedd y ddau genadwr o'r Gogledd yn Mhontypridd nos Fercher, y 27ain, ac yn Llantrisant nos Wener, y 29ain. Nid oedd Mr. Evans yn bresenol yn y naill na'r llall o'r cyfarfodydd hyny. Mae y cofnodiad canlynol yn ddigon i egluro ei absenoldeb: "*Thomas, the son of William Evans by Margaret his wife, was born Sunday, the 24th September*, 1837." Ni bu y cenadon yn Nhonyrefail o gwbl. Ond fe aeth Mr. Evans i Gyfarfod Dirwestol yn Llantrisant ar yr 20fed o Hydref, ac i Glynogwr "yn achos Dirwest" ar y 3ydd o Dachwedd; ac yr oedd yn Waenfo, gerllaw Caerdydd, mewn Cyfarfod Dirwestol nos Sadwrn, y 4ydd, ac mewn cyfarfod cyffelyb ar y Ton nos Lun, y 6ed, ac yn Glynogwr nos Fercher, y 15fed, ac yn Nghaerdydd nos Lun, yr 20fed. Crybwylla y cof-lyfr y bu Mr. E. Morgan yn areithio ar Ddirwest yn Nhonyrefail ar y 12fed o Ragfyr. Bu Mr.

Evans yn cymeryd rhan mewn Cyfarfodydd Dirwestol fel y canlyn hyd ddiwedd y flwyddyn: Dinas ar y 15fed, Penybont ar y 18fed, Tonyrefail y 26ain, a'r Ddinas drachefn ar y 29ain. Ar tud. 140 o'r "Diwygiad Dirwestol yn Nghymru," gan Dr. John Thomas, yr ydym yn darllen fel hyn: "Nos Lun, Tach. 16eg, 1837, sefydlwyd Cymdeithas Ddirwestol yn Waenfo, pryd y llywyddodd y Parch. E. Morgan, ac areithiodd Mri. T. Morgan a J. Francis, Caerdydd. Rhag. 4ydd, cafwyd ail gyfarfod, dan lywyddiaeth y Parch. W. Evans, Tonyrefail, ac areithiodd Mri. T. Thomas a T. Morgan, Caerdydd. Arwyddodd 60 rhwng y ddau gyfarfod." Yn yr adroddiad hwn dylasai "Nos Lun, Tach. 16eg," ddarllen Nos Lun, Hydref yr 16eg; ac yn lle "Rhag. 4ydd" darllener Tach. 4ydd." Oddiwrth y crybwyllion hyn fe welir i Mr. William Evans ymdaflu yn galonog i'r mudiad Dirwestol. Ac y mae genym y prawf sicraf ei fod yn ymbarotoi ar gyfer y Cyfarfodydd Dirwestol gyda'r un cydwybodolrwydd ag yr oedd yn darparu ei bregethau. Yr oedd yn gosod niferi uwchben ei areithiau ysgrifenedig. Ac y mae y coflyfr yn crybwyll nifer pob araeth yr un fath a thestyn pob pregeth. Yn ol y cyfrif sydd o'n blaen, traddododd Mr. Evans ei araeth Rhif 1 neu "No. 1" yn y Ddinas, Cwm Rhondda, ar y 15fed o Ragfyr; ac y mae yn hyfryd iawn genym ein bod yn gallu cyflwyno yr araeth, fel yr ysgrifenwyd hi ganddo, i'r darllenydd. Ac fe welir ei fod yn parotoi ei areithiau Dirwestol i raddau mawr ar yr un cynllun ac yn yr un dull ag yr oedd yn cyfansoddi ei bregethau.

DIRWEST. (No. 1.)

I.—Y prif foddion mae Duw wedi ordeinio er gwella, trefnu, a meddyginiaethu'r byd oddiwrth bob aflendid, annghymedroldeb, a thrueni, yw yr efengyl; a'r dull mae yr efengyl yn gweithredu yn hyn yw trwy ymarferiaeth â'i hordinhadau—pregethu'r gair, gwrando'r gair, ac ymarferyd â holl ordeiniadau yr efengyl yn ol y gair. Mae yn eglur

hefyd fod gan yr efengyl amryw law-forwynion at ei gwasanaeth i'r un dyben, sef gwella'r byd er dyfod â dynion i'w iawn bwyll.

1.—Y Feibl Gymdeithas, yr hon sydd yn ymosod yn erbyn gwraidd tywyllwch, anwybodaeth, a phaganiaeth y byd.

2.—Y Gymdeithas Genadol Dramor a Chartrefol, yr hon sydd yn ymosod er rhoddi gwybodaeth iachawdwriaeth i bob dyn yn y byd.

3.—Yr Ysgol Sabbothol, yr hon sydd fel *nursery*, yn magu a meithrin i'r Arglwydd bobl barod.

4.—Y Gymdeithas Ddirwestol, yr hon sydd yn amcanu myned dan wraidd meddwdod ac annghymedroldeb. Mae yn ymddangos i mi fod gwir angenrheidrwydd am rhyw sefydliad er rhagflaenu y llifogydd o annghymedroldeb a meddwdod sydd wedi gorlenwi ein gwlad trwy effeithiau y diodydd meddwol. A'r moddion mwyaf effeithiol a phwrpasol i'r perwyl hyn o ddim a welais na dim a glywais am dano erioed yw Cymdeithas Dirwest.

Dirwest neu gymedroldeb sydd o'r un natur: Act. xxiv. 25. Dirwest yw ymgadw oddiwrth bob peth sydd yn halogi, ac ymgadw oddiwrth bob peth nad oes angen yn y cyfansoddiad dynol am dano, ïe, pob peth nad yw angenrheidiol. A chymedroldeb yw arfer pob peth mae y cyfansoddiad dynol yn galw am dano mor belled a digoni, dyogelu, neu ddiwallu; ac nid i wastraffu ac i borthi blys nac mewn yfed, na bwyta, na gwisgo. Ac os gwir yw y peth mae dynion deallus yn ei ddywedyd, nad oes angen y diodydd meddwol ar y cyfansoddiad dynol, a'u bod yn fwy o ddinystr i'r cyfansoddiad nag o ymgeledd,—cymedroldeb yw ymwrthod yn gwbl â phob diodydd meddwol, ond yn unig fel cyfferi meddygol, yn ol egwyddor Cymdeithas Dirwest.

II.—Atebiadau i rai gwrthddadleuon.

1.—Un wrthddadl sydd gan lawer i ymwrthod yn gwbl â'r diodydd meddwol yw, fod ynddynt ychydig les i'r natur trwy eu harfer yn gymedrol. Wel, ni addefwn fod ychydig les yn

y diodydd meddwol i'r cyfansoddiad dynol (yr hyn sydd amheus) i'r rhai sydd yn eu harfer yn gymedrol, fel y mae y cyffredin yn arfer y gair cymedrol. Eithr ystyriwn yr ochr arall,—pa faint o ddrwg sydd ynddynt i'r rhai sydd yn eu harfer yn annghymedrol. Oh, llawer iawn! yn bersonol ac yn berthynasol—i'r corph ac i'r enaid, yn amserol a thragywyddol. Wele, feallai fod deg yn eu harfer yn annghymedrol am bob un sydd yn eu harfer yn gymedrol. Ac mae mil mwy o afles i'r rhai sydd yn eu harfer yn annghymedrol nag sydd o lesiant trwyddynt i'r ychydig sydd yn eu harfer yn gymedrol. Mae yn hawdd gweled, ond mantoli yn deg, fod tynell o ddrwg am bob owns o ddaioni wedi dyfod i'r byd trwy y diodydd meddwol. Am hyny onid (1) dynol, (2) rhesymol, (3) duwiol, yw i un ymwrthod âg ychydig les ei hun er mwyn atal llawer o afles i lawer? Ië, ymatal oddiwrth un llesad bychan, bychan, a bychan iawn hefyd, er mwyn atal mil a mwy o afles i'w gymydog. "Nac edryched," medd yr Ysgrythyr, "pob un ar yr eiddoch eich hunain, eithr pob un ar yr eiddo ereill hefyd." Phil. ii. 4. "Canys mi a ddymunwn fy mod fy hun yn anathema oddiwrth Grist dros fy mrodyr, sef fy nghenedl yn ol y cnawd." Ac yn ol esiampl Crist hefyd, yr Hwn ac Efe yn gyfoethog a aeth er ein mwyn ni yn dlawd, fel y cyfoethogid ni trwy ei dlodi Ef. 2 Cor. viii. 9.

2.—Yr wrthddadl sydd gan ereill yw, ei newydd-deb hi—mai peth newydd yw hi, am hyny mae yn rhaid ei bod yn ddrwg. Ond nid yw bod y peth yn newydd nac yn hen yn un prawf o'i dda na'i ddrwg. Pe buasai fod y peth yn dda am ei fod yn hen, buasai pechod yn dda, gwaith y mae yn ddigon hen. A phe buasai fod y peth yn newydd yn ei wneud yn ddrwg, buasai yr efengyl unwaith yn ddrwg, gwaith hi fu unwaith yn newydd yn ein gwlad ni, ac yn wir yn mhob gwlad hefyd. Felly yr Ysgol Sabbothol: yn nghylch 56 mlynedd sydd oddiar pan dechreuodd hon, trwy offerynoldeb yr anfarwol Mr. Raikes yn Lloegr, a Mr. Charles o'r Bala

yn Nghymru. Felly Cymdeithas y Beiblau yn Llundain, yn nghylch 38 mlynedd. Felly y Gymdeithas Genadol yn Llundain, er ys 43 mlynedd. Felly nid yw ei bod yn gymdeithas newydd yn un prawf ei bod yn ddrwg.

3.—Gwrthddadl arall yw, am nad yw y Beibl yn son am Gymdeithas Dirwest. Os nad yw y Beibl yn son am Gymdeithas Dirwest, mae yn son am ddirwest, gan ei phrofi yn un o ffrwythau yr Ysbryd. Nid yw y Beibl chwaith yn enwi y Gymdeithas Genadol, na Chymdeithas y Beibl, na'r Ysgol Sabbothol, ac eto nid oes neb a feiddia ddywedyd llai am danynt oll nad ydynt yn dda, a da iawn hefyd. Felly nid yw yr wrthddadl hon yn ei herbyn âg un synwyr ynddi.

4.—Gwrthddadl arall sydd gan rai yw, ei bod yn amcanu yn erbyn daioni dynion yn gyffredinol, ac wrth hyny mai cymdeithas ddrwg yw. I hyn mi atebaf, Ni all fod yn ddrwg, gwaith tri rheswm :—

(1.) Ei natur a'i hegwyddor,—cariad ac ewyllys da. Cariad yw ei harwyddair. Mae yr un egwyddor a'r Beibl, mae wedi ei seilio ar egwyddor yr efengyl.

(2.) Ei dyben. Ei dyben yw sobri y meddw, ac atal y sobr rhag byth myned yn feddw. 1 Pedr iv. 7.

(3.) Mae ei ffrwyth yn dda; ac wrth ei ffrwyth y mae gwir adnabod pob peth. Fe all rhywun honi fod ei egwyddor yn dda, a bod ei ddyben yn dda; ond nid oes achos credu ei honiad oni bydd y ffrwyth yn dda. Mae y gwledydd a'r trefydd o flaen y gymdeithas hon fel anialwch yn llawn o ysgelerder, ymrysonau, ymladdau, tlodi o bob math, a phob annghysur personol a theuluaidd trwy feddwdod ac annghymedroldeb. Ond ar ei hol yn mhob man, mae mewn gwrteithiad, mewn cyffelybiaeth fel gardd paradwys.

III.—Rhai rhesymau er anogaeth i ymuno â'r Gymdeithas hon.

1.—Er esiampl i'r meddwon. Mae bod y dyn sydd yn ymarfer â'r diodydd meddwol yn gymedrol, yn ymwrthod yn hollol â'r cwbl o'r diodydd meddwol er mwyn y meddwon,

yn debyg o effeithio yn ddaionus iawn arnynt. A phwy na theimlai, a phwy na ymdrechai i wneud yr hyn a allo er rhagflaenu aflwydd y meddwon? Dim llai, wrth y cyfrif cywiraf allant ei gael, na 60,000 o feddwon yn myned i'r farn bob blwyddyn o Brydain. A chwi a wyddoch nad oes un meddw yn myned i'r nefoedd, yn ol tystiolaeth y Beibl.

2.—Na fyddwn yn groes i'r Gymdeithas hon, rhag ein cyfrif gyda'r Assyriad, a rhag ein cael yn fraich i blant Lot. Salm lxxxiii. 8.

3.—Byddwn yn blaid iddi, rhag bod dan yr un cyhuddiad a Meroz. Barn. v. 23.

4.—Ac y mae ymuno â'r Gymdeithas trwy ardystio yn mhlaid sobrwydd yn rhoi cleddyf ar y glun ac yn y llaw yn erbyn annghymedroldeb.

5.—Er rhoddi help eich llaw gyda'r gwaith da.

*December*, 1837.

Cyn diwedd yr un mis yr oedd wedi cyfansoddi ei ail araeth ddirwestol—Rhif. 2, yr hon sydd yn dangos y llafur a'r gofal a gymerai i feistroli y pwnc ac i brofi ei gadernid; ac am hyny yr ydym yn ei gosod i fewn yma.

### DIRWEST. (No. 2.)

I.—Mae chwech cwestiwn yn cael eu gofyn gan Solomon: Diar. xxiii. 29. I bwy y mae gwae? I bwy y mae ochain? I bwy y mae cynen? I bwy y mae dadwrdd? I bwy y mae gweliau (clwyfau) heb achos? I bwy y mae llygaid cochion? Yr ateb yw, I'r neb sydd yn aros wrth y gwin, i'r neb sydd yn myned i ymofyn am win cymysgedig. adn. 30.

II.—Mae yn anhawdd desgrifio na dirnad y fath orlif o drueni, aflwydd, a dinystr sydd wedi dyfod ar y cenedlaethau trwy y diodydd meddwol. Yn ol tystiolaeth y dynion sydd yn deall oreu, mae—

1.—Dau o bob tri o'r gwallgofiaid sydd yn y deyrnas, trwy effeithiau y diodydd meddwol.

2.—Agos y rhan fwyaf o'r dygwyddiadau dinystriol,—

llongddrylliadau, colli bywydau trwy foddi a llosgi, trwy feddwdod—un yn syrthio dan olwyn, un dros y dibyn i'r pwll glo neu'r odyn galch, a'r cyffelyb.

3.—Dwy ran o dair o holl dlodi y wlad yn dyfod trwy effeithiau y diodydd hyn, heb fwyd na dillad.

4.—Pedwar o bob pump o'r troseddau yn llysoedd Lloegr, trwy y diodydd hyn.

5.—Dim llai yn cael ei dreulio yn wastraffus ar ddiodydd meddwol yn y deyrnas gyfunol bob blwyddyn na haner can' miliwn o bunau; yn ol Mr. Sherman, can' miliwn.

6.—Yn nghylch chwe' chan' mil o feddwon yn y wlad. Mae yn anmhosibl meddwl fod chwe' chan' mil o feddwon yn y wlad, heb fod ei chamwedd yn cyraeddyd hyd y nefoedd. A phan ystyriwn fod cyflawnder y dyfroedd meddwol a yfir bob blwyddyn yn ddigon i wneud afon o dair troedfedd o ddyfnder, a chwech troedfedd o led, a thros bedwar ugain milldir o hyd—diau fod y wlad yn llawn o gamwedd yn erbyn Sanct Israel.

III.—Cofiwn hefyd fod meddwdod yn bechod y pechodau. Mae yn gwneud dynion yn agored i bob drwg, ac yn eu diosg o bob arfogaeth i wrthsefyll temtasiwn. Mae arian, enw da, sefyllfa anrhydeddus, synwyr, tynerwch cydwybod, yn gysgod rhag llawer o demtasiynau; ond y mae meddwdod yn dinystrio y rhai hyn i gyd, ac yn ysbeilio y trueiniaid o'u harfogaeth. Mae 60,000 o feddwon yn myned i'r farn bob blwyddyn. Ac nid yw y meddwon yn myned i'r nefoedd, medd y Beibl; a barnwch chwi i b'le maent yn myned. Oh, pwy na theimla? pwy na wyla? pwy na ymdrecha i wneuthur ei eithaf i ragflaenu cymaint o filoedd sydd yn dinystrio eu hunain?

IV.—Mae Cymdeithas Dirwest wedi dyfod i'r maes yn erbyn meddwdod—nid yn erbyn y meddwon, ond o blaid y meddwon, ac yn erbyn meddwdod—prif bechod yr oes.

1.—Mae yn ymddangos i mi fod gwir angenrheidrwydd

am rhyw sefydliad o'r fath, er rhagflaenu y gorlif o annghymedroldeb a meddwdod oedd wedi gorlenwi ein gwlad.

2.—A'r moddion mwyaf pwrpasol o ddim a welais na dim a glywais am dano, er glanhau y trefydd a'r gwledydd oddiwrth effeithiau ynfyd, niweidiol, a dinystriol y diodydd meddwol, yw llwyr-ymwrthod â'r holl ddiodydd meddwol ond yn unig fel cyffeiriau meddyginiaethol.

3.—Mae yn ymddangos i mi, ond feallai nad yw yn ymddangos i chwi (ond yr wyf yn rhwym o ymarfer cydwybod tuag at Dduw a dynion yn hyn fel pethau ereill er ei chael yn ddirwystr), mai dyledswydd a braint pob dyn yw ardystio yn erbyn y diodydd bradychlyd hyn, er rhagflaenu aflwydd y meddwon, ac er atal aflwydd y genedl sydd yn codi. Ac wrth ystyried dau beth, llai gorchwyl na mae llawer yn ei feddwl yw llwyr-ymwrthod â'r diodydd meddwol:—

(1.) Cymaint o niwed sydd ynddynt i filoedd lawer.

(2.) A chyn lleied o ddaioni sydd ynddynt i un dyn.

V.—Mi adroddaf i chwi ychydig o hanes y Gymdeithas hon yn ei gweithrediadau.

1. Yn America mae dros ddeuddeg can' mil o aelodau yn perthyn iddi. 2. Mae dros bedair mil o'r *distilleries* wedi eu cau i fyny. 3. A thros wyth mil o'r marsiandwyr wedi rhoddi heibio werthu y gwirodydd poethion. 4. Mae dros fil a dau gant o'u llongau wedi taflu y gwirodydd poethion dros y bwrdd. 5. Ac oddeutu deuddeg mil o feddwon wedi eu sobri. Cof am Bristol a Birmingham, lle mae 200 o feddwon wedi eu dychwelyd i'r ffydd. 6. Yn Ngogledd Cymru mae dros driugain-a-phymtheg o filoedd o ddirwestwyr, ac yn eu plith dros chwe' chant o bregethwyr; ac nid oes ond ychydig o bregethwyr yn perthyn i un enwad crefyddol yn y Gogledd heb fod yn cofleidio egwyddor y Gymdeithas hon, a phregethwyr un enwad bob un ond tri wedi ardystio llwyrymwrthodiad â phob diodydd meddwol. 7. Mewn un ardal yn sir Aberteifi mae agos 8 mil o ddirwestwyr.

VI.—Gair o anogaeth.

1.—De'wch i ardystio â'ch llaw yn erbyn y pechod sydd wedi ymdaenu mor fawr, yn ol esiampl Ysgrythyrol—Heseciah, Josiah, Ezra, Nehemiah, a llawer: Ezra ix. a x., a Nehem. ix. a x. 1.

2.—Gwaradwydd Prydain Fawr, meddwn, yw meddwdod; a phe symudid meddwdod allan o honi, hi fyddai yn baradwys y byd adnabyddus. Na phalled un help ei law a'i galon i symud ymaith waradwydd ein gwlad.

3.—Na chysged Jonah pan y mae y paganiaid yn effro.

Y mae yn afreidiol i ychwanegu dim i ddangos y modd y gwnaeth Mr. Evans ymdaflu i'r symudiad dirwestol; mae y ffeithiau adroddwyd a'r areithiau uchod yn ddigon, ac yn well na dim arall, fel portread o'i gychwyniad allan ef gyda'r achos da hwn. Ac ni a gawn eto gyfleusdra i weled iddo ddyfalbarhau yn ffyddlawn yn yr ymdrech o blaid sobrwydd a llwyr-ymataliaeth oddiwrth y diodydd meddwol.

Ar ben y tudalen o'r cof-lyfr am fis Gorphenaf, 1837, yr ydym yn cael y geiriau hyn: "O'r mis hwn allan, coffadwriaeth genedigaeth y plant sydd ofynol." Yr oedd deddf cofrestriad genedigaethau yn awr yn dyfod mewn grym. Ac fe wnaeth hyn gyfnewidiad yn agwedd cof-lyfrau Mr. Evans. Er ei neillduad yn 1825, yr oedd wedi gosod i lawr yn ofalus enwau y plant a fedyddiasid ganddo, ac enwau eu rhieni, yn nghyda lle a dyddiad y bedydd. Yr oedd wedi bedyddio amryw ugeiniau os nad rhai canoedd o blant yn ysbaid y deuddeg mlynedd oddiar ei ordeiniad i gyflawn waith y weinidogaeth. Ond ar ol yr amser yr ydym yn awr yn cyfeirio ato, nid ydym yn cael cofrestriad o'r bedyddiadau a weinyddwyd ganddo. Heblaw y Gymdeithasfa y bu ynddi, fel y crybwyllasom eisioes, yn Ystradgynlais, yn nechre Gorphenaf, buasai yn Nghymdeithasfa Risca ar y 24ain a'r 25ain o Fai, lle y pregethodd am ddau oddiar Act. xxviii. 28. Yr oedd yn bresenol hefyd yn Nghymdeithasfa Castellnewydd-Emlyn, ar y dyddiau cyntaf o Awst, a phregethodd yno am

10 o'r gloch oddiar Col. i. 28. Dyma y Gymdeithasfa yr ordeiniwyd Dr. Lewis Edwards, o'r Bala, ynddi.

Dechreuodd Mr. Evans ei lafur am y flwyddyn 1838 trwy bregethu am 5 ar y 1af o Ionawr, sef nos gyntaf Cyfarfod Misol y Pil. Y Sul cyntaf o'r flwyddyn hon yr oedd yn y Cefn y bore, Dowlais y prydnawn, a Merthyr yr hwyr. Nos Fercher, y 10fed, yr oedd yn areithio ar ddirwest yn yr Eglwys-newydd, ac yr oedd ganddo araeth newydd—Rhif. 3,—ac yn seiliedig ar 1 Thes. v. 21; ac y mae yn sicr genym ei bod, yn enwedig fel y traddodid hi ganddo ef, yn araeth dra effeithiol; a bu mewn naw cyfarfod dirwest cyn diwedd y mis. Cynaliwyd Cyfarfod Misol Chwefror, sef ar y 7fed a'r 8fed, yn Nhonyrefail. Nos Sadwrn, y 10fed, yr oedd Mr. Evans yn pregethu yn Llaneurwg; a'r Sul dilynol, y bore yn Nghasnewydd, y prydnawn yn y Casbach, a'r hwyr yn Llaneurwg. Nos Lun, y 12fed, yr oedd yn areithio ar ddirwest yn Nghaerdydd, a'r nos Fercher dilynol yn Salem, Pencoed, yn cyflawni yr un gwasanaeth; a'r noswaith ar ol hyny yn pregethu yn Mhentyrch. Ar y dydd cyntaf o Fawrth yr oedd yn gweinyddu mewn angladd yn y Taihirion. Y nos Sadwrn dilynol, sef y 3ydd, yr oedd mewn cyfarfod dirwest yn Penycae, Mynwy, a dranoeth yr oedd yn y Cendl y bore, Nantyglo am ddau, a Phenycae y nos. Ar y 7fed a'r 8fed yr oedd yn bresenol yn Nghyfarfod Misol y Llwyni. Fe welir felly fod ei symudiadau yn gyflym ac yn ymestyn dros lawer o dir, a bod y galwadau am dano yn lluosog ac amrywiol, ac yntau â'i holl egni yn ymdrechu eu cyfarfod. Difyr, yn wir, ydyw ei ddilyn o le i le, i fyny ac i lawr, ar hyd a lled Morganwg, a thros ei therfynau nid yn anfynych, yn enwedig i sir Fynwy. Aeth i Gymdeithasfa Trecastell, yr hon a gynelid ar y 29ain a'r 30ain o Fai, ac yr oedd yn pregethu yno am 3 oddiar 1 Tim. vi. 19. Rhoddodd gyhoeddiad byr wrth fyned a dychwelyd. Yr oedd yn Abertawy ar y Sul cyntaf, sef y 3ydd, o Fehefin. Dranoeth, yr oedd y bore a'r prydnawn mewn gwyl ddirwestol yn Aberafon; oddiyno aeth erbyn 7 o'r gloch i gadw

*society* yn Margam, ac yr oedd yn yr un lle drachefn ar y 12fed a'r 13eg yn y Cyfarfod Misol, ac wedi pregethu am 10 yno aeth i Aberafon i roddi pregeth yn yr hwyr. Bu mewn gwyl ddirwestol arall yn Llantrisant ar yr 21ain, ac areithiodd ddwywaith—am 2, Rhif 1, ac am 6, Rhif 4—araeth newydd. Yr oedd yn areithio yn Ystradgynlais ar y 30ain o'r un mis, ac ar Sul y cyntaf o Gorphenaf yn gwasanaethu y daith yno a'r Creunant. Nos Sadwrn, y 4ydd o Awst, yr oedd yn y Goppa yn dechreu ei daith tua Chymdeithasfa Aberteifi, yr hon oedd i'w chynal ar yr 8fed a'r 9fed; pregethodd yno am 10 oddiar Heb. vi. 18. Cyraeddodd Gastellnedd erbyn bore Sul, y 12fed, Margam am 2, a Phenybont am 6; ac y mae yn fwy na thebyg iddo fyned adref cyn gorphwys. Nid aeth i Gyfarfod Misol Treforis yr wythnos ganlynol, ond yr oedd yn un o'r areithwyr yn ngwyl ddirwestol Caerdydd, ar yr 21ain. Y Sul cyntaf yn Medi yr oedd yn Mhontypool y bore, Farteg am ddau, a Blaenafon am chwech. Ac o hyn yn mlaen hyd ddiwedd y flwyddyn yr ydym yn ei gael mewn prysurdeb mawr—yn pregethu yn aml ar ddyddiau yr wythnos yn gystal ag ar y Sabbothau, yn ymweled âg amryw eglwysi "yn achos Dirwest" ac "yn achos yr Ysgol," yn gweinyddu mewn claddedigaethau ac yn traddodi areithiau ar ddirwest, ac yn cymeryd ei ran yn y gwaith cyhoeddus yn mhob Cyfarfod Misol. Yr oedd yn bresenol hefyd yn Nghymdeithasfa Cendl, ar y 10fed a'r 11eg o Hydref, ac yn pregethu am 2 o'r gloch oddiar Phil. iii. 14; ac yn agoriad capel Hirwaen, ar y 26ain a'r 27ain o Dachwedd, ac yn agoriad capel Penycae, Mynwy, ar y 12fed a'r 13eg o Ragfyr. "Mewn Gwyl Ddirwestol a gynaliwyd yn Nhonyrefail, Rhag. 26ain, 1838, cyflwynwyd tlws a chadwyn arian i Mr. Evans gan Ddosbarth Dirwestol Caerdydd, am ei lafur diflino gyda'r achos Dirwestol. Gwnaed y cyflwyniad mewn araeth ffraeth a doniol gan Mr. Thomas Morgan, Caerdydd." (Y Diwygiad Dirwestol, tud. 138.) Yn ol y cof-lyfr, dydd Nadolig y cynaliwyd yr wyl hon, ac nid y 26ain o Ragfyr;

ond yn ol yr ysgrif ar y tlws arian, mewn gwyl ddirwestol yn Mhontypridd, ar y 15fed o Hydref, y gwnaed y cyflwyniad: "*The Gift of the Cardiff District Temperance Society to the Rev. Wm. Evans, Tonyrefail, for his indefatigable exertions in the cause of Temperance. Presented at Newbridge Festival, Oct.* 15, 1838." Fe ddichon y gellir cysoni yr ysgrif hon â'r adroddiad uchod fel hyn: Y bwriadwyd cyflwyno y tlws arian i Mr. Evans yn ngwyl Pontypridd, ond nad oedd yn barod, ac am hyny y cyflwynwyd ef y cyfleusdra priodol cyntaf ar ol hyny, sef yn ngwyl Tonyrefail dydd Nadolig.

I ddangos y "llafur diflino" yr oedd efe ynddo, ni a ddodwn yma y cyfrif o'i waith am yr wythnos olaf o'r flwyddyn yr ydym yn awr arni:—

Rhag. 22.—Waenfo ar Ddirwest, *No.* 4, 7.
,, 23.—Sul, Dinas Powys 10, Cadoxton 2, Waenfo 6.
,, 24.—Ton, 3, angladd.
,, 25.—Nadolig, Ton, 5, gweddio; Ton, 10, Gwyl Dirwest; Cymar, 2, *No.* 5; Pontypridd, 6, 1 Pedr ii. 17.
,, 27.—Ton, 3, angladd.
,, 28.—Llanfabon, 10, *society;* Ystrad, 2, Preg. ix. 4; Caerffili, 6, Heb. v. 8, 9.
,, 29.—Soar ar Ddirwest, *No.* 5, 7.
,, 30.—Sul, Trehill, 10; Soar, 2; Penmarc, 6.
,, 31.—*Pyle Monthly Meeting at* 5, Heb. v. 8, 9.

Ac felly fe orphenodd ei waith am 1838 yn yr un man ac yn yr un modd ag yr oedd wedi ei ddechreu.

Y mae hanes Mr. Evans am 1839 yn dra chyffelyb i'r hyn a ddywedwyd am y ddwy flynedd flaenorol. I ochelyd gormod meithder ac ail-adroddiad, ni wnawn ond crybwyll y pethau neillduol a gymerasant le yn y flwyddyn yr ydym yn awr wedi dyfod ati. Yr oedd capel Cwmbychan yn cael ei agor ar y 23ain a'r 24ain o Ionawr. Gallwn feddwl ei fod wedi addaw bod yno, ond nis gallodd fyned; eithr yr oedd yn bresenol yn agoriad capel Pentyrch ar y 9fed a'r 10fed o

Ebrill, ac yn agoriad capel Glanybad ar y 10fed a'r 11eg o'r un mis; ar ol pregethu am 2 yn Mhentyrch ar y 10fed, aeth i lawr i ddyffryn Taf i bregethu yn yr oedfa gyntaf yn Glanybad. Bu yn Llundain o'r 23ain o Fehefin hyd yr 11eg o Awst. Yn ysbaid y tymor hwn pregethodd ddwy a deugain o weithiau, areithiodd ar ddirwest bedair gwaith; yr oedd yn bresenol bob nos o'r wythnos mewn rhyw gyfarfod neu arall yn y gwahanol gapelau. Ni bu efe yn bresenol mewn un Gymdeithasfa y flwyddyn hon. Tua chanol mis Tachwedd goddiweddwyd ef gan afiechyd, dan yr hwn y bu yn dyoddef am lawn dau fis. Nid yw yn ymddangos fod y cystudd hwn mor beryglus a'r un a gawsai yn niwedd 1833, ond fe barhaodd lawer yn hwy, a pharodd iddo fwy o nychdod a llesgedd. Ar ol cymaint o lafur diflino, a hyny am gyhyd o amser, mae yn ddiameu fod ei natur yn gofyn am orphwys, ac fe ddichon mai dyma ffordd ei Dad nefol i'w rwymo i gymeryd ychydig o esmwythdra.

Y Sabboth cyntaf y pregethodd ar ol ei gystudd oedd ar y 19eg o Ionawr, 1840; sef ar y Ton am 10 a 6, ac fe gaed cyfarfod eglwysig am 2. Mae'n sicr fod hwn yn Sabboth gwlithog ar Donyrefail, a bod profiadau tyner yn cael eu hadrodd yn y gyfeillach yn y prydnawn. Buasai yr holl frawdoliaeth yn taer weddio dros eu hoff weinidog, ac yr oedd yn llawenydd mawr iddynt ei weled unwaith eto a'i glywed yn cyhoeddi gair y bywyd. Pregethodd ar y Ton y nos Sul canlynol, a bu yn y Ddinas am ddau, eithr nid anturiodd i fyned i Glynogwr y bore. Y Sul cyntaf yn Chwefror aeth i Bontypridd y bore, ond dychwelodd adref i'r Ton erbyn yr hwyr. Ond ar Sul y 9fed o Chwefror y mae yn ail ymaflyd yn ei hoff waith fel cynt, gan holi yr ysgolion yn y Cwrdd Dau Fisol ar y Ton yn y bore, a phregethu yn y Ddinas a Glynogwr y prydnawn a'r nos. Ar Sul yr 8fed o Fawrth yr oedd yn y Groeswen y bore, Nantgarw am ddau, a Glanybad am chwech. Fel y mae yn hysbys, capel yn perthyn i'r Annibynwyr ydyw y Groeswen. Nid ydoedd yn beth newydd i Mr. Evans

bregethu i gynulleidfa yn perthyn i'r enwad parchus hwnw. Yr oedd wedi bod amryw droion yn y Cymar ac yn Llanharan. Er ei fod yn drwyadl ymlyngar wrth ei enwad ei hun—ni bu neb erioed yn fwy felly, eto yr oedd yn hollol gartrefol a chariadus gyda brodyr o enwadau crefyddol ereill. Yr ydym yn cofio ei glywed yn adrodd iddo bregethu un tro yn y Groeswen yn amser Mr. Hughes, a dywedai iddo gael oedfa hwylus. Ar y bregeth dywedodd, "Y mae drws i dŷ Dduw. Y mae drws i'r tŷ hwn. Mae rhai yn dyweyd mai bedydd yw y drws i'r eglwys. Nage. Crist yw y drws." Ar ol yr oedfa dywedodd Mr. Hughes wrtho, "Chwi ddywedasoch fod drws i'r capel yma; gobeithio y dewch i'w weled yn fuan eto." Wedi marwolaeth Mr. Hughes, yr hyn a gymerasai le ar y 30ain o fis Gorphenaf, 1839, aeth un o'r diaconiaid i Donyrefail i ofyn i Mr. Evans a ddeuai efe yn weinidog iddynt. Siglodd ei ben ac atebodd, "Yr wyf yn *sound* yn y man lle yr ydwyf."

Y mae y cofnodiad nesaf a grybwyllwn yn meddu dyddordeb:— "Mawrth 27ain, 1840, angladd Robert Smith, Ysw., Penllin Court, am 7 yn y bore, Salm cxvi. 15." Yr oedd y claddedigaeth i gymeryd lle yn Margam. Yr oedd y boneddwr hwn yn un o brif golofnau Methodistiaeth yn Morganwg. Yr oedd yn byw yn Aberafon, ac yn berchenog un o'r gweithiau yn yr ardal hono; eithr yr oedd yn trigianu rhan o'i amser yn Penllin Court. Dywedir fel hyn am dano yn y gwaith ag yr ydym eisioes wedi cyfeirio ato gan Dr. John Thomas, yn rhoddi hanes y Diwygiad Dirwestol yn Nghymru: "Bu nodded Mr. Robert Smith i'r achos yn *help* mawr. Yr oedd esiampl gŵr o'i safle ef, a chynifer o weithwyr dano, yn rhwym o gario dylanwad. Gelwid am ei wasanaeth trwy ranau helaeth o Forganwg i lywyddu mewn gwyliau Dirwestol. Cyflwynwyd aur-dlws iddo gan ei weithwyr yn Margam, fel arwydd o'u parch iddo am ei wasanaeth gyda'r Ysgol Sabbothol, a chyda Dirwest. Bu farw yn ddisymwyth yn Mhenllin, Mawrth 20fed, 1840, yn 59 oed." (tud. 134)

Buasai Cyfarfod Misol yn Soar, Tresimwn, ar y 18fed a'r 19eg; ac yr ydym yn cael i Mr. Evans fyned o Soar i Benllin, a phregethu yno nos y 19eg. Mae yn bosibl fod Mr. Smith yn bresenol yn y Cyfarfod Misol, ac os ydoedd mae yn sicr iddynt fyned gyda'u gilydd i Benllin. Bore dranoeth, yr 20fed, yn sydyn iawn, pan yr oeddynt ar frecwast, cafodd Mr. Smith *fit*, a syrthiodd i freichiau Mr. Evans, a fu farw mewn ychydig funudau. Mewn coffadwriaeth am yr amgylchiad difrifol hwn gwnaeth dau fab Mr. Smith anrhegu Mr. Evans a chopi hardd o Weithiau Charnock mewn dwy gyfrol, gyda'r ysgrifeniad canlynol:—*Penllin Court, March* 30, 1840. *These volumes are presented to the Rev. William Evans by Robert and David Smith, as being the property of their late father, as a slight memorial of the friendship that existed between them for so many years, and in recollection of having witnessed his sudden death, on the* 20*th of March*, 1840." Yr oedd gan Mr. Smith frawd yn preswylio yn y Castella, a byddai yn awr ac eilwaith yn ymweled âg ef; a phob tro yr elai yno, gofalai fyned i Donyrefail i'r capel; a bu fwy nag unwaith yn ymweled â Mr. Evans yn ei gartref ei hun. Syrthiodd mewn serch â'i fab hynaf, a gofynodd i'r tad am dano i'w ddanfon i ysgol, ac yna i'w osod yn ei swyddfa. Nis gallai Mr. Evans hebgor cymorth ei fab gyda gorchwylion y tyddyn ar y pryd; ond y mae y fath gynygiad yn ddangosiad eglur o gymeriad Mr. Smith, ac o'r cyfeillgarwch mawr a deimlai tuag at y gweinidog o Donyrefail.

Bu Mr. Evans yn bresenol mewn dwy Gymdeithasfa yn y flwyddyn hon, sef yn Llaneurwg ar y 26ain a'r 27ain o Fai, pryd y pregethodd am 2 oddiar Rhuf. viii. 13; ac yn Abergwaen ar y 13eg a'r 14eg o Hydref, lle y pregethodd eto am 2 oddiar Salm li. 3. Yr oedd yn cychwyn i fyned i Abergwaen o Gyfarfod Misol Penllin, yr hwn a gynelid ar y 7fed a'r 8fed o Hydref; ac yno fe ganiatawyd i'r pregethwr ieuanc, William Williams o'r lle hwnw (yn awr y Parch. W. Williams, Abertawy), i fyned gyda Mr. Evans i sir Benfro. Yr ydym wedi

derbyn y nodyn canlynol oddiwrth Mr. Williams gyda golwg ar y daith hono:—

"My dear friend,—Please excuse delay. I have been searching diligently for some memorial of the Pembrokeshire tour, but without success. I can remember your grandfather's uniform kindness to me, his taciturnity as we were approaching Fishguard, and his chattiness as we were going away. On the night before he preached at the Association, I awoke and found him gone. Hearing him groan in a corner of the room I spoke to him. He asked me to repeat the verse which begins, '*Os cyfaddefwn ein pechodau*,' which I did. He then exclaimed, '*O Nghoncordance anwyl i*,' and came back to bed. He preached well at the Association, as he did all the way; but I do not think that in any instance he came quite up to what I had heard him before and heard him afterwards. Matt. v. 8. was quite a favourite of his, but I had heard him in 1839 setting a congregation on fire with it, and a tremendous blaze it made. * * * *

"Sincerely yours, WM. WILLIAMS."

Yr ydym wedi sylwi nad oedd braidd flwyddyn yn myned heibio heb ei fod yn cymeryd rhan yn agoriad capelau newyddion, naill ai capelau wedi eu codi mewn lleoedd newyddion, neu ynte capelau newyddion helaethach mewn manau ag yr oedd achosion eisioes yn bod ynddynt. Nid yw y flwyddyn yr ydym yn awr arni yn eithriad. Ar y 3ydd o Dachwedd, "agor capel Abercynffig, am 10, Salm xciii. 5;" ar y 4ydd, "agor capel y Llwyni, am 2, 1 Tim. iv. 8." Treuliodd y mis olaf o'r flwyddyn yn Bristol yn gwasanaethu yr achos Cymreig yn y ddinas hono, a hyny gyda'r ymroddiad egniol a'r gofal manwl ag oedd bob amser yn nodweddu ei lafur gweinidogaethol. Megys y troion o'r blaen y buasai yno yr oedd yn pregethu dair gwaith ar y Sabboth, ac yr oedd ganddo dri chyfarfod yn yr wythnos, ac yn ychwanegol cafwyd cyfarfod dirwestol nos Sadwrn y 19eg; a dydd

The Theological College,
BALA.

Nadolig am 10 a 2 "ymweled â'r cleifion a chyfranu, a llefaru am 7, Esia 28. 16." Dychwelodd adref o Bristol dydd Llun, yr 28ain o Ragfyr. Yr oedd yn diweddu yr hen flwyddyn ac yn dechreu y flwyddyn newydd, 1841, yn Nghyfarfod Misol y Pil, yr hwn a gynelid dydd Iau, y 31ain o Ragfyr, a dydd Gwener, y 1af o Ionawr.

Y mae y flwyddyn 1841 yn un ag y bu Mr. Evans mewn llafur mawr ac amrywiol ynddi. Fel yr Apostol yr oedd "mewn teithiau yn fynych." Y mae unwaith eto yn cyflawni mewn rhan ysgrifenyddiaeth ei Gyfarfod Misol, a gosodwyd ef hefyd yn y swydd o ysgrifenydd sirol y Genhadaeth Dramor oedd yn awr newydd gael ei sefydlu. Ond y gorchwyl penaf a roddwyd arno yn y flwyddyn hon, yn ail i'w brif waith o bregethu yr efengyl, ydoedd yn nglyn â'r casgliad i ffurfio cronfa tuag at gynaliaeth yr Athrofa ag yr oedd y Gymdeithasfa wedi penderfynu ei sefydlu yn Nhrefecca i roddi addysg i bregethwyr y Cyfundeb yn Neheudir Cymru. Mae y dyddiad yr ydym yn awr wedi dyfod ato gan hyny yn agor maes ëang o'n blaen. A phe meddem yr holl ddefnyddiau angenrheidiol, gallem weled nid yn unig "Cyfarfod Misol Morganwg haner can' mlynedd yn ol," ond hefyd y Gymdeithasfa a'r Cyfundeb yn y Deheudir yn yr adeg bwysig a dyddorol hono. Dywed y Parch. David Phillips yn y *Cylchgrawn*, rhifyn Mawrth o'r flwyddyn bresenol, 1891: "Yr oedd golwg urddasol iawn ar Gyfarfod Misol Morganwg yr adeg hono; a mawr oedd y dysgwyliad am dano, pan yr ymwelai yn ei dro â'r gwahanol eglwysi yn y sir. Byddai ei ddyfodiad i'r amrywiol leoedd yn uchel-wyl yn yr ardaloedd hyny, ac yn wledd a gofid yn hir ac yn anwyl gan y frawdoliaeth, ac yn fendith i'r ardaloedd mewn mwy nag un ystyr." Mae y rhestr o enwau y gweinidogion a'r blaenoriaid a roddir gan Mr. Phillips, ag oeddynt ar y pryd yn arweinwyr y Cyfarfod Misol, yn ddigon i egluro yr hyn a ddywed. Yr ydym yn sicr y bydd yn dderbyniol, yn enwedig gan ein cyfeillion yn Morganwg, i gael yn y lle cyntaf restr o'r lleoedd

a gawsant y fraint o dderbyn y Cyfarfod Misol haner can' mlynedd yn ol, sef yn 1841. Dyma hwynt: Ionawr 1af, Pil; Chwefror 3ydd a 4ydd, Penmarc; Mawrth 10fed a'r 11eg, Abertawy; Ebrill 14eg a'r 15fed, Llantrisant; Mai 13eg a 14eg, Caerdydd; Mehefin 8fed a 9fed, Aberafon; Gorphenaf 8fed a'r 9fed, Bryntirion; Medi 1af a'r 2il, Llanilltyd Fawr; yr 28ain a'r 29ain, Creunant; Tachwedd 2il a'r 3ydd, Llwyni; y 24ain a'r 25ain, Pendeulwyn; Rhagfyr 30ain a 31ain, Pil. Yr oedd Mr. Evans yn bresenol, ac yn cymeryd rhan yn y gwaith cyhoeddus ynddynt oll ond tri. Y mae ger ein bron hefyd gofnodau pump o'r Cyfarfodydd Misol uchod wedi eu hysgrifenu ganddo ef. Yn Mhenmarc penderfynwyd cyflwyno enwau Mr. E. Morgan, Caerdydd, a Mr. Edward Matthews, i'r Gymdeithasfa, i gael eu neillduo i gyflawn waith y weinidogaeth; hefyd, penodwyd y personau canlynol yn ymwelwyr:—

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Parch. | R. Thomas | a | Mr. | Wm. James. |
| ,, | D. Howell | a | ,, | Wm. John. |
| ,, | B. Evans | a | ,, | E. Jenkins. |
| ,, | D. Roberts | a | ,, | E. John. |
| ,, | J. James | a | ,, | J. Howells. |
| ,, | Wm. Evans | a | ,, | J. James. |
| ,, | J. Walters. | | | |

A threfnwyd i'r ymweliad gymeryd lle cyn y Cyfarfod Misol dilynol, a dyma bapyr yr ymweliad:—

"1.—Ymdrin âg achos yr Athrofa yn Nhrefecca.

2.—Anog i gadw pob moddion o ras mewn agwedd deilwng.

3.—Bod yn wyliadwrus wrth dderbyn dynion i'r eglwysi, a oes arwyddion fod goruchwyliaeth Ysbryd Duw ar eu cyflyrau.

4.—Cadw at reol y Corph wrth dderbyn rhai i'r eglwysi.

5.—Anog i arfer ffyddlondeb i godi y plant yn yr eglwysi.

6.—Anog i gyd-ganu yn yr addoliad.

7.—Anog i gadw at gyfiawnder ymarferol, fel y byddwn yn harddu crefydd Crist yn ein bywyd.

8.—Anog yr eglwysi i gadw at benderfyniadau y Cyfarfodydd Misol a'r *Association*, ac i ochelyd y pethau newyddion sydd yn y wlad.

9.—A oes blaenoriaid yn mhob eglwys? neu a oes angen ychwanegu blaenoriaid?

10.—Anog at ddirwest."

Cyflawnodd Mr. Evans ei ran o'r oruchwyliaeth hon yn y drydedd wythnos o Chwefror. Yn Abertawy ni wnaed ond ychydig heblaw gwneud y trefniadau arferol ar gyfer y Gymdeithasfa agosaol yn Nghastellnedd. Nodwyd Mr. Walters i gynorthwyo pobl y lle "yn achos yr *Association*," hyny yw gyda'r trefniadau; enwyd Mr. W. Griffiths a Mr. J. James i ddyweyd gair o'u profiad yn nghyfarfod y pregethwyr; a "nodwyd Evan Williams," yn awr y Parch. Evan Williams, Pil, "a Wm. Jones," sef y diweddar Mr. William Jones, Cwmafon, "i ymddyddan â hwy yn y *society* 1 o'r gloch," i'r amcan o'u derbyn yn aelodau o'r Gymdeithasfa. Yn Aberafon "penderfynwyd i weithredu o hyn allan yn ein casgliadau at y Genadaeth Dramor yn Liverpool. Nodwyd Elias Basset, Esq., i fod yn drysorydd dros sir Forganwg, a William Evan yn ysgrifenydd." O'r blaen yr oedd y casgliadau yn cael eu danfon i Gymdeithas Genadol Llundain, yr hon bellach yw Cenadaeth Dramor yr Annibynwyr yn Lloegr a Chymru. Y mae rhestr casgliad cenadol Morganwg am 1843 yn awr o'n blaen, yn llawysgrif Mr. Evans, ac wedi ei hysgrifenu yn drefnus a thaclus. Y mae enwau yr holl leoedd yn y sir i lawr yn olynol yn ol trefn y wyddor, eithr bylchog yw y casgliad. Yr oedd nifer yr eglwysi yn driugain-a-deg, ond nifer y casgliadau ydyw ugain, a dyma hwynt: –

| | £ | s. | d. |
|---|---|---|---|
| Abertawy ... ... ... | 4 | 10 | 4 |
| Brychton ... ... ... | 0 | 7 | 6 |
| Cwmbychan ... ... ... | 0 | 10 | 0 |
| Castellnedd ... ... | 2 | 17 | 9 |

| | £ | s. | d. |
|---|---|---|---|
| Dowlais ... ... ... ... ... | 8 | 9 | 0 |
| Dinas Powys ... ... | 0 | 4 | 0 |
| Dinas Cymar... ... ... | 0 | 9 | 5 |
| Eglwys Newydd ... | 1 | 7 | 0 |
| Eweni ... ... ... ... ... | 0 | 8 | 0 |
| Glynogwr ... ... ... | 1 | 0 | 0 |
| Goppa fach ... ... ... | 0 | 11 | 0 |
| Llantrisant ... ... | 0 | 15 | 0 |
| Pontfaen ... ... ... | 1 | 6 | 6 |
| Penmarc ... ... ... | 2 | 0 | 0 |
| Pontrhydyfen ... ... | 0 | 17 | 6 |
| Trehill ... ... ... | 0 | 10 | 0 |
| Tonyrefail ... ... ... | 0 | 12 | 0 |
| Trelales ... ... ... | 0 | 7 | 0 |
| Seion ... ... ... ... ... | 0 | 5 | 0 |
| Ystradgynlais ... ... | 3 | 3 | 0 |

Yn Nghyfarfod Misol Llanilltyd Fawr anogwyd i dderbyn y *Drysorfa*, ac i hyrwyddo gwerthiant llûn Mr. John Evans, New Inn. Hefyd, yn y Cyfarfod Misol hwn y penderfynwyd penodi deuddeg o flaenoriaid yr eglwysi yn henuriaid llywodraethol, er trefnu rhyw bethau perthynol i'r sir yn gyffredin, ac yn gyntaf mewn perthynas i'r weinidogaeth. Ac yn y Pil, ar ddyddiau olaf y flwyddyn "cymeradwywyd y personau canlynol i fod yn henaduriaid:—1. Evan Jones, Merthyr; 2. Wm. Morris, Cefn; 3. Wm. James, Argoed; 4. Elias Basset, Esqr.; 5. David Davies, Castellnedd; 6. John Howells; 7. Edward Jenkins; 8. Wm. John, Abertawy; 9. Isaac James; 10. James Morgan; 11. Richard Morgan; 12. Mr. Morris; 13. Morgan Rees; 14. Evan Thomas; 15. Mr. Evan Griffiths; 16. Daniel Evan, Margam; 17. George Davies; 18. Richard Thomas, Prysc." Sylwer fod y rhif "deuddeg" wedi chwyddo i ddeunaw. Mae yn ddiameu y teimlwyd, pan yr oedd y dewisiad yn cymeryd lle, nas gellid myned heibio dim un o'r brodyr teilwng uchod; ac yn wir

buasai yn ddigon hawdd i ychwanegu at y nifer, fel ag i'w gwneuthur o leiaf yn "bedwar-henuriad-ar-ugain." I wahaniaethu yr henuriaid oddiwrth flaenoriaid cyffredin yr eglwysi, yr oeddynt weithiau yn cael eu galw yn "flaenoriaid y sir." Mewn Cyfarfod Misol a gynaliwyd yn fuan ar ol y dewisiad uchod o henuriaid llywodraethol, sef yn Nhonyrefail, ar y 24ain a'r 25ain o Chwefror, 1842, cytunwyd ar y pethau canlynol fel yr hyn ag y gellir ei alw yn Rheolau yr Henaduriaeth: "I. Penderfynwyd nad oes neb i'w chwanegu at yr henuriaid ond trwy ddewisiad yr henuriaid a'r gweinidogion, a chymeradwyaeth y Cyfarfod Misol. II. Nad oes un achos i'w benderfynu gan yr henuriaid heb eu bod yn saith o nifer o leiaf. III. Y pethau sydd i fod dan sylw a gofal yr henuriaid:—1. Nid oes neb i fyned i'r weinidogaeth heb fod ei achos yn gyntaf dan sylw cyfarfod o henaduriaid, y rhai sydd i gyfarfod unwaith bob cwarter blwyddyn. 2. Na byddo neb rhyw lefarwyr yn dyfod ar gyhoeddiad trwy y wlad heb fod Cyfarfod Misol y sir yn ei alw, a Chyfarfod Misol y sir ag y mae y cyfryw yn aelod o hono yn rhoddi caniatad iddo. 3. Yn edrych na byddo llefarwyr ieuainc yn rhoddi eu gorchwylion o'u dwylaw yn fyrbwyll, ac wrth hyny yn dyrysu eu hamgylchiadau, ond llafurio yn benaf yn eu cylch cymydogaethol. 4. Sylwi yn ofalus a ydyw yr athrawiaeth yn cael ei phregethu yn ei phurdeb, a bod yn barod i roddi gair o gyngor pan byddo galwad am hyny. 5. Edrych yn ofalus a ydyw y rhai sydd yn cael eu galw i'r weinidogaeth yn rhoddi eu hamser a'u llafur yn gydwybodol i lafurio yn y gair a'r athrawiaeth, ac i wasanaethu yr holl eglwysi hyd eu gallu. 6. Edrych a ydyw yr eglwysi yn ymdrechu i'w cyfarfod yn eu llafur i ryw radd yn briodol yn eu teithiau a'u llafur, fel na syrthiont i brofedigaeth a digalondid." Y mae y rheolau hyn yn llefaru drostynt eu hunain, ac y mae yn eglur beth oedd amcan y Cyfarfod Misol yn gwneuthur y trefniad. Yn gymaint a bod dau ddosbarth o lefarwyr, sef gweinidogion a phregethwyr, fe ddichon nad

oedd yn annaturiol i'r syniad ymgodi y gellid cael dau ddosbarth o flaenoriaid. Ac y mae yr ymadrodd "henuriaid llywodraethol" yn awgrymu fod rhai o'r tadau haner can' mlynedd yn ol yn gwybod am drefniadau eglwysig Henaduriaethwyr Ysgotland, a gogwydd eu meddyliau tuag atynt. Modd bynag, fe ddaeth y "cyfarfod henaduriaethol" yn sefydliad o bwys a dylanwad yn nghlŷn â Chyfarfod Misol Morganwg, ac fe barhaodd felly am tua chwarter canrif neu fwy. Ond bellach er ys blynyddoedd lawer y mae y swyddogion eglwysig, yn ddiaconiaid a blaenoriaid, oll o'r un dosbarth, heb ddim gwahaniaeth yn eu gradd ond sydd yn cael ei wneuthur gan amrywiaeth eu cymwysderau i'w swydd; ac yn dra anaml y clywir yr enw henuriad. Fe gynaliwyd "cyfarfod henaduriaethol" i ymdrin âg achos ymgeiswyr am y weinidogaeth am beth amser wedi peidio dewis henaduriaid llywodraethol yn ol y rheolau uchod; ond y mae y cyfarfod neillduol hwnw bellach wedi myned i blith y pethau a fu.

Yn awr ni a symudwn i gymeryd gwedd arall ar yr hyn ydoedd Methodistiaeth Morganwg haner can' mlynedd yn ol. Er y flwyddyn 1835 yr oedd Mr. Evans wedi cadw cyfrif manwl o'r gydnabyddiaeth a dderbyniai am ei wasanaeth. Cyfanswm yr hyn a dderbyniodd yn 1835 ydoedd £48 6s.; yn 1836 £49 12s.; yn 1837 £44 19s. 6c. Nid oes gyfrif am 1838 a 1839. Y cyfanswm am 1840 ydoedd £65 1s. Yr oedd yn gwasanaethu tri lle ar yr ail Sul yn Ionawr, 1841, a'r gydnabyddiaeth oedd un-swllt-ar-bymtheg, a thri lle arall y Sul canlynol naw-a-chwech, a thri o leoedd ereill drachefn y Sul ar ol hyny un-swllt-ar-bymtheg; ac ar y Sabboth olaf o Ionawr yr oedd mewn dau le sydd erbyn hyn yn bwysig ac yn gryf ac helaeth eu cyfraniadau, ac nid oeddynt yn ddibwys na dinod y pryd hwnw, a'r gydnabyddiaeth ydoedd pymtheg swllt. Ar y Sul cyntaf yn Mawrth yr oedd yn pregethu ddwywaith yn un o brif drefi y sir, ac hefyd mewn lle cyfagos yn y wlad, ac yr oedd yr hyn a roddwyd iddo dan

bunt. Ac yn dra chyffelyb y mae yr hanes am yr holl flwyddyn. Yr ydym yn crybwyll y manylion hyn yn unig i ddangos fel yr oedd pethau yn bod yn y cysylltiad hwn haner can' mlynedd yn ol. Yr oedd hyn yn wir yn welliant mawr ar yr hyn a fuasai yn mlynyddoedd cyntaf ei weinidogaeth. Yr oedd wedi bod unwaith yn un o leoedd mwyaf pellenig Morganwg, yn cymeryd diwrnod i fyned a diwrnod i ddychwelyd, ac yn pregethu nos Sadwrn a thair gwaith y Sabboth, a'r oll a dderbyniodd ydoedd haner coron. Ar ei ffordd adref galwodd gyda Mr. Thomas Jenkins, Glynogwr, ac adroddai wrtho yr hanes,—" Mi dalais wyth ceiniog o durnpike, a chwe' cheiniog am bedoli'r ceffyl, a'r gweddill sydd genyf yw swllt a grôt; pa un a wneuthum i eu gwerth ai peidio nid wyf yn gwybod, ond mi wnes fy ngoreu." Nid oedd yn grwgnach dim. Fe ddichon mai bendith i Fethodistiaeth Morganwg fuasai ei waith yn defnyddio y dylanwad mawr oedd ganddo ar gyfrif ei boblogrwydd fel pregethwr a'i wasanaeth ymroddgar i'r achos yn mhob cysylltiad, i addysgu a chymell yr eglwysi i gyfranu at y weinidogaeth. Yr oedd yn deall y pwnc o haelioni crefyddol yn dda, ac yr oedd ganddo ddawn i dynu ereill i roddi at achos crefydd. Eithr " nid oedd efe yn ddigon anturus," a defnyddio gair o eiddo y diweddar Mr. Joseph Thomas, Carno, am dano, yn y ffordd hon. Ond y mae cyfrif arall i'w roddi am y peth. Yr oedd yn naturiol o ysbryd annibynol. A mwy a gwell na hyny yr oedd wedi ei feddianu mor llwyr gan amcan mawr pregethu yr efengyl, fel yr oedd i raddau yn ddiystyr o amgylchiadau y weinidogaeth. Yr ydym yn ei gofio yn adrodd gyda brwdfrydedd hanes a roddasai Mr. David Roberts, Pontfaen, iddo am Mr. Elias yn rhoddi y cyngor ar achlysur neillduad gweinidogion mewn Cymdeithasfa yn y Gogledd. Yr oedd y brawd ag oedd wedi llefaru o'i flaen ar natur eglwys wedi gwasgu ar yr angenrheidrwydd o gynal y weinidogaeth yn deilwng. Wrth roddi y cyngor dywedai Mr. Elias fod ei frawd wedi bod yn eu hanog i gyfranu yn helaethach at

gynaliaeth y weinidogaeth, ac yn llefaru yn rhagorol ar hyny; "ond," meddai, "bydded eich aur a'ch arian gyda chwi i ddystryw; achub eneidiau! *achub eneidiau!!* ACHUB ENEIDIAU!!!" drosodd a throsodd drachefn gyda phwyslais cynyddol ac yn y modd difrifolaf. Yr oedd yr hanes hon yn hollol wrth ei fodd. Yr oedd yntau yn orlawn o'r un ysbryd. Ar yr un pryd nid oedd yn ddisylw o fater y gydnabyddiaeth a roddid am lafur gweinidogaethol, fel y mae y ffaith iddo gadw cyfrif o'i dderbyniadau yn profi; ac y mae y cyfrifon hyn yn werthfawr, fel dangosiad o gynydd gras yn gystal a chynydd nerth yr eglwysi y naill flwyddyn ar ol y llall.

Byddai Mr. Evans yn awr ac eilwaith yn cwrdd â blaenor ag oedd o flaen ei oes yn y mater hwn. Pan ar gyhoeddiad yn y Babell, sir Fynwy, un tro, rhoddwyd y gydnabyddiaeth iddo mewn arian man—deg neu ddeuddeg swllt. Gofynodd Mr. Morgan Thomas, tad Islwyn, iddo, "Beth yw yr arian man yna sydd genych, Mr. Evans?" Cymerodd hwy oddiarno, a rhoddodd sofrin iddo yn eu lle. Yr ydym yn ei gofio hefyd yn dyweyd i flaenor arall ddyweyd wrtho ar adeg ddiweddarach, "Gobeithio y cewch fyw yn hen, Mr. Evans?" "Paham y'ch chwi yn dyweyd hyny?" "I gael gwneud i fyny dipyn am yr amser yr oe'ch chwi yn cael dim."

I ddychwelyd unwaith eto at y flwyddyn 1841. Ar y 7fed a'r 8fed o Ionawr, "agor capel Trefforest am 2; 2 Heb. 2. 2." Fel y gwelsom, fe gynaliwyd Cyfarfod Misol Ebrill yn Llantrisant, sef ar y dyddiau Mercher ac Iau ar ol y Pasg. Yr hen drefn fuasai cynal y Cyfarfod Misol yn flynyddol yn Salem, Pencoed, ar Llun a Mawrth y Pasg; eithr "cyfarfod blynyddol" yn unig a fu yno y tro hwn, yr hwn sefydliad sydd yn aros ac yn flodeuog hyd y dydd hwn. Yr oedd eglwysi Morganwg yn awr wedi amlhau a chynyddu cymaint, fel mai y Pil oedd yr unig le a adawyd i gael y Cyfarfod Misol bob blwyddyn. Ar y 3ydd a'r 4ydd o Dachwedd, "agor capel y Dyffryn am 10; 2 Cor. 4. 5." Ac yn Nghyfarfod Misol y Pil ar derfyn y flwyddyn, "Penderfynwyd adeiladu

Tŷ Ysgol a phregethu yn achlysurol yn Rhiwceiliog, dan ofal Mr. John Howells a Wm. Evans a Thomas Thomas, mewn cysylltiad â'r ddwy eglwys yn Salem a Glynogwr." Yn mlaen yr oedd yr achos yn myned o flwyddyn i flwyddyn. Ac nid oedd neb yn fwy blaenllaw yn y llafur ag ydoedd dan fendith Duw yn peri y llwyddiant na Mr. William Evans. Yr oedd efe yn llawn gwaith, ac yr oedd ei holl galon ynddo. Yn ychwanegol at yr hyn a adroddwyd, bu mewn tair Cymdeithasfa yn y flwyddyn yr ydym yn awr arni, sef yn Nghastellnedd ar y dyddiau cyntaf yn Ebrill, yn Aberhonddu ar y 19eg a'r 20fed o Fai, ac yn Bethlehem, Rhymni, ar y 13eg a'r 14eg o Hydref, ac yr oedd yn pregethu yn y ddwy olaf. Ysgrifenodd hefyd ychydig nodion o weithrediadau y tair Cymdeithasfa. Yn Nghastellnedd penderfynwyd fod pob Cyfarfod Misol yn enwi personau addas i ymchwilio yn fanwl i ansawdd yr achos yn mhob lle, yn arbenig am y weinidogaeth; rhoddwyd gair o gyngor mewn perthynas i gyfarfodydd gweddi y gwragedd, na byddai i ni ddywedyd gair yn eu herbyn, na 'chwaith anog dim atynt, ond eu hanog i weddio gartref; anogwyd y siroedd oedd yn ol am hyny i gadw *society* ychwanegol yn mhob Cyfarfod Misol i'r holl aelodau, ac i drin rhyw faterion priodol ynddynt; cymerwyd cais pobl y Gogledd dan ystyriaeth, a chytunwyd os gwelid yn addas i sefydlu Cenadaeth rhwng De a Gogledd, i gydweithredu ac i ymadael â Chymdeithas Llundain mewn modd teilwng. Yn Aberhonddu penderfynwyd anog yn gryf i bawb sydd yn swyddogion eglwysig i fod yn ddirwestwyr, sef llwyrymwrthod â diodydd meddwol fel diodydd cyffredin; ond nid na oddefid rhai heb fod felly yn swyddogion, fel yr oedd rhai wedi camddeall yr hyn oedd wedi ei basio mewn Cymdeithasfa flaenorol. Hefyd penderfynwyd yn reol o hyny allan, fod dwy sir i fod yn gysylltiedig â'u gilydd i ddanfon yn eu tro bedwar pregethwr i bob Cymdeithasfa Chwarterol yn y Gogledd—Morganwg a Phenfro i ddechreu yn mis Medi nesaf, ac i ddanfon i'r Gymdeithasfa oedd i'w chynal yn

Bangor. Yn flaenorol i hyny, yr oedd pob sir yn y Deau at ei rhyddid ac yn cael ei hanog i ddanfon pregethwr i bob Cymdeithasfa yn y Gogledd. Y peth cyntaf a wnaed yn y cyfarfod 1 o'r gloch yn y Gymdeithasfa flaenorol yn Nghastellnedd ydoedd gorchymyn "coffau yn ein Cyfarfod Misol er danfon un neu ddau bregethwr i *Association* Drefnewydd." Ac yr oedd yr un rheol yn ffynu yn y Gogledd gyda golwg ar Gymdeithasfaoedd y Deheudir. Eithr bellach yr oedd Morganwg a Phenfro, Aberteifi a Mynwy, a Chaerfyrddin a Brycheiniog, yn eu tro i ddanfon i'r Gogledd; ac fe gytunwyd ar drefniad cyffelyb gan Gymdeithasfa y Gogledd. Parhaodd y cynllun hwn am ddeg mlynedd-ar-ugain, sef hyd 1870, pryd y penderfynwyd gan y Gymanfa Gyffredinol yn gynulledig (sylwer ar y cyd-ddygwyddiad) yn Aberhonddu, "o berthynas i'r genadwri yn nghylch anfoniad gweinidogion o'r De i Gymdeithasfaoedd y Gogledd, ac o'r Gogledd i Gymdeithasfaoedd y De, ar gynygiad y Parch. O. Thomas, a chefnogiad y Parch. D. Hughes, Yr Ynys, fod i'r dull presenol gael ei newid; a bod cyfeillion y lle y byddo y Gymdeithasfa ynddo, mewn cysylltiad â'r Cyfarfod Misol, at eu rhyddid i alw nid llai na thri o frodyr i fyned o'r naill dalaeth i'r llall." Yn y cofnodion a ysgrifenwyd gan Mr. Evans o'r pethau a fu dan sylw yn Nghymdeithasfa Bethlehem, Rhymni, yr ydym yn cael y penderfynwyd sefyll at olygiad Cymdeithasfa flaenorol mewn perthynas i'r Odyddion, sef cynghori y rhai oedd wedi ymuno â hwy i ymadael, ond nid eu disgyblu. Hefyd coffawyd am y Llyfr Hymnau: anogwyd yr eglwysi i'w dderbyn a'i ddefnyddio yn mhob capel, a bod copi o hono i fod ar bob pwlpud. Anogwyd i goffau ac ymdrechu i gael yr addewidion i mewn mor fuan ag ydoedd bosibl at Athrofa Trefecca. Yn ngoleuni yr amrywiol nodion hyn yr ydym yn cael byr olwg ar yr hyn ydoedd Cymdeithasfa y Deheudir haner can' mlynedd yn ol.

Y mae yn llawenydd genym i allu dodi i fewn yma adgofion y Parch. Thomas Rees, Merthyr, am y Gymdeithasfa uchod

yn Aberhonddu:—"Y Parch. W. Evans, Tonyrefail, oedd yr unig un bregethodd ddwywaith yno, er fod y Parchedigion Thomas Richard, Abergwaen; D. Howell, Abertawy; T. Hughes, Machynlleth, ac ereill yn bresenol. Am 7 nos Fercher pregethodd yn y Plough, capel yr Annibynwyr, gyda y Parch. Enoc Lewis, Abergwaen. Pregethodd yr efengylydd melus o Abergwaen yn odidog o dda, yr oedd yn 'mynd' fel y tân, er mai pregeth ymarferol finiog iawn ydoedd ar Phil. i. 27. Ond er clywed y Parch. W. Evans lawer gwaith wedi hyny, a dranoeth am 2 o'r gloch ar ol y Parch. T. Hughes, Machynlleth, yn y tŷ marchnad, lle y cynelid oedfeuon y Gymanfa, ni chlywais ef erioed yn fwy grymus ac effeithiol a dylanwadol, oddieithr pan yn rhoddi y Cyngor yn Llanymddyfri yn 1846. Ei destyn oedd Heb. v. 9, 10. Diau fod Duw yn yr oedfa, yn amlwg iawn. Nid wyf yn cofio dim o'i benau a'i raniadau. Ond rhyfedd, dyna le! nid mewn tori allan gymaint ag mewn teimlad dwys angerddol, a'r holl gynulleidfa yn ei law. A dyna gynulleidfa oedd yno! Ni welais gapel llawnach erioed, nid oedd le iddo fod yn llawnach. Yr oeddem yn dair res yn mhob set, un yn eistedd, un yn sefyll a'r llall yn eistedd ar gefn y sêt. Wedi dyfod at y gair, 'Y rhai oll a ufuddhant iddo,' yr oedd wedi twymo ac wedi poethi, nes oedd y cwbl yn dân. Chwareuai, fel y medrai ef, ar y gair 'y rhai oll a ufuddhant iddo.' 'Pa le mae'r arfaeth?' meddai,—'Da chwi gadewch hi yn llonydd. Pa le mae etholedigaeth? Mae yn lled sicr o'i hamcan. Pa le y mae y brynedigaeth?' (Odid na ddywedodd neillduol.) 'Nid wyf yn deall fawr o'r pynciau yna; ond y testyn heno yw, *i'r rhai oll a ufuddhant.*' Dyma y brif oedfa yn y Gymanfa o lawer. * * * Thos. Rees."

Ar ol y Gymdeithasfa yn Aberhonddu aeth Mr. Evans yn mlaen i'r Capel Isaf, ac oddiyno dydd Gwener, yr 21ain o Fai, i Langammarch a Llanfairmuallt, ac erbyn nos Sadwrn i'r Rhaiadr. Sabboth y 23ain yr oedd yn y Rhaiadr y bore, Sychnant y prydnawn, a Llanidloes am chwech. Dydd

Llun yr oedd yn Llandinam a'r Drefnewydd, dydd Mawrth y Trallwn a Chroesoswallt, dydd Mercher y Lodge a Llangollen, dydd Iau Ruabon, y Rhos, a Wrexham. Ac erbyn nos Wener, yr 28ain, yr oedd wedi cyraedd Liverpool, lle yr oedd i wasanaethu yn Nghymanfa flynyddol y Sulgwyn; pregethodd nos Wener yn Pall Mall, bore Sul yn Mulberry, y prydnawn yn Bedford, yr hwyr yn Rose Place, prydnawn dydd Llun yn Pall Mall, a'r hwyr yn Burlington; yr oedd yn y Cyfarfod Cenadol nos Sadwrn, ac yn areithio ar Ddirwest nos Fawrth ar ol y Gymanfa yn Pall Mall. Nos Fercher, yr 2il o Fehefin, yr oedd yn "anerch yr Ysgol Sabbothol" yn Manchester, a nos dranoeth yn pregethu yn y ddinas hono. Dydd Gwener, y 5ed, aeth o Manchester i fyny i Lundain, ac arosodd yno dros ddau Sabboth. Cyraeddodd adref i Donyrefail nos Fercher, yr 16eg o Fehefin. Yr oedd y Gymdeithasfa yn Aberhonddu wedi penodi Mr. Evan Harries ac yntau i gasglu at Athrofa Trefecca yn Liverpool, Manchester, a Llundain. Ni bu y llwyddiant yn Liverpool yn fawr; swm y casgliad yno ydoedd £31. Nid yw yn ymddangos y cafwyd dim yn Manchester. Ond yn Llundain gwnaeth y frawdoliaeth ymdaflu yn galonog i'r symudiad, a chyfranasant y swm teilwng o £202 3s. 9c. Y mae hyn yn ein harwain at brif waith y Cyfundeb yn y Deheudir yn y flwyddyn 1841, ac yr oedd Mr. Evans yn un o'r rhai a gymerasant y rhan mwyaf blaenllaw yn nghyflawniad y gwaith pwysig hwnw, sef casglu cronfa at gynaliaeth yr Athrofa ag yr oeddid wedi penderfynu ei sefydlu yn Nhrefecca.

Yr oedd y cwestiwn o roddi addysg i bregethwyr ieuainc y Cyfundeb wedi bod dan sylw y Gymdeithasfa yn y Deheudir er ys mwy na deg mlynedd. Yn y cofnodau a ysgrifenwyd gan Mr. Evans o weithrediadau Cymdeithasfa Woodstock, sir Benfro, yn 1830, yr ydym yn cael y penderfyniad canlynol:—"Cytunwyd, ar gynygiad amryw o wŷr boneddigion yn y Corph, i wneud trysorfa gyffredinol yn y Corph, yn hytrach na sefydlu ysgol neu athrofa mewn un lle; ond bod cynorthwy

yn cael ei roddi i ryw frawd, o'r drysorfa, yn ol fel y gwelo yr *Association* angenrheidrwydd am ychwaneg o ddysg i ryw frawd; ac i'r brawd hwnw gymeryd ei ddysg yn y man nesaf ato, a mwyaf manteisiol iddo; neb i dderbyn o'r drysorfa hon ond llefarwyr wedi eu cymeradwyo yn ol trefn y Corph. Cytunwyd i Mr. Jones, Banker, Caerfyrddin, i fod yn drysorwr. Cytunwyd i bob Cyfarfod Misol nodi rhyw bersonau ag a welont hwy yn addas i fod yn gasglyddion at yr achos hwn; ond na byddo casgliad cyhoeddus na chyffredinol chwaith, ond yn unig cyfarch rhyw bersonau neillduol ag a allont ac a ewyllysiont roddi at yr achos hwn, heb fod yn un niwed ar eu sefyllfa mewn un modd (na feddylied neb am osod yr achos hwn ar y tlodion), a rhoddi dewisiad i bob rhoddwr pa un ai yn flynyddol y gwna roddi neu rhyw swm ar unwaith, fel y dewisa y rhoddwr." Y mae yn rhaid cydnabod fod y penderfyniad hwn yn un hynod ochelgar ac esmwyth. Eto mae yn amlwg ei fod yn ddadganiad o blaid addysg i bregethwyr, a pharodrwydd i gyfranu at yr amcan. Eto o'r braidd y gellir dyweyd ei fod yn cynwys hedyn yr ymdrech i sefydlu Athrofa i'r Cyfundeb ei hun. Beth fu ffrwyth y penderfyniad hwn nid ydym yn gwybod. Hefyd yn yr un Gymdeithasfa, " Caniatawyd i Mr. Lewis Edwards, pregethwr ieuanc yn y Corph o sir Gaerfyrddin, gael myned am ysbaid blwyddyn i'r Iwerddon, i ysgol y *Seceders*, ar yr amod o'i fod yn dychwelyd yn ol i lafurio yn y Corph." Mae y cofnodiad hwn yn dal cysylltiad agos â dechreuad yr ystyriaeth o'r cwestiwn o wneuthur darpariaeth i addysgu pregethwyr ieuainc y Cyfundeb. Mae yr enw yn y cofnodiad yn un ag a fawr berchir am genedlaethau yn Nghymru. Nid ydym yn gwybod a fu Dr. Lewis Edwards yn yr Iwerddon yn derbyn rhan o'i addysg, ond y mae yn hysbys y bu am beth amser yn Llundain; ac yr ydym yn cofio yn dda glywed Mr. Evans yn dyweyd iddo ei gyfarfod yno; ac y mae yn hyfrydwch genym allu ychwanegu yr hyn a ddywed y Parch. Llewelyn Edwards mewn llythyr atom:—" *My father told me that Mr.*

*Evans, Tonyrefail, was in London when he was there, and that Mr. Evans showed him much sympathy.*" Buasai yn dda genym allu olrhain y drafodaeth a gymerodd le yn y Gymdeithasfa ar bwnc yr Athrofa o 1830 yn mlaen hyd 1840; ond nid yw y defnyddiau at hyny wrth law, os yn wir yr ydynt i'w cael o gwbl. Modd bynag ni fuwyd yn hir cyn symud yn mlaen gam yn mhellach na'r penderfyniad yn Woodstock, a chydolygwyd am y dymunoldeb o gael Athrofa i'r Cyfundeb. Yna bu llawer o ddadleu yn nghylch y lle i'w sefydlu ynddo; ac yn nghanol yr oediad achoswyd gan y ddadl yn nghylch lle yr Athrofa, gwnaeth Dr. Lewis Edwards a Dr. Charles agor ysgol yn y Bala ar eu cyfrifoldeb eu hunain. Yn fuan ar ol hyny mabwysiadwyd yr ysgol yn y Bala fel Athrofa y Cyfundeb. Yn yr un flwyddyn ag yr agorwyd ysgol y Bala, sef yn 1837, trosglwyddwyd hen dŷ Howel Harries yn Nhrefecca, gan y gweddill o'r teulu yno, i Gyfarfod Misol sir Frycheiniog. Gwnaeth yr amgylchiad hwn roddi ysgogiad newydd i'r teimlad am gael ysgol i roddi addysg i bregethwyr yn y De yn gystal ag yn y Gogledd. Dyma dŷ wedi dyfod yn feddiant i'r Corph, mewn man cymariaethol gyfleus, ac mewn cysylltiad âg ef luaws o draddodiadau mwyaf cysegredig Methodistiaeth Cymru; yn ddigon helaeth i gynwys preswylfod i athraw a lletyau i ddeg neu fwy o fyfyrwyr. Yr oedd Rhagluniaeth fel pe yn agor y drws i hyrwyddo yr amcan. Nid oedd eisieu ond cael athraw a chronfa at gynaliaeth y sefydliad. Ar ol i'r Gymdeithasfa benderfynu sefydlu Athrofa yn Nhrefecca, aethpwyd at y gorchwyl pwysig o gasglu cronfa, a phenodwyd wyth o weinidogion i ymgymeryd â'r gwaith, sef Mr. Wm. Morris, Mr. W. Evans, Mr. E. Harries, Mr. W. Griffiths, Mr. D. Howell, Mr. J. Walters, Mr. R. Lumley, a Mr. Thomas Elias; y rhai a ymwelsant â'r holl eglwysi trwy y dalaeth ar ran yr achos hwn, ac a lwyddasant mewn un flwyddyn i gasglu mewn arian ac addewidion y swm teilwng o £7,570 14s. 11c. Mae adroddiad y casgliad yn awr o'n blaen, ac yr ydym yn gweled

i'r siroedd gyfranu fel y canlyn:--Aberteifi, £1,516 7s. 7c.; Penfro, £693 6s. 6c.; Caerfyrddin, £1,476 3s. 8c.; Morganwg, £1,255 8s. 10c.; Brycheiniog, £1,608 4s. 2½c.; Mynwy, £735 10s. 0½c.; Llundain, £202 3s. 9c.; Liverpool, £31; Worcester, £21 7s. 6c.; Bristol, £19 6s. 10c.; amrywion, £12 2s. 0c.; yn gwneud £7,570 14s. 11c. Y rhan o'r gwaith a roddwyd i Mr. Evans ydoedd pen dwyreiniol Morganwg a sir Fynwy. Bu mewn wyth o leoedd yn Mro Morganwg yn y drydedd wythnos yn Ebrill, 1841. Yr oedd yn Merthyr ar y 26ain o'r mis hwnw, Dowlais y 27ain, Cefn yr 28ain; oddiyno bore dydd Iau, y 29ain, i Gyfarfod Misol Mynwy, yn Nhredegar; ar ol pregethu yno am 10 dychwelodd i Hirwaen erbyn yr hwyr, ac yna aeth i Aberdâr y diwrnod canlynol. Bu mewn deuddeg o leoedd, sef yn Nghaerdydd a'r amgylchoedd, yr wythnos gyntaf yn Mai. Dechreuodd ar y gwaith yn Mynwy yn niwedd Mehefin, ac arosodd yn y sir hono hyd y 12fed o Gorphenaf; a threuliodd dros wythnos arall yn niwedd y mis i gwblhau y gorchwyl. Bu y brodyr ereill a benodasid i gasglu cronfa Trefecca fel yntau yn egniol a llwyddianus, ac y mae eu henwau oll yn beraroglaidd ac i'w cadw mewn parchus goffadwriaeth ar gyfrif y gwasanaeth gwerthfawr hwn a gyflawnwyd ganddynt.

Mor bell yn ol a Chymdeithasfa Llaneurwg, Mai, 1840, yr ydym yn cael yn y cofnodau fod "Cyfeisteddfod Coleg Trefecca" eisioes yn bod, a gorchymynwyd ef i gyfarfod yn Nhrefecca "mor fuan ag yw bosibl." Yn Abergwaen, yr Hydref dilynol, cyflwynwyd i'r gwahanol Gyfarfodydd Misol y cwestiwn o "gynllun i gasglu at Goleg Trefecca," ac i roddi adroddiad yn y Gymdeithasfa nesaf yn Nghastellnedd Ebrill, 1841. Y mae cofnodau Cymdeithasfa Castellnedd yn anorphenedig, ac nid oes yn y Côf-lyfr ysgrifenedig un gair am yr Athrofa. Ond y mae yn amlwg i'r amrywiol Gyfarfodydd Misol ddwyn i mewn eu barn, ac i'r Gymdeithasfa gytuno ar y cynllun a fabwysiadwyd a phenodi y brodyr ag yr ydym eisioes wedi rhoddi eu henwau i wneuthur y casgliad,

canys yr ydym yn cael y penderfyniad canlynol yn mhlith pethau ereill a wnaed yn Nghymdeithasfa Llangadog, Mehefin 29ain a'r 30ain, 1841 :—" Bod anogaeth gref yn cael ei hanfon oddiwrth y Gymdeithasfa hon i'r amrywiol siroedd i ddymuno arnynt i orphen y casgliad at Goleg Trefecca mor fuan ag y byddo yn bosibl." Yn yr un Gymdeithasfa darllenwyd a chadarnhawyd penderfyniadau Cyfeisteddfod Trefecca, eithr ni hysbysir ni beth oeddynt. Yn Llangeitho, mis Awst, penderfynwyd " bod y casgliad at yr Athrofa i gael ei orphen yn ddioed.'' Hefyd " cymeradwywyd cynygiad Cymdeithasfa Gorphoriaethol Aberystwyth o barth i'r priodoldeb o gael dwy Athrofa, un yn y Gogledd a'r llall yn y De." Yn Llanbedr, Gorph. 9fed, 1842, penderfynwyd " fod cynifer o ystafelloedd adeilad Trefecca ag a fyddo yn angenrheidiol at wasanaeth yr Athraw i gael eu rhoddi iddo i fyw ynddynt, yn nghyda'r ardd, a rhan o'r tir perthynol i'r lle. Penderfynwyd ar y swm bwriadol i'w roddi yn flynyddol i'r Athraw. Bod Mr. Rees Jones, Llanymddyfri, i fod yn gyd-ysgrifenydd â Mr. D. Charles, Caerfyrddin, i'r sefydliad." Fe benodwyd Mr. Rees Jones yn lle Mr. Benjamin Watkins, Aberhonddu, yr hwn a fuasai farw y mis Mawrth blaenorol; ac yr oedd yntau wedi ei ethol i'r swydd yn lle Mr. Smith, Aberafon. (Gwel *Traethodydd* 1846, tud. 345). Yn Nghymdeithasfa Merthyr Tydfil, Awst y 3ydd a'r 4ydd, " Penderfynwyd fod agoriad Coleg Trefecca i gymeryd lle mewn cysylltiad â Chymdeithasfa Talgarth yr Hydref dilynol. Ein bod yn unfrydol yn dewis y Parch. David Charles, B.A., o'r Bala, i fod yn brif-athraw i Goleg Trefecca." Ac yn unol â'r penderfyniadau uchod fe agorwyd Athrofa y Methodistiaid Calfinaidd yn Neheudir Cymru ar y 7fed o Hydref, 1842. Y mae ystyr a dyddordeb neillduol yn y cofnodion uchod—buasai yn dda genym pe buasent yn fwy cyflawn—i'r Cyfundeb yn y Deheudir ar yr adeg bresenol. Yr ydym yn cael ein temtio i ofyn, Os y gallodd yr eglwysi haner can' mlynedd yn ol gyfranu saith mil a haner o bunau tuag at sefydlu yr Athrofa,

pa faint mwy y gallwn yn awr ac y mae yn gweddu ynom i gyfranu o leiaf ddeg mil o bunau fel offrwm diolch am y gwasanaeth dirfawr y mae y sefydliad wedi ei wneuthur, a thuag at barhad ei ddefnyddioldeb cynyddol? Yr ydym yn sicr na fuasai neb yn teimlo mwy o ddyddordeb yn nathliad jiwbili yr Athrofa, pe buasai wedi cael byw, na'r olaf o'r wyth-wŷr a fuont y prif offerynau i gasglu cronfa gyntaf y sefydliad.

Bellach yr ydym yn dychwelyd at ei hanes ef. Yr olwg a gawsom arno yn 1841 ydoedd mewn llawn waith, ac yn llwyr ymroddedig iddo, ac "mewn teithiau yn fynych." Ond yn y flwyddyn 1842 yr oedd yn ymgadw yn fwy cartrefol. Ni bu yn bresenol mewn un Gymdeithasfa oddieithr yr hon a gynaliwyd yn Merthyr. Bu am bythefnos o daith yn sir Fynwy, gan ddechreu yn Blaenafon nos Lun, y 12fed o Fedi, ac yn gorphen yn Nghyfarfod Misol y Rock dydd Mawrth, y 27ain. Treuliodd yr oll o fis Rhagfyr yn gwasanaethu yr eglwys yn Broadmead, Bristol.

Y mae y Parch. Dl. Symmons, Abergwaen, yn ysgrifenu atom: "Cefais y fraint o glywed Mr. Evans lawer gwaith pan oeddwn yn aros yn Nghaerdydd rhwng 1837 a 1843, ac yr oeddwn yn edrych arno bob amser gydag edmygedd a pharch. Nid oedd neb yn tynu mwy o sylw nag efe yn nghapel Seion, Caerdydd. Yr oedd y Parch. Morgan Howell hefyd yn cael ei edmygu gan y gwrandawyr; weithiau byddai fel angel Duw, a'r gynulleidfa mewn teimladau synedig a difrifol; brydiau ereill gwanychai a byddai fel gŵr arall, a llai nag ef ei hunan, ac yna gwaeddai allan, 'Diolch am ffaelu.' Ond yr oedd Mr. William Evans wedi myned yn dân gwastadol; ond byddai y fflamau weithiau yn uwch ac weithiau yn îs, fel y byddai ansawdd yr hin nefol, a'i ysbryd yntau yn ymwroli fel un yn gweled yr Anweledig. Yr wyf yn cofio yr hen frodyr anwyl, y blaenoriaid yn y sedd fawr, yn gwrando arno fel angel Duw, ac yn cynal ei freichiau â'u hamenau cynes."

Y mae yr adgofion canlynol a dderbyniasom oddiwrth y Parch. John Herbert, Drefnewydd, yn perthyn i'r un cyfnod, ac yr ydym yn dra diolchgar iddo am danynt: "Bum o gwmpas yr hen gyfeillion i geisio cael rhyw ychydig o hanes y poblogaidd a'r anfarwol William Evans, Tonyrefail. Ond y mae y bobl oedd yn ei wrandaw, y lluaws o honynt, wedi myned i'r byd mawr y mae ef ynddo heddyw. Cefais afael ar un oedd wedi gwrandaw arno yn Ngharno. Yr oedd lluaws wedi dyfod yn nghyd. Yr oedd yn hyawdl iawn a selog. Yr oedd yn ymgom â rhywun nad oedd yn deall rhai adnodau o ymddangosiad Calfinaidd; ac yr oedd yn gwahodd y cyfryw i ddyfod at yr adnod, ac iddi, ac aros ynddi nes y deallent hi. Canmoliaeth uchel iawn oedd iddo yno. Dywedai chwaer arall o Lanwyddelan am dano, mai poblogaidd iawn oedd ef, mai dyn hardd penfelyn ydoedd. Hiraeth mawr sydd ar lawer ar ol Mr. Evans yn y wlad hon; yr oedd yn anwyl iawn gan yr holl frawdoliaeth trwy Sir Drefaldwyn. Y tro diweddaf i mi glywed Mr. Evans oedd yn Liverpool, mewn rhyw ystafell fawr; ac yr oedd Mr. Henry Rees a Mr. John Hughes yn gwrandaw arno. Yr oedd o yn dyrchafu ei lais fel udgorn arian, braidd yn rhy uchel gan Mr. Rees. Nid oedd ef (Mr. Rees) yn hoff o glywed neb yn gwaeddi yn uchel iawn; ond bu gorfod iddo ef waeddi yn uchel ei hunan lawer gwaith. Ond yr oedd gan Mr. Evans bethau ag yr oedd yn werth eu gwaeddi yn uchel iawn. * * * Mae fy nghôf wedi gwanhau, ac anhwylderau henaint wedi fy nal inau. Byddai yn dda iawn genyf gael Cofiant Mr. Evans cyn fy medd. Peidiwch oedi yn hir gydag ef, da chwi. * * Fy nghofion caredicaf.

"J. HERBERT."

## PENOD IX.

### 1843—1855.

CYNWYSIAD.

Agoriad amryw gapelau—Cymdeithasfaoedd a Gwyliau Dirwestol o 1843 hyd 1845—Y Cyngor a draddododd Mr. Evans yn Llanymddyfri, Awst, 1846—Cymdeithasfa Tyddewi, a thaith trwy siroedd Penfro ac Aberteifi—Cymdeithasfa Crughowel, 1847; adgofion y Parch. Wm. Jones—Llafur a theithiau, 1848—Claddedigaeth Isaac o'r Felin, Ionawr, 1849—Agoriad capel y Gyfeillon, 1850—Llafur gyda Dirwest—Cymdeithasfa Llangeitho; y Cyngor—Y Cyfarfodydd Pregethu—Cynllun Gweinidogaethol Morganwg—Agoriad amryw gapeli yn 1851—Ei ymweliad diweddaf â Llundain, 1852; adgofion Dr. Owen Thomas—Anrheg gan Ddirwestwyr Dowlais, 1853—Llythyr—Ymweliad â Birmingham a Bilston—Damwain, 1855—Taith trwy sir Gaerfyrddin—Taith i'r Gogledd; adgofion ei nai, Mr. Watkin Williams.

TREULIODD Mr. Evans yn mron yr oll o fis Ionawr, 1843, yn gwneuthur yr ymweliad blynyddol â'r eglwysi dros y Cyfarfod Misol. Cyflawnodd y gwasanaeth hwn mewn deg-ar-ugain o fanau; ac yn y nifer amlaf o'r lleoedd byddai hefyd yn rhoddi pregeth. Ar yr 22ain a'r 23ain o Chwefror yr oedd yn bresenol yn agoriad capel St. Athan, ac yn pregethu ddwywaith, sef am 6 y nos gyntaf, ac am 2 yr ail ddiwrnod. Codwyd y capel hwn yn lle yr adeilad ag y cynaliasid yr achos am lawer o flynyddoedd ynddo yn Aberddawen. Yn ol yr hysbysrwydd a gawsom, offeiriad duwiol o'r enw Basset adeiladodd y "capel" yn Aberddawen. Caniatawyd i'r Methodistiaid gael ei ddefnyddio, eithr ni chafwyd gweithred arno. Ar yr 2il a'r 3ydd o Fawrth yr oeddid yn agor capel Ffynon Taf, eithr nid yw yn ymddangos ei fod ef yno. Ar y 15fed a'r 16eg o'r un mis yr oedd capel Llwydcoed yn cael ei agor, ac nid oedd yno ychwaith; ond

yr oedd yn cymeryd rhan yn agoriad capel Llangynwyd ar y 4ydd o Awst. Aeth i Gyfarfod Misol Mynwy, yn Nantyglo, ar yr 20fed a'r 21ain o Fedi; ac i Gyfarfod Misol Penclawdd ar y 26ain a'r 27ain o'r un mis, gan roddi oedfa yn Nghwmbychan wrth fyned, ac yn Llansamlet wrth ddychwelyd. Yr ydym yn ei gael mewn dwy wyl ddirwestol yn mis Hydref, sef yn Mhontfaen ar y 5ed, ac yn Nghastell-nedd ar yr 16eg; Rhif. 10 ydoedd yr araeth a draddododd yn y ddau le. Ar y 1af a'r 2il o Dachwedd pregethodd ddwywaith yn agoriad capel Llwynbrwydrau. Yr unig Gymdeithasfa y bu ynddi yn ystod y flwyddyn hon ydoedd Cymdeithasfa Pontfaen ar y 4ydd—6fed o fis Gorphenaf. Yn y flwyddyn hon, 1843, y cyhoeddwyd y *Dyddiadur Methodistaidd* gyntaf, ac yr ydym yn cael ynddo fod Mr. Evans a'r Parch. Edward Matthews yn gyd-ysgrifenyddion Cyfarfod Misol Morganwg. Ond yn Nghyfarfod Misol Waenfo, Hyd. 19eg a'r 20fed, 1842, "cymeradwywyd ymgeisiad Mr. E. Matthews yn un llais am ganiatad i fyned i Athrofa Trefecca am un flwyddyn o leiaf." Mewn canlyniad, yn *Nyddiadur* 1844 enw Mr. Evans yn unig sydd yn ymddangos fel ysgrifenydd y Cyfarfod Misol. Eithr yn fuan ar ol hyny penodwyd Mr. Evan Morgan, Caerdydd, yn gynorthwywr iddo ac yna yn olynydd, ac olynwyd yntau drachefn tua'r flwyddyn 1847 gan Mr. John Howell, Pencoed. Y mae yn sicr fod Mr. Evans yn bresenol yn Nghymdeithasfa Caerffili ar yr 28ain a'r 29ain o Fawrth, 1844; ae aeth i Gymdeithasfa Penycae, Mynwy, ar y 9fed a'r 10fed o Hydref, lle y pregethodd am 3 oddiar Rhuf. x. 11. Ni bu mewn Cymdeithasfa allan o Forganwg yn 1845; ond yr oedd yn bresenol yn Nghymdeithasfa Awst yn y Taibach, ac yno gyda Mr. David Howell yn rhoddi hanes yr achos yn y sir. Un achos yn ddiau o'i absenoldeb o'r Cymdeithasfaoedd yn y blynyddoedd hyn ydoedd cystudd teuluaidd, yr hwn a brofodd yn angeuol i'w ddwy ferch Bess a Mary. (Gwel. tud. 39.) Eithr yr oedd yn dilyn Cyfarfodydd Misol ei sir gyda chysondeb yn mron yn ddi-

fwlch; ac yr oedd yn dal i lafurio gyda'i gyhoeddiadau Sabbothol, a'r Ysgol Sul, a Dirwest gyda'i ymroddiad arferol. Ar y 5ed a'r 6fed o Chwefror, 1846, yr oedd yn cymeryd rhan yn agoriad capel Blaenau Gwent. Ar gyfer y 14eg a'r 15fed o'r un mis yr ydym yn cael yn y côf-lyfr, "Agor capel Pontrhydyfen." Mae yn debyg iawn ei fod wedi addaw myned yno, eithr nid yw yn ymddangos ei fod yn bresenol ar yr achlysur. Yn Nghymdeithasfa Llanilltyd Fawr yn nechre Gorphenaf yr oedd Mr. Evans a Mr. David Howell eto yn rhoddi hanes yr achos yn y sir. Ni buasai Mr. Evans yn Aberystwyth yn Ebrill, nac yn Nghasnewydd yn Mai; ond ar y 5ed a'r 6ed o Awst yr oedd yn Llanymddyfri, ac yn cyflawni y gorchwyl pwysig o roddi y Cyngor yn y neillduad a gymerodd le yno. Traethwyd ar Natur Eglwys gan Mr. John Jones, Llanbedr. Y brodyr a ordeiniwyd oeddynt Mri. D. Davies, Trecastell; Ebenezer Williams, Penybont, Maesyfed; Owen Howell, New Radnor; Daniel Jones, Rhaiadr; a William Evans, Gelli. Yr olaf yn unig sydd yn aros, ac y mae yntau er ys blynyddau lawer bellach wedi ymgartrefu yn New Zealand, ac yn weinidog cymeradwy gyda'r Henaduriaethwyr. Gan nad oedd y gŵr hwn yn deall dim Cymraeg, nid oedd y gwasanaeth ordeinio yn Llanymddyfri o ddim buddioldeb iddo. Nid yw yn debyg y meddyliwyd am wasanaeth ordeinio Saesneg y pryd hwnw. Pum' mlynedd a deugain yn ol nid oedd yr eglwysi Saesneg ond ychydig mewn nifer a dinod eu safle, ac yn mron oll yn dibynu ar y Genadaeth Gartrefol. A phe dygwyddasai i rywun awgrymu y priodoldeb o gael ordeiniad Saesneg, buasid yn edrych arno, nid fel un o flaen ei oes, eithr yn hytrach fel un heb fod yn gwbl yn ei iawn bwyll. Hyd yn nod yn 1858 fe neillduwyd Sais yn y gwasanaeth ordeinio mewn cysylltiad â'r Gymdeithasfa yn Llandeilo Fawr. Nid cyn 1866 y trefnwyd gwasanaeth ordeinio Saesneg am y tro cyntaf yn Neheudir Cymru, pryd y neillduwyd y Parch. George Bancroft, Begelly. Oddiar hyny y mae amryw o

ordeiniadau Saesneg wedi cymeryd lle; ac i ddangos mawr gynydd yr achosion Saesneg, yn gystal a chynydd meddylgarwch a rhyddfrydedd arweinyddion y Gymdeithasfa, y mae y gwasanaeth ordeinio yn nglŷn â Chymdeithasfa Awst eleni (1891) i'w ddwyn yn mlaen yn yr iaith Saesneg.

Ond i ddychwelyd at y neillduad yn 1846. Yr oedd y cyngor yn seiliedig ar 2 Tim. iv. 5: "Eithr gwylia di yn mhob peth, dyoddef adfyd, gwna waith efengylwr, cyflawna dy weinidogaeth."

"1.—Cyngor hen weinidog i weinidog ieuanc yw'r testyn, yn niwedd ei oes—pan yn ymyl byd arall—wrth orphen ei yrfa.

2.—Mae y cyngor yn gyfeiriol iawn: 'Gwylia di;' pe bai arall yn peidio, 'gwylia di.'

3.—Mae y cyngor sydd yn briodol i un yn briodol i bob un sydd yn yr un sefyllfa.

I.—Eithr tydi—1. Gŵr Duw. 2. Dyn Duw. 3. Plentyn Duw. 4. Gwas i Dduw. 5. Cenadwr i Dduw. 6. Un yn lle Duw. 7. Un yn presenoli Duw ger bron dynion. Dyma yr ymgymeriad mwyaf yn y byd, sef bod un yn cymeryd arno —1. Ei fod yn ddyn i Dduw. 2. Yn ol gosodiad Duw. 3. Yn genadwr dros Dduw i hysbysu meddwl Duw i ddynion—yn enau i Dduw wrth ddynion.

Mae y pethau canlynol yn hanfodol i'w meddu tuag at fod yn wir genadwr dros Iesu Grist:—

1.—Cymod â Duw trwy Iesu Grist yn bersonol.

2.—Derbyn cenadwri gan Dduw: 2 Cor. v. 18, 19.

3.—Ofn Duw yn ei weithio: 2 Cor. v. 11.

4.—Cariad Crist yn ei gymell: 2 Cor. v. 14.

II.—Y cyngor: 1. 'Gwylia di yn mhob peth. 2. Dyoddef adfyd. 3. Gwna waith efengylwr. 4. Cyflawna dy weinidogaeth.'

i.—'Gwylia di yn mhob peth.'

1.—Gwylia arnat dy hun a ydwyt yn Gristion gwirioneddol, a ydwyt yn Nghrist trwy ffydd: 1 Tim. iv. 16; 2 Cor. v. 17.

Peth truenus yw anog ereill i undeb ffydd â Mab Duw, ac heb fod felly ein hunain.

2.—Gwylia ar dy ddyben yn mhob peth ac yn dy gwbl, yn holl lafur dy weinidogaeth;—achub eneidiau a rhyngu bodd Duw: 2 Cor. iv. 5.

3.—Gwylia ar dy ysbryd, rhag mewn un modd myned yn rhy ddaearol a bydol; os unwaith y disgyn ysbryd pregethwr i fod yn ariangar ac i ymgyfoethogi, fe gyll Ysbryd Duw, fe gyll archwaeth pethau ysbrydol: 1 Tim. vi. 8, 9, 10; Heb. xiii. 5.

4.—Gwylia ar dy arferiad, sef ar dy rodiad: 1 Tim. iv. 12. Bydd esiampl i'r ffyddloniaid.

ii.—Gwylia ar yr athrawiaeth.

1.—Gwylia fod athrawiaeth yr efengyl yn sail dy obaith di dy hunan.

2.—Gwylia na phregethot ddim yn sail bywyd i'r byd, ond yn unig athrawiaeth fawr yr efengyl, yr hon sydd yn ol duwioldeb: Tit i. 1, 2.

3.—Gwylia ei thraddodi fel y mae yn yr Iesu, yn oleu ac yn amlwg, nid âg ymadroddion tywyll, ond â geiriau gweddus: Preg. xii. 10.

4.—Gwylia ei thraddodi yn ei hysbryd ei hun. Athrawiaeth gras ydyw; am hyny hi ddylai gael ei thraddodi yn ysbryd y gras. Dyma fel y dywedir am y gau athrawon, 'yn didoli eu hunain yn anianol, heb fod yr Ysbryd ganddynt': Judas 19.

5.—Gwylia ei phregethu yn ddigymysg, 'didwyll laeth y gair,' heb ei gymysgu â dynol ddychymygion.

6.—Gwylia rhag cyndyn ddadleu ac ymryson yn nghylch geiriau. Balch yw y dadleuwr, teg yw yr ymresymwr, cadarn yw yr Ysgrythyrwr."

Dyna y cyngor fel y parotowyd ef gan Mr. Evans; ac yn ol yr hanes a glywsom cafodd rwyddineb mawr i'w draddodi. Gwnaeth ddefnydd effeithiol o gymhariaeth yr ebyll a'r hoelion, pan yn gwasgu ar y gweinidogion ieuainc o'i flaen i wylio

ar eu rhodiad. Megys ag y defnyddir yr ebyll i wneud lle i'r hoelen, fel ag i'w tharaw yn rhwydd a sicr i'r pren, felly y mae cymeriad da pregethwr yn parotoi ffordd i'w weinidogaeth yn meddyliau ei wrandawyr. Wrth wrandaw y Cyngor gwnaeth Mr. Thomas Richard y sylw, a hyny yn ddigon uchel i amryw ei glywed, "O, o, mae William Evans wedi bod yn hogi ei gryman." Yn mhlith ereill yn bresenol ar yr achlysur ydoedd Mr. Joshua Hughes, wedi hyny Esgob Llanelwy, yr hwn oedd yn ddiweddar wedi sefydlu yn Llanymddyfri; ac ar ddiwedd y gwasanaeth dywedodd, "Dyna gyngor teilwng o esgob." Ac y mae y Parch. T. Rees yn ei Adgofion am Gymdeithasfa Aberhonddu yn 1841, yn awgrymu fod Mr. Evans yn y man uchaf y clywodd efe ef erioed pan yn traddodi y Cyngor uchod. Cafodd Mr. Evans hefyd oedfa lewyrchus am 3 ar y maes yn y Gymdeithasfa hono; ei destyn ydoedd Rhuf. x. 4.

Yr oedd Cymdeithasfa nesaf y Deheudir i'w chynal yn Nhyddewi, Hydref y 6ed a'r 7fed, ac addawodd Mr. Evans fyned iddi, ac hefyd i roddi taith i bregethu yr efengyl trwy ranau o sir Gaerfyrddin, a thrwy siroedd Penfro ac Aberteifi. Dechreuodd ar y daith hon yn y Taibach nos Wener, y 25ain o Fedi. Nos Sadwrn, y 26ain, yr oedd yn pregethu yn Llanelli, a'r un modd dair gwaith y Sabboth dilynol. Yna aeth rhag ei flaen ar hyd sir Gaerfyrddin; ac erbyn nos Sadwrn, y 3ydd o Hydref, yr oedd wedi cyraedd Woodstock yn sir Benfro, a phregethodd yno a'r bore Sul y 4ydd, ac aeth i Casmal erbyn 2, ac oddiyno i'r Hall y nos, lle y pregethodd drachefn bore dydd Llun, Rhydygele prydnawn, a Chaerfarchell yr hwyr. Yn y Gymdeithasfa yn Nhyddewi yr oedd yn pregethu am 10 oddiar Judas 21; ac hefyd galwyd arno i lywyddu, a dyma y tro cyntaf iddo gael y fraint uchel hon. Dyma y Gymdeithasfa y derbyniwyd Mr. George Williams (yn awr y Parch. George Williams, Llys Bran, a Llwydd y Gymanfa Gyffredinol am y flwyddyn sydd yn awr yn rhedeg) gydag ereill, yn bregethwr i'r Cyfundeb, hyny yw yn aelod o'r Gymdeithasfa. Bu achos addysg dan sylw; a dyled

gynyddol y Genadaeth Gartrefol, yr hyn oedd yn peri pryder nid bychan i'r frawdoliaeth. Yno hefyd y gwnaeth Mr. Wm. Morris roddi adroddiad o'r cyfarfod dirprwyol a gynaliasid yn Machynlleth, i wneuthur trefniadau gyda golwg ar y Genhadaeth Dramor a'r *Drysorfa*. Ar ol y Gymdeithasfa aeth Mr. Evans rhagddo ar hyd glanau sir Benfro, a chyraeddodd Llechryd bore Sabboth, yr 11eg o Hydref. Aeth yn lled fanwl trwy sir Aberteifi yn ystod y pythefnos canlynol. Yr oedd yn gorphen yn Llanbedr nos Lun, y 26ain; ac wedi rhoddi ychydig oedfeuon yn sir Gaerfyrddin aeth i Gyfarfod Misol Ystradgynlais, yr hwn a gynelid ar yr 28ain a'r 29ain. Ac ar ol pregethu am 10 yr ail fore, mae yn ddiameu iddo gyraedd cartref yr un diwrnod. Yn niwedd mis Tachwedd rhoddodd daith arall, yn ymestyn dros wyth niwrnod, trwy ranau o sir Fynwy, gan ddechreu yn Penycae ar y 23ain, ac yn gorphen yn Mhontypool ar y 30ain. A thua chanol mis Rhagfyr yr ydym yn ei gael yn rhoddi taith fer arall trwy Fro Morganwg. Y dydd olaf o'r flwyddyn yr oedd yn pregethu am 10 yn Nghyfarfod Misol y Pil.

Y peth cyntaf yn hanes Mr. Evans am y flwyddyn 1847 sydd yn tynu ein sylw ydyw ei waith yn cymeryd rhan mewn dau gyfarfod pregethu yn mis Chwefror, sef yn Nghaerffili ar yr 11eg a'r 12fed, ac yn Llangyfelach ar y 23ain a'r 24ain. Y mae yr engraifft ganlynol yn esiampl deg o'r galwadau mynych oedd arno, ac o'i lafur yntau yn y cyflawniad o'i weinidogaeth. Nos Sadwrn, y 6fed o Fawrth, yr oedd yn pregethu yn y Creunant, a'r Sul dilynol dair gwaith yn Ystradgynlais. Nos Lun, yr 8fed, *society* ymweliad yn y Bryntirion. Bore dranoeth, y 9fed, am 10 o'r gloch, yr oedd yn pregethu yn ffermdy Pwllyfelin, gerllaw Glynogwr, ar achlysur claddedigaeth; ac am un o'r gloch dydd Gwener, y 12fed, yr oedd yn cyflawni gwasanaeth cyffelyb yn y Tynewydd yn yr un ardal—"angladd dwy ferch." Y Sabboth canlynol yr oedd yn gweinyddu yn nhaith Treforris a Llangyfelach. Ar y 18fed a'r 19eg o Fawrth yr oedd y Cyfarfod

Misol yn cael ei gynal yn Nhonyrefail. Dyma y Cyfarfod Misol cyntaf ag yr ydym ni yn ei gofio, ac yr ydym yn gosod i fewn yma ei drefn:—Y nos gyntaf pregethodd Mr. John James a Mr. Edward Mathews; am 10, Mr. J. Walters a Mr. Evan Harries; am 2, Mr. D. Roberts a Mr. Richard Thomas; ac am 6, Mr. W. Watson a Mr. Richard Thomas. Yr oedd yn gyfarfod hyfryd iawn drwyddo. Cafodd Mr. John James oedfa annghyffredin o hwylus. Yr oedd y capel mor dŷn yn rhai o'r oedfeuon fel y'n gosodwyd ni ac un neu ddau ereill ar risiau y pwlpud. Yr ydym yn cofio sylwi ar Mr. David Roberts yn darllen ei bregeth tra yr oedd y brawd a ddechreuai y gwasanaeth yn darllen ac yn gweddio. Nis gallwn annghofio yr olwg wir barchedig oedd ar Mr. Richard Thomas gyda'i gap melfet du, ac yr oeddym yn teimlo ei fod yn llefaru gyda rhwyddineb a blâs. Tarawyd ni gan ymddangosiad boneddigaidd Mr. John Walters; ac yr oedd Mr. Evan Harries yn bert ac ergydiol, a'i eiriau yn cydio yn y gynulleidfa. Wrth wylio ysgogiadau y pregethwyr, yr oeddym hyd yn nod y pryd hwnw yn teimlo, "Mor brydferth yw traed y rhai sydd yn efengylu tangnefedd."

Yn Nghymdeithasfa Pontypridd, a gynelid ar y dyddiau cyntaf yn Ebrill, yr oedd Mr. Evans yn rhoddi hanes yr achos yn y sir; ac efe oedd un o'r tri brodyr a enwyd yno i fyned i Gymdeithasfa flynyddol y Sulgwyn yn Bristol. Disgynai y Sulgwyn y flwyddyn hono ar y 23ain o Fai, ac yr oedd Mr. Evans, yn ol y penodiad, yn Bristol, a phregethodd dair gwaith, sef prydnawn a nos Sul, a nos Lun. Ar y 1af a'r 2il o Fehefin yr ydym yn ei gael yn Nghymdeithasfa Crughowel, ac yn pregethu yno am 3 oddiar Rhuf. vi. 13: "Ac na roddwch eich aelodau yn arfau annghyfiawnder i bechod: eithr rhoddwch eich hunain i Dduw, megys rhai o feirw yn fyw; a'ch aelodau yn arfau cyfiawnder i Dduw." Gyda golwg ar y Gymdeithasfa hon yr ydym wedi derbyn yr adgofion canlynol oddiwrth y Parch. William Jones, gynt o Crughowel, ond yn awr Canton, Caerdydd:—

"Tua haner can' mlynedd yn ol, pan yr oeddwn i yn byw yn Nghrughowel, yr oedd tro y Gymanfa i ddyfod yno. A gyda llaw rhaid addef fod y dref fechan hono wedi ei hanrhydeddu yn neillduol â Chymanfaoedd rhagorol iawn, yn mron y tu hwnt i filoedd dinasoedd Israel, mewn cymwysderau arbenig yn y gweinidogion, yn lluosogrwydd y gwrandawyr, ac yn *neillduol* yn yr arddeliad a fyddai ar y pregethu. A diau fod y Gymanfa hon yn un o'r rhai hynotaf o honynt oll. Wedi cael sicrwydd am ddyfodiad y Gymanfa i'r lle, aeth y swyddogion ati o ddifrif i sicrhau gwasanaeth lluaws o 'Gedyrn Dafydd' o'r De a'r Gogledd, ac yn eu mysg buont yn llwyddianus i gael addewid gan 'gloch arian' Tonyrefail, fel y'i gelwid, i ddylod i'r Gymanfa. Ond er gwybod o honom ein bod wedi bod yn llwyddianus tuhwnt i'n dysgwyliad, nid digon hyny i hen Gristionogion cynes Crughowel: yr oedd yn rhaid gwneud ymdrech mwy nag arfer i gael y Prophwyd ei hun yn gystal a'r gweision i'r Gymanfa. A gweddi ddyfal a wnaed gan yr eglwys am hyn; ac os gwrandawyd gweddi erioed, mae yn ddiau i hyn gymeryd lle y tro hwn; canys nid oedd neb a fedrai ofyn, 'Paham na ddaeth Efe i'r wyl?' oblegyd deallwyd yn fuan fod y Brenin ei hunan ar ei fwrdd. Mae yn wir nad oedd y gwynt nerthol yn rhuthro, na'r mellt tanllyd yn ymsaethu fel yn bwgwth rhoi y nefoedd ar dân, na'r taranau dychrynllyd, na'r daeargryn arswydus, fel y gwelwyd aml droion yn y dref hono; ond yr oedd yno lef, a 'llef ddystaw fain;' eithr er mai go ddystaw ydoedd, mae yn dra sicr genym iddi wneud gwaith y tro hwnw ag y bydd cofio hir a chanu am dano i dragywyddoldeb maith; canys pan aed i dynu y rhwyd i dir tua'r wythnos ganlynol, buan y gwelwyd fod y rhwyd yn llawn o bysgod bychain a mawrion, o ba rai y mae y rhan fwyaf er ys blynyddau wedi myned i ogoniant. Y mae rhai eto yn aros, ac yn golofnau dan yr achos. Ac er fod yn y Gymanfa hono lawer o frodyr yn meddu yn helaeth gymwysderau gweinidogion y Testament Newydd, eto ein hanwyl frawd

o Donyrefail a anrhydeddwyd yn benaf y waith hon fel moddion arbenig i droi llawer o gyfeiliorni eu ffyrdd at yr Arglwydd. A'r geiriau y gwelodd yr Ysbryd Glân yn dda eu rhoddi yn ei enau y tro hwn oeddynt, 'Rhoddwch eich hunain i Dduw.' Yn y cyfarfod eglwysig yr wythnos ar ol y Gymdeithasfa daeth tua deugain yn mlaen i roddi eu hunain i'r Arglwydd ac i'w bobl; a phan y gofynid i bob un beth yn benaf oedd wedi aros ar ei feddwl, atebiad parod pawb yn agos ydoedd, 'Rhoddwch eich hunain i Dduw.' Ac y mae yn gofus iawn genyf yn awr, nad oedd fawr anhawsder y noswaith hono i ddyweyd profiad. Y mae yn gofus iawn genyf hefyd am rai o sylwadau ffraeth-bert Mr. Evans wrth gymell pawb i roddi eu hunain i Dduw. 'Yn mha ddull?' meddai; 'fel y mae'r claf yn rhoddi ei hunan i'r meddyg—heb gynyg dysgu dim arno, nac ychwaith gyfeirio at unrhyw botel, gan ddyweyd mai moddion o'r botel hon a garwn i; na, dim o'r fath beth, ond rhoi ein hachos yn gyfangwbl iddo ac i'w drin fel y mynai.' Meddai yn mhellach, 'Rhoddwch eich hunain i Dduw, fel y mae yr ymfudwr yn rhoi ei hun i ofal y cadben, heb wneud fawr sylw ar y gwynt na'r cymylau, na chwestiwno dim am y tywydd na'r llong, na gofyn am sicrwydd o fordaith dawel a dyogel, ond mentro eu hunain yn hyderus i ofal y llong-lywydd.' Pan yn tynu at ddiwedd y bregeth rhoddai y cymeriad uchaf i'r Iesu fel Meddyg a Chadben, ac fel yn penderfynu enill ymddiried pawb i fentro arno. Am dano fel Meddyg dywedai, 'Ni fu neb farw dan ei law Ef erioed;' ac am dano fel Cadben dywedai yn rymus, 'Er fod y fordaith yn bwysig a pheryglus, na wnaeth Efe long-ddrylliad erioed—ei fod yn berffaith wybodus am yr holl beryglon, ac yn berffaith feistr ar y cwbl—y môr a'r gwynt, y tônau, a'r holl fôr-ladron i gyd. Nid oes mynwent yn perthyn i'w eglwys Ef; ei arwyddair ydyw, cwbl iachau y rhai trwyddo Ef sydd yn dyfod at Dduw.' Ac yna gwaeddai yn nerthol, 'Mentrwch arno.'" I deimlad y pregethwr ei hun yr oedd yr oedfa hytrach yn

un galed; ond fel y gwelir uchod, bu arddeliad mawr ar y bregeth.

Yr ydym yn ei gael drachefn yn Nghymdeithasfa Sirhowy, Mynwy, ar y 6fed a'r 7fed o Hydref, ac yn pregethu yno am 2 o'r gloch oddiar y ddwy adnod olaf yn yr ail Salm. Crybwylla y cof-lyfr am agoriad capel Dinas Rhondda ar y 9fed a'r 10fed o Ragfyr, sef ar ol ei helaethu a gosod oriel ynddo; eithr os oedd Mr. Evans yn bresenol, nid oedd yn cymeryd rhan yn y pregethu. Y tebygrwydd yw nad oedd yn bresenol, oblegyd cystudd ei fab ieuangaf, yr hwn a fu farw dydd Llun, y 13eg, ac a gladdwyd y dydd Sadwrn canlynol. Nis gallodd y tad bregethu ar ol hyny hyd y Sul cyntaf yn 1848. Dydd Mercher, y 5fed o Ionawr, yr oedd Mr. Evans yn gweinyddu yn angladd Mr. Morris, Pontypridd. Ar y 1af o Chwefror yr oedd yn cyfarfod yr eglwys yn Glynogwr i ymddyddan â Mr. Evan Williams, yr hwn bellach sydd un o weinidogion hynaf Morganwg, gyda golwg ar ei gais am gael dechreu pregethu. Dyddiau Mercher ac Iau, y 9fed a'r 10fed o'r un mis, yr oedd capel Aberaman, gerllaw Aberdar, yn cael ei agor, ac yr oedd efe yn pregethn yno am 10 a 2 yr ail ddiwrnod. Ar ol gwasanaethu taith Pontfaen ar Sabboth y 13eg, aeth i gyfeisteddfod a gynelid am 3 prydnawn dydd Llun, y 14eg, yn Nhrefforest, ac oddiyno i gyfarfod eglwysig yn Mhontypridd nos Lun. Nos Fawrth yr oedd yn pregethu yn Nghaerdydd, a nos Fercher yn Bristol. Llanwodd gwaith yr ymweliad blynyddol y gweddill o'r mis. Yr oedd yn llawn prysurdeb drachefn ar hyd mis Mawrth. Cynelid y Cyfarfod Misol ar y dyddiau cyntaf o'r mis yn St. Ffagan. Ar y 3ydd yr oedd yn gweinyddu mewn angladd yn y Dinas. Sul, y 5fed, yr oedd yn gwasanaethu taith Merthyr a Dowlais, ac arosodd i weinyddu mewn angladd yn y lle olaf dydd Llun. "Agor capel y Graig, Merthyr" sydd ar gyfer y 15fed a'r 16eg yn y cof-lyfr, eithr nid yw yn ymddangos ei fod yn bresenol yno. Modd bynag yr ydym yn ei gael yn Llansamlet ac Abertawy

y Sul a'r Llun canlynol, ac oddiyno aeth i Landeilo nos Fawrth, yr 21ain, ar ei ffordd i Gymdeithasfa Llangadog, yr hon a gynelid ar yr 22ain a'r 23ain. Penodwyd ef yn gymedrolwr, a phregethodd yn y Gymdeithasfa oddiar Rhuf. v. 1. Yr ydym yn cael iddo fyned i Gyfarfod Misol Mynwy, a gynelid yn y Babell, Pontllanfraith, ar yr 17eg a'r 18fed o Fai; ac ar y ddau ddiwrnod olaf o'r un mis yr oedd yn bresenol yn Nghymdeithasfa Abergwaen. Cyhoeddwyd ef a Mr. Wm. Roberts, Clynog, i bregethu am 10, ond trodd allan yn wlyb; a gosodwyd ef i bregethu yn nghapel y Methodistiaid, a Mr. Roberts yn nghapel y Bedyddwyr: testyn Mr. Evans ydoedd Rhuf. x. 9. Ar y 7fed a'r 8fed o Fehefin yr oedd yn bresenol yn agoriad capel Trefforest, sef y capel o flaen yr un a agorwyd yn y flwyddyn hon (1891.) Dydd Mawrth, yr 11eg o Gorphenaf, yr oedd yn y Gyfeillon, Cwm Rhondda, am 2 o'r gloch, yn "edrych am le capel;" ac oddiyno aeth i Bontypridd i gyfarfod yr eglwys yn yr hwyr, yn ddiameu yn achos yr un mater. Y Sul ar ol hyny yr oedd yn Manmoel, Victoria, a Phenycae, sir Fynwy; yr wythnos ddilynol yn y Cyfarfod Misol yn Nghastellnedd; a'r Sabboth canlynol yn gwasanaethu taith yr Eglwys Newydd a Thabor Ffynontaf. Nid rhyfedd ei fod yn "methu gan afiechyd" i fyned i Aberafon ar Sul y 30ain o Gorphenaf. Ond rhaid mai "byr ysgafn gystudd" ydoedd, canys yr ydym yn cael Mr. Evans yn Nghymdeithasfa Penybont-ar-ogwr ar yr 2il a'r 3ydd o Awst, ac yn un o'r rhai oeddynt yn rhoddi hanes yr achos yn y sir. A gallodd gyflawni ei ymrwymiadau Sabbothol ac wythnosol yn ddifwlch hyd ddiwedd y flwyddyn. Ac yn ychwanegol at y galwadau cyffredin a ddisgynent arno, yr ydym yn ei gael yn pregethu am 10 yn "agoriad capel newydd Llansawel" ar y 10fed o Hydref, ac yn y bore a'r nos yn "nghyfarfod blynyddol Pont-rhydyfen" ar yr 21ain o Dachwedd. Y ddau Sul olaf o'r flwyddyn bu yn gwasanaethu yr achos yn Bristol. Y peth cyntaf yn y cof-lyfr am 1849 sydd yn tynu ein sylw ydyw

"Ionawr 6fed, Ton, 10, Salm l. 15, angladd Isaac James, 74 oed." Yr ydym wedi cyfeirio at y gŵr rhagorol hwn eisioes. Efe ydoedd cyd-flaenor tad Mr. Evans. Y mae ei goffadwriaeth yn parhau yn beraroglaidd ar Donyrefail. Yr oedd Isaac James a Mr. William Evans un tro gyda'u gilydd mewn Cyfarfod Dau-fisol; ac ar ol gwrandaw y traethodau gan un o bob ysgol yn y dosbarth, gofynwyd i'r blaenor ddyweyd gair:—"Mae y cyfeillion yma wedi llafurio yn ganmoladwy iawn; ond y mae un peth ar fy meddwl." "Beth yw hyny, Isaac?" ebai Mr. Evans. "Y mae arnaf ofn i'r bobl ieuainc yma fod yn debyg i gafn y felin acw." "Beth am hwnw?" "Tra mae yn cario dwfr i droi y rhod, mae yn pydru." "O, Isaac bach," meddai y gweinidog, "dyna chwi wedi gwneud sylw difrifol yn awr, ond mae gen' i air i ddyweyd, mae yn well bod yn gafn nag yn ddim—mae yn well pydru yn gwneuthur daioni nag yn gwneud dim." Ar ol pregethu am 10, yr 2il o Chwefror, yn Nghyfarfod Misol y Taibach, aeth Mr. Evans i'r Llwyni (Maesteg) erbyn yr hwyr i areithio ar Ddirwest. "*No.* 20" ydoedd yr anerchiad, ac felly fe welir ei fod yn parhau i wneud areithiau newyddion. Yr unig Gymdeithasfa y bu ynddi yn 1849 ydoedd yr hon a gynaliwyd yn Aberdar ar y 4ydd a'r 5fed o Gorphenaf, lle y cyflawnodd yr un gwasanaeth ag a wnaethasai mewn cynifer o Gymdeithasfaoedd blaenorol yn y sir, sef rhoddi hanes yr achos. Bu yn gwasanaethu yr achos yn Bristol y ddau Sul cyntaf yn mis Tachwedd, a dyna yr unig waith y bu allan o Forganwg yn y flwyddyn hono. Dechreuodd y flwyddyn 1850 yn y Pil, ac yr oedd yn pregethu yno am 10 yr ail fore. Yn ystod mis Ionawr cyflawnodd ei ran o'r ymweliad blynyddol â'r eglwysi yn nosbarthiadau Pontypridd a Phenmarc. Ar y 29ain a'r 30ain yr oedd y Cyfarfod Misol yn Nghaerffili, ac oddiyno aeth i agoriad capel y Gyfeillon, Cwm Rhondda, a phregethodd am 10 dydd Iau, yr 31ain. Yr oedd Mr. Evan Harries yn pregethu gydag ef, a gwnaeth un o'i gyfarchiadau mwyaf doniol ar ran y casgliad. Pan

aed i gasglu dododd Mr. Jabes Thomas y plât o flaen Mr. Harries, yr hwn a atebodd yn ffraethbert, "Mae'r fiddler yn rhydd." Yn y prydnawn pregethodd Mr. William Prydderch ar y testyn "Cofia yn awr dy Greawdwr yn nyddiau dy ieuenctyd," ac y cafodd un o oedfeuon hynotaf ei oes; oedfa a sicrhaodd lonaid capel iddo bob amser yn yr ardal a'r amgylchoedd hyny. Er nad oeddym ond un-ar-ddeg oed, gadawodd y bregeth hono argraff ar ein meddwl nas gallwn ei hannghofio byth. Yr wythnos gyntaf yn Chwefror, sef rhwng Sul y 3ydd a'r 10fed, gwnaeth Mr. Evans daith trwy ranau o sir Fynwy. Y mae fel pe yn ymadnewyddu gyda Dirwest y flwyddyn hon; bu mewn gwyl Ddirwestol yn Aberafon ar yr 20fed o Fai, ac mewn gwyl arall yn Aberdar ar y dyddiau cyntaf yn Gorphenaf, ac y mae ganddo araeth newydd eto, "*No.* 21." Sul y 4ydd o Awst yr oedd yn Nghastellnedd y bore, Seion, Ysgywen am 2, a Phontardawy am 6, yn cychwyn i fyned i Gymdeithasfa Llangeitho, yr hon a gynaliwyd ar y 7fed a'r 8fed; ac yr oedd efe yn pregethu yno am 10 oddiar Mal. iii. 17. Yr ydoedd wedi ei benodi hefyd i roddi y Cyngor yn y neillduad oedd i gymeryd lle yn y Gymdeithasfa. Y brodyr i'w hordeinio oeddynt Mri. Owen Lewis, Wm. Jones, a Morgan Morgan o sir Gaerfyrddin. Fel y canlyn y bu trefn y gwasanaeth: "Dechreuwyd trwy weddi gan y Parch. R. Evans, Llanidloes. Darllenwyd y rhanau o'r gair a gweddiwyd gan y Parch. C. Owen, sir Feirionydd. Gofynodd y Cadeirydd a oedd y brodyr wedi eu dewis yn rheolaidd yn ol y drefn arferol. Atebwyd yn gadarnhaol gan Mr. D. Jones. Traethwyd ar Natur Eglwys gan y Parch. E. Matthews, Morganwg. Holwyd y brodyr allan o'r Cyffes Ffydd gan y Parch. R. Owen, sir Gaernarfon. Traddodwyd y *charge* gan y Parch. Wm. Evans, sir Forganwg. Gweddiodd y Parch. R. Jones, sir Drefaldwyn, a therfynwyd cyfarfod yr Ordeiniad." (Cofnodau y Gymdeithasfa.)

Megys ag y gwnaed uchod, yr ydym yn gosod i mewn yma eto y Cyngor fel y darparwyd ef gan Mr. Evans:—

"Y rhan sydd wedi dygwydd i mi yn y gorchwyl pwysig mewn llaw o neillduo y brodyr hyn yn gyflawn i waith y weinidogaeth, yw rhoddi iddynt air o gyngor. Buasai yn dda genyf pe buasai yn disgyn ar rywun yn fwy cymwys i'r gorchwyl, ond nid oes genym ond gwneud yr hyn a allwn.

Rhwymedigaeth dyn i Dduw yw'r pwnc mwyaf ei bwys a'i ganlyniad i bob dyn.

Mae rhwymedigaeth pob dyn i'r Anfeidrol yn codi oddiar natur ei berthynas â Duw. Mi ddymunwn alw eich meddwl i'r ystyriaeth mwyaf difrifol o'ch perthynas â Duw, nid yn unig fel dynion a Christionogion, ond yn benaf eich perthynas swyddol â'r Duw anfeidrol fel gweision i Iesu Grist.

Fel sail i'r ychydig anogaethau gaf eu rhoddi i chwi yn bresenol, cymeraf gyngor hen weinidog yn niwedd ei ddiwrnod gwaith i weinidog ieuanc yn nechreuad ei ddydd gwaith. Feallai nad oes neb yn fwy cymwys i roddi cyngor i'r ieuanc na'r hen sydd wedi bod yn hirfaith yn y gwaith, ac yn wir brofiadol o bwysigrwydd y gwaith. 1 Tim. iv. 16: 'Gwylia arnat dy hun, ac ar yr athrawiaeth; aros ynddynt: canys os gwnai hyn, ti a'th geidw dy hun a'r rhai a wrandawant arnat.

1.—Mae y cyngor yn gyfeiriol iawn—yn bendant,—'Gwylia arnat dy hun;' gwylia di, pe peidia arall—'gwylia di.'

2.—Mae y cyngor sydd yn briodol i un mor briodol i bob un sydd yn yr un sefyllfa. Yr hyn yr wyf yn ei ddywedyd i chwi, yr wyf yn ei ddywedyd wrth bawb,—'Gwyliwch:' Marc xiii. 37.

3.—Mae yr enwadau a rydd yr Ysgrythyrau ar genadon yr efengyl—pregethwyr y gair, gweision Crist—yn rhoddi gwir fantais i ni ddeall natur a phwysigrwydd eu swyddogaeth. Gelwir hwynt wrth yr enwadau canlynol:—

1.—Cenadon. Derbyn cenadwri sydd yn gwneuthur cenadwr. Nid dawn na dysg, heb genadwri. Nid wyf wrth ddywedyd felly yn meddwl nad yw dawn a dysg yn fuddiol, ond yn hytrach yn wir angenrheidiol. Cenadon Duw—dros Dduw, yn lle Duw; nid ffurfio dim newydd, ond cario, fel y

mae y *post* yn cario llythyr fel y derbyniodd ef, heb newid dim arno, na thynu oddi wrtho, nac ychwanegu ato, ond ei gario yn onest at yr hwn y mae wedi ei gyfarwyddo. 2 Cor. v. 20; 1 Cor. xi. 23; Ioan viii. 28; Actau xxvi. 22.

2.—Gweinidogion, gweision; nid meistriaid, nid arglwyddi, ond gweision; ïe, gweision, ond serch hyny gweision y Duw Goruchaf. Rhai at wasanaethu—at weithio—yw gweision, nid i segura, ac nid chwaith gweithio iddynt eu hunain, ond i'w Harglwydd. Duw sydd yn cyflogi i'w waith: 2 Cor. iii. 6, a vi. 4. Ystyr y gair gweinidogion, meddant, yw rhwyf-weithwyr, rhwyf-weision, gweision yn rhwyfo, dan lywodraeth un arall, yn arwyddo mai gwaith caled, fel rhwyfo yn erbyn y gwynt a'r llanw, yw gweinidogaeth yr efengyl.

3.—Goruchwylwyr, ar eiddo un arall, ar ddirgeledigaethau Duw, i ddwyn allan bethau newydd a hen i glywedigaeth y bobl. Na ddyweder byth gan eich gwrandawyr, Ni gawsom yr hen, ond pa le mae y newydd? Ond y ddau gyda'u gilydd bob amser. Anchwiliadwy olud gras Duw i bechaduriaid: 1 Cor. iv. 1, ac Ephes. iii. 8. Na feddyliwch y gallwch byth wneuthur cyfundraeth *(system)* o'r Beibl. Mae yn rhy uchel, rhy ddwfn, rhy ëang; mae fel ei Awdwr, yn anamgyffredadwy; ac eto mae yn wirionedd goleu a chadarn. Mae digon o dir llafur i chwi a phawb o'ch brodyr yn ei ganol, heb fyned i'r ymyloedd, i gael allan bethau newydd a hen, tra parhao dyddiau y ddaear, ïe, yn ddiau i dragywyddoldeb: 1 Cor. ii. 6. Fel y mae un awdwr yn awgrymu, fod y Beibl megys yn dyweyd, '*Read me, and live me, but do not make systems of me.*'

4.—Bugeiliaid—am eu bod i ofalu am y praidd, i fod â'u llygaid arnynt, i'w harwain i borfeydd breision yr efengyl, i'w dwyn o bob cyfeiliornad i gorlan yr eglwys, ac i'w hymgeleddu yno â gwir wybodaeth ac â deall ysbrydol: Ephes. iv. 11; Act. xx. 28; 1 Pedr v. 2—4.

5.—Gwyliedyddion, a hyny dros eneidiau dynion. Gorchwyl pwysig yw gwylio dros eneidiau—gofalu am eneidiau sydd i

barhau byth, gwylio yn achos eneidiau sydd mewn perygl: Heb. xiii. 17. 'Pwy sydd ddigonol i'r pethau hyu?' Esec. iii. 17—21. Achub eneidiau!

1.—Goruwchwylwyr ar drysorau penaf y Duwdod.

2.—Gwyliedyddion ar eneidiau sydd i barhau byth, ac mae un enaid yn fwy ei werth na byd. O ymgymeriad pwysig! O, ie, ofnadwy!!

Yn yr ystyriaeth o bwysigrwydd y swyddogaeth hon, onid priodol iawn yw y cyngor, 'Gwylia arnat dy hun.'

I. Gwylia. Tuag at wylio rhaid—

(1) Bod yn ddeffrous, ac nid yn gysglyd.

(2) Bod yn ofalus, ac nid yn esgeulus: Diar. xii. 24.

(3) Bod yn weithgar, ac nid yn segurllyd.

Agwedd gysglyd, esgeulus, a segurllyd yn ngwinllan eu Harglwydd ar y gweision sydd waradwyddus iawn: Diar. x. 5, Preg. ix. 10.

II. Gwylia arnat dy hun. Mae yn rhaid i bob gwyliedydd ysbrydol yn gyntaf wylio arno ei hun, cyn y byth y gall yn iawn wylio ar arall: Act. xx. 28.

1.—Gwylia dy fod mewn cyflwr da dy hun, yn heddwch dy farnwr, trwy gredu tystiolaeth Duw am ei Fab: 2 Cor. v. 18, Rhuf. v. 1.

2.—Gwylia ar dy ddybenion yn dy gwbl. Pe byddai y gweithredoedd yn weddol at lythyren y gorchymyn, os na bydd y dyben yn gywir, maent heb eu rhinwedd goreu, heb eu melusder, heb eu blodau, heb eu coron: 2 Bren. x. 16.

3.—Gwylia ar dy ysbryd, rhag cilio oddiwrth Dduw: Mal. ii. 15, rhag ymddyrysu mewn dim. Meithrina ysbryd addfwyn a llonydd: 1 Petr iii. 4, rhag ymddyrchafu chwaith. Un dinystriol iawn yw balchder ysbryd; mae yn wastad o flaen cwymp. 'Ar y truan a'r cystuddiedig o ysbryd mae Duw yn edrych': Esai. lxvi. 2; 'Am hyny cadw dy galon yn dra diesgeulus: Diar. iv. 23, a xvi. 18, Iago iv. 29.

4.—Gwylia ar dy enau, sef ar dy eiriau. Na ddeued un gair dros ein gwefusau ar un achlysur fyddo o duedd i

wneuthur niwed: Col. iv. 6. 'Bydded eich ymadrodd bob amser yn rasol, wedi ei dymheru â halen'; yn siriol, yn addfwyn, ac yn sanctaidd: Tit. ii. 8. Ephes. iv. 29.

5.—Gwylia ar dy holl ymarferion, nid yn unig eu bod yn gyfreithlon, ond eu bod er llesad ac er adeiladaeth. Nid oes dim mor effeithiol oddiwrth ddyn at ddyn arall a'i esiampl: 1 Cor. vi. 12. 'Bydd yn esiampl i'r ffyddloniaid,' mewn gair, mewn ymarweddiad, mewn cariad, mewn ysbryd, mewn ffydd, mewn purdeb: 1 Tim. iv. 12. 'Ymarfer dy hun i dduwioldeb': 1 Tim. iv. 7. 'Dilyn gyfiawnder, duwioldeb ffydd, cariad, amynedd, addfwynder; ymdrecha hardd-deg ymdrech y ffydd, cymer afael ar y bywyd tragywyddol': 1 Tim. vi. 11, 12."

Tua'r amser yr ydym yn awr wedi dyfod ato y dechreuodd y "Cyfarfodydd Pregethu" gael eu cynal, y rhai sydd wedi dyfod yn sefydliad pwysig, yn enwedig yn Morganwg. Yr oedd cyfarfod blynyddol yn cael ei gynal mewn ychydig o fanau, megys Salem, Pencoed. Ond yr oedd nifer yr eglwysi wedi amlhau mor fawr fel mai unwaith bob chwe' neu saith mlynedd y cynelid y Cyfarfod Misol mewn llawer o leoedd. Heblaw hyny, yr oedd amryw o gapeli newyddion yn ddiweddar wedi eu codi, a'r ddyled arnynt heb ei thalu; ac fel y moddion mwyaf effeithiol i gasglu tuag at symud ymaith y baich oedd yn gorphwys yn drwm ar rai o'r eglwysi, trefnwyd i gadw cyfarfodydd pregethu ar ddyddiau penodol, pryd y gwahoddid tri neu bedwar o weinidogion i gymeryd rhan yn y gwasanaeth. Yr ydym yn cael Mr. Evans mewn cyfarfod o'r fath yn Ystradgynlais ar y 25ain a'r 26ain o Fedi, 1850, ac mewn tri "cyfarfod pregethu" yn y mis Hydref dilynol.

Wrth ddilyn y cof-lyfr yr ydym yn gweled fod Mr. Evans yn gwasanaethu eglwysi Morganwg o'r naill flwyddyn i'r llall gyda ffyddlondeb a rheoleidd-dra mawr, ac yn anfynych yr ydym yn ei gael allan o'r sir am Sabboth yn y blynyddoedd yr ydym yn awr wedi dyfod atynt. Yr oedd efe a gweinidogion ereill y sir yn cyflenwi y teithiau Sabbothol yn ol cynllun

wedi ei dynu i fyny yn mlaen llaw ac a gyhoeddid yn y *Dyddiadur*. Dechreuwyd gweithredu yn ol y drefn yma tua'r flwyddyn 1844, a pharhaodd y cynllun hyd tua 1862. Bu y cynllun o wasanaeth mawr, yn neillduol i'r eglwysi lleiaf. Yr oedd yn sicrhau gweinyddiad yr ordinhadau yn rheolaidd yn holl gapelau y sir. Ac yn gymaint a bod yn mron yr oll o'r gweinidogion yn meddu ar ddoniau amlwg a helaeth, a'u bod yn bregethwyr galluog a phoblogaidd, edrychid yn mlaen yn awyddus at y Sul pen mis. Ac os byddai cyflenwad y pwlpud yn ddiffygiol yn ystod y mis, yr oedd ymweliad Mr. David Howell, neu Mr. Evan Harries, neu Mr. John James, neu Mr. David Roberts, neu Mr. Wm. Evans ar Sul y cymundeb yn gwneud i fyny i raddau mawr am y diffyg. Mae yn ddiameu nad oedd dim arall i'w wneud ond rhoddi i fyny "y *plan*," fel y gelwid ef, pan y gwnaed hyny; ond bu yn golled ddirfawr, yn arbenig i eglwysi y Fro, am lawer o flynyddoedd. Ond y mae sefydliad gweinidogion yn y wlad brydferth hono wedi peri nad yw y golled mwyach yn cael ei theimlo.

Heblaw ei gyhoeddiadau Sabbothol yn ol y cynllun, a'i waith cyffredin yn nglŷn â'r Cyfarfod Misol, yr Ysgol Sul, a dirwest, mae y côf-lyfr yn cynwys y crybwylliadau canlynol am lafur Mr. Evans yn 1851:—Bu yn Nghyfarfod Misol sir Frycheiniog, yn Aberhonddu, ar y 18fed a'r 19eg o Chwefror, a phregethodd dair gwaith. Yr oedd yn agoriad capel y Graig, Pontypridd, ar y 18fed o Ebrill. Bu yn Bristol yn Nghymanfa flynyddol y Sulgwyn, ar yr 8fed a'r 9fed o Fehefin, ac aeth oddiyno i Gyfarfod Misol Mynwy, yn Nghasnewydd-ar-Wysg, y dyddiau dilynol. Yr oedd yn agoriad capel Rhiwceiliog ar y 3ydd o Gorphenaf. Yr oedd capel Spelter, Maesteg, yn cael ei agor ar yr 8fed a'r 9fed o Fedi, eithr nid oedd efe yn bresenol ar yr achlysur hwnw. Aeth i agoriad "capel newydd yn Ystradgynlais" ar y 24ain a'r 25ain o'r un mis. Yr oedd yn bresenol yn Nghymdeithasfa Talgarth ar yr 8fed a'r 9fed o Hydref, ac yn pregethu am 3 y

prydnawn cyntaf, oddiar Rhuf. iv. 5. Mae yn ymddangos ei fod wedi addaw myned i "agor capel Cwm Aberdâr" ar y 12fed a'r 13eg o Ionawr, 1852; ond nid oedd yn iach ar y pryd. Yr oedd wedi "methu gan afiechyd" i gyflawni ei gyhoeddiad ar y Sul cyntaf o'r flwyddyn. Yr unig ddygwyddiad neillduol yn hanes Mr. Evans am 1852 ydoedd ei ymweliad diweddaf â Llundain. Bu yn gwasanaethu yr eglwysi Cymreig yn y brif-ddinas y tro hwn am wyth Sabboth, sef o'r 8fed o Awst hyd y 26ain o Fedi, a phregethodd yn ystod yr amser bymtheg-ar-ugain o weithiau. Fe ddarllenir y llythyr canlynol gyda dyddordeb pruddaidd, yn cynwys ychydig o adgofion y diweddar Dr. Owen Thomas am Mr. Evans yn Llundain; ac yn enwedig gan mai adrodd yr adgofion hyn i'w ferch i'w hysgrifenu atom ni oedd yn mron un o'r pethau diweddaf a wnaeth. Teimlwn yn dra diolchgar i Miss Thomas am ysgrifenu y llythyr. Y mae ei hanwyl dad wedi myned tu hwnt i gyraedd ein diolchgarwch; ac y mae yn sicr genym fod y ddau weinidog oeddynt mor hoff o'u gilydd yma wedi cofleidio y naill y llall yn un o drigfanau tŷ y Tad.

"46, Catharine Street, Liverpool,
"June 27th, 1891.

"Dear Mr. Evans,—My father requests me to write on his behalf in reply to your letter, that he was in London when your grandfather was there in 1852, and that he enjoyed his company very much. He especially enjoyed the church meetings which Mr. Evans attended, which he did every week at Jewin, and took the greatest interest in the proceedings. He was one of the best my father saw there in such meetings; would not take the lead himself, but insisted that my father should do that, but that he would speak whenever he wanted him. He was so full of religious experience himself, and had been so long accustomed to take part in such meetings, that it was quite a pleasure to be there with him. He was not so happy in preaching there then, in fact, he

greatly complained of the hard services he had there. The people were also rather disappointed in him, excepting the last Sunday night that he preached there, when he came forth in all his glory. Those who complained of his previous sermons were more than satisfied. They said it was worth keeping him there for three months in order to enjoy such a service. My father has nothing very particular to relate with reference to his sermons nor the church meetings, but he recollects with great pleasure the many hours he enjoyed with him there. My father lodged then at 20, Duncan Terrace, Islington, with Mr. Davies, and he went down to see Mr. Evans on the very first day of his arrival, and he was so over-joyed at seeing my father, that he actually embraced him in the room. He came to Duncan Terrace the following Saturday to dinner and tea, and was there several times during his visit.

"I am sorry to tell you that my father is confined to his bed, and is very week indeed, and he asks me to tell you that he cannot apply his mind to anything. He sends his very kind regards to you and your father,

"And believe me, very sincerely yours,

"SARA G. THOMAS."

Dydd Llun, yr 21ain o Fawrth. 1853, mewn cyfarfod cyhoeddus yn Nowlais, cyflwynwyd anrheg—spectol aur a seddob—i Mr. Evans gan y Gymdeithas Ddirwestol, gyda'r ysgrifeniad canlynol:—

"Anrheg
Cymdeithas Ddirwestol
Dowlais,
i'r
Parch. Wm. Evans,
Am ei lafur a'i ymdrech o blaid Dirwest.
Mawrth 21ain, 1853."

Ar y 7fed a'r 8fed o Ebrill, pregethodd ddwy waith yn

agoriad capel newydd Trelales; ac yn niwedd yr un mis yr oedd yn bresenol yn Nghymdeithasfa Abertawy. Yr oedd y Gymdeithasfa hono yn un hynod, yn neillduol o ran ei chyfarfodydd pregethu, a bu son mawr am dani am amser maith wedi iddi fyned heibio. Ac y mae wedi ei hanfarwoli gan y Parch. Thomas Levi, yn ei ysgrif dan y penawd "Tridiau yn Abertawy," a ymddangosodd yn y *Traethodydd* am 1853. Dyma y Gymdeithasfa yn yr hon y penderfynwyd i roddi i fyny y Gymdeithasfa flynyddol, yr hon a gynelid fel rheol yn mis Gorphenaf. Fel y gwelsom, buasai adeg pan y cynelid chwech Cymdeithasfa bob blwyddyn, sef yn ychwanegol at y rhai chwarterol, Cymdeithasfa y Nadolig, a'r un flynyddol. Yr oedd Cymdeithasfa y Nadolig wedi ei rhoddi heibio er ys ugain mlynedd; a chynaliwyd y Gymdeithasfa flynyddol ddiweddaf yn Llansawel, sir Gaerfyrddin, ar y dyddiau olaf o Fehefin, 1853. Yr oedd Cymdeithasfa Awst y flwyddyn hono yn cael ei chynal yn Rhiwbwys, Llanrhystyd. Yr wythnos ganlynol y bu farw Mr. Evan Morgan, Caerdydd; a dydd Llun y 15fed o'r mis y cymerodd y claddedigaeth le, pryd y traddodwyd dwy bregeth gan Mr. Robert Thomas (yn Saesneg), y pryd hwnw o Gasnewydd, ac ar ol hyny o Garston, a Mr. William Evans, Tonyrefail, oddiar 2 Tim. iv. 7, 8. Y mae genym lythyr o'i eiddo a ysgrifenwyd ar yr 2il o Awst, 1853:—

"My dear grandson,—Derbyniais eich llythyr caredig, a'r ail ran o Hanes Bywyd yr Hybarch Lewis Powell, Caerdydd, a dyddorol iawn ydoedd—ie, yn wir, hyfrydol iawn oedd ei ddarllen oll. Pan yn dybenu darllen y rhan gyntaf yr oedd awydd i weled yr ail, ac yn awr mae yr awydd yn gryfach fyth am weled y trydydd. Mae rhyw arogl hyfryd ar yr holl hanes.

"Bydd yn dda genyf gael ysgrif oddiwrthych pan yn gyfleus, yn cynwys ychydig o hanes eich llafur gyda'r dysgu, ac hefyd hanes yr achos goreu yn eich plith.

Cofiwch fi at eich mam ac at eich tad bid sicr. B'le mae

Mair? Mae hithau yna yn rhywle; gobeithio ei bod yn parhau i wella. A derbyniwch yr unrhyw eich hunan, os gallwch gael gafael arno. Ydwyf, eich anwyl daid,

"WILLIAM EVANS."

Yn mis Hydref yr ydym yn cael Mr. Evans am dri Sabboth yn Birmingham a Bilston; yn pregethu dair gwaith bob Sul, a phob nos oddieithr y Sadwrn, yn bresenol mewn cyfarfodydd yn y naill le neu'r llall. Ar y ddau Sabboth cyntaf yn Nhachwedd yr oedd Mr. Evans yn Nghaerfyrddin, ac yn yr wythnos rhyngddynt bu mewn Cyfarfod Misol yn Nghwmdwyfran, ac ymwelodd âg ychydig leoedd ereill. O hyn yn mlaen i ddiwedd y flwyddyn, ac ar hyd y flwyddyn ganlynol, 1854, cyfyngodd ei lafur yn llwyr i Forganwg, gyda'r eithriad o bedair noswaith yn mis Hydref, 1854, y rhai a roddodd i leoedd yn Mynwy i areithio ar Ddirwest. Dechreuodd ei waith am 1855 ar y Sul cyntaf yn Ionawr, yn Nhonyrefail a Glynogwr. Yr oedd y Dinas bellach er ys tua phum' mlynedd wedi ei gysylltu â'r Gyfeillon; ac erbyn hyn yr oedd achos arall wedi ei sefydlu rhwng y ddau le diweddaf yn y Porth. Nos Fercher, y 10fed o Ionawr, yr oedd Mr. Evans yn areithio ar Ddirwest yn St. Ffagan—"*No.* 40" ydoedd yr araeth. Ar gyfer y Sul dilynol, y 14eg, yr ydym yn ei gael yn dyweyd yn y côf-lyfr fel hyn:—"Dinas. Methu, wedi i'r anifail yn agos a dinystrio fy aelodau. Bum wyth Sabboth heb fyned oddicartref." Ni thorwyd asgwrn yn y ddamwain hon; dim ond ysigfa ac ysgydiad a gafodd. Peth dyeithr iawn ydoedd annghyd-ddealldwriaeth o'r fath rhyngddo ef a'i anifail. Yr oedd yn farchogwr rhagorol, ac yn arfer pob gofal am yr anifail. Byddai yn disgyn ar odre pob rhiw. Yr oedd wedi gwneud hyny un tro, ond pan tua haner y ffordd i fyny'r tyla mae yr anifail yn ei wthio i'r clawdd. "Paid y ceffyl," meddai y pregethwr, "onite mi âf ar dy gefn di." Eithr parhau i'w wthio i'r clawdd a wnaeth yr anifail. "Wel, ti gei fy nghario ynte." Gyda bod Mr. Evans ar gefn yr

anifail, mae y creadur yn cychwyn ar garlam, ac nid oedd modd ei ddal yn ol. Ychydig bellder yn mlaen gwelodd Mr. Evans ddyn yn dyfod i'w gwrdd a golwg ddrwgdybus arno; ond yr oedd yr anifail yn myned gyda'r fath gyflymdra, fel ag i'w wneud yn anmhosibl i'r crwydryn wneuthur dim niwed i was yr Arglwydd, a daliodd yr anifail i redeg nes yr oedd yn ddigon pell allan o berygl. Bu yr anifail yn gymwynaswr da y tro hwnw i'w berchen. Fe ddichon mai nid yr un ydoedd ag oedd gan Mr. Evans ar achlysur y ddamwain yn nechre 1855. Y Sabboth cyntaf yr aeth Mr. Evans i'w gyhoeddiad ar ol y ddamwain ydoedd y 18fed o Fawrth. Ar y 1af a'r 2il o Ebrill yr oedd mewn cyfarfod pregethu yn Llaneurwg. Ar yr 11eg o'r un mis yr oedd yn bresenol yn nghyfarfod yr eglwys yn Nghaerdydd "yn achos capel newydd Docks." O'r 17eg o Fai hyd y 3ydd o Fehefin bu ar daith trwy sir Gaerfyrddin. Dydd Llun, yr 2il o Gorphenaf, yr ydym yn ei gael unwaith eto yn Nghaerdydd mewn "*committee* achos capel Docks." Nos Iau, y 27ain o Fedi, yr oedd yn pregethu yn y Taibach, ac yn cychwyn i'w seithfed daith yn y Gogledd, yr hon a ymestynodd hyd dydd Mawrth, y 6fed o Dachwedd. Ei gyfaill ar y daith hon ydoedd ei nai, y diweddar Mr. Watkin Williams. Ychydig amser cyn ei farwolaeth gwnaeth Mr. Williams yn garedig gyflwyno i'n gofal yr hanes canlynol am y daith, ac y mae yn sicr genym y bydd ein darllenwyr oll, megys ag yr ydym ninau, yn ddiolchgar iawn am dani.

"Bu Mr. Evans yn bryderus iawn cyn penderfynu ar daith mor bwysig. Mynai ei fod bellach yn rhy hen, a'i fod braidd yn rhyfygus i feddwl am ddyn yr ochr chwith i dri-ugain, fel y dywedai, i fyned ar daith mor faith a chyn belled oddigartre. Gwyddai hefyd yn dda y byddai dysgwyliad mawr wrtho, ac ofnai mai siomedigaeth fawr fyddai y canlyniad, a thaith ddifudd a difendith, siomi y bobl, a thristau ei hunan. Bryd arall ofnai rhag ei fod yn troi clustfyddar at alwad Un oedd uwch na dynion. Yn ngwyneb cynifer o geisiadau oddiwrth frodyr anwyl a difrifol, ac oddiwrth Gyfarfodydd Misol a

Chymanfaoedd, tybiai weithiau ei fod yn clywed llais ei Feistr mawr drwyddynt, a chyda llawer o bryder a gweddi, penderfynodd ar y daith. Disgynodd y rhagorfraint o fod yn gyfaill iddo i'm rhan inau, ac nis gallwn gael dim mwy dewisol. Yr oeddwn yn ymyl 30 mlwydd oed, yn iach ac yn heinif, yn llawn nerth, ac ysbryd, a bwriad. Ac ni throdd chwaith yn siomedigaeth. Nid oes dim yn fy mywyd mwy dymunol genyf i gofio am dano. Nis gallaswn gael person mwy teilwng i'w wasanaethu, na chyfaill mwy anwyl a difyrus i'w fwynhau, na chymdeithas burach i anadlu ei hawyr; na phregethwr mwy poblog i godi y lluaws i wrando, na neb mwy dyogel i lanw dysgwyliadau pawb. O'm rhan fy hun, un o'i neillduolion penaf yw gallu i bregethu yr efengyl i bawb; nid oes dim gwahaniaeth pwy fo'n gwrando, pa un ai y cyfoethog neu'r tlawd, pa un ai y *ruffian* mwyaf gwledig, neu y dyn mwyaf gwrteithiedig, pa un ai y Cristion mwyaf profiadol, neu'r anffyddiwr mwyaf rhagfarnllyd, pa un ai y beirniad mwyaf craffus, neu y lluaws anwybodus. Yr oedd yn cwrdd â phawb, ac yn gwneud i bawb ddeall. Yr oedd yn sicrhau i ni y wedd oreu ar bob peth. Derbynid ef fel Tywysog Duw. Yr oedd pawb yn mhob man yn ymgystadlu mewn caredigrwydd, ac am ei wasanaethu. Y capeli yn orlawn, gyda rhyw ychydig iawn o eithriadau, a dilynid ef yn aml am bump neu chwech a chwaneg o weithiau gan yr un gwrandawyr. Weithiau byddai y pellder yn fychan, a dilynid ef ar draed gan dyrfaoedd, bryd arall byddai cynifer o gerbydau nes y byddem yn myned i mewn i'r trefydd fel y *circus*, yn drain mawr a maith. Y mae yn gôf genym ein bod yn myned i ymyl Amlwch, pryd y cyfarchai un *lady* ieuanc serchog ef gan ddywedyd 'Mr. Evans, yn siwr i chwi, fe fydd pobl Amlwch yn credu fod y *circus* yn dyfod yno heno.'

"Tra y gwyddem ei fod ef yn aml yn ddigalon, teimlwn inau yn gwbl hyderus. Gwyddwn os cai gystal a'i *average* y byddai pob peth yn ddyogel; ac fel rheol gwyddwn fod cynulleidfa fawr, gymysg, yn fanteisiol iddo—yn ei dynu allan,

yn codi *inspiration* ysbrydol ei enaid, ac yn enyn tân santaidd yn ei ysbryd, ac unwaith yr âi hwnw ar dân, nid rhaid gofal am yr oedfa hono mwyach. Cawsom Sabboth ar ein ffordd yn sir Aberteifi. Dechreu yn Lampetr am 10, Abermeurig am 2, a Llangeitho am 6, a Sabboth hyfryd ydoedd hefyd—y capeli yn orlawn, ac yntau agos yn ei fan goreu. Yr oedd yno rai o'r hen bobl yn cofio Rowlands, ac yr oedd y Sabboth hwnw yn peri iddynt gofio dyddiau a nerthoedd y pregethwr mawr hwnw, pan oedd y lluaws yn tyru i'w wrando, a'r gwynt nerthol yn rhuthro, a'r bobl yn gwaeddi un ai o ddychryn neu o orfoledd—pob un o'r ddau yn aml; ac yntau 'yn y tarth, a'r mwg, a'r tân yn gwaeddi;' felly yr oedd y noswaith hono. Yr holl wlad wedi dyfod yn nghyd i wrando, nes yr oedd y capel mawr yn orlawn, a llawer allan, ond yr oedd ei floedd felus-ber a threiddgar yn cyraedd y cwbl; ac aeth pawb adref â swn y floedd felus-ber ar eu clustiau. Dranoeth oddiyno i Ledrod, Llanilar, ac Aberystwyth, lle y cawsom y croesaw mwyaf, a chynulleidfa fawr ac anrhydeddus, ac oedfa dda iawn. Erbyn y nos ganlynol yr oeddym wedi cyraedd Machynlleth, a bellach ein traed yn sefyll ar dir cysegredig y Gogledd, ac i mi am y tro cyntaf erioed yn fy mywyd. Buom yn lletya gyda Mr. a Mrs. Jones, rhieni y Parch. J. Foulkes Jones, ac nid oedd yn bosibl i ni gael mwy o garedigrwydd, a fy ewythr yn siriol a hapus iawn.

"Taith fawr, a diwrnod pwysig iawn dranoeth: am 10 yn Corris, ac am 2 a 6 yn Bryncrug, lle yr oedd yn ddiwrnod diweddaf y Cyfarfod Misol. Erbyn cyraedd yno cawsom fod y dysgwyliad mwyaf am dano—y capel wedi ei orlenwi, a llawer allan yn ceisio eu goreu i wthio i mewn; y lle yn llawn o bregethwyr a blaenoriaid wedi dyfod yno ac aros yno er mwyn clywed y gŵr enwog o'r Deheu. Y cwrdd wedi ei ddechreu trwy weddi, a bu rhaid i mi fyned ati ar unwaith, a chefais gymorth i ddyweyd tipyn yn fyr ac yn flasus, gan adael yr oedfa i fy anwyl ewythr, a chan weddio am i'r Arglwydd ei helpu i lanw dysgwyliadau y fath gynulleidfa.

Deallwn yn fuan wrth ei weled yn tynu a thrin ei spectol fod pob peth yn *right*. Dyna efe, wedi darllen ei destyn, yn ei thynu ymaith, gan siarad tipyn, yna byddai yn hamddenol iawn yn ei phlygu, gan siarad tipyn eilwaith yn gartrefol iawn. Y mae yn dal ei spectol am dipyn yn ei law; y mae yn dechreu mesur â hi, a phawb bellach heblaw gwrando yn gwenu yn gymysg âg ambell i ddeigryn. Yna y mae yn cyrchu y *case* o'i logell ac yn rhoi y spectol yn ol yn daclus. Yntau yn myned rhagddo—y difrifwch yn cynyddu, a'r gwres yn codi, a'r gwreichion yn dechreu ehedeg o gwmpas. Y mae y dagrau yn dechreu treiglo dros rudd y pregethwr, a thyna gawod o ddagrau dros ruddiau y gwrandawyr. Y mae llais y pregethwr yn codi, a'r bobl yn annghofio eu seddau; y mae yntau yn dechreu gwaeddi, ac fel ei arfer, yn dechreu holi ac ateb; bloedd fawr drachefn, gan siarad eilwaith yn y cywair mwyaf toddedig a chartrefol; yna bloedd uwchlaw bloedd, a phawb erbyn hyn yn foddfa o ddagrau, yntau yn feistr y gynulleidfa, yn gallu gwneud fel y mynai. Dywedai y siriol a'r difyrus y diweddar Barch. R. Humphreys, Dyffryn, wrtho wedi dibenu, 'Buom yn gweddio yn siwr am i chwi gael tipyn o'i wyneb, ac yr wyf yn ddiolchgar am y fath oedfa. Tipyn o beth yw bod yn bregethwr mawr - y bobl yn tyru o bob cyfeiriad, a'r capel ar dori, a phawb â'u clustiau a'u gyddfau yn agored yn dysgwyl wrtho, ac feallai mai y *flat* lanaf erioed fyddai hi; a pheth chwerw iawn yw hyny.' Bu yn rhaid i ni bregethu yr hwyr wed'yn, ac arosodd yr holl bregethwyr o leiaf yno er mwyn yr oedfa. Bu hono yn oedfa dda iawn—llawn cystal a'r un o'r blaen. Yr oedd agos yn ei fan goreu bob tro; yr oeddwn inau yn falch a diolchgar iawn. Yr oedd yn codi ei ysbryd ac yn tynu allan y dymer oreu. Trefnwyd i ni i letya dan yr un gronglwyd a Mr. Humphreys a Mr. Morgans, Dyffryn; a rhwng Mr. Humphreys a fy ewythr, a Mr. Morgan yn troi pwyntiau y gyfeillach yn awr ac eilwaith, cawsom noswaith o ddifyrwch pur a santaidd, a chwerthin iachus a didwyll iawn—yn gwella corph a meddwl.

Ni fu dau erioed pellach oddiwrth bob ysgafndra gwâg, eto yn llawn o'r ffraethineb mwyaf difyr ac adeiladol—y cwbl wedi ei dymeru â halen, yn llawn synwyr da, ac yn peri gras i'r gwrandawyr. Bu y ddau frawd parchedig, ac ereill hefyd, yn gyfeillion i ni hyd y Dyffryn, a buom yno drachefn yn lletya dan gronglwyd y ddau frawd anwyl, a dangoswyd i ni y caredigrwydd mwyaf ag oedd yn ddichonadwy.

"Cawsom ein harwain yn gysurus rhag blaen tua sir Gaernarfon. Aethom drwy Leyn ac Eifionydd—tair oedfa gan amlaf—ac yntau yn dal yn rhagorol, yn cael ei loni beunydd â chynulleidfaoedd mawr iawn, a mwy na'r cwbl llawer o oedfeuon nerthol a boddhaol: pob arwydd o foddlonrwydd yr Arglwydd ar y daith, a bod ei weinidogaeth yn fendith i'r eglwysi ac i'r lluaws mawr oedd yn tyru i wrando. Dywedai lawer gwaith wrthyf am ddywediad y diweddar Jones, Llangan, 'Dyma oedfeuon y marco.' Fel y gŵr yn myned drwy y coed gan roddi marc ar y pren hwn a'r pren arall, ac mor sicr a bod y gŵr yn marco, fe ddaw yr adeg i dori i lawr bob un sydd â'r marc arno. Ac nid oedd dim yn gymaint ar ei feddwl a chael bod yn llaw ei Arglwydd yn fendith gadwedigol i eneidiau dynion. Dyma oedd goruwch ei lawenydd penaf,—gogoneddu gras Duw yn iachawdwriaeth pechaduriaid. Gallai ddyweyd fel yr Apostol, 'Nid wyf yn gwneuthur cyfrif o ddim, ac nid gwerthfawr genyf fy einioes fy hun, os gallaf orphen fy ngyrfa trwy lawenydd, a'r weinidogaeth a dderbyniais gan yr Arglwydd Iesu, i dystiolaethu efengyl gras Duw.' Byddai yn sicr o ddwy oedfa dda bob Sabboth, weithiau tair. Y mae yn gôf genyf am Sabboth yn sir Fôn, oedd i ddibenu yn Caergybi, ei fod yn troi ataf ar ddiwedd yr oedfa 10, gan ddywedyd, 'Rhy dda heddyw i bara, rhy dda heddyw i bara.' Ond trodd allan yn gamsyniad bendigedig: yr oedd yn nerthol am 2, a chafodd un o'i oedfeuon goreu yn Caergybi i gynulleidfa fawr iawn.

"Byddai yn disgyn i'w ran ef bob amser i gyflawni y gwasanaeth teuluaidd, gan fod ei gyfaill yn dechreu pob oedfa

yn y cyhoedd. Yr oedd yn *treat* ei glywed; a llawer gwaith y dywedai wrth ofyn am help i'r daith, 'Meddyliwn nad oedd dim fuasai yn ein codi mor belled oddi cartref ond dy Enw a'th Achos mawr, ac iachawdwriaeth eneidiau ein cyd-ddynion. Gâd i ni gael bod dan dy arweiniad a'th amddiffyn yn fendith dragywyddol i eneidiau dynion, ac na fydded dim ynom yn annheilwng o'th Enw mawr dithau.' Cawsom y fraint o letya noswaith gyda y diweddar Batriarch enwog o Amlwch, a mynai ddyfod yn arweinydd i ni dranoeth, ac yr oedd yn rhaid iddo gael dyfod ar draed. Braidd na thybiwn ei fod dipyn yn biniwnog, oblegyd gwrthodai geffyl gan ei fab, ac ni ddeuai i'r cerbyd ar un cyfrif atom ninau, gan amcanu cerdded o'n blaen. Trodd allan y gwlaw mwyaf a ddaeth o'r wybr, a phenderfynodd fy ewythr a minau ei berswadio i ddychwelyd, oblegyd gwelem ei fod yn ffaelu; a chyda thipyn o daerineb ildiodd i wneud felly; a chan godi ei law i fyny a'i phlygu, dywedai, 'Nid o esgeulusdra, yn siwr i chwi, nid o esgeulusdra y mae hyn, ond methu yr wyf.' Atebai Mr. Evans, a'r dagrau ar ei ruddiau, 'Ni wyddom hyn, frawd anwyl.' Atebai Mr. Roberts drachefn, 'Nid wyf yn dysgwyl eich gweled mwy tu yma i'r afon; tangnefedd i chwi; yr Arglwydd fyddo gyda chwi.' 'Amen, amen,' meddai Mr. Evans, a'r ddau yn foddfa o ddagrau, gan ysgwyd dwylaw ac ymadael. Yn wir, yr oedd yno borth y nefoedd—dwy galon fawr, santaidd, wedi tori un ar draws y llall.

"Wrth ymadael â'r Ynys cawsom oedfa rhagorol yn y Bont, ac yna yr oeddem yn croesi y Bont am y Graig. Yr oedd yn Sabboth braf iawn, yr haul yn tywynu yn hyfryd. Canlynid ni gan luaws mawr o ochr Môn, a chyda ein bod dros y Bont dyma bobl Bangor yn dyrfaoedd yn troi allan i'n cyfarfod nes yr oedd yr heol fawr yn llawn ar ei hyd o bobl, a ninau yn ceisio gyru drwy y dyrfa. Meddai, 'I ba le y mae y bobl yn ceisio myned? Y mae nhw yn siwr o gael eu siomi.' Ceisiwn inau gynal ei feddwl i fyny goreu y gallwn: Chwi bregethwch yr efengyl iddynt, a dyna'r cwbl sydd yn eisiau;' 'Ie, ie, ie,'

meddai yntau, 'ni wnawn hyny beth bynag.' Yr oedd y capel wedi ei orlenwi. Yr wyf yn meddwl taw dyma yr oedfa oreu ar y daith. Y testyn oedd 'cyrchu at y nod am y gamp, uchel alwedigaeth Duw yn Nghrist Iesu.' Er fy mod wedi ei glywed amryw weithiau ar y testyn yna, eto, dyma dair brawddeg newydd nad oeddwn wedi eu clywed unwaith o'r blaen; meddai, 'Y mae'r apostol yma yn dyweyd ei olygiad mewn barn, a'i brofiad mewn teimlad, a'i egni mewn gweithrediad. Nid y cyntaf heb yr ail, na'r cyntaf a'r ail heb y trydydd. Y tri yw gwir grefydd. Barn a phrofiad yn cynyrchu gweithrediad, a gweithrediad yn gloywi y farn, gan chwanegu nerth a phrofiad.' Yna aeth i gyfrif. 'Yr wyf yn cyfrif.' 'Rhyw fympwy, rhywbeth wedi taraw yn dy ben di.' 'Nage fawr—yr wyf yn cyfrif.' Dyn wedi bod yn *cyfrif* sydd yma! Yna gofynai i'r bobl 'os oeddent wedi bod yn *cyfrif*. Cymerai wedd o arafwch a llymder ofnadwy o'r cychwyn. Dyna efe yn ymaflyd yn y llyfr hymnau, gan wneud *slate* o hono â'i spectol yn lle *pencil*, gan ddechreu cyfrif, un golofn ar gyfer y llall. Gwrthod Crist, a derbyn Crist. Y naill yn troi allan yn dom ac yn golled, ac ardderchawgrwydd gwybodaeth Crist Iesu yr Arglwydd yn elw mawr, ac yn elw tragywyddol. Gwasgai yn ofnadwy ar yr annuwiol i ddyfod i gyfrif. Yr oedd llymder ei olwg yn ofnadwy, yn peri dychryn ar bob calon, a phob gwyneb yn gwelwi. Yr oedd ei lygad fel y fflam dân, a llinellau ei wynebpryd yn ein dychrynu. Aeth yn ei flaen at ei destyn. Daliai hyd y diwedd y ddwy ochr ar gyfer eu gilydd. Pawb wedi starto, a phob un ar ei gwrs, a phob un yn rhedeg, a phob un a'i nod, a phob un a'i ddiwedd, a phob un yn rhwym o fyned rhagddo tua'r terfyn, cyflymdra amser, &c.; ac yntau erbyn hyn yn dechreu gweiddi, ac yn dechreu toddi. Gweiddai, 'O bobl, ar ba gwrs yr y'ch chwi yn rhedeg? O bobl anwyl, i b'le yr ydym ni yn myned, ie, i b'le, i b'le yr y'm ni yn myned?' Yna dyna efe yn dyrchafu ei olwg i fyny, a'i wyneb wedi llarieiddio, a chan godi ei law a dyrchafu ei lef, a gofyn, 'O fy Arglwydd, i

b'le, i b'le y'm ni yn myned?' A phawb yn crymu gan ddychryn, a'r dagrau yn llifo dros eu gruddiau. Yr wyf yn meddwl na welais erioed gynifer o ddynion ieuanc golygus wedi eu gorchfygu mor fawr, heb neb yn gweiddi allan. Oedfa ryfeddol! Ond ni bu yr oedfa y nos yn Bangor mor nerthol: cynulleidfa fawr iawn, ond bu raid boddloni ar 'ddyweyd y gwir yn sobr a chydwybodol' fel y dywedai, ac meddai, 'Y mae hyny yn gorphwys llawn mor esmwyth ar y glustog wedi gorphen y diwrnod, a'r oedfa fwyaf hwyliog a nerthol.'

"Gorphwys bore dranoeth gyda'r dyn tál, caredig, cyfeillgar, ac urddasol o Fangor, y Parch. J. Phillips. Yr oedd ei gymdeithas yn bob peth ellid ei ddymuno, nes yr oedd braidd yn chwith fod yn rhaid ei thori i fyny mor fuan, i fyned i'r daith y prydnawn, erbyn 2 i'r Gatehouse. Oedfa gysurus heb ddim neillduol. Ond ar y diwedd dyma fedydd; a chyda ei fod yn dechreu dyma'r nefoedd fawr yn tywallt am ei ben. Yr oedd prydferthwch neillduol yn arfer bod arno yn bedyddio babanod, ac yr oedd y tro hwn gyda'r goreu yn ei fywyd. Yr oedd rhywbeth fel wedi disgyn ar y baban. Dyna ef yn gwenu mor gartrefol yn ei fraich, ac yn codi ei ddwylaw bychain, gan ymdrafod mor naturiol â gwddf a chadach gwddf Mr. Evans. Yntau yn canmol Bugail Israel, gan rhoddi bloedd, 'O Fugail Israel'; yna yn canmol y Bugail, a'r bobl yn gwenu ac yn wylo yn hidl. Bloedd fawr eilwaith, 'O Fugail Israel,' yn y cywair mwyaf nefolaidd, â'i wynebpryd fel llen wen,—'fel gwyneb angel.' Canmol y Bugail eilwaith, ei fod 'yn coleddu y mamogiaid, ond yn dwyn yr wyn yn ei freichiau, yn ei fynwes, O Fugail Israel! Y mae yn ceisio y darfedig, yn dilyn ei chrwydriadau drwy'r anialwch i'r mynyddoedd a'r pellderau hyd onis caffo, gan ei dwyn hi adre' ar ei ysgwyddau ei hun yn llawen, O Fugail Israel!' Fel yna yr aeth rhagddo am wyth neu ddeg o weithiau, a phan dybiwn ei fod yn dibenu dyna ef yn dechreu brawddeg newydd, 'O bobl! dan y fugeiliaeth! O rhieni plant,

megwch hwynt dan y fugeiliaeth! O bobl ieuainc, dan y fugeiliaeth! Fe'ch harwain drwy anialwch dyrus bywyd; y mae yn arwain Joseph fel praidd. Dan y fugeiliaeth! Efe a wna iddo orwedd mewn porfeydd gwelltog: efe a'i tywys gerllaw y dyfroedd tawel: efe a ddychwel ei enaid: efe a'i harwain ar hyd lwybrau cyfiawnder er mwyn ei enw. O bobl! dan y fugeiliaeth! Ie, pe rhodiwn ar hyd glyn cysgod angeu, nid ofnwn niwed: canys yr wyt ti gyda mi; dy wialen a'th ffon a'm cysurant. O'r Bugail da; y Bugail da sydd yn rhoddi ei einioes dros y defaid. Fe fentrodd Dafydd ei fywyd, fe laddodd y llew a'r arth, ac a achubodd yr oenig; ac y mae ambell i fugail wedi *colli* ei fywyd yn ei ymchwil ar ol y defaid; ond nid mentro na cholli sydd yma: beth sydd yma? *Rhoddi*, RHODDI, sydd yma, yn rhoddi ei einioes dros y defaid. O bobl anwyl, dan y fugeiliaeth!' Yr oedd yn taflu ei fraich i fyny, ac yn ymgolli mor llwyr yn y Bugail mawr, nes yr oeddwn yn ofni rag iddo daflu ei ddwy fraich i fyny a gollwng y baban i'r llawr yn ddiarwybod iddo. Ond dywedai wrthyf yn ol llaw nad oedd dim perygl, ei fod yn berffaith ymwybodol fod y baban yn ei fraich drwy y cyfan. Byddai yn aml yn llawn o'r Ysbryd Glan, a'r Ysbryd yn rhoddi iddo yn yr awr hono pa beth i'w lefaru. Yr oedd yr ysbrydoliaeth yn cyraedd y geiriau llawn cystal a'r meddyliau. Yr oedd ei faterion yn cymeryd y drefn fwyaf dewisol, a'r brawddegau yn olynu eu gilydd yn y modd mwyaf manteisiol, a'i eiriau yn dryloyw a mynegiadol *(expressive)*. Y meddyliau yn fyw yn mhob brawddeg, a phob gair fel *glass* gloyw. Gellid cymwyso atynt eiriau ein Harglwydd, 'Fy ngeiriau i, ysbryd ydynt, a bywyd ydynt.' Y cwbl yn ymgodi at ei wasanaeth, ac yn ymffurfio yn naturiol ar y fomeut. Y goruwch-naturiol mor effeithiol, nes gwneud pob peth yn berffeithrwydd naturiol. Neu mewn geiriau ereill, y goruwch-naturiol yn codi ei athrylith naturiol i'w pherffeithrwydd eithaf; ac uwchlaw yr hyn fuasai yn bosibl iddi gyraedd, oni bai am ddylanwad *(inspirition)* yr Ysbryd Glan.

"Aethom rhag blaen nes cyraedd Jerusalem, Bethesda, lle yr oedd ein taith megys yn dibenu. Daeth lluaws mawr o Fangor a'r lleoedd o amgylch yno i ffarwelio â ni, ac i'w longyfarch am daith mor gysurus a llwyddianus, a chan fawr ewyllysio ei weled a'i glywed eto. Ni fynai neb ffarwelio âg ef megys heb obaith. 'Brysiwch yma eto' oedd hyder a deisyfiad pob calon, yn gystal a diwedd-sain pob gwefus. Ond o ganol cymaint o wres ac ymlyniad calon yr oedd yn dda iawn genym gael ein traed yn rhydd i droi ein golwg tua chartref boreu dranoeth. Yn foreu iawn yr oedd ar ei draed ac wrth ei fodd yn hyfryd yn canu '*Home, home, sweet, sweet home.*' Aethom oddiyno i Lanrwst, ac oddiyno i'r Bala, lle y buom am fwy na haner noswaith yn nghwmni croesawgar y ddau athraw parchedig ac anwyl, yn gystal ag amryw ereill o frodyr anrhydeddus a dewisol. Diolchai y Dr. Edwards yn fawr iddo am bregeth mor flasus a iachus a hen wirioneddau mawrion trefn gras i gadw pechadur; a bu yno ymddyddan buddiol a blasus iawn am ddyfnion bethau Duw. Dywedai Dr. Edwards mai 'arwydd o fychander meddwl oedd ceisio gwneud *system* o'r efengyl. Yr oedd pob meddyliwr dwfn yn teimlo fod dyfnder gwirionedd yn rhy ddwfn iddo allu ei blymio na'i gysoni.' Aethom o'r Bala i Ddinas Mawddwy, ac oddiyno i Garno, Llanidloes, Builth, Aberhonddu, ac oddiyno i Donyrefail. Cawsom ddychwelyd yn iach a chysurus, a chawsom y ddau deulu felly hefyd, yn ein derbyn gyda llawenydd annhraethadwy a diolchgar."

Y mae coffadwriaeth y cyfaill, yr hwn a ysgrifenodd yr adgofion uchod, yn fendigedig; ac nis gallwn fyned heibio heb wneuthur ychydig o grybwylliad am dano. Magwyd ef yn ardal Tonyrefail. Yr oedd o'i febyd o dueddiadau crefyddol, a thyfodd i fyny yn ŵr ieuanc a berchid yn fawr ar gyfrif ei gymeriad rhagorol. Wedi iddo ddechreu pregethu, tua'r flwyddyn 1851, aeth am ychydig amser i ysgol y diweddar Dr. Evan Davies, Abertawy. Derbyniwyd ef yn

aelod o'r Gymdeithasfa yn 1856; ac yn Nghymdeithasfa Pontfaen, 1857, neillduwyd ef i gyflawn waith y weinidogaeth; ac yn yr un flwyddyn ymsefydlodd yn Mhenclawdd, fel bugail yr eglwysi yno a Gwernffrwd, lle yr arosodd am tua thair blynedd; ac y mae adgof parchus a charuaidd am ei lafur a'i ffyddlondeb hyd y dydd hwn. Yn y flwyddyn 1860 symudodd i fyw yn Mhencoed, ac yno y treuliodd y gweddill o'i oes. Bu farw Medi yr 16eg, 1882, yn 56 mlwydd oed. Am yr 16 mlynedd diweddaf o'i fywyd dyoddefodd nychdod mawr, a ddaeth arno trwy iddo gael gwely llaith pan oddi-cartref. Gwelsom ef lawer o weithiau yn ystod ei faith gystudd, ac yr oeddym yn ei gael bob amser yn hynod amyneddgar. Yr oedd yn aml yn siomedigaeth iddo ei fod yn analluog i gyflawni ei hoff orchwyl o bregethu. Meddai gymwysderau amlwg i'r gwaith mawr. Yr oedd ei ysbryd yn llawn o naws yr efengyl. Meddai ddynoliaeth dda, a synwyr cyffredin cryf; ac yr oedd yn bleserwaith ganddo i fyfyrio ac ymboeni yn y gair a'r athrawiaeth. Diameu y buasai cwrs o addysg athrofaol yn fantais o'r mwyaf iddo: ond fel ag yr ydoedd, yr oedd Mr. Williams yn bregethwr meddylgar, buddiol, a thra chymeradwy gan yr holl gynulleidfaoedd. Yr oedd hefyd yn areithiwr dirwestol rhagorol ac effeithiol. Meddai yn helaethach na llawer y ddawn bwysig o allu ymwneud â dynion; yr oedd yn garuaidd ac agos, heb fod yn ormodol felly, yn naturiol a boneddigaidd ei ffordd. Ac uwchlaw'r cwbl, yr oedd yn berchen crefydd ddiameuol; yr oedd yn Gristion gloew a chyflawn. Ac yr oedd yr holl ragoriaethau hyn yn gymorth iddo i ymgynal yn ei nychdod hirfaith. Fel prawf pellach o'i deilyngdod ac o'r lle uchel ag oedd iddo yn meddyliau ei frodyr a'i gyfeillion, ac eglwysi Morganwg yn gyffredinol, bu yn wrthddrych llawer o gymwynasgarwch drwy holl amser ei gystudd. Wedi ei farwolaeth, dygwyddodd Mr. Evans gyfarfod â'i nai, Mr. Thomas Williams, brawd i Mr. Watkin Williams, ac yn naturiol aethant i ymddyddan am eu perthynas ymadawedig. Amlygai

y nai ei syndod at y mawr garedigrwydd a dderbyniasai ei frawd o gynifer o gyfeiriadau ac am amser mor faith. Cydsyniai Mr. Evans, eithr yn y fan, gyda'i fywiogrwydd arferol, dywedodd, "Ond mi ddywedaf i chwi beth, nid oedd yn ei gael heb ei haeddu."

Ar ol dychweliad Mr. Evans o'r daith uchod ymgadwodd o fewn terfynau Morganwg hyd ddiwedd y flwyddyn, gyda'r eithriad o'i waith yn myned i Gyfarfod Misol Mynwy, yn Manmoel, ar yr 11eg a'r 12fed o Ragfyr, lle y pregethodd ddwywaith; ac mewn cysylltiad â hyny rhoddodd oedfeuon hefyd yn Mhenycae, Tredegar, a Rhymni.

# PENOD X.

## 1856—1868.

CYNWYSIAD.

Yn ymneillduo i raddau o'r Cymdeithasfaoedd—Ei lafur yn gyfyngedig i Morganwg—Cymdeithasfa Caerdydd, 1856—Y Cyngor a barotodd ar gyfer y neillduad yn Nghymdeithasfa Brynmawr—Agoriad capel y Docks, Caerdydd—Agoriad capel Canton a chapeli ereill yn 1857—Cymdeithasfaoedd Tredegar a Hwlffordd, 1858—Agoriad capel cyntaf Ystradyfodwg—Claddedigaethau Mr. Thomas Morgan, Caerdydd, a Mr. David Roberts, PontfaenC—ymdeithasfa Llangors yn 1859; yn rhoddi y Cyngor—Cymanfa Liverpool y Sulgwyn, a Chymdeithasfa Dinbych, 1859; adgofion y Parch. Thomas Levi—Agoriad capel Llandaf—Amrywiol grybwyllion, 1860–62—Cynadledd Caerfyrddin yn achos Trevecca, 1863—Cymdeithasfa Llanilltyd Fawr, 1863—Agoriad capel newydd Tonyrefail, 1864, ac amrywiol gapeli ereill—Ail briodas Mr. Evans, 1865—Yn y Cyfarfod Dosbarth—Mr. John Morgan, Gwernymoel—Helaethiad yr achos yn Nghwm Rhondda—Yn Llywydd Cymdeithasfa y Deheudir, 1867–68—Amrywiol adgofion—Cyflwyniad ei Ddarlun iddo; hanes y cyfarfod.

ER fod Mr. Evans bellach yr ochr chwith i drigain oed, y mae yn dal yn mlaen i lafurio gyda chysondeb ac yn egniol gyda gwaith yr Arglwydd, ond o hyn allan agos yn gwbl o fewn cylch ei sir ei hun. Y mae wedi gwneuthur ei daith bregethwrol olaf; dim ond unwaith ar ol hyn yr ymwelodd â Gogledd Cymru. Y mae hefyd yn rhoddi fyny dilyn y Cymdeithasfaoedd fel yr arferasai wneud. Ond nid yw yn rhoddi heibio gweithio yn ngwinllan ei Arglwydd. Mae y côf-lyfr yn dangos ei fod yn dyfalbarhau yn ffyddlawn, ac yn rhoddi cwbl ddiwydrwydd mewn llafur yn achos yr efengyl. Y mae maes ei lafur yn fwy cyfyng, ond fe ddichon nad yw oblegyd hyny yn llai defnyddiol, eithr yn hytrach i'r gwrthwyneb; canys yr ydym yn cael ei gysylltiad â chynydd

y Cyfundeb y perthynai iddo yn dyfod yn fwy i'r amlwg, yn neillduol yn mhen dwyreiniol Morganwg. Yr oedd Cyfarfod Misol y sir yn cael ei gynal yn Nhonyrefail ar y dyddiau olaf o Ionawr, 1856. Fel hyn yr oedd trefn y moddion cyhoeddus: Am 6, y nos gyntaf, Mr. David Anthony a Mr. Edward Matthews; yr ail ddydd, am 10, Mr. John James a Mr. David Howell; am 2, Mr. Thomas Levi a Mr. Evan Williams; ac am 6, Mr. Daniel Lewis a Mr. Edward Matthews. Dydd Llun, y 4ydd o Chwefror, ar ol bod yn Nghastellnedd y dydd blaenorol, yr oedd yn y Taibach—"*society* yn achos George Heycock." Yr oedd y gŵr hwn yn flaenor eglwysig, ac yn tynu yn mlaen mewn dyddiau; ond yr oedd yn awyddus am gael pregethu. Barnodd y Cyfarfod Misol yn addas i ddanfon dau o weinidogion hynaf y sir i ymddyddan âg ef yn ngwydd yr eglwys; ac yn naturiol disgynodd y gorchwyl ar Mr. David Howell a Mr. William Evans. Y cyntaf i holi George Heycock oedd Mr. Howell. Fel y mae yn hysbys yr oedd yr hen weinidog anwyl a pharchedig o Abertawy yn dra hyddysg yn hanesiaeth yr Hen Destament, ac yn ol fel y clywsom gofynodd rai cwestiynau i'r ymgeisydd ar y maes hwnw; ond nid oedd George Heycock yn gallu ateb, a throdd i ofyn cwestiynau i Mr. Howell; eithr cyn iddo gael amser i ofyn ei gwestiwn cyntaf, dywedodd Mr. Evans, "Na, na, ein tro ni sydd i holi heno."

Dydd Mercher, y 13eg o'r un mis, yr ydym yn cael Mr. Evans yn Nghaerdydd "yn achos yr *Association*," sef yn cynorthwyo y cyfeillion i wneuthur y trefniadau angenrheidiol ar gyfer y Gymdeithasfa oedd i'w chynal yno y mis canlynol—y 19eg, yr 20fed, a'r 21ain o Fawrth. Dyma'r Gymdeithasfa gyntaf i ni fod yn bresenol ynddi, ac y mae genym adgof byw am dani. Am 3, y prydnawn cyntaf, ar y maes, pregethodd Mr. David Charles, Trefecca, a Mr. Henry Rees; am 10, dydd Gwener y Groglith, Mr. William Howells, Caerfyrddin (yn Saesneg), a Mr. Henry Rees; am 2, Mr. David Morgan, Trallwm, a Mr. William Morris, Rhuddlan; am 6 y

bore, yn Nghapel Seion, Mr. Thomas Jones, y Cenadwr, a Mr. Thomas Phillips, Henffordd; ac am 6 yr hwyr, Mr. John Jones, Llambedr, a Dr. John Harries Jones. Nid oes yr un o'r gweinidogion hyn yn aros. Llywydd y Gymdeithasfa ydoedd Mr.—wedi hyny Dr.—Phillips, ac yr oedd yn llanw y gadair gyda'i urddas a'i ddeheurwydd arferol. Y peth a dynodd ein sylw fwyaf yn ngweithrediadau y cyfarfodydd neillduol ydoedd yr hysbysiad fod Athrofa Trefecca wedi ei derbyn i undeb â Phrifysgol Llundain, fel sefydliad ag y gellid graddio o hono; derbyniwyd yr hysbysiad gyda chymeradwyaeth mawr. Nis gallodd Mr. Evans gyraedd i'r Gymdeithasfa hyd yn ddiweddar dydd Iau yr 20fed. Yr oedd yn pregethu mewn angladd ar Donyrefail dydd Mercher, y 19eg, ac yn cyflawni gwasanaeth cyffelyb yn Mhontypridd ganol dydd Iau. Gan ei fod yn myned i un o deithiau y Fro y Sabboth canlynol, arosodd gyda ni yn Nghaerdydd dros ddydd Sadwrn yn nghwmni Mr. David Roberts, Pontfaen; ac yr oeddynt yn ddedwydd a difyr iawn gyda'u gilydd. Wrth fyned at y *train* prydnawn dydd Sadwrn cafodd gyfle i ymddyddan â phregethwr ieuanc ag oedd wedi ei wrandaw yn y Gymdeithasfa, ac ar yr hwn yr edrychid fel un o obeithion y Cyfundeb Methodistaidd, ac ar ol dyweyd ychydig eiriau o gefnogaeth rhoddodd iddo y cyngor, "Malwch eich pethau yn dda cyn eu dyweyd." Yr ydym yn ei gael mewn cyfarfod pregethu yn Mhenmarc yn mis Ebrill, ac mewn dau gyfarfod cyffelyb yn Mhencoed a'r Panttywyll, Merthyr, yn Mai, ac yn Ngharno, Rhymni, yn Mehefin. Ar y 7fed o Gorphenaf yr oedd yn Nghaerdydd "yn achos capel Canton." Methodd "gan lesgedd" i fyned i "agor capel Mountain Ash," sef y capel bach cyntaf yno, y 14eg o'r mis hwnw. Penodasid ef i roddi y Cyngor i'r brodyr oedd i'w neillduo yn Nghymdeithasfa Brynmawr, Mynwy, ar yr 2il o Hydref, eithr oherwydd cystudd yn y teulu yr oedd yn analluog i fod yn bresenol; ond yr oedd efe wedi parotoi y Cyngor er mis Awst, ac yr ydym yn ei ddodi i mewn yma.

2 TIM. II. 15.

1. Mae wedi disgyn i'm rhan i ar yr amgylchiad pwysig hwn o neillduo ein brodyr yn gyflawn i waith y weinidogaeth, i roddi gair o gyngor. Er ys ychydig yn ol, pan yr oedd y gorchwyl hwn wedi ei roddi arnaf, yr oedd gwylder ieuenctyd yn fynydd mawr ar fy ffordd ; ond erbyn heddyw dyma fethiant henaint yn myned yn fynydd mawr drachefn, fel mae yn rhydd i mi ddywedyd,—dros fynyddau, yn erbyn rhwystrau, mae fy ychydig wasanaeth i wedi bod hyd yma, pe b'ai yn werth ei alw yn wasanaeth hefyd.

2. Mae dirfawr berygl rhag ymesgusodi dan ryw deimladau felly i roddi achlysur i esgeulusdra a diffrwythdod, a pheidio gwneud ein goreu yn y cylch yr ydym wedi ein rhoddi ynddo. 2 Pedr i. 14, 15. Mae mawr angen deuparth o ysbryd Pedr yn ei ddyddiau diweddaf arnaf, bid a fyno ; ac mi wnaf finau fy ngoreu hefyd ar allu o honoch bob amser, ar ol fy ymadawiad i, wneuthur coffa am y pethau hyn.

3. Y testyn gaiff fod yn sylfaen i'r ychydig gyngorion a roddaf yn bresenol yw cyngor Paul i Timotheus :—"Bydd ddyfal i'th osod dy hun yn brofedig gan Dduw, yn weithiwr difefl, yn iawn gyfranu gair y gwirionedd."

I. Dy hun, dy hun, nid arall, mewn modd arbenig dy hun ; nid wyt yn rhwym am neb arall, nac yn gyfrifol dros arall— "Pob un drosto ei hun a rydd gyfrif i Dduw." Rhuf. xiv. 12., Act. xx. 28., Gal. vi. 4.

II. Gosod dy hun yn brofedig gan Dduw. Pwysa dy hun yn nghlorian y gair. Mesura dy hun wrth fesur y cysegr, er gwybod beth yw meddwl Duw am danat, a wyt o ran dy gyflwr yn gymeradwy, o ran dy egwyddor yn gywir, o ran dy ddybenion yn onest, o ran dy ymdrechion yn ffyddlon. Na fyddwch ysol gymaint i wybod beth mae dynion yn ei ddyweyd am danoch, ond mynwch wybod beth mae Duw yn ei ddywedyd—beth mae eich Arglwydd a'ch Meistr yn ei ddywedyd am danoch. "Eithr genyf fi, bychan iawn yw fy marnu genych chwi, neu gan farn dyn ; eithr yr Arglwydd yw yr Hwn sydd yn fy marnu." 1 Cor. iv. 3, 4.

III. Bydd ddyfal i hyn yma. *Study*, myfyria, ystyria, er gwneud dy gwbl yn gymeradwy gan Dduw. Bod wrthi yn hwyr a bore, er rhyngu bodd Duw a llesoli eneidiau. "Am hyny hefyd yr ydym yn ymorchestu, pa un bynag a'i cartref y byddom ai oddi cartref, ein bod yn gymeradwy ganddo Ef." 2 Cor. v. 9.

IV. Yn weithiwr difefl, yn iawn gyfranu gair y gwirionedd. Gweithwyr mae Duw yn eu cyflogi i'w winllan, ac nid segurwyr. Mat. xx. 1., Salm civ. 23. "Fy mab, dos, gweithia heddyw yn fy ngwinllan." Dos, paid ymdroi. Gweithia heddyw, yn dy ddydd—y dydd i gyd, o'r bore hyd yr hwyr. Preg. xi. 6. Yn fy ngwinllan, sef yn fy eglwys. "Ac a esyd y winllan i lafurwyr,"—i lafurwyr, nid i segurwyr; i weithwyr y mae Duw yn rhoddi gofal ei deyrnas bob amser, cydweithwyr Duw eu gelwir. Mat. xxi. 41., 2 Cor. vi. 4., 1 Cor. iii. 9.

"Difefl," diachos cywilyddio. 1. O ran y pethau, sef gwirioneddau Duw at ddynion yn ol yr Ysgrythyrau, heb ddywedyd dim amgen nag a ddywedasai Moses a'r prophwydi y delent i ben, medd Paul o flaen y llys. Act. xxvi. 22. 2. Diachos cywilyddio o ran iaith ac ymadrodd—nid geiriau mawrion a chwyddedig, ond ymadroddion plaen a chryfion at ddealldwriaeth a chydwybodau dynion. Nid oes dim yn deilyngach o iaith ac ymadrodd glanwedd na'r efengyl. Preg. xii. 10. "Ymadrodd iachus." Tit. ii. 8. 3. Diachos cywilyddio o ran dyben—y dyben yn ddigon uchel wrth gyfansoddi ein cyngor ac wrth wisgo y cyngor â dillad gweddus ymadroddion iachus; gwaith fe fydd yr oll heb ei anrhydedd penaf os na fydd y dyben yn yr oll yn ogoneddu Duw a llesoli eneidiau. Y cryfder goreu a all pregethwr ei gario yn ei fynwes yw, fod ei ddyben yn yr oll yn onest. Yn hyn yr oedd nerth mab Jesse er atal digter a chamgyhuddiad Eliab, ei frawd hynaf, ac ereill yn wir. 1 Sam. xvii. 28, 29. 4. Diachos cywilyddio mewn ffyddlondeb a gwir ddefnyddio y dalent a dderbyniwyd, yn ol y lle a'r amgylchiad mae rhagluniaeth yn ei ganiatau. Mae bod yn ffyddlon yn fwy ei wobr na bod yn ddoniol. Mat. xx. 21.

"Yn iawn gyfranu gair y gwirionedd." Gwirionedd, gair y gwirionedd, iawn gyfranu gair y gwirionedd. Gwirionedd mewn gair, mewn ymadrodd, yw yr holl Ysgrythyr. Y gair sydd i'w bregethu, nid ystoriau. Yr oll, sef holl wirioneddau y gair, holl athrawiaeth yr Ysgrythyrau. Y gwirionedd fel y mae yn yr Iesu. 2 Tim. iv. 2., 2 Cor. vi. 7., Act. xx. 27. "Yn iawn gyfranu gair y gwirionedd." Dywedir fod yma gyfeiriad at yr offeiriaid neu y Lefiaid Iuddewig yn tori neu yn darnio yr aberth, ac yn iawn ddosbarthu y rhanau; peth ar yr allor i Dduw, a pheth i'r bobl oedd i gyfranogi o'r aberth. Neu at yr aradwr yn dosbarthu y cwysau yn iawn, ac yn cadw y rhychau yn uniawn. Neu at oruchwyliwr mewn teulu yn dosbarthu i bob un o'r teulu ei waith a'i ymborth, yn gyfatebol i'w oed, ei allu, a'i angen. Felly mae i bregethwyr iawn gyfranu i bob un yn ol ei gyflwr, ei sefyllfa, a'i amgylchiadau, wirioneddau yr Ysgrythyrau. "Mewn addfwynder yn dysgu y rhai gwrthwynebus." 2 Tim. ii. 25. "Anog gyda phob hir-ymaros ac athrawiaeth." 2 Tim. iv. 2. "Cyngori henafgwyr megys tadau, a'r rhai ieuainc megys brodyr." 1 Tim. v. 1. Y rhai sydd yn pechu, hyny yw, yn pechu yn warthus, a phrawf anwadadwy o hyny, cerydda y cyfryw yn llym yn ngwydd pawb, fel y byddo ofn ar y lleill. 1 Tim. v. 20. "Gorchymyn y rhai sydd oludog yn y byd yma, na byddont uchel feddwl." 1 Tim. vi. 17—19. "Cadarnhewch y dwylaw llesg, a chryfhewch y gliniau gweiniaid." Esai. xxxv. 3, 4. "Rhybuddiwch y rhai afreolus, dyddenwch y rhai gwan eu meddwl, cynaliwch y gweiniaid, byddwch ymarhous wrth bawb." 1 Thes. v. 14. "Cedwch bob peth ar a orchymynais i chwi," medd Crist. "Ac wele yr ydwyf fi gyda chwi bob amser hyd ddiwedd y byd. Amen." Mat. xxviii. 20.

Er i Mr. Evans fethu a myned i'r Brynmawr, gallodd fyned i'w gyhoeddiad yn Ystradgynlais y Sul canlynol, ac aeth i Lwynbrwydrau y Sabboth ar ol hyny, ac yna dydd Llun y 13eg i gyfarfod pregethu yn Llansawel. Y dyddiau Mercher

a Iau dilynol yr oedd yn bresenol yn agoriad capel y Docks, Caerdydd. Y nos gyntaf pregethodd Mr.—yn awr Dr.—David Saunders a Mr. Evan Harries; yr ail ddydd, am 10, Mr. David Phillips a Mr. William Evans; am 2, Mr. Wm. Williams a Mr. David Roberts; ac am 6, Mr. Watkin Williams a Mr. John James. Yr oedd yn gyfarfod rhagorol drwyddo, ac y mae genym gôf da am yr oedfa ddedwydd a gafodd Mr. Evans. Y Sabboth cyntaf yn mis Tachwedd yr oedd yn Mhenycae, sir Fynwy; ar yr 20fed pregethodd ddwy waith yn agoriad capel newydd Llysyfronydd; ac yn ystod yr wythnos olaf o'r mis bu mewn dau gyfarfod pregethu yn y Graig (Pontypridd) a Merthyr Tydfil; ac hefyd mewn cyfarfod eglwysig ar achos neillduol yn Bristol. Dydd Nadolig, ar ol pregethu yn y blygain ar Donyrefail, pregethodd y prydnawn a'r hwyr yn agoriad capel y Cymar (Porth).

Nid oedd Mr. Evans yn bresenol yn nghyfarfod blynyddol y Pil ar y dydd olaf o 1856, nac ychwaith yn agoriad capel Canton, Caerdydd, ar y 1af a'r 2il o Ionawr, 1857. Gan ein bod gartref o'r ysgol yn adeg y gwyliau, ni a gawsom y cyfarfod agoriadol hwn ar ei hyd. Yr oedd Mr. William Howells, y pryd hwnw o Gaerfyrddin, ar ol hyny Llywydd Athrofa Trefecca, yn pregethu y nos gyntaf; ac am 2 yr ail ddiwrnod, a hyny yn odidog iawn. Ar y 15fed o Ionawr yr oedd Mr. Evans yn Hirwaen, "Agoriad capel newydd;" ac ar y 16eg a'r 17eg o Fawrth yn Nghwmnedd, yn "agor capel newydd." Dydd Llun, y 27ain o Ebrill, am 2, yn Llantrisant: "Angladd mab E. David, y cyntaf a gladdwyd yn y fynwent newydd." Fel y gallesid dysgwyl, yr oedd yn bresenol yn Nghymdeithasfa Pontfaen yn nechre mis Awst, a dyma yr unig Gymdeithasfa y bu ynddi y flwyddyn hono. Bu yn areithio ar Ddirwest ddwy noswaith, sef yr 8fed a'r 9fed o Fedi, yn Aberdâr. Dydd Gwener, yr 11eg o'r mis hwnw, yr oedd yn Ystradyfodwg am 3 y prydnawn yn "edrych am le capel," y capel Methodistaidd cyntaf i'w godi yn y plwyf hwnw sydd bellach mor boblog ac yn cynwys nifer mawr o leoedd addoli

yn perthyn i'r gwahanol enwadau crefyddol. Dyddiau Llun a Mawrth, yr 21ain a'r 22ain, yr oedd yn pregethu ddwywaith yn nghyfarfod blynyddol cyntaf Canton; ac yr ydym yn ei gael mewn dau gyfarfod cyffelyb yn Hydref, sef yn Margam a St. Ffagan, a'r mis dilynol yn Ninaspowys. Terfynodd y flwyddyn 1857 a dechreuodd y flwyddyn 1858 yn Nghyfarfod Misol y Pil, gan bregethu yno am 10 yr ail ddydd, sef y 1af o Ionawr, ac yn Mhenybont yn yr hwyr. Aeth i gyfarfod yn y Babell, Abertawy, ar yr 11eg a'r 12fed; ac ar y 26ain a'r 27ain yr oedd yn Nghyfarfod Misol Mynwy a gynelid yn Nghasnewydd, a phregethodd ddwywaith. Oddiyno aeth i Nantyglo, Brynmawr, Penycae, a nos Sadwrn y 30ain i'r Cendl—"Dirwest No. 30," lle yr oedd i fod y Sabboth dilynol. Yr oedd yn nghyfarfod blynyddol Bethania, Aberdâr, dydd Gwener Croglith, ac yn nghyfarfod blynyddol Salem, Pencoed, dydd Mawrth y Pasg. Ar y 12fed o Fai pregethodd ddwywaith yn agoriad capel presenol Mountain Ash, ond y pryd hwnw heb oriel; ac yr oedd yno drachefn pan yr ail-agorwyd ef ar ol gosod oriel ynddo. Y Sulgwyn aeth i gymanfa flynyddol Bristol. Ar y dyddiau cyntaf o Fehefin yr oedd yn bresenol yn Nghymdeithasfa Tredegar, ac yn pregethu am 6 nos Fawrth, yr 2il; ac am 10 dydd Mercher, y 3ydd, oddiar Rhuf. x. 12. Aeth i "agoriad capel newydd Llangynwyd" ar y 10fed; ac ar ol gwasanaethu taith Hirwaen a Phenderyn, Sabboth yr 20fed, aeth i agoriad capel Ystalyfera, a phregethodd yn y tair oedfa dydd Mawrth, yr 22ain; ac aeth oddiyno i'r Cyfarfod Misol oedd i'w gynal y dyddiau dilynol yn Ysgywen, Castellnedd. Ar ol hyn nid yw y cof-lyfr yn cynwys ond adroddiad o ymrwymiadau cyffredin Mr. Evans, nes y deuwn at fis Hydref. Yn hollol annysgwyliadwy i'r frawdoliaeth yn Hwlffordd, sir Benfro, aeth i'r Gymdeithasfa a gynaliwyd yno ar y 5ed—7fed, a chafodd y derbyniad mwyaf croesawgar. Penodwyd ef yn llywydd. Yr oedd yn pregethu y nos yn mlaen gyda Mr. William Howells, y pryd hwnw o Liverpool. Yn y llety, sef

tŷ Mr. William Williams, Market Street, ar ol yr oedfa, cyfeiriai Mr. Edward Matthews at bregeth annghyffredin Mr. Howells, ac yna ychwanegodd yn chwareus, "Ond wn ni ddim b'le yr oedd Mr. Evans ni;" eithr atebwyd ef yn y fan, "Yr oedd y bobl a minau yn deall ein gilydd, a dyna i gyd sydd eisieu." Yr oedd yn hynod o ddedwydd yn ei gyfeillach, ac yn nghynadleddau y Gymdeithasfa. Yr oedd y gwasanaeth teuluaidd yn y llety dan ei arweiniad yn dra effeithiol, a bu hir gofio am dano. Yn nghyfarfod y pregethwyr a'r blaenoriaid bore dydd Iau, y 7fed, addoliad teuluaidd oedd pwnc yr ymdriniaeth. Un o'r pethau a anogai efe atynt oedd fod yr holl deulu yn bresenol yn y gwasanaeth, a meddai, "Od oes rhywun yn y ty heb fod ag enaid ganddo, gallwch adael hwnw allan." Pregethodd drachefn yn yr oedfa Gymraeg am 10 a gynelid yn nghapel y Bedyddwyr, Prendergast, oddiar Esai. lvi. 1, a defnyddio ymadrodd Mr. Thomas Harries, Trellan, "yn bert ac yn bractical." Yna dychwelodd i gwrdd â Mrs. Evans yn Nghaerdydd yn y prydnawn; ac yr ydym yn cofio ei fod yn ymddangos yn hollol wrth ei fodd ar ol y Gymdeithasfa. Yr oedd yn Nghaerdydd drachefn dydd Mawrth, y 26ain, yn pregethu yn nghladdedigaeth Mr. Thomas Morgan, brawd Mr. Evan Morgan, yr hwn oedd yn flaenor adnabyddus ac yn areithiwr doniol ar Ddirwest; yr oedd Mr. R. Lumley wedi dechreu y gwasanaeth yn y capel, a Mr. David Howell wedi traddodi pregeth Saesoneg oddiar Matt. xxiv. 44, a'i destyn yntau ydoedd Preg. vii. 1, ac fe lefarodd Mr. John Walters ar lan y bedd. Dydd Llun, y 23ain o Dachwedd, yr oedd yn gweinyddu yn gyffelyb yn angladd Mr. David Roberts, Pontfaen, gyda Mr. Lumley a Mr. David Howell yn yr un drefn. Testyn Mr. Evans y tro hwn ydoodd, "Efe a lwnc angeu mewn buddugoliaeth:" Esai. xxv. 8. Fel hyn yr ysgrifena un oedd yn bresenol atom: "*I heard him preach with great power and acceptance many a time, but especially so at the funeral of Mr. D. Roberts, Cowbridge, the large congregation present being deeply moved by his words.*" Yn

yr wythnos o flaen yr amgylchiad diweddaf hwn, sef ar yr 16eg o Dachwedd, bu Mr. Evans yn "agor capel Ystradyfodwg." Y Sul olaf o'r mis a'r ddau gyntaf yn Rhagfyr yr oedd yn gwasanaethu yr achos Cymraeg yn Bristol.

Yn y Gymdeithasfa yn Hwlffordd a gyfeiriasom ati uchod yr oeddid yn gwneuthur y trefniadau angenrheidiol i ordeinio Mr. James Roberts, yr hwn a dderbyniasid fel ymgeisydd cenadol i'w ddanfon allan i'r India yn 1859, ac fe benderfynwyd fod Mr. Evans i draddodi y cyngor. Cymerodd yr ordeiniad le mewn cysylltiad â Chymdeithasfa Llangors, yr hon a gynaliwyd ar y 6fed, 7fed, a'r 8fed o Fehefin, 1859. Darllenwyd y rhanau arferol o'r Ysgrythyr gan Mr. Owen Lewis, Llanddeusant; traethwyd ar Berthynas yr Eglwys â'r Achos Cenadol gan Mr. John Griffith, y pryd hwnw o Ddolgellau; gofynwyd y cwestiynau gan Mr. John Rees, Tregaron; a rhoddwyd y cyngor gan Mr. William Evans, Tonyrefail, yn ol yr adroddiad yn y *Drysorfa*, "yn bwrpasol a blasus iawn." Nid yw yn ymddangos iddo barotoi cyngor newydd ar gyfer yr achlysur hwn; y tebygolrwydd ydyw iddo wneuthur defnydd o'r cyngor yr oedd wedi ei barotoi ar gyfer Cymdeithasfa Brynmawr yn 1856; ond fel yr ydym eisioes wedi adrodd, nad oedd wedi ei draddodi oblegyd ei analluu i fod yn bresenol. Yr oedd efe hefyd yn pregethu yn y Gymdeithasfa am 10 y dydd olaf oddiar 1 Tim. vi. 12. Aeth o Langors erbyn hwyr yr 8fed i Grughowel, a dranoeth i Wrexham. Nos Wener, yr 11eg, yr oedd yn hen gapel Bedford, Liverpool, yn gwrandaw; nos Sadwrn pregethodd yn Rose Place, bore Sulgwyn yn Bedford, y prydnawn yn Hope Hall, yr hwyr yn Rose Place. Bore dydd Llun, y 13eg, yr oedd yn cymeryd rhan yn y "seiat fawr" yn yr Amphitheatre; yn y prydnawn yr oedd Cyfarfod Dirwestol yn Bedford, ac yn yr hwyr pregethodd yn Burlington. Aeth o Liverpool i Gymdeithasfa Dinbych, ac yr oedd yn pregethu yno am 10 dydd Gwener, yr 17eg, o flaen Mr. Henry Rees, oddiar Esai. lvi. 1. Dychwelodd i Liverpool erbyn y Sabboth

canlynol; yr oedd yn Mulberry y bore, ac yn Bedford yr hwyr. Cyraeddodd gartref Nos Lun yr 20fed. Ei gydymaith ar y daith uchod ydoedd y Parch. Thomas Levi, ac y mae efe yn garedig wedi danfon i ni yr adgofion canlynol; yr ydym yn ddiolchgar iawn iddo am danynt, ac yr ydym yn sicr y teimla ein darllenwyr yr un modd.

"Bum yn gydymaith i Mr. Evans am bythefnos yn y flwyddyn 1859, i Gymdeithasfa Llangors, Liverpool, a Dinbych. Ni ddygwyddodd dim anarferol yn ystod y daith, ond yr oedd cwmni Mr. Evans yn hynod o ddifyr, ac yr oedd fel efe ei hun, ac nid fel neb arall, yn mhob man. Degau o weithiau, yn ddiau, y clywais ef yn dyweyd, 'Mawr wyf yn leicio y dyn nad yw fel pawb.' Yr oedd cyfeillion Liverpool wedi dymuno arnaf gadw fel cydymaith iddo yn ystod y daith, rhag i bang o lwfrdra ei gymeryd, ac iddo ddigaloni a throi adref.

"Yn Nghymdeithasfa Llangors, gerllaw Trefecca, yr oedd James Roberts yn cael ei ordeinio wrtho ei hun, i fyned yn genadwr i India—gŵr wedi hyny a aeth i golli mewn llong, fel na chlywyd byth un gair am dano ef na'i briod. Mr. Evans oedd yn traddodi y cyngor ar ei ordeiniad, ac yr oedd yn gwneud hyny, 'Yn fyr ac yn felus, yn hwylus a dawnus.'

* * * * *

"Cyraeddwyd Liverpool yn gynar ddydd Gwener. Galwyd yn nhŷ y diweddar Barch. John Hughes, 31, Mount-street, oblegyd yno yr arferwn i letya, ac yr oedd Mr. Evans ac yntau yn ffryndiau mawr. Yr oedd iechyd Mr. Hughes ar y pryd yn o wael, o'r gwaeledd y bu farw o hono y flwyddyn ganlynol. Yr oedd yn ddrwg iawn ganddo nad oedd ei iechyd yn ddigon da i ni allu aros gydag ef, a dywedai fod ganddo 'le llawer gwell' i'n harwain ni iddo. Dygodd ni i 81, Parliament Terrace, tŷ y diweddar Mr. Thos. Jones, blaenor Chatham, aelwyd nad allai neb ddymuno ei dedwyddach. Hen lety fforddolion Seion. Dan y gronglwyd hon y cysgodd Mr. Evans ei hun olaf, ac y bwytaodd ei damaid olaf, yn

Liverpool; ac yno y cafodd ei gyfaill lety clyd am chwarter canrif ar ol hyny.

"Wrth goffa enw Mr. Hughes, awdwr *Methodistiaeth Cymru*, yn nglŷn âg enw Mr. Evans, gellir dyweyd mai Mr. Hughes oedd ei hoff bregethwr ef o bawb oedd yn byw ar y pryd. Ddwy flynedd cyn hyn, bu yr ysgrifenydd fel cyfaill i Mr. Hughes am rai dyddiau trwy barthau o Forganwg, mewn cysylltiad â Chymdeithasfa Pontfaen. Yr oedd yn cadw dwy a thair oedfa y dydd; ac yr oedd Mr. Evans yn ei ddilyn bron i bob oedfa ar gefn y *railway* (ei gaseg fuan), yn unig i fwynhau ei weindogaeth hyfryd. 'Rwyf yn cofio ei sylw wrthyf fwy nag unwaith,—'Mr. Hughes, o bawb, yw fy mhregethwr i. Mr. Rees yw pregethwr y bobl; ond dywedwch chwi a fynoch, Mr. Hughes yw fy mhregethwr i.' O'r hen bregethwyr oes o'r blaen, 'Eben. Morris,' chwedl yntau, oedd ei bregethwr; ac yr oedd yn wyddoniadur o hanesion am 'Eben.' Buasai crynodeb o'i hanesynau a'i sylwadau am y gŵr enwog hwnw yn benod o'r mwyaf dyddorol, ond i ddyn ofalu am y pwynt, yr hyn a wnai Mr. Evans i berffeithrwydd.

"Nid oes genyf fawr i'w ddyweyd am ei waith cyhoeddus yn Liverpool, am nad oeddem yn yr un oedfeuon. Ychydig oeddem gyda'n gilydd oddigerth yn y llety. Codwr bore oedd Mr. Evans, ac arferai fyned i orphwys yn gynar. Ffasiwn y wlad oedd ei ffasiwn ef, ac nis gallai ddygymod â ffasiwn y trefi o aros ar draed yn hwyr. Mor gynted ag y delai yn naw o'r gloch, dechreuai edrych ar y cloc, a meddwl am y gwely. Byddai yn arfer codi gartref tua phump o'r gloch, a byddai yn codi tua'r un amser oddicartref. Ond nid oedd yn rhoddi trafferth i'r teulu lle y byddai mewn un modd. Cerdded yn ol a blaen yn yr ystafell y byddai, ac edrych allan trwy y ffenestri,—ond ni welai na chaeau, na gwartheg, na defaid, fel y gwelai allan o'i ffenestr yn Caercurlas. Darllenai ychydig ar y Beibl hefyd, a cherddai yn ol a blaen a'i ddwylaw o'r tu ol i'w fyfyrio. Y ddau lyfr oedd ganddo bob amser oedd y Beibl, a *Wright's Railway Guide*. Yr oeddynt gydag ef

o hyd, yn y *sitting-room* ac yn y *bed-room*, y naill ar y llall; a byddai yn y naill mor fynych ag y byddai yn y llall, ac agos gymaint o amser. Astudio ei ffordd adref oedd yn y *Railway Guide;* ac, o ran hyny, astudio ei ffordd adref oedd yn y Beibl. Un yn egluro y ffordd i Donyrefail, a'r llall i'r Nefoedd. Ac yr oedd mor ofnus o ddyrysu yn y naill ag yn y llall. Cyraeddodd gartref i Donyrefail heb golli y ffordd, na chyfarfod a damwain. Erbyn hyn y mae wedi cyraedd y cartref gwell, er iddo gael ei daith yn hir, heb dori asgwrn, na chymaint ag ysmotyn ar ei ddillad. 'Gwyn ei fyd' heddyw, yr hen dad anwyl!

"Aethom yn nghyd i Gymdeithasfa Dinbych, a buom yn galw ar y daith yn Nhreffynon, Rhyl, a Llanelwy. Tynai gynulliadau mawrion. Pregethodd yn Llanelwy yn dda iawn, o ran pregeth. Yr oedd o ran mater yn un o'r rhai goreu a glywais ganddo, ond gwyddwn nad oedd gymaint yn ei elfen a'i hwyl wrth draddodi. Nid oedd diffyg mater, nac ymadrodd, na gair, a chai wrandawiad astud, ond dystaw. Pan yn troi yn ei ol i eistedd, gofynodd i mi yn bryderus, ''Wedais i ddim dwli, do fe?' Atebwyd ef, 'Dwli? naddo; ond darfu i chwi bregethu yn rhagorol.' Ebai yntau, 'Wel, wel, nid wyf wedi gweled un dyn er pan godais ar fy nhraed?' Mae yn ymddangos ei bod yn oedfa hynod o galed iddo ef, er nad oedd ereill yn ei theimlo felly. Pregethodd y nos yn y capel gyda Mr. Hughes, Liverpool. Nid oeddwn yn ei wrando, ond clywais iddo gael oedfa ddymunol iawn. Pregethai ar y maes am 10 o'r gloch o flaen y Parch Henry Rees. Ond oedfa go drymaidd ydoedd. Nid oedd ei oed y pryd hwn ond 64. Dychwelwyd i Liverpool erbyn y Sabboth, ac yna ar ffrwst adref."

Yr unig grybwylliad arall a ddodwn i mewn am y flwyddyn 1859 ydyw i Mr. Evans bregethu ddwywaith yn agoriad capel Llandaf, ar y 26ain a'r 27ain o Fedi; ac hefyd am 10 dydd Iau, y 29ain, o flaen Mr. John Phillips, Bangor, yn Nghymdeithasfa Llaneurwg, oddiar Phil. ii. 13. Yr unig Gymdeith-

asfa y bu ynddi yn 1860 ydoedd yn Nghastellnedd yn Awst. Yr oedd yn bresenol hefyd yn nghyfarfod blynyddol capel y Docks, Caerdydd, ar y 6ed a'r 7fed o'r mis hwnw, a'r dyddiau dilynol yn agoriad capel presenol Pontypridd; Hydref yr 8fed a'r 9fed yn agoriad capel y Felin Newydd. Bu mewn amryw gyfarfodydd pregethu yn ystod y flwyddyn hono; ac yr oedd yn parhau i gyflenwi ei ymrwymiadau Sabbothol yn mron yn ddifwlch. Nid mor aml, modd bynag, yr ydym yn ei gael yn y Cyfarfodydd Misol ag y buasai—rhywbeth yn debyg i bob yn ail dro yr oedd yn bresenol yn y flwyddyn yr ydym yn awr arni. Yr ydym yn ei gofio yn Nhrehill yn Mehefin, ac yn Nhonyrefail yn Awst; nid oedd yn cymeryd rhan flaenllaw yn y gweithrediadau yn y naill na'r llall: ei hoff gyfaill, Mr. David Howell, oedd yn llywyddu y ddau dro. Yn un o'r oedfeuon cyhoeddus yn Nghyfarfod Misol Tonyrefail, yr oedd yn eistedd yn sêt Caercurlas, a ninau yn ei ymyl, a bu nid ychydig o drallod ar ei feddwl wrth wrandaw un brawd, a sibrydodd yn gwynfanus ac yn ddigon uchel i ni allu ei glywed, "Bachgen neis yw——, ond dim *genius*." Nid oedd y bregeth i fyny at ei safon. Yn lled ochelgar y buasai efe fel rheol mewn amlygu ei farn gyda golwg ar bregethwyr a phregethau. Yn wir gellir dyweyd mai tawedog ydoedd ar y pen hwn. Ond daeth yn fwy rhydd cyn diwedd ei oes yn yr ystyr yma, ac fel y cawn gyfle eto i weled daeth yn hynod agored yn y datganiad o'i feddwl am yr hyn oedd yn ei glywed o'r pwlpud.

Rhywbeth yn gyffelyb i'r hyn a ddywedwyd am y flwyddyn 1860 oedd hanes Mr. Evans yn y blynyddau dilynol. Digon yw croniclo yn unig y ffeithiau o ddyddordeb cyffredinol a geir yn y côf-lyfr. Dydd Llun, Rhag. 17eg, 1860, "agor capel newydd Tongwynlais." Medi 18fed a'r 19eg, 1861, "agor capel newydd Penarth;" nid oedd efe, modd bynag, yn bresenol ar yr achlysur. Hydref yr 8fed, "agor capel newydd Aberdulais"—pregethodd yn y bore a'r prydnawn. Yn yr wythnos olaf o'r un mis, nid ydym yn sicr o'r dyddiau,

bu mewn cyfarfod pregethu yn nghapel yr Annibynwyr yn y Cymar, ac yr oedd efe a Mr. D. Williams, Troedrhiwdalar, yn pregethu am 6 y nos olaf—"Wm. Evans, Ioan xvii. 20; D. Williams, Llanwrtyd, Heb. xi. 24, 25." Ionawr 15fed, 1863, "Ton 7, Daniel Williams," (yn awr y Parch. Daniel Williams, Llwynhendy, Llanelli) "y tro cyntaf iddo bregethu, sef yn yr eglwys, ei destyn Eph. vi. 13." Cafodd Mr. Williams, fel Mr. Watkin Williams o'i flaen, a Mr. Fred. Herepath ar ei ol, gefnogydd caredig yn Mr. Evans. Yr oedd yn nodweddiadol y hono ef i roddi pob cefnogaeth i wŷr ieuainc da a gobeithiol; ac nid oedd dim yn fwy o londer iddo na gweled dynion ieuainc o'r fath yn rhoddi eu hunain i'r weinidogaeth. Fe ddichon na fuasai yn myned mor bell a chymell neb i fyned i bregethu: nid ydym yn gwybod iddo erioed wneud hyny. O'r tu arall, adroddwyd i ni am dano mewn un man, pan y cyflwynwyd gŵr ieuanc iddo gyda'r hysbysiad ei fod yn meddwl am bregethu, iddo ddyweyd, "Paid os gelli di beidio, ti gei ddigon o ofid." Ond wedi i un ddechreu ar y gwaith mawr ac yn ymroddi i fyned rhagddo, nid oedd neb a'i cefnogai yn fwy serchoglawn. Yr ydym eisioes wedi gweled yr hyn a ddywedodd Mr. John James, Penybont, am dano yn y cysylltiad hwn. Ac yr ydym wedi clywed adroddiad o eiddo gweinidog enwog arall perthynol i Forganwg, pan yr oedd yn ieuanc, ac y galwyd ef i gyfrif am yr hyn a ystyrid yn afreolaidd gan rai o'r hen dadau, sef am bregethu o flaen y clybiau Iforaidd ac Odyddol ar achlysur eu gwyliau blynyddol, pryd y dywedodd Mr. Evans y byddai iddo yntau wneud yr un peth ag oedd y gŵr ieuanc wedi ei wneuthur, ac os y dysgyblid ef y byddai yntau yr un ochr i'r drws ag ef; ac ni chlywyd mwy am y peth. Ebrill y 13eg a'r 14eg, 1863, "agor capel Pentyrch," lle y pregethodd am 2 yr ail ddiwrnod; ac ar yr 20fed a'r 21ain o'r un mis, "agoriad capel Cwm Rhondda." Mai yr 11eg a'r 12fed, "agor capel y Pil." Yr oedd yn Bristol y Sulgwyn. Mehefin y 4ydd, "Caerfyrddin, Cynadledd yn achos Tre-

fecca." Mae Dr. Owen Thomas wedi rhoddi hanes y Gynadledd hon yn gyflawn yn Nghofiant Mr. Henry Rees. (Gwel cyf. ii., tud. 745). Yr oedd Mr. Evans yn bresenol fel un o gynrychiolwyr sir Forganwg, ac etholwyd ef yn Gadeirydd y Gynadledd. Gorph. 31ain, "angladd Mrs. Ann Thomas, 89 oed"—un o "*Ladies* y Ton," a merch i Mr. a Mrs. Prichard, Collena, at y rhai y cyfeiriasom mewn penod flaenorol. Yr oedd yn Nghymdeithasfa Llanilltyd Fawr yn nechre Awst. Yr oedd Dr. Edwards o'r Bala yn bresenol yn y Gymdeithasfa hono, ac yn mysg pethau ereill anogai y frawdoliaeth i ymdrechu i wneud yr holl wlad yn Fethodistiaid da. Cymerodd Mr. Evans ei fod yn golygu yr amcan o gael ein cyd-wladwyr oll yn Gristionogion da. Ond ail-bwysleisiodd Dr. Edwards ar yr angenrheidrwydd o'u cael yn Fethodistiaid da. O ran ymlyniad wrth y Cyfundeb, ni fu neb erioed yn well Methodist na Mr. Evans; ac fel un ag y fu yn foddion i enill llawer at grefydd, bu yn offeryn i wneud llawer o Fethodistiaid da; ond ni bu gwneud aelodau yr eglwysi a'r cynulleidfaoedd yn Fethodistiaid da erioed yn amcan uniongyrchol ganddo. Fe ddichon mai da i'r Cyfundeb yn Morganwg a thrwy y Deheudir pe buasai efe ac ereill wedi rhoddi eu meddyliau yn fwy yn y cyfeiriad hwn. Ond nid felly y bu. Yr oedd ei holl fryd ef ar bregethu yr efengyl, a throi pechaduriaid o gyfeiliorni eu ffordd at Fab Duw i'w cadw i fywyd tragywyddol. Eithr i ddychwelyd at yr hanes: Dydd Llun, y 10fed o Awst, 1863, "Pentredwr 10, agor capel newydd." Ond er ei fod yn Seion, Ysgywen, y Sul blaenorol, nid yw yn ymddangos iddo fyned i Bentredwr. Ar y 19eg a'r 20fed o Hydref, "agor capel newydd Seion, Llantrisant." Mai y 9fed a'r 10fed, 1864, "agor capel newydd y Ton," sef y capel presenol, yr hwn sydd yn llawer helaethach os nad yn ddau gymaint a'r un blaenorol; ac yr oedd efe yn cymeryd rhan flaenllaw gyda'r gwaith o godi y capel newydd, ac yn un o'r cyfranwyr helaethaf at y draul. Bu mewn dau gyfarfod pregethu yn



CAPEL TONYREFAIL.

mis Medi, sef yn Nghadoxton ar y 12fed, ac yn Felin Newydd ar y 29ain a'r 30ain, ac mewn cyfarfod cyffelyb yn Nghwmtwrch ar y 1af a'r 2il o Dachwedd, ac yn Canton, Caerdydd, ar yr 21ain a'r 22ain o'r un mis. Y dyddiad nesaf a gyfeiriwn ato yw yr 20fed o Ebrill, 1865, pryd y cymerodd le ail briodas Mr. Evans. Fel hyn y mae efe yn cofnodi yr amgylchiad: "Porth, 9, uno mewn cyfamod hyd oni wahano angau." Ei ail wraig ydoedd Mrs. Isabella Roberts, gweddw Mr. David Roberts, Pontfaen, yr hon a brofodd ei hun yn ymgeledd gymwys iddo am y chwarter canrif olaf o'i fywyd; gwnaeth ei rhan yn dyner a ffyddlawn mewn gofalu am ei gysur, ac i gynal i fyny ei feddwl dan bwysau llesgedd henaint. Yn Nghymdeithasfa Llantrisant, a gynaliwyd ar y 13eg a'r 14eg o Ebrill, etholwyd Mr. Evans i lywyddu y Gymdeithasfa ddilynol oedd i'w chynal yn Aberhonddu ar y 24ain a'r 25ain o Fai; ond rhwystrwyd ef i fod yn bresenol, a chymerwyd ei le gan y Parch. Edward Matthews. Aeth i gymanfa flynyddol Bristol y Sulgwyn. Yr oedd yn bresenol ac yn pregethu ddwywaith yn Nghyfarfod Misol Spelter, Maesteg, ar yr 2il a'r 3ydd o Hydref; ac aeth oddiyno i gyfarfod pregethu yn Aberthyn, a phregethodd y nos gyntaf a phrydnawn yr ail ddydd, ac hefyd "gweddio am 10." Ar gyfer Sul y 12fed o Dachwedd yr ydym yn cael y cofnodiad canlynol:—"Aberafon, yn lle myned i'r Porth, a danfon gwybod i'r Porth yn ddioed." Nid ydym yn gwybod yr amgylchiadau a achosent y cyfnewidiad. Ond y mae y cofnodiad yn dangos ei ofal cydwybodol i gyflawni ei addewidion; a phan y byddai amgylchiadau neillduol yn peri iddo alw cyhoeddiad yn ol, gofalai i roddi gwybod yn ddioed fel ag i ragflaenu siomedigaeth. Ar waelod un o dudalenau y côf-lyfr yr ydym yn cael cyfrif o'r casgliad a wnaed gan eglwysi Dosbarth Llantrisant at yr achos yn Mhenarth yn y flwyddyn 1865, yn cyraedd y cyfanswm o un-bunt-ar-ugain. Mewn amgylchiadau neillduol er cynorthwyo achosion newydd y mae Cyfarfod Misol Morganwg

wedi ymgymeryd â symiau mawrion trwy eu rhanu yn gyfartal rhwng y gwahanol ddosparthiadau, ac yna y Cyfarfod Dosbarth yn rhanu y swm gofynol rhwng yr eglwysi perthynol. Yn nghyfarfod Dosbarth Llantrisant byddai Mr. Evans yn cymeryd rhan flaenllaw yn mron hyd ddiwedd ei oes, ac mewn materion o'r fath byddai ei ddylanwad bob amser o blaid cydweithrediad â'r Cyfarfod Misol. Fel rheol byddai yn galw ar ei hoff gyfaill a'r blaenor teilwng, Mr. John Morgan, Gwern-y-moel, Llantrisant, i ranu y swm a osodid ar y Dosbarth, gan ddyweyd faint oedd yn disgyn ar bob lle i'w dalu. Gwrthodai Mr. Morgan, oblegyd fod y cyfeillion yn y gwahanol leoedd yn ei feio am osod beichiau arnynt. "Iĕ, iĕ," atebai Mr. Evans, "'y Moses yma, y Moses yma;' ond wedi'r cwbl yr oedd yn rhaid i'r hen genedl gael Moses i'w harwain: rhanwch y swm rhwng yr eglwysi." Byddai hyny yn derfyn ar bob dadl, ac fe gesglid yr arian. Yr oedd gan Mr. Evans olwg fawr ar Mr. John Morgan. Dywedasom wrtho un tro, "Y mae Mr. John Morgan, Gwern-y-moel, yn cofio atoch." "Mae iddo roesaw: dyn da, da yw ë; mae llawer o ddynion da i'w cael, ond nid cymaint o ddynion da, da." Ar y 10fed o Ionawr, 1866, yr oedd Mr. Evans mewn cyfarfod eglwysig yn Nghaerdydd, "yn achos capel newydd," sef y capel Saesneg oedd ar gael ei godi yn Great Fredrick-street, a'r capel Saesneg cyntaf yn y dref hono. Ac ar y 26ain o Ebrill yr oedd yn Ystrad dyfodwg, "yn achos capel newydd;" ac ar y 7fed o Fai, "Dinas, Penygraig, yn achos ysgoldy." Ar y 29ain a'r 30ain o Fai, "Porthcawl, cyfarfod pregethu, agor capel newydd." Yr oedd yn pregethu am 10 yn nghyfarfod blynyddol Penybont ar yr 20fed o Fehefin, ac am 2 y dydd canlynol yn y Babell, Croesfan, "agor y capel newydd." Ar yr 21ain o Fai, 1867, "Gilfachgoch, *society*, yn herwydd capel newydd," a bu yno drachefn ar y 16eg o Hydref ar yr un mater. Ar gyfer dydd Llun, y 24ain o Chwefror, 1868, yr ydym yn cael iddo ysgrifenu yn y côf-lyfr, "Treherbert, agor y capel 10, 2 a 6;"

ond nid yw yn ymddangos iddo ef fyned yno. Aeth i Gyfarfod Misol Soar ar y 4ydd a'r 5ed o Fawrth, a dewiswyd ef yn gadeirydd. Y mae y Parch. David Phillips, Abertawy, wedi danfon yr adgof canlynol am dano yn y Cyfarfod Misol hwnw. Daeth cais yno i ordeinio pregethwr ag oedd yn ymddangos i rai o'r hen frodyr yn afreolaidd, a dadleuid dros oedi am flwyddyn. "Yr oeddwn," medd Mr. Phillips, "ar y pryd yn eistedd ar ei gyfer, ac yn edrych yn edmygus arno, gan fwynhau ei arabedd yn fawr. Ac yn sydyn gofynodd i mi, 'A oes gair gyda chwi ar hyn?' Dywedais inau fod genyf adnod ar fy meddwl. 'Peth cryf yw adnod, gadewch i ni glywed,' meddai ef. Ebe finau, 'Oni ddarllenasoch erioed beth a wnaeth Dafydd pan oedd angen a chwant bwyd arno, pa fodd yr aeth i dŷ Dduw dan Abiathar, yr archoffeiriad, ac y bwytaodd y bara gosod, y rhai nid cyfreithlawn eu bwyta, ond i'r offeiriaid yn unig, ac a'i roddes hefyd i'r rhai oedd gydag ef.' Ebe yntau, 'Dyna gynyg annghyffredin; beth ddywedwch yn awr?' gan edrych ar y frawdoliaeth. Efe a gyfryngodd o'r gadair, a chafodd y brodyr eu cais."

Ar y 15fed a'r 16eg o Fehefin yr oedd Mr. Evans yn agoriad capel y Gilfach Goch, ac yn pregethu am 10 yr ail ddydd; ac ar y 24ain o Gorphenaf bu yn Mlaenllecha (Ferndale), "yn edrych lle i adeiladu capel." Erbyn hyn y mae pump o gapelau yn nghwm y Rhondda Fach yn perthyn i'r Methodistiaid. Y mae yr amrywiol grybwylliadau a wnaed uchod yn dangos y ran helaeth a gymerodd Mr. Evans mewn cysylltiad âg helaethiad yr achos; y mae ei hanes ef yn gymhlethedig â chynydd y gwaith mawr yn Morganwg.

Yn Nghymdeithasfa Caerfyrddin, Awst, 1867, dewiswyd Mr. Evans i fod yn Llywydd am y flwyddyn ddyfodol. Efe ydoedd y trydydd o lywyddion blynyddol Cymdeithasfa y Deheudir. Yr hen drefn yn y De, megys yn y Gogledd, fuasai ethol cadeirydd yn unig am y tro. Ond yr oedd ein

brodyr yn y Gogledd wedi newid y drefn ddeng mynedd cyn y gwnaed hyny yn y Deheudir. Yn naturiol y cyntaf i'w ddewis yn llywydd Cymdeithasfa y Deau am y flwyddyn ydoedd Mr. David Howell, Abertawy. Efe ydoedd yr hynaf o'r gweinidogion ag oeddynt yn cymeryd rhan flaenllaw yn ngweithrediadau y Gymdeithasfa; ac fel yr oedd yn myned yn mlaen mewn dyddiau yr oedd yn enill safle uwch fel pregethwr, yn gystal ag fel un ag oedd yn gwir ofalu am yr achos yn ei holl ranau, ac yr oedd ei ffyddlondeb yn ddiball. Nid oedd ynddo ddigon o'r anturiaethus, mwy nag yn Mr. Evans, i fod yn arweinydd yn ystyr gyflawn y gair, fel ag i ddwyn y Cyfundeb i dori tir newydd, ac i ddadleu dros y mesurau angenrheidiol tuag at gario y gwaith yn mlaen yn fwy effeithiol. Nid oedd yn un a wrthwynebai gynygion i'r cyfryw amcan, ond byddai yn gefnogol; ac eto ni byddai yn ymegnio o'u plaid. Er y bu yn weinidog sefydlog yn sir Faesyfed, ac yn fugail eglwysig rhagorol am flynyddoedd lawer yn Abertawy, nid ymdaflodd i ymdrech yn mhlaid bugeiliaeth. Yr oedd cymaint o barch iddo ar gyfrif ei dduwioldeb a'i ddoniau, fel yr oedd yr eglwysi yn Morganwg yn syrthio i mewn yn rhwydd âg unrhyw gynygiad a fuasai efe yn teimlo yn gryf ac yn ymdrechu yn weithredol o'i blaid. A meddai ddylanwad cyffelyb yn y Gymdeithasfa. Yr oedd Mr. David Howell, ac y mae yr un peth yn wir am Mr. Evans, wedi eistedd llawer wrth draed yr hen dadau Methodistaidd, ac yr oedd ei barchedigaeth i'w coffadwriaeth yn fawr iawn, a'u trefniadau yn gysegredig yn ei olwg. Yr oedd hyn yn ddiameu yn peri arafwch ynddo i symud dim oddiwrth yr hen derfynau. Eithr fel y dywedwyd, yr oedd gofal yr eglwysi yn gorphwys yn wastadol ar ei feddwl, a llwyddiant y Cyfundeb yn beth agos at ei galon, ac yr oedd yn cymeryd rhan flaenllaw yn ngweithrediadau ei Gyfarfod Misol a'r Gymdeithasfa; gan hyny nid oedd dau feddwl yn nghylch y priodoldeb o roddi arno ef yr anrhydedd o eistedd yn y gadair lywyddol am flwyddyn o

flaen ei holl frodyr. Yr oedd yr un mor naturiol i ddewis Dr. Thomas Phillips, Henffordd, yn olynydd i Mr. David Howell yn nghadair y Gymdeithasfa, yr hyn a wnaed yn y Maesteg, Awst, 1866. Yr oedd efe wedi llywyddu y Gymdeithasfa yn amlach na neb arall dan yr hen drefn. Yr oedd ynddo gymhwysder mawr at y gorchwyl. Yr oedd yn ddyn o fusnes rhagorol, yn fedrus i dynu i fyny benderfyniadau, ac yn hynod hapus mewn gwneuthur byr gyfarchiadau. Yr oedd ganddo dalent at gynllunio hefyd, ond y Feibl Gymdeithas a gafodd ei nerth yn yr ystyr hwn; ac yr oedd y safle ganolog y rhaid iddo ei llanw fel cynrychiolydd y sefydliad pwysig hwnw yn ei rwystro i roddi y gwasanaeth i'r Cyfundeb a allasai efe gyflawni pe buasai ei ddwylaw yn fwy rhydd. Ar ei ol ef daeth tro Mr. William Evans i lywyddu y Gymdeithasfa, yr hyn a wnaeth mewn modd esmwyth a dedwydd. Yr oeddym yn bresenol mewn tair o'r pedair Cymdeithasfa yn mlwyddyn ei lywyddiaeth, sef yn Nhrefdraeth, Dyffryn Margam, ac Aberteifi. Yn Nhrefdraeth, Hydref 1af a'r 2il, 1867, yr oedd yn pregethu am 10 ar ol Mr. John Jones, Llanllechid, a Mr. William Williams, Abertawy (yn Saesoneg). Ei destyn ydoedd 1 Thess. v. 9, 10; ac fe gafodd yn ddiameu un o oedfeuon goreu ei fywyd. Tra y bu yn pregethu yr oedd Mr. John Richards, Llechryd, yn dal gwlawlen uwch ei ben, a phan yn nesau at ddiwedd ei bregeth dywedai ar ddechre *paragraph* newydd, "Munud eto," pryd yr atebodd Mr. Richards, "Na yn wir, pum' munud:" ac feily y terfynodd yr oedfa yn yr hwyl oreu. Yr oeddym yn cydletya yn nhŷ Mrs. Bowen, gynt o Lwyngwair. Ar ol yr oedfa ddeg yr oedd efe yn brysio i fyned adref, a gwnaeth Mrs. Bowen y sylw wrthym, "*Your grandfather so reminds me of the old preachers*," y rhai yr oedd hi wedi eu gweled mor aml yn ei hieuenctyd yn y Long House, ac wedi hyny ar ol ei phriodas yn Llwyngwair. Yn Nyffryn Margam y cafwyd y cyfarfod pregethwyr bythgofiadwy, pryd yr oedd Mr. David Howell yn adrodd ei brofiad mor felus ac

effeithiol, ac hefyd y gwnaeth siglo dwylaw gyda'r cadeirydd i arwyddo y cyd-ddealldwriaeth caruaidd a fuasai rhyngddynt am haner can' mlynedd. Yr oedd yr ymlyniad llwyraf rhyngddynt, ac fel rheol byddent yn cyd-letya yn y Cyfarfod Misol ac achlysuron ereill. Yr ydym yn cofio gofyn i Mr. Evans, gyda phwy yr oedd yn aros yn Nyffryn Margam adeg y Gymdeithasfa, pryd yr atebodd, "Gyda Mr. Howells *for ever*." Yn Nghymdeithasfa Aberteifi yr Awst dilynol, yr oedd yn traddodi y Cyngor yn y gwasanaeth ordeinio. Yr ydym yn cofio ei fod yn hynod o ddedwydd y tro hwnw yn ei gyfarchiad i'r brodyr oedd yn cael eu neillduo. Gwnaeth gyfeiriad toddedig at yr achlysur y buasai efe ei hunan yn sefyll yn unig, dair mlynedd a deugain cyn hyny, yn yr un man ag yr oeddynt hwy ar y pryd hwnw. Nid yw yn ymddangos iddo barotoi cyngor newydd, ond mai gwneuthur defnydd o'r cyngor a ddarparodd yn 1856 a wnaeth. Yr ydym yn cofio yn dda am ei waith yn anog y brodyr o'i flaen i fod yn weithwyr difefl. Y mae un o honynt wedi danfon atom ei adgof am dano yn eu cyngori i fod yn naturiol. Am 3 o'r gloch ar y maes yr oedd Mr. Evans yn pregethu ar ol Mr. Owen Jones, Llandudno. Ei destyn ydoedd Rhuf. vi. 16, ond yn fuan wedi iddo ddechreu pregethu daeth yn wlaw, a dechreuodd y gynulleidfa aflonyddu a symud ymaith. "Yr y'ch chwi yn myn'd," meddai yntau, "mae yn dda i ni gael y gwlaw yma"—yr oedd wedi bod yn sych am hir amser. Ac felly fe derfynwyd yr oedfa, cyn iddo fyned fawr yn mhellach na rhagymadrodd ei bregeth. Yr oedd pob argoelion y buasai yn cael oedfa lewyrchus. Dechreuai ei bregeth mewn llawn hunanfeddiant, ac yr oedd yn brawddegu yn gryf. Mewn ymddyddan am y tro beth amser ar ol hyny, dywedai wrthym, "Yr oedd gen' i gyfansoddiad da." Daliodd yn wlaw yn mron hyd ddiwedd y Gymanfa; ac am 10 dydd Iau, y 6ed, dodwyd ef a Mr. Edward Morgan, o'r Dyffryn, i bregethu yn nghapel y Bedyddwyr. Mynodd bregethu yn gyntaf, a'i destyn ydoedd Rhuf. v. 25. Oedfa galed yn

hytrach a gafodd. Ar ei ol traddododd Mr. Morgan bregeth y "Tyred" gyda nerth mawr. Ciliodd y gwlaw erbyn yr hwyr, a gallwyd cynal yr oedfa ar y maes, pryd y pregethodd Mr. Morgan drachefn, ac ar ei ol Dr. Owen Thomas, y ddau gyda llewyrch annghyffredin; yr oedd hon yn wir yn oedfa ogoneddus, ac nis gallwn byth ei hannghofio.

Y Gymdeithasfa arall y bu Mr. Evans ynddi yn ystod blwyddyn ei lywyddiaeth a gynaliwyd yn Nghrughywel, ar y 26ain a'r 27ain o Fai, 1868, pryd y pregethodd am 10 y prif ddiwrnod oddiar Rhuf. iv. 25. Aeth oddiyno i Gaerdydd i gymeryd rhan yn ngwasanaeth agoriadol Great Frederick Street; yr oedd efe a Dr. Saunders i bregethu nos Fercher, y 27ain. Eithr erbyn cyraedd Caerdydd goddiweddwyd ef gan gymaint o waelder, fel ag i fod yn gwbl analluog i fyned i'r oedfa. Ar ol gorphwys, modd bynag, yr oedd yn llawer gwell dranoeth, a dychwelodd adref yn gysurus.

Fel y gwelsom, dechreuodd Mr. Evans bregethu yn y flwyddyn 1818; yr ydoedd gan hyny yn haner cant oed o bregethwr yn y flwyddyn 1868. Yn mis Ebrill y flwyddyn hono fe benderfynwyd gan ei frodyr yn sir Forganwg, yn gynulledig mewn Cyfarfod Misol, i gyflwyno tysteb iddo ar ben yr haner can' mlynedd o'i fywyd gweinidogaethol; a phenodwyd pwyllgor i gario allan yr amcan i weithrediad, gyda'r Parch. David Phillips yn gadeirydd, Mr. John Howell yn drysorydd, a'r Parch. Thomas Levi yn ysgrifenydd. Cytunwyd fod y dysteb i gymeryd y ffurf o ddarlun llawn faintioli mewn olew *(full size oil painting)*; a phenodwyd Signor Paggi o Gaerdydd, arlunydd galluog a medrus, i dynu y darlun. Ac o'r amser yr awgrymwyd y peth gyntaf yr oedd yr holl frawdoliaeth yn Morganwg yn frwdfrydig yn yr amlygiad o'u hewyllys da tuag at yr ysgogiad. Cynaliwyd y cyfarfod i gyflwyno y Darlun gydag Anerchiad dydd Iau, Medi 3ydd, 1868, yn nghapel Tonyrefail. Daeth cynulleidfa fawr yn nghyd, ac yr oedd yn bresenol luaws o weinidogion a blaenoriaid ac ereill o bob rhan o'r sir. Ymddangosodd

adroddiad o hanes y cyfarfod yn y *Baner ac Amserau Cymru* am Medi yr 16eg:—

"Am chwarter wedi dau yn y prydnawn, cododd y Parch. D. Phillips, Maesteg, a dywedodd—Fel llywydd y pwyllgor, yr wyf yn hysbysu fod y cyfarfod hwn i fod o dan lywyddiaeth Mr. Alderman Phillips, Abertawy; ac yr wyf yn galw arno ef i gymeryd y gadair.

"Mr. Alderman Phillips a gymerodd y gadair, ac a alwodd ar y

"Parch. Samuel Price, Llandâf, i ddechreu y cyfarfod trwy ddarllen a gweddio, yr hyn a wnaeth yn y modd mwyaf priodol.

"Yna anerchwyd y gynulleidfa gan y Cadeirydd, yr hwn a ddywedai,—Fod yn dda ganddo i fod yno i ddangos y parch a deimlai tuag at y Parch. William Evans. Yr oedd y nef a'r ddaear yn ymddangos fel yn ewyllysio i'w anrhydeddu. Yr oeddynt hwy yno yn rhan o'r ddaear i gyflwyno darlun iddo. Y mae amrywiol farnau yn nghylch tystebau; rhai yn barnu na ddylent fod, oblegyd y llygredigaeth sydd yn nglŷn â hwynt: ond nid oedd dim o'r cyfryw lygredigaeth mewn cysylltiad â'r dysteb hon. Yr oedd y mudiad wedi ei gychwyn, a'i ddwyn yn mlaen, ac i derfyniad, oddiar wir barch—y teimladau dyfnaf o barch. Yr oedd efe yn cymeradwyo ffurf y dysteb, sef darlun. Nid oes dim yn fwy hapus nag edrych ar ddarluniau ymadawedigion, ac hefyd eiddo y rhai sydd yn awr yn fyw, ag yr ydym yn eu parchu, ac y mae yn foddion i gynyrchu mwy o barch. Yr oedd yn gobeithio y cymerid darluniau o'r *painting* oedd yn awr ar gael ei gyflwyno; yr oedd yn sicrhau y caffai un y lle goreu yn ei dŷ ef. Yr oedd darluniau Mr. Howells, Abertawe, a Mr. Griffiths, Gower, ganddo eisioes; ac os byddai iddo gael darlun Mr. Evans, gosodai ef yn y canol. Yr oedd yn gobeithio cael y cyfryw ddarlun i edrych arno, ac i gofio am Mr. Evans am flynyddoedd lawer i ddyfod; i edrych arno ac i'w fwyn-

hau pan y bydd efe wedi methu myned i'w gyhoeddiadau. Nid oedd dim yn well ganddo ef nag edrych felly ar ei gyfeillion, a meddwl am danynt yn eu habsenoldeb. Gyda golwg ar y cyfarfod hwn, gan fod cynifer i siarad, yr oedd yn rhaid i bob un gyfyngu ei anerchiad i ryw bump neu ddeg munud; ond yr oedd Mr. Howells i gael haner awr. Yna galwodd ar y

"Parch. David Howell, Abertawy:—Dywedai ei fod dan gryn anfantais, wedi cael anwyd, ac ofnai nas gallent ei glywed; ac hefyd, nid oedd wedi ysgrifenu dim. Gallasai efe ddyweyd ei fod bob amser yn cael ei feddianu gan deimlad dedwydd tuag at yr holl frawdoliaeth yn mhob man, a dyma'r teimlad oedd yn ei ysgogi i gyfarfod â hwynt yn eu holl gynulliadau. Yr oedd yn meithrin y teimlad hapus hwn at bawb sydd yn ymgyfenwi ar enw yr Iesu. Ond teimlad personol oedd wedi ei ysgogi yn benaf i ddyfod i'r cyfarfod hwn heddyw. Gwyddai ei frawd ei fod ef wedi ysgrifenu ato i ofyn a fyddai iddo ei ryddhau, o herwydd ei fod yn teimlo mor llesg; ond yr oedd yr atebiad a dderbyniodd wedi ei rwymo i fod yn bresenol. Yr oedd yn amlwg oddiwrth yr ysgogiad presenol fod Mr. Evans yn sefyll yn uchel yn eu meddyliau hwynt oll, ond nid oedd yn uwch yn meddwl neb nag yn ei feddwl ef. Yr oedd eu teimladau a'u serchiadau hwynt ill dau wedi eu cydgordeddu a'u cymhlethu, ac yr oedd yn sicr nad oedd teimladau yr un dau yn gryfach na'r eiddynt hwy tuag at eu gilydd. Yr oedd yn cofio y tro cyntaf y gwelodd Mr. Evans, sef ar Sabboth yn mis Mawrth, yn y flwyddyn 1818. Yr oedd wedi anturio rhoddi ei gyhoeddiad i daith Glynogwr, Dinas, a Thonyrefail. Nid oedd yr un capel y pryd hwnw yn Glynogwr nac yn y Ddinas. Gŵr traed oedd efe y pryd hwnw, ac yr oedd yn rhaid cerdded bob cam o Abertawy i Glynogwr. Ond yr oedd y cyfeillion yn garedig yn ei gynorthwyo ar y Sabboth. Yr oedd yn cofio ei fod yn myned o Glynogwr erbyn yr oedfa ddau o'r gloch yn y Ddinas; ac yr oedd y gŵr a'r wraig o Crug-glas,

Kate oedd enw'r wraig, a'r gŵr o Hendre-ifan-goch, yn dyfod gydag ef. Ond collasant y ffordd yn y niwl ar y mynydd; ac yr oedd yr oedfa yn mron dybenu erbyn iddynt gyraedd Craigamos. Yr oedd Jenkin Harry yn bresenol, ac ar ol y cwrdd gofynodd Jenkin iddo, 'A sylwasoch chwi ar y dyn ifanc pengoch oedd yn y cwrdd?' 'Do.' 'Dyna y gŵr ieuanc sydd yn dechreu pregethu yn Tonyrefail, ac y mae pobl y Ton yn dyweyd ei fod yn ddyn dawnus.' Yr ail dro iddo ef i weled Mr. Evans oedd yn Nghyfarfod Misol Salem, Pencoed, y Pasg yr un flwyddyn. Yr oedd Cyfarfod Misol bob Pasg yn Salem y pryd hwnw. Yr oedd efe (Mr. Howell) yn myned dan arholiad yn y cyfarfod hwnw gan Mr. Howells, Trehill, Richard James, David Williams, Merthyr, a Hopkin Bevan. Nid oedd Mr. Evans wedi dechreu y pryd hwnw, 'o'ech chwi?' ('O'wn yn ymyl.') Yr oedd er hyny haner can' mlynedd; ac yr oedd teimladau yn eu meddianu hwynt tuag at eu gilydd na wyddai neb ddim am danynt, ond y rhai oedd wedi cyd-drafaelu gymaint a hyny o amser gyda'u gilydd. Yr oeddynt wedi cyd-gychwyn, cyd-deithio, a chyd-lafurio ar yr un maes, yn yr un cylch, yn yr un Cyfarfod Misol, a'r un Gymanfa. Yr oeddynt yn awr yn hynach na neb gyda'r achos yn y sir, oddieithr feallai yr hen frawd William Thomas, o Gaerdydd. Wrth edrych yn ol, er pob eiddilwch a llesgedd, gallasai ddyweyd fel Paul o flaen y gynadledd yn Cæsarea, wedi cael help gan Dduw. Yr oedd ei frawd wedi cael mwy o fedr nag efe; ond dymunai fod yn gyfochrog âg ef mewn ffyddlondeb. I ras y nefoedd yr oedd yn priodoli hyny. Nid oeddynt wedi rhoddi dolur i'w gilydd erioed. Yr oedd Mr. Evans wedi bod yn fwy car-trefol nag efe: yr oedd efe wedi bod yn symud ychydig o'r naill fan i'r llall, ond yr oeddynt wedi treulio y rhan fwyaf o'u hamser gyda'u gilydd. Wrth gyferbynu yr achos yn awr â'r hyn ydoedd haner can' mlynedd yn ol, yr oedd yn rhaid dyweyd, 'Yr Arglwydd a wnaeth bethau mawrion.' Rhif capelau y sir y pryd hwnw oedd 28 neu 29, maent yn awr

yn 120, a nifer yr eglwysi yn 115. Dylem fod yn ddiolchgar. Nid oedd ond pedwar o weinidogion ordeiniedig yn y sir 50 mlynedd yn ol, sef Howell Howells, Trehill, Hopkin Bevan, Richard James, a David Williams, Merthyr; ond y mae yn awr ddeugain, deg am bob un, heblaw y rhai a ordeiniwyd yn y Gymanfa ddiweddaf. Aelodau eglwysig sir Forganwg 50 mlynedd yn ol oeddynt ychydig dros 1400, ond y maent yn awr yn rhifo dros ddeg mil a thri chant. Y mae'r canoedd wedi myned yn filoedd. Pe byddai iddynt oll fod yn halen y ddaear, byddai hyny yn fendith fawr. Yr oedd yn beth hapus a hardd fod nifer y capelau, y gweinidogion, a'r aelodau wedi cynyddu i'r fath raddau; ond yr oedd yn gobeithio y byddai i'r ysbryd syml oedd yn y rhai cyntaf, a'r llwyr ymgysegriad oedd yn eu nodweddu, barhau yn amlwg yn eu plith, a thra parhao'r byd. Gadewch i ni fod yn gysegredig. Gyda golwg ar Mr. Evans, gellir dyweyd am dano yn ngeiriau Paul, 'Brawd anwyl, a'r gweinidog ffyddlawn, a'r cyd-was yn yr Arglwydd.' Yna trodd Mr. Howells at Mr. Evans, a dymunodd iddo brydnawn cysurus a'r un hindda dawel ag a gafodd y tadau ar orpheniad eu gyrfa ar y ddaear. Dymunai i'r hyn oedd yn ol o daith ei frawd i fod yn ddigwmwl, ac y byddai iddo gael gorphen ei yrfa mewn tangnefedd a thawelwch.

"Galwodd y cadeirydd yn nesaf ar Mri. George Davies, Llanwyno, a Rees Lewis, Merthyr, i ddadlenu y darlun; a phan y'i gwelwyd amlygodd y dorf ei chymeradwyaeth mwyaf brwdfrydig.

"Yna darllenwyd yr Anerchiad canlynol gan Mr. John Howell, Pencoed:—

"'Barchedig ac Anwyl Syr,—

"'Y mae yn hysbys i chwi heddyw ei fod wedi disgyn i fryd calon amryw o'ch cyfeillion yn Morganwg, i wneud rhyw amlygiad bychan o'n serch atoch, a'c o'n gwerthfawrogiad o'ch llafur a'ch gwasanaeth hirfaith i'r cyfundeb, yn awr ar ben yr haner canfed flwyddyn o'ch oes weinidogaethol.

"'Gyda llawenydd mawr yr ydym yn cydnabod meithder ac effeithiolrwydd eich gwasanaeth i Gyfundeb y Methodistiaid, wedi dechreu ar eich gwaith fel gweinidog i Grist yn y flwyddyn 1818, pan yn dair-mlwydd-ar-hugain oed. Darfu i chwi ymladd yn wrol â rhwystrau ac anfanteision mawrion; ac wedi bod yn poeni yn y Gair a'r Athrawiaeth am haner can' mlynedd, yr ydych yn aros hyd yr awr hon mewn cysylltiad â'r un gangen eglwys ag y cychwynasoch eich gyrfa grefyddol ynddi. Cofus yw genym, i chwi am flynyddoedd lawer wneud aberth mynych o'ch corph a'ch cysuron, drwy eich teithiau hirion ar bob tywydd, yn dra diarbed, wrth wasanaethu yr achos mawr; pan nad oedd yr eglwysi wedi deffroi i gydnabod llafur a thraul gweinidog yr efengyl fel y maent yn bresenol. Yr ydym yn mlaenaf oll yn cydnabod llaw yr Arglwydd, yr hon a'ch cynaliodd hyd y dydd hwn, heb dynu brycheuyn ar eich cymeriad, nac unrhyw ammhariad ar eich defnyddioldeb. Nis gallwn lai na choffa hefyd yn llawen a diolchgar am eich ysbryd ystwyth, bywiog, a pharod bob amser i gydweithio âg oes ieuangach, ac am eich sêl ddibaid, yr hon a fu mor gyhoeddus am lawer o flynyddoedd gyda'r Diwygiad Dirwestol, a symudiadau ereill, sydd a'u tuedd i wella cyflwr a manteision ein cenedl. Ac y mae eich cyfeillion yn edrych arno fel cyd-ddygwyddiad hapus, fod y Methodistiaid yn y Deheubarth wedi eich anrhydeddu â llywyddiaeth y Gymdeithasfa ar y flwyddyn nodedig hon. Cawsoch y fraint o esgyn yn uchel yn ngolwg yr eglwysi, a'ch derbyn yn serchog ganddynt fel gŵr Duw trwy holl siroedd Cymru, a phrif drefydd Lloegr. Fe'ch gosodwyd i sefyll i fyny fel dysgawdwr y bobl yn y lleoedd mwyaf cyhoeddus, ac yn mhrif gyfarfodydd y Cyfundeb. Cawsoch gynulliadau lluosog i'ch gwrandaw, a phrofwyd yn fynych fod eich cenadwri yn nerthol drwy Dduw, i ddychwelyd llawer i'r ffydd. Bu eich brodyr yn falch o honoch, a rhoisant yr ymddiried mwyaf ynoch. Derbyniasoch chwithau ras i ddal pob codiad a mawrhad a wnaed arnoch, heb chwyddo mewn hunanolrwydd.

"'Bellach, anwyl Syr, yr ydym ar ran ac yn enw nifer luosog o'ch brodyr a'ch cyfeillion yn Morganwg, yn dymuno arnoch dderbyn y darlun hwn o honoch eich hunan, fel cydnabyddiaeth o werth eich gwasanaeth yn eu golwg; ac wrth ei gyflwyno, yn nghyd â'r cyfarchiad hwn, nyni a archwn ar Dduw ar i bob bendith eich dilyn chwi a'ch holl eiddo hyd y diwedd; ac ar iddo roddi i chwi eto lawer o ddyddiau i'w wasanaethu yn efengyl ei Fab, ac yn y diwedd eich derbyn i'w dragywyddol ogoniant.

'DAVID PHILLIPS, Cadeirydd.
'JOHN HOWELL, Trysorydd.
'*Medi 3ydd*, 1868. 'THOMAS LEVI, Ysgrifenydd.'

"Wedi darllen yr Anerchiad, Mr. Rees Lewis, Merthyr, a ddywedai nad oedd efe wedi dyfod i'r cyfarfod er mwyn dyweyd dim, ond i weled ac i glywed. Yr oedd yn dda iawn ganddo i weled fod y fath degwch wedi ei wneud yn y darlun â'r gwrthddrych, yr hwn yr oedd yn ei ystyried yn wir deilwng o'r parch oeddynt yn ei ddangos iddo. Nid 50 mlynedd yn y byd yr oedd Mr. Evans wedi bod, ond yn y weinidogaeth. Ac ystyried mai deg-mlynedd-ar-ugain ydyw hyd cyfartal oes dynion, yr oedd yn beth mawr cael byw haner can' mlynedd yn y byd; ond yr oedd yn beth mwy i gael treulio haner can' mlynedd yn y weinidogaeth—y sefyllfa a'r gwaith mwyaf anrhydeddus yn y byd. Yr oedd Mr. Evans yn esiampl i ddynion ieuainc, a dylent ei ddilyn. Yr oedd wedi gweithredu yn ol y cyngor hwnw, 'Gwnewch y goreu o'r ddau fyd;' ac yr oedd hyny yn glod iddo. Yr oedd hefyd yn ddirwestwr pur. Yr oedd yn ei ystyried yn anrhydedd mawr i gael cymeryd rhan yn nghyflwyniad y darlun i Mr. Evans; nis gallai ei gyflwyno iddo â'i law, ond yr oedd efe a'r holl gynulleidfa yn ei gyflwyno iddo â'u holl galon.

"Mr. Lewis Griffiths, Aberdâr, a ddywedai:—Mai un o'r pethau cyntaf yr oedd efe yn ei gofio ydoedd gweled Mr. Evans yn dyfod i dŷ ei dad a'i fam, a'r sylw a wnaeth o hono

ef, yr hyn ar unwaith a enillodd ei serch; ac yr oedd wedi meithrin y serch hwnw hyd y dydd hwn. Peth arall ag oedd wedi dylanwadu arno ydoedd cyfeillgarwch Mr. Evans gyda'i dad a'i fam. Y gorchwyl cyntaf a wnaeth ei fam fel diacones ydoedd ceisio ei gyhoeddiad i Aberdâr mewn Cyfarfod Misol yn Llanwyno, haner can' mlynedd yn ol. O'i law ef yr oedd wedi cyfranogi o Swper yr Arglwydd gyntaf, tua 40ain mlynedd yn ol. Yr oedd Mr. Evans wedi cyflawni ei swydd dan anfanteision, ac er fod diwygiad mawr wedi cymeryd lle gyda golwg ar y gydnabyddiaeth i'n gweinidogion, eto yr oeddynt mewn dyled fawr i Mr. Evans nas gallent byth ei thalu. Rhaid edrych i'r byd arall am daledigaeth y gwobrwy. Ond dymunai hir oes i Mr. Evans i waeddi, 'Mawl iddo;' gobeithiai y galluogid ef i wneud hyny eto am lawer o flynyddoedd.

"Y peth nesaf ydoedd darllen penillion a gyfansoddwyd erbyn yr achlysur gan Mr. William Morgan, Aberdâr, a Mr. John Howell, Pencoed. Y maent fel y canlyn:—

Y darluniad ar leni—o Evans,
Sy'n hyfedr, ti weli,
Y dyn oll a adwaen i,
A'i ddillad a ddealli.

Mae Paggi wedi gwneud adail—deilwng,
A'i dalent ddiadfail;
Wele'n bur ddarlun heb ail
Dyn rhyfedd Tonyrefail.

Tanbaid yw llygaid y llun—yn treiddio
Trwyddom—nid fel eilun;
Ameu wyf fi, mai ef ei hun
Ydyw o'i wirle—nid darlun.

Onid têg anrheg yw hon—o roddiad
Arwyddol cyfeillion;
O gariad at eu gwron,
Am hael waith yn nhemlau Ion?

'E fydd hona'n feddianol—i'r teulu
A'r tylwyth olynol;
A 'William Ifan' yn fanol
Ddyd heb fai i'r rhai fydd ar ol.

Fe weina hon wir fwynhad—am hir oes
Wedi marw'n hen-dad;
Dyma fwy a hwy parhad,
Yw mawredd ei gymeriad.

W.

Esgorodd gwresog gariad—'e gafwyd
Gwir gofus ddymuniad;
Berlyn têg, byw arlun tad,
O arbenig dderbyniad.

O neb haeddai gydnabyddiaeth—delaid,
O deilwng ragoriaeth;
Fo'n addurn i Drefnyddiaeth,
A naws dda y fynwes ddaeth.

Yn niwedd oes egniol—gweinidog
O nodwedd rhagorol,
Ni ddylai neb ddal yn ol
Ysbrydiaeth cynes brawdol.

Rhoi dwylaw y frawdoliaeth—wnawn iddo,
A'i anwylo'n helaeth;
Rhoes ini hir wasanaeth,
Wâs y nef—mawr les a wnaeth.

Dewisol fwyn dywysydd—i'r eglwys
A rhaglaw'r Gwaredydd;
'Run â Phaul o ran y ffydd
A'i galonog olynydd.

*Pencoed, Medi 3ydd*, 1868. JOHN HOWELL.

" 'Hefyd darllenwyd y llythyr canlynol oddiwrth y Parch. Watkin Williams, nai i'r Parch. William Evans, yr hwn oherwydd afiechyd oedd yn analluog i fod yn bresenol. Yr oedd y llythyr wedi ei gyfeirio at y Parch. Thomas Levi.

" 'Pencoed, Awst 26ain, 1868.

" 'Anwyl Gyfaill,

" 'Bum unwaith yn mynwesu y gobaith o fod gyda chwi yn cyflwyno y Darlun a'r Anerchiad i fy anwyl ewythr, ar Donyrefail, dydd Iau nesaf. Ond yr wyf yn gweled erbyn hyn fod gwaeledd fy iechyd yn gyfryw, fel y mae yn gomedd i mi hyn o fraint, fel llawer o freintiau ereill y dyddiau presenol. Nid oes dim i'w wneud ond ildio ac ymostwng.

Pa fodd bynag, yr wyf yn sicr fy mod mewn mwy o ddyled iddo na neb o honoch, ac yn tybied fod fy serch yn gryfach ato, a'm parch yn ddyfnach iddo, na dim y gall neb o honoch ei deimlo. Fy nhad naturiol yn y ffydd ydyw, a chefais y fraint o eistedd wrth ei draed a derbyn o'i eiriau, a gobeithio rhyw gymaint o'i ysbryd, am ystod deng-mlynedd-ar-hugain; a chyfrifwn hyn yn gymaint braint a phe cawswn eistedd wrth draed y Dr. Chalmers neu y Dr. Edwards. Gwnaeth ran tad â mi bob amser, a byddaf yn gostyngedig feddwl i minau gael y fraint o wasanaethu gydag ef fel plentyn gyda thad. Yr oeddwn i gydag ef megys un wedi ei feithrin gydag ef, yn falch iawn o hono bob amser, a'i gymdeithas yn hyfrydwch i mi beunydd. Bu ei lygad arnaf i'm cyfarwyddo, a'i fraich i'm cynal, a'i ofal yn ymdaenu drosof, yn amddiffyn, a thynerwch ei gariad i sirioli fy mynwes; ac ni ddygwyddodd dim erioed i oeri ein teimladau at ein gilydd.

"'Nis gall dyn ddymuno mwy na chael treulio ei oes fel y gŵr yr ydych yn ei anrhydeddu. Cael treulio *haner can' mlynedd cyflawn* i wasanaethu yr amcan goreu ac uchaf, sef amcan mawr yr efengyl. A hyny gyda chymaint o ddifrifwch a gonestrwydd, gyda chymaint o hunanymwadiad a chariad, gyda chymaint o amddiffyn ac arddeliad dwyfol ar ei weinidogaeth, a chymaint serch yn mynwesau miloedd yr eglwysi a'r wlad tuag ato. Hyderaf fod iddo nifer o flynyddoedd i fod fel tad anwyl yn ein mysg, yn dirf ac yn iraidd, ac yn ffrwytho yn ei henaint.

"'Pe gwelai yr Arglwydd yn dda roddi i minau ychydig flynyddoedd o iechyd i'w wasanaethu eto, nis gallwn ddymuno mwy na chael "dau barth o'i ysbryd i orphwys arnaf; fy nhad, fy nhad, cerbyd Israel a'i farchogion."

"'Yr eiddoch yn wir,<br>"'W. WILLIAMS.'

"Yna galwodd y Llywydd ar y Parch. William Evans. Dywedodd fod ei deimladau yn bur gymysglyd. Yr oedd

wedi ei lwyr orchfygu. Ar ddechreu yr ysgogiad yr oedd yn teimlo hytrach yn ddiflas; ond yr oedd wedi gwella fel yr ymddangosai fod yr amcan yn tarddu oddiar wreiddyn da. Ni fynai edrych ar yr anrheg fel tâl; yr oedd efe wedi cael ei dalu yn ddyblyg. Nid oedd yn elusen chwaith. Nid oedd arno eisieu elusen. Os nad oedd yn dâl nac elusen, beth ydoedd? Amlygiad o deimladau da cyfeillion ag yr oedd efe wedi bod yn llafurio yn eu plith am haner can' mlynedd. Oddiar pan yr ysgogwyd hyn, yr oedd wedi bod yn edrych yn ol; yr oedd ganddo gyfrif manwl o'i lafur gweinidogaethol. Yr oedd yn hanes faith. Yr oedd yn rhydd i ddywedyd nad oedd wedi llafurio mewn lle cyfyng, a'i fod wedi ei gynal heb fod yn ddolur llygaid i'w frodyr. 'Ni lygrasom ni neb,' ac yr oedd yn dywedyd hyn mewn undeb â'i frodyr. Yr oedd wedi byw yn yr un man ac yn yr un eglwys heb un helbul nac ymrysom, ac heb erioed fod dan ddysgyblaeth nac eglwys, na Chyfarfod Misol, na Chymanfa. Yr oedd wedi teithio dwy fil o filldiroedd bob blwyddyn am ddeugain mlynedd; ac felly wedi teithio gymaint a phe buasai wedi bod oddiamgylch yr holl fyd dair gwaith a throsodd. Yr oedd wedi bod saith gwaith yn y Gogledd gyda saith o frodyr, ac yr oedd pump o'r saith wedi marw. Bu chwe' gwaith yn Llundain, ac yn agos i ddau fis bob tro. Bu fwy na deg-ar-ugain o weithiau yn Bristol. Teimlai ei fod yn fwy dyledus i Bristol a Llundain nag i'w gartref am amser i fyfyrio. Yr oedd wedi myned trwy ymdrech mawr —codi teulu, wyth o blant, ac yr oedd wedi ei gynal trwy y cwbl. I bwy y mae'r diolch? I ras. Yr oedd yn synu gweled teimladau ei frodyr mor wresog. Yr oedd un wns o deimlad da yn fwy o werth na miloedd o bunau. Nid gwagedd yw dangos teimlad da. Yr oedd yn eu cydnabod oll am eu teimladau da tuag ato ef gyda diolchgarwch diffuant. A'r peth diweddaf; beth yw hyny? Cofiwch fi yn eich taer weddiau.

"Y Parch. Edward Matthews ydoedd y nesaf i anerch y

cyfarfod. Yr oedd yn dda ganddo fod yn bresenol. Yr oedd barnau gwahanol am y modd i anrhydeddu teilyngdod. Nid oedd neb yn petruso dim am deilyngdod Mr. Evans. Yr oedd Mr. Evans wedi bod yn gyfaill mawr ac agos iddo ef—elfenau cyffelyb ynddynt yn eu tynu at eu gilydd. Dolen gydiol ydoedd Mr. Evans rhwng yr oes hon â'r amser pan oedd y Cyfundeb yn fwy Eglwysig. Nid oedd Mr. Howells, Trehill, wedi marw pan ddechreuodd ef bregethu. Y mae y Cyfundeb wedi myned yn fwy Ymneillduol er hyny. Yr oedd hwn yn gyfarfod cymedrol. Yr oedd efe yn ofni y buasai yn rhaid iddo ddyweyd rhywbeth i wrth-weithio dylanwad pethau annghymedrol. Ond yr oedd hwn wedi bod yn gyfarfod cymedrol. Yr oedd wedi bod mewn cyfarfod fel hwn, lle y darfu i rywun ddyweyd fod y gweinidog oeddynt yn ei anrhydeddu yn cyfuno rhagoriaethau Elias o Fon, a Williams o'r Wern, a Christmas Evans. Yr oedd y fath organmoliaeth yn ddigon o gerydd am haner can' mlynedd. Ond yr oedd hwn yn gyfarfod cymedrol. Gallasai siarad am haner awr i'w difyru, ac i godi tipyn ar ysbryd Mr. Evans. Yr oedd yn beth hapus gweled cymaint o deimlad da, ac nid oedd eisieu dim ond teimladau da. Pan y collir Mr. Howells a Mr. Evans, fe gaiff crefydd yn Nghymru golled· Ond dichon y daw rhywrai i lanw eu lle.

"Y Parch. David Saunders, Abercarn, a alwyd yn nesaf. Yr oedd efe yn codi i gynrychioli tô arall ienangach o bregethwyr. Nid oedd Mr. Howells yn cynrychioli neb ond ei hunan. Yr oedd Mr. Matthews yn cynrychioli tô arall o bregethwyr, ddechreuodd tua 30ain mlynedd yn ol. Mr. Evans ydoedd un o'r pregethwyr cyntaf yr oedd yn ei gofio. Yr oedd yn boblogaidd iawn y pryd hwnw, nid yn unig yn sir Forganwg, ond trwy Gymru i gyd. Yr oedd mwy o ddysgwyl am dano i Dreforis nag odid un. Yr oedd wedi gwrandaw mwy ar Mr. Howells nag ar Mr. Evans, ac fe ddichon ei fod yn fwy dyledus iddo mewn ystyr grefyddol; yr oedd wedi derbyn ei argraffiadau crefyddol cyntaf o dan

weinidogaeth Mr Howells: ond yr oedd yn cofio am Mr. Evans er ys pum'-mlynedd-ar-ugain; wedi bod yn adrodd penodau o'i flaen ar fore Sabboth, ac wedi cael gair o ganmoliaeth ganddo am hyny; ac os oedd yn bregethwr mawr o'r blaen, yr oedd yn fwy byth felly wedi hyny. Ac yn wahanol i lawer ereill o bregethwyr, ag yr oedd yn meddwl yn uchel am danynt pan yn blentyn, ond wedi myned yn llai yn ei olwg wedi iddo dyfu i fyny, yr oedd Mr. Evans yn parhau i feddu lle uchel yn ei feddwl. Teimlai bob amser wrth ei wrandaw, ei fod yn ddifrifol, fod *earnestness* yn ei bregethu, a'i fod yn credu, ac yn teimlo, ac yn sylweddoli'r gwirionedd; ac er ei fod yn arfer rhai ymadroddion difyr ag oedd yn gogleisio ei wrandawyr, eto, ni fyddai un amser, fel rhai, yn dyweyd dim i beri i ffyliaid y gynulleidfa i grech-wenu. Teimlai ei fod yn beth hollol briodol i gyflwyno darlun o hono ei hun i Mr. Evans. Dyma ddarlun iddo edrych arno ei hunan, nid er mwyn bod yn *vain*, ond fel arwydd o deimladau da y frawdoliaeth tuag ato, yn dyweyd fod llafur haner can' mlynedd yn gymeradwy.

"Y Parch. D. Phillips, Maesteg, a ddywedodd ei fod yn teimlo yn falch o'r anrhydedd oedd wedi ei gael mewn cysylltiad â'r ysgogiad hwn, a bod yr ysgogiad wedi dyfod i derfyniad mor foddhaol. Efe oedd un o'r rhai cyntaf a awgrymodd y priodoldeb o roi darlun i Mr. Evans. Darlun da oedd un o'r pethau ag ydoedd yn ei hoffi fwyaf. Yr oedd efe wedi dyweyd wrth yr *artist*, mai dim ond un diffyg oedd yn y darlun yn awr o'u blaen. Yr oedd troad y llygad yna, llinellau y cymeriad yna, estyniad y bys yna; ond yr oedd un diffyg, a dim ond un, sef nad oedd yn siarad. Yr oedd y Beibl yn agored ynddo, a bys y pregethwr ar yr adnod y pregethodd gyntaf oddiarni, ac yr oedd yr adnod yn ddarllenadwy yn y *painting*:—'Cyfraith yr Arglwydd sydd berffaith, yn troi yr enaid.' (Fel y dywedai Mr. Phillips hyn, atebodd Mr. Evan Evans, Garthgraban, brawd y Parch. W. Evans, yr hwn oedd yn awr yn ddall,—'Yr oeddwn yn un o'r

gwrandawyr.') Yr oedd yn dda bod yn y cyfarfod hwn i weled y fath frwdfrydedd yn cael ei ddangos, a'r fath deimladau da yn cael eu hamlygu. Dymunai o galon i weddill oes Mr. Evans fod yn ddigymylau.

"Cadben Davies, Abertawe, a alwyd yn nesaf i roddi anerchiad yn Saesneg. Dywedodd ei fod wedi mwynhau *treat* yn y cyfarfod hwn, a thosturiai wrth yr ychydig oedd yn bresenol nad oeddynt yn deall Cymraeg. Yr oedd newydd ddarllen tystiolaeth Mr. Gladstone i foesoldeb uchel Cymru. I bwy y dylid diolch am hyny? I Mr. Evans a Mr. Howell, a rhyw ugain ereill o rai cyffelyb. Yr oedd yn cofio y tro cyntaf y clywodd Mr. Evans yn pregethu, a theimlodd awydd i bregethu ar yr un testyn. Meddyliodd y gallai wneud hyny yn hawdd, ond pan yr aeth i geisio gwneud, methodd yn deg. Nid oedd yn rhoddi i fyny i neb am ei barch i'w hen gyfaill. Na; nid *hen* gyfaill ddylasai ddyweyd, yr oedd Mr. Evans yn parhau yn ieuanc: byddai farw yn ddyn ieuanc, a chodai fore yr adgyfodiad yn ieuanc i'r byd lle nad oes hen bobl ynddo. Dymunai alw sylw y bobl ieuainc ato fel esiampl iddynt i'w elelychu. Bydded iddynt fabwysiadu ei egwyddorion, a dilyn ei ol mewn ymroddiad llwyr a diysgog i lafur yn nheyrnas yr Arglwydd Iesu.

"Gwilym Williams, Ysw., Miskin, a gyfarchodd y gynulleidfa, ac amlygodd mewn geiriau a dagrau y fraint a deimlai i fod yn bresenol, ac i sefyll ger eu bron i'r dyben o ymuno gyda hwynt i ddangos parch i Mr. Evans. Yr oedd yn sicrhau iddynt nad oedd neb ag yr oedd efe a'i deulu yn ei barchu yn fwy na Mr. Evans. Teimlodd yn anrhydedd iddo gael cyfranu at y dysteb, ac eto i gael dyweyd ychydig eiriau yn y cyfarfod hwn.

"Y Parch. Thomas Levi a ddywedodd ei fod yn teimlo dan anfantais i godi ar ol y fath araeth hyawdl ag oeddynt yn awr wedi ei chael—araeth ag oedd yn galon i gyd. Yr oedd yn llawen ganddo fod yn bresenol, ac i weled darlun mor llwyddianus. Carasai aros am awr i edrych arno, heb

weled dim arall. Nid oedd yr ysgogiad hwn ond cyflawniad o'r ddyledswydd—'Parch i'r hwn y mae parch yn ddyledus.' Dymunai gyfeirio at ddwy neu dair o linellau arbenig yn nghymeriad Mr. Evans. Yn gyntaf, *Y pur*,—cyfaill pur, dirwestwr pur. Os byddai eisieu dyweyd y fath ddirwestwr ydoedd rhywun, digon oedd dyweyd, a dyna fel yr arferid dyweyd, Mae yn gystal dirwestwr a Mr. Evans, Tonyrefail. Hefyd, Cristion pur; dyma yr argraff oedd ar feddwl pawb am dano. Yn ail, *Yr anwyl*,—y brawd a'r dysgybl anwyl, y gweinidog anwyl. Yr oedd yn wir fod tipyn o Pedr ynddo, sef tanbaid, ond yr oedd mwy o fab Zebedeus ynddo—yr anwyl—sefydlog yn wastad. Pan y gwelid ef ar *blatform* rhyw orsaf, yr oedd yn dda gan bawb ei weled a chael bod gydag ef; ac yntau yr un modd yn caru cyfarfod â'i frodyr, a bod gyda hwynt. Yn drydydd, *Y cyflawn*,—nid yn fawr un ochr, nid âg un llygad yn fwy na'r llall. Er yn bregethwr haner can' mlynedd, eto yn blentyn; er yn sobr a difrifol, eto yn llawen a difyr; y dyn a'r plentyn yn nghyd, a'r ddau yn gyflawn. Gallai fyned gyda'r Iesu i lan y bedd, ac hefyd i'r briodas. Yr oedd wedi bod â'i law mewn llawer o orchwylion yn ystod ei fywyd, ond ni fu ei galon erioed yn fwy llwyr mewn gwaith na'r tro hwn, yn y rhan a gymerasai i wneud hyn o anrhydedd a dangos hyn o barch i Mr. Evans, Tonyrefail.

"Y Parch. William John, Penybont, a ddywedodd ei fod wedi ei godi o dan esgobaeth Mr. Evans, yn Mhontypridd. Yr oedd wedi adrodd penodau o'i flaen, a derbyn gair o symbyliad i fyned rhagddo. Ger ei fron ef y pregethodd gyntaf mewn cyfarfod eglwysig yn Nhrefforest, a gyda ef y pregethodd gyntaf yn gyhoeddus. Yr oedd wedi siarad âg ef bob amser fel gweinidog ac fel tad; a'r un modd gyda holl weinidogion ieuainc y sir. Yr oedd Mr. Evans yn llawn o'r ysbryd ag y dylai y rhai ieuainc ei efelychu.

"Ar ol ychydig eiriau yn mhellach gan y Parchedigion Thomas Rees, Treherbert, Edward Edmunds, Edmund

David, a John Davies, y Parch. E. Williams, Glynogwr, a ddywedodd y gallai efe, fel cymydog i Mr. Evans, dystiolaethu fod yr hyn oll oeddid wedi ei ddyweyd am dano yn wir, a'i fod yn byw yr holl rinweddau a enwasid fel yn perthyn iddo yn ei ardal ei hun. Yr oedd efe yn ddyledus iawn iddo. Ei blant ysbrydol oedd y rhan amlaf o honynt yn Nhonyrefail a Glynogwr. Ac er ei fod wedi bod yn y lle olaf ar rai achlysuron helbulus, yr oedd bob amser wrth geisio cymodi ereill yn cadw pawb yn gyfeillion iddo ef ei hun.

"Yna cododd Mr. Thomas Morgan, Tonyrefail, i gynyg diolcbgarwch i Mr. Phillips am lywyddu y cyfarfod, ac i'r dyeithriaid ereill oeddynt wedi dyfod yn nghyd i anrhydeddu Mr. Evans, na'r hwn nid oedd neb yn fwy parchus a chymeradwy yn y lle hwn, ac wrth hyny anrhydeddu ardal Tonyrefail. Eiliwyd y cynygiad gan Mr. John Jones, Pontypridd. Wedi cydnabod y diolchgarwch, gwnaeth y Cadeirydd roddi emyn allan i'w ganu ; ac felly y terfynodd un o'r cyfarfodydd mwyaf dedwydd ag y buwyd ynddo erioed."

Nid oeddid wedi meddwl yn mlaen llaw am sicrhau gwasanaeth adroddydd perthynol i'r wasg. Ac felly fe ddisgynodd i'n rhan ni i ysgrifenu yr adroddiad uchod. Gwnaethom y goreu y gallem yn niffyg medru ysgrifenu llaw fer. Ond er nad yw yr adroddiad mor gyflawn ag y carasem iddo fod, y mae yn ddigon i ddangos y lle mawr oedd i Mr. Evans yn marn a serch ei frodyr, ac hefyd i egluro i raddau nid bychan yr hyn ydoedd efe ei hun.

# PENOD XI.

## 1868—1875.

### CYNWYSIAD.

Ei natur yn llesgau—Yn graddol ymneillduo o'r Cyfarfodydd Misol—Adgofion am dano yn y Cyfarfodydd Misol—Galwadau mynych yn ei gartref, a'r cylch cymydogaethol—Agoriad capel Treorci, 1869—Cyfarfod Misol Victoria, Mynwy—Bedyddio ei orwyr, William Evans, Llandaf, 1870—Agor capel newydd, Llaneurwg, 1871—Cymdeithasfa Talgarth, ei bregeth yno; sylwadau y Parch. W. Williams—Cyfarfod blynyddol Tonyrefail, 1872—Marwolaeth ei fab Howel—Marwolaeth Mr. David Howell, Abertawy—Temlaeth Dda—Agoriad capel Trehill, 1874—Cwrdd blynyddol Garnddiffaith—Nadolig, 1874, tri diwrnod o'i gymdeithas yn Nghaercurlas; adgofion, a'i adgofion yntau am yr hen bregethwyr—Cyflwyniad anerchiad a Beibl iddo yn Nghymdeithasfa Pontypridd, Awst, 1875.

YMAE Mr. Evans yn awr wedi bod yn pregethu am haner can' mlynedd, ac y mae wedi cyraedd yr oedran da o dri-ugain-a-thair-ar-ddeg. Yr ydym wedi gweled pa mor ffyddlawn a llafurus y bu gyda'r achos mawr yn mhob cylch, yn ei gartref a'r eglwysi cymydogaethol, yn y Cyfarfod Misol a'r Gymdeithasfa. Er ei fod yn hynod iach, ac yn dal mor gryf ag y gallesid dysgwyl, y mae ei natur yn amlwg yn llesgau. Ar ol y flwyddyn y bu yn llywydd, nid ydym yn ei gael yn bresenol ond mewn un Gymdeithasfa y tu allan i'w sir ei hun ar ol hyny, nac ychwaith mewn Cymdeithasfa yn Morganwg, hyd at yr hon a gynaliwyd yn Mhontypridd yn mis Awst, 1875. Nid oedd yn Nhreforis, Awst, 1869; nac yn Hirwaen, Ebrill, 1871; nac yn Nghaerdydd, Awst, 1872; nac yn Llwynbrwydrau, Mai, 1874. Nid oblegyd fod ei ddyddordeb yn y Gymdeithasfa wedi darfod: mae dyddiad pob Cymdeithasfa ar lawr yn ei ddydd-lyfrau. Ond yr oedd ei awch at fyned i'r Cymdeithasfaoedd yn cilio, ac yr oedd

arno hefyd raddau o ofn y cynhyrfiad yn nglyn â'r cynulliadau hyny, ac fe ddichon ei fod yn teimlo nad oedd ei nerth corphorol yn ddigonol i'r gwaith cyhoeddus y byddai efe yn sicr o gael ei alw iddo pe buasai yn presenoli ei hunan ynddynt. Yr un modd nid ydym yn ei gael yn dilyn y Cyfarfodydd Misol fel yr arferasai. Dim ond mewn tri Chyfarfod Misol y bu yn 1869, sef yn Ystrad Rhondda yn Ebrill, yn y Graig, Merthyr, yn Awst, ac yn Aberthyn yn Medi, ac yn yr olaf yr oedd yn agor y mater,—Balchder yr oes. Aeth i Gyfarfod Misol Glandwr yn nechre Ionawr, 1870; yr oedd yn llywyddu yno, ac yn pregethu am ddeg yr ail ddydd. Mae yr hyn a ddywedwyd yn awr yn cynwys cyfnewidiad arall yn nglyn â Methodistiaeth Morganwg. Yr ydys wedi sylwi fod Cyfarfod Misol cyntaf bob blwyddyn yn cael ei gynal er ys ugeiniau o flynyddoedd yn y Pil. Hwn ydoedd prif gyfarfod y flwyddyn, ac yr oedd y Pil yn lle canolog, ac yn mhob modd yn fan cyfleus i'w gynal; a byddai y cynulliadau fel rheol yn lluosog iawn. Ond yn awr y mae Cyfarfod Misol Ionawr fel eiddo pob mis arall i fyned ar gylch. O Glandwr aeth Mr. Evans i gyfarfod pregethu blynyddol y Pil. Yr oedd Cyfarfod Misol Mawrth, 1870, yn cael ei gynal yn Nglynogwr, ac y mae yn ddiameu ei fod yno. Yr oedd yn Nghyfarfod Misol Bryn Seion, Aberdâr, yn Mehefin, 1871. Nid ydym yn ei gael mewn Cyfarfod Misol o gwbl yn 1872, os na fu yn y Porth ar y 29ain a'r 30ain o Awst. Cynaliwyd y Cyfarfod Misol yn Mawrth, 1873, yn Nhonyrefail. Nid ydym yn ei gael mewn un Cyfarfod Misol yn 1874. Mae yn dra thebyg ei fod yn Mhenygraig ar y 13eg a'r 14eg o Fai, 1875. Fe welir felly ei fod wedi rhoddi i fyny myned i'r Cyfarfod Misol ond yn dra achlysurol. Eithr pan fyddai yn bresenol, byddai yn hollol gartrefol yn mysg ei frodyr, yn symud yn esmwyth a dedwydd gyda hwynt yn eu holl drefniadau, a phob cwestiwn neu sylw o'i eiddo yn cael y derbyniad mwyaf serchog a pharchus gan yr holl frawdoliaeth. Fel engraifft o'r modd

cartrefol yr oedd yn ymdroi yn nghanol ei frodyr yn y Cyfarfod Misol: ar ol gwrandaw dwy bregeth y nos gyntaf un tro, y naill yn cynwys ymdriniaeth fanwl ar bwnc o athrawiaeth, a'r llall gan weinidog ag oedd yn hoff-ddyn y cynulleidfaoedd, ond nad oedd yn gofalu cymaint am drefnusrwydd yn nghyfansoddiad ei bregeth; yn y cyfarfod neilllduol yr ail fore daeth yn naturiol ar ffordd Mr. Evans i gyfeirio at y pregethau y nos o'r blaen, a dywedodd, "Ni gawsom y llythyren ganddo fe," gan olygu y bregeth gyntaf, ac wedi troi at y pregethwr arall ychwanegodd, "a'r ysbryd genych chwithau." Mewn Cyfarfod Misol arall yr oeddid yn enwi brodyr i gynrychioli y sir mewn Cymdeithasfa oedd i'w chynal yn fuan ar ol hyny yn sir Aberteifi. Dywedodd rhywun yn ddigon diniwed, "Y mae —— a —— yn awr ar daith trwy sir Aberteifi." Atebodd Mr. Evans, "Da iawn, mawr lwydd i'r ddau frawd; ond y mae nhw a finau yn rhy hen i gynrychioli'r sir yn yr *Association*; yr wyf fi yn cynyg —— a —— i fyned yno;" a phasiwyd ei gynygiad yn unfrydol. Afreidiol yw adrodd yr hyn y gellir ei ddarllen rhwng y llinellau. Ar achlysur arall yr oedd cais am adeiladu capel mewn man neillduol, ond gwrthwynebid y cais am nad oedd Methodistiaid yn y lle i ffurfio eglwys; cyfarfyddodd yntau yr wrth-ddadl trwy ddyweyd, "Mae yno ddigon o bechaduriaid:" caniatawyd y cais. Pau yr oeddid yn derbyn Mr. William Davies, Llantrisant, yn aelod o'r Cwrdd Misol, holid ef am ei athrawiaeth gan Mr. R. Saunders, gan godi ei gwestiynau o'r Hyfforddwr; ymyrodd Mr. Evans trwy ddyweyd, "Saunders bach, mae William Dafydd yn gwybod yr Hyfforddwr yn llawn cystal a chwi a finau." Dro arall ar achlysur cyffelyb yr oeddid yn gofyn cwestiynau celyd a dyfnion: darniodd y gofyniadau fel ag i helpu y pregethwr ieuanc i fyned yn llwyddianus trwy yr arholiad.

Ond os oedd Mr. Evans yn mron wedi darfod myned i'r Cymdeithasfaoedd a'r Cyfarfodydd Misol, yr oedd yn

cyflawni ei gyhoeddiadau Sabbothol gyda ffyddlondeb mawr, ac yn parhau i wir ofalu am yr achos yn ei gartref, ac yn y dosbarth cylchynol. Y Sul cyntaf ar ol dathliad ei Jiwbili fel pregethwr yr oedd yn Bethania, Aberdâr; y Sabboth dilynol yn y Graig, Merthyr; yr un wedi hyny yn Salem, Pencoed, a Rhiwceiliog; a'r Sul ar ol hyny yn Abercenffig a Threlales. Ar yr 2il o Hydref (1868) yr ydym yn ei gael yn Mryntirion, "*society*; dodi 2 flaenor,—David Williams a William Williams," sef dau nai iddo, a brodyr i Mr. Watkin Williams, Pencoed. Methodd fyned i ddau gyhoeddiad yn y mis hwn, ac felly yr un modd y Sabboth cyntaf yn Nhachwedd; ond aeth i Carmel, Aberdâr, ar yr ail Sabboth, ac ar y trydydd i Hermon, Dowlais. Mae y rhestr sydd yn dilyn yn esiampl o amlder y galwadau oedd arno yn ei gartref a'r cylch cymydogaethol: Tach. 19eg, Gilfach Goch, *society*, 7; 20fed, Ton 2, angladd; 23ain, Dinas 2, angladd; 24ain, Penygraig 7, *society;* 26ain, Gilfach Goch 10, *society*. Nid oedd yn iach yn nechre Rhagfyr, ac nis gallodd fyned i Lansawel ar y 6fed, ond yr oedd yn Llantrisant y Sul dilynol, a'r un wedi hyny yn Nhregolwyn a Llysyfronydd. Cyflawnodd ei holl ymrwymiadau yn Ionawr a Chwefror, 1869. Ar y 1af o Fawrth yr oedd yn agoriad capel Treorci, ac yn pregethu am 2 o'r gloch. Yr oedd hyny ar ddydd Llun, ac yntau wedi pregethu dair gwaith y Sabboth blaenorol yn Aberthyn a Phontfaen. Y nos Iau canlynol yr oedd yn Mhenygraig,—"*society*, bedyddio 6 o blant." Methodd fyned i'r Cefn ar y 7fed; ond aeth i Rock a Manmoel, sir Fynwy, erbyn y 14eg, ac yr oedd yn Mhenycae ar yr 21ain. Dydd Gwener Croglith yr oedd yn cymeryd rhan yn nghyfarfod pregethu Penygraig; ond ar gyfer Sul y Pasg y geiriau yn y côf-lyfr ydynt, "methu; ddim yn iach;" yr oedd i fod yn Llanwyno. Ar y 30ain o Fawrth yr oedd yn y Gilfach Goch,—"*society*; ymweliad;" ac ar y 1af o Ebrill yn cyflawni yr un gwasanaeth yn Nglynogwr.

Mae y crybwylliadau uchod yn engraifft deg i ddangos y

modd y galluogwyd ef i wasanaethu ei Arglwydd yn y cyfnod o'i fywyd ag yr ydym yn awr arno. Byddai yn arwain i ormod meithder i ddilyn yn mlaen i roddi y manylion. Ar yr 8fed o Fehefin, 1869, yr oedd yn Salem, Pencoed, "gosod Mr. William Howells yn flaenor." Aeth i gyfarfod pregethu yn Seion, Brynsadler, ar y 3ydd a'r 4ydd o Dachwedd. Ar y 14eg o'r mis hwnw yr oedd yn Nhredegar, ac arosodd i Gyfarfod Misol Mynwy a gynaliwyd ar y 15fed a'r 16eg yn Victoria, a phregethodd yno am 6 y nos gyntaf ac am 10 yr ail ddydd. Ar y trydydd Sabboth yn Ionawr, 1870, yr oedd yn St. Ffagan y bore a'r hwyr; ac yn y prydnawn yn Llandaf, pryd y bedyddiodd ei orwyr William Evans, mab hynaf ei ŵyr William Evans, ac ŵyr ei fab William Evans. Ar gyfer y dyddiad Mawrth y 24ain, yr ydym yn cael y cofnodiad, "Treherbert, gosod 3 blaenor newydd." Ebrill yr 11eg, "Trefforest, angladd Mrs. Robbatham." Mai 4ydd, "Penllwyn Gwent, 11, angladd Thomas Williams [tad y Parch. Evan Williams, Glynogwr], 82. Phil. 1. 21." Gorph. 28. "Jerusalem, Ystrad, *society*, gosod 3 blaenor newydd." Ar y 6ed o Chwefror, 1871, pregethodd yn agoriad capel newydd Llaneurwg.

Y dyddiad nesaf sydd yn dyfod dan ein sylw ydyw y 6ed a'r 7ed o Fehefin. Dyma'r cofnodiad fel y gwnaed ef gan Mr. Evans ei hun:—"6fed, am 6, 2 Cor. 7. 1; 7fed, Cymdeithasfa Talgarth at 10, Act. 26. 29." Dyma yr unig Gymdeithasfa y bu ynddi ar ol Cymdeithasfa Aberteifi, Awst, 1868, hyd Gymdeithasfa Pontypridd, Awst, 1875; a'r Gymdeithasfa olaf iddo y tu allan i'w sir ei hun, a'r olaf oll iddo bregethu ynddi. Yr oeddym ni gydag ef yn Talgarth, ac yn cyd-letya yn nhŷ Miss Price, ac yr oedd y Parch. John Roberts, Cenadwr, a Mrs. Roberts yn aros gyda ni. Yr oedd Mr. a Mrs. Roberts ar gychwyn allan i'r maes cenadol. Wedi gwrandaw Mr. Roberts yn rhoddi anerchiad o flaen y Gymdeithasfa, gofynasom i Mr. Evans yn ei bresenoldeb yn y llety beth a feddyliai o hono, pryd yr atebodd, "Fe wnaiff

y tro, yr oedd yn dyweyd ei stori yn ddiglem." Tystiai Mr. Roberts mewn llythyr atom ar ol ei ddychweliad adref o'r India y tro cyntaf, fod y gair hwn wedi bod yn gynaliaeth i'w feddwl laweroedd o weithiau.

Yr oedd Mr. Evans yn hynod o siriol yn y Gymdeithasfa yn Nhalgarth, yn hollol wrth ei fodd. Y Parch. Edward Matthews oedd yn llywyddu. Yr oedd ei hen gyfoed a chyfaill mynwesol Mr. David Howell yn bresenol, a Mr. David Charles Davies, y pryd hwnw o Lundain. Yr oedd yr hin hefyd yn dra hyfryd, ac yr oedd pob peth yn myned yn mlaen yn hynod gysurus a dedwydd. Nid oedd efe yn cymeryd nemawr o ran yn y Cynadleddau; ond yr oedd yn amlwg yn mwynhau y cwbl, ac yn talu sylw manwl i bob peth. Pan y cyflwynodd y Parch. William Williams, Abertawy, a ninau, ein hadroddiad o'r Arholiad Cymdeithasfaol a gynaliwyd yno, ac yn ngwyneb fod dau neu dri o'r ymgeiswyr heb ddyfod i fyny yn gwbl â'r safon, gofynodd y llywydd doniol i Mr. Evans a oedd y rhai oeddynt ar ol i gael myned i mewn trwy borth trugaredd, ac atebodd yntau gyda thon doddedig ac erfyniol, ac eto yn hollol benderfynol a diamwys, ei fod am iddynt gael trugaredd; a dywedodd Mr. Matthews, "Yr oeddwn i yn meddwl mai fel hyny y buasech chwi," a gyda hyny yr oedd gwen o foddlonrwydd yn ymdaenu dros yr holl Gymdeithasfa, a phenderfynwyd iddi fod felly. Fel y gwelsom yr oedd Mr. Evans yn pregethu yn un o'r capelau am 6 nos Fawrth, y 6ed, a thrachefn am 10 ar y maes dydd Mercher, y 7fed. Nid oeddym yn ei wrandaw y nos o'r blaen, ond deallasom iddo gael oedfa gysurus. Am yr oedfa ddeg ar y maes, os nad oedd mor nerthol ag ydoedd yn Nhrefdraeth, yn Hydref, 1867, eto yr oedd mewn hwyl ragorol, ac yn pregethu yn hynod effeithiol a gafaelgar. Y mae y Parch. William Williams yn cyfeirio at yr oedfa yn ei *Welsh Calvinistic Methodism.* Dyma ei eiriau, ac yr ydym yn eu rhoddi yn yr iaith yr ysgrifenwyd hwynt:—"The Reverend William Evans, of Tonyrefail, is now verging on

eighty years of age, but is still a mighty preacher. A few weeks ago, on the 7th of June, 1871, we had the pleasure of hearing him preach in the open air to a very large congregation, within a few yards of the spot where Howell Harris first breathed the spiritual life. He had a complete mastery over his subject and his audience; his spirit seemed to burn with the love of Christ and of souls; while his silvery voice made the welkin ring." (tud. 101.)

Ar y 25ain o fis Mehefin yr oedd yn y Rock a Manmoel, sir Fynwy, ac arosodd dros y Cyfarfod Misol a gynaliwyd yn y Rock dydd Llun y 26ain, a phregethodd yno yn yr hwyr. Bu mewn cyfarfod pregethu yn Llanelli ar yr 17eg a'r 18ed o Fedi, a'r wythnos ddilynol mewn cyfarfod cyffelyb yn yr Eglwys Newydd, gerllaw Caerdydd. Ar yr 20fed o Hydref pregethodd yn angladd Mr. Evan David, Llantrisant; ei destyn oedd 1 Tim. iv. 7, 8; ac ar y 13eg a'r 14eg o Dachwedd yn nghyfarfod pregethu Gyfeillon, Cwm Rhondda. Nid oedd yn iach y Sul olaf o 1871, ac am yr un rheswm nis gallodd fyned i'w gyhoeddiad y Sabboth cyntaf yn 1872. Nid ydym yn cael y gair "methu" ar ol hyny hyd y 9fed o Fehefin. Yn y cyfamser yr oedd wedi gallu cyflawni ei holl addewidion, a hyny mewn lleoedd yn mhob parth o Forganwg, a bu am un Sabboth yn sir Fynwy. Ar y 18fed a'r 19eg o Fedi yr oedd yn nghyfarfod pregethu Llaneurwg. Yr wythnos ddilynol cynaliwyd cyfarfod pregethu blynyddol Tonyrefail; ac y mae yn enwi y pregethwyr fu yn y gwaith, a'r testynau, a swm y casgliad, sef £72. Y gweinidogion oeddynt Mr. Samuel Jones, Mr. T. Rees, Mr. Edward Matthews, a Mr. D. Rees, Llanelli. Yr oedd Mr. Evans wedi cyfarfod diweddar weinidog enwog Capel Als, Llanelli, mewn cwrdd blynyddol y buasai efe ynddo am Sabboth yn y dref hono ychydig amser cyn hyny, ac wedi "hoffi ei ysbryd." Yr oedd Dr. Harries Jones a Mr. Evans yn cydbregethu y bore a'r nos, a gadawodd brodyr y lle iddynt i benderfynu rhyngddynt pa un o honynt oedd i bregethu yn

y prydnawn; a thra yr oedd y ddau yn cymell y naill y llall, dywedodd Mr. D. Rees, yr hwn oedd wedi dechreu yr oedfa, "Mi bregethaf fi os na allwch chwi gytuno ar unwaith pa un o honoch sydd i wneud." Ymfoddlonodd Mr. Evans i bregethu, a dywedodd ar ei bregeth, "Yr wyf yn hoffi ysbryd fy mrawd," gan gyfeirio at yr hyn a ddywedasai Mr. Rees.

Yr ydym yn gadael ei eiriau ei hun i gyfleu y crybwylliad nesaf sydd genym i'w adrodd. Hydref yr 2il, 1872, "Yn ei 40 mlwydd oed, Howell yn ymadael â'r byd hwn y dydd hwn am 2 o'r gloch. O fy anwyl Howell! dyma deimlad tost! eto, yn ddiau, sanctaidd a da yw yr Arglwydd yn ei holl ffyrdd. Hyd. 7fed, angladd fy anwyl Howell,—11, gweddiodd y Parch. William John, Penybont, pregethodd y Parch. E. Matthews--Salm 39. 6, 7." Nid oedd Mr. Howell Evans erioed wedi bod yn gryf, ond am yn agos yr oll o'r haner olaf o'i fywyd yr oedd wedi dyoddef nychdod mawr, ac ar brydiau wedi cael cystudd caled. Bu rhaid iddo dreulio rhan fawr o'r amser hwn gyda ni yn Nghaerdydd. Yr oedd yn anwyl iawn genym, yn gwbl fel un o honom ein hunain; yr oedd megys mab yn hytrach na brawd i'n tad, ac fel brawd i ninau. Ni bu perthynas mwy caruaidd erioed. Meddai ar y ddynoliaeth oreu, ac yr oedd yn llawn o foneddigeiddrwydd naturiol. Cawsai well ysgol na'i frodyr hynach. Bu am tua dwy flynedd mewn ysgol yn Bath, dan y diweddar Mr. Browning. Cafodd ras hefyd yn ddiameuol. Gwnawn gofio byth y nos Iau y daeth gyda ni i'r eglwys yn nghapel y Docks, Caerdydd—yr oedd hyny tua'r flwyddyn 1860; ac yr ydym yn cofio yn dda waith ein hanwyl fam yn dadgan ei hargyhoeddiad fod Mr. Howell Evans yn meddu y rhan dda. Rhoddwyd derbyniad llawen iddo. Yr oedd yn hoff-ddyn yr holl frawdoliaeth; ac yr oedd ei galon yntau yn llwyr gyda'r achos mawr, ac ymhyfrydai yn holl bethau y cysegr. Yr oedd ein galar oll yn fawr ar ei ol, a hiraeth ei anwyl dad yn nodedig felly. Dygwyddem fod gartref yn Nghaerdydd ar y pryd, a threuliasom Sabboth y 6fed o Hydref ar Donyr-

efail. Yr oedd yn gyfarfod ysgolion yno y diwrnod hwnw; ysgol Glynogwr wedi dyfod i adrodd pwnc gydag ysgol y lle. Cyhoeddiad Mr. Evans oedd yn Nhonyrefail y Sul hwnw; ac felly syrthiodd arnom i arwain y gwasanaeth goreu y medrem dan yr amgylchiadau. Dydd Llun, y 7fed, daeth nifer luosog yn nghyd i'r angladd i amlygu eu cydymdeimlad â'r teulu, ac i ddangos eu serch at goffadwriaeth ein câr ymadawedig.

Yr oedd y meddwl puraidd mai sanctaidd a da yw Duw yn ei holl ffyrdd yn gymorth mawr i'r tad trallodus, a galluogwyd ef hefyd i ymgysuro yn ei waith. Aeth at yr oedfa 6 i Benygraig y nos Sul dilynol, sef y 13eg o Hydref, a phregethodd am 10 bore dranoeth, y 14eg, yn nghyfarfod blynyddol y Dinas, ac aeth oddiyno erbyn 3 o'r gloch i weinyddu mewn angladd ar Donyrefail. Aeth mor bell a Phontrhydyfen y Sabboth dilynol, ac i Lanwyno y Sul wedi hyny. Ond methodd fyned i'r Docks y Sul cyntaf yn mis Tachwedd. Cyflawnodd ei addewidion am yr oll o'r Sabbothau dilynol hyd ddiwedd y flwyddyn. Y mae yn dechreu y flwyddyn newydd, 1873, yn gryf; ac ni chollodd ond dau Sabboth hyd y cyntaf yn Awst, a dim ond dau yn ychwanegol o hyny yn mlaen hyd ddiwedd y flwyddyn. Hefyd, ar yr 11eg o Ionawr, yr oedd wedi pregethu yn angladd Mrs. Jones, un o "Ladies y Ton," yn 92 oed, oddiar Phil. i. 21. Ar y 13eg o Fai, cyflawnodd yr un gwasanaeth yn angladd gweddw Mr. Evan David, Llantrisant, gan gymeryd hefyd yr un testyn.

Yr ydym unwaith eto yn cyflwyno crybwylliad yn ei eiriau ef ei hun ar gyfer y dyddiad Awst 4ydd, 1873:—"D. Howell, Abertawy, yn ymadael â'r byd hwn; dyn hynod o dduwiol, a gwir ddefnyddiol yn mhob cylch." Yr oedd Mr. Howell ac yntau, fel y mae yn hysbys, yn gyfoedion, ac hefyd yn gyfeillion mawr. Buont yn cydweithio ar yr un maes am yn agos i bymtheg mlynedd a deugain, a'r cyd-ddealldwriaeth goreu a mwyaf caruaidd wedi bod bob amser rhyngddynt. Yr oedd yn olygfa effeithiol i'w gweled, fel dangosiad o hyny, yn siglo

dwylaw yn nghyfarfod y pregethwyr yn Nghymdeithasfa Taibach, gwanwyn 1868, pryd, fel yr adroddasom eisioes, y cafwyd un o'r cyfarfodydd mwyaf gwlithog ag y buom erioed ynddo i wrandaw yr hybarch dad o Abertawy yn adrodd ei brofiad, a'r ymddyddan dedwydd a buddiol a ddilynodd. Yr ydoedd yn wir yn wledd ysbrydol o'r fath oreu. Y tro cyntaf i ni ei weled wedi marwolaeth Mr. D. Howell, dywedodd:— "Yr wyf yn teimlo hiraeth tost ambell bryd ar ol Mr. David Howell. Yr oeddwn yn hoff iawn o'i gyfeillach, yn enwedig dan rhai amgylchiadau." Wedi marwolaeth Mr. Howell, Mr. Evans oedd yn awr y gweinidog ordeiniedig hynaf yn y Cyfundeb, a daeth felly yn "dad ei eglwys."

Yn y flwyddyn hon, 1873, sefydlwyd un o gymdeithasau y *Good Templars* yn yr ysgoldy, yn nglŷn â chapel Tonyrefail. Yr oedd y wedd newydd yma ar yr achos dirwestol yn hynod o lewyrchus ar y pryd, ac y mae yn ddiameu fod llawer o ddaioni yn cael ei wneud drwyddi. Ar y cyntaf, teimlai Mr. Evans yn annueddol i ymuno â'r mudiad; ond wrth gymeryd pob peth i ystyriaeth, nis gallai ei wrthwynebu. Fe gaiff ddyweyd yr hanes yn ei eiriau ei hun:—"Tri pheth, medd rhywun, sydd genyf yn erbyn Temlaeth Dda; ond erbyn ystyried yn ddwys ni allaf fod yn ei herbyn—1, Ei defodaeth; 2, Aml swyddogaeth; 3, Y dirgelwch mae yn gadw iddi ei hun." Ymunodd â'r gymdeithas, a thrwy hyny rhoddodd ei gefnogaeth weithredol i'r symudiad.

Ar yr 17eg o Awst, yr oedd yn Mhenygraig y bore. Yr oedd y cyfeillion yn y lle hwn yn garedig iawn tuag ato, ac yn gofalu cael cynorthwywr iddo ar y Sabbothau y byddai yno, yr hyn oedd yn arbediad mawr iddo; a gallai, os dewisai, ddychwelyd adref cyn yr hwyr. Methodd fyned i Droedyrhiw y Sul dilynol, ond gallodd gyflawni ei addewid i Gasnewydd-ar-Wysg y Sabboth canlynol; a dilynodd ei gyhoeddiadau agos yn ddifwlch hyd ddiwedd y flwyddyn.

Ni chollodd yr un Sabboth am y pedwar mis cyntaf o'r flwyddyn 1874. Bu hefyd yn agoriad y capel newydd yn

Nhrehill, ar yr 22ain a'r 23ain o Ebrill, lle y pregethodd ddwy waith, y nos gyntaf oddiar Salm xv., ac am 10 yr ail ddydd oddiar 1 Petr i. 21. Methodd "gan lesgedd" a myned i Banttywyll, Merthyr, ar y 10fed o Fai. Ond y dydd Mawrth canlynol yr oedd yn pregethu mewn angladd un "Anne Williams, 76 oed." Y Sul a'r dydd olaf o Fai, yr oedd yn Garnddiffaeth, sir Fynwy, ac hefyd y Llun dilynol, y 1af o Fehefin, yn eu cyfarfod blynyddol yno, a phregethodd bedair gwaith. Bu yn y Rock a Manmoel ar y 14eg o'r un mis, ac yn pregethu dair gwaith; a gallodd fyned i'w holl gyhoeddiadau, gyda phump eithriad yn unig, o hyny hyd ddiwedd y flwyddyn, a gwasanaethodd mewn lluaws o angladdau. Yr oedd i fod yn Mountain Ash dydd Nadolig mewn cyfarfod pregethu. "Methu; ddim yn iach," sydd ar lawr ar gyfer y dyddiad hwnw; a'r un modd nid oedd yn alluog i bregethu ar Donyrefail y Sabboth dilynol. Yr oedd y Nadolig y flwyddyn hono ar ddydd Gwener, ac yr oeddym wedi treulio y tri diwrnod cyntaf o'r wythnos gydag ef yn Nghaercurlas. Dyma y pryd y cawsom y cyfleusdra i'w wrandaw yn adrodd ei adgofion am yr hen bregethwyr ac i'w hysgrifenu i lawr, yn nghyda rhai pethau ereill a fuasent wedi myned yn gwbl annghof oni buasai iddynt gael eu dyogelu felly. Ni chawsom ef erioed mor agored ag ydoedd y tro hwn. Er ei lesgedd yr oedd yn hynod hapus. Ni fu nemawr allan o'r tŷ drwy'r wythnos; ond yr oedd yn dal yn mlaen i adrodd hanesynau, gofyn cwestiynau ac i ateb cwestiynau, yn mron o'r bore hyd y nos, ond pan y byddem ni yn awr ac yn y man yn myned i ystafell arall, er iddo ef gael gorphwys ac i ninau gael cyfle i ddodi i lawr y pethau yr oedd wedi eu dywedyd. Yr oedd yr un pryd yn teimlo oblegyd ei lesgedd, ac yn dra siomedig oherwydd ei anallu i fyned i Mountain Ash. Meddai, "Yr oedd gen' i ormod o fwriad i fyned i Mountain Ash, 'does dim *doubt*." Dywedodd hefyd, "Y mae yn bryd i mi farw. Mae yn syndod fy mod i wedi byw cyhyd, wrth gofio i mi waeddi cymaint pan yr oeddwn yn ifanc." "Ond 'doedd

gwaeddi ddim yn beth mor galed i chwi a llawer?" "Nac oedd, mae'n debyg; yr oedd yn naturiol iawn." Meddem wrtho, "Ni chawsoch chwi eich blino fawr gan ofn dynion?" "O do, fel y bum i ffolaf," oedd ei ateb. "Chwi roisoch chwi oreuon eich amser a'ch oedran a'ch nerth i'r gwaith?" "Do, yn llwyr iawn hefyd." Yn ngwyneb ei anallu i gyflawni ei addewid dydd Nadolig gwnaeth y sylw, "Dechre *serious* yw dechre ffaelu." "A fynwch chwi rywbeth am danoch i'ch cadw yn gynes?" meddai Mrs. Evans wrtho, ar ol iddo godi bore dydd Mercher y 23ain o Ragfyr. "Na fyna i ddim ond llonydd a brecwast, i mi gael tipyn o nerth." Ac ar ol brecwast dywedodd, "Yr wyf yn henach nag oedd fy nhad, na neb sydd yn perthyn i mi, ond Evan, fy mrawd; ac y mae e' wedi marw, mewn ystyr, er ys deg mlynedd."

Yr oedd ganddo gyflawnder o adgofion am yr hen dadau yn y weinidogaeth, y rhai a ysgydwent Gymru yn mlynyddoedd diweddaf y deunawfed ganrif, ac yn yspaid y deugain mlynedd cyntaf o'r ganrif bresenol. Yr oedd yn cofio mor bell yn ol a Mr. Jones, Llangan, a Mr. Charles o'r Bala. Ac am y ddau Mr. Richard, Mr. Ebenezer Morris, a Mr. Elias, ac amryw ereill o enwogion, treuliodd lawer o amser yn eu cymdeithas, a bu yn cyd-lafurio gydag amryw ohonynt am flynyddoedd. Coleddai y meddyliau uchelaf am danynt. Yr oedd eu coffadwriaeth yn fendigedig i'w deimladau. Ei brif hyfrydwch ydoedd ymddyddan am danynt. Ac os ceid ef mewn hwyl i fyned dros ei hoff hanesynau, byddai mewn gwirionedd yn wledd, yn nefoedd ar y ddaear. Un o'r pethau cyntaf yr ydym yn ei gofio am dano ydoedd ei weled a'i glywed yn gwneud hyn. Pan oeddym eto ond ieuanc iawn yr ydym yn cofio ei weled yn codi o'i gadair, ac yn neidio i fyny i sefyll arni, ac yna yn adrodd geiriau un neu arall o'r hen bregethwyr. Ac wedi iddo beidio ag esgyn i ben ei gadair, byddai fel rheol yn sefyll i adrodd ei adgofion, ac yn gyffredin hefyd byddai yn llawn cynhyrfiad—ei lygaid yn fflamio, ei lais yn codi, a'i freichiau yn symud, wrth fyned

dros hanes yr hen Gymdeithasfaoedd, a'r brodyr enwog oedd yn arwain ac yn pregethu ynddynt. Yna eisteddai i lawr, ond cyn pen ychydig funudau yr oedd ar ei draed drachefn yn adrodd yn fywiog a brwdfrydig adgofion ychwanegol oeddynt wedi dyfod i'w feddwl. Fel y gallesid dysgwyl, ail-adroddodd yr un hanesynau laweroedd o weithiau; ond bob tro yr oedd rhyw newydd-deb ynddynt, oblegyd y newydd-deb ysbryd gyda pha un yr oedd efe yn eu hadrodd.

Y mae i'w sylwi, er cymaint adroddai Mr. Evans am yr hen bregethwyr, ac er mor fawr ei edmygedd ohonynt, ni byddai un amser yn eu dynwaredu. Ni wnaeth arfer efelychu na llais nac ystum yr un ohonynt. Buasai hyny yn groes i'w chwaeth ac i'r syniad oedd ganddo am y difrifwch sydd yn gweddu i bregethwr.

Gwrandawodd ar Mr. Jones o Langan dair gwaith, sef yn Llantrisant, Llanbedr-ar-fynydd, a Phontfaen. Yr ydoedd yn yr ysgol yn Mhontfaen pan y clywodd Mr. Jones yn pregethu yn y dref hono, ac aeth yr holl ysgol i'r oedfa i wrandaw yr efengylydd enwog. Yn mhlith manau ereill ag y byddai Mr. Jones yn myned yn achlysurol i bregethu ydoedd Brynmenyn,—lle ychydig filldiroedd i'r gogledd o Benybont-ar-Ogwy. Yr oedd yn y lle hwnw gymeriad hynod o'r enw Thomas Jones, yr hwn oedd yn cadw tafarn a fferm, ac hefyd yn îs-oruchwyliwr, yn perthyn i ystâd Llanharan. Aeth at Mr. Jones un diwrnod i ofyn iddo a ddeuai i bregethu yn Brynmenyn y Sul canlynol. Atebodd Mr. Jones ef trwy ofyn, "Pa un a wyt ti fwyaf am dano, fy ngwrandaw i neu werthu cwrw?" "Tipyn o bob un o'r ddau." "Gan i ti ddyweyd y gwir mi ddeuaf." Y mae genym un adgof arall o eiddo Mr. Evans am Mr. Jones, Llangan. Mewn Cyfarfod Misol yn sir Forganwg yr oeddid yn ymddyddan yn nghylch achos dyledion y capelau. Mr. Jones oedd yn llywyddu. Anogid ar fod ymdrechion neillduol yn cael eu gwneuthur i symud ymaith y ddyled. Yn nghwrs yr ymdriniaeth cododd un o'r blaenoriaid, gŵr o'r enw Evan, a dyrnwr wrth

ei alwedigaeth—neu fel y gelwid ef yn null sathredig y wlad, Ianto'r Dyrnwr—a dywedodd, "Ië, talwch nhw." "Pa fodd, Ianto bach?" gofynai Mr. Jones. "Fel hyn," atebai y dyrnwr, gan osod ei law yn ei logell a thynu allan bump hen gini, a'u gosod ar y bwrdd. "Dyna ti wedi ein maeddu ni yn deg, Ianto," meddai y llywydd parchedig.

Dim ond unwaith y clywodd Mr. Charles o'r Bala, ac yr oedd yn cofio y testyn,—"Od oes neb heb ysbryd Crist ganddo, nid yw hwnw yn eiddo Ef." Yr ydym yn cofio iddo adrodd gyda chymeradwyaeth y sylw canlynol am Mr. Charles o'r Bala, a glywsai er ys llawer o flynyddoedd,—"Nid oedd efe yn ŵr ysgythrog, eithr yr oedd yn *lanco* yn ddwfn, ond yr oedd ei *lance* bob amser mewn olew." Eithr tra nad oedd gan Mr. Evans ond côf bach am Mr. Charles o'r Bala, yr oedd yn cofio llawer am ei frawd, Mr. David Charles o Gaerfyrddin. Buont gyda'u gilydd amryw droion yn y Cymdeithasfaoedd. Byddai yn hoff o adrodd sylw hen flaenor o'r enw William Jones o Ystradgynlais,—"Mr. Evans, dyna amser braf oedd arnom ni yn y Sassiynau er ys lawer dydd, pan yr oedd Mr. Charles, Caerfyrddin, yn taflu'r *lumps* i'r ford, a Mr. Ebenezer Morris yn eu cymeryd i fyny, ac yn eu dangos." Ac wrth adrodd y dywediad hwn, ac i egluro'r meddwl, cymerai ei napcyn poced, ac wedi ei daflu yn sypyn ar y bwrdd yn ei ymyl, codai ef i fyny ac agorai ef ar ei hyd, i'r dyben o'i ddangos yn ei lawn faint.

Yr oedd ganddo hefyd ddywediad o eiddo y Parch. William Howells, Longacre, a adroddai gyda dawr arbenig. Y tro cyntaf yr aeth Mr. Evans i wasanaethu yr achos yn Llundain, danfonodd Mr. Howells am dano, a bu yn ymweled âg ef amryw weithiau. Wrth ymddyddan am bregethwyr Cymru, dywedodd Mr. Howells, "Maent yn sôn llawer am bregethwyr mawr Llundain, ac y maent yn fawr fel *swimmers*, ond y mae pregethwyr Cymru yn *divo* ac heb foddi. Dyma dri phregethwr nad oes eu cyffelyb,—David Charles ac Ebenezer Morris am eu gwreiddiolder, a John Elias trwy

lafur ac arddeliad. Y maent yn pregethu fel tywysogion. John Elias yw y pregethwr mwyaf yn Nghymru, a'r mwyaf yn y deyrnas, ac feallai yn y byd."

Hoff bregethwr Mr. Evans ydoedd Mr. Ebenezer Morris. "O'r holl hen bregethwyr yr hoffaf genyf oedd Ebenezer Morris, a'r anwylaf genyf fel dyn oedd John Hughes, Liverpool." "Ebenezer Morris y ddysgodd y wers cyn marw i gyngori yn ymyl Duw, heb wenau neb, na phlygu pen i neb." Gwrandawodd Mr. Evans lawer arno er yn ieuanc, pan ar ei deithiau trwy Forganwg; ac yr oedd yn cofio llawer o'i eiriau. Dyma ychydig o engreifftiau:—"Pobl *hearty* iawn ydych chwi yn Merthyr gyda'r troseddau; ond b'le mae'r ymwared?" "Pobl *hearty* ydych chwi yma yn Nghaerfyrddin gyda'r gweithio a'r Ysgol Sul, yr ydych yn drefnus iawn; ond pwy sydd yn creu? allwch chwi ddim creu." "Yr hwn sydd, yr hwn oedd? nage; *yr hwn sydd:* yr hwn fydd? nage; nid oes *oedd* na *bydd* i Dduw: YR HWN SYDD ERIOED A BYTH." "Beth yw ffydd? goleuni yn y deall a nerth i weithredu—nid y naill heb y llall." "Y dynion hyn, *y dynion hyn,* ydynt weision,—*gweision,* nid meistri,—y Duw Goruchaf; y mae uchel ac *uwch* ac *uchaf,* ond dyma y GORUCHAF; y rhai sydd yn mynegu i chwi ffordd—y mae *ffordd* am dani—iachawdwriaeth, yr hon a'n gwna ni yn iach am byth." Ar adeg Cymdeithasfa yn Nghaerffili (1819), yr oedd Mr. Morris yn lletya gyda Mr. Edmunds, ffermwr cyfrifol yn y lle hwnw. Cymerodd yr ymddyddan canlynol le rhyngddynt:—"Yr ydych chwi yn ffermu, Mr. Morris?" "Ydwyf, yr wyf yn trin tipyn o dir." "A ddewch chwi allan i weled y gwartheg a'r ychain?" "Mr. Edmunds, nid i weled ychain y daethom ni yma." Ar ol oedfa galed yn Pencoed dywedodd, "Mae'n anmhosibl codi'r hwyliau heb wynt. 'Chefais i ddim clip arni o'r testyn i'r Amen." Eithr nid yn am l ybyddai Mr. Ebenezer Morris yn cael oedfeuon celyd. Fel hyn y dywedai boneddiges o sir Frycheiniog am dano ar ol ei wrandaw:—"Nid oeddwn i yn

meddwl am neb wrth ei wrandaw, ond am yr Apostol Paul." Un tro cwrddodd Mr. Evans â'r diweddar hen flaenor, Dafydd William o Gaerffili, yr hwn a'i cyfarchodd yn gynhyrfus, "Mr. Evans." "Beth sydd y mater yn awr?" "Llantrisant, lle y cefais i fy mywyd!" Testyn Mr. Morris, yn Llantrisant, y tro hwnw ydoedd, "Pa fodd y diangwn ni, os esgeuluswn iachawdwriaeth gymaint?" Cafodd Dafydd William ei achub dan y bregeth. Dyma adgof arall sydd yn egluro yr effeithiau rhyfedd oedd yn cyd-fyned â phregethu Mr. Ebenezer Morris. Aeth bar-gyfreithiwr, oedd yn anffyddiwr, gyda Mr. Smith o Aberafon, i wrandaw Mr. Morris yn pregethu mewn Cymdeithasfa yn Nghaerfyrddin. Gofynodd Mr. Smith iddo, "*What do you think of him?*" "*I have never heard such a man; he made me weep in spite of myself, though I did not believe a word he said.*" Yr oedd gan Mr. Evans hanes nid annhebyg am effaith pregeth o eiddo tad Mr. Ebenezer Morris, sef Mr. David Morris, yr hon a draddodwyd ganddo yn y Collena, sef y palasdy yn ymyl Tonyrefail ag yr ydym eisioes wedi cyfeirio ato. Yr oedd yn bresenol un Noah Morgan, ffermwr cyfrifol yn yr ardal, yr hwn a ystyrid yn ddyn bydol iawn. Ar ei waith yn dychwelyd adref o'r oedfa, cafodd ei wraig yn dra anfoddog, oblegyd ei fod wedi aros cyhyd o'r tŷ. Ei ateb iddi ydoedd, "Pan yr oeddwn yn gwrandaw ar y pregethwr yna heno, nid oeddwn yn prisio mwy am y byd nag am fotwm fy nghôt." Y mae genym un adgof arall am Mr. Ebenezer Morris. Yr oeddid mewn Cymdeithasfa yn trefnu i dalu dyled oedd yn gorphwys ar y Cyfundeb yn y Deheudir, ac i'r amcan hyny yn ei ranu rhwng yr amrywiol siroedd. Cwynai a dadleuai yr hen flaenor Thomas Dafydd, Pencoed, fod y swm a osodid ar Morganwg yn ormod. Tueddai Mr. Morris i'w gefnogi; ond pasiwyd y cynygiad. "Beth wnewch chwi yn awr, Thomas Dafydd?" gofynai Mr. Morris. "Beth sydd genyf i'w wneud, ond myned adref a cheisio eu talu?" ydoedd ateb parod yr hen flaenor, a theimlad o ffoddlonrwydd yn

ymdaenu dros yr holl frawdoliaeth. Yn y cysylltiad hwn ni fyddai allan o le i groniclo dau grybwylliad arall am Thomas Dafydd o Bencoed, a glywsom Mr. Evans yn eu hadrodd. "Yr oedd yn beio Mr. Charles, Caerfyrddin, am beidio derbyn cydnabyddiaeth am bregethu, a dywedai y gallai ei roddi at beth bynag a ddewisai." Hefyd, ar un adeg, bu annghydfod poenus rhwng Mr. Richard Thomas, Llysyfronydd, a Mr. Smith, Aberafon. Buwyd amryw weithiau yn trin yr achos yn y Cyfarfod Misol; ac yn y diwedd dywedodd Thomas Dafydd wrthynt, "Yr ydym wedi bod yn hir iawn yn trafod yr achos hwn; ac os nad ydych chwi eich dau yn cytuno â'ch gilydd, dyna'r drws i chwi." Dywedodd blaenor arall, William Jenkins, Ffynonwen, hefyd, ar yr un achlysur: "Yr oeddwn i yn meddwl eich bod chwi eich dau yn myned i'r nefoedd. Ond mi welaf y bydd yn rhaid cael dwy nefoedd i chwi." Ar hyn terfynwyd yr annghydfod, ac ni chlybuwyd am dano mwyach.

Fel y dywedwyd, hoff bregethwr Mr. William Evans ydoedd Mr. Ebenezer Morris, ac hawdd y gallai wylo wrth siarad am dano. Ac yr ydym yn gweled iddo ddanfon rhai o'i adgofion i awdwr yr erthygl ar Ebenezer Morris yn y *Gwyddoniadur Cymreig*, yr hon a argraffwyd ar wahan fel cofiant yn 1881 (Gwel tud. 50 a 73). Ond soniai Mr. Evans lawer hefyd am Mr. Elias, ac yr oedd ei barch i'w goffadwriaeth yn mron yn ddiderfyn. Fel hyn y clywsom ef yn gwahaniaethu rhwng Mr. Elias a Mr. Morris:—"Un mawr oedd Elias i godi dynion i synu, ac i deimlo nad oeddynt yn ddim. Un mawr oedd Ebenezer Morris i godi dynion i'r nefoedd. Wrth wrandaw Ebenezer Morris yr oeddwn bob amser yn cael fy hunan yn ddyn rhydd." Bu Mr. Evans yn cyd-bregethu saith o weithiau yn yr un oedfeuon gyda Mr. Elias. Un o'r troion hyn ydoedd yr oedfa olaf yn un o Gymanfaoedd y Pasg yn Llundain, sef yn 1826. Yr oedd Mr. Evans y pryd hwnw yn gorphen ei dymor, a Mr. Elias yn dechreu ei amser yn y brif ddinas. Dywedodd Mr. Elias

wrtho, "Eich oedfa chwi ydyw heno; mi ddywedaf fi ychydig yn fyr o'ch blaen." "Lefaraf fi byth ar eich ol." "Wel, os na wnewch, cymerwch eich amser, mi roddaf fi gyngor byr ar eich ol." Y mae yn debyg i'r gweinidog o Donyrefail gael oedfa annghyffredin o hwylus y tro hwnw, ac ni wnaeth Mr. Elias ond pregethu yn fyr ar ei ol. Ar achlysur arall, dygwyddodd Mr. Evans gymeryd y testyn yr oedd Mr. Elias wedi bwriadu traethu arno. Dywedodd Mr. Elias wrtho, "Yr ydych wedi cymeryd fy nhestyn." "Yr wyf yn ofni fy mod wedi ei ddinystrio," meddai Mr. Evans. "Nac ydych, fe fuasai yn dda genyf allu dyweyd arno fel y gwnaethoch chwi." Y testyn ydoedd, "Feallai y cuddir chwi yn nydd digofaint yr Arglwydd." Cafodd gyfleusdra wedi hyny i glywed pregeth Mr. Elias, ac yr oedd un sylw ynddi wedi glynu yn ei feddwl:—"Y mae yn well gen' i *feallai* Duw, na *fe wna* dyn."

Un arall ag yr oedd gan Mr. Evans feddwl mawr iawn o hono ydoedd Mr. Ebenezer Richard, Tregaron. "Un manwl iawn oedd efe: y mwyaf manwl yn ei oes. Yr oedd yn fendith ac yn fendigedig yn ei ddydd hyd yn 56ain oed. Dymunai dri pheth:—(1) cael marw yn dduwiol; (2) marw gartref; a (3) marw yn ddi-drwbl i neb. Yn nghyfarfod y pregethwyr mewn Cymdeithasfa dywedodd, 'Gofalwch am dri pheth—1, Cyflwr. 2, Cymeriad, i beidio ei dori. Pan yr ydys wedi dryllio celfi, yr ydys yn defnyddio *putty* i'w cywiro, ac yn eu paentio; ond y mae'r *paint* a'r *putty* yn colli, a thyna'r tyllau yn dyfod i'r golwg. 3, Cenadwri. Ni fydd cenadwri heb ei chael; ac nid oes derbyniad a chymeradwyaeth heb genadwri.' Yr oedd yn anmhosibl peidio wylo wrth ei wrandaw." Cyfarfyddasant un tro mewn Cymdeithasfa, pan yr oedd Mr. Evans newydd brynu het a chantal mwy llydan na'r cyffredin. Cyfarchodd Mr. Richard ef trwy ddyweyd, "Yr ydych wedi newid eich barn." "Pa'm yr ydych yn dyweyd hyny?" "Yr ydych wedi myned yn *Quaker*." "Nid oeddwn i yn meddwl am y fath beth." Dro arall, pan

yr oedd Mr. Evans ar fyned i Lundain am dymor i wasanaethu yr achos yno, dywedodd Mr. Richard wrtho, "Cofiwch fi at y brenin; mae yn ddiau y byddwch chwi yn treulio llawer o amser yn ei gwmni ef." Wrth glywed rhywun yn siarad mewn Cymdeithasfa ar bwnc ag oeddid wedi ei benderfynu, gofynodd, "Beth sydd arno ef yn awr?" Yr oedd Mr. Evans yn coffau hefyd y dywediad hwn o eiddo Mr. Richard:—"Mae pawb yn gwybod mai pregethwr bach ydwyf, ond y nefoedd sydd yn gwybod mai gweddïwr bach ydwyf." Ac yr ydym yn cofio yn dda ei glywed, ar ol myned dros yr adgofion hyn, yn ychwanegu, "Wrth feddwl am yr hen bobl, yr wyf yn teimlo y gallaf ddyweyd, Bendigedig;" a'i wyneb yn cochi a'i lygaid yn gwlitho.

Yr oeddid mewn un Gymdeithasfa yn trin achos hen frawd o bregethwr ag oedd wedi llithro trwy yfed yn ormodol. Tueddai rhai o'r brodyr i fod yn dyner wrtho, ac yn eu plith Mr. David Williams, Merthyr, yr hwn a awgrymodd mai priodol fyddai iddynt weddio ar i'r hen frawd anffodus a gwan gael ei gymeryd i'r nefoedd. Ar hyn cododd Mr. Ebenezer Morris, a dywedodd:—"Dafydd William, *Dafydd William*, DAFYDD WILLIAM;" ac aeth dros yr enw saith o weithiau, gan ychwanegu at y pwyslais bob tro, nes yr oedd arswyd ar bawb yn y lle; "peidiwch gwneud yn rhy hael ar eich nefoedd. Lle glân yw'r nefoedd. Nid â yno ddim halogedig."

Deuai yr hen weinidog, Mr. Henry Jones, Llaneurwg, yn achlysurol i Gyfarfod Misol Morganwg. Gair Mr. Evans am dano ydoedd, "Yr oedd efe yn ŵr boneddig; ond aeth yn ddilafur, ac i bregethu yr un pregethau, ac o ganlyniad yn ddiflas. Peth ofnadwy yw bod yn ddilafur." Ond yr oedd yr hyn a ddywedai am Mr. David Rees, Llanfynydd, yn wahanol:—"Wedi dechreu dyfod i ddeall, yr wyf yn cofio ei fod yn hyfrydwch mawr i wrandaw ar Dafydd Rees, Llanfynydd. Yr oedd efe yn llefaru yn yr un llais o ddechre ei bregeth hyd ei diwedd; yn trin yr Ysgrythyrau yn hyfryd.

Yr oedd yn anmhosibl peidio gwrandaw arno, er nad oedd yn gwaeddi dim. Yr oedd ar daith yn 1818, yn union yn mron wedi i mi ddechreu pregethu. Cymerwyd ef yn glaf yn Mhontypridd. Methodd a dyfod i'r Ton; gorfu i mi bregethu yn ei le, ac wedi hyny i fyned i Lantrisant. Yr oedd yr Annibynwyr yn hoff iawn o Dafydd Rees; yr oedd lluaws wedi dyfod o Lanharan i'r Ton i'w wrandaw."

Dyma ddau adgof am Mr. Morgan Howells. Cyfarfyddodd â Mr. Evans yn mhen ychydig ddyddiau ar ol marwolaeth Mr. Ebenezer Morris, a chofleidiodd ef, a dywedodd dan wylo—" Mr. Evans anwyl! beth wnawn ni yn awr? Sut i gynal Cymanfa yn awr heb Eben Morris?" Dro arall yr oeddynt gyda'u gilydd mewn Cymdeithasfa yn sir Aberteifi, pryd y dygwyddai fod mater ger bron yn achosi dadl, yn yr hon y dywedwyd rhai geiriau cryfion. Cododd Mr. Howells ar ei draed yn sydyn, ac ymaflodd yn Mr. Evans, a dywedodd yn gynhyrfus—" Gadewch i ni fyned tua thre', ddaethom ni ddim yma i ffraeo." Ymdawelodd ychydig pan yr atebwyd ef—" Na, feallai mai gwell fyddai i ni aros." Terfynodd y ddadl yn y fan.

Fel hyn y desgrifiai bregethu Mr. Richardson, o Gaernarfon:—" Yr oedd ei bregethu fel y diliau mêl, fel y gwlaw tyner cynes, ac yn codi ei gynulleidfa i hwyl hyfryd; ac wedi ei chodi i *pitch* uchel, yn darfod yn sydyn, yr hyn oedd yn siomedigaeth fawr." Bu yn cyd-bregethu gyda Mr. Michael Roberts droion, a dyma ei ddesgrifiad o hono:—" Yr oedd yn pregethu yn *fresh* bob amser o ran materion, dull, ac ysbryd; yn trin yr Ysgrythyrau yn hyfryd, ac yn tynu eu mêr allan o honynt; nid yn eu trafod fel cnau melynion heb eu tori, ond yn tynu allan y cnewyllyn, nes yr oedd y bobl yn synu ac yn mwynhau." Yr ydym yn cofio iddo gyfeirio at oedfa yn yr hon yr oedd Mr. Michael Roberts a Mr. John Evans, New Inn, yn cyd-bregethu, a dywedai—" Er fod yr olaf yn efengylu a'r blaenaf yn taranu, eto, oblegyd ei fod yn taranu dan naws, yr oedd yn cael mwy o effaith ar y gynull-

eidfa." Bu yn cyd-bregethu hefyd gyda Mr. Daniel Jones, Llanllechid, gweinidogaeth danllyd yr hwn fu yn foddion i ddychwelyd llawer at grefydd. Dygwyddodd iddynt gyfarfod yn Nhrefdraeth, sir Benfro. Testyn Mr. Jones y tro hwnw ydoedd—"Dy noddfa yw Duw tragywyddol, ac odditanodd y mae y breichiau tragywyddol." (Deut. xxxiii. 27). Mater y bregeth ydoedd, Y rhai sydd heb y breichiau tragywyddol danynt a suddant i drueni. Gwrandawodd Mr. Evans ef ar achlysur arall yn Nghastellnedd. Ei destyn yno oedd—"Mai hyd ddydd dinystr yr arbedir y drygionus," (Job xxi. 30,) a defnyddiodd y gymhariaeth "fel yr ŷch yn cael ei dywan i'r *butcher*." Y dydd canlynol yr oedd Cyfarfod Misol yn cael ei gynal yn Aberafon, lle y pregethodd Mr. Jones am ddeg-ar-y-gloch, ac y cymerodd yn destyn y geiriau—"Nid oes gan hyny yn awr ddim damnedigaeth i'r rhai sydd yn Nghrist Iesu." Wedi clywed y testyn, dywedodd Mr. Evans ynddo ei hun—"Ni gawn efengyl ganddo heddyw." Ond pwnc y bregeth ydoedd, Fod y rhai nad ydynt yn Nghrist yn ddamnedig. Eithr adroddai Mr. Evans gyda mwynhad sylw o eiddo Mr. Elias am y pregethwr tanllyd o Lanllechid:—"Mae arnaf gywilydd fod y gŵr bach o'r chwareli yn gwneud mwy na ni i gyd." Ar ddiwedd yr oedfa yn Nghastellnedd, a gyfeiriwyd ati, gofynwyd iddo gan flaenor perthynol i'r lle—"Pa bryd y de'wch chwi yma eto i godi'r dynion yr ydych yn awr wedi eu lladd?" Ei atebiad ydoedd—"Rhywun arall sydd i wneud hyny."

Pan ar ei daith yn y Gogledd, yn y flwyddyn 1833, a Mr. John James, Penybont, yn gydymaith iddo, galwodd i weled Mr. William Jones, Rhuddlan. Ceisiodd Mr. Jones osgoi ei weled, ond mynodd Mr. Evans fyned ato. Dyma'r cyfarchiad a gafodd—"Chwi sydd yn *right*, a minau yn *missio*. Allwch chwi weddio?" "Gallwn, gobeithio," ac aeth Mr. Evans ar ei liniau, a gweddiodd gydag ef. Yn mhen blynyddoedd aeth Mr. Jones ar daith trwy Forganwg, a galwodd yn Nhonyrefail. Ar ddiwedd yr oedfa, ac ar ol siglo dwylaw yn

gynes, dywedodd wrth Mr. Evans—"Bu llawer yn y Gogledd heblaw chwi, ond ni ddarfu iddynt alw i'm gweled i; hespinod oe'n 'nhw." Hefyd, gwrandawodd ef yn pregethu gyda Mr. Lewis Morris mewn Cymdeithasfa yn Nghaerfyrddin. Testyn Mr. Jones oedd—"Arglwydd, gwnaethpwyd fel y gorchymynaist; ac eto y mae lle," (Luc xiv. 22); a dywedai, "Y mae swn llwyddiant yn y geiriau hyn. 'Eto mae lle' i'r gwrthgilwyr;" ac elai yn mlaen i enwi gwahanol ddosbarthiadau o ddynion yn y modd mwyaf effeithiol. Cafodd Mr. Jones y fath hwyl, fel nas gallodd Mr. Lewis Morris ddyfod i fyny ar ei ol. Yn mhen ugain mlynedd ar ol hyny yr oedd Mr. Morgans, Glynhir, blaenor parchus yn perthyn i'r Goppa, yn coffau gyda hyfrydwch am yr oedfa hono â'i lygaid yn llawn o ddagrau. "'Ddywedais i ddim 'mod i yno," meddai Mr. Evans wrth adrodd yr hanes. "Paham?" ebem ninau. "Er mwyn iddo ef gael adrodd yn mlaen."

"Pregethwr i'r werin oedd Ishmael Jones; ond pregethwr i *genius* oedd Theophilus Jones: nid oedd yn hofran uwchben ei bethau, dim ond *just* eu cyffwrdd, ac yna yn ei flaen, ac yr oedd yn rhaid bod yn graffus neu fod heb eu gweled hwynt." Dyma ychydig o adgofion am y pregethwr hynod o Dregaron. Ar ei weddi yn y ddyledswydd deuluaidd, yn y Collena, dywedodd, "Dyma ni, dau bregethwr a dau offeiriad, Duw'n helpo ni!" "Yr oedd Theophilus Jones ar daith trwy Forganwg, ac ar fore Sul yn Mhencoed. Ar ddiwedd yr oedfa gofynodd, 'Pwy sydd yn dyfod gyda mi i'r lle nesaf?' Atebwyd, 'Wel, 'does neb yn meddwl am dd'od, gan eich bod yn gyfarwydd.' 'Nid âf fi gam o'r man yma.' Dywedodd Thomas Dafydd, 'Mi âf i gyda chwi.' 'Nid oes eisieu dim fo gwell, nid oes eisieu dim fo gwell.'" "Dro arall yr oedd Mr. Ebenezer Richard ac yntau yn cyd-deithio, ac mewn rhyw fan, pan yn amser dechreu yr oedfa, dywedwyd wrtho, 'Mae'm bryd dechreu, Theophilus Jones,' 'O, ië, Theo i ddechreu, Theo i ddechreu; dechreued ei hunan.' Ac felly y bu. Cafodd yntau hwyl dda i bregethu ar ol Mr.

Richard." "Adroddai hen wraig ei phrofiad yn y *society*, gan ddyweyd, 'Mae'r hen ddyn yn fy nilyn i beunydd.' 'Un eofn iawn yw efe,' meddai Theophilus Jones; 'ond yr ydych chwi fel y *gallinians* wrth dai'r gwŷr mawr yn dyweyd, *go back, go back*.'" Dyma ran o weddi Theophilus Jones mewn Cymanfa, "Gloewa ni, gloewa ni; beth wneir âg arfau rhwdlyd? ond yr 'ym ni mewn byd *damp* iawn." "Un tro ar Donyrefail, wedi i'r Parch. Evan Prichard gyfarch iddo a dyweyd, 'A dyma fy ngwraig hefyd,' atebodd, 'O yn wir, menyw rasol iawn yw hi.'" Mr. Prichard oedd un o'r ddau offeiriad ag oeddynt yn bresenol yn yr addoliad teuluaidd yn y Collena, pryd y gweddiai Mr. Theophilus Jones mor daer, fel y crybwyllwyd uchod, "Duw a'n helpo ni, *a'n helpo ni*."

Mae genym yn nesaf i roddi ychydig o'i adgofion am Mr. David Parry, sir Frycheiniog. Yr oedd yn pregethu mewn Cymdeithasfa yn Nghaerffili ar y geiriau, "Onid pentewyn yw hwn wedi ei achub o'r tân?" a dywedai ar y bregeth, "fe daflwyd y celfi ar y tân, pethau wedi eu bwriadu i amcan gwell ac uwch; ond mewn pryd cyn iddynt losgi, fe'u cymerwyd hwynt oddiar y tan." Wrth fyned i le yr oedd Cymanfa i'w chynal, a gweled y *stage* yn cael ei chodi, gwnaeth y sylw, "Dacw fe; man dyoddef ydyw." Yr oedd Mr. David Parry yn gyfaill mawr i Mr. James, Penblaen. Pan oedd achos yr olaf yn cael ei drin mewn Cwrdd Misol yn Llanfair-muallt oblegyd ei esgeulusdra o'r Cyfarfod Misol, wedi i amryw ddywedyd eu meddyliau ar y mater, gofynwyd i Mr. D. Parry ddyweyd gair wrth Mr. James, pryd y dywedodd, "Mi rho'f un peth i chwi, os gallwch wneud rhywbeth i beri iddo deimlo." Atebodd Mr. James ar unwaith dan wylo, "A ydwyf fi heb deimlad?" Fel y dangosir yn *Methodistiaeth Cymru* (Cyf. iii. 324), analluogwyd Mr. James i deithio, ac yn y flwyddyn 1818, ymsefydlodd fel gweinidog ar eglwys Annibynol yn nhref Abergafeni, lle y bu farw yn 1831. Buasai ei hoffus gyfaill, Mr. D. Parry, farw yn 1821.

Yr ydym yn dodi i mewn yma ychydig linellau a ysgrifen-

wyd ganddo ar y 19eg o Fawrth, 1867:—"Da genyf ddeall fod hanes y Parch. E. Morris yn debyg o ddyfod i'r cyhoedd. Rhyfeddais lawer gwaith na buasai hyny wedi cael ei wneuthur cyn hyn ag a fuasai i ryw radd yn deilwng o'r dyn mawr a'r pregethwr rhyfedd hwnw, yr hwn oedd yn sefyll yn unig ar ei ben ei hun, heb neb yn debyg iddo yn ei ddydd fel pregethwr. Yr oedd ynddo bob cymwysder i bregethu i'r tyrfaoedd mawrion o ran ei berson, ei lais, ei ysbryd, ei feddylddrychau, a'i ddylanwad ar y cynulleidfaoedd. Nid oeddwn ond 30ain oed pan y gorphenodd Mr. Ebenezer Morris ei yrfa. Gwrandewais ef lawer gwaith mewn oedfaon ar ei deithiau trwy ein hardal, ac o leiaf saith o weithiau mewn Cymanfaoedd. Byddwn bob amser yn gorfod ei wrandaw gyda syndod a'r hyfrydwch mwyaf. A'r rhan amlaf cyn y byddai yn rhoddi yr Amen, byddwn wedi myned yn rhydd yn fy nheimlad rhyngof a'm barnwr, yn rhinwedd ei athrawiaeth." A dyma air arall sydd yn dangos y lle mawr oedd i Mr. Morris, nid yn unig yn ei feddwl ef, ond yn meddyliau ei frodyr yn gyffredinol:—"Yr oedd pob peth a ddywedai Ebenezer Morris yn ddeddf; ni ddywedai neb ddim ar ei ol."

Ar gais Golygydd y *Goleuad*, ysgrifenasom gyfres o erthyglau yn cynwys, yn mhlith pethau ereill, yr adgofion uchod, y rhai a ymddangosasant yn y rhifynau am Ionawr, 1875. Nis gallodd Mr. Evans fyned i Gapel Seion, Brynsadler, y Sabboth cyntaf yn 1875, a dim ond y bore y pregethodd yn Mhenygraig yr ail Sul; ond yr ydoedd yn alluog i bregethu ddwy waith y tri Sabboth dilynol yn Ionawr. Collodd ddau Sabboth yn Chwefror oblegyd "methu," ond cyflawnodd ei waith yn llawn yn Mawrth, ac yn ychwanegol at ei Sabbothau pregethodd ddwy waith yn Nghyfarfod Pregethu y Dinas, dydd Llun, yr 22ain; a gallodd fyned i'w holl gyhoeddiadau hyd Gymdeithasfa Awst yn Mhontypridd, gyda gweinyddu mewn amryw o angladdau, a gofalu am yr ymweliad blynyddol âg eglwysi y dosbarth. Yr ydym yn gweled cofnodiad

am daır o gymanfaoedd canu, un yn Llantrisant, ac un yn Mhenygraig, a'r llall ar Donyrefail, ac enw yr arweinydd yn mhob un. Mae hyn yn profi ei fod yn cymeryd dyddordeb yn yr ymdrech i berffeithio caniadaeth y cysegr, er fe ddichon nad oedd yn bresenol ond yn y cynulliad yn ei gartref ei hun. Fel yma yr oedd efe yn talu sylw i, ac yn galonog yn cefnogi pob symudiad er hyrwyddo y gwaith da yn ei holl ranau. A phe y dygwyddai nas gallai fyned gyda'i frodyr mewn rhyw ysgogiad, ni fynai ar un cyfrif sefyll ar eu ffordd. Bu adeg fel y gwelsom pan yr oedd yn ymdaflu â'i holl egni i bob gwaith; ond bellach, tra nad yw ei ddydd ar ben, mae oriau y gweithio caled wedi myned heibio. Gwnaeth y Parchedig Lewis Powell, Caerdydd, ychydig amser cyn ei farwolaeth, beri ei gofio at Mr. Evans yn y geiriau hyn, "Cofiwch fi ato, a dywedwch wrtho—mae y llygaid yn pylu, a'r clyw yn pallu, a'r aelodau yn methu, ond mae y dymuniadau da yn aros yr un." Felly y gellid dyweyd am dano yntau, fod ei ddymuniadau da am lwyddiant teyrnas Iesu Grist yn parhau yn gryf a bywiog. Mae yn dyfod i'n côf sylw o eiddo Mr. John Walters yn y Gymdeithasfa yn Aberteifi, Awst, 1868, wedi i ryw frawd amlygu ei syniadau ar fater neillduol ag oedd dan sylw yn un o'r eisteddiadau, "Y mae anadl y llywydd gyda chwi." Ar ol i'w fraich fethu ymaflyd mewn gwahanol orchwylion fel y gwnaethai gynt, yr oedd ei anadl o hyd gyda phob ysgogiad newydd ag y byddai iddo amcan daionus.

Ar yr 28ain o fis Mai, yn y flwyddyn 1875, ysgrifenodd y sylwadau canlynol yn ei ddydd-lyfr:—

"1.—Duw sydd yn rhwym am ei dystiolaeth. Ei chredu sydd yn perthyn i ni.

"2.—Duw sydd yn gorchymyn. Ufuddhau yw ein dyledswydd a'n braint ni.

"3.—Duw biau yr addewid er ei chyflawni. Ymddiried yn yr Addawr yw ein gwaith ni. Ffyddlawn yw yr Hwn a addawodd.

"Ac ar y tir neu yn yr *act* o weithredu gan y pechadur ar Dduw,—

"(1). Yn ei dystiolaeth trwy gredu;

"(2). Yn ei orchymyn trwy ufuddhau;

"(2). Yn ei addewid trwy ymddiried ynddo,

mae sicrhau bendithion yr efengyl; nid am hyny, ond trwy hyny, yn ol ordeiniad Duw. Esai. xxvi. 1—4; Matt. xxviii. 20."

Yr oedd Mr. Evans yn awr yn agosau at ben haner can' mlynedd er ei ordeiniad i gyflawn waith y weinidogaeth. Fel y gwelsom, cymerodd ei neillduad le yn Nghymdeithasfa Awst, 1825, yr hon a gynelid y flwyddyn hono yn Aberteifi. Efe oedd y cyntaf o holl weinidogion y Methodistiaid Calfinaidd a gafodd fyw i weled jiwbili ei ordeiniad. Bu Mr. T. Richard, Abergwaen, fyw 42 mlynedd ar ol ei neillduad; Mr. W. Morris, Tyddewi, 45 mlynedd; Mr. W. Roberts, Amlwch, 47ain mlynedd; Mr. David Howell, Abertawy, 49ain mlynedd. Nid oes ond ychydig ar ol Mr. Evans a gafodd yr un fraint ag a gafodd ef. Pe buasai Dr. Edwards o'r Bala wedi cael byw ychydig o ddyddiau yn hwy, buasai efe wedi cael jiwbili ei neillduad. Yr oedd yr amgylchiad gan hyny yn un theimlid y fath anwyldeb tuag at wrthddrych y Cofiant hwn, A annghyffredin, ac nid oedd yn annaturiol iddo dynu sylw. a choleddid y fath deimladau o barchedigaeth tuag ato ar gyfrif ei wasanaeth hirfaith, a hwnw yn wasanaeth mor werthfawr, ac wedi ei roddi gyda'r fath ffyddlondeb ac egni, fel ar ol galw sylw at y peth yn Nghyfarfod Misol Morganwg y penderfynwyd gwneuthur dangosiad o'r cyfryw deimlad trwy gyflwyno iddo, ar ddiwedd y Cyfarfod Ordeinio yn Mhontypridd, yn nglŷn â'r Gymdeithasfa oedd i'w chynal ar yr 11eg, y 12fed, â'r 13eg o Awst, 1875, Feibl hardd ac Anerchiad. Y Gymdeithasfa a ddaeth, ac ar ddiwedd y Cyfarfod Ordeinio cymerodd y cyflwyniad le. Nis gallwn byth annghofio y cyfarfod; ac y mae yn sicr genym fod yr olygfa yn aros yn fyw o flaen meddyliau y rhai oll sydd yn aros o'r dorf fawr

oedd yn bresenol. Ni a ddodwn i mewn yma hanes y cyflwyniad fel yr ymddangosodd yn y rhifyn o'r *Goleuad*, Awst yr 21ain:—

"CYFLWYNIAD ANREG I'R PARCH. WILLIAM EVANS, TONYREFAIL.

"Ar ddiwedd y Cyfarfod Ordeinio, aed at y gwaith tra dyddorol a phriodol o gyflwyno Cyfarchiad a Beibl goreuredig ysblenydd i'r hybarch dad, fel côf-arwyddion o'i fod wedi cyraedd ei Jiwbili fel gweinidog ordeiniedig. Cafodd ei ordeinio i gyflawn waith y weinidogaeth yn Aberteifi, yn y flwyddyn 1825, ond yr oedd wedi dechreu pregethu yn y flwyddyn 1818. Da oedd genym weled yr hen dad mor gryf a heinyf; oblegyd nid oedd rhyw lawer o arwyddion henaint i'w weled ynddo, heblaw fod ei wallt melyn wedi troi yn hollol wyn. Yr oedd yn esgyn i fyny i'r pwlpud lle y cyflwynwyd yr anerchiad, mor heinyf a bachgen. Dilynwyd ef yno gan y Parchn. Edward Matthews, David Saunders, David Phillips, a Thomas Levi.

"Yr oedd y cyfarchiad wedi ei wneud yn y modd harddaf a welsom erioed, gan Mr. Tilly, Caerdydd, y geiriau wedi eu *engrossio*, gydag ymyl o'r cynllun mwyaf prydferth, a'r cwbl mewn *frame* hardd. Darllenwyd y Cyfarchiad, yr hwn a welir isod, gan y Parch. David Saunders, mewn modd teimladwy iawn, a phan y daeth at y geiriau, 'ar fynydd Abarim,' llanwodd ei lygaid â dagrau, a methodd a gorphen am rai eiliadau:—

"'*At y Parchedig William Evans*,

"'Anwyl Frawd,—Gyda llawenydd dwfn, yn nghyda diolchgarwch i Dduw "am y rhoddiad a rodded i ni," ac i chwithau oherwydd llawer, yr ydym yn eich llongyfarch heddyw ar ben yr haner-ganfed flwyddyn o'ch cyflawn weinidogaeth.

"'Tra yn gwbl argyhoeddedig na ddichon i unrhyw ymddygiad o'n heiddo ni ychwanegu dim at y parch diffuant a deimlir tuag atoch, na'ch dyrchafu yn uwch yn nghyfrif y tyrfaoedd a gawsant y fraint o fwynhau eich gweinidogaeth,

nid ydym yn foddlawn i'r achlysur yma fyned heibio heb i ni gymeryd gafael ar y cyfleusdra o amlygu, mewn modd pendant a chyoeddus, ein serch angerddol tuag atoch, yn nghyda'r gwerth anmhrisiadwy a osodir genym ar eich presenoldeb a'ch llafur yn ein mysg.

"'Haner can' mlynedd i'r Gymdeithasfa hon, sef Awst, 1825, y cawsoch eich neillduo i gyflawn waith y weinidogaeth. Y mae y rhai a weinyddasant yn ngwasanaeth yr ordeiniad hwnw, er's llawer blwyddyn, wedi huno; ac o'r holl frodyr anwyl a neillduwyd i gyflawn waith y weinidogaeth yn ein plith, er pan ddechreuwyd ordeinio yn ein Cyfundeb, chwi yn unig a gafodd y fraint o fyw i weled terfyn ei haner-ganfed flwyddyn fel gweinidog yr efengyl.

"'Dymunem mewn modd arbenig gydnabod Arglwydd y Cynhauaf am eich anfon mor foreu i'w faes; am hogi eich cryman a dysgu eich llaw fel ag i'ch gwneuthur yn weithiwr difefl, yn gystal ag am eich geiriau yn disgyn fel marwor tanllyd, a chalonau llawer yn llosgi ynddynt pan yr oeddych yn egluro iddynt yr Ysgrythyrau—llefarech, nid â'r geiriau a ddysgir gan ddoethineb dynol, ond a ddysgir gan yr Ysbryd Glân.

"'Y mae craffder, manylder eich sylw—cyflymder a threiddgarwch eich meddwl—yn nghyda'ch cydnabyddiaeth helaeth o'r natur ddynol, bob amser wedi eich hynodi yn mysg eich brodyr; o ganlyniad y mae eich presenoldeb bob amser yn ein cyfarfodydd yn fendith ac yn llawenydd. Cymwysa eich profiad helaeth chwi i fod yn gynghorwr i'r oedranus; ac y mae yni a bywiogrwydd eich ysbryd, yn nghyda hoenusrwydd ac ystwythder eich meddwl, yn eich gwneuthur yn gyfaill ac yn gydymaith i'r ieuanc. Nid oes un oedran na gradd yn ein plith heb dderbyn lles oddiwrth eich doethineb ymarferol, oblegyd, pan yn selog a bywiog o blaid pob daioni, y mae eich arafwch yn hysbys i bob dyn.

"'Yn yr holl gyfnewidiadau y mae ein Cyfundeb wedi myned trwyddynt yn ystod y cyfnod hirfaith yr ydych wedi

bod yn llafurio ynddo, cafwyd chwi y parotaf o bawb i symud yn mlaen gyda phob gwir ddiwygiad. Tra yn dal gafael sicr yn ysbryd a hanfod Methodistiaeth, yr ydych bob amser yn awyddus i gyfaddasu y ffurf i angenion yr oes, fel un yn deall arwyddion yr amserau, ac yn canfod amgylchiadau cyfnewidiol ein gwlad.

" 'Fel gwyliedydd ar y mur, yr ydych wedi syllu gydag eiddigedd a dyfalwch ar holl agweddion y gelyn; ac yn eich ymdrech yn erbyn pechod, yn ei wahanol ffurfiau, yr ydych wedi bod yn ddiymollwng yn eich enaid, ac yn arbenig felly gyda'r achos dirwestol.

" 'Gydâ'r Anerchiad, dymunem gyflwyno i chwi hefyd y Beibl hwn—y llyfr a fu yn dywysydd eich ieuenctyd, ac sydd yn ffon eich henaint—y trysordy dihysbydd, o gynwysiad yr hwn y bu i chwi, fel ysgrifenydd wedi ei ddysgu i deyrnas nefoedd, "ddwyn allan bethau newydd a hen." Gan hydern y bydd iddo eto brofi, yn nherfyn eich dydd, yn fryn gweledigaeth ac yn gastell y creigiau, o'r hon y bydd eich llygaid yn gweled y tir pell a'r Brenin yn ei degwch, ac y bydd i chwi, fel gŵr Duw, gael eich claddu ar fynydd Abarim, lle y mae gwlad yr etifeddiaeth dragywyddol yn y golwg.

Ydym, yn enw a thros Gyfarfod Misol Morganwg,

" 'D. Saunders, Thomas Levi, David Phillips, Samuel Jones, William Jones, Edward Matthews, W. James, J. M. Jones, Thomas Phillips, Jabez Thomas, Lewis Griffith, Roger Jones, Moses Rowlands, James Richards, William Morris, J. Howells (Ysgrifenydd y Cyfarfod Misol).'

" Parch. Edward Matthews a dywedodd ei fod yntau wedi cael ei alw i gyflwyno i Mr. Evans y Beibl. Darllenodd y geiriau oedd ar glawr y Beibl, sef 'Cyflwynwyd gydag Anerchiad yn Nghymdeithasfa Pontypridd, Awst 11eg, 1875, gan Gyfarfod Misol Morganwg, i'r Parch. William Evans, Tonyrefail, ar ei ddegfed-a-deugain mlwydd yn nghyflawn waith y weinidogaeth.' Rhyw ddrychfeddwl newydd oedd

hwn, meddai, oedd wedi codi yn mysg rhyw ychydig gyfeillion. Yr oedd rhai yn sylwi nad oedd ar Mr. Evans eisieu cardod, a'i fod uwchlaw eisieu. Yna aed i ystyried pa beth a ellid ei gyflwyno iddo, a chadw mor bell ag oedd bosibl oddiwrth y drychfeddwl o gardod. Gwelid fod y cyflwyniad presenol yn dangos purdeb amcan pa beth bynag. Nis gwyddai am ddim canmoliaeth uwch i Mr. Evans na'i fod uwchlaw angen, ac nad oes arno angen cardod. Yr oedd Mr. Evans wedi bod trwy dreialon, ond yr oedd wedi gwasanaethu Duw yn y cwbl. Yr oedd wedi ymfoddloni ar sefyllfa gymedrol, heb ymwisgo yn rhy gostfawr, ac wedi cysegru ei amser i wasanaeth yr efengyl, a chan droi at Mr. Evans, dywedai fod yn dda ganddo gyflwyno iddo y Llyfr hwn, Llyfr ei febyd, y Llyfr oedd ef wedi ei ddysgu, y Llyfr trwy offerynoliaeth yr hwn y cawsai ei achub pan yn ieuanc. Yr oedd ef yn priodoli sefyllfa lewyrchus Methodistiaeth yn Morganwg i raddau mawr i bregethiad Mr. Evans. Yr oedd ef yn ei gofio er's tro yn ol, ond wrth edrych arno yn awr ni fuasai yn meddwl mai yr un dyn yw—y pryd hyny yr oedd ei wallt yn felyn, ond yn awr yr oedd yn wyn. Ni chai byth wallt melyn na du drachefn, ond yr oedd ef yn cyflwyno iddo y Llyfr hwn yn y gobaith y bydd ieuenctyd tragywyddol yn eiddo iddo yn fuan (cymeradwyaeth).

"Parch W. Evans, mewn modd hynod o ddirodres a syml, a gydnabyddodd y rhoddion gyda diolchgarwch, gan ddyweyd fod gan ei frodyr fwy o barch iddo nag oedd ganddo ef iddo ei hun.

"Parch. R. Lumley a ddywedodd ei fod ef yn cofio 39 mlynedd i'r amser presenol, pan y daethai yma gyntaf. Nid oedd ohonynt hwy ag oedd yn bresenol y pryd hwnw ond dau neu dri heddyw. Yr oedd yn dda iawn ganddo ef am y wlad hon—yr unig ran o ddaear Duw ag oedd ganddo feddiant ynddi, a meddiant beddrod oedd hwnw. Yr oedd yn dda iawn ganddo fod yn bresenol i weled y parch hapus a delid i'r hen dad. Yr oedd yn dda ganddo ei weled mor

heinyf; yr oedd yn awr yn debyg o ddyfod yn fab can' mlwydd. Os elai drosodd o'u blaen, gofynai iddo ddyweyd eu bod hwythau yn dyfod—'ffydd y rhai dilynwch.'

"Parch. O. Thomas a sylwodd ei bod yn ddeng-mlynedd-a-deugain er pan y clywsai ef gyntaf, a hyny yn Nghaergybi, pan y pregethai ar y geiriau, 'Gollwng ef yn rhydd, canys mi a gefais iawn.' Yr oedd wedi ei glywed lawer gwaith wedi hyny. Un bai mawr oedd yn perthyn i Mr. Evans, sef ei fod yn rhy hoff o aros gartref. Yr oedd yn ei gofio yn pregethu ar y geiriau, 'Ac Arglwydd y lluoedd a wna wledd,' ac yr oedd ef yn cofio fel yr oedd yr hen dad, gyda'i wallt melyn a'i lais arianaidd, yn mwynhau y wledd ar y pryd. Erfyniai yn fawr iddo roddi ei gyhoeddiad i fyned i Lerpwl—byddai yn dda ganddynt ei gael yno i ddangos pa fath oedd y tadau. Fel y dywedasai U Larsing,—'Byddai yn well genyf gael myned i'r nefoedd trwy Khasia pe byddai modd;' felly y gallai ef ddyweyd, y byddai yn well ganddo i Mr. Evans fyned i'r nefoedd trwy Lerpwl.

"Parch. R. Roberts, Llangeithio, a ddiweddodd y cyfarfod trwy weddi."

# PENOD XII.

## 1875—1887.

### CYNWYSIAD.

Yn parhau i ddilyn ei gyhoeddiadau Sabbothol—Cyfarfod Canu: adgofion Mr. D. Jenkins, Aberystwyth—Agor capel Llwynpia, 1876—Bedyddio llawer o blant—Cymdeithasfa Ystrad-Rhondda, 1877—Cystudd—Llythyr at ei fab hynaf—Ymddangosiad ei lun yn y Drysorfa, Ionawr, 1878—Agoriad capel Pembroke Terrace, Caerdydd—Llythyr at Ysgrifenydd y Gymdeithasfa—Llythyr eto at Ysgrifenydd y Gymdeithasfa, yn 1879—Y gair "methu" yn myned yn amlach ar gyfer y Sabbothau—Llythyr o'i eiddo atom ni—Cael dolur trwy gwympo yn y tŷ—Pum' cenedlaeth o Feddygon—Llythyr at ei fab hynaf—Ysgrif y *Christian Echo*—Agoriad capel Trealaw—Cyfarfod Blynyddol Rhiwceiliog, 1881—Rock, Mynwy—Llythyr at Ysgrifenydd y Gymdeithasfa—Ei lafur yn lleihau—Llythyr at Lywydd y Gymdeithasfa, 1882—Sulgwyn, 1883, yn Ystrad-Rhondda—Llythyr at ei fab hynaf, Mawrth, 1884—Sabbothau mis Awst, 1884—Llythyrau at ei fab, ac at Mr. D. Morgan, Canton, 1884—Jiwbili yr achos Ddirwestol; llythyr at y Parch. John Pugh, Caerdydd—Ei symudiad o Gaercurlas—Ei bregeth ddiweddaf.

ER fod Mr. Evans bellach dros bedwar ugain mlwydd oed, y mae yn dal i allu myned i'w gyhoeddiadau Sabbothol. Dim ond dau Sabboth a gollodd ar ol Cymdeithasfa Pontypridd hyd ddiwedd y flwyddyn; a dim ond un-ar-ddeg o Sabbothau a gollodd yn 1876. Yr hyn a ysgrifena yn y côf-lyfr ar gyfer y Suliau hyny yw—"Methu." "Methu gan yr hîn." "Methu, ddim yn iach." "Methu gan y gwlaw, a minau yn llesg." Ar y 3ydd o Ebrill, yr oedd Cyfarfod Cystadleuol yn cael ei gynal yn Nhonyrefail, ac yr oedd yn bresenol yn y ddau eisteddiad, "gan deimlo," fel yr ysgrifenwyd atom ar y pryd, "y dyddordeb mwyaf yn y cyfarfod a'i waith; gwelais ef yn wylo fel y gwlaw dan ddylanwad yr adroddiadau a'r canu." Ar y 27ain o'r un mis, yr oedd

"Cyfarfod Canu, am 11 a 3," ar Donyrefail. Nid yw y côf-lyfr yn enwi yr arweinydd. Y mae Mr. David Jenkins, Mus. Bac., Aberystwyth, wedi danfon i ni ei adgofion am Gymanfa Ganu yn Nhonyrefail, tua'r amser yr ydym yn awr yn cyfeirio ato, neu feallai ei bod ryw gymaint yn ddiweddarach; ond yr ydym yn gosod i mewn yr adgofion yma i ddangos fod Mr. Evans, er wedi myned yn hen mewn dyddiau, a bod ei natur yn llesgau, yn ieuengaidd a bywiog ei ysbryd. "Pan aethum yno," medd Mr. Jenkins, "yr oedd ef a Mrs. Evans un bob ochr i'r pulpud yn y sêt fawr. Ar ol i'r cantorion ganu tair neu bedair tôn, gofynais iddo ddyweyd gair. Nid oeddwn erioed wedi ei glywed yn siarad; a chododd ar ei draed yn sydyn a bywiog, a meddai—'Mae'r canu tyner yna yn myned yn union i'm calon i, ac er nad wyf yn deall canu, mae canu mwyn, addolgar, yn fy nghyffroi ar unwaith, nes gyru rhyw iasau byw drwyddo i. Dipyn yn farwaidd yr wyf fi yn eich clywed chwi ar y *gallery* yna; mae mwy o fywyd heddyw yn y pwlpud nag sydd yn y gynulleidfa. Mae eisieu Isaac o'r felin arnoch chwi yna. Dyn rhyfedd oedd Isaac. Dim ond melinwr cyffredin oedd. Ond yn y gynulleidfa, yr oedd ei lais main yn treiddio trwy y dorf, a phe buasai pawb yn sych, yr oedd ef yn wlithog, ac weithiau yn cynesu y pregethwr a'r gwrandawyr. Mae eisieu Isaac arnoch chwi ar y *gallery*.' Yna trodd yn sydyn gan godi ei ffon tua'r pwlpud, a dywed-odd—'Cerdd yn mlaen â dy waith, bachgen, a chan dy fod yn feistr ar dy waith ac ar dy gynulleidfa, a thâl hi ddim heb hyny, Duw yn rhwydd i ti.' Y noson hono, yr oeddwn yn lletya gyda hwynt, a chanmolai lais Mr. Ebenezer Morris. Bore dranoeth, ar ol brecwast, daeth â'r Beibl i ni i ddarllen; ond nid oeddem yn myned i golli y cyfleusdra o'i glywed ef yn myned trwy y gwasanaeth teuluaidd. Yna eisteddodd wrth y bwrdd yn ddiseremoni, a dechreuodd ddarllen y Salm olaf—'Molwch yr Arglwydd;' ac ar ol darllen yr adnod gyntaf, dywedodd—'Salm iddo ef yw hon,' gan gyfeirio ataf fi. Pan ddaeth at yr ail adnod—'Molwch ef yn ol amlder ei

fawredd,' meddai, 'adnod ryfedd yw hon! Rhyw un mawredd sydd yn perthyn i ddyn ar y goreu, ac y mae y dynion hyny yn ddigon prin; ond am Hwn, mae amlder o fawredd ganddo. Syniad rhyfedd, onite?' Yna aeth yn mlaen i ddarllen yr adnodau ereill, ac ymostyngodd ar ei liniau, gan anfon y deisyfiadau mwyaf synwyrol, ac yn y modd mwyaf addolgar ag y darfu i ni glywed neb yn cyfarch gorsedd gras. Ni chymerodd y gwasanaeth dros bum' munud o amser, a theimlem yn ddiameuol ei fod yn wir wasanaeth i Dduw."

Pregethodd Mr. Evans ddwy waith yn agoriad capel Llwynpia, dydd Llun, y 25ain o Fedi; a nos Iau, y 23ain o Dachwedd, yr oedd yno drachefn yn pregethu ac yn bedyddio deuddeg o blant. Byddai yn bedyddio llawer o blant yn y blynyddoedd hyn. Yr oedd y rhieni yn aml yn cadw eu plant heb eu bedyddio am fisoedd, a weithiau yn hwy na hyny, i aros cyfleusdra i'r ordinhad gael ei gweinyddu ganddo ef. Yr oedd yn iach ac yn weddol gryf yn nechreu 1877, a gallodd gyflenwi y pedwar Sul yn Ionawr, a thri o'r pedwar yn Chwefror, a'r tri Sabboth cyntaf yn Mawrth, heblaw ymweled âg ychydig o'r eglwysi cymydogaethol dros y Cyfarfod Misol, a gweinyddu mewn angladdau. Aeth i Gymdeithasfa Ystrad-Rhondda ar yr 21ain a'r 22ain o Fawrth. Pan y cyflwynwyd adroddiad am sefyllfa yr achos yn Nwyrain Morganwg—yr oedd y sir yn awr wedi ei rhanu yn ddau Gyfarfod Misol er dechre 1876—gan y brodyr penodedig i hyny, galwyd arno ef i ddyweyd gair. Fel y canlyn y mae yr adroddiad o'r hyn a ddywedodd, a'r ymddyddan a ddilynodd, yn y *Goleuad*, am Mawrth 31ain:—

"Dywedodd Mr. Evans ei fod yn teimlo ei fod wedi myned yn hen braidd heb wybod hyny. Yr oedd yn dda ganddo glywed y cyfrifon yn cael eu hadrodd. Yr oedd yn flin ganddo nad oedd yn gallu dilyn y Cyfarfodydd Misol; ni byddai gynt yn arfer colli yr un o honynt, a chai dâl da wrth eu mynychu. Pan yr oedd ef yn dechreu pregethu, nid oedd

ond 1,400 o Fethodistiaid yn y sir, a dim ond 28 o gapelau, a'r rhai hyny yn fychain ac yn gulion, ac heb orielau. Nid oedd y capelau bychain hyn yn cael eu llenwi, ond pan ddelai y Parch. Ebenezer Morris a'i gyffelyb—os oedd ei gyffelyb i'w gael. Nid oedd ef am ddyweyd dim am ansawdd ysbrydol y gwaith; dywedent hwy yr hyn a fynent; os na byddai ffrwyth, nid oedd o un gwerth; pwy a'u credent? ond serch iddynt ddyweyd dim, os byddai ffrwyth, credai y bobl ynddynt.

"Y Parch. Edward Mathews a sylwodd nad oedd Mr. Evans erioed wedi bod yn sychedig am ganmoliaeth. Yr oedd ef yn cofio Mr. Evans yn ieuanc iawn; yr oedd yn ei gofio cyn i'w wallt ddechreu troi yn wyn. Daethai yn gydnabyddus âg ef pan yr oedd ef (Mr. M.) ond deunaw mlwydd oed; a'r pryd hyny yr oedd ef ei hun yn lled hoff o ganmoliaeth, ond nid oedd Mr. Evans un amser yn hoff o glod. Pa fodd bynag, yr oedd yn bur debyg y byddai raid iddo ddyoddef ychydig o'r brofedigaeth hono y dydd hwnw. Yr oedd ef (Mr. M.) yn barod i wneud unrhyw beth a allai er ei wasanaethu, pe y gallai; ond ni wnai Mr. Evans dderbyn unrhyw wasanaeth. Gallai yntau ddyweyd nad oedd ond 30 neu 32 o gapelau pan y dechreuodd yntau bregethu, ac yr oeddynt yn gapelau bychain. Yr oeddynt oll o dan ddyled fawr i Mr. Evans; yr oeddynt hwy oll i fesur mawr wedi myned i mewn i'w lafur ef. Fel gŵr poblogaidd, yr oedd ef yn cario pob peth o'i flaen; yr oedd ei boblogrwydd yn mhob lle, ond yr oedd yn boblogrwydd pur iachus. Nid oedd ganddo ef (Mr. M.) yr un ameuaeth nad oedd canoedd yn awr yn y nef yn canu am yr amser y bu Mr. Evans yn offeryn i'w harwain o dywyllwch i oleuni. Yr oedd ef yn dymuno iddo fynediad helaeth i mewn i lawenydd ei Arglwydd; ac nid oedd yr un ameuaeth na chai; o ba le yr oedd yr anhawsder i ddyfod? (cym. a mynegiadau o deimlad). Wrth glywed am gynydd y gwaith, yr oedd ef (Mr. M.) yn gofyn iddo ei hun a oedd y cynydd mewn achubiaeth eneidiau mewn cyfartaledd i gynydd y boblogaeth. Ar yr un pryd yr oedd ganddynt

achos i fod yn ddiolchgar; er hyn yr oedd ef yn teimlo nad oeddynt yn gyfartal i gynydd annuwioldeb yr oes. Yr oedd meddwdod ar gynydd, a phob ffurf o annuwioldeb. Yr oedd yn dymuno cynyg fod diolchgarwch gwresocaf y Gymdeithasfa yn cael ei gyflwyno i Mr. Evans am ei lafur mawr, ac am iddo ddyfod i'w plith i'r Gymdeithasfa hon, a gobeithient y deuai hefyd i'r Gymdeithasfa nesaf.

"Y Llywydd a sylwodd fod Mr. Evans yn hen mewn dyddiau, ac hefyd yn hen fel pregethwr. Yr oedd wedi bod yn llwyrymwrthodwr am dros ddeugain mlynedd, a gofynai i'r pregethwyr ieuainc gymeryd esiampl o hono yn hyn.

"Parch. Owen Thomas, gyda'u caniatâd, a ddymunai gefnogi y cynygiad. Yr oedd yn hapus iawn ganddo weled Mr. Evans unwaith yn rhagor, a byddai yn dda ganddo ei weled yn y Gogledd, ac yr oedd ef yn barod i'w gario ar ei gefn yno, ac i Lerpwl, er mwyn ei ddangos i'w blant a'i gyfeillion (chwer.) Yr oedd ef yn teimlo yn ddiolchgar fod Mr. Evans yn cael ei arbed i ni mor hir, ac yr oedd yn meddwl y dylem ogoneddu Duw am ei ras yn rhoddi i ni yr hen dad hwn, yr hwn oedd wedi bod mor llafurus mewn troi pechaduriaid at Dduw, a'i gadw yn ein plith fel addurn i'r weinidogaeth. Rhoddodd Mr. Thomas wahoddiad cynes i Lerpwl. Yr oedd poblogaeth Morganwg braidd cymaint a Gogledd Cymry; ac yr oedd yn faes pwysig iawn i Fethodistiaeth. Yr oedd yn dda ganddo glywed fod yr achos yn y fath sefyllfa; ond nid oedd yn hoffi gweled dyled eu capelau mor isel; buasai ef yn hoffi eu gweled yn 50,000p., gan y buasai hyny yn brawf o fwy o ffydd yn y brodyr yn llwyddiant Methodistiaeth.

"Parch. John Jones, Rhosllanerchrugog, a ddywedodd ei fod yn adnabod Mr. Evans er pan oedd yn naw mlwydd oed, a dyna y tro cyntaf iddo deimlo argraffiadau dwysion ar ei feddwl. Yr oedd yn cofio ei destyn yn dda. Y pryd hyny yr oedd ei wallt yn felyn; gwisgai gôt lwyd, a botasau gyda topiau cochion. Ei destyn y pryd hyny oedd—'Canys ein

byr ysgafn gystydd sydd odidog ragorol, yn gweithredu tragywyddol bwys gogoniant.' Byddai yn dra dymunol ganddynt hwy ei gael i'r Gogledd, ac yr oedd ef wedi cynyg, ar ran y cyfeillion yn Nghaernarfon, i dalu ei draul yno mewn *first class railway carriage* yr holl ffordd (cym.)

"Ar awgrymiad y Llywydd, cododd yr holl Gymdeithasfa ar eu traed, fel arwydd o barch i'r henafgwr, ac yr oedd yr olwg yn doddedig dros ben—yr oedd dagrau yn treiglo dros aml i lygaid, a gwyneb yr hen batriarch yn foddfa o ddagrau, ac nis gallai ddyweyd gair mewn cydnabyddiaeth."

Fe gafodd Mr. Evans anwyd trwm nos Fercher, yr 21ain, a bu rhaid iddo fyned adref yn fore dydd Iau, yr 22ain, a bu mewn gwaelder mawr am rai wythnosau ar ol hyny. Yn y cystudd hwn, yr oedd am beth amser fel pe yn benderfynol i beidio gwella, ac ni fynai gymeryd y moddion a roddid gan y meddyg. Dywedai fod ei amser ar ben, a'i fod am fyned adref. Fel hyn yr ysgrifenodd ein tad atom, Ebrill 8fed, 1877:—"Noson flin a gafodd eich taid anwyl y neithiwr, ond heddyw y mae yn ymddangos eto yn well. Ond yr hyn sydd yn ddi-galon ydyw, ei fod am gael marw; nid oes a fyno â'r un ymdrech i fyw; nid oes a fyno â chymeryd un math o *nourishment*; nid oes a fyno â chymeryd *medicine*. Y mae yn dyweyd gyda nerth a dylanwad ei fod wedi gorphen ei waith, nad oes dim heb ei wneud yn awr ond marw, a bod 'mynediad helaeth' yn ei aros. Er pob peth, mae genyf law fawr arno i'w berswadio i gymeryd pob peth, os byddaf yn gwasgu arno, ac yr ydym yn dal yn obeithiol am ei adferiad." Ar yr 20fed o Ebrill, ysgrifenodd ei hun at ei fab:—"Fy anwyl Dafydd, eiddil ydwyf fi heddyw; ond diau byddaf waelach na hyn eto. Byddai yn dda genyf pe byddwn wedi myned trwy yr hen afon sydd rhwng y ddwy wlad. Eto yr wyf yn hyderus fyned trwyddi heb foddi, a hyny yn unig yn rasol drefn Duw yn yr efengyl—'Yr hwn a osododd Duw yn iawn trwy ffydd yn ei waed Ef.' Bu'm i ddim allan o'r tŷ dros y trothwy er pan aethoch adref. Yr wyf mor wan, fel y mae

yn faich i mi gerdded ar hyd y tŷ; ynteu, beth a ddaw o hyn? Ydwyf, anwyl Dafydd, mewn hiraeth am eich gweled; ond i ba beth? Gweled a cholli gweled y funud nesaf. William Evans." Erbyn y 27ain o Ebrill, yr oedd gymaint yn well, fel yr ysgrifenwyd atom fel hyn:—"Dyma fi wedi cael rhan o'r wythnos hon eto gyda fy nhad. Mae yn dal i wella yn hyfryd; y mae yn cerdded allan i'r cae uwchlaw'r tŷ; mae pob peth yn arwyddo yn dda am ei adferiad." Y Sabboth, y 29ain, yr oedd i fod yn Nglynogwr, ac ysgrifenodd yn y côf-lyfr—"Ychydig yn well; ddim yn abl i fyned oddicartref." Y Sul cyntaf y gallodd bregethu ydoedd y 27ain o Fai, ac ar ol hyny aeth i'w gyhoeddiadau yn mron yn ddifwlch hyd ddiwedd y flwyddyn. Yr ydym yn gweled y bu Mr. Robert Parry (Robin Ddu) yn areithio ar yr Ysgol Sul a'i Llyfr, yn Nhonyrefail, ar yr 28ain o Dachwedd, ac yr oedd yn lletya yn Nghaercurlas. Yn nghwrs yr ymddyddan, gwnaeth Mr. Parry sylw tarawiadol ag oedd yn mawr foddio Mr. Evans, a dyma fe yn galw yn uchel ar ei briod, ac ar ol adrodd y sylw, yn dyweyd—"Dyma fe wedi talu yn dda am ei fwyd." Yr un tro, gofynodd Mr. Parry iddo ei farn am foneddiges o berthynas a fuasai yn ymweled âg ef ychydig cyn hyny, pryd yr atebodd—"Menyw hyfryd yw hi yma; wn i ddim beth yw hi yn ei chartref."

Yn y Gymanfa Gyffredinol a gynaliwyd yn Liverpool, Mai 15fed, 1877, yn mhlith pethau ereill, "Cynygiwyd gan Dr. Edwards, ac eiliwyd gan y Parch. R. Williams, Glan-yrafon, a phenderfynwyd,—Fod Darlun y Parch. W. Evans, Tonyrefail, i ymddangos yn y *Drysorfa* y flwyddyn nesaf." Y mae darlun o un o weinidogion y Cyfundeb yn ymddangos yn rhifyn cyntaf y *Drysorfa* bob blwyddyn; a'r rhai a ddewisir i gael yr anrhydedd hwn yw llywyddion olynol y Gymanfa Gyffredinol. Ond fe wnaed eithriad gyda golwg ar Mr. Evans. Nid oedd efe wedi bod yn bresenol yn un o gyfarfod-ydd y Gymanfa Gyffredinol er ei sefydliad yn 1864. Am rai blynyddoedd yr oedd y gynrychiolaeth yn y Gymanfa yn

gyfyng, dim ond un gweinidog a blaenor dros bob Cyfarfod Misol. Ac am yr un rhesymau ag a grybwyllwyd mewn cysylltiad arall, Mr. David Howell, Abertawy, oedd y gweinidog a ddewiswyd gyntaf i gynrychioli Morganwg. Yr oedd Mr. Evans yn llawenhau yn y Gymanfa Gyffredinol fel cwlwm undeb agosach rhwng De a Gogledd, ac yn teimlo dyddordeb yn ei gweithrediadau; yr oedd yn ddedwyddwch o'r mwyaf iddo i weled pob symudiad yn mlaen o eiddo ei hoff Eglwys, ac nid oes ameuaeth genym iddo weddio llawer am lwyddiant ei frodyr yn eu holl ymdrechion. Ond oherwydd yr annhueddrwydd naturiol oedd ynddo i gymeryd yr arweinyddiaeth nac unrhyw ran flaenllaw gydag amgylchiadau allanol yr achos, ac yn ngwyneb yr oedran yr oedd yn awr wedi ei gyraedd, ni welwyd ef o gwbl yn y Gymanfa Gyffredinol, ac yn wir erbyn yr amser yr ydym yn awr wedi dyfod ato yr oedd wedi myned yn ddyeithr i Gymdeithasfa Chwarterol ei dalaeth, ac hyd y nod i Gyfarfod Misol ei sir ei hun. Eto, nis gallai ei frodyr annghofio, ac yr oedd yn hoff ganddynt i amlygu eu parch a'u hanwyldeb tuag ato; a rhydd yw dywedyd, chwedl yntau, ei fod ef yn parhau yn fawr ei ofal am yr achos mawr yn ei gartref, a'r eglwysi cymydogaethol, ac yn cymeryd mawr ddyddordeb yn symudiadau y Cyfundeb yn gyffredinol. Yn ol y penderfyniad uchod o eiddo y Gymanfa Gyffredinol, ymddangosodd darlun rhagorol o hono gyda'r rhifyn o'r *Drysorfa* am Ionawr, 1878, gydag ysgrif yn cynwys braslan o hanes ei fywyd, a'r bregeth a draddodwyd ganddo yn y Bala yn y flwyddyn 1825.

Yr oedd Mr. Evans yn alluog i ddilyn ei gyhoeddiadau gyda graddau o gysondeb yn y flwyddyn 1878. Ar yr 31ain o Fehefin yr oedd yn bresenol, a phregethodd ddwywaith, yn agoriad capel Pembroke Terrace, Caerdydd. Mewn atebiad i'r genadwri garedig a ddanfonwyd ato o Gymdeithasfa Llansamlet yn mis Awst, ysgrifenodd y llythyr canlynol:—

"Caercurlas, Tonyrefail, Llantrisant,
"Medi 23ain, 1878.

"Anwyl Frawd,—Yr wyf yn synu i chwi gymeryd y drafferth i ysgrifenu ataf, a chwithau a chymaint o waith genych, ac eto yr wyf yn rhyfeddu mwy fyth fod fy anwyl frodyr yn anfon gair ataf gan mor ddiddym yr wyf yn gweled fy hun,—mewn ystyr ysbrydol, duwiol, nac ychwaith mewn bod yn ddefnyddiol. Yr wyf gyda chrefydd er ys 64 o flynyddoedd, ac yn rhyw enw o bregethwr er ys 60 mlynedd, a gallaf ddywedyd yn debyg fel y dywedai yr hen bregethwr o'r Ty-clai, pan oedd Mr. Jones o Langan yn gofyn iddo, Pa faint yr wyt wedi ddysgu bellach, gan dy fod wedi bod gymaint o amser yn yr ysgol? ei ateb oedd, Yr wyf wedi dysgu na wn i ddim. Agos yr un peth yn wir allaf finau ddywedyd, er bod mor hir yn yr ysgol, a chael rhai o'r athrawon goreu a fu fawr erioed i'n dysgu. Ond gallaf ddywedyd y pethau canlynol am danaf fy hun, fy mod yn rhyw fath o dri dyn,—yn gyntaf, dyn natur; yn ail, yr hen ddyn drwg, ïe, drwg iawn; yn drydydd, dyn newydd, yr hwn sydd mewn gwi ionedd bob amser yn gwrthwynebu yr hen ddyn drwg. Sefyllfa fy natur i yw Aceldama, sef maes y gwaed, ar y cwbl: lle dychrynllyd yw sefyllfa y dyn natur, lle y mae y ddwy fyddin yn brwydro am gymaint o flynyddoedd; ond yr wyf yn hyderus iawn mai y dyn newydd enilla yn llwyr y fuddugoliaeth olaf am byth. Anwyl frawd, cofiwch fi yn garedig at y frawdoliaeth; nid wyf yn dewis i chwi ddarllen y llythyr hwn i neb ond i chwi eich hunan, ac y mae yn amheus a allwch ei ddarllen o gwbl, ond feallai, serch hyny y deallwch ei feddwl.

"Ydwyf, anwyl frawd, yr eiddoch yn y rhwymau goreu,
gan ddymuno rhan yn eich gweddiau taeraf,
"WILLIAM EVANS.

"*Rev. G. Davies, London.*"

Nis gallai yr ysgrifenydd gadw y llythyr hwn heb ei

ddarllen yn y Gymdeithasfa ddilynol, a gynaliwyd yn Aberhonddu ar yr 8fed—10fed o Hydref, ac fel y dywed y cylchlythyr, "Yr oedd yn amlwg fod ei gynwys yn cael effaith ddwys ar y frawdoliaeth."

Yn y flwyddyn ganlynol, 1879, gwnaeth y Gymdeithasfa drachefn anfon ei chofion at Mr. Evans, ac mewn canlyniad ysgrifenodd y llythyr sydd yn dilyn, yr hwn a ddarllenwyd yn Llanymddyfri yn mis Awst:—

"Caercurlas, Tonyrefail, Llantrisant,
"Gorph. 7fed, 1879.

"Anwyl Frawd,—Derbyniais eich nodyn caredig oddiwrth y frawdoliaeth yn herwydd i mi fethu dyfod i Gymdeithasfa y Rock: yr wyf yn synu at angerddoldeb cariad ysbrydol y frawdoliaeth. Synwn i ddim na bydd darfod llwyr ar gariad naturiol perthynasau naturiol y byd hwn, er mor gryf ydyw; ond am gariad ysbrydol sydd rhwng y teulu duwiol, ni dderfydd hwn byth.

"Mewn perthynas â mi fy hun, yr wyf yn ymdrechu er ys blynyddoedd lawer er treio deall pa fodd mae pethau yn sefyll rhyngof a'm Deddfwr; yr wyf yn gallu synied yn weddol rwydd mor briodol, ïe, mor resymol, yw rhwymedigaeth dyn i'r Anfeidrol yn wyneb holl gynwysiad y gyfraith a roddwyd ar Sina; ond am 'berffaith gyfraith ryddid,' sef yr efengyl, mae mor ddirgelaidd i mi yn awr, er bod wedi ei phregethu er ys mwy na 60 mlynedd, mae yn gymaint dirgelwch i mi yn awr ag ydoedd y dydd cyntaf y dechreuais chwilio iddi.

"Mae athrawiaeth yr efengyl mor anamgyffredadwy i mi, fel y buaswn yn debygiawn o'i hannghredu, oni bai ei dylanwad ar ddynion sydd yn ei chredu. Mae yn gwneud dynion sydd yn ei chredu yn foneddigaidd eu hysbryd, yn ostyngedig, yn hawdd eu trin, ac yn eu bywyd i 'ymwadu âg annuwioldeb a chwantau bydol, a byw yn sobr, yn gyfiawn, ac yn dduwiol yn y byd sydd yr awrhon.'

"Dirgelwch anamgyffredadwy i mi fod 'yr hwn nid adnabu bechod, wedi ei wneud yn bechod drosom ni, fel y'n

gwnelid ni yn gyfiawnder Duw ynddo ef.' Syndod! ar ol y cwbl, er mor lleied yr wyf yn gallu ei amgyffred, nid wyf yn annghredu; ac nid oes llai nag athrawiaeth yr efengyl yn gallu tawelu y storom yn fy mynwes, nac ychwaith yn rhoddi hyder yn fy meddwl i gyfarfod â'r cyfrif yn y dydd diweddaf.

"Mae'r cwbl o'r nodyn hyn yn unig i fod rhyngom ni ein dau; ond yn ddiau byddai yn briodol dyweyd wrth y frawdoliaeth, fy mod yn ddiolchgar am air oddiwrthynt, heb feddwl am haeddu y fath gydnabyddiaeth; gan ddymuno rhan yn ngweddi y frawdoliaeth. Yr wyf yn ymyl cyfnewidiad pwysig.

"Ydwyf, anwyl frawd, yr eiddoch yn y rhwymau goreu,

"WILLIAM EVANS.

"*Parch. Griffith Davies.*"

Eithr nid oedd boddlonrwydd yn y Gymdeithasfa heb i'r llythyr gael ymddangos yn y cylch-lythyr, a byddai yr un mor anfoddlawn genym ninau i'w adael allan o'r Cofiant hwn am ei awdwr.

Y mae y gair "methu" yn dyfod yn llawer amlach ar gyfer y Sabbothau yn 1879 nag yn y blynyddau blaenorol, er i Mr. Evans allu myned mor bell a Nazareth, Llanelli, y Sul olaf yn Mehefin, ac i'r Rock, sir Fynwy, yr ail Sul yn Awst. Yr oedd Cymdeithasfa Hydref y flwyddyn hono i'w chynal yn Nhyddewi, ac yr oedd y cyfeillion yno yn dra awyddus am gael ei bresenoldeb a'i wasanaeth ef ynddi. Ysgrifenodd Mr. W. Watts Williams atom i'r perwyl hyny, ac i erfyn arnom i'w cynorthwyo i sicrhau eu hamcan. Tuag at hyny, ysgrifenasom ato i gynyg myned gydag ef bob cam o Gaercurlas i Dyddewi, ac yn ol. Dyma ei atebiad:—

"Caercurlas,
Medi 29ain, 1879.

"Fy Anwyl Wyr,—Derbyniais eich nodyn caredig * *

Mewn perthynas i'ch addewid i gymeryd y fath drafferth i gymeryd y gofal i'm dwyn o Gaercurlas i Dyddewi, ac i'm dychwelyd yn ol i Gaercurlas, mae yn deimlad dedwydd i mi eich bod mor barod i wasanaethu ar eich hen daid; ond y mae wedi myned yn mhell dros amser i feddwl byth am y fath daith. Mae pob peth yn deg yn ei amser; ac ynfyd yw dysgwyl dim ond yn ei amser priodol. Cofiwch fi at y cyfeillion, yn enwedig y rhai yr ydwyf yn eu hadnabod. Gellwch ddywedyd wrth y cyfryw ofynodd am i mi ddyfod i Dyddewi, mai nid pallu yr ydwyf, ond methu ydwyf.

"Ydwyf, fy anwyl wyr, yr eiddoch yn y rhwymau goreu,

"WILLIAM EVANS."

Dydd Gwener, y 19eg o Fedi, wrth fyned o'r naill ystafell i'r llall yn y tŷ, fe gwympodd, a chafodd gryn ddolur. Danfonwyd yn union am y meddyg, sef Dr. H. N. Davies, Cymar. Y mab a ddygwyddodd fyned drosodd yn lle ei dad, sef Dr. Evan Davies. Gofynodd Mr. Evans gyda chyflymdra iddo, "Os mai mab Dr. Davies ydoedd." Atebodd y gŵr ieuanc yn gadarnaol. Gofynodd ei enw. Atebodd mai Evan oedd ei enw. Yna dywedodd wrtho yn dyner, ei fod yn ymddangos yn foneddwr ieuanc addawol. Cyn ymadael, galwodd sylw y meddyg ieuanc at y canlynol—"Yr wyf yn awr o dan eich gofal chwi. Yr wyf o'r blaen wedi bod lawer gwaith dan ofal eich tad medrus. Yr wyf cyn hyny wedi bod dan ofal eich taid, Dr. Evan Davies, a hyny mewn amgylchiadau peryglus, a bu bob tro yn feddyg llwyddianus. Yr wyf cyn hyny wedi bod dan ofal meddygol taid eich tad, Dr. Henry Davies, yr un enw a'ch tad; a chyn hyny dan ofal taid eich taid, Dr. Samuel Davies; pum' cenedlaeth olynol wedi gofalu am danaf." Daeth y ffaith hon yn hysbys yn ddioed, ac fel y gallesid dysgwyl, aeth oddiamgylch yr holl newyddiaduron, a bu yn destyn llawer o siarad ar y pryd. Erbyn y 13eg o

Hydref, yr oedd yn gallu ysgrifenu at ei fab fel y canlyn:—

"Fy Anwyl Dafydd,—Eiddil ydwyf fi heddyw. Nid wyf wedi bod fawr neu ddim o'r ystafell oddiar y buoch chwi yma; ac y mae yn bur ameus y gallaf mwyach fyned oddicartref, nes myned i'm hir gartref. Gan hyny, nid oes genyf ond ymostwng, a dysgwyl yn ddystaw wrth ei iachawdwriaeth Ef. Mae meddwl fy mod wedi cael fy nghynal mewn gyrfa mor hir, ac mewn gwaith mor bwysig cyn hirwyl, yn syndod i mi fy hun, ac i lawer yn ddiau. Byddwch mor garedig ag hysbysu i'r frawdoliaeth mai methu yn llwyr ydwyf, ac nid pallu, a fy mod yn dymuno rhan yn eu gweddïau, ac fy mod yn ei gyfrif yn fraint i minau gael cofio fy nghyfeillion yn fy ngweddïau gwael fy hunan. Byddwn yn ddiolchgar iawn i chwi pe gallech yn fuan ddyfod i'r lan. Mae yn siomedig iawn i mi fethu a dyfod i'r Docks yn ol fy addewid. Yr wyf yn hoffi myned i bob man ar ol addaw; ond y mae rhai lleoedd â mwy o dynfa ynddynt, beth bynag yw hyny.

"WILLIAM EVANS."

Modd bynag, gwellaodd fel ag i allu pregethu amryw o Sabbothau, a chyflawni dyledswyddau gweinidogaethol ereill cyn diwedd y flwyddyn. Nis gallwn adael y flwyddyn yr ydym yn awr arni, heb gyfeirio at yr erthygl arno a ymddangosodd yn y *Christian Echo* am fis Tachwedd, wedi ei hysgrifenu gan y Golygydd, Mr.—yn awr Dr.—Cynddylan Jones, yr hwn a fu yn ymweled â Mr. Evans amryw droion y flwyddyn hono. Y mae yr erthygl yn cynwys desgrifiad bywiog a medrus o hono, ac yr ydym yn ei gyflwyno i'n darllenwyr fel yr ysgrifenwyd ef:—

"In body he is small, slight, and slender, rather below the middle stature. Would we be wrong in supposing that the Apostle of Tonyrefail and the Apostle of the Gentiles were not very dissimilar as to physical size? As to physical beauty, no doubt, Mr. Evans would carry off the palm; but

as to height and weight we judge they are both much on a par. It is said that tallness and massiveness are advantageous to a preacher. Edward Irving owed a great deal of his impressiveness to his massive build and magnificent presence. But there is nothing lofty or large about Mr. Evans; there is, however, a mighty deal of the beautiful and the winsome. He is a little man, but we must remember size is not greatness.

> 'Were I as tall as to reach the pole,
> The mind is the measure of the man.'

"It has always struck us that spareness of flesh is helpful to longevity. Most old men are comparatively thin. Our observation is certainly confirmed in the case of Mr. Evans. He has reached the great age of 84, and is likely enough to reach 100.

"Two things should here be noticed. One is that he ha always been an early riser. A great pity our young ministers do not believe in early rising. However, we dare say many of them believe in it, but like ourselves cannot act up to their belief. How many times have we made up our minds the night before to rise early the following morning! Ah, it is easy enough to make up the mind—to make up the body is the task; and we candidly confess our repeated failures. However, we shall try again. The other thing to be mentioned is, that Mr. Evans has reached this ripe old age without resorting to the use of stimulants. He never found it necessary to keep the spirits of the body up by pouring spirits down. Another example to our young men, and especially to r young ministers.

"We paid our venerable friend a visit last year, and have seen him twice or thrice since. We were young, and were anxious to pay him the homage due to so aged and honourable a servant of the great Master. We enjoyed his society vastly, and hope to spend another day with him before long.

"Our visit to Tonyrefail gave us a better idea of perpetual motion than we had ever had before. Mr. Evans sits on his easy chair. He begins to tell us about the old preachers, who were in the front of our Associations when he was in his prime. He suddenly starts on his feet like a Robin Redbreast—a deep sigh—he proceeds with his story. He approaches you; his finger touches you; his eyes flash on you a sudden epigram; and in an instant the old man is back in his chair, looking as devout as an angel. He begins another; starts from his chair; approaches you; goes back; but before he and the chair have come into close contact he skips forward again; goes through the same gyrations as before, with many variations to suit his subject. Explosion—flash: the old man is back in an instant in his chair. Perpetual motion! And all that in his 85th year! What must he have been in his prime?

"He is now on the frontiers of the two worlds—his back to time and his face to eternity. Though he still preaches, yet his day is practically over. He has retired for years from the prominent places of the denomination. As the sun hangs in the west after the heat and toil of the day is over, large, and round, and golden, just to show how beautiful he can look; so God allows his aged and faithful servant to hang in the horizon of time, white and bright and beautiful, just to show us what grace can do for fallen man. Ere long he will have set beyond our horizon, to rise in another sphere; and then shall he realize the climax of his sermons—'*Y mawl yn dragywydd iddo.*' As he is now waiting, we seem to hear the sound of the chariot wheels, and we cry with tears in our eyes—'The chariot of Israel and the horsemen thereof;' the chariot coming to fetch our aged father home. But the horsemen are skilful, no harm shall befall him. 'Drive on.' Nay, stay awhile, that we may have another look at his holy face and receive his final benediction."

Yr ydym yn awr yn dyfod at y flwyddyn 1880. "Methu" sydd ar gyfer yr oll o Sabbothau Ionawr. Ond fe bregethodd Mr. Evans y pum' Sabboth yn Chwefror a'r tri chyntaf yn Mawrth. Ar ol hyny ar hyd y flwyddyn nid yw yn gallu dilyn ei gyhoeddiadau ond yn fylchog. Nos Lun, y 3ydd o Fai, yr oedd yn Mhenygraig yn bedyddio 15 o blant. Bore Sul, y 15fed o Awst, pregethodd yn agoriad capel Trealaw. Nos Fawrth, y 19eg o Hydref, yr oedd yn pregethu yn y Porth ar achlysur agoriad yr ysgoldy cysylltiedig â'r capel, ac yn bedyddio pedwar plentyn. Dechreuodd y flwyddyn 1881 yn gryfach nag y dechreuasai y flwyddyn o'r blaen, a pharhaodd ar hyd-ddi i allu cyflawni ei addewidion yn fwy difwlch. Yr ydym yn cael golwg arno mewn dau gyfarfod blynyddol yn y flwyddyn hon—y naill yn Rhiwceiliog, ger-llaw Pencoed, ar y 6ed o Hydref, a'r llall yn y Rock, Mynwy, ar y 30ain o'r un mis. Ymddangosodd yr adroddiad canlynol yn y *Goleuad* am Hydref 15fed, 1881:—

"PENCOED, MORGANWG.—Cwrdd Blynyddol Rhiwceiliog. —Atdyniad mawr y cwrdd blynyddol eleni oedd yr hen batriarch anwyl o Donyrefail i bregethu am 10 dydd Iau. Fel ei arfer, dyma efe yn y pwlpud at ei amser, a phawb yn gorfoleddu yn y sicrwydd o'i ddyfodiad. Y mae yn pregethu yn yr ardaloedd hyn er's 63 o flynyddau, ac y mae yn parhau y pregethwr mwyaf poblog yn yr holl wlad. Trodd allan y pregethwr mwyaf poblogaidd blwyddyn gyntaf ei weinidogaeth, a pharhaodd felly drwy hyd ei oes faith. Y mae wedi bod yr haf hwn yn y lleoedd mwyaf yn y sir, a dywedid fod y capeli yn llawnach nag y gwelwyd hwynt yn gwrando neb arall pwy bynag; yn orlawn nes llanw'r heolydd hefyd. Y mae yn un o'r pregethwyr hyny sydd yn gallu pregethu'r efengyl i bawb; nid oes dim gwahaniaeth pwy fo'n gwrando, pa un ai cyfoethog neu'r tlawd—pa un ai y gwladwr mwyaf cyffredin, neu y dyn mwyaf gwrteithiedig—pa un ai y Cristion mwyaf profiadol, neu'r Anffyddiwr mwyaf rhagfarnllyd—pa un ai y beirniad mwyaf craffus, neu

y lluaws anwybodus. Yr oedd yn cwrdd â phawb, ac yn gwneud i bawb ddeall. Bu yn bleser genym lawer gwaith ei weled yn tori y tir dan draed yr Anffyddiwr, ac yn ei hyrddio i'r dyfnder â'i draed i fyny; tra yn taflu ei fraich dyner i amddiffyn y gwan a'r diniwed, gan weini llaeth a mêl i'r tyner a'r angenus. Y mae yn gyfuniad o bob peth sydd yn eisieu mewn pregethwr—yn gall fel y sarff, ac yn ddiniwed fel y golomen; yu bur ac yn anwyl, yn llym ac yn dyner, yn dduwiol ddiameuol yn y pwlpud, ond yn fwy felly yn y sêt fawr ar ei liniau; yn weddiwr mawr yn y cyhoedd, ond yn llawer mwy felly yn y dirgel; llawer o faes, mwy o fewn. Digon gerbron dynion, ond mwy gerbron Duw. Dim ffug: dim crefydd gwneud—y cwbl yn fynegiad naturiol (*spontaneous*), yn ymgodi o wirionedd mewnol (*inward reality*), a hyny gan mwyaf yn ddiarwybod iddo ei hun. Llawer gwaith y gwelsom ef wedi cwbl annghofio ei hnn; weithiau byddai ei lymder sanctaidd yn fflachio allan o'i lygaid ac yn ymlinellu dros ei wynebpryd, digon i ddychrynu cythreuliaid a dymchwelyd yn hyfflon bob gau noddfa fyddai gan yr annuwiol i lechu ynddi; tra yn yr un oedfa, os nad yn yr un funud, gallai alw i fyny ddigon o dynerwch efengylaidd i swyno yr ofnus a'r tyner i redeg ato, a'u calonau yn glynu wrtho. Byddai ei wyneb yn aml fel gwyneb angel, yn llawn o'r swyn mwyaf nefolaidd; ac am ei lais, ni bu ei fath yn nghôf neb byw. Byddai yn gwaeddi yr un gair wyth neu ddeg neu chwaneg o weithiau; ond pa gynifer bynag nid oedd neb yn blino, ac os cyraeddai'r Hosanna, Haleliwia, goreu oll, a'r holl gynulleidfa yn foddfa o ddagrau. Y creigiau yn toddi, a'r callestr yn ffynon o ddagrau, a gadawai y gynulleidfa gan amlaf yn swp fel clwtyn llestri. Yr unig beth sydd yn eisieu yn awr ydyw y nerth i waeddi y floedd fawr. Y mae ei ddywediadau tlysion tarawiadol yn aros, yn aml yn peri gwên sanctaidd dros yr holl gynulleidfa, ac weithiau yn chwerthin duwiol iachus; dim i borthi ysgafndra, a'r cwbl yn ymdoriad y foment heb un math o ragfwriad, ond odid yn nghanol y

difrifwch mwyaf ofnadwy y gwnant eu hymddangosiad. Yr oedd ganddo yn ystod ei oes rhyw gywair tyner a gwlithog ar ei lais yn ymffurfio yn ol maint y gynulleidfa fechan, a byddai yr oedfaon hyn y pethau mwyaf tyner ac effeithiol a dim erioed a glywsom yn ein bywyd. Yr oedd yn deall y gynulleidfa yn *instinctive*, a'i ddawn a'i weinidogaeth yn ymgyfaddasu yn naturiol yn ol cymwysdra, a phrydferthwch yr Arglwydd ein Duw bob amser ar yr oedfa. Efe yw yr hen ŵr ieuangaf erioed a welsom; mor syth, mor ysgafn ei gam, mor *fresh* ei wynebpryd, mor anwyl ei wedd. O! mor hardd yr olwg. Dyma beth yw 'henaint teg,' a'i wallt gwyn modrwyog fel yr eira yn goron gyflawn am ei ben sanctaidd. O! mor anwyl. Mae ei wedd yn fendigedig. Nid rhyfedd fod angylion yn tori allan a dywedyd 'ŵr anwyl.' Nefoedd a daear yn ei gofleidio. Y mae yn abl peri i un ddymuno bod yn hen, ac yn wir byddai yn werth ond cael bod yn hen o'r fath yma. Beth ond efengyl ei Fab Ef, a gwasanaethu efengyl gynifer blwyddyn, allai esgor ar y fath 'henaint teg.' Ireiddiach yw ei gnawd na bachgen, a'i ysbryd sydd yn diferu fel y myrr diferol, yn ffrwytho eto yn ei henaint. Y ddau frawd arall oedd y Parchn. Jones, Treherbert, a Lloyd, Pontfaen, a chafwyd cyfarfod a chasgliad rhagorol. Amcenir gwneud £100, a £100 Salem, a bydd asgwrn cefn y ddyled wedi ei thori. Yr oedd y ganmoliaeth uchaf i ddarbodiaeth y gwragedd, a chafwyd digon o friwfwyd gweddill i roddi tê i'r Ysgol Sabbothol y nos ganlynol. Mor ffrwythlawn yw yr efengyl.—*Salemwr*."

Nis gallwn gadw oddiwrth ein darllenwyr yr addroddiad yn y *Goleuad*, am Tachwedd y 19eg, o'r cyfarfod crybwylledig yn y Rock:—

"ROCK, MYNWY.—Cynaliodd yr eglwys uchod ei chyfarfod pregethu haner-blynyddol y Sul diweddaf. Y pregethwyr oeddynt, yr hybarch a'r anwyl dad o Donyrefail, y gweinidog henaf perthynol i'r Cyfundeb, ac un o'r rhai ieuengaf, y Parch. D. H. Williams, Newport. Er fod y Parch. W.

Evans yn ymweled yn aml â'r eglwys hon, yr oedd cymaint o ddysgwyliad am dano y waith hon ag a fu erioed, nid yn gymaint am ei fod yn ei 87ain mlwydd o'i oedran, ond am fod ei weinidogaeth yn flaenorol wedi suddo i serch a chalonau llaweroedd. Yr oedd yn arbenig o ddylanwadol yn y cyfarfod 2 o'r gloch; 'Mawl, mawl, mawl iddo,' yn byrlymu fel dyfroedd berwedig, nes yr oedd y lluaws yn methu dal heb wylo fel yntau. *Treat* i eglwysi'r wlad fyddai cael teimlo nerth felly. Yr oedd y casgliad yn rhagorol. Yr oedd y brodyr wedi meddwl gwneud 25p., ond yr oedd rhyw 12s. yn rhy fychan i wneud hyny. 'Meddwl da,' meddai yntau, 'oedd meddwl casglu 25p. mewn ardal lle mae y gweithydd wedi sefyll. Rhaid cwblhau meddwl fel yna; dyma i chwi dipyn er gwneud y swm yn gyflawn.' 'Na, na,' meddai'r brodyr, 'fe wnawn y swm i fyny ein hunain.' 'Rhaid cyflawni'r bwriad da,' meddai yntau drachefn. 'Cael llawer, rhoi peth,' meddai brawd arall; 'derbyniwch gyda Mr. Evans; y mae efe wedi cael pob peth a all y byd hwn roddi iddo, a sicrwydd pob dedwyddwch yn y byd a ddaw yn nghyfamod Duw, ac yn nghydwybod pawb ag sydd yn ei adnabod. Dyna ch'i wedi ei chwblhau hi yn awr.' Iechyd a gaffo i ddyfod yn fuan i'r ardal eto, yw dymuniad pawb ag oedd yn ei wrandaw.—*Ymwelwr*."

Da genym hefyd allu cyflwyno llythyr o eiddo Mr. Evans, a ysgrifenwyd ganddo yn yr un flwyddyn, yr hwn a ddarllenwyd yn Nghymdeithasfa Pontrhydfendigaid :—

"Anwyl Frawd,—Derbyniais eich llythyr caredig. Rhoddodd i mi ddirfawr hyfrydwch wrth feddwl fod fy anwyl frodyr yn meddwl am danaf, a minau mor eiddil a llesg, yn methu a myned fawr neu ddim oddicartref, ond yn unig ychydig o amgylch cartref ar y Sabbothau i bregethu yr efengyl i bechaduriaid, yr hyn yn wir yw fy hoff waith er ys mwy na 60 mlynedd. Mae fy nghôf wedi gwanhau; ond rhydd yw dywedyd, mae fy awydd i ragflaenu aflwydd pechaduriaid i raddau yn parhau, fy hoff waith er ys mwy na 60 mlynedd.

Cyngor yr Arglwydd Iesu i'w ddysgyblion sydd yn gryf wrth fy meddwl yn y dyddiau presenol—'Felly, chwithau hefyd, gwedi i chwi wneuthur y cwbl oll ag a orchymynwyd i chwi, dywedwch, gweision anfuddiol ydym; oblegyd yr hyn a ddylasem ei wneuthur a wnaethom.' Nid wyf yn teilyngu dim, nid yw talu ond gonestrwydd yn y man goreu, nid oes yma le i ymffrost; mae rhywbeth mwy yn ysbryd yr efengyl na thalu dyled, gwneud cymwynas, ïe, gwneud trugaredd, gwneud da i ereill hyd y mae ynom.

"Cefais hyfrydwch nid bychan wrth weled a darllen hanes y Gymdeithasfa yn Dowlais; holl ranau y gwaith mor drefnus, gradd mawr o lewyrch ar yr holl gyfarfodydd, yr ymdrech a'r llafur cyffredinol gyda'r achos yn mhob cylch. Y llafur a'r ymdrech bia Seion, Perchen y gwaith bia y llwyddiant. Cofiwch fi yn eich gweddïau.

"Ydwyf, anwyl frawd, yr eiddoch,

"WILLIAM EVANS."

Dim ond haner Sabbothau 1882 y gallodd bregethu, a rhai o'r rhei'ny dim ond un pen i'r dydd. Y lle pellaf y bu ynddo ydoedd Llwynbrwydrau ar y 27ain o Awst. Bu hefyd ddwywaith yn Nghaerdydd, sef yn y Docks ar yr 28ain o Fai, ac yn Pembroke Terrace ar yr 2il o Gorphenaf. Ysgrifenwyd atom ar ol oedfa y bore fel hyn: "Daeth eich taid, a mae yn hynod ddedwydd. Cafodd gwrdd *nice* y bore. Clywais ef yn fwy nerthol, ond yr oedd yn *fine*. Pregeth newydd, heddyw y daeth allan gyntaf—1 Cor. xiii. 12. Mae yn syndod i bawb!" Ond nis gallwn lai na sylwi fod ei lafur nid yn unig yn lleihau, ond hefyd yn cael ei gyfyngu yn fwy fwy o flwyddyn i flwyddyn i'w gartref a'i gymydogaeth ei hun. Dyma lythyr arall a ysgrifenwyd ganddo mewn atebiad i genadwri serchog ato oddiwrth y Gymdeithasfa, yr hwn a ddarllenwyd yn Aberteifi, Awst y 1af:—

"Caercurlas, Tonyrefail, Llantrisant,
"Mehefin 26ain, 1882.

"Anwyl Frawd,—Mae fy meddyliau yn aflonydd wedi derbyn y fath lythyr brawdol oddiwrth y Gymdeithasfa, yn cydymdeimlo â'm henaint a'r llesgedd yr wyf ynddo yn bresenol, a minau ddim cymaint a rhoddi cydnabyddiaeth fy mod wedi derbyn y fath garedigrwydd oddiwrth fy anwyl frodyr yn fy henaint a'm heiddilwch. Rhydd i mi ddywedyd, mae y cyfryw lythyr wedi rhoddi i mi londer nid bychan mewn tir mor adfeiliedig ac eiddil. Nid wyf yn ymryson, ond nid heb deimlo henaint a methiant yn bethau blin.

"Y lle yr wyf yn cartrefu fwyaf yn ddiweddar yw 1 Cor. x. 31—'Pa un bynag gan hyny ai bwyta ai yfed, ai beth bynag a wneloch, gwnewch bob peth er gogoniant i Dduw. Byddwch ddiachos tramgwydd i'r Iuddewon, ac i'r Cenedloedd hefyd, ac i Eglwys Dduw'—dyna bawb yn y byd. 'Megys yr ydwyf finau yn rhyngu bodd i bawb yn mhob peth; heb geisio fy llesâd fy hun, ond llesâd llaweroedd, fel y byddont hwy gadwedig'—1 Cor. x. 31—33. Yr wyf yn eiddigeddus at grefydd yr Apostol.

"Anwyl Frawd, nid ydwyf yn ewyllysio eich blino â llawer o ddywediadau, heb fod ynddynt fawr neu ddim o sylwedd.

"Ydwyf, anwyl frawd, yr eiddoch yn y rhwymau goreu,
gan ddymuno rhan yn eich gweddiau taeraf,

"WILLIAM EVANS.

"*Rev. W. Williams, Swansea.*"

Y mae yr adroddiad canlynol a ymddangosodd yn y *Goleuad* yn rhoddi golwg i ni ar Mr. Evans fel yr ydoedd yn 1883. Fel y gwelir yr oedd efe a Mr. David Griffith, Pant-tywyll, Merthyr, gyda'u gilydd yn gwasanaethu yr eglwys yn nghapel Jerusalem, Ystrad Rhondda, Sulgwyn y flwyddyn hono. Yr oedd rhai o'r eglwysi yn gofalu, pan fyddai cyhoeddiad Mr. Evans gyda hwynt, i sicrhau cynorthwywr iddo; ac os dygwyddai iddo ef "fethu," byddai y pwlpud

yn cael ei gyflenwi, er y byddai y cynulleidfaoedd yn siomedig. Yr oedd y cyfeillion yn Mhenygraig yn hynod yn y caredigrwydd hwn tuag ato. Hefyd, os dewisai, gallai ddychwelyd adref ar ol oedfa y boreu. Ac yn mhob man yr oedd pob boddlonrwydd i gynal yr oedfa 6 am 5, a deuai y cynulleidfaoedd yn nghyd yn brydlawn ac yn gryno, fel ag iddo ef gael myned i'w gartref yn gynar. Dyma yr adroddiad am dano, Sulgwyn, 1883:—

"JERUSALEM, YSTRAD, CWM RHONDDA.—Cafwyd golygfa yn mhwlpud y capel uchod y Sulgwyn diweddaf nas gellir cael ei bath ond yn dra anfynych, sef gweled dau hen weinidog, oedran y rhai yn nghyd sydd yn gwneud i fyny 173 o flynyddoedd, yn cydbregethu ynddo. Y ddau hen weinidog oeddynt y Parch. W. Evans, Tonyrefail, a'r Parch. D. Griffith, Pant-tywyll—y cyntaf yn ei nawfed flwydd a phedwar ugain, a'r olaf yn ei bedwaredd flwyddyn a phedwar ugain. Dechreuwyd y cyfarfod y boreu gan Mr. Griffith, a phregethodd Mr. Evans ei hun, a gellir tystio fod arogl esmwyth ar bob rhan o'r gwasanaeth o ddechreu y cyfarfod hyd ei ddiwedd. Yn yr hwyr pregethodd y ddau, a difyr iawn oedd clywed Mr. Griffith, yr hwn ei hun sydd yn pregethu er's yn agos i dri ugain mlynedd, yn cyfeirio at Mr. Evans fel yr 'hybarch dad.' Prin y gellid tybied wrth wrando y ddau eu bod yn y fath oedran mawr; y mae yr addewid hono, 'Ffrwythant eto yn eu henaint; tirfion ac iraidd fyddant,' yn cael ei chyflawni yn amlwg yn mhob un ohonynt. Testyn Mr. Griffith ydoedd Actau ii. 17, 18, a phregethodd yn hynod effeithiol. Nid ar fyr y gellir ei annghofio yn bloeddio 'heddwch' ddwy neu dair o weithiau yn ystod y bregeth. Pan yn son am ddylanwad yr Ysbryd, o dan y gydmariaeth o wlaw, dywedai, er na fu ef ei hun erioed o dan gawod drom fel y bu y miloedd ar ddydd y Pentecost, eto ei fod wedi bod o dan y gwlith am fwy na thri ugain o flynyddoedd bellach, ac fod hyny wedi ei wneud ef yn rhy iraidd i dân uffern i gymeryd gafael arno; yna ymsythai, a gofynai gyda dylan-

wad mawr, a chydag awdurdod teilwng o un o feistriaid y gynulleidfa, 'Faint o honoch chwi, fechgyn y *gallery*, sydd ar dir ag y medroch chwi ddyweyd peth fel hyn?" Am Mr. Evans, pan ddywedir ei fod wedi cyraedd y 'mawl iddo' yn gynar yn mhob un o'r ddwy bregeth, bydd ei wrandawyr cyfarwydd yn deall yn dda yn mha dymeredd yr ydoedd. Ei destyn yn y boreu ydoedd Salm cxxxix. 23, 24, ac yn yr hwyr Genesis i. 3. Pregethodd am tua thri chwarter awr bob tro, a hyny yn gryf a bywiog, yn gymaint felly nes peri i ni gredu fod iddo eto amryw o flynyddoedd o waith cyn y bydd i'w Arglwydd ei alw oddiwrth ei waith i fwynhau ei wobr. Efe, yn nghyda'r Parch. Robert Owen, Rhyl, a fu yma yn cynal ein Jiwbili gyntaf ar ddilead dyled yr hen gapel, ac yn ol pob argoel cawn y fraint o gael yr un dau eto i gynal Jiwbili y capel newydd. Bydded felly. Gwyddom y gwna miloedd y gwersyll Methodistaidd roddi eu Hamen wrth y dymuniad am i'r gweinidogion hybarch ac anwyl hyn gael estyniad hir o'r prydnawn hyfryd a theg a fwynheir ganddynt yn bresenol."

Ysgrifenodd y llythyr canlynol at ei fab hynaf, Mawrth 31ain, 1884:—

"Fy Anwyl Dafydd,—Yr wyf yn wir hiraethlon am eich gweled, er cael ymddyddan y naill â'r llall. Mae eich gofal a'ch ffyddlondeb yn danfon y *South Wales* bob dydd, yn effeithio yn rhyfedd ar fy meddwl. Mae y wybodaeth mae y papyrau diweddaf wedi eu rhoddi, wedi peri i mi fwy o gysur na ellir yn hawdd ei ddesgrifio; gweled y gwrthryfelwyr wedi eu gorchfygu, a'r milwyr dan eu coron, a'n llywodraeth mewn anrhydedd. Carwn weled fod y twyllwr Osman Digma wedi ei ddal, ïe, yn wir, ei wir argyhoeddi o'i ynfydrwydd yn ei farn a'i fywyd. Dyna ddigon ar hyna. Na oedwch ddanfon nodyn ataf gyda throad y *post*. Mae gair oddiwrthych mewn llythyr yn esmwythau fy nolur; mae hyny feallai yn beth rhyfedd genych chwi, ond y peth sydd

wir sydd wir, bydded ffol neu gall; ond eiddil ydwyf fi heddyw.

"Eich anwyl dad,

"WILLIAM EVANS.

"*Mr. D. Evans.*"

Mae y llythyr hwn yn ddangosiad o'r sylw yr oedd yn parhau i'w dalu i bethau yn gyffredinol. Yr oedd yn dal yn fyw i wleidyddiaeth y dydd. Pan y daeth yr etholiad cyffredinol yn 1885, aeth ar ei anifail, mor aiddgar a neb, i roddi ei bleidlais. Ac yn y symudiad mawr a wnaed yn 1886, fel ag i beri etholiad cyffredinol drachefn, mewn cysylltiad â Llywodraeth yr Iwerddon, nid oedd yntau yn sefyll, ond yn myned rhagddo yn ei ymddiriedaeth yn y rhai ag yr oedd efe yn meddwl eu bod yn deall fel y dylai pethau fod. Ond i ddychwelyd at 1884; y mae yn bruddaidd i sylwi fel y mae y gair "methu" yn amlhau yn y côf-lyfr ar gyfer y Sabbothau, a dim ond pedwar Sul y gallodd bregethu y pedwar mis olaf o'r flwyddyn hono. Eithr bu yn alluog i gyflawni ei addewidion am yr oll o fis Awst. Y Sabboth cyntaf, sef y 3ydd o'r mis, yr oedd yn Abertawy. Aeth Dr. Saunders y dydd blaenorol bob cam i Gaercurlas i'w gyrchu yno; ac yn ei dŷ ef yr oedd yn lletya. Aeth trwy oedfa y bore Sabboth yn ddedwydd. Yr oedd Dr. W. C. Roberts, America, yn pregethu yn y prydnawn, a'r ddau yn yr hwyr. Nid oedd Mr. Evans yn foddlawn i bregethu ar ol Dr. Roberts yn yr hwyr; ond wedi i Dr. Saunders fyned i'r lan i'r pwlpud a dyweyd wrtho—"Y mae y gynulleidfa yn newynu am eich clywed," ymfoddlonodd i bregethu, yr hyn a wnaeth am tua chwarter awr, gyda mesur o lewyrch a bywiogrwydd ag oedd yn dwyn adgof am ei hen oedfeuon. Aeth i'w lety, a chafodd ei swper arferol, ac aeth yn union i'w wely, a chysgodd yn dda am dair awr. Dihunodd cyn haner nos, ac yn gymaint a'i bod yn oleu leuad, meddyliodd ef fod y bore wedi dyfod, a chododd, a gwisgodd am dano. Clywodd Dr. Saunders swn ei

symudiadau, ac aeth i'r ystafell ato, a chafodd gryn drafferth i'w berswadio nad ydoedd yn bryd codi, ac i fyned at y *train* i ddychwelyd adref. Ei hen arfer ef buasai myned adref o'i gyhoeddiadau yn foreu iawn dydd Llun, pan na byddai yn gyfleus iddo wneud hyny nos Sul. Ei hoff drefn ydoedd myned a dychwelyd y Sabboth. Elai bellderau mawrion o ffordd bore Sul, cyn ac wedi canolddydd ei fywyd, megys i Lanilltydfawr, neu Gaerdydd, neu Merthyr, neu Dowlais. Yn y lle olaf, gofynwyd iddo un tro gan y blaenor ffraeth, Joshua Prosser, "Faint yw hyd taith Sabboth, Mr. Evans?" Ei ateb parod ydoedd, "O'r tŷ i'r capel." Fel engraifft o'i frys i ddychwelyd adref o'i deithiau Sabbothol yn fore dydd Llun, yr ydym wedi cael y canlynol oddiwrth y Parch. David Phillips, Abertawy:—"Yr oeddwn yn dychwelyd adref (i'r Llwyni) rhyw fore dydd Llun o Bontypridd ar gefn *pony* pert a feddwn y pryd hyny, a throais heibio Caercurlas, gan fyned ar hyd y caeau ffordd fyrach i Hendreforgan. Yr oedd yn foreu braf yn yr haf. Yr oedd efe ar y maes yn llewys ei grys gyda'r gweithwyr yn trin y gwair, wedi dyfod o Aberdar y bore hwnw. Gwelodd fi yn dyfod at y tŷ, a dyma fe yn dyfod i'm cwrdd, gan gyfarch oddidraw, a dywedyd—'*Feed* o geirch i'r *pony*, a llysi a llaeth i chwi, ac *off* â chwi yn y funud.' Ac felly y bu; cafodd y *pony* a minau ein cyfran, a ffwrdd â ni; yntau a ddychwelodd i'r cae at y gweithwyr a'r gwair." Un gref yw arfer, ac y mae yn glynu; ac felly y glynodd yr arfer o fyned adref o'i deithiau mor fuan ag oedd bosibl wrtho ef hyd y diwedd. Yr ail Sul yn Awst, 1884, yr oedd yn Glynogwr; y trydydd Sul yn yr Ynyshir, Rhondda Fach, am "10.30 a 2, agor y capel:" y pedwerydd yn Nhrewilliam, gerllaw Penygraig, "agor y capel," pregethodd unwaith, a bedyddiodd un-ar-ddeg o blant; a'r Sul olaf, sef yr 31ain o'r mis, a'r Llun dilynol, y 1af o Fedi, yn nghyfarfod blynyddol y Docks, Caerdydd. Ar ol hyny, dim ond yn achlysurol y gallodd bregethu, naw gwaith yn unig yn 1885, a llai na hyny o droion yn 1886. Ysgrifenodd ar y

27ain o Chwefror, 1885, fel hyn,—"Yr wyf yn aml y dyddiau hyn yn gofyn i mi fy hun ai myfi yw myfi, gan mor annhebyg i mi fy hun ydwyf gan henaint, eiddilwch, a llesgedd." Ar y 1af o Fai ysgrifenodd drachefn at ei fab hynaf:—

"Fy Anwyl Dafydd,—Ni dderbyniais un papyr na llythyr y dydd o'r blaen. Dyna siomedigaeth oedd hyny i mi. Ond yr wyf yn ystyried y tywydd yr ydych wedi bod ynddo trwy golli un o'ch cyfeillion goreu yn Nghaerdydd. Ond, Dafydd bach, beth sydd genym ond i'w golli, ond yn unig y rhan dda yr hon ni ddygir oddiarnom? a digon i ni yw hyny. Gwelais yn un o'r cyhoeddiadau fod Dr. Rees, Abertawy, wedi marw. Dyn digon i maes o'r cyffredin oedd y dyn hwn mewn natur a gras."

Yr oedd Cymdeithasfa gyntaf y flwyddyn hon yn cael ei chynal yn Canton, Caerdydd, Mawrth yr 17eg—19eg, ac ysgrifenasai Mr. David Morgan i daer erfyn ar Mr. Evans i fod yn bresenol. Wele yn canlyn ei atebiad:—

"Caercurlas, Tonyrefail,
"Mawrth 12fed, 1885.

"Anwyl Frawd,—Derbyniais eich llythyr caredig y boreu hwn. Ond mewn perthynas i mi ddyfod i'r Gymdeithasfa, byddai hyny yn rhyfyg i mi feddwl am dano, a hyny yn unig oblegyd fy henaint, fy eiddilwch, a'm llesgedd. Nid wyf yn gallu myned oddicartref er ys misoedd gan wendid, eiddilwch, a llesgedd. Byddaf yn synu i ba beth yr wyf yn cael byw, a minau yn methu gwneuthur dim o ddybenion bywyd; y cwbl sydd genyf i'w ddywedyd ar hyn yw, mae yr Hwn sydd â'n bywyd a'n heinioes yn ei law, yn gwybod fy mod yn gweddio am gymorth i ymostwng i'w lywodraeth Ef yn mhob dim. Gobeithio y bydd Perchen y Gwaith yn eich mysg, ac yn llwyddo eich ymdrechion er cysur a dyddanwch i'r holl Frawdoliaeth.

"Yr eiddoch yn rhwymau yr Efengyl,
gan ddymuno rhan yn eich gweddiau taeraf,
"WILLIAM EVANS.

"*Mr. D. Morgan.*"

Darllenwyd y llythyr i'r Gymdeithasfa; ac yna, yn *ol* y cofnodiad yn y cylch-lythyr, "Galwyd ar y Parch. E. Matthews, yr hwn a roddodd fraslun byr o weinidogaeth danllyd, ac o weithgarwch a defnyddioldeb mawr Mr. Evans am yr haner can' mlynedd diweddaf. Yna penderfynwyd i'r perwyl canlynol,—'Ein bod yn anfon ein cofion gwresocaf at y Parch. W. Evans; a'n bod yn llawenhau yn ddirfawr yn estyniad ei einioes, a'r graddau helaeth o nerth ac iechyd a ganiateir iddo gan ei Dad Nefol; a'n bod hefyd yn galw i gôf gyda hyfrydwch a diolchgarwch y gwasanaeth mawr i grefydd, ac i Fethodistiaeth, a gyflawnwyd ganddo, o gychwyniad cyntaf ei weinidogaeth hyd yr awr hon; a'n bod yn hyderus obeithio y cawn y fraint o'i weled eto yn ein plith, ac y caiff yntau y mwynhad o weithio ei ddiwrnod allan hyd at ei derfyn gyda'r un defnyddioldeb a llwyddiant ag sydd wedi cyd-fyned â'i lafur hyd y dydd hwn. Fod yr ysgrifenydd i anfon ato i gydnabod ei lythyr a'i ddymuniadau da ar ran y Gymdeithasfa, ac achos yr Efengyl yn ein plith; a bod y Parch. E. Matthews i fyned i'w weled, ac i gyflwyno iddo gofion anwylaf yr holl Frawdoliaeth.'" Y mae genym un llythyr arall a ysgrifenwyd gan Mr. Evans yn y flwyddyn yr ydym yn awr arni, sef at y Parch. John Pugh, Caerdydd,—ysgrifenydd y mudiad i ddathlu Jiwbili yr achos Dirwestol yn Neheudir Cymru. Cynaliwyd cyfarfod y Jiwbili yn yr Albert Hall, Abertawy, ar y 24ain o Fedi, pryd y darllenwyd y llythyr canlynol oddiwrth Mr. Evans:—

"Caercurlas, Tonyrefail,
"Ebrill 7fed, 1885.

"Anwyl Frawd,—Derbyniais eich nodyn. Rhydd i mi ddyweyd fy mod yn llwyr ymataliwr er's mwy na haner can' mlynedd. Ni fum erioed yn feddwyn, na 'chwaith yn cymeryd dim yn ormodol; ond mi a lwyr ymateliais gymeryd dim, yn unig er rhoddi esiampl i'r rhai oedd yn cymeryd gormod, ac am hyn nid yw yn edifar genyf yn fy hen ddyddiau, yn ymyl byd tragywyddol. Nid wyf yn pwyso dim ar hyny,




TONYREFAIL.

ond yn unig ar yr Hwn sydd yn ddiwedd i'r ddeddf, i bob un a'r sydd yn credu. Rhydd i mi ddyweyd fy mod yn dymuno llwyddiant eich ymdrechion o blaid sobrwydd corph a meddwl.—Wyf, anwyl frawd, yn rhwymau'r efengyl,

"WILLIAM EVANS.

"*Parch. John Pugh.*"

Ni chafwyd cymeradwyaeth fwy gwresog i un peth yn ystod yr eisteddiadau nag a roddwyd i'r llythyr uchod. Edrychir ar yr epistol hwn yn dra gwerthfawr ar lawer ystyr.

Yr ydym eisioes wedi crybwyll am dano yn bedyddio gorwyrion. Dydd Gwener, y 13eg o Chwefror, 1885, bedyddiodd ei or-or-wyres Anne, merch ei or-wyr Evan D. Truman. Cyflawnwyd y gwasanaeth yn Nghaercurlas. Yr oedd yr holl dylwyth yn gystal a'r perthynasau yn bresenol, a phawb wedi ymdrwsio fel pe byddai yn Sabboth. Aeth yntau trwy y gwasanaeth gyda'r gweddeidd-dra a'r dwysder ag oedd mor nodweddiadol o hono ef ar y fath achlysuron, yr un modd a phe buasai yn ngwydd cynulleidfa luosog yn y capel. Yn y sylwadau a wnaeth, cyfeiriodd yn doddedig at y ffaith ei fod ef a'r un fechan a fedyddid ganddo, y naill fel y llall, yn unig yn eu cenedlaethau. Yn mhen tair blynedd bedyddiodd ail ferch E. D. Truman; ac yr oedd hefyd wedi bedyddio plentyn ei or-wyres, Mrs. Clara Novello Davies, Caerdydd; eithr ni chawsom y dyddiad.

Y mae genym un crybwylliad arall i'w wneuthur am y flwyddyn 1885. Dydd Mawrth, yr 28ain o Gorphenaf, symudodd Mr. Evans o'i "le hapusaf," Caercurlas, i drigianu yn y tŷ a godasai iddo ei hun yn mhentref Tonyrefail. Dygwyddem fyned i'w weled y diwrnod hwnw. Cawsom ef, a Mrs. Evans, a'r Parch. Lewis Davies, ar dê yn y tŷ newydd pan gyraeddasom yno. Yr oedd efe yn ddystaw iawn, ac yn amlwg yn teimlo yn ddwys, oherwydd y symudiad. Ar ol cael y celfi yn weddol i drefn, a chael ychydig gyfeillach, ymddangosai ryw gymaint yn well. Ond ni ddaeth yn hollol

i'w le hyd ymweliad ei fab hynaf yn mhen ychydig ddyddiau wedi hyny. Dywedodd wrth ei fab, "Welaist ti ddim o hono'i mewn tŷ mor fach a hwn o'r blaen." "Naddo 'nhad, welais i chwi erioed o'r blaen yn eich tŷ eich hunan; yn *tenant* yr wyf fi wedi eich gweled bob amser hyd yn awr." Gwellaodd y gair hwn ef yn hollol, a byddai yn ei adrodd yn aml gyda boddlonrwydd, a gyda llaw yn dadgan ei foddhad, oblegyd y tŷ yr oedd wedi ei adeiladu iddo ei hun.

Yr ydym eisioes wedi dyweyd na phregethodd ond ychydig iawn o weithiau yn 1886. Yn ei ddyddiadur am y flwyddyn hono, ysgrifenodd ar gyfer Sabboth, y 24ain o Hydref, fel hyn:—"Ton, 10, Wm. Evans; pregethu, bedyddio dau blentyn, a chyfranu, y cwbl mewn awr a haner." Mae yn ymddangos iddo bregethu hefyd bore Sul, y 15fed o Awst. Nid ydym yn meddwl iddo bregethu ond y ddau dro hyn yn ystod y flwyddyn. Ac nid yw yn ymddangos iddo bregethu ond unwaith ar ol hyny, ac mai y tro diweddaf iddo draddodi pregeth ydoedd y 29ain o Fai, 1887—y Sulgwyn:—"Ton, 10, Wm. Evans, pen mis, Diar. ix. 12; 'Creadur iddo ei hun yw dyn, naill ai i'w gysuro neu i'w ofidio ei hun.' Gal. vi. 7." Ei destyn cyntaf ydoedd—"Cyfraith yr Arglwydd sydd berffaith, yn troi yr enaid;" ei destyn olaf—"Os doeth fyddi, doeth fyddi i ti dy hun; ond os gwatwarwr fyddi, ti dy hun a'i dygi." A'r amser rhwng y bregeth gyntaf a'r olaf oedd yn ymyl tri-ugain-a-deg o flynyddoedd.

Cyn myned yn mlaen i roddi hanes ei flynyddoedd diweddaf, y mae yn rhaid i ni sefyll i edrych ar ei gymeriad fel gweinidog yr efengyl, ac yn neillduol fel pregethwr. I'n cynorthwyo yn hyn, gwnawn ddefnydd o'r desgrifiadau y mae ereill wedi eu tynu o hono, ac fe gaiff efe ei hun ymddangos ger bron y darllenwyr mewn nifer o'i bregethau.

# PENOD XIII.

CYNWYSIAD.

Yn "llestr etholedig," ac wedi ei "neillduo" i bregethu—Ei hoffder o'r gwaith, a'i lafur ynddo—Y "Llyfr Da"—Ei hoff awdwyr—"*The Preacher's Manual*"—Symlrwydd—Parotoi ar gyfer y pwlpud—"Yn fywus ac yn flasus"—Adgofion—Ei lais; sylwadau y diweddar Mr. William Howells, Trefecca—Cynllun ei bregethau—Cyflymder ei feddwl—Holi ac ateb—Desgrifiadau o hono fel pregethwr gan y Parch. T. Levi, Dr. Cynddylan Jones, a'r Archddiacon Howell—Nifer o bregethau.

YR ydym yn darllen yn llyfr yr Actau am Paul fel hyn:—"A dywedodd yr Aglwydd wrtho," sef Ananias o Damascus, "dos ymaith; canys y mae hwn yn llestr etholedig i mi, i ddwyn fy enw ger bron y cenedloedd, a breninoedd, a phlant Israel" (ix. 15). Ac y mae yr Apostol ei hun yn ysgrifenu at y Galatiaid:—"Ond pan welodd Duw yn dda, yr hwn a'm neillduodd i o groth fy mam, ac a'm galwodd i trwy ei ras, i ddatguddio ei Fab ef ynof fi, fel y pregethwn ef yn mhlith y cenedloedd; ac yn y fan nid ymgynghorais â chig a gwaed" (i. 15, 16). Y mae yn ddiameuol fod WILLIAM EVANS, Tonyrefail, "yn llestr etholedig," ac wedi ei "neillduo o groth ei fam" i bregethu yr efengyl. Y mae yr adroddiadau a roddwyd yn barod am dano yn pregethu cymaint yn ei febyd, ac yn ymhoffi mor fawr mewn gwrandaw pregethu, a dilyn y pregethwyr a deithient trwy y wlad, ac yn ail-ymaflyd yn y pregethu ar ol ei argyhoeddiad a'i ymuniad cyhoeddus â chrefydd, ar hyd meusydd ac yn nirgelfanau y tyddyn yr oedd yn byw ynddo, yn amlwg iawn yn profi hyny. Ac fe gadarnheir y golygiad gan y ffaith, pan y dechreuodd bregethu, iddo ar unwaith droi allan i fod yn bregethwr poblogaidd ac effeithiol; ac ni bu ond ychydig

amser cyn enill ymddiried llwyraf ei holl frodyr a'r eglwysi yn gyffredinol, a dringo i leoedd uchelaf y weinidogaeth. Gosodwyd angenrhaid arno i bregethu. Yr oedd pregethu megys greddf yn ei natur, yn elfen gref ac anorchfygol ynddo. Un tro, ar ol dychwelyd adref wedi bod ar daith am chwech wythnos neu ddeufis o amser, yr oedd yn gweled pethau ar y tyddyn, fel y tybiai ef, ryw gymaint yn ol; a dywedai yn mrwdaniaeth y foment nad elai byth oddicartref i bregethu ar ol hyny. Yr oedd cyfaill o gymydog yn clywed yr hyn a ddywedodd. Yn mhen Sul neu ddau wedi hyny, yr oedd y ddau yn cyd-fyned tua Chyfarfod Dau-fisol Dosbarth Llantrisant. "I b'le yr y'ch chwi yn myn'd heddyw, Mr. Evans?" ebai y cymydog wrtho. "I'r Cwrdd Dau-fisol, bid sicr. Pa'm yr y'ch chwi'n gofyn?" "Wel, ar ol y peth yr oeddych yn ddyweyd y dydd o'r blaen, yr oeddwn i yn meddwl eich bod am roddi i fyny myned oddicartref." "Taw son, bachgen, mae yn rhaid i mi fyn'd; mae yn llosgi fel tân yn fy ergyrn i, *mae yn rhaid i mi bregethu.*" Yr oedd efe yn ei elfen pan yn pregethu, yn gartrefol ac wrth ei fodd yn y gwaith; ei hyfryd waith, yn gystal a gorchwyl penaf ei fywyd ydoedd. Ac y mae yr hanes yr ydym wedi ei hadrodd yn y penodau blaenorol yn profi gwirionedd ei ddywediad ei hun, iddo roddi goreuon ei fywyd i'r gwaith mawr, "a hyny yn llwyr iawn hefyd."

Ond yr oedd pregethu yn costio llawer iddo mewn trafferth a phryderwch meddwl, ac mewn llafur yn parotoi ar gyfer y pwlpud. Un tro, yr oedd blaenor yn myned gydag ef i Gymdeithasfa, ac yn sylwi ar ei ddystawrwydd a'i ddwysder ar hyd y ffordd, a dywedodd wrtho—"Mi allwn feddwl mai gorchwyl caled a blinderus yw'r pregethu yma, Mr. Evans; ond dyna, ni fyddai fawr gwerth ynddo heb hyny." Fe lynodd y gair wrtho, ac yr ydym yn cofio yn dda ei glywed yn ei adrodd gyda boddlonrwydd a chymeradwyaeth. Yn Nghymdeithasfa Llantrisant, Gorphenaf, 1840, yr oeddid yn ymddyddan âg ef a Mr. Richard Thomas, Llysyfronydd,

am eu profiad gyda'r gwaith o bregethu ; mae'n debyg mai yno, ar ol i'r anogaeth gael ei rhoddi ar fod y pregethwyr yn ymroddgar yn nghyflawniad y gwaith o bregethu, y dywedodd efe—"Yr wyf yn sicr fy mod i yn ymdrechu yn y pwlpud, ond yr wyf yn ofni nad wyf yn ymdrechu digon cyn myned iddo." Yr oedd pwys cyfrifoldeb y swydd o bregethwr yr efengyl, a phwysigrwydd y gwaith o bregethu, yn gorphwys yn drwm ar ei feddwl. Ac mewn perthynas i'r parotoad angenrheidiol ar gyfer y pwlpud, y mae yn ein meddiant y prawfion helaethaf iddo arfer cydwybod dda. Yr ydym eisioes wedi gweled y llyfrau a brynodd yn yr adeg y dechreuodd bregethu. Gwnaeth y defnydd goreu o'r *Mynegair*, a'r *Geiriadur*, a'r *Amseryddiaeth* Ysgrythyrol, yn gystal ag o'r Beibl ei hun. Yr oedd yn ŵr "cadarn yn yr Ysgrythyrau." Un o'i hoff eiriau ydoedd, "Cadarn yw yr Ysgrythyrwr;" a dywediad arall o'i eiddo ydoedd, "Un gref yw adnod." Yr oedd yn gyfarwydd iawn yn yr Ysgrythyrau. Ychydig flynyddau cyn ei symudiad, ar ol dyweyd wrthym ei fod yn treulio oriau bob nos yn effro, gofynasom iddo, "Sut yr ydych yn treulio yr oriau hyny?" Ei ateb ydoedd, "Ar feusydd yr Ysgrythyrau." Dechreuodd ar unwaith i ysgrifenu ei bregethau. Tua'r flwyddyn 1820 prynodd lyfr trwchus at y pwrpas hyny, ac ar gyfrif lliw ei glawr gelwid ef y "Llyfr Du." Mae yn y llyfr hwn amryw ugeiniau o bregethau, heblaw sylwadau ar Fedydd a Swper yr Arglwydd; yr oll wedi ei ysgrifenu yn ofalus, ac mewn llaw-ysgrif dda a phrydferth. Erbyn 1835 yr oedd wedi llanw y Llyfr Du, a'r pryd hwnw dechreuodd ysgrifenu ar ddail gwahanol o bapyr ysgrifenu—weithiau wedi eu gwnïo yn nghyd, ac weithiau heb hyny ; y mae genym bentwr da o'r llaw-ysgrifau hyn, o ba rai y dodir detholion yn y benod hon. Yr oedd gan Mr. Evans feddwl mawr am y Llyfr Du; ni byddai neb yn cael cyffwrdd âg ef ond ei hunan, ac nid ydym yn gwybod iddo ei ddangos i neb hyd yn ddiweddar iawn yn ei fywyd. Ei gôf-golofn gysegredig ydoedd o lafur boreu-ddydd ei

weinidogaeth. Ei hoff awdwyr oeddynt Gill a Pool, ac y mae yn ddiau iddo wneud defnydd da o Matthew Henry a Gurnal. Cafodd gyfleusdra i ddarllen rhai o'r hen awduron duwinyddol ereill, pan ar ei ymweliadau olynol â Bristol—yn y llyfrgell yn y tŷ-capel yno, yr hon a roddwyd mewn rhan gan y boneddwr a brynodd y capel yn Broadmead i'r enwad, ac a ychwanegwyd ati gan Mr. B. Rees, Chippenham. Ni flinodd efe ei hunan o gwbl gyda'r awduron diweddar.

Fel y gwelsom, testyn Mr. D. Charles, Caerfyrddin, yn y Cyngor a roddodd iddo yn y neillduad yn 1825, ydoedd "y symlrwydd yn Nghrist" (2 Co. xi. 3). Pan yn Llundain, yn 1826, fe wnaeth Mr. Evans brynu y llyfr hwn,—"The Preacher's Manual, containing (i.) Two Essays on Lay-Preaching and on the Ministerial Character ; (ii.) Simplicity recommended to Ministers of the Gospel—Third Edition; (iii.) Letters on Preaching, by Sheva, from the Evangelical Magazine; (iv.) Appendix, being various important Letters from Claude, Doddridge, Mather, Watts, Newton, Cowper, Cecil, &c. London, printed for Richard Baynes, 25, Ivy Lane, Paternoster Row, 1820." Y mae hwn yn llyfr gwir dda. Nid ydym yn meddwl fod dim ag sydd i'w gael mewn gweithiau diweddar o'r dosbarth hwn yn rhagori ar yr hyn a ddywedir yma ar symylrwydd athrawiaeth, a chynllun, ac arddull, a thraddodiad, ac mewn gweddi, a phregethu, ac ymddyddanion crefyddol. Y mae yn sicr i Mr. Evans ddarllen y llyfr hwn yn drwyadl, ac y derbyniodd lawer o fantais trwy hyny. Yr oedd symlrwydd yn un o nodweddau amlwg ei weinidogaeth; yr oedd ei iaith, ei arddull, cynllun ei bregeth, a'i amcan yn y cwbl yn hollol syml ac eglur. Yr oedd yn hawdd i'w ddeall a'i ddilyn; ymgadwai yn agos at ei wrandawyr, gan amcanu yn deg i borthi eu meddyliau, ac yn arbenig i gyffroi eu cydwybodau. "Bob yn dipyn" yr oedd yn gwneud ei bregethau. Byddai yn meddwl am ei destyn a'i faterion ar hyd y caeau, ac weithiau yn llefaru yn uchel wrtho ei hunan. Daliwyd ef fwy nag unwaith ar y

mynydd, ac un tro ar ei liniau, yn pregethu mewn hwyl fawr, fel pe byddai o flaen y miloedd yn y Gymanfa. A pharhaodd felly i barotoi trwy fyfyrdod a darllen ac ysgrifenu ar gyfer y pwlpud hyd y diwedd. Pan yn nghanol trafferthion bywyd mynai amser i ymneillduo i'w fyfyrgell; ac wedi i'r amgylchiadau esmwythau yn y blynyddoedd olaf o'i arosiad yn Caercurlas, anhawdd fyddai myned yno heb ei gael gyda phregeth newydd. "Parotoi pregeth newydd yn awr, ai ë?" ddywedasom wrtho fwy nag unwaith ar ein gwaith yn myned i'r tŷ. "Mae'r angladdau yma yn aml, maent yn mron a'm llethu; a mae fy nghyhoeddiad yn myned yn amlach ar y Ton; a fyna' i ddim bod dan eu traed nhw"—ac elai dros y geiriau diweddaf yn bwysleisiol a phenderfynol. I egluro y nodweddiad hwn ynddo yn mhellach, dyma adgof o eiddo y Parch. T. Levi:—

"Yr oeddwn yn pasio trwy Donyrefail am ychydig funudau wedi 6 o'r gloch, bore Llun, o gyhoeddiad Sabboth. Penderfynais droi i Caercurlas, i edrych am y Patriarch, gan feddwl myned ato at erchwyn ei wely; ond wedi myned i'r tŷ, cefais ef yn y parlwr, yn ysgrifenu pregeth ar destyn hynod o darawiadol oedd wedi myned â'i fryd, sef Jer. ix. 23, 24. Yr oedd wedi ysgrifenu haner tu-dalen o ysgrifen fân iawn, am 6 o'r gloch y bore hwnw, er ei fod yn mhell uwchlaw 90 mlwydd oed. Bu â'i freichiau am fy ngwddf am dro. Daeth i fy nanfon am gryn ffordd; ac adroddodd rhai ystoriau nodweddiadol o hono ei hun."

Buom yn ddiweddar yn ymddyddan âg un oedd yn ei gofio y troion cyntaf iddo fyned i bregethu yn Nghaerffili, ac yr oedd hyny yn fuan wedi iddo gychwyn ar ei fywyd gweinidogaethol, a'i air am dano ydoedd, ei fod yn pregethu "yn fywus ac yn flasus." Yr oedd yn naturiol yn fywiog, yn fywiog ei dymer, a'i feddwl, a'i ysbryd; yn gyflym ei ddeall; yn barod ei ateb; yn hyrwydd ei symudiadau. Er iddo gael ei sobri drwyddo, a'i drwytho yn dda yn yr argyhoeddiad dwys a dwfn a gafodd, ni chollodd ddim o'i fywiogrwydd, ond fe

gysegrwyd yr elfen brydferth hon yn ei natur, fel yn wir yr oll o honi, i wasanaeth yr efengyl. Ac yr oedd mor flasus ag ydoedd o fywiog. Dywedodd Mr. Griffith Harries—yr hynaf —Caerfyrddin, am dano, "Y mae yn felus iawn gyda phob peth." Yn y rhigwm difyr a ddanfonodd Dr. Phillips, Henffordd, at y Parch. James Williams, Llydaw, ar y "Cenadon Hedd," sef y ddau ddarlun o brif bregethwyr y Cyfundeb, galwodd ef yn "Evans felus." Ac y mae yn dyfod i'n côf am Mr. David Howell, yn Nghyfarfod Misol Pontfaen, Rhagfyr, 1864, ar ol i Mr. Evans bregethu o'i flaen, yn dechreu ei bregeth trwy ddyweyd, "Ar ol y pethau melus yr ydych yn awr wedi eu gwrandaw." Gofynwyd i un oedd wedi bod mewn cyfarfod yn gwrandaw amryw o bregethwyr, ac yntau yn eu plith, "Sut yr oedd Mr. Evans yn pregethu?" Yr ateb oedd, "Fel y mêl." Yr oedd melusder yn ei ddawn ac yn ei bethau. Y prif beth yn cyfrif am hyn, yn ddiau genym, ydoedd y lle mawr a roddai yn ei weinidogaeth i gyflawnder darpariaeth yr efengyl ar gyfer pechadur. Pregethodd lawer ar y "wledd yn y mynydd hwn i'r holl bobloedd." Yr oedd ei hunan yn gorfoleddu yn annhraethol ddigonolrwydd trefn gras, ac â'i holl enaid yn ei chymell i sylw a chymeradwyaeth ei holl wrandawyr yn ddiwahaniaeth, "gwreng a boneddig, tlawd a chyfoethog, hen ac ieuanc, rhieni a phlant, meistri a gweision—y naill fel y llall." Y mae yr henafgwr parchus, Mr. Thomas Nicholas, Pontfaen, yn ysgrifenu atom fel hyn:—

"The earliest impressions I have of Mr. Evans' preaching, go back to about 1829 or 1830. I heard him preach with great power from Isaiah xxv. 6. Among other remarks I remember him saying,—'Mae gwleddoedd mawrion gan freninoedd a thywysogion y byd hwn, ond nid tebyg i'r wledd hon.' And then, in his thrilling way, he would say, 'Tewch son y dyn. Na thawaf ddim. Mawl iddo yn ddi-ddiwedd.' He had got into the *hwyl*; the large congregation breaking into 'Amen.'—'Diolch iddo!' 'Bendigedig!' This sermon, so I

was informed, was in great request at that time, and did wonderful work in our land."

Bendithiwyd ef â llais o'r mwyaf cyfaddas i gyhoeddi y newyddion da o lawenydd mawr. Ac ar gyfrif ei lais peraidd, soniarus, hyglyw a phell-gyraeddol, efe a gafodd yr enw "cloch arian." Pan yn nghyflawnder ei nerth, yr oedd ei floedd ar faes y Gymanfa yn ogoneddus mewn gwirionedd. Nid bloedd gwneud ydoedd; ond yr oedd yn ymgodi yn naturiol o'r gwres ysbryd yr oedd efe wedi ei ddwyn iddo wrth ymdrin ar fawrion bethau Duw. Ac yr oedd ei lais hefyd yn cael ei gadw ganddo dan feistrolaeth hollol. Fel hyn y dywedai Mr. William Howells yn y Dosbarth Pregethu yn Nhrefecca am ei lais:—"I have scarcely ever heard a finer voice than that of Mr. William Evans. Mr. John James' voice was a deep rolling bass, that of Mr. William Evans a fine rich tenor; and what was more, it was under proper control. He knew when to fire and when to whisper. Sometimes, when at his loudest pitch, he would suddenly descend to a conversational tone, which proves not only a thorough command of the voice, but an equal knowledge of human nature."

Fe welir oddiwrth yr esiamplau o'i bregethau sydd yn dilyn nad oedd yn ysgrifenu yn gyflawn, dim ond y rhaniadau a'r prif sylwadau, gyda'r cyfeiriadau at yr adnodau i'w difynu i brofi a chadarnhau pob mater yn y bregeth. Yr oedd yn dra gofalus a manwl gyda'r cyfeiriadau ysgrythyrol. Nid oedd yn hyn ond yn dilyn arfer gyffredin yr hen bregethwyr. Yn y llawysgrif y mae lluaws o benau—y prif raniadau ac is-raniadau lawer; ond yn y traddodiad o'r pregethau, ni byddai efe yn son ond am ddau neu dri o brif benau—cadwai y mân is-raniadau yn llwyr o'r golwg. Nid oedd yr is-raniadau ond cynorthwyon i'w gôf. Byddai rhai yn dyweyd eu holl benau yn ofalus, ac felly fe geid "yn gyntaf, yn ail, ac yn drydydd" amryw o weithiau yn yr un bregeth. Wedi gwrandaw brawd ieuanc yn gwneud felly un tro tua'r flwyddyn 1840, dywedodd

wrtho—"Mae i chwi roesaw i gael cynifer ag a fynoch o fotynau ar eich côt, ond i chwi beidio eu rhifo." Deallodd y gŵr ieuanc y ddameg, ac y mae wedi bod yn ffyddlawn i'r wers. Gan fod y pregethau yn cael eu parotoi a'u hysgrifenu yn y dull a nodwyd yn awr, yr oedd llawer yn dibynu am eu llwyddiant yn y traddodiad ohonynt ar barodrwydd dawn a gwres ysbryd y pregethwr, fel ag i lanw i fyny yr amlinelliad. Ond yr oedd y pregethwr yn gofalu meddwl allan ei bethau, yn trysori yn y côf yn dda yr hyn a ysgrifenai, ac yn enwedig yr adnodau o'r Beibl y bwriadai eu difynu, canys yr oedd yn pwyso llawer arnynt, ac yn gwneud defnydd helaeth ohonynt; ac yr oedd Mr. Evans hefyd yn edrych yn ofalus dros ei bapyr y peth diweddaf cyn myned i'r pwlpud. Yr oedd yn gwneud hyny un tro, a dywedodd y gŵr oedd yn yr ystafell gydag ef ar y pryd—"Mae yn rhy ddiweddar i wneud y rhent ddydd talu, Mr. Evans." "Gwir iawn," oedd ei ateb, "ond y mae yn burion rhifo yr arian." Fel yma yr oedd efe yn parotoi yn ofalus ar gyfer pob gwasanaeth cyhoeddus; nid yn unig y bregeth, ond hefyd yr Araeth Ddirwestol, yr anerchiad o flaen Bedydd neu Swper yr Arglwydd, a'r cyfarchiad agoriadol yn y cyfarfod eglwysig. Trwy ddyfal-barhau mewn parotoi felly, yr oedd yr "hen bethau" yn aros yn "newydd" iddo. "Os bydd y pethau yn newydd i chwi," meddai wrthym un tro, "byddant yn newydd i'r gynulleidfa; ond os nad yn newydd i chwi, ni fydd ynddynt ddim newydd-deb i'r gynulleidfa."

Mae y darllenydd wedi cael prawfion digonol o gyflymder ei feddwl. Dim ond agor cil y drws, a gwelai yn mron trwy yr holl dŷ. Pan yn adrodd iddo bregeth a glywsem mewn Cyfarfod Misol ar yr adnod gyntaf yn y bymthegfed-benod-a-deugain yn Mhrophwydoliaeth Esaiah, ac wedi dyweyd y syniad—Fod gwahoddiad yr Efengyl yn cael ei gyfleu yn y fath fodd fel ag i adael y pechadur yn gwbl ddiesgus a'r pen cyntaf, sef y difrifwch a'r tynerwch gyda pha un y mae yn cael ei roddi—"O! deuwch;" dywedodd yn sydyn—"Dyna

ddigon, yr wyf yn ei gweled hi." Wedi cael agoriad i mewn i fater, yr oedd yn gallu cadw mewn golwg yr holl faes, a hyny heb golli golwg ar ei wahanol ranau. Neu i newid y gymhariaeth, wrth edrych ar goedwig gyfan, nid oedd yn colli ei olwg ar y prenau unigol; a phan yn dal sylw ar un pren neillduol, nid oedd yn annghofio y goedwig o'i gwmpas. Yr oedd yn graff a chyflym i weled gwirioneddau cyferbyniol. Wrth sylwi ar y nodweddiad yma ynddo mewn cyfeillach, dywedasom wrtho am erthyglau Dr. Edwards ar "Gysondeb y Ffydd." Ni bu rhaid i ni ddyweyd ond ychydig o eiriau cyn ei fod wedi cymeryd gafael yn nysgeidiaeth werthfawr yr erthyglau yn y *Traethodydd*, a theimlai megys un wedi cael ysglyfaeth lawer. Ni wnaeth neb erioed gyhoeddi yn fwy eglur a diamwys athrawiaeth gras Duw nag y gwnaeth efe, ac ar yr un pryd yr oedd yn sefyll yn gadarn ar y gwirionedd am gyfrifoldeb dyn. Ni fynai fod yr annghysondeb lleiaf rhwng Deddf ac Efengyl, na rhwng crefydd ddatguddiedig y Beibl a rheswm a naturiaeth. "Ein codi ni at y ddeddf y mae yr Efengyl," ydoedd ddywediad o'i eiddo. Dyma air arall sydd yn egluro yr un nodweddiad—"Mae rhai yn dyweyd nad oes berthynas rhyngom â'r Adda cyntaf; os nad oes, peidiwn gweithredu yn gyffelyb iddo. Ond os oes, mynwn fod mewn perthynas â'r Ail Adda." Eto, "Mae rhai yn dyweyd fod dyn yn meddu ffydd yn naturiol. Os ydyw, gweithreda hi. Os nad yw, gofyn am dani." Dyma engraifft arall—"Yr wyf yn gwadu yr athrawiaeth o wrthodedigaeth. Dynion sydd yn gwrthod Duw, ac nid yw Duw yn gwrthod neb. Ffrwyth ewyllys da Duw, heb na rhwymau na dyled, yw cadw y dyrfa nas gall neb ei rhifo, yn unig trwy rinwedd y brynedigaeth sydd yn Nghrist Iesu." Mewn pregeth a draddodwyd ganddo yn Llantrisant yn 1883 ar y testyn—"Ti a bwyswyd yn y clorianau," yr oedd yn dyweyd—"Chwi fyddwch yn arfer dyweyd, fe'm pwysir yn y clorianau; ond yn y dydd yr ydych yn meddwl y byddwch yn y glorian, y pryd hwnw y byddwch yn dyfod allan o'r glorian.

Yr ydych yn awr yn y glorian, yn y clorianau! yn y *clorianau!!* Pa glorianau? Clorian naturiaeth: bwyta i ddigonedd, yfed i dori syched, gwisgo i glydwch. 'Mechgyn i, os ydych yn gwneud mwy na hyn mewn bwyta neu yfed, yr ydych yn brin yn y glorian--clorian rheswm; eithr onid ydych yn dyweyd fod crefydd uwchlaw rheswm? Ydym; ond dywedwn yr un pryd, nid yw yn groes i reswm. Pe buasai yn groes i reswm, buaswn yn ymwrthod â hi, er wedi bod mewn cysylltiad â chrefydd dros dri-ugain mlynedd. Clorian y ddeddf. Clorian y gydwybod. Clorian yr Efengyl. Dyna bump o glorianau. Cofiwch, yr ydym ni yn awr yn y glorian yn cael ein pwyso." Dyma esiampl arall yn egluro ei allu i weled gwirioneddau cyferbyniol. Yr ydym yn ddyledus am yr hanes i'r Parch. H. J. Hughes, Cefncoedcymar: "You have heard how he prevented a scene between David Howell and Ieuan Gwyllt, when the latter was being received a member of the Monthly Meeting. He (Ieuan Gwyllt) shocked Mr. Howell by making the humanity of Christ a distinct person, instead of a distinct and separate nature. 'Gadewch iddo, Mr. Howell,' said Mr. Evans, 'yr ydych yn nes at eich gilydd nag ydych yn feddwl. Y mae y pwnc yn un dyrus iawn. Y mae yr Arglwydd Iesu yn ddau ac yn un; y mae E' yn un ac yn ddau. Gadewch e' yn y fan, Mr. Howell. Mae y pwnc yn un dyrus iawn; yr ydych yn nes at eich gilydd nag ydych yn feddwl.' This Monthly Meeting was held at Panttywyll." Fe geir engreifftiau cyffelyb yn y Pregethau sydd yn dilyn.

Yr oedd un peth yn neillduol ag oedd yn hynodi ei bregethu, sef ei waith yn holi ac yn ateb ei hunan. Ar tudalen 425 o'r *Drysorfa* am 1890, yr ydym yn cael y Parch. John Hughes, M.A., Liverpool, yn dyweyd fel hyn:—"Un o fy adgofion cyntaf am y pwlpud Cymraeg, os nad y cyntal oll, ydyw y Parch. W. Evans. Pregethai yn Nghwmafon ryw nos Sabboth, a chofiaf yn dda ei fod yn gofyn y cwestiwn, ac yn ei ateb yn ol ei ddull cyffredin—'Pa beth yw Deddf?'

"'Mae darlun byw o honot yn fy ngho',
  Pan rodiwn inau lanau'r Afan aml ei lli',
Pan ddelet o Donyrefail yn dy dro,
  A'th wedd, a'th ddawn, a'th lais i'n swyno ni;
Ac yn y pwlpud elet ti yn ddau,—
  Mae rhai yn myn'd yn ddim, a dyna'r pla,—
Mae'r cwestiwn a ofynaist yn parhau,
  Ei adlais yn fy meddwl—aros wna.'"

Yr oeddd i raddau mawr ar ei ben ei hun yn y nodweddiad hwn. Ac o ran hyny, er cymaint a wrandawodd ar yr hen bregethwyr enwog ag yr oedd efe yn eu hedmygu mor fawr, yr oedd rhywbeth ynddo ef ag oedd yn ei wneuthur yn hollol ar ei ben ei hun, fel y dywedodd Mr. Humphreys o'r Dyffryn am dano yn ei glyw—"Yr wyf yn hoff iawn o Mr. Evans yma; nid ydy' o fel neb, ac nid oes neb fel y fo." Caiff y darluniau o hono sydd yn canlyn wasanaethu i egluro ei neillduolion.

Eithr nis gallwn derfynu hyn o sylwadau ac adgofion, heb gyfeirio at y ffaith sydd yn goron ar bob peth yn hanes pregethwr. Bu ei weinidogaeth yn foddion iachawdwriaeth i laweroedd. Yr ydym wedi cyfarfod â rhai esiamplau o'r fendith Ddwyfol ar ei lafur yn y penodau blaenorol. Yn y Gymdeithasfa yn Nghrughowel, yn 1868, pan yr oedd efe yn llywyddu, yr oedd y Parch. D. Harries, Ironton—yn awr Dr. Harries, Chicago—yn bresenol, ac yn ei anerchiad adroddodd mai gair o eiddo Mr. Evans mewn pregeth oedd wedi ei ddwyn ef at grefydd, a'r gair ydoedd, "Rhaid mentro cyn nofio." Meddai ddawn arbenig i allu ddyweyd byr-eiriau tarawiadol ac ergydiol a lynent yn nghôf a chydwybodau ei wrandawyr. Dydd mawr y cyfrif yn unig a ddengys nifer y rhai a ddychwelwyd at Fab Duw trwy ei weinidogaeth. Ac yr oedd yn ei bregethau hefyd gymwysder i adeiladu a dyddanu y saint. Yr oedd yn gymwys weinidog y Testament Newydd yn holl gylch y swydd. Yr oedd yn cyflawni holl ranau y gwaith gyda deheurwydd: gofyn bendith, talu diolch, arwain y ddyledswydd deuluaidd, bedyddio, cyfranu, arwain

y cyfarfod eglwysig, trefnu amgylchiadau yr achos, yn gystal a phregethu. Efe a dreuliodd fywyd defnyddiol yn ngwasanaeth ei Arglwydd. Ac yr oedd bod yn ddefnyddiol yn beth mawr iawn yn ei olwg. Clywsom ef yn dyweyd, "Nid yw yn werth byw heb fod yn dduwiol, ac nid yw yn werth byw yn dduwiol heb fod yn ddefnyddiol." Bellach, yr ydym yn cyflwyno i'n darllenwyr y desgrifiadau a dynwyd o hono fel pregethwr. Y mae y cyntaf gan y Parch. Thomas Levi. Ymddangosodd yn *Nhrysorfa'r Plant* agos ugain mlynedd yn ol, ac argraffwyd ef drachefn yn rhifyn Mai o'r un cyhoeddiad y flwyddyn hon (1891).

"Dyn o gyfansoddiad cryno, cadarn, cyflym, braidd yn llai na'r maintioli cyffredin. Ac er fod amser yn llwydo y pen, ac yn rhychio peth ar y wyneb, y mae yn gadael y cymalau yn eu hystwythder cyntefig. Cerdda mor fywiog, gam yn ngham, dan fraich y gweinidog ordeiniwyd ddiweddaf, ag y cerddai dan fraich Ebenezer Morris wrth fyned oddiar *stage* y Gymanfa. Mae ganddo wyneb prydferth, cyflawn, nodweddiadol. Talcen crwn, llawn, hyd at y dalio, dan gnwd o wallt crychiog—gwallt ag y mae amser yn prysur dynu y wawr gochlyd oddiarno. Aeliau gweddol drwm, yn cysgodi dros ddau lygad glâs, tyner, nwyfus, eneidiol; llygaid â mwy o duedd ynddynt at ddwfr poeth na gwreichion. Darn o drwyn llawn, llydan, lluniaidd, a gwefusau llawn, gyda thoriad esmwyth a dymunol. Mae prydweddau y wyneb ar wahan, oll yn gyflawn a phrydferth. Mae ei holl drem yn ddymunol. Gall edrych arnoch yn bwyllog, yn hamddenol, a chyfeillgar, heb ddychrynu na tharfu eich trem chwithau ymaith. Nid pawb all edrych yn eich wyneb. Eithaf llawer un yw prin ysbïo i'ch ffenestri wrth basio yn gyflym; a bydd hyny yn ddigon—yn llawn cymaint o'r drem fedrwch chwi oddef. Ond y mae gan y wyneb hwn drem ydych am gael amser i'w mwynhau—ei chofleidio. Y mae rhyw foddhad i'w gael wrth syllu yn nghanol prydweddau y wyneb tarawiadol yna. Y maent yn cynyrchu ffrwd diddor

o syniadau am yr enaid sydd yn llechu tu cefn iddynt. Y mae ambell gyffroad hefyd yn nghil y llygad glâs yna sydd yn eich rhybuddio i fod ar eich gwyliadwriaeth, rhag i'ch meddalwch fod yn brofedigaeth iddo chwareu tipyn o gast ddiniwed â chwi.

"Pregethwr yr hen ysgol ydyw; ond *pregethwr* ydyw. Beth sydd yn gwneud pregethwr? 1. Dynoliaeth gyflawn. 2. Pen. 3. Calon, neu grefydd. 4. Tafod. 5. Llais. Nid bob dydd y cyfarfyddwch chwi â phregethwr yn meddu ar fesur mor helaeth o'r holl elfenau hyn. Nid darn o gyfansoddiad traethodol yw ei bregeth ef. Nid dyna ei chynllun. Cyfansoddiad ysgafn, rhwydd, ond yn llawn llygaid ydyw. Un o gamsyniadau y pwlpud yw troi y pregethau yn draethodau dwfn, llafurus, caled i'w cyfansoddi, caled i'w traddodi, a chaled i'w gwrando. Byddai yn dda astudio ambell bregethwr o'r hen *stamp*, er cael cynllun; er cael cynllun pregethu yn fwy na chynllun pregeth. Mae eisieu, nid yn unig mwy o Feibl yn y bregeth, ond pregethu mwy Beiblaidd. Enaid y bregeth yw y cymwysiad; ac os felly, y mae llawer pregeth heb nemawr o enaid ynddi. Cyfansoddiad byw yn sefyll o flaen y bobl, yn siarad â hwy, yw y bregeth i fod. A gwneler iddi siarad mor effeithiol ag sydd modd. Dywedir am Toller o Kettering, fod ganddo ef ddeigryn yn ei lais. Mae y sylw yn llawn mor wir am y pregethwr hwn. Tybia rhai fod ei lais yn unig wedi bod yn foddion gras i laweroedd. O, mor effeithiol y byddai tinc yr hen gloch arian, wrth droed y groes, yn gwaeddi—'*Moliant yn ddiddiwedd!*'

"Un o'r pethau sydd yn gwneud ei bregeth ef mor effeithiol yw y cymwysiad parhaus sydd ynddi. Y mae yn llawn pwyntiau, a bydd adnod yn llygad i bob pwynt. Wedi cael adnod yn ffitio ei bwnc, ni wna ei gollwng ymaith am ddim. Erys i syllu arni, ymhogi wrthi, codi ei phlygiau, a gwneud magnel o honi i saethu at ei wrandawyr. Mae ei bregeth fel wedi ei gwneud i fyny o luaws o bregethau bychain, ac er eu bod yn ffitio yn eu gilydd i wneud un gyflawn, eto y mae y

rhai bach yn gyflawn ar wahan. Y mae fel dyn yn teithio gwlad fryniog; cwyd chwi i ben bryn, a dengys i chwi olygfa brydferth oddiar ei ben. Yna cluda chwi i ben un arall, lle y cewch olygfa newydd eilwaith. Adnod fydd Pisgah pob bryn; ac odid na ddaw tân allan o'r genau, nes gwneud pob bryn yn fryn llosg cyn disgyn.

"Y mae yn ysgrifenu cyfran helaeth o'i bregethau; ond rhaid ei chael yn llwyr i'w feddwl oddiar y papyr, onidê fydd hi werth dim; ac nid ei chael i'w gôf, ond i'w galon. 'Oferedd i chwi fyned i'r pwlpud,' ebe Liefchild wrth ddyn ieuanc, 'a'ch pregethau â'u haner yn eich meddwl, a'u haner ar y papyr. Mynwch hwynt yn gyflawn i'ch meddwl, a theflwch y papyr ymaith. Peidiwch byth a bod yn bregethwr papyr. Ond os rhaid darllen, darllenwch, a darllenwch hwynt yn dda.'"

Gwnaeth Dr. Cynddylan Jones hefyd ddesgrifiad o hono fel pregethwr yn yr ysgrif yn y *Christian Echo*, Tachwedd, 1879, at yr hon yr ydym wedi cyfeirio mewn penod flaenorol:—

"We have heard him preach only twice—once about a year ago, and the other time about twelve years ago. Therefore we never heard him till he was considerably past his 70, and consequently do not feel competent to pronounce a correct judgment upon him as a preacher. But we were particularly struck with his *naturalness*. Nature, however, is very various, and often capricious. Dafydd Rolant of Bala was a child of nature too, but at the diametrically opposite pole of nature from the Rev. W. Evans. Dafydd Rolant was rough, uncouth, uncultivated, notwithstanding his fund of humour and great sagacity. But William Evans is fine, beautiful, pleasing. The form his humour takes is that of wit: therefore, he delights in sudden flashes, abrupt transitions. He questions and catechizes himself, he subjects himself to very severe cross-examinations, in which he is witness and counsel at once. But the beauty of it is—the witness always beats the counsel. The counsel tries to

browbeat the witness, but the witness will not be browbeaten. '*Tawch y dyn.*' '*Na thawa'i ddim.*' '*A ydych yn meddwl myn'd drwy y pwnc yna?*' '*Os nad âf trwyddo, mi âf iddo,*' &c. Then comes a beautiful remark, sudden as lightning, and the whole congregation is lifted to its feet. The Rev. Henry Rees—we mention him because unfortunately we never heard the old eminent preachers of South Wales with whom we could either compare or contrast the subject of this sketch—lit up his subject gradually. His sermons might be likened to the dawn 'shining more and more unto the perfect day.' You saw the light, and it was good; you felt the heat, and it was melting. But Mr. Evans's sermons abounded in lightnings. Flash—flash—flash. You were astonished, pleased; but all of a sudden you felt the lightnings had struck you, and that you were on fire.

"His voice greatly helped his thoughts. A beautiful clear voice with most tearful cadences. When we heard him we could distinctly discern its pathetic tenderness—a voice half blown away by the wind. No one could sway a congregation better than he. And once he felt the Divine breezes fairly in his sails, he would shout out at the top of his clarion voice—'The praise for ever to Him.' '*Y mawl yn dragywydd iddo.*' When he does not rise to that height, he is below himself. When he has touched that, he has reached his climax.—'*Y mawl yn dragywydd iddo.*'"

Y mae y llythyr canlynol a ddanfonwyd at ein tad gan yr Hybarch Archddiacon Howell, o Wrexham, hefyd yn cynwys desgrifiad o neillduolion Mr. Evans fel pregethwr. Pan ddarllenwyd y llythyr yn y claddedigaeth, yr oedd pawb yn teimlo yn dra diolchgar i Mr. Howell am dano, ac yr ydym ninau yn cydnabod yn ddiolchgar ei fod yn ychwanegiad gwerthfawr at gynwys y benod hon:—

"Vicarage, Wrexham, North Wales,
8th Feb., 1891.

"Dear Sir,—Though personally a stranger to you, I can-

not refrain from expressing my profound veneration for your esteemed and estimable father. I have a vivid recollection of him in his prime, from 1846 to 1852, when I left home; and thoughtless as I then was, I never listened to him without being greatly impressed. His terse and epigrammatic style —his realistic way of presenting truth, his playful humour and mastery of dialogue, his command of homely and colloquial Welsh, and thorough knowledge of Welsh ways and feeling, and above all, the intense spirituality pervading the whole, made it an impossibility to listen to him without being deeply impressed. I have a vivid recollection of a sermon of his preached in 1848, or 1849, on '*Deddf ei Dduw sydd yn ei galon, a'i gamrau ni lithra.*' His strong individuality, quickness of perception, and force of character, would have made him a power anywhere, and at any time; but flourishing where and when he did, he naturally became a Saul among his brethren. What has he not known and experienced by this time? He was a good man, full of the Holy Ghost, and of faith.—Faithfully Yours,

"D. HOWELL."

Yn ol y cynllun a osodasom i lawr i ni ein hunain, yr ydym yn nesaf yn cyflwyno i'r darllenydd nifer o bregethau Mr. Evans, wedi eu cyfansoddi ar wahanol adegau o'i fywyd gweinidogaethol hirfaith. Ac y mae yn dda genym allu cyflwyno un bregeth gyflawn, fel y traddodwyd hi ganddo ef, ac wedi ei chymeryd i lawr ar y pryd, a'i hysgrifenu allan yn union ar ol ei gwrandaw, gan y Parch. David Phillips, Abertawy. Fe gaiff y bregeth hon fod yn ddiweddglo i'r benod, ac y mae yn ddarlun rhagorol o arddull Mr. Evans o bregethu. Yr ydym yn sicr y bydd ein darllenwyr, megys ag yr ydym ein hunain, yn dra diolchgar i Mr. Phillips, am gadw y bregeth hon, a'i bod yn awr at ein gwasanaeth i'r gwaith hwn. Hon yw y bregeth a wnaeth y fath rymusderau yn Nghymdeithasfa Crughowel yn 1847. Yr ydym wedi gweled

yn nghorph yr hanes gyfeiriadau at amryw o'r pregethau ereill sydd yn dilyn. Gellir dyweyd am rai o'r pregethau bod iddynt eu hanes, megys ag i'r pregethwr. Ond y mae un o'r pregethau hyn ag y mae yn rhaid i ni wneud cyfeiriad pellach ati, sef y bregeth ar y testyn—Salm xlvi. 4. Sylwer, yn un peth: yr ydym wedi gadael yr holl ffigyrau yn dynodi y prif-benau a'r is-raniadau, fel y maent yn y llaw-ysgrif, fel engraifft o'i ddull a'i fanylder yn mharotoad ei bregethau; tra yr ydym wedi gadael allan y mwyafrif o'r ffigyrau wrth gopïo y pregethau ereill. Hefyd, dyma y bregeth a draddododd Mr. Evans yn Llanidloes, nos Sul, y 23ain o Fai, 1841. "Yr oedd y bregeth yn cerdded gyda nerth a dylanwad anarferol; y gynulleidfa wedi ei meistroli a'i gweithio i'r teimladau mwyaf dwys a dymunol. Ond nid oedd neb, mae yn debyg, yn mwynhau y Salm a'r bregeth yn fwy na Richard Mills. Aeth o'r oedfa y noswaith hono â drychfeddyliau gogoneddus y Salmydd, a syniadau nerthol a gwerthfawr y pregethwr yn llenwi ei feddwl, ac yn gwresogi ei galon. Mae yn ymddangos na ddaeth cwsg yn agos ato y noswaith hono; modd bynag, yr oedd yr anthem orchestol, 'Duw sydd Noddfa,' wedi ei gorphen, bob ban o honi, yn mhen pedair-awr-ar-ugain." (Buchdraeth y Parch. John Mills, tud. 32).

---

## PREGETHAU.

### PREGETH I.

Esai. xxv. 6.—"Ac Arglwydd y lluoedd a wna i'w holl bobloedd yn y mynydd hwn wledd o basgedigion a gloyw-win; o basgedigion breision, a gloyw-win puredig."

MAE y testyn yn son am wledd. Ei hawdwr yw Arglwydd y lluoedd. Dyma wledd Brenin y breninoedd: Diar. ix. 1; Esther i. 3. Gwrthddrychau y wledd ydynt yr holl bobloedd, sef Iuddewon a Chenedloedd: Mat. xxii. 9. Yr ystafell y mae y wledd wedi ei pharotoi ynddi, "yn y mynydd hwn," sef yn yr eglwys. Y mae Mynydd Seion yn golygu yr eglwys filwriaethus a'r eglwys orfoleddus—un eglwys, un wledd: Heb. xii.

22—24. Dangosir hefyd cyflawnder y wledd, "pasgedigion breision, gloyw-win puredig:" Diar. ix. 5; Luc xv. 22, 23.

Y mae angenrheidrwydd am y ddarpariaeth y mae y testyn yn ddatguddio, er gwneud angen pechaduriaid i fyny. Y mae'r fath newyn yn nghalon dyn wedi'r cwymp fel nad oes dim a'i digona ond darpariaeth fawr yr efengyl. Dyma fel y mae pob dyn wrth natur, fel yr afradlon. Y mae yn mynwes pob dyn a dynes gnofeydd awyddol ar ol dedwyddwch a digonolrwydd, yr hyn nid yw i'w gael mewn dim ond yn arlwy yr efengyl. Yr enaid amddifad o Grist, edrych i dy galon dy hun; gan glywed swn parhaus yn dyweyd, Dyro, dyro, fel nyth llawn o adar bychain yn agor eu pigau, ond byth yn cael eu digoni. Dyma fydd rhan fawr o uffern y damnedigion, sef newyn a syched tragywyddol, heb ddim i'w tori: Esai. viii. 21, 22.

Yn nesaf, egluro y cyflawnder darparedig trwy Grist i eneidiau tlodion a newynog ag sydd mewn byd newynllyd—mewn gair, Efe ei Hun, gwneuthurwr y wledd, yw'r wledd ei Hunan: Ioan i. 14; 2 Cor. viii. 9; Eph. iii. 8. Yr ymborth darparedig yn y wledd hon ar gyfer angen pechadur newynog yw corph Crist, ei gnawd a'i waed Ef, y bara o'r nef, bara'r bywyd, y bara bywiol: Ioan vi. 51—55. Gwledd gyflawn ydyw. Cyflawnder y Duwdod: Col. ii. 9, 10. Cyflawnder o ras: Ioan i. 16, 17; Salm xvi. 11; Rhuf. iii. 25. Gwledd barhaus i fywyd tragywyddol ydyw: Ioan iv. 14.

Gwledd ar aberth ydyw. "Canys Crist ein pasg ni a aberthwyd drosom ni; am hyny cadwn wyl:" 1 Cor. v. 7, 8. Yr oedd cyfiawnder wedi ei anfoddloni, a digofaint Duw wedi enyn yn erbyn pechaduriaid; ond fe aeth ein Harchoffeiriad yn mlaen, ac a offrymodd ei Hun drosom: Heb. ix. 26. Gwledd gyfamodol ydyw: Heb. xiii. 20, 21. Pan y gwnaeth Jacob gyfamod â Laban, hwy a wleddasant gyda'u gilydd yn y mynydd: Gen. xxxi. 44—54. Nid oes dim cyfranogi o'r wledd hon ond trwy gyfamod. Yr holl wahoddedigion, rhaid eu bod yn gyfamodwyr cyn gwledda. Y rhai oll nid ydynt foddlawn i gyfamod cyfeillgar a heddwch â Duw yn ol amodau yr efengyl, ni chant brofi o'r swper hwn. Ond y rhai y mae y drefn wrth eu bodd, ac yn ei wir ddymuno, y mae Crist yn dywedyd wrthynt, "Bwytewch, gyfeillion, yfwch, ïe yfwch yn helaeth, fy rhai anwyl:" Can. v. 1; Salm l. 5. Gwledd briodasol hefyd ydyw. Yr Arglwydd Iesu yw y priodfab; merched Seion yw'r briodasferch. Y mae Efe yn cynyg ei Hun i'r penaf o bechaduriaid trwy yr efengyl. Caniatewch y briodas, a chwi gewch fwyta o'r bara, ac yfed "o'r gwin a gymysgais:" Mat. xxii. 1—4. Gwledd ar ol goruwchafiaeth trwy ryfel ydyw hon, Arglwydd y lluoedd wedi gorchfygu yr holl fyddinoedd, a dwyn y carcharorion yn rhydd; yna gwledda: Can. ii. 4.

I bwy y mae y wledd ddarparol? I'r holl bobloedd. Y mae Crist yn gwahodd pawb yn ddiwahaniaeth, ïe, y penaf o bechaduriaid: Esai. lv. 1; Ioan vii. 37; Dat. xxii. 17. Dyma ddyben anfoniad cenadon a rhoddi iddynt genadwri i wahodd i'r briodas. Y mae yr Arglwydd yn cadarnhau y croesaw sydd i'r penaf o bechaduriaid; ac y mae yn anfon ei weision gyda

brys: Luc xiv. 21. Y mae ei fod yn anfoddlawn ac yn digio wrth y rhai sydd yn gwrthod dyfod yn profi ei ewyllysgarwch i dderbyn. "Yna gŵr y tŷ wedi digio:" Luc xiv. 21.

Tra yr ydym heb ddyfod at Grist, nid oes genym ddim cydfesuradwy ac atebawl i'r gwanc sydd mewn enaid anfarwol. Nid yw pob peth arall ond megys careg neu ludw yn lle bara. Nid ydynt fara; am hyny dywedaf fel y dywedodd y prophwyd, "Paham y gweriwch arian am yr hyn nid ydyw fara?" Esai. lv. 2. Ynfyd oedd y dyn oedd yn dywedyd wrth ei enaid am orphwys ar yr hyn oedd ganddo yn yr ysgubor.

Bydded i'r barhaus siomedigaeth yr ydym yn ei gael wrth ddrysau ereill ein codi bellach at ddrws ystafell wledd Crist: Jer. iii. 23. A ydych chwi ddim yn wastad yn cael mwy o gysur mewn dysgwyl nag wrth fwynhau mewn pethau natur? Y mae y cysur sydd mewn creadur yn wastad yn fwy mewn blodau nag mewn ffrwyth; dysgwyl am lawer, cael ond ychydig. A'r croesau mwyaf wedi codi weithiau o'r lle yr oeddym yn dysgwyl y cysur mwyaf.

Os dyfod at Grist, cei wir orphwysfa i dy enaid: Mat. xi. 28. "Od oes baich ar dy gydwybod, mi a'i diosgaf yn fy ngwaed; os aflan wyt, mae ffynon i'th olchi; a phob peth."

Ystyria, os ti a ddeui, byddi ddedwydd, mewn amser ac i dragywyddoldeb; pan y bydd y bwrdd isod yn cael ei dynu, ti a gei eistedd wrth y bwrdd uchod i wledda. Ond os ni ddeui at Grist, ni chei ddigon, ac ni chei orphwysfa i dy enaid byth: Esai. i. 19, 20. (1825.)

## PREGETH II.

2 Cor. iv. 17.—"Canys ein byr ysgafn gystudd ni sydd yn odidog ragorol yn gweithredu tragywyddol bwys gogoniant i ni."

PETH priodol i bob dyn yn y byd hwn ydyw blinder a chystudd. Mae llawer na wyddant ddim am gysur, ond nid oes neb na wyddant am flinder. "Dyn a aned i flinder, fel yr eheda gwreichionen i fyny:" Job v. 7.

Ac nid oes un ddyfais erioed wedi ei chael allan, er cymaint o ymdrech sydd wedi bod ac yn bod gan ddynion am hyny, i fyned trwy y byd mewn esmwythder. Nis gallodd y cadarn trwy ei fawr allu, na'r cyfoethog trwy ei gyfoeth, na'r dysgedig, gwybodus, na'r doeth, ochelyd blinder a chystudd tra yn y byd hwn. Ac ni achub duwioldeb ei pherchenog rhag cystuddiau a blinderau tra yn y byd hwn; gwaith "aml ddrygau a gaiff y cyfiawn, ond yr Arglwydd a'i gwared ef oddiwrthynt oll:" Salm xxxiv. 19. Ac yn y testyn dywedir mai byr ac ysgafn yw cystudd y saint, a'i fod hefyd yn gweithredu tragywyddol bwys gogoniant iddynt.

Yn bresenol mi sylwaf ar dri pheth oddiwrth y testyn.

I. Natur cystuddiau a blinderau y saint. Mae tri pheth dan y pen hwn yn deilwng o'n sylw. Mae cystuddiau y saint o ddau ryw: y naturiol, allanol, fel sydd yn gyffredin yn cyfarfod pawb ereill; a'r ysbrydol, ac yn

yr ystyr hwn ni ŵyr neb am danynt ond y duwiol, a'r dyn cystuddiedig yn yr ystyr hwn mae Duw y nefoedd wedi addaw edrych arno er ei gynorthwyo: Esai. lxvi. 2; Salm xxxiv. 18. Mi nodaf oddiwrth pa bethau y mae cystudd y saint yn benaf yn codi mewn ystyr ysbrydol, gwaith nid yw pob math o gystudd a blinder ond effaith yn codi oddiar ryw achos. Achos eu cyflwr yn bersonol rhyngddynt a'r Arglwydd. Mater mawr yw hwn; ond feallai na chostiodd awr o ofid erioed i ambell un sydd yma, ond fe gyst ofid tragywyddol oni dde'wch trwyddo yma yn nydd gras: Job x. 15. Anmherffeithrwydd eu natur, neu y corph o bechod sydd yn aros ynddynt: Salm li. 3; Rhuf. vii. 21—24. Nid yw y drwg yn bresenol gyda neb yn rwystr ac yn boen iddynt, ond sydd yn ewyllysio gwneuthnr da. Satan a'i gyhuddiadau a'i demtasiynau yn treio eu maglu, ac â'i bicellau tanllyd i'w difetha: Zech. iii. 1; 1 Cor. vii. 5. Mae Satan a chanddo lid mawr: Dat. xii. 12; 1 Petr v. 8. Gerwindeb y ffordd y mae Duw wedi ordeinio iddynt i fyned adref. Mae yn wir y gallasai y Duw anfeidrol eu harwain ar hyd ffordd esmwythach, ond trwy lawer o orthrymderau y gwelodd Efe yn oreu: Act. xiv. 22. Mae uchel ddybenion i'r cwbl.

"Ysgafn gystudd" y gelwir blinderau a gorthrymderau y saint. Nid oes i ni ddeall eu bod yn ysgafn ynddynt eu hunain. Ond y maent yn ysgafn mewn ystyr cyferbyniol, fel y dywed yr Apostol am "gerydd;" Heb. xii. 11. Maent yn ysgafn mewn cyferbyniad i'r haeddiant: Galarnad iii. 39. Maent yn ysgafn pan y cymharwn hwynt â chystuddiau y patriarchiaid, a'r prophwydi, a'r apostolion, a'r merthyron: Iago v. 10; Heb. xi. 37, 38. Maent yn ysgafn pan feddyliom am gystuddiau a dyoddefiadau Crist, sef y Blaenor mawr, yn lle a thros ei bobl: Galarnad i. 12; Mat. xxvii. 27; Marc xiv. 34. Mae yn ysgafn iawn pan feddyliom am ddyoddefaint y damnedigion yn y carchar tragywyddol—llyn sydd yn llosgi o dân a brwmstan, a mwg eu poenedigaeth sydd yn esgyn i fyny byth: Dat. xxi. 8; Mat. xxv. 46. Maent yn ysgafn iawn mewn cyferbyniad i'r gogoniant a ddatguddir i ni: Rhuf. viii. 18.

Nid yw parhad y cystudd yn faith—"byr." Os yw y cystudd a'r baich yn drwm, a'r frwydr yn galed, a'i brofedigaethau yn hallt i brofiad y Cristion, mae hyn yn rhoi cysur iddo yn nghanol y cwbl: nid yw ond byr. Mae yr amser wedi ei rifo i'r munud—amser penodol yw tymor y saint i gario ei groes Ef yn y byd. Amserol ac nid tragywyddol. Mae rhyw gymhariaeth rhwng gwybedyn a behemoth, rhwng diferion a'r moroedd, rhwng llwchyn a'r ddaear; ond nid oes gymhariaeth rhwng amser a thragywyddoldeb: 1 Cor. vii. 29. Amser penodol yw amser cystudd y saint: Dat. ii. 11. Amser a adwaenir gan yr Arglwydd yw hefyd: Zech. xiv. 7. Amser nid maith, ond byr, "megys enyd fach:" Esai. xxvi. 20. Ac y mae holl gystuddiau a blinderau ei blant wedi eu pwyso wrth y gronynau gan yr Arglwydd: Esai. xxvii. 8.

II. Dyben neu ddefnyddioldeb cystuddiau y saint—gweithredu tragywyddol bwys gogoniant i ni. Y maent yn odidog; er eu bod yn ymddangos yn dywyll, oblegyd eu bod yn annghysurus i natur. Y maent yn rhagorol,

oblegyd y canlyniadau daionus sydd iddynt. Nid ydynt yn gweithredu pwys gogoniant yn haeddianol, ond yn unig yn offerynol yn ol ordeiniad Duw daionus. Mae cystuddiau dan fendith fel moddion yn dwyn yr enaid yn fwy ymostyngol ger bron yr Arglwydd, ac i obeithio ynddo: Galarn. iii. 20, 21. I rodio yn fwy agos at yr Arglwydd: Salm cxix. 67, 71. I weddio yn fwy taer ar yr Arglwydd. Yr oedd Jonah yn byw yn dawel yn y llong, ond wedi ei daflu i'r môr mae yn galw ar Dduw. Trwy eu cystuddiau a'u profedigaethau profir hefyd moesau y saint. Y mae gwir ras fel y ser yn llewyrchu ar y nosweithiau y mae dywyllaf; felly grasusau y saint yn y cystuddiau mwyaf: Job xxiii. 10 Mae cystuddiau y saint yn foddion dan fendith i buro eu calonau. Mae i'r dydd goleuaf ei gymylau, mae i'r gwenith puraf ei us, felly i'r bobl dduwiolaf eu hannghrediniaeth tra yr ochr yma. Ac y mae cystudd fel gwyntyll i gael yr us i gerdded, ac fel y ffwrnes i gael y tros ymaith: Esai. xxvii. 9; Zech. xiii. 9; Mal. iii. 3.

III. Y canlyniad daionus—"tragywyddol bwys gogoniant."

"Gogoniant." Wrth y gogoniant yma, feallai, y golygir y lle a'r cyflwr dedwyddol y bydd y saint yn ei fwynhau yn y nefoedd. Yr wyf yn meddwl y bydd deddwyddwch y saint yn gynwysedig yn y pethau canlynol: Y cyflwr perffaith fyddant wedi ei gyraedd—delw Duw: 1 Ioan iii. 2. Y lle y byddant ynddo—gyda Christ: Phil. i. 23. Yr etifeddiaeth fyddant yn ei fwynhau—Duw oll yn oll: Esai. lx. 19, 20.

"Pwys gogoniant." Nid oes iaith, nac ymadrodd, cyffelybiaeth na dangosiad, a all roi un drychfeddwl am y dedwyddwch a'r gogoniant y bydd y saint yn ei fwynhau tufewn i'r llen. Nid oes mesur na chyfrifiad all byth ei osod allan; am hyny, medd yr Apostol, "pwys gogoniant."

"Tragywyddol bwys gogoniant." O, air heb ymyl iddo—tragywyddol! Haul ni fachluda byth—"tragywyddol!" Anfarwoldeb! 1 Cor. xv. 54.

Dyma'r ddwy ochr i'r Iorddonen ar gyfer eu gilydd:

Ein byr ysgafn gystudd ni.
Tragywyddol bwys gogoniant i ni.

Gair o addysg er cymwysiad:—

1. Edrychwn a ydyw y cystuddiau sydd yn ein cyfarfod yn ein gwneud yn fwy ystwyth, yn fwy gostyngedig, yn ddyfalach mewn gweddi, yn fwy hiraethlon am sancteiddrwydd. Mae'r un tân sydd yn toddi'r cŵyr yn caledu y clai; felly gwnaiff cystuddiau, naill ai ein caledu neu ein tyneru.

2. Gan fod y fath ddyben daionus a chanlyniad gogoneddus i'r holl gystuddiau a phrofedigaethau sydd yn cyfarfod pobl yr Arglwydd, dylent fod yn amyneddgar ynddynt, ac yn ddiolchgar am danynt.

3. Cofia, Gristion, y bydd pob cystudd er ei faint yn fuan heibio; er mor drymed yw y baich, byr yw y ffordd sydd i'w gario; ac er mor danllyd yw'r frwydr, a chreulon yw'r gelynion, mae yr oruwchafiaeth yn sicr o'th ochr: 1 Cor. xv. 57; Rhuf. viii. 37.

4. Mae rhyw dragywyddol bwys yn ein haros oll—digofaint neu ogoniant. (1831.)

## PREGETH III.

Iago v. 20.—" Gwybydded, y bydd i'r hwn a drodd bechadur oddiwrth gyfeiliorni ei ffordd, gadw enaid rhag angau, a chuddio lluaws o bechodau."

Gwirionedd gresynus a chyffredinol am bob dyn yw ei fod yn bechadur: Rhuf. iii. 23. Mae allan o bob dadl (ond am ba beth ni ddadleuir, ni wn i; ond ynfyd yw dadleuaeth): pe buasai yr Arglwydd yn gweithredu ar lwybr cyfiawnder yn unig tuag at ddyn, y buasai dyn, a phob dyn, yn yr un cyflwr anobeithiol ag y mae yr angelion syrthiedig ynddo: 2 Petr ii. 4. Nid oes chwaith i ni ddeall nad yw Duw yn gweithredu yn llwybr cyfiawnder tuag at ddyn yn gystal a thuag at yr angelion syrthiedig; ond nid cyfiawnder yn unig, mae trugaredd a gras Duw wedi ymddangos tuag at ddyn: Titus ii. 11. Mae daioni, trugaredd, a gras Duw, yn ymddangos yn fawr iawn, pan yr ystyriom y pethau canlynol: yn natguddiad llwybr, ffordd, i droi pechadur, a chadw ei enaid rhag angeu; galw, cymwyso, danfon gweision, cenadon er cario, mynegi, hysbysu, y drefn hon i glywedigaeth dynion; yn nhywalltiad yr Ysbryd Glan, i arddel y genadwri o enau y cenadon, i ateb y dyben uchel y mae y testyn yn ei ddangos, sef troi pechadur o gyfeiliorni ei ffordd, gwaredu enaid rhag angeu, a chuddio lluaws o bechodau.

Gwrthddrych cenadwri yr efengyl yw, pechadur. Nid oes un dyn yn well na bod yn bechadur, am hyny dylai edifarhau, a dychwelyd. Nid oes un dyn yn waeth na bod yn bechadur, am hyny ni ddylai anobeithio a suddo, ond edifarhau a chredu. Unig wrthddrych cenadwri fawr yr efengyl yw pechadur; nid oes un gair yn yr efengyl o ddechreu Genesis hyd ddiwedd y Datguddiad, ond at bechadur: Marc ii. 27. Mae golwg ar wrthddrych y genadwri yn y testyn mewn tri ystyr: ei gyflwr—"pechadur;" ei egwyddor—cyfeiliornus; ei ogwydd yn ei fywyd a'i fuchedd—"cyfeiliorni ei ffordd." Mewn cyflwr mae pawb yn cwrdd, heb neb yn îs, na neb yn uwch: Esai. lxiv. 6. Yn yr un egwyddor y mae pawb yn cyfarfod â'u gilydd; gelynion mewn meddwl i Dduw yw y naill a'r llall. Ond mewn agwedd, bywyd, a buchedd, nid yw pawb yn yr un gradd—mae rhai yn bechaduriaid mwy, a rhai yn llai, ac y mae y rhagoriaeth sydd ar y naill ddyn ragor i ddyn arall i'w briodoli i Dduw yn unig, ac nid i'r dyn. Nid yw y gweithredoedd ffieiddiaf dorodd allan yn mywyd y dyn annuwiolaf, ond ychydig o wreichion, at sydd o danllwyth o drueni yn nghalon y dyn goreu. Nid wyf yn ameu nad oes rhy fach o wylo o lawer gan yr eglwysi, yn achos fod cymaint o ryfygus bechodau yn cael eu cyflawni gan ddynion annuwiol, dan freintiau mor fawrion; ond yr wyf yn sicr nad oes haner ddigon o ddiolch i Dduw, am fod cyn lleied yn cael eu cyflawni; gwaith y mae Duw yn atal mil mwy i gael eu cyflawni, nag y mae yn oddef i'w cyflawni. Nid oes neb yn ormod pechadur i'w achub trwy yr efengyl yn ngwyneb credu: 1 Tim. i. 15.

Dyben a natur cenadwri yr efengyl tuag at y gwrthddrychau. Troi

pechadur o gyfeiliorni ei ffordd. Troi ei gyflwr, o fod dan y ddeddf gondemniol i farwolaeth, i fod dan yr efengyl i fywyd tragywyddol: Rhuf. vi. 14. Troi ei galon, ei egwyddor, yn lle casâu Duw i garu Duw. Ei droi yn ei fywyd a'i fuchedd; yn lle tori y gorchymyn bellach, ei gadw: 2 Cor. v. 17. Hefyd, cadw enaid rhag angeu, a chuddio lluaws o bechodau. (1832.)

---

## PREGETH IV.

Salm xlvi. 4.—"Y mae afon a'i ffrydiau a lawenhant ddinas Duw, cysegr breswylfeydd y Goruchaf."

1. Y DRUAN, helbulus gan dymestl, y ddigysur yn nghanol profedigaethau, yw eglwys Dduw yn y byd hwn: Esai. liv. 2.

2. Dyma'r ffordd sydd wedi ei hordeinio i eglwys Dduw i fyned trwy y byd hwn—trwy orthrymderau—trwy brofedigaethau—trwy gystuddiau—trwy beryglon—ond trwyddynt: Act. xiv. 22; Salm xxxiv. 19.

3. Pan y byddai rhyw drallod a pheryglon anarferol yn dyfod i gyfarfod Martin Luther, byddai yn ymwroli yn eu gwyneb, gan ddywedyd wrth ei gyfeillion—Deuwch, canwn y chwechfed Salm a deugain.

4. Ac y mae yn anhawdd neillduo un rhan o'r Ysgrythyr yn fwy priodol er cysuro y credadyn mewn ofnau a pheryglon na'r Salm ogoneddus hon, er ei nerthu i ymddiried yn ei Dduw. (1.) Duw sydd noddfa a nerth i ni. (2.) Cymorth hawdd ei gael mewn cyfyngder.

5. Yn yr adnodau o flaen y testyn, mae y Salmydd yn dangos ei hyder yn Nuw—yr ail adnod. "Am hyny nid ofnwn pe symudai y ddaear, a phe treiglid y mynyddoedd i ganol y môr," hyny yw, pe teflid gorseddfeinciau a llywodraethau fel y byddai y cwbl yn un cymysgfa trwy ryfeloedd, mae Duw yn noddfa. "Er rhuo a therfysgu o'r dyfroedd"—sef y werin; "er crynu o'r mynyddoedd"—sef y pendefigion; "gan ei ymchwydd ef"—sef terfysg y bobloedd fel tonau y môr, a'r cwbl mewn dychryn: Luc xxi. 25—27. Yna y mae y testyn yn dyfod i mewn. "Y mae afon a'i ffrydiau a lawenhant ddinas Duw," yn nghanol yr holl derfysgoedd hyn. Mi sylwaf ar dri pheth oddiwrth y testyn:—

I. Beth sydd i ni ddeall wrth yr afon yn y testyn?

II. Beth a olygir wrth ffrydiau yr afon?

III. Yr hyn a briodolir i ffrydiau yr afon—"llawenhau dinas Duw, cysegr breswylfeydd y Goruchaf."

I. Beth sydd i ni ddeall wrth yr afon? Feallai fod yma gyfeiriad at afon Cedron, yr hon oedd yn rhedeg heibio Jerusalem; neu at ddyfroedd Siloah, y rhai oeddynt trwy amryw ranau o'r dref yn llifo yn ffrydiau iachusol er llonder a diwallrwydd y dinasyddion: Esai. xxii. 9; Ioan ix. 7; 2 Sam. xv. 23; Ioan xviii. 1.

1. Wrth yr afon yn y testyn mae rhai yn dewis deall cariad Duw: Ioan iii. 16.

2. Ereill, efengyl Duw. Ond diameu na chynwysir dim llai wrth yr afon yn y testyn. Mae yr iachawdwriaeth fawr yn Nghrist, yr hon sydd wedi tarddu o gariad ac ewyllys da Duw, wedi ei datguddio trwy yr efengyl ar gyfer byd o golledigion. Ac aml y llefarir am iachawdwriaeth yn yr Ysgrythyrau dan y gydmariaeth o afon—" y mae afon." i. Mae yn debyg i afon yn ei tharddiad—o'r golwg i ni, nes tarddu i'r golwg o'r ddaear yn ryw le yn mhen y mynyddoedd. Felly iachawdwriaeth. Yr oedd yn Nuw erioed, ond yn ddirgelwch oedd guddiedig nes i Dduw ei datguddio. A'r tarddiad cyntaf o'r afon hon a ddaeth i'n golwg ni ydoedd yn yr addewid: Gen. iii. 15. Mae pen yr afon hon (medd Gill) yn nghalon ac ewyllys da Duw. A'r *channel* trwy ba un y mae yn rhedeg yw Crist Iesu, o dragywyddoldeb trwy amser i dragywyddoldeb: Salm xxxvi. 9; Dat. xxii. 1; Eph. xlvii. 5.

ii. Yn ei chyflawnder. Nid yw holl afonydd y byd ond bychan mewn cydmariaeth i hon: Eph. iii. 18, 19. Mewn uchder—mae mor uchel a'r nefoedd—mor uchel a gorsedd Duw. Fe ddywedir am ddyfroedd y diluw iddynt ymgryfhau tuag i fyny, a'r mynyddoedd a orchuddiwyd: Gen. vii. 18, 19. Felly, er fod pechodau ac anwireddau dynion wedi dyrchafu fel mynyddoedd uchel, mae afon iachawdwriaeth wedi ymgodi yn uwch: Esai. liv. 9. Yn ei dyfnder, ei dyfnder anfeidrol. Mae mor ddwfn a chyflwr y colledig. Pa mor ddwfn yw colledigaeth dyn, nid wyf yn gwybod. Ond hyn a wn, mae afon iachawdwriaeth yn fwy dwfn: Heb. vii. 25; 1 Cor. vi. 11. Yn ei lled. Mae ei lled yn anfeidrol. Mae yn lletach nag holl afonydd y byd (ac na'r môr o ran hyny). Mae afonydd mawrion, yn enwedig yn yr America—y De-la-Plata yn Neheudir America yn filoedd o filldiroedd o hyd a 150 o led, a'r Amazon hefyd yn y Deau yn rhedeg 3000 o filldiroedd ac yn 200 o filldiroedd o led; y mae afon Missis-sippi, yn Ngogledd America, yn 4500 o filldiroedd o hyd. Ond y mae afon iachawdwriaeth yn hwy ac yn lletach na'r rhai'n i gyd. Mae hon yn cyraedd o'r dwyrain i'r gorllewin, ac o'r gogledd i'r deau. Fel y dywedir am Dduw y gellir dyweyd am ei iachawdwriaeth, yr hon sydd yn llifo yn llawn a didor o genedlaeth i genedlaeth. Yn ei hyd, mae yn cyraedd o dragywyddoldeb i dragywyddoldeb, trwy holl oesoedd y byd, nes codi a golchi tyrfa nas gall neb eu rhifo, a'u gosod heb arnynt na brycheuyn na chrychni.

iii. Yn ei pharhad. Mae yr afon yn parhau o hyd er gwasanaethu i'r naill genedlaeth ar ol y llall trwy yr holl oesoedd. Felly iachawdwriaeth Duw: Esai. li. 6, 8.

iv. Yn ei rhadlonrwydd. Rhad yw dyfroedd yr afon. Felly dyfroedd yr iachawdwriaeth—rhad: Esai. lv. 1.

II. Beth sydd i ni ddeall wrth ffrydiau yr afon? Mae y testyn wedi ei lefaru oddiwrth y dull y maent yn troi yr afonydd yn ffrydiau i gyfleusdra y dinasyddion. Ei ffrydiau ydyw yr afon ei hun yn ei daioni a'i rhinwedd. Mae ffrydiau gogoneddus yn perthyn i afon iachawdwriaeth.

1. Etholedigaeth gras yn Nghrist Iesu cyn dechreu y byd—etholedig-

aeth gras er achub, ac nid er damnio. Ac oni buasai etholedigaeth gras, ni buasai gadawedig un cnawd: Eph. i. 4.

2. Y cyfamod gras a'i holl addewidion, y rhai ydynt yn ïe ac amen yn Nghrist: Eph. i. 3; 2 Cor. i. 20; Heb. xiii. 5.

3. Cyfiawnder i'r euog, er ei gymeradwyo gyda Duw byth, a hwn yn rhad i'r euog byth: Rhuf. iii. 22, 24; Diar. xl. 4.

4. Maddeuant rhad i'r dyledog, ïe, i'r pum' cant fel y deg-a-deugain—dim gwahaniaeth yn hyn: Eph. i. 7; Rhuf. iii. 25; Marc ii. 10; Luc vii. 41, 42.

5. Ad-genhedliad i obaith bywiol, er gwneud y gelyn yn gyfaill: Col. i. 21; 1 Petr i. 3, 4.

6. Mabwysiad, er gwneuthur estroniaid yn feibion i Dduw: Eph. i. 5; Rhuf. viii. 15; Gal. iv. 5.

7. Sancteiddiad oddiwrth bob aflendid: Ioan xvii. 17; Heb. ii. 11; Rhuf. xv. 16.

8. Bywyd tragywyddol—buddugoliaeth sicr ar bob gelyn; y diweddaf a ddinystrir yw'r angeu. Wele, meddwn, felusder yn ngwaelod y cwpan chwerwaf. "Angeu a lyncwyd mewn buddugoliaeth:" 1 Cor. xv. 54, 57.

III. Yr hyn a briodolir i ffrydiau yr afon—"llawenhau,"—lloni; "dinas Duw, cysegr breswylfeydd y Goruchaf."

i. Y gwrthddrychau—"dinas," sef holl wir eglwys Dduw—y corph o gredinwyr yn mhob oes o'r byd. (1) Yr eglwys filwriaethus ar y ddaear yn anialwch y byd. (2) Yr eglwys yn y rhan orfoleddus o honi yn y nefoedd. Yr un ffrydiau sydd yn ei llawenhau yno ag yma; ond yma mewn rhan, ac yno yn berffaith: 1 Cor. xiii. 11, 12.

ii. Mae effeithiau ffrydiau yr iachawdwriaeth yn peri i'r dinasyddion lawenhau trwy—

(1) Eu disychedu. Un tost yw syched. Yr oedd mab Agar yn myned i farw o eisieu dwfr: Gen. xxi. 15—19; Dat. xxi. 6; Diar. xxv. 25; Matt. v. 6.

(2) Golchi a glanhau yr holl fudreddi: Zec. xiii. 1; Salm li. 2; 1 Ioan i. 7; Eph. v. 26, 27; Ezec. xxxvi. 25.

(3) Eu cyfnerthu yn ngwyneb gwendid, er eu hadnewyddu yn erbyn y gelynion. Teimlodd Samson nerth newydd trwy ddyfroedd natur yn ei frwydr. Felly y Cristion: Barn. xv. 18—20; Salm cxix. 81.

(4) Eu ffrwythloni. Maent yn gwneuthur y tir mwyaf diffrwyth i ffrwythloni, er gogoniant i Dduw: Esai. xliv. 3—5. Afon yr Aipht—y *Nile*—yw un o afonydd mwyaf ffrwythlawn y byd hwn: Esai. xxiii. 3; Jer. ii. 18.

Gair er cymwysiad:—

1. Profwn ein hunain, a ydym ni mewn gwirionedd o nifer y dinasyddion—yn nghysegr, yn nhemlau y Goruchaf, a ydym ni yn byw yn y ddinas. Peidiwn dychymygu ein bod yn ddinasyddion, heb fyw yn y ddinas: Eph. ii. 19.

2. Gwelwn ddyogelwch yr holl wir ddinasyddion. Mae yr Arglwydd iddynt yno yn amddiffynwr rhag eu holl elynion: Esai. xxxiii. 21, 22.

Pibellau i gario ffrydiau yr afon yw holl ordinhadau yr efengyl.

(Rhagfyr, 1840.)

---

## PREGETH V.

Esai. xlv. 22.—"Trowch eich wynebau ataf fi, holl gyrau y ddaear, fel y'ch achuber; canys myfi wyf Dduw, ac nid neb arall."

---

MAE y testyn yn cynwys dwy ran, sef tystiolaeth Duw am dano ei hun—"myfi wyf Dduw ac nid neb arall"—nid oes neb a ŵyr gystal am Dduw a Duw ei hun, ac nid oes neb a ddylai wybod am danom ninau gystal a ni ein hunain ond Duw ei hun; a'r rhan arall o'r testyn sydd orchymyn daionus Duw i holl gyrau y ddaear, i droi eu gwynebau ato Ef er eu hachub.

1. Nid oes dim yn fwy sicr ac amlwg na'r bod o Dduw. Nid oes dim ag y mae dynion yn gyffredin yn fwy difeddwl am dano, yn fwy dyeithr iddo, yn fwy tywyll am dano, yn fwy annghrediniol am dano, nag am Dduw: Salm xiv. 4; Titus i. 16. Y pethau sydd yn achos o'r fath agwedd a hyn ar ddyn tuag at Dduw ydynt, tywyllwch ei ddeall am Dduw: Rhuf. iii. 11; Eph. iv. 18; annghrediniaeth ei galon o dystiolaeth Duw am dano ei hun: Rhuf. i. 28; 2 Cor. iv. 4; gelyniaeth ei natur yn erbyn Duw: Rhuf. i 30, a v. 10; Col. i. 21. Ond nid ydyw tywyllwch, annghrediniaeth, a gelyniaeth dyn yn newid dim ar wirionedd y bod o Dduw. Mae gan Dduw dri o dystion cyffredinol, fel y mae yn anmhosibl ei wadu yn ngoleu eu tystiolaethau. Y greadigaeth yn ei hamrywiaeth. Mae pob creadur yn dwyn tystiolaeth i'r bod o hono. Nid oes un creadur yn gallu rhoddi bod iddo ei hun, nac ychwaith cynal ei hun mewn bodolaeth. Mae hyny ar unwaith yn dangos fod rhyw Fod Anfeidrol yn wir achos i bob bod meidrol: Rhuf. i. 19, 20; Salm xix. 1, 2. Mae pob gwaith yn tystiolaethu fod rhyw weithiwr. Mae pob tŷ yn dangos bod adeiladydd: Heb. iii. 4. A phob ffrwd yn dangos fod ffynon, o ba un y dylifodd. Hefyd, mae goruchwyliaeth fanwl Rhagluniaeth sydd ar y cwbl yn y byd yn tystiolaethu bod Duw: Salm cxlvii. 8, 9, a cxlv. 15, 16; Act. xiv. 17. Ac y mae genym dystiolaeth ei Air Sanctaidd. Mae delw ei awdwr ar ei air—sancteiddrwydd, awdurdod, parhad. Mae holl athrawiaeth y gair yn bur, a'i awdurdod yn anorchfygol, a'i barhad yn dragywyddol: Diar. xxx. 5; Esai. xl. 8; 1 Petr i. 25.

Mae mor amlwg a bod Duw nad oes ond un Duw. Mae yn amlwg yn ngoleu rheswm nad oes ond un Duw. Gan fod yr Un hwnw yn llanw pob man, nid oes lle, medd rheswm, i un duw arall: Deut. vi. 4; Esai. xliv. 6; Rhuf. iii. 30, a x. 12. Ystyr yr enw Duw yw digonolrwydd—un yn ddigon iddo ei hun; nid oes neb felly ond un—Duw yn unig yw yr Un hwnw.

2. Ystyriwn orchymyn neu alwad Duw yn y testyn. Ystyriwn yr hwn sydd yn galw, sef Duw ei hun, y Goruchel a'r Dyrchafedig, yr hwn a breswylia dragywyddoldeb, a'i enw yn sanctaidd: Esai. lvii. 15.

Mae yn galw trwy ei air: Salm lxviii. 11; Esai. xxx. 21.

Mae yn galw trwy ei weision: 2 Cor. v. 20, a vi. 1.

Trwy ei Ysbryd yn y gair a'r weinidogaeth yn ymryson â chydwybodau dynion: 1 Thes. v. 19; Eph. iv. 30; Gen. vi. 3.

Ystyriwn gynwysiad yr alwad—troi wyneb at yr Arglwydd. Troi, nid siarad, ond troi; rhaid troi pechadur cyn ei achub: Act. xxvi. 18; Mat. xviii. 3; Hosea xii. 6. Troi y wyneb, yr hyn sydd yn arwyddo troi yn gwbl—troi yr enaid—troi yn gwbl o ran meddwl a'r holl enaid: Salm xix. 7; Diar. xxiii. 26. Troi at yr Arglwydd mewn gwirionedd: Jer. iv. 1; Hosea xiv. 1, 2; Joel ii. 12.

Ystyriwn helaethrwydd yr alwad—"holl gyrau y ddaear," sef yr ynysoedd a'r cyfandiroedd, pell ac agos, Iuddewon a Chenedloedd. Mae tri pheth yn dangos helaethrwydd tir y weinidogaeth:

Tystiolaeth y Gair: Esai. xliii. 5, 6; Mat. xxiv. 14.

Gorchymyn Crist i'w Apostolion: Mat. xxviii. 19.

Addewidion yr Ysgrythyrau: Mat. xi. 28.

Ystyriwn y dyben—"fel y'ch achuber." Achub yw y dyben mawr yn y cwbl.

Sicrwydd achubiaeth y rhai oll a droant eu gwynebau at Dduw. Ewyllys Duw yw hyny: 1 Tim. ii. 4; Esai. xlvi. 10. Mae trefn gan Dduw i hyny: 2 Cor. v. 21; Heb. viii. 12; Esai. xxxiii. 5. Mae hollalluowgrwydd Duw wedi ymrwymo mewn cyfamod i wneuthur hyny: Jer. l. 34; Seph. iii. 17. Mae wedi addaw gwneud hyny, ac y mae yn anmhosibl i Dduw fod yn gelwyddog: Heb. vi. 18; Esai. i. 18; a lv. 7.

Natur yr achubiaeth—ysbrydol, achub enaid, achub rhag angeu—yn angeu: Iago v 20.

Parhad yr achub—am byth: Esai. xlv. 17. (Mawrth, 1846.)

---

## PREGETH VI.

Luc xii. 20, 21.—"Eithr Duw a ddywedodd wrtho, O ynfyd, y nos hon y gofynant dy enaid oddiwrthyt, ac eiddo pwy fydd y pethau a barotoaist? Felly y mae yr hwn sydd yn trysori iddo ei hun, ac nid yw gyfoethog tuag at Dduw."

---

RHAN o ddameg yw y geiriau. Byddai Crist yn llefaru llawer iawn trwy ddamegion—cyfatebiaeth, cymhariaeth, ffigyr—er argyhoeddi yn ddyfnach, ac argraffu yn ddwysach. Desgrifiad sydd yma o agwedd a chyflwr pob dyn sydd yn esgeuluso iachawdwriaeth ei enaid, gan osod ei holl ofal ar bethau y bywyd hwn; dyma yw cynwysiad y ddameg. Nid oes i ni feddwl fod y dyn hwn yn fwy ynfyd nag ereill sydd yn ceisio eu holl wynfyd yn y byd a'r pethau a welir. Yr oedd holl natur ac amcan gweini-

dogaeth yr Arglwydd Iesu i oleuo ac argyhoeddi dynion o'u hynfydrwydd, a'u dychwelyd oddiwrth wagedd at wir sylwedd.

Sylwn ar y pethau canlynol oddiwrth y testyn :—

I. Cymeriad y dyn a nodir yn y testyn—"O ynfyd." Duw sydd yn dyweyd—"Eithr Duw a ddywedodd." Y mae o bwys i bawb dynion beth y mae Duw yn ei ddyweyd. Mae yn anmhosibl i Dduw gam-ddyweyd, gwaith mae yn berffaith ei wybodaeth : 1 Sam. ii. 3. Ni all Dnw ddyweyd ond gwirionedd, gwaith Duw gwirionedd yw ; fel y mae Duw yn dywedyd yn ei Air, mae y cwbl yn sefyll yn ddigyfnewid byth : 1 Sam. xv. 29; Mat. xxiv. 35. Fe ddaw pawb rhywbryd i weled ac i ddywedyd fel mae Duw yn dywedyd yn ei Air : Mal. iii. 18.

II. Y pethau trwy ba rai y dangosir ynfydrwydd y dyn yn y testyn—trysori iddo ei hun, ac nid yw gyfoethog tuag at Dduw.

1. Trysori iddo ei hun—casglu iddo ei hun—llafurio iddo ei hun yn unig yn naturiol, ac nid yn ysbrydol; iddo ei hun o ran ei gorph, ac esgeuluso ei enaid ; iddo ei hun am amser, a dibrisio ei hun am dragywyddoldeb ; iddo ei hun yn y cwbl, ei hun yn brif-nôd ac amcan yn ei holl gynlluniau, a'i weithrediadau, heb un meddwl, na gofal, nac ymdrech, i ogoneddu Duw mewn dim : Phil. ii. 21. Trysori iddo ei hun: dyma wrthweithrediad i ddyben ei greadigaeth, a hollol groes i natur y prynedigaeth : Esai. xliii. 7 ; Hosea x. i ; 1 Cor. vi. 20. Dyma ynfydrwydd. Trysori iddo ei hun bethau daearol, ac esgeuluso pethau ysbrydol; y rhai yn ol eu natur ni allant lesoli dim ond cymaint a all natur ei ddefnyddio mewn ymborth a gwisgoedd : a phwy bynag a ddysgwylio cael ychwaneg oddiwrthynt na hyny, a siomir. Gwneud eilun o'r byd ; O ynfyd ! 1 Tim. vi. 8—17. Trysori iddo ei hun bethau ansicr, ac esgeuluso pethau sicr a thragywyddol ; dyma ynfydrwydd : Esai. lv. 2, 3 ; Diar. xxiii. 5. Trysori iddo ei hun y pethau mae Duw wedi eu cadw yn unig yn ei feddiant ei hun, er eu gweini i'r fforddolion yn ol ei ewyllys yn ei ragluniaeth : Haggai ii. 8 ; Salm xxiv. 1, a l. 10, 11. A phethau i wasanaeth dyn yn unig, tra byddo rhaid iddo wrthynt fel teithiwr, ac nid cartrefwr ; ac wedi eu haddaw heb iddo ef eu trysori yn ei galon mewn serch atynt, nac ychwaith mewn ystordai, ond yn unig gwneud ei alwedigaeth, a gwneud yr Anfeidrol yn wrthddrych ei ymddiried a'i hyfrydwch : Esai. xxxiii. 15, 16 ; Matt. vi. 31—33. Trysori iddo ei hun, yr hyn nid yw amgen wrth roddi y galon arno na magl er teithio, a baich trwm i'w gario, yr hyn sydd yn anfanteisiol i drafaelu ; a phan yn dybenu y daith y cwbl yn trigo yn ol, ac yntau yn myned i'w gartref dragywyddol, heb ddim ond tylodi bythol—dyma ynfydrwydd ! Jer. xvii. 11.

2. Nid yw gyfoethog tuag at Dduw. Mae yn ol am ogoniant Duw. Mae yn nyled Duw am anufudd-dod. Mae yn rhwym i felldithion deddf Duw oherwydd ei throseddu : Gal. iii. 10 ; Eph. ii. 3. Bod yn gyfoethog tuag at Dduw yw ateb i holl ofynion Duw yn ei gyfraith, fel y mae y deiliad yn gyfoethog tuag at y *landlord*, wrth dalu iddo yn gyflawn ei holl ofyn : Preg. xii. 13. Dwy ffordd sydd i ddyn fod yn gyfoethog tuag at

Dduw: y gyntaf, trwy ufuddhau i holl ddeddf Duw; yr ail, trwy gredu yn Mab Duw. Mae pawb wedi myned yn dlawd tuag at Dduw, trwy anufudd-dod: Rhuf. iii. 23. Trwy gredu yn yr Arglwydd Iesu, mae yn bosibl gwneud y pechadur tlotaf mor gyfoethog tuag at Dduw, a meddu Duw ei hun yn yr hyn oll ag ydyw, ac yn yr hyn oll a fedd, am byth: 1 Cor. i. 30; 2 Cor. vi. 17, 18. Maent yn defnyddio cyfiawnder Duw, hyny yw, y rhai sydd yn gyfoethog tuag at Dduw, sef cyfoeth Duw yn yr efengyl, yr hwn a ddatguddir yn yr efengyl trwy ffydd: Esai. xlv. 23—25. Mae ffrwythau yr ysbryd arnynt, cariad, llawenydd, tangnefedd, hirymaros, cymwynasgarwch, daioni, ffydd, addfwynder, dirwest: Gal. v. 22. Mae y cyfryw sydd yn gyfoethog tuag at Dduw yn ateb dyben eu creadigaeth, sef gogoneddu Duw, byw i Dduw, ymdrechu i ryngu bodd Duw mewn barn a bywyd: 2 Cor. v. 9.

III. Y siomedigaeth anadferadwy y mae y cyfryw yn gyfarfod yn angeu. Colli y cwbl mewn natur, heb wybod pwy a'u mwynhant. Eu siomi yn hyder eu calon; pan yn dychymygu eu bod mewn llawnder, yn disgyn ar unwaith i dlodi annhraethol. O gyflwr truenus! "Y nos hon y gofynant dy enaid oddiwrthyt." Y canlyniad yn anadferadwy byth. Mae rhyw gynyg agos ar ol pob siomedigaeth er ei adferu tra parhao y bywyd; ond unwaith wedi angeu, dyna hi drosodd am byth.

Gair:—

Ystyriwn yr ynfydrwydd o wisgo y byd a'r pethau a welir yn rhy agos i'r meddwl. Dylem wisgo y byd a'r pethau a welir fel menyg ar ein dwylaw, ac nid fel croen am yr esgyrn: Salm lxii. 10.

Gwelwn pan mae dynion yn aml â'u gafael yn gryfaf am y byd, a'r meddwl yn fwyaf diofal am eu cyflwr, maent yn ymyl eu diwedd—"Y nos hon": 1 Thes. v. 3. Cofiwn Nebucodonosor a Belsasar: Daniel iv. 30; a v. 30.

Gwelwn fod yr hyn sydd yn gwneuthur pechadur yn gyfoethog tuag at Dduw yn hawdd ei gael. Mae y trysor mewn llestri pridd; mae yn cael ei gynyg yn rhad; mae i'w gael ond ei dderbyn: 2 Cor. iv. 7; Dat. iii. 18. (Chwefror, 1855.)

---

## PREGETH VII.

Actau xxvi. 29—"A Phaul a ddywedodd, mi a ddymunwn gan Dduw, o fewn ychydig, ac yn gwbl oll, fod nid tydi yn unig, ond pawb hefyd a'r sydd yn fy ngwrandaw heddyw, yn gyfryw ag wyf fi, ond y rhwymau hyn."

---

MAE y testyn yn rhan o araeth amddiffynol Paul o flaen y llys yn Caesarea. Yr oedd Paul yn garcharor er ys dwy flynedd, a hyny trwy gamachwyn gan yr Iuddewon; gadawodd Ffelix ef yn y carchar er mwyn boddloni yr Iuddewon. Erbyn hyn, yr oedd y rhaglawiaeth wedi disgyn i Ffestus, yr hwn oedd wedi ei wneuthur yn rhaglaw Judea yn lle Ffelix. Yn ei

amddiffyniad ger bron y llys, trwy ganiatad y rhaglaw a'r brenin Agrippa, mae Paul yn coffa ei droedigaeth ar y ffordd i Damascus, a'r genadwri a dderbyniodd gan yr Arglwydd Iesu at y Cenedloedd. Yna mae yn coffau dyoddefaint, a marwolaeth, ac adgyfodiad yr Arglwydd Iesu y trydydd dydd yn ol yr Ysgrythyrau. Fel yr oedd yn dywedyd y pethau hyn, mae y rhaglaw yn crochlefain â llef uchel—" Paul, yr wyt ti yn ynfydu ; llawer o ddysg sydd yn dy yru di yn ynfyd." Yna mae Paul yn ei ateb yn wir foneddigaidd—" Nid wyf fi yn ynfydu, O ardderchocaf Ffestus; eithr geiriau gwirionedd a sobrwydd yr wyf fi yn eu hadrodd." Yna mae Paul yn apelio at y brenin Agrippa, yr hwn yn ei atebiad a ddywedodd—" Yr wyt ti o fewn ychydig i'm henill i fod yn Gristion." " A Phaul a ddywedodd, mi a ddymunwn gan Dduw, o fewn ychydig, ac yn gwbl oll, fod nid tydi yn unig, ond pawb a'r sydd yn fy ngwrandaw heddyw, yn gyfryw ag wyf fi, ond y rhwymau hyn "—y carchar, y llyfetheiriau hyn, y cylymau hyn. Sylwn ar y pethau canlynol :—1. Yr hyn y mae yr Apostol yn cyfeirio ato yn y testyn, sef bod yn wir Gristion—" y cyfryw ag wyf fi." 2. Ei ewyllys a'i weddi ar Dduw ar ran ei wrandawyr, eu bod nid yn unig yn Gristionogion o fewn ychydig, ond yn gwbl oll. 3. Helaethrwydd ei ddymuniad a'i weddi—" Fod nid tydi yn unig, ond pawb a'r sydd yn fy ngwrandaw." 4. Yr hyn nad oedd yr Apostol yn ewyllysio i'w wrandawyr, dim rhwymau, dim carchar, dim erledigaeth. Dyma *model* o Gristion ; dewis a gweddio drostynt am y da goreu, heb ddymuno iddynt y drwg lleiaf.

I. Yr hyn mae yr Apostol yn cyfeirio ato yn y testyn, sef bod yn wir Gristion—y cyfryw ag wyf fi. Y pwnc mawr yw bod yn wir Gristion. Nid yw yr Apostol yn cyfeirio at ei apostolaeth, er ei fod yn wir apostol. Bod yn Gristion oedd ei bwnc mawr ef. Felly pob duwiol, gwir dduwiol ; bychan yw pob peth arall mewn cyferbyniad i fod yn wir Gristion. Yr oedd Balaam yn brophwyd, ond yr oedd yn annuwiol er yn brophwyd : Judas 11. Yr oedd Judas Iscariot yn un o'r deuddeg, ond nid oedd yn Gristion : Actau i. 17. Medd Crist—" Llawer a ddywedant wrthyf yn y dydd hwnw, Arglwydd, Arglwydd, oni phrophwydasom yn dy enw di ? ac oni fwriasom allan gythreuliaid yn dy enw di ? ac oni wnaethom wyrthiau lawer yn dy enw di ? Ac yna yr addefaf wrthynt, nis adnabum chwi erioed ; ewch ymaith oddiwrthyf, chwi weithredwyr anwiredd : " Mat. vii. 22, 23.

Y pethau sydd yn nglŷn â bod yn wir Gristion. (1.) Maent mewn cyflwr dyogel yn Nghrist : Rhuf. viii. 1. (2.) Maent mewn sefyllfa anrhydeddus, yn feibion a merched i Dduw ; maent yn freninoedd ac yn offeiriaid i Dduw : Dat. v. 10 ; Ioan i. 12 ; 2 Cor. vi. 18. (3.) Maent yn wir ddedwydd hyd yn nod mewn carcharau a gorthrymderau, yn meddu heddwch â Duw : Rhuf. v. 1 ; a thangnefedd yn eu mynwesau--heddwch yn eu cydwybodau : Rhuf. xiv. 17. (4.) Mae y gwir Gristion yn ddefnyddiol yn y cylch y mae Rhagluniaeth wedi ei roddi yn y byd, yn fendith i ereill, halen y ddaear, goleuni y byd ; mae fel pren da yn dwyn ffrwythau da—da i bawb yw ei arwyddair : Mat. v. 13, 14, a vii. 17—20.

II. Ewyllys a gweddi yr Apostol ar ran ei wrandawyr. "Mi a ddymunwn gan Dduw, o fewn ychydig ac yn gwbl oll: Rhuf. x. 1.

Mae bod o fewn ychydig yn rhywbeth, ond nid yw yn ddigon. Mae bod heb fod yn mhell o deyrnas Dduw yn ddymunol, ond nid yw yn ddigon; rhaid bod ynddi: Marc xii. 34. Trueni yw bod yn yr ymyl, ac yn ol yn y diwedd.

III. Helaethrwydd dymuniadau a gweddi yr Apostol ar Dduw, "Nid tydi yn unig, ond pawb hefyd a'r sydd yn fy ngwrandaw." Y rhai mawrion, y rhai bychain; Iuddewon, Cenedloedd; ïe, gelynion—ïe, y camgyhuddwyr oedd yn codi anwiredd arno gan amcanu cymeryd ymaith ei fywyd. Mae Paul yn *model* o wir Gristion. Nid yn unig yr oedd yn bregethwr mawr, ond yr oedd yn Gristion mawr; yr oedd yn meddu yn helaeth o ysbryd Crist: Luc xxiii. 34; Gal. iv. 19.

IV. Yr hyn nad oedd yr Apostol yn ei ddymuno i'w wrandawyr, dim o'r rhwymau hyn, dim o'r cystudd hyn. O ysbryd efengylaidd! Da i gyd i chwi, dim drwg. Etifeddiaeth i chwi, cyfoeth i chwi; dim tlodi. Bywyd i chwi, dim angau. Coron i chwi, dim gwarth. Cysur i chwi, dim gofid. Y cyfryw ag wyf fi mewn undeb â Christ y byddoch chwithau, ond heb y rhwymau hyn.

Profwn ein hunain a ydym yn meddu ar egwyddorion gwir Gristion—sef daioni i bawb, a dim drwg i neb. Sicrhawn ein hegwyddorion wrth eu ffrwyth: Act. vii. 60. (Hydref, 1870.)

---

## PREGETH VIII.

1 Cor. xiii. 12.—"Canys gweled yr ydym yr awrhon trwy ddrych, mewn dameg; ond yna, wyneb yn wyneb: yn awr yr adwaen o ran; ond yna yr adnabyddaf megys y'm hadwaenir."

---

MAE yr Apostol yn y testyn yn dangos mor lleied a wyddom am y byd sydd ar ol hwn. "Gweled yr ydym yr awrhon trwy ddrych"—drychau o bres oedd ganddynt yr amser hyny, ac nid o wydr fel sydd genym ni; "mewn dameg"—cyffelybiaeth, trwy ryw gydmariaeth, yn go dywyll. "Eithr nyni oll âg wyneb agored, yn edrych ar ogoniant yr Arglwydd megys mewn drych, a newidir i'r unrhyw ddelw, o ogoniant i ogoniant, megys gan ysbryd yr Arglwydd;" 2 Cor. iii. 18. Wedi myned i'r byd nesaf, byddwn yn ddiau yn gweled y cwbl yn eglur am byth. "Ond yna yr adnabyddaf megys y'm hadwaenir"—byddaf yn gweled mor berffaith ag y mae yn bosibl i'r gallu meidrol weled. Mae hyny yn ddigon i ni. Mae y Doctor Watts yn dywedyd ein bod ni yn ymyl y byd tragywyddol; pe elai yr anadl o'r corph y byddwn yn y funud yn nghanol preswylwyr y byd nesaf, a'n bod ni yn awr yn eu canol, ond nad ydym yn eu gweled. Feallai nad ydynt hwy yn ein gweled ninau.

Sylwn ar y pethau canlynol:—

I. Yn ddiau fod byd ar ol y byd hwn. Yr unig oleuni am dano yw

goleuni yr Ysgrythyrau. Er fod rhyw *instinct* yn meddwl dyn am dano, nid yw dyn yn cymodi yn ei feddwl â chael ei roddi allan o fodolaeth. Nid oedd y dysgedigion gynt yn ngoleu natur yn gallu cyduno yn y pwnc hwn—Socrates, Aristotle, Plato, Cato.

Nid oes dim yn fwy amlwg yn ngoleuni yr Ysgrythyrau na bod byd ar ol hwn. "Gosodwyd i ddynion farw unwaith, ac wedi hyny bod barn:" Heb. ix. 27. "Canys nid oes i ni yma ddinas barhaus, eithr un i ddyfod yr y'm ni yn ei dysgwyl:" Heb. xiii. 14. Medd Petr, "Wele, nyni a adawsom bob peth, ac a'th ddilynasom di. A'r Iesu a atebodd ac a ddywedodd, "Yn wir meddaf i chwi, nid oes neb a'r a adawodd dŷ, neu frodyr, neu chwiorydd, neu dad, neu fam, neu wraig, neu blant, neu diroedd, o'm hachos i a'r efengyl, a'r ni dderbyn y càn' cymaint yr awrhon y pryd hwn * * *; ac yn y byd a ddaw, fywyd tragywyddol:" Marc x. 28—30.

II. Fel mae dynion yn byw yn y byd hwn, mae yn debyg o droi byth yn y byd a ddaw.

1. Yn ol eu hegwyddorion.

2. Yn ol eu dyben yn y cwbl.

3. Ac yn ol eu hymarferion.

"Na thwyller chwi; ni watworir Duw; canys beth bynag a hauo dyn, hyny hefyd a fed efe. Oblegyd yr hwn sydd yn hau i'w gnawd ei hun, o'r cnawd a fed lygredigaeth; eithr yr hwn sydd yn hau i'r ysbryd, o'r ysbryd a fed fywyd tragywyddol:" Gal. vi. 7, 8.

III. Profwn ein hunain. Nid ydym yn gyfrifol am neb ond ein hunain yn y pwnc hwn.

1. A ydym ni yn credu yr efengyl, ac yn ei chyffesu hi. "Mai os cyffesi â'th enau yr Arglwydd Iesu, a chredu yn dy galon i Dduw ei gyfodi ef o feirw, cadwedig fyddi:" Rhuf. x. 9.

2. A ydym yn hoffi y gyfraith. "Canys ymhyfrydu yr wyf yn nghyfraith Duw, yn ol y dyn oddimewn:" Rhuf. vii. 22.

3. A ydym ni yn ymdrechu i roddi i Dduw ogoniant ei enw mewn barn a bywyd. "Pa un bynag gan hyny ai bwyta ai yfed, ai beth bynag a wneloch, gwnewch bob peth er gogoniant i Dduw:" 1 Cor. x. 31. "Byddwch ddiachos tramgwydd i'r Iuddewon ac i'r Cenedloedd hefyd, ac i eglwys Dduw: megys yr ydwyf finau yn rhyngu bodd i bawb yn mhob peth; heb geisio fy lleshad fy hun, ond lleshad llaweroedd, fel y byddont hwy gadwedig:" ad. 32, 33.

Gair:—

1. A ydym ni yn credu gwirionedd yr Ysgrythyrau? 2 Tim. i. 12.

2 A ydym ni yn ymhyfrydu yn y ddeddf? ac yn ymhyfrydu yn ei natur fel cyfrwng priodol er ein gwneud yn gymwys i allu gwir fwynhau Duw? Salm i. 2.

3. A ydym ni yn gwir ymdrechu i ogoneddu Duw yn yr oll a wnelom?

(Gorph., 1882.)

## IX.—PREGETH GYFLAWN.

Rhuf. vi. 13.—"Eithr rhoddwch eich hunain i Dduw."

CYNGOR yw y geiriau; ac er ei fod yn gyngor byr, mae ei actio yn ddigon i'ch gwneud i fyny am amser a thragywyddoldeb. Y mae rhinwedd pob cyngor yn dyferu wrth ei arfer: rhinwedd pob tystiolaeth wrth ei chredu, rhinwedd pob addewid wrth bwyso arni; ond rhinwedd pob cyngor wrth ei arfer. "Gwyn eu byd y rhai sydd yn gwneuthur ei orchymynion Ef, fel y byddo iddynt fraint yn mhren y bywyd, ac y gallont fyned i mewn trwy y pyrth i'r ddinas." Ffordd y gorchymyn yw'r mynediad i mewn i frasder a chyfoeth cyfamod ac addewidion Duw. Gynulleidfa anwyl, gofalwch fod eich traed yn rhodio llwybr y gorchymyn.

Y mae swn y cyngor ar unwaith yn disgyn ar fy nghlustiau i, fel pe byddai gan y gwrthddrychau gyferchir hawlfraint arnynt eu hunain. "Rhoddi, rhoddi;" ni pherthyn i neb roddi, ond yr hyn y mae yn ei feddu. Oni bai fod gan ddyn ryw fath o feddiant arno ei hun, ni byddai yn gyfrifol am ddim a wnelai, nac yn gosbadwy na gwobrwyol am y naill weithred yn amgen i'r llall, ac ni byddai synwyr yn y cyngor, "Rhoddwch eich hunain i Dduw." Ond bid sicr hawl fel deiliad, ac nid fel brenin; hawl fel gwas, ac nid fel meistr; fel goruchwyliwr, ac nid fel arglwydd. Y mae ar law y gwas wasanaethu y neb y myno, fel y myno, ffyddlon neu anffyddlon. Felly y mae ar ein llaw ninau roddi ein hunain i Dduw, neu ynte i rywun arall; ond cofiwch, wedi'r cwbl yr ydym yn gyfrifol i Dduw, ac yn rhwym o ddwyn canlyniad ein dewisiad. Nid yw yr uwchaf uwchlaw bod yn gyfrifol, na'r isaf islaw bod yn gyfrifol; o ganlyniad, ni ddylai y naill ymchwyddo am ei fod yn uchel, na'r llall ymesgusodi am ei fod yn isel. Cyfrifol yw'r naill, a chyfrifol yw'r llall.

Cyngor crefyddol yw y geiriau, ac y mae cwbl crefydd yn cael ei gynwys ynddynt. Y mae cychwyniad ac enaid crefydd rhwng y meddwl yn bersonol â Duw, a phob gweithrediad priodol ger bron dynion yn deilliaw fel ffrwyth. "Hwy a roddasant eu hunain yn gyntaf i'r Arglwydd, ac yna i ninau trwy ewyllys Duw."

Ni gawn sylwi ar dri pheth oddiwrth y geiriau:—

I. Y gwrthddrych y cymhellir ni i roddi ein hunain iddo, sef Duw.

II. Y cyngor—"Rhoddwch eich hunain i Dduw."

III. Rhesymoldeb y cyngor.

I. Y gwrthddrych, sef Duw. Ond pa le ceir gafael arno? Cwestiwn o'r goreu. Ond beth pe roddem gwestiwn ar gyfer cwestiwn, Pa le ni cheir gafael arno? Os cei di afael arnat ti dy hunan, dyna ti ar unwaith yn ei afael yntau. Os cei di afael ar greadur, dyna ti ar unwaith yn ngafael Creawdwr. Os cei di afael ar y gwaith, ti gei afael ar y gweithiwr. "Pob tŷ a adeiledir gan ryw un." Ië, "pob tŷ;" heb son dim am balasau mawrion, cywrain, addurnedig. Y mae cymaint o ol gweithiwr ar y bwthyn gwaelaf a'r *hut* mwyaf afluniaidd, fel yr ydym yn teimlo yn anwrthwynebol wirionedd yr ymadrodd—"Pob tŷ a adeiledir gan ryw un."

"Ond yr hwn a adeiladodd bob peth yw Duw." Y mae ol Duw ar gwbl Duw. Y mae mwy o ol meddwl, mwy o ol gweithiwr, mwy o gywreinrwydd. doethineb, ol bwriad ac amcan, ar fy mhabell briddlyd, nag sydd ar y dernyn tlysaf, cywreiniaf, gwychaf, a pherffeithiaf arluniodd dwylaw neb dynion erioed. Y mae trefn, cyfaddasder, a deheuder pethau yn profi yn anwadadwy fwriad ac amcan, oblegyd nid oes ond annhrefn a chwithdod yn canlyn dygwydd a damwain. "Yr hwn a adeiladodd bob peth yw Duw." Er ein bod ni yn ymbalfalu, a mawr les i chwi i ymbalfalu, nid oes genyf help i'r dynion diymchwil a dilafur: ond wedi'r cwbl "diau nad yw Efe yn neppell oddiwrth bob un o honom." Na; "ni adawodd Efe mo hono ei hun yn ddidyst, gan wneuthur daioni, a rhoddi gwlaw o'r nefoedd, a thymorau ffrwythlawn, a llenwi ein calon â lluniaeth a llawenydd." "Canys ei anweledig bethau Ef er creadigaeth y byd, wrth eu hystyried yn y pethau a wnaed, sydd amlwg." Beth yw ei anweledig bethau Ef? O, Efe ei hunan; "ei dragywyddol allu a'i Dduwdod." Nid oes dim eisieu i ti fyned draw nac yma nac acw, allan o honot dy hun; dim ond i ti astudio dy hun, ac agor dy lygaid ac edrych o'th gwmpas ar adeilad fawr creadigaeth Duw, a dyna ti yn ngafael y gwrthddrych. "Yr hwn a adeiladodd pob peth yw Duw." Ond wedi pob ymchwiliad am dano yn y greadigaeth, 'chei di afael ar ddim ond Creawdwr; ac mewn rhagluniaeth, dim ond Cynaliwr, ac yn ei lywodraeth, dim ond fel Arglwydd; ond yn ngoleuni yr Ysgrythyrau, fe'n harweinir i adnabyddiaeth o hono fel Duw yr iachawdwriaeth, yn ei fwriadau grasol, yn nghyfryngdod ei Fab, yn maddeu anwiredd a chamwedd a phechod, "yn cymodi y byd âg Ef ei hun heb gyfrif iddynt eu pechodau," ac yn eu cymwyso i gael rhan o etifeddiaeth y saint yn y goleuni. A! gynulleidfa; y mae ein Duw ni nid yn unig yn Greawdwr ftyddlawn ac yn Gynaliwr pob peth ac yn Arglwydd pawb oll, nid yn unig efe yw ein Brenin, ein Deddfwr, a'n Barnwr; ond "ein Duw ni sydd Dduw iachawdwriaeth, ac iddo y perthyn ddiangfeydd rhag marwolaeth." A chyngor grasol yn hytrach yw y geiriau i chwi a minau, i roddi ein hunain i fyny i Dduw yn ei drefn i gael ein hachub i fywyd tragywyddol. Am hyny, rhydd yw swnio y cyngor i'ch clywedigaeth—"Rhoddwch eich hunain i Dduw."

II. Y cyngor. "Rhoddwch eich hunain i Dduw." I bwy? i'r mwyaf. I bwy? i'r uwchaf. I bwy? i'r goreu. I bwy? i dy berchen. Y mae genyf air i'w ddywedyd,—Peidiwch a rhoddi eich hunain i neb ond y sawl a'ch piau, onite chwi wnewch gam â chwi eich hunain, yn gystal a cham â'ch perchen; a peidiwch a rhoddi eich hunain i neb llai na chwi eich hunain, na neb gwaeth na chwi eich hunain. Na, na; o roddi eich hunain, rhoddwch eich hunain i rywun a allo wneud rhywbeth drosoch chwi; beth bynag, gofalwch na byddo y fargen ddim yn eich gwaethygu. Y mae hyn yn *sense* mewn natur, ond y mae yn *sense* dwbl mewn crefydd. "Rhoddwch eich hunain i Dduw." Am ïe, meddai rhywun yn ddigon hunanymwadol, nid wyf ddim yn werth iddo fy nghael i. Garw mor hunanymwadol yr wyt ti, a gwyn fyd pe bai mwy o dy debyg di; ond gwrandaw,

gwerth neu beidio, y mae Duw am danat ti, a gwerth neu beidio y mae Duw wedi rhoddi gwerth mawr arnat ti, a gwerth mawr am danat ti. "Yr hwn nid arbedodd ei briod Fab, ond a'i traddododd ef drosom ni." Mawr wyf yn synu! mawr yr wy' i'n synu!! ond felly y bu. Oes, oes, y mae gwerth mewn dyn. Er ei fod wedi ei gracco, llestr aur yw ef serch hyny. Y mae cymaint o werth mewn dyn, fel nad oedd modd ei brynu âg arian ac aur; na, nid oedd dim llai na "gwerthfawr waed Crist, megys oen difeius a difrycheulyd," a digon o werth ynddo i dy brynu di a minau. A chan fod gan y nefoedd y fath olwg arnom, peidiwn ninau a meddwl yn amgen am danom ein hunain. Y mae perygl i ni roddi llai o werth arnom ein hunain, yn gystal a gormod o werth. Ac nid oes dim i wybod, er gwaeled dy lun di a minau, na wna Duw ryw dlysau ardderchog o honom gwerth i'n dangos ger bron angelion, ac i harddu ac addurno parwydydd gwlad y gogoniant, "yn arwyddion, ac yn rhyfeddodau, ac yn enw tragywyddol i Arglwydd y lluoedd." Ac y mae genyf air arall i'w ddywedyd: os nad yw yn werth i Dduw dy gael di, ai nid yw yn werth i ti gael Duw? Nid oes neb yn cael rhoddi eu hunain i Dduw, nad yw Duw yn rhoddi ei hunan iddynt hwythau. O eiriau grymus! "Myfi a fyddaf yn Dduw iddynt, myfi a fyddaf yn Dduw iddynt." Am hyny rhydd yw swnio y cyngor—"Rhoddwch eich hunain i Dduw." Pwy faint? ho, cymaint o faint wyt ti. 'Does dim i'w shario mewn corph na meddwl. Gwasanaethu Duw mewn corph ac ysbryd yw crefydd. Yr holl feddwl, yr holl enaid, a'th aelodau yn arfau cyfiawnder i Dduw. Pwy bryd? yn awr. Am yr hyn sydd wedi myned heibio nid oes gan lawer ond wylo, ac am y dyfodol nid oes genym ond ameu. Gan hyny, yr awrhon, na chaledwch eich calonau; rhoddwch law i'r Arglwydd. Pwy c'yd? ho, am byth. Nid yw Duw yn delio â neb yn y pwnc hwn, ond am dragywyddoldeb. Eithaf y cyfamod cryfaf a berthyn i'r bywyd hwn yw, hyd oni wahano angeu. Ond dyma gyfamod ddeil angeu, trwy angeu, wedi angeu, ac i dragywyddoldeb. "Mi a wnaf gyfamod tragywyddol â chwi." Pa sut? fel yr wyt ti; fel yr wyt ti y llwyddi di, a heb fod fel yr wyt ti ni lwyddi di byth. Ie, yr wyf yn euog; wel, rho' dy hunan iddo yn euog. "Duw yw yr hwn sydd yn cyfiawnhau yr annuwiol." Ie, yr wyf mewn dyled nas gallaf byth ei thalu; ond rho' dy hunan iddo i gael dy glirio; yn aflan, i gael dy olchi; yn afiach, i gael dy feddyginiaethu; yn rhwym, i gael dy ryddhau; yn noeth, i gael dy wisgo; yn dlawd, i gael dy gyfoethogi. Ie, fel yr wyt ti yn dy holl waith a'th drueni, i Dduw yn ei drefn i gael gwneuthnr dy ddiffyg i fyny am amser a thragywyddoldeb. Y mae Duw yn ei drefn yn llawn ddigon ar dy gyfer. Gan hyny, "rhoddwch eich hunain i Dduw." Ie, rhoddi, rhoddi. Nid oes dim gorfodi ynddi. Rhoddi sydd yn yr iachawdwriaeth o ben bwy gilydd. Rhoddi y Mab a wnaeth y Tad, a rhoddi ei hunan wnaeth y Mab—rhoddi trugaredd, rhoddi maddeuant, rhoddi yr ysbryd, ïe, a rhoddi ei hunan. Ac y mae yn rhaid ein gweithio ninau i weithredu yr un egwyddor wirfoddol tuag at Dduw ag y mae Duw yn ei drefn yn ei hactio tuag atom ninau. Rhoddi, a rhoddi

ei hunan ; ac yn y pwnc hwn nid yw neb yn gyfrifol ond am dano ei hunan ; ac y mae hyny yn llawn ddigon. Y mae genyf air i'w ddywedyd,—Y mae yn rhaid i ni roddi ein hunain i rywun, a rhaid i ni roddi ein hunain naill ai i'r goreu neu i'r gwaethaf ; ac i'r neb yr wyt ti yn rhoddi dy hunan iddo, yn meddiant hwnw y byddi di am byth. O ddynion, treiwch feddwl i bwy yr ydych yn rhoddi eich hunain.

Eto, ychydig. Pa gyffelyb ? (1) Fel y milwr i'w frenin, i wisgo ei *ivery*, i gario ei arfogaeth, i gyflawni ei wasanaeth, i fyw ar ei fwrdd, ac i ymladd ei ryfeloedd. A gwrando, ni raid i ti ymladd â bychan na mawr, ond â phechod yn unig. A gwaith fy mrodyr a minau yw myned o amgylch i *recruto* milwyr i Frenin Seion. Ac y mae genyf air i'w ddyweyd : ni rhaid i chwi ofni listio dan ei faner ef. Beth, ai nid yw y gelyn yn gryf? a'r elyniaeth yn benderfynol ? a'i gyfrwysdra yn fawr ? ai ni fydd y frwydr yn boeth ? Bydd, bydd, rhaid addef. Y mae ein gwyneb ni yn erbyn y "cryf-arfog ; " mae ei fyddinoedd yn lluosog ; mae ei elyniaeth yn gynddeiriog, a'i fedrusrwydd yn fawr. Gwir, gwir, nad yw ein hymdrech ni yn erbyn gwaed a chnawd yn unig, ond yn erbyn tywysogaethau ac awdurdodau, yn erbyn llywiawdwyr tywyllwch y byd hwn, yn erbyn drygau ysbrydol yn y nefolion leoedd. Bydd, bydd, hi fydd yn frwydr ofnadwy, yn galw am y gwyliadwriaeth manylaf, a'r egni mwyaf: ond cymer galon, y mae bywyd pob milwr wedi ei *insurio*. O'r Crimea ! Crimea ! nid oes ond wylo wrth feddwl am dano, lle mae ein bechgyn talion, glewion, medrus, wedi syrthio yn dail i'r ddaear ; os buddugoliaeth, buddugoliaeth yn costio bywyd y miloedd bob tro. Ond yma y mae pob milwr i fod yn ddiangol, ac i ddychwelyd adref â'i fywyd ganddo, yn "fwy na choncwerwr," i fwynhau y fuddugoliaeth am dragywyddoldeb. Dyma galon i fyned allan i ryfel, digon o gynaliaeth, a bywyd pob milwr wedi ei sicrhau. Y mae holl gynaliaeth a chadernid Victoria a Napoleon yn eu milwyr ; am hyny, gorfoledded penaduriaid y ddaear yn eu milwyr. Ond y mae holl gynaliaeth a chadernid milwyr Seion yn eu Brenin ; am hyny "gorfoledded meibion Seion yn eu Brenin." Holl nerth y filwriaeth, a sicrwydd yr oruwchafiaeth, yw eu Brenin. "Gorfoledded meibion Seion yn eu Brenin." Dan ei faner ef, gynulleidfa ! Cofiwch. 'does dim o'r *press* yn cael ei ddanfon allan gan Frenin Seion. Y mae yn dygwydd weithiau fod breninoedd y ddaear yn gorfod danfon y *press* allan am filwyr ; ond am deyrnas Mab Duw, ŵyr hi ddim am y fath egwyddor. Gwirfoddolwyr, bob un ! "Os myn neb ddyfod" yw egwyddor ei deyrnas Ef. Ond y mae genyf air i'w ddyweyd : y mae yn derbyn y merched yn gystal a'r meibion, a'r gwragedd fel y gwŷr. Nid oes neb yn rhy ieuanc, na neb yn rhy hen ; na neb yn rhy dlawd, na neb yn rhy gyfoethog ; neb yn rhy dâl, na neb yn rhy fyr. Y mae yn derbyn y claf fel yr iach, y cloff a'r clwyfus ; 'does neb yn cael ei wrthod. Gan hyny, "rhoddwch eich hunain i Dduw," fel y milwr i'w frenin.

(2) Fel yr ysgolaig bach i ofal ei feistr, i ddysgu y gwersi sydd yn ei gymwyso i droi yn anrhydeddus yn y cylch y penodir iddo ei lanw yn y

byd. Y mae arnom ninau eisieu ein dysgu. A pwy sydd yn dysgu fel efe? Y mae yn gwneuthur y gwirion yn ddoeth i iachawdwriaeth.

(3) Fel y claf i ofal ei feddyg, i gymeryd ei gyffeiriau, a dilyn ei gyfarwyddiadau, ac arfer pob peth yn ol y *prescription*. A mawr mor fanwl y gwelais y claf cyn hyn, yn cofio pobpeth, yr awr a'r funud i gymeryd y chwerw mor foddlawn a'r melus; ond wedi'r cwbl, er pob manylwch ac ymroad, yn marw dan law y meddyg. Ond 'does neb yn cael rhoddi ei hunan i fyny i Feddyg Seion, ac yn ffyddlawn i arfer pob peth yn ol ei gyfarwyddiadau, ac yn cael marw dan ei ddwylaw Ef. Ie, medd rhywun, a ydych chwi yn deall fy nghlefyd? y mae fy mhla yn anaele, mae fy nghyfansoddiad drwyddo yn ddrwg, nid oes arnaf fán iach na chyfan, o'r gwadn i'r coryn. Wel, gad i hyny fod. Y mae Meddyg Seion yn abl dy greu di o newydd os bydd eisieu; y mae yn gwella pob clefyd a phob afiechyd yn mhlith y bobl. Dyma sydd ar barwydydd yr ysbytty—"Cwbl iachau." Wel, y mae rhai o honoch ynddi er ys deugain mlynedd, ac heb ddyfod yn iach eto. Ydym, ydym, ond nid oes yma neb erioed wedi marw dan ei law, na dim un wedi myned adref heb fod yn dyst i'r peth sydd ar furiau yr ysbytty—"Cwbl iachau." Ac er ein bod ninau yma er ys deugain mlynedd, ac heb wella, y mae yn rhydd i ni ddwyn tystiolaeth i'r Meddyg, ei fod wedi myned dan wraidd ein dolur, y mae ein bywyd allan o berygl, y mae dail y pren yn cytuno â'r dolur. Ac y mae yn werth i ni arfer amynedd am ychydig, ni gawn dragywyddoldeb i fod yn iach ar ol cyraedd gartref. Gan hyny, "rhoddwch eich hunain i Dduw," fel y claf i'w feddyg.

4. Fel yr ymfudwr i ofal y llywydd a'r llong. Y mae y dyn ifanc wedi meddwl am Awstralia, ac y mae yn benderfynol i groesi drosodd. Wel, gwyr e' *navigation?* Na, wyr e' na daearyddiaeth na seryddiaeth na moryddiaeth. Prin y gwyr e' ar lyfr. Wel, yn sicr, rhyw ddot sydd wedi codi yn ei ben. Nage, fawr; mae miloedd mor ddwl ag yntau wedi croesi yno yn ddyogel. Wel, pa sut? os nad wyr e' y naill na'r llall. Wel, y mae llong, a llywydd, ac *office* yn Liverpool, wedi ei hagor o bwrpas i dderbyn ei fath ef; a 'does eisieu dim ond rhoddi ei enw yn yr *office*, a rhoddi ei hunan i'r llywydd a'i long. Wel, beth sydd rhyngddo a'r dyfnder? Dim ond y llywydd a'r llong. Beth sydd ganddo am gyraedd yno? Dim ond y llywydd a'r llong. Felly, os yr ydych chwi a minau am groesi yn ddiangol dros gefnfor peryglus amser i'r wlad ddyeithr yr ydym yn rhwym iddi, rhoddwch eich hunain i Gadben mawr ein hiachawdwriaeth, ac efe a â chwi yn ddiangol, er pob perygl, i'r porthladd dymunol. Y mae yn dygwyddo yn aml, er cael llong o'r fath oreu a llywydd cyfarwydd, fod y llong a'r llywydd a'r dwylaw a'r ymfudwyr ar y bwrdd yn myned i'r dyfnder. Ond am long yr iachawdwriaeth, "ni bydd colled am einioes neb os arosant yn y llong." Ni chollwyd neb erioed ar ei bwrdd hi. Ac y mae rhai o honom yn y llong er ys deugain mlynedd; ac heb groesi eto? Ië, ac heb foddi ychwaith. Ydyw, y mae ein Cadben wedi ein harwain heibio i greigiau ofnadwy, a sugndraethau peryglus, ac er tonau cynddeiriog a gwyntoedd gwrthwynebus; ac y mae ein bywyd yn

ddyogel hyd yma, ac yr ydym yn penderfynu aros yn y llong, doed a ddelo. Wel, beth sydd genych am gyraedd y porthladd? Yr un peth ag a'n dygodd hyd yma. Beth yw hyny? Dim ond y llywydd a'r llong; ac y mae hyny yn llawn ddigon. Oblegyd y mae y gwynt yn ei ddyrnau, a'r tonau yn llonyddu ar ei air. Gan hyny, "rhoddwch eich hunain i Dduw," fel yr ymfudwr i'r llywydd a'r llong. Ac y mae genyf air i'w ddyweyd—Y mae'r *passage* wedi ei glirio. Os oes rhywbeth yn meddwl rhai o honoch chwi am Awstralia, gofalwch fyned â chymaint yn eich llogell ag a gliria y *passage* beth bynag, onite chwi fyddwch ar ol. Ond yma, nid yn unig y mae y llong yn barod, a'r Llywydd cyfarwydd ar ei bwrdd, a'r *office* wedi ei hagor, ond y mae'r *passage* wedi ei glirio. Beth sydd eisieu eto? Dim ond rhoddi dy hunan i'r Llywydd, a thyna ti yn ddyogel er pob peryglon.

III. Rhesymoldeb y cyngor. 1. Efe yw ein perchen "Gwybyddwch mai yr Arglwydd sydd Dduw, efe a'n gwnaeth ni ac nid ni ein hunain, ei bobl ef ydym, a defaid ei borfa." "Hiliogaeth Duw" ydym ni. Ac y mae yn resyn i ti fyw ar ei fwrdd Ef, a rhoddi dy hunan i'w elyn Ef. "Eiddo Cæsar i Cæsar, a'r eiddo Duw i Dduw."

2. Ni elli di ddim byw hebddo. Pe gellit fyw hebddo a pheidio byw arno, byddai rhyw synwyr i ti beidio byw iddo; ond gan nas gelli y naill na'r llall, yn enw pob rheswm, a rhag cywilydd, rho dy hunan iddo.

3. Y mae yn gofyn am danat, ac yn addaw dy dderbyn.

Tri gair:—1. Gwelwn wynfydedigrwydd y neb sydd yn rhoddi eu hunain i Dduw. Y mae doethineb Duw i'w harwain, y mae ffyddlondeb Duw i'w dilyn, y mae gofal Duw i'w gwylio, y mae gallu Duw i'w cynorthwyo, y mae cyfoeth Duw i'w diwallu; ïe, y mae nefoedd Duw i fod yn gartref iddynt, a Duw oll yn oll i fod yn ffynonell eu dedwyddwch am byth.

2. Y mae y neb sydd yn gwrthod rhoddi eu hunain i Dduw yn ymddwyn yn groes i'w cydwybodau eu hunain, ac yn groes i'w rheswm eu hunain, yn gystal ag yn groes i Air Duw. O ganlyniad, y maent yn cario tyst yn eu mynwesau a ddaw gyda hwynt i'r frawdle fanwl yn eu herbyn. Ac y mae yn well i chwi gael mil miliwn o dystion yn eich erbyn tu allan i chwi, na chael un tyst yn eich mynwes. Ac y mae un yn y fynwes o'ch ochr yn fwy na byd cyfan yn eich herbyn. "Canys os ein calon a'n condemnia, mwy yw Duw na'n calon: efe a wyr bob peth; ac os ein calon ni'n condemnia, y mae genym hyder ar Dduw." O, gynulleidfa, gofalwch am eich cydwybodau.

3. Y mae y neb sydd yn gwrthod rhoddi eu hunain i Dduw yn gwneud cam â'u henaid eu hun, yn gystal a cham â'u Perchen. A dyma gam! Pwy a'i uniawna? a phwy a esmwytha deimlad y neb sydd dano? Gwnaeth arall gam â ni; y mae yn dipyn o eli i'r clwyf i allu dyweyd—Mi a gefais gam. Ond y dyn sydd yn gwneud cam âg ef ei hun, nid gwiw iddo droi hyd yn nod i'w fynwes ei hun am gydymdeimlad. Gan hyny, "rhoddwch eich hunain i Dduw." Dyma ffordd i dawelu eich cydwybodau, a ffordd i chwi uniawni y cam, a dyma ffordd i chwi ogoneddu yn ei drefn. Bendith arnoch, Amen. (Tachwedd, 1846.)

# PENOD XIV.

CYNWYSIAD.

Egwyl yn hwyr y dydd—Y meddwl yn parhau yn fywiog—Ymweliadau y Parch. H. Oliver a Morien—Cymdeithasfa Crug-glas, Abertawy, 1886—Yn gwrando ei frodyr; adgofion o'i sylwadau—Rhan o lythyr—Cymdeithasfa y Porth, 1887—Cyfarfod Misol Tonyrefail—Ymweliad y Parch. John Hughes, Liverpool—Adgofion dau Sabboth ar Donyrefail, Medi 18fed, 1887, ac Ebrill 28ain, 1888—Yn graddol wanhau—Sefyllfa ddedwydd ei feddwl—Bedyddio gor-or-wyres, Chwefror, 1889—Ymweliad Dr. John Thomas, Liverpool, 1890—Adgofion ereill—Yn cael ei gaethiwo i'w ystafell—Y diwedd—Yr angladd—Llythyrau at y teulu—Cyfeiriadau y newyddiaduron ac amrywiol ysgrifau coffadwriaethol—Cyfarfod Misol Dwyrain Morganwg—Cymdeithasfa'r De a'r Gymanfa Gyffredinol—DIWEDDGLO.

YMAE Mr. Evans wedi traddodi ei bregeth olaf. Y mae ei ddydd gwaith ar ben. A threfnwyd gan ei Arglwydd iddo gael egwyl yn hwyr y dydd cyn ei symud i dragywyddol orphwysfa y saint. Y mae yn beth dymunol i gael bod mewn gwaith hyd ddiwedd yr einioes, ac i gael marw yn ngwisg yr offer gweithio. Ond y mae prydferthwch mawr yn yr olygfa ar weithiwr llafurus ar ol gorphen ei orchwylion yn gorphwys yn hamddenol a dedwydd yn ei dŷ a gyda'i deulu yn oriau'r hwyr. Y cyfryw olygfa sydd yn awr i ddyfod ger ein bron. Ac ni a gawn hefyd esiampl amlwg o wirionedd yr hyn a ddywed y Salmydd: "Y rhai a blanwyd yn nhŷ yr Arglwydd a flodeuant yn nghynteddau ein Duw. Ffrwythant eto yn eu henaint, tirfion ac iraidd fyddant." Canys er fod llesgedd corph wedi ei oddiweddyd, yr oedd meddwl Mr. Evans yn parhau yn hynod fywiog, ac nid oedd trai ar barodrwydd ei ddawn a'i arabedd. Rhoddai dderbyniad serchog i'r ymwelwyr lluosog a aethant o bryd i bryd i'w weled ef, a dywedai rywbeth wrth bob un ohonynt nad

annghofir ganddo. Bu un gŵr mor ddiniwed a dyweyd wrtho ei fod wedi myned yno o bwrpas i'w weled; ar hyny cododd ar ei draed a throdd oddiamgylch, a dywedodd wrtho, "Dyna, a ydych wedi'm gweled yn awr?" Un arall wrth fyned ato a ddywedodd, "Y mae chwant eich gweled wedi bod arnaf." Ei ateb ydoedd, "Pe buasai yn gryf iawn, buasit wedi dyfod i'm gweled cyn hyn." A dyma engraifft ychwanegol o barodrwydd ei atebion. Gofynodd rhywun iddo, "A ydych yn meddwl y cawn ni ddiwygiad eto?" "Os na chawn, ni gawn ein bara beunyddiol." Buasai y Parch. Henry Oliver, B.A., gynt o Bontypridd, yn ymweled âg ef yn 1886, ac ysgrifenodd hanes yr ymweliad mewn erthygl yn yr *Evangelical Magazine* dan y penawd, *The Recollections of a Nonagenerian* (Rhifyn Medi, 1886, tud. 414). Yr ydym yn dyfynu y brawddegau canlynol:—"Mr. Evans' style of preaching is peculiarly his own. * He holds the breathless attention of his hearers from beginning to end. We often heard him from thirty to twenty years ago; and even now that eloquent tongue has not forgotten its cunning. * * He betrays no trace of the common infirmity of old age to speak of former days as better than these. On the contrary, he maintains that the Gospel was never preached with greater fervour and in greater fulness than in the present day. His hopefulness might well bring a blush to many a youthful cheek." Gwnaeth Mr. Oliver mor garedig a danfon iddo rhifyn o'r *Evangelical Magazine* yn cynwys yr erthygl; a phan yn ei darllen un bore, dygwyddodd Mr. Owen Morgan (Morien) fyned i mewn i'r ystafell ato, a bu ymddyddan maith a bywiog rhyngddynt, ac ymddangosodd ysgrif yn golofn o hyd gan Morien yn rhoddi hanes ei ymweliad yntau â Thonyrefail yn un o bapyrau dyddiol Caerdydd. Y mae un crybwylliad yn yr ysgrif hono ag sydd yn newydd i ni, sef mai yn nghapel eglwysyddol St. John, y Capel Bach a gyfeiriwyd ato yn y benod gyntaf, y derbyniodd Mr. Evans y cymundeb am y waith gyntaf. Y mae yn sicr mai yn

anaml y gweinyddid yr ordinhad o Swper yr Arglwydd yn nghapel Tonyrefail yn yr adeg y derbyniwyd ef yn aelod eglwysig. Nid oedd ond tri gweinidog ordeiniedig heblaw Mr. Howell Howells, Trehill, yn Morganwg yn 1814. Y mae cyfrif arall i'w roddi am y peth. Yr offeiriad yn gweinyddu yn y Capel Bach oedd Mr. Evan Prichard, Collena. Ei frawd, Mr. R. Prichard, oedd wedi bedyddio William Evans. Ac yr oedd y fath gyfathrach rhwng y ddau deulu, fel nad oedd yn annaturiol fod dymuniad gan Mr. Evan Prichard i roddi ei gymundeb cyntaf iddo, ac yr oedd yn hollol foddlawn i wneud hyny, er nad oedd William Evans wedi derbyn bedydd esgob. Cofier hefyd nad oedd ond tair blynedd er y neillduad cyntaf yn y Cyfundeb, ac nid oedd y linell derfyn rhwng yr enwadau Esgobyddol a Methodistaidd mor glir ac amlwg ag ydyw yn bresenol. Y mae yn ameus genym a gymunodd Mr. Evans fwy nag unwaith yn y Capel Bach. Ar yr un pryd yr oedd yn ddigon rhyddfrydig ei syniadau ac eang ei gariad brawdol ar hyd ei oes, fel y gallai yn hawdd gymuno, neu weinyddu yr ordinhad pe gelwid arno, mewn cysylltiad âg unrhyw eglwys Gristionogol.

Yn y Gymdeithasfa Chwarterol a gynaliwyd yn y Crug-glas, Abertawy, Tach. 9fed, 10fed, a'r 11eg, 1886, hysbysodd y Llywydd fod gair wedi d'od oddiwrth yr hybarch dad—William Evans, Tonyrefail, yn cydnabod gyda diolchgarwch dderbyniad y llythyr a anfonwyd ato o'r Gymdeithasfa ddiweddaf.

Y Parch. D. Thorne Evans, Abertawy, a ddywedai ddarfod iddo ef gael y fraint o dreulio amryw oriau gyda yr hybarch dad, ac yr oedd yn llawn mor fywiog a hoenus ei ysbryd ag y gwelodd ef erioed. Yr oedd wedi bod yn rhoddi iddo ef (Mr. Thorne Evans) ddarluniad o'r hen bregethwyr, ac hefyd yn clorianu y prif bregethwyr presenol; a gofynodd am iddo ei gofio at y Gymdeithasfa, a dywedai am iddynt "beidio edrych ar yr eiddynt eu hunain;" ac yn ddiweddaf oll cyflwynodd 5p. tuag at y casgliad neillduol i dalu ymaith

ddyled y Genadaeth Gartrefol. A gwahoddodd Mr. Thorne Evans ereill yn y Gymdeithasfa i ddilyn esiampl y Parch. W. Evans. Cynygiai fod llythyr o gofion a diolchgarwch yn cael ei anfon ato oddiwrth y Gymdeithasfa, yr hyn a basiwyd yn unfrydol.

Gan nad oedd Mr. Evans yn alluog i fyned oddicartref ar y Sabbothau megys cynt, ac eto yn abl i fyned i'r capel o leiaf un pen i'r dydd, yr oedd yn cael cyfleusdra i wrandaw lluaws o'i frodyr, a byddai yn hollol rydd i ddyweyd ei feddwl wrthynt. Os gwelai ôl llafur ar bregeth, byddai yn canmol y pregethwr. "Da 'machgen i, ti wnest ymdrech gyda'r bregeth hona." "Mi wnes fy ngoreu, Mr. Evans," ydoedd ateb un brawd. "Da iawn, mae yn rhaid i ni wneud ein goreu." Dystaw yn hytrach fyddai os nad wedi ei foddloni. Yr oedd un gweinidog galluog wedi pregethu ar y Ton ar noswaith, ac wedi cysgu yn ei dŷ; ac wedi cadw dyledswydd bore dranoeth, dywedodd Mr. Evans wrtho, "Yr oeddych yn gweddio yn well yn awr nag oeddych yn pregethu neithiwr." Wrth fyned tua'r capel dro arall gyda brawd enwog sydd yn medru dyhysbyddu pob mater ag y mae yn ymdrin arno, ac am hyny yn tueddu i fod yn faith, dywedodd, "Pregeth fer yr wyf fi yn hoffi, ond ei bod hi yn *stout*." Cafwyd pregeth fer a galluog; ac nid oedd diwedd ar ei ganmoliaeth o honi pan yr oeddym gydag ef yn fuan ar ol hyny. Cymharai ddau ereill fel hyn:--"Yr oedd y naill yn trin ei bwnc yn fedrus, ond yr oedd y llall yn trin y dynion." Os wedi cael ei fawr foddloni mewn pregeth, weithiau gofynai i'r pregethwr, "B'le ce'st ti'r bregeth yna? pregeth ofnadwy oedd hona." Ac un tro aeth mor bell a dyweyd fod y bregeth wedi ei adgofio am Mr. Ebenezer Morris. Dyna y feirniadaeth uchaf ag y gellid ei dysgwyl oddiwrtho ef. Er ei fod yn cydnabod fod tri neillduol a enwid iddo yn deilwng i'w cymharu â Mr. Charles, Caerfyrddin, Mr. John Elias, a Mr. Ebenezer Morris, eto hyd y diwedd yr oedd Mr. Ebenezer Morris yn sefyll ar y pinacl uchelaf yn ei olwg ef.

Os yn nghanol myfyrdod dwys, ac wedi ymgolli i bob peth o'i amgylch, neu ynte yn llesg a lluddedig, byddai enw Ebenezer Morris yn sicr o'i ddeffroi a'i adfywio.

Aeth y Parch. Edward Matthews i'w weled un tro, ac nid oedd yn ei adnabod. "Pwy sydd yma?" meddai. "Ebenezer Morris," atebodd Mr. Matthews. Gyda'r gair yr oedd yn adnabod ei hen gyfaill yn ddigon da. Ychydig iawn cyn iddo ffaelu pregethu, yr oedd gyda dau neu dri o frodyr ieuainc yn cadw cwrdd pregethu yn Nhrefforest. Yr oedd wrth ei fodd yn eu gwrandaw, a mawr werthfawrogai eu gweinidogaeth, a dywedodd yn gyhoeddus, gan gyfeirio at un ohonynt ag y bu iddo dad yn bregethwr da a phoblogaidd—"Mae yn well pregethwr o'r haner na'i dad." Agos yr un amser yr oedd mewn oedfa, ac wedi gwrandaw un o feddylwyr galluocaf yr oes; ar derfyn y gwasanaeth, dywedodd wrtho—"Cynulleidfa fach oedd genych chwi." "Nage, Mr. Evans; yr oedd y capel yn llawn." "Oedd, oedd, ond cwpl bach oedd yn eich dilyn chwi." Buasai yn nod arbenig ganddo ef ar hyd ei yrfa weinidogaethol hirfaith, nid yn unig a defnyddio ymadrodd o'i eiddo ef ei hunan, i "ddyweyd rhywbeth yn nghlyw y bobl, ond hefyd i ddyweyd rhywbeth wrthynt." Yn y Cyfarfod Dosbarth, byddai yn hynod o gartrefol gyda'r pregethwyr ieuainc. Un tro, gofynodd iddynt—"A ydych chwi yn gallu gwaeddi ambell adnod yn eich pregethau, nes y bo'r bobl yn crynu? Fe wnelai hyny eich pregethau yn werth pum' punt. Ymdrechwch ati, 'mechgyn i. Yr wyf fi wedi pasio gyda'r saint o'r naill ben i'r wlad i'r llall. Beth, a ydych yn canmol eich hunain? 'Does dim eisieu i neb fod mor ffol a pheidio gwybod ei faint."

Y mae o'n blaen lythyr a ysgrifenwyd gan Mr. Evans yn Ebrill, 1887, oddiwrth yr hwn y gwelir ei fod yn mawr deimlo ei lesgedd. Dywedai ynddo, "Yr wyf yn ymladd â marw er dechre mis Mawrth, a chred fi, ymdrech galed yw ddydd a nos. Yr wyf yn gorfod meddwl, pe bawn yn ddigon duwiol,

mai ymostwng a wnawn yn lle ymdrechu o hyd." Mae yr ymadroddion hyn yn ein hadgofio am ateb a roddwyd ganddo i rywun a ddaethai i edrych ei hynt: "Sut yr ydych, Mr. Evans?" meddai y cyfaill, ar ei waith yn myned i'r tŷ. Ei ateb ydoedd, "Dyma lle yr wyf ar lán y bedd, ond yn ymgadw mor bell oddiwrtho ag y gallaf." Erbyn mis Mai yr oedd yn well, a pharhaodd yn hynod o iach a bywiog dros yr hâf. Prydnawn dydd Mercher, y 29ain o Fehefin, aeth i'r Porth, Rhondda, i'r Gymdeithasfa oedd yn cael ei chynal yno ar y pryd. Aeth y llywydd, y Parch. T. Levi, a Dr. Saunders, ar gais y Gymdeithasfa, drosodd i Donyrefail, i'w gyrchu yno. Llwyddasant i gael ganddo i fyned, a mawr oedd llawenydd y frawdoliaeth i gael golwg arno, y chlywed ei lais unwaith yn rhagor. Yr ydym yn dodi i mewn hanes ei ymddangosiad o flaen y Gymdeithasfa, fel y daeth allan yn y rhifyn o'r *Goleuad* am Gorph. 9fed, 1887:

"Y PARCHEDIG WILLIAM EVANS, TONYREFAIL.

"Yr oedd yn llawenydd mawr gan ugeiniau oedd yn bresenol gael gweled yr hybarch dad, William Evans, Tonyrefail, yn bresenol yn y Gymdeithasfa. Ac yr oedd edrych ar yr hen dad o Donyrefail, mor *sharp*, ac yn edrych mor iach a chryf, gyda gwallt mor drwchus, ac yn enwedig meddwl ei fod yn dad i Mr. D. Evans, ac yn daid i'r Parch. William Evans, yn peri i ni dybio ei fod mewn gwth o oedran; ac yr ydym yn deall ei fod yn mron a chyraedd ei bedwaredd-mlwydd-ar-ddeg-a-phedwar-ugain, '*just* yn gant,' chwedl yntau. Yr oedd rhai o'r brodyr mwyaf adnabyddus âg ef wedi cael ar ddeall nad oedd yn bwriadu d'od i'r Gymanfa, ac fe benderfynwyd anfon cerbyd i'w ymofyn, a bod dau neu dri o'i gyfeillion i fyned yn y cerbyd a llwyddasant i gael ganddo dd'od gyda hwy, ac yr oedd yn dda gan ugeiniau oedd yn y Gymdeithasfa gael un golwg arno; ac yr oedd yn rhagorol o dda ganddo yntau gael un golwg ar y Gymdeithasfa, ond yr oedd yn methu dal yr olwg heb fyned i wylo yn hidl, a

phan y gwelodd efe Dr. Thomas, 'O! Owen anwyl,' meddai, ond nis gallai ddyweyd ychwaneg gan ei deimladau. Pan y galwodd y Llywydd am air ganddo, ac y cododd yntau, talwyd gwarogaeth iddo gan y gynulleidfa trwy godi ar ei thraed oll.

"Y Llywydd a ddywedodd ddarfod iddo ef a Dr. Saunders fyned i Donyrefail i ymofyn Mr. Evans, ond eu bod wedi cael eu trin yn chwerw ganddo am fyned, a diau fod pawb yn hiraethu am gael gair ganddo.

"Parch. William Evans a ddywedai nas gwyddai yn iawn pa beth i ddyweyd. Nid oedd ef wedi meddwl d'od i'r Gymanfa; ond cyn iddo ef godi o'i wely, aeth Mr. Levi a Dr. Saunders yno fel dau geisbwl—dros y Gymdeithasfa, meddent hwy; a gwaeth na'r cyfan, fe'i cynorthwyid hwy yn y gwaith o'i gychwyn gan y wraig, ac felly bu raid iddo dd'od, a hyny fel carcharor. Ond yr oedd un golwg ar y Gymdeithasfa a'i hen gyfeillion yn talu yr holl gostau a'r drafferth, a byddai iddo fyned adref yn fwy calonog nag y bu er's talm, oherwydd yr oedd yn teimlo ei fod gartref yn y Gymdeithasfa, a chyda'i hen gyfeillion. Dywedai ei fod yn awr yn tynu yn mlaen—yn ymyl ei 93 mlwydd oed—ac wrth edrych yn mlaen nid oedd ganddo ond gobeithio—yr oedd yn sicr fod ganddo 'obaith,' a gobaith ddaliai hefyd. Byddai yn lled ddigalon yn aml, a phan y byddai yn lled isel ar ei feddwl ac yn methu cael yr un adnod, byddai y wraig yn d'od âg adnod iawn iddo; a pheth mawr iawn i ddyn oedd fod ganddo wraig allai ddyweyd adnod wrtho. Erfyniai am iddynt oll weddio llawer drosto.

"Dr. Saunders a gynygiodd fod y Gymdeithasfa yn llawenhau wrth weled Mr. Evans yn ein plith, ac yn rhoddi y derbyniad siriolaf iddo, ac yn dymuno iddo brydnawnddydd teg. Yr oedd gan lawer ohonynt adgofion melus ac anwyl am Mr. Evans. Un o'r pethau cyntaf a gofiai ef oedd ei gofio yn pregethu, ac yr oedd yr adgofion hyny yn gysegredig ganddo byth. Byddai yn dda ganddo ef fyned yn ol o ran ei

feddwl ambell dro at rai nas gwelodd mo honynt erioed, ond bydd ymlyniad mwy yn ei fynwes wrth rai o'i gydnabyddion, a bydd ei hiraeth yn fawr am gael aros gyda hwy byth. Felly yr oedd ei deimladau yn nglŷn â Mr. Evans; dymunai ar iddynt oll gofio am dano yn'eu gweddiau, am nodded Duw arno o hyn i'r diwedd; a hyderai, pa bryd bynag y dêl yr alwad am iddo groesi, y bydd cenedl ar eu gliniau yn gofyn am iddo gael y glyn yn oleu.

"Dr. Thomas a gefnogai y cynygiad. Yr oedd gweled yr hen dad—y Parch. William Evans—yn bresenol, wedi dwyn llawer o adgofion iddo ef, ac yr oedd ei deimladau y cyfryw fel na allai ddyweyd ond ychydig iawn. Yr oedd yn ei gofio yn pregethu yn Bangor yn y flwyddyn 1833, ac yr oedd ei lais y pryd hyny fel cloch arian; yr oedd yn cofio ei destyn yn eithaf da—'Canys ein byr ysgafn gystudd ni sydd yn odidog ragorol yn gweithredu tragywyddol bwys gogoniant i ni.' 'Pe buaswn yn medru,' meddai, 'buaswn yn dyweyd ychydig o'i bregeth, ond gan ei fod yma gwell i mi beidio.' Ar hyn gwaeddai y gynulleidfa arno fyned yn mlaen. 'Yr oedd,' meddai Mr. Thomas, 'wedi codi i ysbryd hapus tua chanol y bregeth, ac yr oedd ei lais mor felus, ac meddai, Yr ydych yn agos iawn i afon Menai yn Bangor yma, ond gallai eich bod yn nes i afon angeu, a beth fyddai i ni fyned i roddi *peep* i edrych pa beth sydd o gylch ei glanau. Yr ochr yma mi welaf gystudd, ond yr ochr draw gogoniant. Yr ochr yma ysgafn gystudd, a'r ochr draw bwys gogoniant. Yr ochr yma mi welaf fyr ysgafn gystudd, ond yr ochr draw mi welaf dragywyddol bwys gogoniant.' Ar hyn neidiodd y Parch. William Evans (yr hwn oedd yn eistedd o flaen Dr. Thomas) ar ei draed, ac meddai gan droi at y gynulleidfa, ''Phregethais i ddim ond y Beibl, ond naddo?' Yr oedd rhyw drydan rhyfedd wedi myned tros yr holl gynulleidfa wrth wrando Dr. Thomas yn adrodd yr hyn a nodwyd. Yna aeth Dr. Thomas yn mlaen, a chyfeiriodd at amryw oedfeuon grymus gafodd Mr. Evans ar y testyn, 'Gollwng ef yn rhydd,

mi a gefais Iawn,' ac 'Arglwydd y lluoedd a wna i'r holl bobloedd yn y mynydd hwn wledd o basgedigion, gwledd o loyw-win; o basgedigion breision, a gloyw-win puredig.' Cyfeiriodd hefyd at ei ymweliad â Llundain, yr hyn a fu o fendith fawr i'r eglwysi yno. Dymunai am iddo gael bod o hyn i'r diwedd o tan dywyniad Haul y Cyfiawnder, a phan ddel yr alwad y caiff fynediad helaeth i mewn, fel llong o dan ei llawn hwyliau.

"Yna pasiwyd y penderfyniad yn nghanol arwyddion cyffredinol o deimlad; ac wrth ddiolch am y caredigrwydd a'r sirioldeb, anogai Mr. Evans ar ein bod yn ymdrechu bod yn well na phawb; nid oedd dim drwg yn hyny mwy nag oedd mewn i'r ffermwr fod yn well ffermwr na neb arall, a phwy a allai feio dyn am ymdrechu fod yn fwy duwiol na neb? Hunan ydyw hyny, meddai rhai, feallai; hunan, wir: beth ydyw dyn ond ef ei hunan?

"Ar ddiwedd y cyfarfod aeth lluaws mawr i gael ysgwyd llaw â Mr. Evans, llawer am y tro cyntaf, a llawer am y tro diweddaf. Synem ei weled yn edrych cystal, a syniad llawer un ydoedd y gall fyw eto am flynyddau."

Dyma y Gymdeithasfa ddiweddaf i Mr. Evans fod ynddi cyn cael ei alw i fyny i gymanfa gyffredinol y rhai cyntafanedig yn y nefoedd. Ar yr 2il o Gorphenaf, ysgrifenai Mrs. Evans:—"He is better in health and in spirits after being at the Gymanfa. Dr. Saunders and Mr. Levi acted to him as two sons. You would have smiled to see them putting on his gaiters; when Mr. Levi began with one, Dr. Saunders said—'Mi fynaf inau yr anrhydedd o ddodi y llall.' He looked well, and they went away happily in a comfortable conveyance. I need not tell you I was glad to see him return." Cyn diwedd yr un flwyddyn, yr oedd hefyd wedi gweled Cyfarfod Misol Morganwg am y tro diweddaf, sef pan yn gynulledig ar Donyrefail ar y 23ain a'r 24ain o Dachwedd. Yr ydym yn cymeryd yr hyn a ganlyn o'r cofnodion:—

"Daeth y Parchedig hen dad W. Evans i mewn yn ystod

y cwrdd, yn edrych yn wridgoch a sionc, a'i wyneb yn nefol o hawddgar, gan fynegu, mewn dagrau, ei serch atom er mwyn ein Meistr a'i waith, a'i annheilyngdod ei hun. Cododd pawb ar eu traed, er parch a chroesaw iddo, a phasiwyd ein bod yn amlygu ein llawenydd wrth ei weled yn ein plith; yn mawrygu gras Duw ynddo, yn ei ddal am gynifer o flynyddoedd mewn defnyddioldeb mawr, a'n bod oll yn cymeryd addysg oddiwrtho i werthfawrogi cymeriad pur a bywyd sanctaidd, fel addurn penaf gweinidogion yr efengyl, gan ddymuno iddo ef, pan ddaw yr adeg, fynediad helaeth i lawenydd ei Arglwydd."

Bu y Parch. John Hughes, M.A., Liverpool, yn ymweled âg ef yn Medi, 1887, ac fel hyn yr adrodda yr hanes:—"Yr olwg gyntaf a gefais arno oedd un hollol nodweddiadol o hen bregethwr—ei spectol ar ei lygaid, a'r Ysgrythyrau a'r Dyddiadur ar y bwrdd o'i flaen. Darllenai yn Llyfr Job ar y pryd, ac yr oedd y gair cyntaf a lefarodd yn brawf fod ei fyfyrdod yn ddwfn ynddo. 'Dyma fi,' meddai, 'yn ymyl tragywyddoldeb, ac heb wybod dim am dano.' Yr oedd yn dra phrydferth yr olwg arno, a chnwd o wallt toreithiog ar ei ben. Yr oedd yn dra difyr a dyddorol, ac yn llawn adgofion am yr hyn a fu. Yr oedd y gŵr yn hen, ond y pregethwr yn ieuanc ac yn fyw, a chyda chyflyrddiad rhyw air o sylw neu ofyniad, cyfodai y pregethwr i'r golwg yn ddisymwth fel cerub allan o arch. Cawsom aml ddarn o bregeth rhwng cromfachau yn nghanol yr ymddyddan; ac yr oedd yn hyfryd genym glywed y llais clochaidd peraidd, a gweled ysbryd yr hen bregethwr mor fyw ac mor lawn o efengyl ar lan y bedd."

Treuliasom Sabboth, y 18fed o Fedi, 1887, ar Donyrefail. Yr oeddem wedi cysgu nos Sadwrn yn nhŷ ein chwaer yn y Cymar; ond yr oeddem yn ei dŷ ef erbyn wyth o'r gloch bore Sul, a chawsom hwynt ar frecwast. Yr oeddem yn clywed ei lais yn siarad yn uchel cyn agor y drws, a phan aethom i fewn gwelsom ar unwaith ei fod mewn hwyl ragorol, ac yr

oedd yn falch iawn ein gweled wedi dyfod mor gynar. Yr oedd y Parch. J. Puleston Jones, Bala—yn awr Bangor—wedi myned drosodd o'r Porth i ymweled âg ef nos Sadwrn; a phan yn ymadael dywedai ei fod yn myned i alw yn nhŷ ei wyres yn y Cymar, a'i fod yn dysgwyl cwrdd â'i ŵyr yno. "Dywedwch wrtho," meddai, "am dd'od mewn pryd bore yfory."

Wedi gorphen brecwast, dechreuodd holi os oeddem yn cofio beth oedd hwn a'r llall o'r hen dadau wedi ei ddyweyd; ac yna adroddai, weithiau ar dop ei lais, ei hoff hanesynau am yr hen bregethwyr a'u dywediadau. Er ein bod wedi clywed y rhan fwyaf ohonynt o'r blaen, a rhai pethau fwy nag unwaith, eto yr oedd blas newydd arnynt. Ac fel hyn y daliodd yn mlaen am yn agos i awr, gan sefyll ar ei draed yn mron yr holl amser, nes yr ofnem ei fod wedi gorchfygu ei hunan, ac y byddai yn analluog i fyned i'r capel. Ond ar ol eistedd am bump neu ddeng munud y mae yn dechreu holi beth ar y gloch oedd hi, a phob dwy neu dair munud mae yn tynu allan ei oriawr i edrych yr amser; ac y mae yn myned yn anesmwyth am gael bod yn barod i gychwyn i'r oedfa mewn pryd.

Ar y ffordd o'r tŷ i'r capel, dywedodd—"Penod fer, a gweddi fer, a phregeth fer, yr wyf fi yn hoffi;" ac adroddodd am rywun oedd wedi bod yno yn ddiweddar, a'i fod wedi dyweyd wrtho nad oedd wedi dysgu pregethu yn fyr. Pan y daethom i olwg y capel safodd, a dywedodd—"Y mae yn dda gen' i weled y capel yna, yn sefyll ar ei ben ei hun, heb ddim yn cyffwrdd âg e' na dim yn ei guddio, ac yn edrych mor dda, ac yn ddiddyled," gan bwysleisio ar y gair diweddaf. Yr oeddym yn y capel ychydig funudau cyn yr amser, ond gyda bod yr awrlais yn taraw deg, yr oedd yn rhaid dechreu. Eisteddai yn hollol ddystaw dan y pwlpud hyd at y bregeth, ac yna symudwyd ei gadair, fel y gallai edrych yn ngwyneb y pregethwr. Wedi cymeryd y testyn a dechreu ar y bregeth, trodd efe at y blaenor oedd tu cefn iddo, a

dywedodd yn uchel nad oedd yn clywed dim; ac felly bu rhaid codi'r llais ar unwaith i gywair uwch, a gwrandawodd yntau yn astud hyd y diwedd. Cyhoeddwyd cyfarfod eglwysig i fod ar ol, i wrandaw adnodau y plant. Eithr cyn i'r plant gael dechreu dyweyd eu hadnodau, y mae yr hen weinidog yn sefyll ar ei draed, ac yn traddodi un o'r anerchiadau mwyaf effeithiol a glywyd erioed o'i enau. Yr oedd yn llawn o'i hen dân, ac yn llefaru gyda bywiogrwydd a grymusder annghyffredin, nes yr oedd pawb yn y lle mewn syndod mawr wrth edrych arno, ac mewn teimlad mawr wrth wrandaw arno. Buasai yn dda iawn genym pe buasem wedi gallu cofio pob gair a ddywedodd y tro hwn. Ond dyma rhai o'r brawddegau:—"Mae yn beth mawr," meddai, "i ddeall yr efengyl fel cyfundraeth, fel cynllun, fel trefn; ond yn beth mwy i adnabod ei hysbryd hi, ac i fod dan ei dylanwad. Yr oedd y bachgen,—bachgen yr wyf fi yn ei alw, oblegyd ŵyr i fi yw e',—yn pregethu yn gelfyddydol; mi glywais cystal, ond 'chlywais i ddim gwell: eithr y mae arnom eisieu pregethwyr sydd yn gallu peri i'r gwrandawyr fyned adref bob un ar ei ben ei hun—mae eisieu peri i'r bobl deimlo. Beth oedd enw yr hen bregethwr yn sir Frycheiniog a wnaeth i James Penblaen deimlo?" "Dafydd Parry," meddem. "Ie, Dafydd Parry. Fe ddywedodd ar ryw achlysur, Mi rof i chwi geiniog os gellwch chwi wneud iddo fe deimlo. O! atebai James Penblaen, nid wyf ddim yn ddideimlad, ai ydwyf? Dyna fe wedi ei waedu. Mae eisieu gwaedu'r dynion, fel ag i'w dwyn i waeddi am eu bywyd." Ac yna wrth fyned yn mlaen aeth ar draws y gair, un o'i hoff destynau, "Cymer afael yn y bywyd tragywyddol," gan ei ail adrodd gyda phwyslais cynyddol, "'Cymer *afael*, cymer AFAEL.' 'Fel yr ymaflwyf yn y peth hwn yr ymaflwyd ynof.' Mae rhai yn meddwl fy mod i yn myned yn ormod i dir y dyn. Ond mi gadwaf fy mhen, a'm cydwybod hefyd, yn ngwyneb y Beibl, trwy ddal a gwasgu fod yn rhaid i'r dyn ymaflyd a chymeryd gafael. Mae gafael y dyn yn wan; ond y mae

gafael Duw yn gryf, ac y mae gafael dyn yn gryf pan yn cymeryd gafael yn ei afael Ef." Daliodd ati am tua chwarter awr mewn hwyl fawr, fel pe buasai yn cyfarch y miloedd ar faes y Gymdeithasfa, weithiau yn codi ei lais at floedd nerthol. Mewn gwirionedd yr oedd yno le rhyfedd, ac yn olygfa nas gallwn byth ei hannghofio.

Wrth ddychwelyd tua'r tŷ ar ol yr oedfa cyfeiriodd eto at y capel. Adroddai pan y gofynodd i'r diweddar Mr. David Jones, Penarth, gynt o Bristol, y cynllunydd, beth oedd ganddynt i'w dalu iddo am y cynlluniau a'i arolygiaeth dros y gwaith o adeiladu, mai ei ateb ydoedd, "Dim, ond i chwi ddyfod acw i bregethu." Eithr, bid sicr, ni chaniataodd efe hyny, a gosododd bum' punt yn ei law i'w rhoddi i Mrs. Jones. Ac ychwanegodd, wedi adrodd hyn, "Fe gostiodd y capel i ni drichant-ar-ddeg, ac ni dalasom yr oll mewn ychydig flynyddoedd." Yr oedd hyny yn fater o foddlonrwydd mawr iddo.

Wedi dybenu ciniaw dychwelodd ddiolch fel hyn, "Diolch i ti am dy drugareddau yn eu rhinwedd a'u blas, a dyro ras i ni dy wasanaethu mewn barn a bywyd, a maddeu ein beiau trwy Iesu Grist. Amen." Yn mhen ychydig funudau, mae yn galw ein sylw at y darlun cyntaf o'r Cenadon Hedd, oedd yn crogi uwchben y lle tân, ac yn dyweyd—"'Dym ni ond tri yn awr," gan godi ar ei draed, a chymeryd ei ffon yn ei law, i gyfeirio at luniau y rhai oedd yn aros, sef Mr. Edward Matthews, Dr. Owen Thomas, ac ef ei hun. "Pictwr pert yw hwna," meddai: "wyddoch chwi pwy sydd ar fy nghyfer i?" "Mr. Prytherch o sir Fon." "Ie. Yr oedd e' yn llawn tân. Mewn rhyw Gymanfa, pan yr oedd e' a'r ddau Richards yn bresenol, dygwyddodd i Mr. Thomas Richards wneud y sylw, fod dyn wedi ei wneud o bridd. Ac fe ddywedodd Mr. Ebenezer Richard, 'yr wyf yn meddwl fod fy mrawd wedi camsynied; mae mwy o dân nag o bridd ynddo fe, gan gyfeirio at Mr. Prydderch.'" Dywedasom wrtho, fod yn rhaid i ni fyned i weled Mr. Fred. Herepath, yr hwn oedd

ar y pryd yn glaf yn nhŷ ei frawd yn y pentref. "Bydd hyny yn *sense* ac yn ras," oedd ei ateb. Ar ol gweled Mr. Herepath buom yn yr ysgol; ac wedi dychwelyd i'r tŷ buom dan arholiad manwl yn nghylch y claf, ac hefyd gyda golwg ar yr ysgol. Yn ngwrs yr ymddyddan ar ol tê, aeth ar draws hanes Dafydd yn lladd Goliath, ac yr oedd yn myned dros yr holl fanylion gyda'r dawr mwyaf, ac mewn dull oedd yn ymylu ar fod yn ddramayddol. Yr oedd wedi annghofio enw Abner, a dywedai, "Bu amser pan yr oedd yr holl enwau ar flaenau 'mysedd i."

Pan yn myned i'r capel, i'r oedfa chwech, galwodd ein sylw at y nifer mawr oedd wedi eu claddu yn y fynwent, a dywedodd, "Y fi gladdodd y cyntaf yma—plentyn i Evan fy mrawd." Yr oedd gŵr ieuanc yn adrodd penod ar ddechre y gwasanaeth, ac yn adrodd yn dda iawn; ac yr oedd yntau yn mwynhau yr adroddiad yn fawr. Wrth ddychwelyd o'r oedfa cafodd gyfleusdra i ymddyddan âg un o'r gwrandawyr, a dywedai gyda chyfeiriad at fater y bregeth—"Chwi ddylech dd'od i'r *society* nos Iau nesaf, chwi a'ch gŵr. A ddewch chwi? Eich mater chwi eich hunan ydyw. 'Alla'i ddim credu dros neb, ond drosof fy hunan." A pharhaodd yn mron yr holl ffordd i'r tŷ, i gymell y wraig ieuanc yn y modd mwyaf gwresog i ymuno â chrefydd. Wedi myned i'r tŷ cafwyd yr un feirniadaeth ag yn y bore, gyda golwg ar bregethu celfyddydol, ond dywedodd wrth y pregethwr, "Yr oeddit ti yn gwybod beth yr oeddit yn ei bregethu, ac nid pawb sydd felly."

Yr oedd yn hynod o iach a siriol drwy y dydd, ac yn gwbl wrth ei fodd. Ac wrth ymadael dywedodd wrthym, "Diolch i chwi am dd'od, ac yn enwedig am dd'od mor brydlawn bore heddyw." Yr oeddem yn dychwelyd nos Sul i'r Cymar.

Treuliasom Sabboth arall gydag ef ar yr 28ain o Ebrill, 1888. Yr oedd yn fwy llesg y waith hon na'r tro blaenorol. Ni fu allan ond yn y bore. Ac ni chafwyd anerchiad ganddo yn y cyfarfod eglwysig ar ol yr oedfa. Yr oedd ei glyw wedi

myned yn drymach, fel nad oedd yn gallu clywed dim o'r gwasanaeth. Eto, yr ydoedd yn weddol iach, ac yn dra siriol. Ysgrifenodd yn ei ddydd-lyfr ar gyfer y dyddiad, ei fod yn 93 mlwydd oed, ac ymsynai yn fawr, ac eto gyda graddau o foddlonrwydd, uwchben y ffaith; a mwy nag unwaith y dywedodd, "Nid oes ond saith mlynedd rhyngof a bod yn gant." Fel hyn y gofynodd fendith o flaen y boreu-fwyd, "Dy fendith ar ein byrddau, ar estyniad ein dyddiau, ac ar waith y dydd, trwy Iesu Grist. Amen." Dyma ei fendith o flaen y ciniaw, "Nertha ni yn ein meddyliau, i fod yn ddiolchgar am dy holl drugareddau, trwy Iesu Grist." Ac fel hyn y talodd ddiolch ar ol tê, "Gwna ni yn wir ddiolchgar am ein trugareddau, a maddeu ein hanystyriaeth, er mwyn Iesu Grist."

Wrth fyned tua'r capel dywedodd, "Pregeth fer, ond ei bod hi yn *stout*." Wrth ddychwelyd o'r oedfa, er nad wedi clywed dim, nac wedi teimlo ei hunan yn alluog i roddi cyfarchiad yn y cyfarfod eglwysig, eto yr oedd yn hynod ddedwydd, ac yn adgofio yr hyn a ddysgid iddo gan ei dad pan yn blentyn, ac yn myned dros yr hanes am dano ei hun yn adrodd darn o waith Williams, Pantycelyn, ac yn canu ar achlysur neillduol, pan nad oedd ond un bychan. Gyda'i fod yn gorphen yr hanes, mae yn canu un o'r penillion ar ei hyd, a hyny ar ganol y ffordd, eithr gan ofalu i beidio tynu sylw. Ar ol ciniaw, dywedodd fod ganddo ddefnydd anerchiad i'w dyweyd yn y cwrdd eglwysig ar ddiwedd yr oedfa y bore. "Os oeddynt am fod ar y tir dyogelaf i fyned i'r byd nesaf, am iddynt ddechreu yn ddigon bore. Yr oedd e' wedi gwneud defnydd da o'r bore; oni bae hyny, ni fuasai yn gallu gwneud dim yn awr."

Ymholai am y Gymdeithasfa a gynelid yr wythnos flaenorol yn Nghastellnedd, ac yn neillduol y pregethu. A daeth yn naturiol i gyfeirio at yr hen Gymanfaoedd; dywedodd—"Fi ges fy ngweithio yn onest ganddynt, yn mhob Cymanfa, ac yn fynych gyda Mr. Elias; ac y mae hyny yn syndod i mi."

Ac yna dywedai am Mr. Elias—"'Doedd e' yn debyg i neb ond iddo ei hunan. Pan yn cymeryd ei destyn, yr oedd bob amser yn defnyddio yr ymadrodd—'Rhan o Air yr Arglwydd.'"

Yn nghwrs ein hymddyddan, nid wyf yn cofio y cysylltiad, dywedodd—"'Ddadleuaf fi ddim â chwi. Wyddoch chwi beth ddywedodd Mr. Elias? Teg yw y rhesymwr, cadarn yw yr Ysgrythyrwr, ond ynfyd yw yr hwn a ddadleuo." Dyma sylw arall a wnaeth—"Y dyn ei hun sydd yn gwneud ei hunan yn dlawd neu yn gyfoethog; ar yr un pryd y mae goruwchlywodraeth Duw yn bod."

Daeth perthynas i'w weled, ac wedi i mi wneud y sylw am dano ei fod yn edrych yn dda, ei atebiad ydoedd—"Ydyw, yn rhy dda; buasai yn dda gen' i weled tipyn o glem arno, ond heb iddi fod yn glem gwneud. 'Does gen' i fawr golwg ar y pregethwyr hyny nad oes rhyw arwydd arnynt ag sydd wedi ei gwneud gan Rywun heblaw nhw eu hunain."

Er fod gwendid henaint yn pwyso yn drymach arno na phan fuom am Sabboth o'r blaen gydag ef, mae y crybwyllion uchod yn dangos fod ei feddwl yn parhau yn rymus a bywiog.

Ysgrifenodd Mrs. Evans atom ar y 12fed o Ionawr, 1888, fel hyn:—"The weather is so severe that your grandfather is not able to leave the house, but he is in a very comfortable state of mind. When he awoke this morning he repeated the 10th verse in the 5th chapter of the Romans, dwelling especially on the words—'Mwy o lawer, wedi ein heddychu, y'n hachubir trwy ei fywyd Ef.' He said he had never seen the fulness of salvation in so strong a light, and said—'O! how I should like to preach on those words once more.' The spirit is willing, but the flesh is weak." Ac yn wanach yr oedd y cnawd yn myned, er ei fod yn hynod iach, fel yr oedd ar brydiau yn dra eiddil a methedig, ac weithiau yn gymaint felly fel ag i fod yn farw i bethau'r byd hwn. Dyma'r sefyllfa yr oedd ynddi pan yr ymwelwyd âg ef ar y

15fed o Ionawr, 1889; "ond yr oedd yn fyw i'w grefydd, ac i wleidyddiaeth, ac yn llawn fwriadu rhoddi ei bleidlais yn yr etholiad oedd i gymeryd lle dranoeth (y Cyngor Sirol)." Ar y 5ed o Chwefror, bedyddiodd ei or-orwyres, Catherine Truman, ac yr oedd yn alluog i fyned trwy y gwasanaeth mewn modd dymunol. Yn mhen mis, namyn un diwrnod, sef dydd Llun, y 4ydd o Fawrth, yr oeddym ar Donyrefail yn claddu ein hanwyl chwaer hynaf, Mrs. Truman. Yr oedd yn bresenol gyda'i merch-yn-nghyfraith yn medydd ei hwyres, ac yn y mwynhad o'i hiechyd arferol. Cafodd ei tharaw gan glefyd trwm, ac ar ol ond ychydig ddyddiau o ddirfawr boen, bu farw dydd Mawrth, y 26ain o Chwefror. Yr oedd yn nodedig am ei duwioldeb, am ei defnyddioldeb fel athrawes yn yr Ysgol Sul, ac am ei rhagoroldeb fel gwraig a mam. Ar ol yr angladd buom am awr gyda'n taid, ac ni a'i cawsom yn iach, yn fywiog, ac yn llawn cydymdeimlad. Yr oedd "fel arfer" ar y 10fed o Gorphenaf, "ond yn doredig iawn." Dywedai yn ddwys, ei "fod yn aeddfedu yn rhwydd i'r bedd, a hefyd yn ddios yn aeddfedu i'r nefoedd." Nid oes dim neillduol i'w grybwyll am dano yn y misoedd dilynol hyd ddiwedd 1889, nac yn wir am y ddeufis cyntaf yn 1890, oddieithr yn unig ei fod yn disgyn, er yn araf, i'r glyn—mor araf, fel yr oeddym yn dal i obeithio y cawsai fyw i fod yn fab can' mlwydd. Dydd Mercher, y 19eg o Fawrth, 1890, bu y Parch. Dr. John Thomas Liverpool, yn ymweled âg ef, ac yr ydym yn cael hanes yr ymweliad yn y *Tyst a'r Dydd* am Mawrth yr 28ain o'r un flwyddyn. Yr ydym yn sicr y bydd yn dra derbyniol gan ein darllenwyr:—

"Pan gyraeddasom i'r tŷ, ac yr arweiniwyd ef i'r ystafell atom, cefais ef yn llawer mwy llesg nag y dysgwyliais, a dywedid ei fod y pythefnos diweddaf wedi cael anwyd, yr hyn sydd wedi effeithio yn fawr arno. Mae o ran ei ffurf yn union fel cynt, ac nid yw wedi curio ond ychydig yn ei wedd, a phan ar ei draed saif yn lled union-syth. Mae ei wallt cyrliog, melynliw, oedd unwaith mor euraidd yr olwg arno,

wedi myned yn wyn fel y gwlan, ac y mae yn cadw ei brydferthwch, os nad yn wir yn myned yn fwy felly; a'r olwg lanwedd, drefnus oedd arno yn ei wneud yn wir barchedig ei ymddangosiad. Y llygaid a ddygai fwyaf o arwyddion henaint. Mae y gloewder a'r tanbeidrwydd oedd ynddynt wedi cilio; ond pan y cyffyrddir â'r wythien, chwedl yntau, gyda rhyw hen adgofion, y mae ei wyneb yn dysgleirio, ond fod ei deimladau yn aml yn ei orchfygu nes peri iddo wylo yn fawr. Mae yn ymyl ei 95 oed. Am y pum' munud cyntaf wedi iddo ddyfod atom, ofnais nas gallasem ddeffroi ei feddwl. Ond pan y crybwyllais enw hen gyfaill iddo, ac un nad oes neb o'r pregethwyr sydd yn aros y mae ei syniad mor uchel am dano, cyffrodd, ac meddai yn gynhyrfus, 'Dyna ch'i wedi taro ar y wythien,' a chyda hyny torodd i wylo; ac yna adgofiai ei gyfarfyddiad â hwnw pan ar ei daith gyntaf i'r Gogledd er's mwy na 60 mlynedd yn ol. Yna dechreuais siarad am Ebenezer Morris, a Thomas Richards, ac Ebenezer Richards; ac erbyn hyny yr oedd wedi llwyr ddeffroi. Codai ar ei draed pan y byddai ganddo ryw sylw i wneud. Am Ebenezer Morris y syniai uchaf. Barnai mai efe oedd y pregethwr mwyaf er ddyddiau Paul; ond yr oedd yr holl bregethwyr gynt y trodd eu henwau i fyny ar eu penau eu hunain. Cyfeiriai at ddarlun 'Cenadon Hedd,' a dywedai mai dim ond tri oedd yn aros, 'Owen Thomas, William Evan, ac Edward Matthew.' Gwnaeth gyfeiriad at Henry Rees: ''Fe oedd y pregethwr perffeitha' fu erioed yn ein Corph ni,' meddai.

* * * * * *

"Gofynai yn sydyn, 'B'le mae mistres?' 'Mae hi yma,' meddwn inau, 'yn eistedd wrth eich cefn chwi, yn gweled ac yn clywed y cwbl.' 'O, o'r goreu. Y neb sydd yn cael gwraig sydd yn cael rhodd gan yr Arglwydd. *Cael*, welwch, nid *cymeryd*.' 'Ie,' meddwn inau, '*cymeryd* gwraig o ferched y Philistiaid wnaeth Samson, onide?' 'Ie,' meddai yntau mewn munud, 'a hen filen oedd hi—mi dynodd ei lygaid e'

—ond mi dynodd yntau y tŷ am eu penau hwythau.' Crybwyllais rywbeth wrtho ei fod bron wedi cyraedd oedran Mr. Williams, Llanwrtyd. 'Mae un o'n bechgyn wedi gweddio er's llawer dydd am i fi gael byw i oed Llanwrtyd. Tipyn o weddi enwadol oedd hi, rhag i ni fod ar ol.' Dywedai hyny gyda'r *sarcasm* oedd deilwng o hono yn nyddiau ei nerth. Trodd enw Mr. Gladstone i fyny mewn rhyw gysylltiad. 'Mae'r dinc ganddo fe,' oedd y cwbl a ddywedodd, ac yr oedd hyny yn ddigon. Mae ei gôf yn fyw iawn fel yr elo yn ol, a chyda siarad am bregethu a'r hen bregethwyr y mae yn deffroi. Yr oedd yn falch iawn o'n gweled. Nid oes dim yn ei loni yn fwy na gweled rhai yn galw i'w weled; a dywedai Mrs. Evans fod yn dda ganddi i ni dd'od i'w gyffroi i fyny. Gofynodd i mi lawer gwaith pryd y gwelwn i Owen Thomas, ac am ei gofio ato; a phob tro y crybwyllai ei enw torai i lefain. Nid yw mor gryf ag oedd Mr. Williams, Llanwrtyd, yn ei oedran, ac y mae yn dadfeilio yn fwy graddol, er y gall fyw yn hynach. Mae yn dda genyf i mi gael egwyl i alw i'w weled, a chael ymgom mor ddyddan âg ef. Mae yr holl oes i'r hon y perthynai efe wedi myned, a'r rhai sydd ugain mlynedd yn ieuengach yn henafgwyr, yn araf ddringo o gryfder i bedwar ugain mlynedd. Boed i'r hen bregethwr doniol, ar ol oes hir o lafur diball, ddiwedydd da."

Ysgrifenai Mrs. Evans ar y 30ain o Fawrth, ei fod lawer yn well. "*He says he wants nothing* ond calon ddiolchgar am yr holl freintiau y mae yn dderbyn." Prydnawn dydd Gwener, y 9fed o Fai, cymerasom ein diweddar frawd-yn-nghyfraith, Mr. William Dawkins, Pembroke, i'w weled, ac yr oedd yn hynod siriol, er yn dra llesg. Diolchodd yn gynes i Mr. Dawkins am fyned i'w weled, a dywedodd wrtho pan yn ymadael, "*I like you very much, I like your character best; character is the only thing that will go with us into the other world.*" Yr oeddym yno drachefn, dydd Llun, y 13eg o Hydref, ac erbyn hyny yr oeddym yn gweled cyfnewidiad ynddo,—yr

oedd yn wanach, nis gallai fyned o'r naill ystafell i'r llall heb gymorth; a phan y dychwelodd, ac yr eisteddodd yn ei gadair, cododd ei ddwylaw yn synedig, ac edrychai hefyd mewn syndod at y gwendid oedd ynddo. Ymadfywiodd ychydig ar ol cael tê, a thalodd ddiolch: "Derbyn ein diolch am dy drugareddau i roddi ychydig nerth i ni ar ein taith tua thre', yn unig trwy gyfryngdod ein Harglwydd a'n Hachubwr, Iesu Grist, i'r hwn, yn undeb y Tad a'r Ysbryd Glân, y byddo'r mawl yn ddi-ddiwedd. Amen." Aeth dros y geiriau yn araf, ac yn bwysleisol. Dyma'r geiriau diweddaf y clywsom ni ef yn eu dyweyd; a dyma'r tro olaf i ni ei weled yn fyw. Yn mhen ychydig ddyddiau ar ol hyny, ymwelwyd âg ef gan y Parchn. Griffith Ellis, M.A., Liverpool; William Lewis, Pontypridd; a'r Proffeswr Owen Prys, M.A., Trefecca; Mr. Ellis yn benaf oedd yn ymddyddan âg ef; a dywedodd Mr. Evans wrth ei briod—"Un i maes o'r cyffredin yw e', onte? ac y mae y rhai hyny yn brin." Erbyn dechre mis Tachwedd yr oedd yn llawer gwanach, ac yn cael ei gyfyngu yn gwbl i'r ystafell wely; dim afiechyd na phoen, eithr yn unig gwendid hollol: eto, yr oedd yn parhau i godi bob dydd. Yr oedd bellach yn cael ei deimlo nas gallai dydd ei ymddattodiad fod yn mhell. Ar yr 21ain o Dachwedd, ysgrifenai Mrs. Evans, "*There is great change. He may survive till the morning.*" Ond ymadfywiodd y diwrnod canlynol ar ol noswaith esmwyth. Ysgrifenwyd atom ar y 23ain: "Nid oes a fyno â siarad dim, dim ond cysgu mewn tawelwch." Ac ar y 25ain: "Mae yn dal ei dir heb fyned yn wanach. Mae yn ddios ei fod yn iach, ac fe ddichon yn holliach; dim ond gwendid teg, yn gynyrch yr ymddatodiad mwyaf naturiol." Daeth rhyw gymaint yn gryfach y dyddiau dilynol. Ysgrifenai Mrs. Evans ar y 1af o Ragfyr: "*Your dear father is sitting in his easy chair in the bedroom, and seems very happy, only he does not eat anything to speak of.*" Cawsom air ar y 7fed, ei fod "yn well o lawer na'r dysgwyliad; y mae yn

aros lawer o arwyddion bywyd." Ar y 9fed yr oedd yn bwyta yn well, ac ar ol bwyta yn canu ei hen hoff benill,—

"Megys llestr hen a drylliog."

Ond er pob arwyddion dymunol, gwanhau yr ydoedd yn raddol; ond mor raddol, fel mai braidd y canfyddid hyny, ac ar brydiau gellid meddwl ei fod yn adenill ei nerth. Hyd yn nod Ionawr yr 21ain, 1891, ysgrifenai Mrs. Evans:—"*Your dear father is much stronger, and improves in his appetite. He is very wishful to see you.*" Ar dderbyniad y newydd cysurus hwn, yr oeddym yn llawn o'r gobaith o gael ei weled yn nechre Chwefror, ac yn trefnu i fyned i Donyrefail dydd Gwener, y 5ed o'r mis hwnw. Aethom i fyny i Gaerdydd y dydd blaenorol i'r amcan hyny, eithr y newydd pruddaidd ar ein gwaith yn cyraedd Caerdydd ydoedd, fod ein hanwyl daid wedi dianc er 2 o'r gloch y bore hwnw. Yr oedd ein tad wedi bod gydag ef y diwrnod cyn hyny, ac wedi aros yn hwyr; a chyn ymadael gofynodd i'w dad os oedd yn gysurus, ac atebodd yntau, "Ydwyf." Nid oedd dim arwydd fod ei ymadawiad yn ymyl. Modd bynag, syrthiodd ein hanwyl daid i gwsg esmwyth, ac yn yr hûn a roddwyd iddo gan yr Hwn oedd wedi gwylio drosto drwy ei oes hirfaith ehedodd ymaith ei ysbryd i'r nefoedd. Bu ei farwolaeth yn werthfawr yn ngolwg yr Arglwydd, canys yr oedd ei angeu yn esmwythdranc, a'i ddiwedd yn dangnefedd; ac nid oes ameuaeth y cafodd fynediad helaeth i lawenydd ei Arglwydd.

Er nad oedd y newydd am ei symudiad ond yr hyn oedd i'w ddysgwyl wrth ystyried ei oedran mawr, eto derbyniwyd yr hysbysiad gyda theimlad o alar cyffredinol. Ac yn anaml y dangoswyd y fath amlygiad o barch i goffadwriaeth yr ymadawedig. Yn ol yr adroddiad yn y newyddiaduron, daeth rhwng tair a phedair mil o bobl yn nghyd i'r claddedigaeth y dydd Mawrth canlynol, y 10fed o Chwefror. Heblaw y ddau fab, ac yn mron yr oll o'r wyrion a'r gorwyrion a'r ddwy ororwyres, yr oedd yn bresenol nifer mawr o berthynasau ereill.

Hefyd, yr oedd y rhan fwyaf o weinidogion Morganwg, a lluaws mawr o flaenoriaid yr eglwysi o bob parth i'r sir, a rhai gweinidogion o siroedd ereill, a brodyr cyhoeddus yn perthyn i enwadau ereill, yn bresenol ar yr achlysur galarus. Gellir ychwanegu fod un o Aelodau Seneddol Morganwg, sef Mr. Alfred Thomas, yn yr angladd; a darllenwyd llythyr oddiwrth Aelod arall, Mr. Arthur J. Williams, yn datgan ei ofid oblegyd ei anallu i fod yn bresenol, a'i deimladau o fawr barch tuag at yr ymadawedig. Gwnaeth y Barnwr Gwilym Williams ohirio ei Lŷs am y diwrnod, fel ag i allu bod yn y claddedigaeth. Nis gallwn hefyd lai na chrybwyll caredigrwydd Mr. E. W. Evans, Dolgellau, yn dyfod bob cam i Donyrefail i wneuthur adroddiad llawn o'r angladd, yr hwn a ymddangosodd yn y rhifyn o'r *Goleuad* am Chwefror y 19eg. Am 1 o'r gloch wrth y tŷ, darllenodd y Parch. Moses Williams, Aberafon, gyfran o'r Ysgrythyr, a gweddiodd y Parch. Moses Thomas, Resolven, a chanwyd yr emyn—

"Enaid cu, mae dyfroedd oerion."

Yna symudodd yr orymdaith tua'r capel. Nis gallai "y bumed ran o'r gynulleidfa" fyned i mewn i'r capel. Arweiniwyd y gwasanaeth gan y Parch. Dr. Saunders, Abertawy, a threfnwyd i'r rhanau dechreuol yn unig i gymeryd lle yn y capel, a bod yr anerchiadau i'w traddodi y tu allan. Yn y capel ar ol canu darllenodd y Parch. Evan Williams, Glynogwr, Salm, a gweddiodd y diweddar Barch. Edmund David, Pontypridd, yn hynod briodol ac effeithiol; darllenwyd llythyrau Canon Howell a Mr. Arthur J. Williams, a chanwyd *Requiem* Dr. Joseph Parry gan y cantorion. Yna aethpwyd allan o'r capel, a thraddodwyd anerchiadau i'r gynulleidfa fawr gan y Parchn. W. Williams, Abertawy; William John, Penybont; T. Rees, Merthyr; John Morgan Jones, Caerdydd; a William James, Aberdâr. Yr ydym yn dyfynu rhai o'r sylwadau. Dywedodd Mr. Williams: "Cefais Mr. Evans yn arweinydd a chyfarwyddwr anwyl yn more fy oes. O'i

law ef y derbyniais y cymundeb gyntaf, ac mi gofiaf byth y sylw a wnaeth y pryd hwnw. Yr oeddym yn sefyll yn haner cylch o amgylch y pwlpud, ac yntau yn dyfod heibio i ni; a phan y daeth ataf fi fe ddywedodd—'Fe ddywedir mai y peth mwyaf anrhydeddus mewn bod, yw bod yn hen ddysgybl i Iesu Grist. Pa fodd y gall dyn ddyfod yn hen ddysgybl i Iesu Grist? Dechreu yn ieuanc, dechreu yn ieuanc.' Yr oedd Duw wedi cynysgaethu Mr. Evans uwchlaw dim un a welais i erioed â gallu i daro tân. Ac yr oedd weithiau yn dân mawr. Byddai yn myned yma ac acw yn ei bregeth, i fyny ac i lawr, ar draws ac ar hyd, ac yn troi yn ol ac yn mlaen; ond cyn y diwedd fe darawai y tân, a gallech weled cyn hir ddagrau yn rhedeg dros ruddiau yr holl gynulleidfa, ac yntau yn lledu ei freichiau, ac yn gwaeddi mewn hwyl orfoleddus—'Mawl iddo yn dragywydd.'" Dywedodd Mr. John—"Efengyl ar dân oedd ganddo. Nid wyf yn gwybod am neb yn y wlad wedi glynu mor llwyr wrth yr efengyl yn ei symylrwydd a'r hybarch dad yr ydym yn ei gladdu heddyw. Dau begwn mawr ei weinidogaeth dros ei oes oedd pechadur colledig a Cheidwad ar ei gyfer; ac nid oedd yn teimlo ei fod wedi cyraedd ei amcan trwy ei weinidogaeth heb gael y ddau yna i gyfarfod â'u gilydd. Ni gawsom ddyn yn Mr. Evans. Mae crefydd yn Morganwg yn fwy dyledus i'w weinidogaeth nag un dyn arall a gafodd erioed. Fe bregethodd, ac fe fu fyw i bregethu, ac nid yn pregethu i fyw. Nid oedd yn llenor, ond yr oedd yn bregethwr; nid oedd yn fardd, ond yr oedd yn bregethwr." Mr. Rees a ddywedodd—"Yr oedd Mr. Evans yn ddyn annghyffredin. Yr oedd ganddo yr athrylith i bregethu yr efengyl—wedi ei greu i bregethu. Yr oedd yn ddyn o graffder ac yni annghyffredin; yn meddu ar lawer o urddas, ac yn enill llawer o serch. Nid hawdd yw cadw urddas ac enill serch, oblegyd y mae y naill yn fynych yn lladd y llall; ond yr oedd Mr. Evans yn cyfuno y ddau." Mr. J. Morgan Jones a adroddodd adgof am ei dynerwch tuag ato ef pan yn ei arholi cyn dechreu pregethu, ac yna, yn mysg

pethau ereill, dywedodd—"Un o'r pethau amlycaf yn ei gymeriad oedd ieuenctyd parhaus ei ysbryd. Yr ysbryd hwn a'i cadwodd yn ddiwygiwr gwladol a chrefyddol hyd y diwedd. Mabwysiadai bynciau newydd yn barhaus, ac yr oedd yn gymaint o ddiwygiwr ag erioed pan fu farw." Mr. William James a gyfeiriodd at boblogrwydd Mr. Evans, a dywedai y rhaid ei fod "o deilyngdod anarferol, onite buasai wedi ei oroesi. Yr oedd efe yn hoff bregethwr y genedl yn oes y tadau, y rhai oeddynt oll wedi ei ragflaenu. O'r oes nesaf ati y mae rhai yn aros, ond y rhan fwyaf a hunasant, ac yr ydym wedi derbyn tystiolaeth o'u hedmygedd hwy o hono. Mae llu o'r wyrion yn y weinidogaeth yn bresenol, ac y mae eu barn hwythau am dano yn cael ei datgan yn y geiriau ysbrydoledig—'Fy nhad, fy nhad, cerbyd Israel a'i farchogion.' Yr ydym ninau yma yn gynulleidfa fawr o'r orwyrion, ac o'r tu ol i ninau y mae tyrfa o or-orwyrion yn sefyll, âg un llef yn dywedyd—'Oni wyddoch i dywysog ac i ŵr mawr syrthio heddyw yn Israel?' Wele bump tô o weinidogion yr efengyl, yn cynrychioli pump tô o flaenoriaid ac aelodau a gwrandawyr y Methodistiaid Calfinaidd, yn unfryd unfarn am deilyngdod ei boblogrwydd, ac am ei ddefnyddioldeb mawr; yn cyflwyno teyrnged o barch i'w goffadwriaeth, ac o ddiolchgarwch i Dduw am y rhodd werthfawr a gafodd y Cyfundeb ynddo ef. Anhawdd penderfynu pa le yr oedd cuddiad ei gryfder. Diau fod elfenau lawer yn myned i gyfansoddi nerth ei weinidogaeth. Un elfen amlwg iawn ynddi ydoedd ei bod yn llawn o'r natur ddynol drwyddi oll. Duwinyddiaeth y Beibl oedd ei dduwinyddiaeth, boed Arminiaeth neu Galfiniaeth fel y dygwyddai. Trwy ei graffder naturiol i ddeall ei gynulleidfa, cyflymder ei feddwl a'i deimlad i ddyfod yn agos ati, pertrwydd ei ddywediadau, a threiddgarwch melusder ei lais, medrai yru gwirioneddau yr efengyl gyda deheurwydd diail i galonau a chydwybodau ei wrandawyr." Ar ol yr anerchiadau, darllenwyd ychydig o linellau barddonol priodol gan y Parch. W. Parry (B.), Pontypridd, a gweddiodd y Parch.

Dr. Cynddylan Jones. Ar lan y bedd gweddiodd y Parch. Ezekiel Thomas, a rhoddwyd cyfarchiad byr gan y Parch. Lewis Jones, Pentre; dywedwyd ychydig eiriau gan Mr. Howell Lewis, blaenor hynaf eglwys Tonyrefail, a diweddwyd y gwasanaeth gan Dr. Saunders, yr hwn hefyd a draddododd bregeth yn yr hwyr i gynulleidfa fawr yn nghapel Tonyrefail.

Derbyniodd y teulu luaws o lythyrau yn amlygu cydymdeimlad, a rhai o honynt yn cynwys desgrifiadau gwerthfawr o'n câr ymadawedig. Yr ydym eisioes wedi gosod i fewn lythyr yr Archddiacon Howell. Yr ydym yn cyflwyno i'n darllenwyr ddau lythyr arall, y naill wedi ei ysgrifenu gan y Parch. John Owen, M.A., Cricieth, a'r llall gan y Parch. Dr. Hughes, Caernarfon. Dyma lythyr Mr. Owen: "Yr oedd yn bryd i'ch anwyl dad newid ei wisg bellach, ac yr oedd yn bryd iddo gael adnewyddiad mewn bywyd. Pwy a gasâi ddiogi neu beidio gweithio yn fwy? a phwy a hoffai bregethu yn fwy? ac eto yr oedd ei nerth wedi pallu, a dim gobaith ganddo fod yr eryr i gael adnewyddu ei ieuenctyd yn y fuchedd hon. Onid oedd ef yn aeddfed iawn er ys blynyddau? ac yr oedd erbyn hyn yn myned yn *curiosity* fel *fossil*, a dynion yn myned i'w weled am ei fod yn hen!! 'Doedd y peth ddim yn gweddu William Evans, Tonyrefail, o gwbl. Ac eto mae yn chwith ei golli. Yr oedd yn meddu ar bersonoliaeth yn perthyn iddo ei hun yn hollol, a hwnw yn dyfod i'r golwg o hyd, o hyd, ac yn mhob peth ag a ddywedai ac a wnai. Yr oedd fel arian byw yn aflonydd yn barhaus, ond i ba gyfeiriad bynag y symudai, fel peth byw, ac yn gryno, a phob amser byddai *glint* yr arian arno. Pa beth a wnaech gyda'ch tad yn fyw, wedi colli ystwythder ei aelodau, clocheidd-dra ei lais, a gloewder ei lygaid? Buasai yn ddigon i ddwyn pruddglwyf arnoch. Gobeithiwn y cadwn ein nodweddion personol dibechod yn y nefoedd. Os gwnawn, bydd gwaith neillduol ar eu cyfer. A pha beth yn y nefoedd fydd ei waith ef? Pe byddai yno eneidiau pruddglwyfus, neu angen deffro rhai yn y boreu, buaswn yn barod i'w gynyg i

sirioli y brodyr prudd, ac i ddeffro rhai cysglyd *wrth fyned at ei waith.* Ond llawer, llawer uwch fydd pethau yno. Fel y perlau yn nghoron Prydain, pan y gwisgir hi gan y Frenines —yn fflachio goleuni yn ol symudiadau y pen sydd yn llywodraethu y deyrnas hon—bydd yntau yn ddiau â'i holl adnoddau yn arddangos meddwl a chyfeiriad ewyllys yr Hwn sydd yn cynal pob peth trwy air ei nerth. Wel, cewch lawer o fwynhad wrth adgofio ei fywyd—wrth feddwl am yr hyn a fu, a dychmygu yr hyn ydyw." Ysgrifenodd Dr. Hughes ei lythyr ar y 13eg o Chwefror, ac y mae yn darllen fel hyn: "Anwyl Frawd,—Nis gallaf lai nag anfon llinell atoch i fynegu fy nghydymdeimlad â chwi ar farwolaeth eich anwyl dad. Yr oeddych yn dysgwyl hyn er ys talm; ond nid yw eich galar ddim yn llai, ond feallai yn fwy. Cawsoch fraint fawr o gael y fath dad,—un mor hynaws, mor ddoeth, mor alluog, ac mor dduwiol. Bu yn seren ddysglaer yn ei ddydd, a chafodd hir-ddydd i wasanaethu Duw a'i achos yn Neheudir Cymru. Yr oedd yn un o'r cewri gynt, wedi ei gynysgaethu yn helaeth gan natur â meddwl a dawn i fod yn arweinydd yn mysg ei frodyr, a'r doniau naturiol wedi eu prydferthu a'u heneinio âg olew gras. Y Nefoedd fyddo yn hael wrth ein pwlpud yn yr oesoedd nesaf, a derbynied y rhai egwan sydd yn aros ar y maes ddeuparth o ysbryd yr Hen Donyrefail. Fy nghofion goreu atoch fel teulu.—Ydwyf, Anwyl Frawd, yr eiddoch yn gywir, J. HUGHES."

Heblaw y deyrnged a dalwyd i'w goffadwriaeth yn ei gladdedigaeth, gwnaeth y wasg ei rhan hefyd i barchu y gweinidog ymadawedig. Cyhoeddwyd braslun cynwysfawr o hanes ei fywyd yn y *South Wales Daily News* y diwrnod ar ol ei farwolaeth; a thrachefn adroddiad o'r angladd ar yr 11eg o fis Chwefror, yr hyn a wnaed hefyd yn mhapyr dyddiol arall Caerdydd. Yr wythnos ddilynol cyhoeddwyd amryw o erthyglau coffadwriaethol, yn y *Goleuad*, *Tarian y Gweithiwr*, a phapyrau lleol a thaleithiol ereill. Ac fe alwyd sylw at yr amgylchiad yn mhapyrau Llundain, megys y

*Christian World*, a'r *Christian Herald*, a'r *Illustrated London News*, gyda darlun o "Batriarch y Pwlpud Cymreig," a byr gofnodiad o'i fywyd. Ymddangosodd ysgrifau dyddorol o waith y Parch. Daniel Williams, Llwynhendy, yn y *Cylchgrawn* am y flwyddyn hon (1891). Y mae gan Mr. Wliliams fantais dda i allu ysgrifenu am Mr. Evans, gan iddo gael ei godi yn ardal Tonyrefail, a bu llawer o gymdeithas ddedwydd rhyngddynt, ac yr oedd y naill yn mawr hoffi y llall. Y mae Mr. Williams yn profi ei fod yn ei adnabod yn dda, ac yn gwerthfawrogi ei deithi neillduol. Ar ol gwneuthur sylwadau rhagorol ar gysylltiad y dyn a'r pregethwr, dywed :—"Felly y gellir dyweyd am y gwrthddrych sydd dan ein sylw; yr oedd pob peth y dyn yn d'od allan yn y pregethwr. Ni ddygwyddodd i ni wrando neb erioed yr oedd natur a gras wedi ei gymwyso mor amlwg i bregethu a Mr. Evans. Nis gellir dyweyd fod dim *gwneud* o'i gwmpas. Yr oedd wedi ei wneud gan natur yn rhy fywiog a chyflym ei gyfansoddiad i fod dan lywodraeth y mesurau caeth o gwbl." Y mae ysgrif wir alluog hefyd yn y *Drysorfa* am fis Ebrill, gan y Parch. William James, Aberdâr. Ar ol rhoddi braslinelliad o hanes ei fywyd, y mae Mr. James yn cyflwyno dadelfeniad o'i gymeriad gweinidogaethol. Yr ydym yn dyfynu y prif sylwadau: "Dichon fod elfenau amrywiol yn myned i gyfansoddi nerth ei weinidogaeth. Yn ol barn un tra medrus i ddarllen cymeriad, nodweddiadau neillduol ei weinidogaeth oeddynt, 'Craffder, cyflymder, a charedigrwydd:' a diameu fod y rhai hyn yn amlwg iawn yn ei bregethu. Wrth fyned yn mlaen atynt, goddefer i ni grybwyll ychydig o ragoriaethau ereill oedd, yn ol ein tyb ni, yn ei hynodi. Yr oedd yn hollol *naturiol.* Pe buasai wedi cael yr addysg uchaf a'r gwrtaith cymdeithasol helaethaf, yr oedd ynddo ddigon o hynodrwydd a nerth i gadw ei nodweddion personol. Yr oedd mor naturiol a phert a'r glyn hardd, ac yn cyfranogi i ryw fesur o nerth yr ystorm. Yr oedd yn debyg i gawod sydyn o wlaw taranau yn nghanol hâf, pan nad oes ond adlewyrchiad y fellten i'w

ganfod, a murmur y daran i'w glywed o bell, a'r haul yn pelydru yn fuan trwy y dafnau, ac enfys y cyfamod yn ymddangos gyda brys yn y cwmwl i adgofio yr addewid. Mynych y ceir dynion o alluoedd naturiol annghyffredin, na chawsant addysg uchel, yn agored i fod yn arw eu dull ac yn ddiffygiol mewn chwaeth; ond anhawdd fuasai cyfarfod â neb mwy gofalus i *gadw yn mhell oddiwrth y trwsgl a'r annghoeth* nag ef. Yr oedd ei deimladoldeb tyner, byw, a'i burdeb moesol, yn fwy na gwneud i fyny am ddiffyg gwybodaeth o'r mân reolau sydd yn llywodraethu chwaeth goethedig. Yr oedd ei grefydd wedi rhoddi iddo syniadau uchel a dyrchafedig am fywyd, ac wedi ei wneuthur yn foneddwr trwyadl a phur mewn teimlad ac ymddygiad. Mewn *yni* a *gweithgarwch* yr oedd yn ddiarebol. Er ei gymwysderau naturiol, nid heb ymdrech a llafur caled yr enillodd y safle a gyraeddodd yn y pwlpud Cymreig. Ganwyd ef yn *bregethwr;* yr ydoedd wedi ei lunio gan ei Greawdwr i bregethu yr efengyl i'r Cymry, ac i'r oes y bu fyw ynddi. Nid oes rhaid dyweyd fod ganddo gorph cryf; yr oedd hefyd yn gymesurol a lluniaidd iawn, a phob ystum ac osgo yn berffaith o dan lywodraeth, ac at wasanaeth parod y pregethwr. Meddai wynebpryd yr hoffai yr arlunydd aros i edrych arno, hardd, byw, a llawn mynegiant, a'r fath gymundeb rhyngddo â'r galon, fel yr oedd yn arddangos ei gwahanol deimladau gyda chyflymder y fellten. Yr oedd ganddo lais diail. Dyma ddesgrifiad cerddor o hono: 'Yr oedd ganddo lais o dôn lawn, gyfoethog, feddal addfed, cyweirsain uchel *(tenor voice)*, heb y gradd lleiaf o'r pruddglwyfus ynddo, ond rhuthr o fawl yn gosod y cwbl yn wenfflam.' Mewn *cyflymder* yr oedd fel yr ewig. Megys ei gyflymder, felly ei *graffder*. Meddai *galon fawr*, serchog, gariadlawn; a thueddir ni i gredu, wedi y cwbl, mai nerth penaf ei weinidogaeth ydoedd hyn, sef cariad angerddol at Dduw a dyn. Barnai un oedd yn ei adnabod yn dda, mai y cariad a'r serchogrwydd hwn ydoedd y rheswm am *lydanrwydd* ei weinidogaeth. Dichon ei fod yn

gywir. Cyhuddid ef weithiau o fod yn rhy lydan, ac oni bai ei gallineb cyflym, os nad ei gyfrwysdra, buasai wedi cael ei alw i gyfrif a'i ddal yn euog. Gofynai ceidwaid y ffydd iddo weithiau pa un ai Calfin ynte Armin ydoedd? 'Fel bo'r testyn' ydoedd ei ateb. Ei hoff bwnc oedd galwedigaeth fawr, eang, rasol, gyffredinol yr efengyl, a gwnai gymaint a nemawr tuag at iddi fod yn 'effeithiol' hefyd. Tynai ei dduwinyddiaeth yn *uniongyrchol o'r Beibl*. *Ochr ddynol* Iachawdwriaeth y Beibl hefyd a astudiai. *Dyn* oedd prif destyn ei efrydiaeth; dyn fel pechadur, a dyn yn ei berthynas â Duw ac â thragywyddoldeb, ond dyn a dyn yn ei naturioldeb, ei ryddid, a'i gyfrifoldeb fel deiliad llywodraeth foesol. Y dydd olaf yn unig fedr ddatguddio y gwaith mawr a wnaeth y nefoedd trwyddo ar genedl y Cymry."

Ar y 24ain o Chwefror, 1891, ysgrifenodd y Parch. W. Lewis, Pontypridd, at ein tad fel y canlyn:—"Anwyl Mr. Evans,—Pasiwyd yn y Cyfarfod Misol diweddaf bod cais i'w ddanfon at deulu y diweddar hybarch W. Evans, Tonyrefail, yn dymuno arnynt i ddwyn allan cofiant ein hanwyl hybarch dad heb oedi. Y mae y Cyfarfod Misol yn danfon cydymdeimlad llwyraf â'r teulu yn yr amgylchiad." Yn y Gymdeithasfa Chwarterol a gynaliwyd yn Aberystwyth, Mawrth 10fed, 11eg, a'r 12fed, "gwnaed sylwadau serchog a thyner am y diweddar Barchedig William Evans, Tonyrefail, yr hwn yn ei ddydd a gyfrifid yn deilwng yn un o brif bregethwyr y Dywysogaeth, ac a fu farw yn ymyl 96 mlwydd oed, wedi bod yn weinidog ordeiniedig am 65 mlynedd. Cynygiodd y Parch. W. James, Aberdar, eiliodd y Parch. T. Levi, a phenderfynwyd - Ein bod yn datgan ein diolchgarwch i'r nefoedd am gymwyso y Parch. William Evans i'r weinidogaeth, a'i addurno â'r fath ddoniau dysglaer, ac am yr amddiffyn dwyfol a fu drosto am gynifer o flynyddoedd; a'n bod hefyd yn datgan ein cydymdeimlad mwyaf llwyr â'i berthynasau galarus, ac yn neillduol â'i weddw, ac yn erchi i'r Ysgrifenydd gyflwyno ein teimlad iddynt trwy lythyr" (y Cylchlythyr).

Drachefn, yn y Gymanfa Gyffredinol yn Nhreforis, gwnaeth y Llywydd Ymadawol, y Parch. Daniel Rowlands, M.A., Bangor, ar ddechreuad y gweithrediadau, gyfeiriad teimladwy a pharchus at enw William Evans, Tonyrefail, fel un o'r gweinidogion a symudwyd er y Gymanfa flaenorol, a gwnaeth y Gymanfa ei hun yn garedig ganiatau i'r teulu i osod y darlun o hono a ymddangosodd yn y *Drysorfa* am 1878 yn ei Gofiant.

Ac yn awr, wrth ddwyn y cofiant i derfyniad, nid oes genym ond datgan ein hyder fod gan y darllenydd syniad lled gywir a chyflawn am gymeriad y gwrthddrych fel dyn, fel Cristion, ac fel gweinidog yr efengyl. Gellir yn sicr ddyweyd am dano fod ynddo grynhoad o ragoriaethau ag oedd yn ei wneuthur yn dra dyddorol, ac yn un nas gall y sawl oedd yn ei adnabod byth ei annghofio. Yr oedd yn cyfuno y cryf a'r tyner: yr oedd mor gryf a gwrol, fel na chaffai neb sangu arno; ac yr oedd mor dyner a charedig, fel os deuai cardotyn heibio yn gofyn am ychydig fara, gorchymynai i roddi ychydig gaws a cheiniog hefyd iddo. Yr ydoedd mor dyner fel na laddodd y wenci a ddaliwyd ganddo ar y buarth ag oedd wedi dinystrio cynifer o wyau a mân-gywion, pan y trodd y creadur bychan ar ei gefn a llefain am ei fywyd; ond yr oedd mor gryf, fel y dywedai ei feddwl yn ddidderbyn wyneb, ac y gweinyddai gerydd lem pan fyddai angen. Yr oedd yn gynil ac yn haelionus; yr ydoedd mor gynil, fel yr oedd pob math o wastraff yn boen iddo, ac yr oedd yn dra gofalus yn mhob peth; ac yr oedd ar yr un pryd yn gyfranwr da at achos crefydd; ac os cwrddai â rhywun yn dywedyd yn achwyngar —"rhoi, rhoi o hyd," ei ateb ydoedd—"na, derbyn o hyd, a rhoi yn awr ac eilwaith." Meddai lawer o annibyniaeth ysbryd, ac eto yr oedd yn llawn gostyngeiddrwydd. Yr oedd yn "gwybod ei faint," chwedl yntau; ond ni fynai ddyrchafu ei hun. Ymgadw yn ol yn hytrach a wnai efe; yn lle myned i'r sedd fawr yn y Gymdeithasfa, eistedd yn mhen draw y capel; ac un tro dywedodd Mr. Thomas Richard, Aber-

gwaen, gyda'r dôn awdurdodol oedd yn nodweddiadol o hono ef—" Dywedwch wrth y gŵr â'r gwallt crych acw am ddyfod yn mlaen yma." Yr oedd yn fyr heb fod yn frysiog yn y cyflawniad o bob dyledswydd grefyddol, a phob gwasanaeth gweinidogaethol. " Peth annoeth iawn," meddai, " yw darllen penod faith a gwneuthur gweddi hir yn y ddyledswydd deuluaidd. Ychydig o adnodau neu Salm, a gweddi fer yn llawn ymdrech meddwl." " Nid pob un sydd yn gallu darllen dwy adnod," meddai dro arall ar ol i berthynas iddo arwain y gwasanaeth teuluaidd gyda byrder. Ac eto ni byddai un amser yn brysio; byddai mewn brys i ddechreu pob gwasanaeth yn brydlawn, ond yn y cyflawniad o hono ni welid yr amlygiad lleiaf o frys. Ac hefyd yr oedd amrywiaeth dymunol yn nodweddu ei wahanol gyflawniadau. Clywsom ef ugeiniau, os nad canoedd, o weithiau yn gofyn bendith o flaen bwyd, ond ni fyddai byth yn hollol yr un fath. Yr ydym eisioes wedi rhoddi rhai engreifftiau. Dyma ddwy arall sydd yn aml yn swnio yn ein clustiau wrth gofio am dano—" Derbyn ein diolch am ein byrddau llawnion, a maddeu i ni ein beiau mawrion, er mwyn Iesu Grist." " Diolch i ti am dy holl drugareddau, sancteiddia ein meddyliau, a maddeu ein beiau, trwy Iesu Grist." Yr oedd hefyd yn cyfuno y parchedigaeth dyfnaf i goffadwriaeth y tadau, a'r teimladau mwyaf serchog tuag at bobl ieuainc. Pan y sylwyd wrtho un tro nad oedd y tadau yn fedrus i gynllunio a gwneuthur trefniadau, atebodd—" Fe ddichon hyny, ond yr oedd eu hysbryd yn rhagorol." Ond er cymaint ei edmygedd o'r cewri fu gynt yn ein gwlad, yr oedd yn hollol gartrefol gyda'r gweinidogion oedd yn llawer ieuengach nag ef, ac wrth ei fodd yn gweled eu hamcan a'u hymdrech a'u llwyddiant gyda'r achos, ac yn enwedig wrth eu gwrandaw yn pregethu. Cafodd ef fraint na chafodd ond ychydig, ac nas gall ond ychydig ei dysgwyl, sef byw yn ddigon hen i weled ei blant, a'u plant hwythau, a'u plant hwythau drachefn—nid ydym yn golygu mewn ystyr deuluaidd (er o

annhraethol ddaioni Duw gellir cymeryd yr ystyr deuluaidd hefyd), ond mewn ystyr llawer eangach,—yn dwyn yr arch; ac yr oedd yr olwg ar eu llafur a'u llwyddiant yn llonder o'r mwyaf iddo. Ac os cerddai hanes ato yn dangos rhagoroldeb cymeriad a ffyddlondeb ei frodyr ieuainc, byddai megys pelydryn o heulwen yn goleuo ei lwybr i lawr i'r glyn. Hysbyswyd ef am un brawd o bregethwr oedd wedi derbyn cenadwri o le neillduol yn dyweyd na ddysgwylid ef yno, oblegyd nad oedd ganddynt ddim i dalu iddo am ei wasanaeth, ac iddo ofyn—"A oes acw ddynion?" a phan yr atebwyd—"Oes, mae acw ddynion," dywedodd yntau—"Arian neu beidio, gan fod acw ddynion, mi ddeuaf i bregethu." Nis gallai dim fod yn fwy boddhaol i Mr. Evans na'r hanes hwn, a'r tro nesaf y gwelodd y brawd, dywedodd wrtho—"Dyn y'ch chwi, dyn o gymeriad," gan ail-adrodd y geiriau gyda phwyslais a brwdaniaeth. Un Sabboth yr oedd y gweinidog, gŵr ieuanc, ag oedd yn pregethu yn nghapel Tonyrefail yn cynorthwyo yn nghyfarfod blynyddol y Bedyddwyr yn y prydnawn, ac yna aeth i Gaercurlas i gael tê. "Buoch chwi yn pregethu yn nghapel y Bedyddwyr?" "Naddo i, syr." "O'ech chwi ddim yno, ynte?" "O'wn, syr." "Fe ddywedodd y wraig eich bod yn pregethu." "Na, dyweyd tipyn o'wn i, syr." "Ië, dyweyd tipyn, da iawn." Pan y caffai rhywbeth tarawiadol, neu "hynod," chwedl yntau, mewn dyn ieuanc, yr oedd yn llawen iawn. Difyr a dyddan ydoedd, ac ar yr un pryd nid oedd y dwysder a'r sobrwydd sydd yn gweddu i weinidog yr efengyl byth yn ymadael oddiwrtho. Ac yr oedd yn gallu manteisio ar bob cyfleusdra mewn modd dedwydd i ddyweyd rhyw air a fyddai yn tueddu er daioni. Ar y 1af o Ionawr un flwyddyn, cyfarchwyd ef yn y dull arferol—"Blwyddyn newydd dda i chwi, Mr. Evans." "Tragywyddoldeb da i chwithau," ydoedd ei ateb. Dyma engraifft arall yn egluro y ddawn hon ynddo: "Many years ago a friend accompanied him from the Llandaff Station over the Llandaff Bridge. When they had crossed the

bridge, he suddenly stopped, as was his wont to do, and in his quick way said—'Dyna chwi wedi d'od â fi dros y bont; fe ddaw adeg pan y bydd rhaid i ni fyned dros afon heb bont arni, ac fe fydd yn rhaid myned *drwy* hono.'—(*Monthly Tidings*)." Ei ffordd ef i gyfuno y naturiol a'r ysbrydol, yr amserol a'r tragywyddol, ydoedd trwy ddyweyd—"Byddwn fyw fel pe byddem i fyw byth, a byddwn fyw fel pe byddem i farw yfory." Digonwyd ef â hir ddyddiau. Llawer a anwyd flynyddoedd ar ei ol ef, ac a godasant i leoedd amlwg, ac a wnaethant waith mawr yn eu dydd, ond a'i ragflaenasant ef lawer o flynyddoedd, a hyny ar ol gwasanaethu eu cenedlaeth am dymorau meithion. Nid oedd yr HEN BREGETHWYR, i'r rhai y daeth efe yn gydweithiwr, ond dynion ieuainc pan y ganwyd ef. Yr oedd ychydig yn henach na Mr. David Howell, Mr. Henry Rees, a Mr. John Jones, Talsarn. Yr oedd yn priodi y flwyddyn y ganwyd Mr. Joseph Thomas, ac yn dechreu pregethu y flwyddyn y ganwyd Mr. William Howells, Trefecca. Wrth edrych dros y *Dyddiaduron* am y blynyddoedd diweddaf, yr ydym yn cael hanes marwolaethau amryw bregethwyr edrychid arnynt fel yn mlaen mewn dyddiau, ac wedi bod am amser maith yn y gwaith, ond wedi eu geni ar ol iddo ef gychwyn gyda'r weinidogaeth. Eithr efe a gafodd fwy bendith na hir ddyddiau. Dangosodd yr Arglwydd iddo ei iachawdwriaeth, trwy yr addysg grefyddol a roddwyd iddo gan ei dad, trwy yr argyhoeddiad dwfn a'i gwnaeth yn greadur newydd, trwy y weinidogaeth oedd yn ei mwynhau mor fawr o'i ieuenctyd, trwy yr amddiffyn a fu dros ei gymeriad dros ei holl fywyd, trwy y gallu a roddwyd iddo i fyfyrio ar gyflawnder yr efengyl a'i chymwysder fel trefn i godi pechaduriaid o'u trueni, ac i draethu ei darpariaethau gogoneddus i'w gyd-wladwyr, a thrwy y gynaliaeth a'r nerth a'r cysur ysbrydol a brofodd, yn arbenig yn ei flynyddoedd diweddaf, a thrwy yr ymadawiad tawel a chyflawn o dangnefedd a ganiatawyd iddo. Ac nid oes amheuaeth yn meddwl neb ei fod heddyw yn edrych ar iachawdwriaeth

yr Arglwydd yn nghyflawnder ei gogoniant mewn gwynfyd pur, ac yn dragywyddol ieuanc fel yr angelion. Buom yn gweled pob peth yn chwithig am lawer o ddyddiau ar ol ei farwolaeth, wrth feddwl bod y byd hwn hebddo. Ac y mae ein hiraeth yn cael ei adnewyddu ar ein gwaith unwaith eto yn ymadael âg ef, wrth orphen ein teyrnged hon o gariad i'w goffadwriaeth. Yr ydym yn terfynu trwy ddifynu geiriau y Parch. Lewis Jones, Pentre, ar lan ei fedd :—" Yr oedd Mr. Evans o gymeriad pur, ac o ysbrydolrwydd uchel, a rhoddai bwys neillduol ar gymeriad da. Meddai ar ddoniau naturiol o radd uchel ; ond y mae yn sicr na fuasai ei ddylanwad ar y Dywysogaeth yr hyn a fu, a'r hyn ydyw, oni bai am ei gymeriad dilychwyn. Rhoddai Mr. Evans le mawr i bwysigrwydd cymeriad da yn nglŷn âg ymdrechion o blaid teyrnas yr Arglwydd Iesu. 'Yr hyn,' meddai ef, 'yw yr ebill i'r hoelen, yw cymeriad da i'r ymgais i wneud daioni.' Bu cryman Mr. Evans mewn gwaith am ugeiniau o flynyddoedd, a llwyddodd i'w gadw mewn awch ac heb yr un bwlch ynddo. Blin genym ein bod dan rwymau i'w gladdu : ond y mae hyny o gysur genym ni—'chleddir byth effeithiau ei weinidogaeth na dylanwad iachus ei gymeriad. Yr oedd yn ymwybodol o awydd cryf, ac o ymgais gyson i fyw yn dduwiol, fel y gwelir oddiwrth y sylw a wnaeth mewn Cyfarfod Misol yn Llantrisant tua phymtheg mlynedd yn ol—'Pe cawn ddechreu byw eto, nis gwn am ffordd well i fyw na'r ffordd wyf wedi byw ; os oes rhywbeth yn y sylw, cymerwch ato ; os nad oes, gadewch ef yn y man yna.' Nis gallaf grynhoi a gosod allan fy meddyliau mewn geiriau mwy cymwys nag a geir mewn englyn a gyfansoddwyd gan Mr. R. Jayson, Pencoed, ar y ffordd i'r angladd heddyw :—

'Gwir weinidog o'i hynodion—heddyw
Gleddir dan ei goron ;
O'i loesau aeth i lŷs Ion,
Yn nghôl un o'i angylion.' "

# MYNEGAI.

Aberhonddu, Cymdeithasfa yn: adgofion y Parch. T. Rees 184
Aberteifi, Cymdeithasfa 1825, 85
Aberystwyth, Cymdeithasfa 1825, ... ... ... 70
Achos Merthyr ... ... 117
Adgofion am yr Hen Bregethwyr ... ... ... ... 276
AGORIAD CAPELAU :—
Aberafon ... .. ... 151
Aberaman ... ... ... 202
Aberdulais ... ... 240
Abercynffig .. ... 173
Brynsadler ... ... 108
City-is-coed ... ... 109
Cefn ... ... ... 115
Cwmbychan ... ... 169
Cwm, Aberdâr ... ... 211
Canton, Caerdydd ... 233
Croesfan ... ... ... 244
Dinas, Rhondda ... 110, 202
Docks, Caerdydd ... ... 233
Fforddlâs .. ... ... 61
Ffynon Taf ... ... 192
Glynogwr ... ... ... 59
Glanybad ... ... ... 170
Graig, Merthyr ... ... 202
Gyfeillon ... ... ... 204
Graig, Pontypridd ... 210
Gilfach Goch ... ... 245
Llanilltyd Fawr ... ... 62
Llantrisant ... ... 71
Llansawel ... ... 143, 203
Llangynwyd ... .. 193
Llandaf ... ... ... 239
Llysyfronydd ... 128, 233
Llwyni ... ... ... 173
Llwydcoed... ... ... 192
Llwynbrwydrau ... ... 193
Llwynpia ... ... ... 298
Merthyr ... ... 62, 150
Mountain Ash ... ... 229
Pontfaen ... ... ... 84
Penmarc ... ... ... 128
Pontypridd ... ... 144
Penclawdd... ... ... 151
Pentyrch ... ... 170, 241
Pontrhydyfen ... ... 194
Penarth ... ... ... 240
Pil ... ... ... ... 241
Rhiwceiliog ... ... 210
St. Brid ... ... ... 62
Salem ... ... ... 115
Soar ... ... ... 150
St. Athan ... ... ... 192
Spelter ... ... ... 210
Tregolwyn... ... ... 115
Trefforest ... ... ... 181
Trelales ... ... ... 213
Trehill ... .. ... 274
Ynysfach ... .. ... 62
Ystalyfera ... ... ... 234
Anrheg gan Ddirwestwyr Dowlais ... ... ... 212
Areithiau Dirwestol... 159, 163

Bala, Cymdeithasfaoedd 76, 107, 147

Bevan, Parch. Hopkin ... 46
Birmingham a Bilston ... 214
Bristol ... 67, 90, 127, 146, 154, 190, 203

Cadwgan, Howell a Margaret 34
Caerfarchell, Cymdeithasfa... 106
Caerfyrddin, Cymdeithasfa 83, 175
Caerffili, Cymdeithasfa ... 58
Capeli Morganwg yn 1818 ... 50
Casgwys, Cymdeithasfa ... 141
Collena, teulu y ... 21, 70, 242, 273
Cofnodau Cyfarfod Misol Morganwg 97, 109, 115, 126
Creunant, Cyfarfod Misol ... 57
Crughowel, Cymdeithasfa: adgofion y Parch. W. Jones... 200
Cyfarfodydd Pregethu ... 209
Cyflwyniad Darlun: hanes y Cyfarfod ... ... ... 250
Cymanfaoedd Canu .. 289, 297
Cyngorion ar achlysur neillduad gweinidogion 195, 206, 230

Dafydd, Thomas, Pencoed: cyfeiriad ato ... ... 57
Dechreuad Dirwest... ... 155

Edwards, Dr. Lewis: cyfeiriad at 151, 153, 167, 186, 242
Elias, Parch. John: cyfeiriad at ... 90, 115, 132, 147
Evans, David, tad Mr. E. ... 10

Garthgraban .. ... ... 7

Harry, Jenkin ... .. 120
Herbert, Adgofion y Parch. John ... ... ... 191
Heycock, George: cyfeiriad at ... ... ... ... 228
Howells, Parch. Howel, Trehill ... .. ... ... 45
Hughes, Adgofion y Parch. R., Gaerwen ... ... 131
Hughes, Adgofion y Parch. R., Uwchlaw'rffynon ... 123

James, Isaac, o'r Felin 12, 53, 204
James, y Parch. John, Penybont ... 112, 130, 133, 179
James, Parch. Richard ... 46
Jones, Parch. Evan, Casnewydd 31
Jones, Adgofion y Parch. John, Ceinewydd ... ... 107
Jiwbili neillduad Mr. E. i gyflawn waith y weinidogaeth... ... ... ... 291
Liverpool: adgofion y Parch. T. Levi ... ... ... 237
Llanidloes, oedfa hynod yn ... 341
Llundain 89, 122, 145, 170, 211
Llythyrau ... ...304, 305, 314 316, 318, 321
Llywyddiaeth y Gymdeithasfa ... ... ... ... 247

Methodistiaeth Morganwg 50 mlynedd yn ol ... .. 174
Morgan, Parch. Evan, Caerdydd ... ... 127, 148, 193, 213

Nantyglo, Cymdeithasfa ... 149

Pembroke Terrace, Caerdydd 303
Pregethau ... ... ... 341
Pum' Cenedlaeth o Feddygon 307

Rhagat ... ... ... 1
Roberts, Ysgrif gan y Parch. D., Pontfaen ... ... 48

Symmons, Adgofion y Parch. Daniel ... ... 95, 190

Smith, Mr. Robert, Aberafon 171

Talgarth, Cymdeithasfa: sylwadau y Parch. W. Williams ... ... ... 269
Temlyddiaeth Dda ... 274
Trefecca: y casgliad mawr cyntaf at yr Athrofa ... 187
Teithiau Sabbothol Morganwg yn 1818 ... ... 52
Teithiau yn y Gogledd, 65, 72, 106, 130, 147, 215
Thomas, y Parch. Richard 47
Tonyrefail: safle y Pentref.. 6
Tonyrefail, yr ail gapel ... 151
Trysorfa y Gymdeithasfa .. 129

Williams, y Parch. D., Merthyr ... ... 46, 118
Williams, Mr. Edward ... 119
Williams, Parch. Watkin: adgofion ... ... ... 215

Ysgol yr Eryr, Pontfaen ... 25

---

CYWIRIADAU.—Tud. 133, y 9fed llinell o'r gwaelod, darllener *gwrteithiad*, yn lle gorteithiad.

Tud. 303, y 5ed llinell o'r gwaelod, darllener *y 30ain*, yn lle yr 31ain.

ARGRAFFWYD GAN W. JONES, 159, COMMERCIAL STREET, NEWPORT, MON.

BIBLIOTHECA·BODLEIANA

W. JONES,
ARGRAFFYDD,
NEWPORT.